

DO NOT REMOVE
OR
MUTILATE CARD



3 9015 00839 1057



y. meo. werron heo þæt cōriben
þien nliu y mænren uu yndidan.
kryngh heb y. ollienn tæl v yndidan
ugel. Diost heo v krynghu G6z yve
agkell yndidanbe noum. Amoy a

i ena dyneman alkuenethum altad. d
chpfarth goell alkuenethum idag. Alc me
dihet yshobor ef. kryn y krynarchabo
ef shea ym. noumu idag ef. Adyud
qweam agzuc yarth ar gaer. Alc me

Mabinogion

Y

MABINOGION

CYMREIG:

SEF,

CHWEDLAU RHAMANTUS YR HEN GYMRY.

Yn yr Hen Gymraeg, a'r Gymraeg bresenol.



LIVERPOOL :

GYHOEDDWDY GAM ISAAC FOULKES, 18, BRUNSWICK STREET.
1880.

PB
2273
.M3
1880

4-15-41
42601

RHAGYMADRODD.

CYHOEDDWDYD y *Mabinogion* gyntaf gan argraffydd enwog Llanymddyfri—WM. REES, Ysw., Tonn—tywysog yr argraffwyr Cymreig. Er fod rhicai y boneddwr hwnw yn bobl o gyfoeth, ar ei daer ddeisyfiad ef ei hun, rhwymwyd ef yn egwyddorwas yn y gelfyddyd y daeth wedi hynny o gymaint gwasanaeth ac addurn iddi. Ac wedi cwblhau ei brentisiaeth, a bod yn Llundain am ychydig flynyddau yn 'ymberffeithio,' fel y dywedid, efe a ymsefydlodd fel meist argraffydd yn Llanymddyfri—yr hen dref lle bu y Ficer Pritchard yn goleuo *Canwyll y Cymry*, a cherllaw yr hon y mae Llanfair-ar-y-bryn, lle y mae bedd yr Emynydd enwog o Bant y Celyn. Trwy fod Mr. Rees, fel yr awgrymwyd, yn wr o gyfoeth ac yn caru ei gelfyddyd, cystal ag yn anwylo llenyddiaeth ei wlad, prif bleser ei fywyd ydoedd cyfoethogi yr olaf hyd yn nod ar y draul o leihau y cyfoeth arall hwnw; a buasai golwg llawer tlotach ar Lenyddiaeth Cymru yn awr pe na buasai am ei ymdrechion ef o'i phlaid. Tra y treuliodd y nifer buccaf o argraffwyr Cymreig eu hamser a'u llafur i gyhoeddi cyfieithiadau o'r Saesneg, adargraffiadau, a chynyrchion darfodedig y mynud awr. aeth Mr. Rees i drysorfeydd yr oesau gynt am ei ddefnyddiau, gan ddwyn oddiyno a'u doddi mewn dullwedd hardd gerbron y byd darllengar drysorau hanesyddol a llenyddol a roes arbenigrwydd a gwerth i Lenyddiaeth Gymreig yn mysg dysgedigion y byd. Tan enw a nawdd y gymdeithas a elwid yn *Welsh MSS. Society*, efe a gyhoeddodd yr *Heraldic Visitations*, o waith Lewis Dwnn—un o'r llyfrau harddaf a argraffwyd erioed mewn unrhyw iaith; *Iolo MSS.*; *Welsh Saints*; *Liber Llandavensis*; *Meddygon Myddvai*; *Y Mabinogion*; a lluaws eraill; ac y mae yn anhawdd penderfynu pa un i'w edmygu fwyaf yn mhob un o'r llyfrau hyn y wisg hardd a chelfydd y maent ynddi ynte eu teilyngdod llenyddol uchel. Mewn ystyr arianol, bu pob un ohonynt yn golled; ond mewn ystyr anhraethol uwch, buont yn llwyddiant diannheul. Y maent yn gofgolofn ardderchog i'w cyhoeddwr, ac yn engraifft o'r hyn a ddichon arian yn llaw y dyn sydd wedi ei fendithio â phen goleu a chalon dda.

Cafodd Mr. Rees ei gefnogi yn ei ymdrechion llenyddol gan amryw awduron galluog; ac yn ffodus yngymerodd y Bendefiges Charlotte Guest, gwraig ieuanc Syr John Guest, o Ddowlais, â golygu, a chyfieithu i'r Saesneg, y MABINOGION hyn. Yr oedd yn anturiaeth aruthrol i awdures ieuanc, yn enwedig pan gofier nad oedd yr awdures hono ychwaith yn Gymraes; ond hi a'i cyflawnodd yn y modd mwyaf celfydd a gorchestol. Ychydig o enwau sydd mor hysbys i edmygwyr llenyddiaeth Geltaidd; ac hyd y gwyddom, dyma yr unig orchestgamp lenyddol a gyflawnodd hi. Cyhoeddid y llyfr yn ddosranau, mabinogi neu ddwy yn mhob dosran. Daeth y gyntaf allan yn 1838, a'r olaf ddeng mlynedd ar ol hynny; ac y mae y gwaith yn gyflawn yn gwneud tair cyfrol. Gwerthid ef ar y cyntaf am £3 3s.; ond gan nad argraffwyd ond tua 500, buan yr aeth yn brin, ac er's blynnyddau bellach nis gellir ei brynu o tan bump neu chwe' gini. Y mae

yr awdures yn cyflwyno y gwaith i'w dau blentyn, 'Ivor a Meithyr,' y ddau bellach yn wyr adnabyddus i'r byd politicaidd—Syr Ivor fel ymgeisydd Seneddol a'i frawd fel yr A. S. presenol tros Wareham. Ar gyfrif lledneisrwydd y cyfansoddiad, a'r teimlad Cymroaidd hyfryd sydd yn nawisio ohono, nis gallwn wrthsefyll y demtasiwn o'i ddyfynu fel y mae yn Seisnig:—

My dear Children,—Infants as you yet are, I feel that I cannot dedicate more fitly than to you these venerable relics of ancient lore, and I do so in the hope of inciting you to cultivate the Literature of 'Gwyllt Walia,' in whose beautiful language you are being initiated, and amongst whose free mountains you were born.

May you become imbued with the chivalric and exalted sense of honour, and the fervent patriotism for which its sons have ever been celebrated.

May you learn to emulate the noble qualities of Ivor Hael, and the firm attachment to your Native Country, which distinguished that Ivor Bach, after whom the elder of you was named.

Byddai yr un mor anhawdd dweyd pwy oedd awdwr neu awdwyr y MABINOGION a dweyd pwy a gyfansoddodd ein hen ddiarebion. Buont yn nofio ar wyneb yr oesau am ganrifoedd lawer, fel cerddi Homer a thraddodiadau y Talmud. Yr hen yn eu traddodi i'r ieuanc fel hen grair y llwyth; a'r ieuanc hwnw drachefn yn ei dro yn eu cyflwyno i'w olynwyr yntau. Wrth gwrs, yr oedd eu haddurniadau yn nbreigliad amser fel hyn yn cynyddu—eu barddoniaeth yn dyfod yn fwy llachar, y manylion hwyrach yn newid; ond diau fod y teg yn myned yn decach a'r anferth yn fwy anferthol. Mae'n dra thebyg nad oedd Morfran ab Tegid, druan, ar y cyntaf ond rhyw remwth o lencyn anhygar, a chanddo wallt garwgoch a llygaid croesion; ond o oes i oes, aeth yn hyllach, hyllach, a chyflwynir ef i ni fel un o'r tri a ddiangodd o Gad Gamlan—yr oedd mor hagr fel y tybiai pawb mai angel coll o uffern oedd, ac y ffoent rhagddo. Sandde, o'r ochr arall, llanc nwyfus, ysgafndroed, prydferth, a enillai ffatr traddodiad yn barhaus; a chawn ei fod yntau wedi dianc o Gad Gamlan, 'gan ei hardded, ei laned, a'i deuced, ni chodai neb law yn ei erbyn, gan dybied mai angel o'r nef ydoedd.' Yr oedd adrodd pethau fel hyn a'u gwranddo yn ddull dyddan o dreulio yr amser segur gynt ar aelwyd yr Hafod a'r Hendref; ac i godi gwaed a thanio ysbryd y milwr Cymreig yn y gadlys a'r gadymgyrch. Pan fyddent yn gwylio yn rhai o galarnfeydd eu gwlad anwyl am gyfleu i ruthro ar y gelyn yn y dyffryn islaw; pan yn treulio y cyfnos yn Mhalestina tan Faner y Groesgad; pan yn Ffrainc gyda'u cydwladwr Syr Dafydd Gam yn ymladd brwydrau brenin Lloegr; neu yn dilyn eu cydwladwr arall enwocach fyth Harri Tudur yn ei ymgyrch lwyddianus i ddwyn coron Prydain yn ol i hen linach Cadwaladr Fendigaid; byrhaent yr oriau a lliniaent eu blinderau hefo'r hen hanesion tyfadwy hyn.

Felly gwasanaethai y MABINOGION ddau amcan neillduol, sef cadw yn fyw rai o gofion arwrol a chyndeithasol hen genedl ddewr ac anrhydeddus, a gweinyddu dyddanwch a gwybodaeth i'r sawl a'u cadwent yn yr 'adgof am a fu.'

Am ba nifer o ganrifoedd y buont yn nofio fel hyn ar wyneb amser, nid all neb yn awr ddweyd; ac ni wyddis ychwaith i bwy yr ydym i ddiolch am eu hysgrifenu, na pha bryd rhwng y 5ed a'r 15fed ganrif y gwnaed hyny gyntaf. Y casgliad hynaf ar gael ohonynt ydyw y 'Llyfr Coch o Hergest,' yr hwn sydd yn cynwys hefyd rai cywyddau o waith ac yn llawysgrif Lewis Glyn Cothi, arwyddfardd enwog yn ei flodeu yn niwedd y 15fed ganrif. Parodd hyn i rai gredu mai y bardd hwnw a ysgrifennodd y Llyfr Coch i gyd; ond barn y mwyaf-

rif yw mai gwaith llaw gwahanol ysgrifenydd professedig ydyw, a'i fod wedi ei ysgrifenu ar wahanol amserau. Y mae y Llyfr Coch yn nghadw yn Llyfrgell Coleg Iesu, Rydychain, wedi ei ysgrifenu ar femrwn, ac yn cynwys 721 tu dal. tebyg i'r cytysgrif ohono a welir ar ddechreu yr argraffiad hwn. Fe wel y darlennydd ar unwaith mai nid gorchwyl hawdd ydoedd darllen a deongli cyfrinion hen lawysgrifen o'r fath. Pa fodd bynag, gwnaed hynny yn hynod o lwyddianus gan y bardd a'r llenor anfarwol Ioan Tegid, yr hwn a fu yn preswyllo yn Rhydychain am rai blynyddau. Ymgwymerodd Mr. Jones â'r gorchwyl llafurfawr ar gais Mr. Justice Bosanquet, a'r copi hwnw a ddefnyddiodd yr Arglwyddes Guest.

Ystyr y gair *Mabinogi*, yn ol Thomas Richards, ydyw dysgeidiaeth mab. Yn y Llyfr Coch, yr unig chwedlau a elwir ar yr enw hwnw ydynt, Pwyll, Branwen, Manawyddan, a Math; ac nid yw y pedair mewn gwirionedd ond dolenau o un chwedl. Yr addysg a roddir i bob mab a ddarlleno y rhai hyn ydyw ffyddlondeb mewn cyfeillgarwch, cywirdeb mewn addewid, ac anrhydedd i'r rhyw fenywaidd. Yr oedd y rhiniau hyn bob amser yn cael eu cydnabod a chyrru atynt gan Farchogwriaeth (*chivalry*) y Canol Oesoedd; ac er fod tuedd yn yr hen urdd hono i ddwyfoli nerth corphorol a gwneud arwr o'r hwn a allai drin y cledd fedrusaf, dylid cofio eu bod hefyd wedi gwneud y bradwr a'r torwr-adduned yn wrthrychau dirmygus ac atgas; a dyrchafu y ferch neu y wraig i fod yn deilwng gydmar bywyd i ddyn yn lle caethes iddo fel o'r blaen. Ond fel llawer urdd o'r blaen, yn nhrefnol amser, dirywiodd hithau, a blinodd y byd arni; a bu gwatwreg finiog *Don Quixote* yn angau iddi yn y diwedd.

Y mae cymaint gwahaniaeth rhwng y **MABINOGION** hyn a'u gilydd fel y rhenir hwynt gan Skene i ddau ddsbarth. Math o gysawd ydyw un ddsbarth ac Arthur yn haul ynddo, a'i wrolion a'i ddewrion fel planedau yn troi o'i gyloch ac yn iswasanaethgar iddo; tra y mae'r ddsbarth arall yn son am bobl a digwyddiadau llawer boreuach; ac nid yw yn anhawdd doddi pob chwedl yn ei ddsbarth priodol. Yn y ddsbarth hynaf y mae Pwyll, Branwen, Manawyddan, Math, Lludd, Cilhwch a Breuddwyd Rhonabwy. Yn yr ail ddsbarth, ceir Iarllles y Ffynon, Peredur, Geraint a Macsen Wledig. Nid yw enw Arthur yn digwydd ond yn y ddwy olaf o'r ddsbarth cyntaf; ac ynddynt hwy, arwr cydmarol ieuanc ydyw. Dyna yn fyr ydyw barn awdwr y *Four Ancient Books of Wales* am danynt. Ac yn dra thebyg y barna Thomas Stephens hefyd. Y mae gan Lady Guest ddamecaniaeth led ddyeithr ar y pwnc. Dywed hi fod yr holl chwedlau wedi cael eu bodolaeth yn Nghymru, a rhydd y flaenoriaeth ar gyfrif eu henaint i Gilhwch a Rhonabwy; ond tra yr arosodd y ddwy hyn gartref, aeth Iarllles y Ffynon, Peredur a Geraint ar grwydr i blith cenedloedd gogleddbarth Ewrob; ac wedi absenoldeb o ganrifoedd, dychwelasant—cyfieithwyd hwynt i'r Gymraeg yn nghyda'r arferion a'r defodau Normanaidd a chwanegwyd atynt yn nhaith eu pererindod. Barned y darlennydd pa un o'r ddwy ddirnadaeth hyn sy'n gywir. Diau fod rhyw ddarfelydd ramanus iawn wedi bod ar waith yn llunio a dyfeisio Cilhwch ac Olwen; a bod y chwedl hono yn rhagori ar bob un o'i chwaer-chwedlau, nid yn unig mewn hyd, ond hefyd yn nghyfoeth ei drychfeddyliau, beiddgarwch ei dychymyg a'i chreadigaethau gwylltion a synfawr. Y mae yn dra anmheus ai nid fel alegori y dylid ei darllen o'r Bardd (Cilhwch) yn myned i ymhwedd â Natur (Olwen), yn 'ol troed yr hon pa ffordd bynag y cerddai y tyfai pedair o feillion gwynion.' Nid yw y chwedl hono a elwir Hanes Taliessin wedi ei chyfleu yn y naill ddsbarth na'r llall, ac nid ydym ninau ychwaith wedi ei haralleirio i Gymraeg diweddar. Prin y rhaid dweyd mai yr achos o hynny yw fod ei Chymraeg hen mor

ddiweddar fel mai ofer myned i'r drafferth o'i haralleirio fel y lleill. Lady Guest a'i cynullodd yn chwedl o draddodiadau a gafodd hi yn y *Myv. Arch., &c.*; ac y mae lle cryf i ofni nad yw llawer ohoni nemawr hynach na Iolo Morganwg.

Fel y gwelir wrth y nodiadau o flaen rhai o'r rhamantau hyn, yr oeddynt yn adnabyddus yn Lloegr, Ffrainc, Almaen, Norway, Sweden, ac hyd yn nod Iceland. Treulia Lady Guest gryn lawer o'i Rhagymadrodd i ddangos y llwybr yr aethant i'r gwledydd hyny. Dywed hi fod y Germaniaid, y rhai a'u chwalodd yn Ngogledd Ewrob, wedi eu cael o Ffrainc; fod Robert Wace, brodor o Jersey, wedi cyhoeddi ei *Anglo-Norman Romance* o'r Brutiau yn 1155; a bod Wace wedi cael llawer o'i ddefnyddiau o *Historia Britonum* Sieffre o Fynwy. Dywed hefyd fod gan offeiriad Seisnig o'r enw Layamon, a breswyliai yn mlaen dyffryn yr Hafren, a'r hwn a ysgrifonodd hanes Prydeinig, gryn law yn eu trosglwyddiad. Dylid cofio, pa fodd bynag, nad oes gan Seiffre yn ei waith ond ychydig o'r Mabinogion; a bod Layamon yn cydnabod mai ei awdurdodau ef oeddynt y Sais Bede, y Lladinwr Albin, a'r Ffrancwr Wace. Ai nid mwy naturiol credu eu bod wedi eu cludo, fel chwedl yn gyffredin, ar dafodau milwyr y gwahanol genedloedd, o'r naill wlad i'r llall, yn enwedig pan gofion fod milwyr yr oesau hyny yn aml yn ymladd blith draphlith tan yr un faner, megys yn Rhyfeloedd y Groes, &c.?

Y mae yn hen ddywediad yn mysg llenorion mai Gwaith y Cynfeirdd (Aneuryn, Taliesin, a Llywarch Hen) mewn Barddoniaeth, a'r Mabinogion mewn Rhyddiaeth, ydyw dau brif addurn llenyddiaeth henafol y Cymry. Gallen lanw haner tu dalen âg enwau awduron clodfawr sydd yn rhoddi y ganmoliaeth uchaf iddynt. Oddiyma y cafodd Tennyson ddefnyddiau ei *Idylls of the King*; ac y mae y bardd llawryfol wedi dilyn y gwreiddiol mor gaeth a manwl mewn rhai manau, fel bydd perygl i rai o feirniaid craff y dyfodol ei gyhuddo o lenladrad. Yn Geraint ab Erbin yn enwedig dilyna'r bardd Seisnig yr hen fabinogi bron air an air. Dylem deimlo yn ddiolchgar, pa fodd bynag, fod genym gynrychiion llenyddol gwerth eu lladrata.

Am yr aralleiriad i Gymraeg yr oes hon, ymdrechasom i'w wneud yn eglur a darllenadwy, ac ar yr un pryd ymyraeth cyn lleied ag oedd modd â'r geiriau a'r dullweddau prydferth cynhenid. Gallasai llawer un wneud hyn o orchwyl yn well, a llawer un ei wneud yn waeth, ond gwnaed ef fel y mae am nas gallen ni ei wneud yn well. Gan gyflwyno ein diolchgarwch mwyaf diffuant i bawb a'n cynorthwyodd i ddodi rhamantau gogoneddus yr Hen Gymry athrylithfawr yn nwyllaw a chylch dealltwriaeth eu plant yn yr oes hon, y gorphwys

Yr eiddoch yn gywir,

LIVERPOOL, *Ebrill*, 1881.

Y CYHOEDDWR.

Y MABINOGION.

MATH VAB MATHONWY.

MATH vab mathonwy oed arglwyd ar wyned. a phryderi vab pwyll oed arglwyd ar un cantref ar hugeint yn y deheu. Sef oed y rei hynny. seith cantref dyfet. a seith cantref morganhwc. Pedwar cantref keredigyawn. a thri ystrat tywi. Ac yn yr amser hwnnw math vab mathonwy. ny bydei vyw. namyn travei ydeutroet ymlyc croth morwyn. o nyt kynnwryf ryvel ae llesteirci. Sef ydoed yn voryn ygyt ac ef. Goewin verch pebin o dol pebin yn arvon. ahonno teckaf morwyn oed yn y hoes. or awydit yno. Ac ynteu ygkaer dathyl yn arvon yd oed ywastatrwyd. Ac ny allei gylchu y wlat namyn gilvaethwy vab don. Ac eneyd vab don ynycint veibion y chwaer. ar teulu gyt ac wy ygylchu y wlat drosdaw. Ar voryn oed gyt a math ynwastat ac ynteu gilvaethwy vab don a dodes y vryt ar y voryn. ae charu hyt na wydyat beth awnaei amdanei. Ac yn hynny nachaf y liw ae wed ae ansawd ynatveilaw oe charyat hyd nat oed hawd y adnabot. Sef awnaeth gwydion y vrawt synyeit dydgweith arnaw yngraf. Hawas heb ef paderyw itti. Paham heb ynteu beth aweli di arnafi Gwelaf arnat heb ef colli o honat dy bryt ath liw. aphaderyw itti. Arglwyd vrawt heb ef yr hyn aderyw ymi nyffrwytha im y adef y peth. Beth yw hyny eneit heb ef. Ti awdost heb ynteu kynnedf math vab mathonwy. bahustyng bynnac yr vvychanet avo y rwng dynyon or y kyfarffo y gwynt ac ef. aegwybyd. Ie heb ygwydion taw di bellach. mi awnn dy vedwl di. caru goewin ydwyt ti. Sef awnaeth ynteu yna pan wybu adnabot oe vrawt y vedwl dodu ucheneit dromaf yn y byt. Taw eneit ath ucheneidaw heb ef. nid hynny y gorvydir. Minheu abaraf heb ef pan na ellir heb hyny dygyvori gwyned a phowys adeheubarth y geissaw y voryn. a byd lawen di, ami ae paraf itt. Ac ar hynny att vath vab mathonwy ydaethant wy. Arglwyd heb y gwydyon mi a ggleu dyvot yr deheu y ryw pryvet ni doeth yr ynys honn eiryoet. Pwy y henw hwy heb ef. Hobeu arglwyd. Pa ryw anniveileit

yw yrei hynny, Aniveileit bychein gwell eu kic no chic eidon. bychein ynt wynteu. Ac y maent yn symudaw enweu. Moch y gelwir weithon. Pwy biewynt hwy. Pryderi vab pwyll y danvonnet idaw o annwn. ygan arawn brenhin annwn. ac ettwa ydys yn kadw or enw hwnnw. haner hwch. haner hob. Ie heb ynteu baffuryf y keffir wy gantaw. mi af vyndeudecvet y rith beird arglwyd y erchi y moch. Ef aryeill ychneckau heb ynteu. Nyt drwc yntrawsglwyd i arglwyd heb ef. ny deuaf heb y moch. Ynllawen heb ynteu kerda ragot. Ef a aeth agilvaethwy adegwyr gyt ac wynt. hyt ygkeredigyawn yny lle a elwir rudlan. teivi yr awr honn. yny lle ydoed llys y pryderi. Ac yn rith beird ydoethant y mywn. a llawen vuwyt wrthynt. Ar neilllaw pryderi y gosodet gwydyon y nos honno. Ie heb y pryderi da oed gennym ni kael kyvarvydyt gan rei o'r gwyr eeinc racko. Moes yw gennym ni arglwyd heb y gwydyon y nos gyntaf ydelher att wr mawr dywedut or pennkerd. mi adywedaf gyvarwyd yn llawen. Ynteu wydyon goreu kyvarwyd yn y byt oed. ar nos honno didanu y llys awnaeth ar ymdidaneu digrif achyvarwydyt. ynyoed hoff gan bawp o'r llys. Ac yndidan gan pryderi ymdidan ac ef. Ac ardiwed hynny. Argglwyd heb ef ae gwell y gwna neb vy neges i wrthyt ti no mivi vy hun. Na well heb ynteu tavawt llawnda yw y teu di. llyma vy neges inheu arglwyd heb ef. ymadolwyn athidi am yr aniveileit aanvonet itt o annvyn. Ie heb ynteu hawssaf yny byt oed hynny. Pan y bei amot y rof am gwlat amdanunt. Sef yw hynny, nat elhont ygennyf yn y hilyont eudeu kymeint yny wlat. Argglwyd heb ynteu. minneu aallaf dy rydhau ditheu ar geireu hyny. Sef val y gallaf. Na dyro ym y moch heno. ac na naccaa vi o honynt. Avory vinneu a dangosaf gyfnewit am danunt wy. Ar nos honno yd aethant ef ae gedymdeithon y lletty ar y kynghor. Awyr heb ef nichawn ni y moch oc eu herchi. Ie heb wynteu. padrawsglwyd y keir wynteu. mi a baraf eu kael heb y gwydyon. Ac yna yd aeth ef yny gelvydodeu. Ac y dechreuawyd dangos y hut ac ydhudwys deudec emys a deudec milgi bronwyn du bob un o honunt. a deudec torch a deudec kynllyvan arnunt. A neb orae gwelei nywydyat nebeynt cur. A deudec kyfrwy ar y meirch. Ac amhob lle oc y dylvei hayarn vot arnynt ybydeu eur o gwbyl. ar ffrwyneu yn un weith ahynny, Ar meirch ac ar kwn ydoeth ef att pryderi. Dyd da itt arglwyd heb ef. Duw a rodho da itt heb ynteu a greaessaw wrthyt. Argglwyd heb ef llyma rydit ytti am y geir a dywedeist neithwyr am y moch nas rodut ac nas gwerthut. titheu aelly gyfnewityaw yr avo gwell. minneu a a rodaf y deudeg meirch hynn val y maent yn gyweir. ac eu kyfrwyneu ac eu ffrwyneu ar deudec milgi ac eu torcheu. ac eu kynllyvaneu val y gwely. ardeudec taryan eureit awely di racko yrei hynny a rythassei ef o'r madalch. Ie heb ynteu ni a gymerwn gynghor. Sef y kaws-

sant nny kynghor rodi y moch y wydion. A chymryt y meirch ar kwn ar taryaneu y gantaw ynteu.

Ac yna y kymerassant hwy genhat ac y dechreuassant gerdet ar moch. A geimeit heb y gwydion reit yw in gerdet yn bryssur. ny phara yr hut namyn or pryt y gilyd. Ar nos honno y kerdassant hyt yggantref keredigyawn. Y lle a elwir ettwa or achaws hwnnw mochedref. athrannoeth y kymerassant eu hynt dros elenit y doethant. ar nos honno y buant y rwng keru ac Arwystli yn y dref elwir hevyt or achaws hwnnw mochedref. Ac odyne y kerdassant racdunt. ar nos honno y doethant hyt ygkymwt ym powys a elwir or ystyr hwnnw hevyt mochnant. Ac yno y buant y nos honno. Ac odyne y kerdassant hyt ycantref ros. Ac ynoy buant y nos honno mwyn y dref aelwir ettwa mochedref. Hawyr heb ygydyon ni a gyrchwn kedernit gwyned ar aniveileit hyn. yd ys ynlluydaw yn an hol. Sef y kyrchassant y dref uchaf o arllechwed. Ac yno gwneuthur creu yr moch. Ac or achaws hwnnw y dodet creuwyrion ar y dref. Ac yna gwedy gwneuthur creu yr moch. y kyrchassant at vath vab mathonwy hyt ygkaerdathyl. A phan doethant yno ydoedit yn dygyvori y wlat. Pa chwedleu yssyd yma heb y gwydyon. Dygyvor heb wy y mae pryderi yn ych hol chwi un cantref ar hugeint. Ryvedvu hwyret y kerdassawch chwi. Mae yr anniveileit yd aethawch yn eu hwysc heb y math. y maent gwedy gwneuthur creu. udunt nny cantref arall issot heb y gwydyon. Ar hynny llyma y clywynt yr utgyrn ar dygyvor yn y wlat. Ar hynny gwisaw awnaethant wynteu acherdet nny vydant ympennard yn arvon. Ar nos honno yd ymchweles gwydyon vab don a chilvaethwy y vrawt hyt ygkaer dathyl. Ac y gwelei vath vab mathonwy dodi gilvaethwy a goewin ygytgyscu. a chymell y morynyon ereill allan yn amharchus. Achyscu genti oe anvod ynos honno. Panwelsant y dyd drannoeth kyrchu awnaethant y lle yd oed math vab mathonwy ae lu. Pan doethant yd oed y gwyr hynny yn mynet y gymryt kynghor padu yd arhoent pryderi agwyr y deheu. ac ar y kyngor y doethant wynteu. Sef a gawssant yn eu kyngor aros ygkedernit gwyned yn arvon. Ac ygkymperved ydwy vaenawr yd arhoet. maenawr pennard. a maenawr coet alun. Aphryderi ae kyrchwys yno wynt. Ac yno ybu y gyfranc ac y llas lladva vawr o bobparth ac y bu reit y wyr y deheu enkil. Sef lle yd enkilyassant hyt y lle a elwir ettwa nant call. a hyt yno yd ymlitywyt. Ac yna y bu yr aerva divessur y meint. Yna y kiliassant hyt y lle a elwir dol penn maen. Ac yna clyma a wnaethant. a cheissaw tangnevedu. agwystlaw awnaeth pryderi ar y dangneved. Sef y gwystlwys gwrgi gwastra ar y bedwryd arugeint y veibon gwyrda. Agwedy hynny kerdet ohonunt yn eu tangneved hyt y traeth mawr. ac val ygyt ac y doethant hyt y velenryt y pedyt ny ellit eureoli o ymsaethu. Gyrru kennadeu o pryderi y erchu gwahardd

y deulu. ac erchi gadu y rygtaw ef a gwydyon vab don. kanyf ef abaryssei hynny. att vath vab mathonwy y doeth y gennat. Ie heb y math. y rof i aduw os da gan wydyon vab don mi ae gadaf. yn llawen ny chymellaf yneue ar neb vynet y ymlat dros wneuthur o honain ninneu au gallu. Dioer heb y kennadeu tec med pryderi oed yr gwr a wnaeth hynn ogam idaw, doddi y gorff yn erbyn y gorff ynteu. agadu y deulu ynsegur. Dygaf y duw vygkyffes nat archaf i y wyr gwyned ymlad drossofi. Aminneu vy hun yn kael ymlad a phryderi. Mineu adodaf vykorff yn erbyn y eidaw yn llawen. A hynny aanvonet at pryderi. Ie heb y pryderi nyt archaf inheu y neb go'vyn vy iawn namyn my hun. Ygwyr hynny aneilltuwyt ac adechrewyt gwisaw ymdanunt ac ymlad awnaethant. ac o nerth grym ac angerd ahut alledrith gwydyon. a phryderi alas. ac ymaen tyryawc uch y velenryt y cladwyd. Ac yno y mae yved. Gwyr y deheu a gerdassant ac argan truan gantunt parth ae gwlat, ac nyt edryved eu harglwyd a gollysynt. a llawer oc eu goreugwyr. ac eu meirch ac eu harveu ganmwyaf. Gwyr gwyned a ymchweles drachevyn ynllawen orawenus. Arglwyd heb y gwydyon wrth vath. ponyt oed iawn ynni ellwng eudyledawc ywyr ydeheu a wystlassant inni artangneved. ac ny dylywn y garcharu. Rydhaer ynteu heb y math. argwas hwnnw argwystlon a oed gyt ac ef aellyngwyt yn ol gwyr y deheu. Ynteu math agyrchwys Kaer dathyl. Gilvaethwy vab don ar teulu aruassynt gyt ac ef agyrchassant y gylchaw gwyned mal y gnotayssynt. A heb gyrchu y llys. Ynteu vath agyrchwys y ystavell. Ac aberis kyweiraw lle idaw y benelynaw. val y kaffai doddi y draet ymplyc croth y vorwyn. Arglwyd heb y goewyn keis vorwyn avo is dy draet weithion. gwreic wyfi. Pa ystyr yw hynny heb ef. Kyrch arglwyd adoeth am vympen a hynny yn dirgel. ac ni bum distaw inheu. ny bu yny llys neb nysgwypei. Sef cyrch adoeth dy nycint veibon dy chwaer arglwyd gwydyon vab don. agilvaethwy ab don. athreis arnaf aorugant ochewilyd y titheu. a chyscu a wnaethpwynt gennyf. a hynny yth stavell ac yth wely di. Ie heb ynteu yr hynn aallaf mi a gwnaaf mi abaraf itt gael iawn yn gyntaf. Ac yn ol vy iawn y bydaf inheu. Athitheu heb ef mi ath gymeraf yn wreic im. ac arodaf vedyant vygkyvoeth yth law ditheu. Ac yn hynny ny doethant wy ygkyvyl y llys. namyn trigyaw y gylchaw ywlat awnaethant yny aeth gwahard ndunt ar y bwyt ae llyn. yngyntaf ny doethant hwy yny gyvyl ef. Yna y doethant hwy attaw ef. Arglwyd heb wynt. dyd da it. Ie heb ynteu ae wneuthur iawn ymi y doethawch chwi. Arglwyd yth ewyllys yd ydym. Bei vy ewyllyss ny chollwn owyr ac arven agollais vygkewilid ny ellwch chwi y dalu ymi heb agheu pryderi. achan doethawch chitheu ymewyllys ynheu mi adechreuaf boen arnawch. Ac yna y kymerth y hutlath ac y trewis gilvaethwy yny vyd yn daran ewic. Ac achub y llall awnaeth yn gyflym kyt

mynnei dianc nis gallei. ae daraw ar un hutlath yny vyd yn garw. kanys ywch yn rwymedigaeth ami awnaf ywch gerdet ygyt. Ac yna yn gymaredic. ac ynuvudunt hwy. y vot y chwitheu. Ablwydyn y hediw dowch yma attafi. Ympenn yr vlwydyn or undyd yklyweiodorun adan paret yr ystavell. A chyvarthva cwn y llys am benn godorun. Edrych heb ynteu beth yssyd allan. Arglwyd heb yr un mi ae hedrychyeis y mae yno carw ac ewic. ac elein gyt ac wynt. ac ar hynny kyvodi aoruc ynteu a dyvot allan. Aphan doeth. sef y gwelei y trillydyn. Sef trillydyn oedynt carw ac ewic ac elein kryf. Sef a wnaeth ef dyrchavel y hut. Yr hwn avu o honawch yn ewic yr llyned. bit vaed coet eleni. ar hwn avu garw yr llined bit garnen eleni. Ac ar hynny eu taraw ar hutlath. y mab hagen a gymerafi ac abaraf y veithryn ae vedydyaw. Sef enw adodet arnaw hydwn. Ewch chwitheu abydwch y lleill yn vaed coet ar llall yn garnen coet. ar anyan avo yr moch coet. bit y chwitheu. A blwydyn y hediw bydwch yma ydan y paret. Ac ych etived gyt achwi. Ympenn y vlwydyn llyma y clywynt gyvarthva cwn dan paret yr ystavell. adygyvor y llys y an hynny am eu pen. Ar hyny cyvodi aoruc ynteu amynet allan. A phandaw allan trillydyn awelei. Sef kyfryw lydnot awelei. baed coet. acharnen coet. a chrynlwdyn da gyt ac wynt. Abreisc oed yn yr oet oed arnaw. Ie heb ef hwn agymerafi attaf ac abaraf y vedydyaw. ae daraw ar hutlath ynyvyd yn vab braswineu teledwiw. Sef enw a dodet ar hwnnw hychtwn. A chwitheu yr un avu vaed coed o honawch yr llyned. bit vleidast eleni. ar hwnnw avu garnen yr llyned, bit vleid eleni. Ac ar hynny eu taraw ar hudlath yny vydant bleid ableidast. Ac anyan yr aniveileit yd ywch yneu rith bit y chwitheu. A bydwch yma vlwydyn yr dyd hediw dan paret hwn. Yr vndyd ympenn y vlwydyn llyma y clywei dygyvor a chyvarthva cwn ydan y paret yr ystavell. Ynteu a gyvodes allan. aphan daw llyma y gwelei bleid a bleidast achrubothon cryf y gyt ac wynt. Hwnnw a gymerafi heb ef ac a baraf y vedydyaw. ac y mae yr enw yn barawt. Sef yw hwnnw bleidwn. Y trimeib yssyd y chwi ar tri hynny ynt. Tri meis gilvaethwy ennwir, tiicheuryssedat kywir. bleidwn. hydwn. hychdwn hir. Ac ar hynny eu taraw wynteu elldu ar hutlath yny vydant eucnawt ehun. Hawyr heb ef or gwnaethawch gam ymi digawn y buawch ymhoen. achewilyd mawr agawssawch. lot plant y bop un ohonawch oegilyd. Perwch enneint yr gwyr agolchi eu penneu ac eu kyweiryaw. a hynny a berit udunt. agweddy ymgyweiryaw ohonunt attaw ef y kyrchyssant. Hawyr heb ef tangeved a gawssawch acherenyd ageffych. arodwch ym gynghor pa voryn ageisswyf. Arglwyd heb y gwydyon vab don hawd yw dy gyghori. Aranrot verch don. dy nith verch dy chwaer. honno a gyrchwyt attaw. Y vorwyn a doeth y mywn. A vorwyn

heb ef a wyt vorwyn di. Ny wnn i arglwyd amgen nom bot. Yna y kymmerth ynteu yr hutlath ae chamu, camma di dros honn heb ef. Ac ot wyt voryn mi a adnabydaf. yna y camawd hitheu dros yr hutlath. ac ar y cam hwnnw adaw mab brasuelyn mawr aoruc. Ynoldiaspat y mab kyrchu y drws aoruc hi. Ac ar hynny adaw y ryw bechan ohonoi. A chyn kaeloneb gwelet yr eil olwe arnei. gwydyon ae kymmerth. Ac adroes llen obali nny gylch ac ae cudyawd, Sef lle y cudyawd ymywn llawr kist is traet y wely, Ie heb y math mab mathonwy mi abaraf vedydyaw hwnn wrth y mab brasuelyn. Sef enw abaraf arnaw. dylan. Bedydyaw awnaethpwyd y mab. ac ual y bedydywyt y mor a gyrchwys. Ac nny lle ygyt ac ydoeth yr mor. anyan y mor a gauas. a chystal y novvei ar pyc goreu nny mor. Ac o achawe hynny y gelwit ef dylan eilton. ny thores tonn ydanaw ciryoet. Ac ergyt y doeth y agheu o honaw. avyryawd govannion y ewythr. ahwnnw avu drydyd anvat ergyt. val ydoed wydyon diwarnawt nny wely ac yn deffroi. ef aglywei diaspat nny gist is y draet. kynny bei uchel hi. kufuch oed ac y kigleu ef. Sef aoruc ynteu kyvodi yngyfym ac agori y gist. Ac val y hegyr ef a welei vab bychan yn rwyvaw y vreichiau. oblyc yllen ac yngwasgaru. Ac ef agymmerth y mab y rwng y dwylaw. ac a gyrchwys ydref ac ef lle y gwydyat bot gwreic abrouneu genti. ac ymobryn a wnaeth arwreic veithryn y mab. Y mab a vagwyt y vlwydyn honno. Ac yn oet y vlwydyn hoff oed gantunt y vreisket beidwyvlwyd. ar eil vlwydyn mab mawr oed. ac yn gallu ehun kyrchu y llys. Ynteu ehun wydyon wedi y dyvot yr llys asynnywys arnaw. Ar mab a ymgenevinawd ac ef. ac ae carawd yn vwy noc undyn. Yna ymagwyt y mab yn y llys nny vu pedeirblwyd. A hoff oed y vab wythmlwyd vot yn gyvreiscet ac ef. adiwarnawt ef agerdawd ynol gwydyon y orymdeith allan. Sef awnaeth kyrchu kaer aranrot ar mab gyt ac ef. Gwedy ydyvot y llys kyvodi aoruc aranrot nny erbyn ae raessawu a chyvarech gwell idaw. Duw arodo da itt heb ef. Pa vab yssyd yth ol di heb hi. Y mab hwn mab itti yw ef. heb ef. Oiawr padoi arnat ti vygkywilydyaw i a dilyt vygkewilyd ac gadw yngyhyt a hynn. Ony byd arnat ti gewilyd vwy no meithryn ohonafi vab kystal a hwnn. Ysbychan abeth vyd dy gewilyd. Pwy enw dy vab di heb hi. Dioer heb ef nyt oes arnaw un enw ettwa. Ie heb hi mi atynghaf dynghet idaw na chaffo ef enw nny kaffo gennyfi. dygaf y duw vygkyffes heb ef direit wreic wyt. ar mab ageiff enw kyt boet drwe gennyt ti. athitheu heb ef yrhwnn ydwyt ti ac ae var arnat am nath elwir yn voryn. Ac ar hynny kerdet ymeith drwy y lit awnaeth achyrchu kaer dathyl. Ac ynobu y bu ynno honno. Athrannoeth kyvodi aoruc achymryt y vab gyt ac ef. Amynet y orymdeith gan lan y weilgi rwng hynny ac aber menci. Ac nny lle y gwelas delysc a morwyal hudaw long awnaeth. ac orgwyn-

non ardelysc hudaw cordwal awnaeth. a hynny llawer. Ac eu brithaw aoruc hyt nawelsei neb lledyr degach noc ef. Ac ar hynny kyweiryaw hwyl. ar y long awnaeth. adyvot y drws porth kaer aranrot ef ar mab yny llong. Ac yna dechreu llunyaw esgidyeu ac eu gwniaw. Ac yna y harganvot or gaer. Pan wybu ynteu eu harganvot or gaer. dwyn eu heilyw ehun aoruc. a doddi eilyw arall arnunt val nat adnepit. Padynyon yssyd yny llong heb yr aranrot. Cryd-yon heb wy. Ewch y edrych pa ryw ledyr yssyd gantunt. Apharyw weith a wnant. Yna y deuthpwytt attunt. aphan doethpwytt ydoeth ef yn brithaw cordwal a hynny yn eureit. Yna ydoeth y kennadeu amenegi idi hi hynny. Ie heb hitheu dygwch vessur vyntroet. Ac erchwch yr cryd wneuthyr esgidyeu ym. Ynteu alunywys yr esgidyeu. Ac nyt wrth ymessur. namyn yn vwy. Dyvot ar esgidyeu idi. nachaf yr esgidyeu yn ormod. Ryormod yw y rei hynn heb hi. ef ageiff werth y rei hynn. gwnaet hevyt rei avo llei noc wynt. Sef awnaeth ynteu gwneuthyr rei ereill yn llei lawer noethroet. ae hanvon idi. Dywedwch idaw nyt a ymi yrei hynn heb hi. ef a dywedpwytt idaw hynny. Ie heb ynteu. ny lunyafi esgydyeu idi yny welwyf y throet. a hynny adywetpwyd idi. Ie heb hi mi aaf hyt attaw ef. ac yna y doeth hi hyt y llong. Aphandoeth yd oed ef yllunyaw ar mab yn gwniaw. Ie arglwydes heb ef dyd da itt. Duw arodo da itt heb hi. Eres yw gennyf na vedrut gymedroli ar wneuthur esgydyeu wrth vessur. Navedreis heb ynteu. mi ae metraf weithon. ac ar hynny llyma y dryw ynsefyll ar vwrdd y llong. Sef awnaeth y mab y vwrw. ae vedru y rwng giewyn y esgeir arasgwrn. Sef a wnaeth hitheu chwerthin. Dioer heb hi ys llaw gyffes y medrwys y llew ef. Ie heb ynteu aniolwch duw itt neur gavas ef enw. a da digawn yw y enw llew llaw gyffes yw bellach. Ac yna diflanu y gweith yndelysc ac yn wimon. ar gweith nis canlynwys ef hwy no hynny. Ac or achaws hwnw y gelwit ef yn drydyd eurgyrd. Dioer heb hitheu ny henbydy well di ovot yndrwe wrthyf i. Ny buum drwe ettwa wrthyf ti heb ef. Ac yna yd ellygwys ef y vab yny bryt ehun. Ie heb hitheu minheu adynghaf dynghet yr mab hwnn. nachaffo arveu byth yny gwisgwyfi ymdanaw. y rof aduw heb ef. pandid oth direidi di. Ac ef ageiff arveu. Yna y doethant hwy parth adinas dinllef. Ac yno meithryn llew llawgyffes yny allwys marchogaeth pob march. Ac yny oed gwbyl obryt a thwf ameint. Ac yna adnabot awnaeth gwydyon arnaw yvot yn kymryt dihirwch oeisseu meirch ac arveu. ae alw attaw a wnaeth. Hawas heb ef ni awn ni a thi y neges avory. a byd lawenach noc ydwytt a hynny awnaf ynheu heb y gwas. Ac yn ieunctit y dyd dranoeth kyvodi a wnaethant. A chymryt yr arvordir y vynydd parth abrynn aryen. Ac yny penn uchaf y gevyn clutno. ymgyweiraw arveirch awnaethant adyvot parth achaer aranrot. ac yna amgenu eu pryt awnaethant. achyrchu y porth ynryth deu was ieueinc.

eithr bot yn prudach pryt gwydyon noc un y gwas. Y porthawr heb ef dos y mywn adywet vot yma beird o vorganhwc. Y porthawr aaeth. Graessaw duw wrthunt gellwng y mywn wy heb hi. Dirvawr lewenyd avu yn eu herbyn. Y neuad a gyweirwyt. y vwyta ydoethant. Gwedy darvod bwyta awneuth hi agwydyon amchwedleu a chyvarwydyt. Ynteu wydyon kyvarwyd da oed. Gwedy bot yn amser ymadaw a chyvedach. Ystavell a gyweirwyt udunt hwy ac y gyscu ydaethant. Hilbylgeint gwydyon a gyvodes. Ac yna y gelweis ef y hut ae allu attaw. Erbyn pan oed y dyd yngoleuhau yd oed geniweir ac utcyrn. a llevein yny wlat yngyghan. Pann yttoed ydyd yn dyvot wynt aglywynt taraw drws yr ystavell. ac ar hynny aranrot yn erchi agori. Kyvodi a oruc y gwas ieuanc ac agori. Hitheu adoeth y mywn amorwyn ygyta hi. Hawyr da heb hi lle drwc ydym. Ie heb ynteu ni aglywn utkyrn a llevein. a beth adebygy di ohynny. Dioer heb hi ni chawn welet lliw y weilgi gan bob llong artorr y gilyd. Ac y maent yn kyrchu y tir yngyntaf aallont. Aphabeth awnawn ni heb hi. arglwydes heb y gwydyon nyt oes in gyghor onyt kaeu y gaer arnam. ae chynal yn oreu aallom. Ie heb hitheu duw aro ywch a chynhellwch chwitheu. Ac yma y keffwch digawn oarveu. Ac ar hynny yn ol yr arveu y doeth hi. A llyma hi yn dyvot a dwy morwyn gyt ahi. Ac arveu deuwr gantunt. Arglywdes heb ef gwise ymdan y gwraync hwnn. A minneu vi armorynyon awisgaf ymdanaf inheu. Mi glywaf odorun y gwyr yn dyvot. Hynny awnaf yllawen agwisaw awnaeth hi ymdanaw ef yn llawen ac yngwbyl. a derw heb ef wisaw ymdan y gwraync hwnnw. Derw heb hi. neur derw y minheu heb ef Diodwn an harveu weithon. nyt reit in wrthunt. Och heb hitheu paham. llyna y llynghes ygkylch y ty. Hawreic nit oes yna un llynges. Och heb hitheu pa ryw dygyvor avu ohonei. Dygyvor heb ynteu y tororri dy dynghetven amdynat. Ac y geissaw arveu idaw. Ac neur gavas ef arveu heb y diolch yti. Ynofi a duw heb hitheu gwr drwc wyt ti. Ac ef aallei y llawer mab colli y eneit am ydygyvor abereist ti yny cantref hwnn hediw. a mi atynghaf dynghet y mab heb hi na chaffo gwreic vyth or genedyl yssyd ar y dayar honn yr awrhonn. Ie heb ynteu direitwreic uvost eiryoet ac ni dylvei neb vot ynborth itt. agwreic ageiff ef val cynt. Hwyttau adoethant att vath vab mathonwy. achwynawyn luttaf yny byt rac aranrot awnaethant. Amenegi val y paryssei yr arveu idaw oll. Ie heb y math keisswn ninneu vi athitheu hut anletrith hudaw gwreic idaw ynteu or blodeu. Ynteu yna ameni gwr yndaw. ac yndelediwhaf gwas or awelas dyn eiryoet. Ac yna y kymerasant hwy blodeu y deri. a blodeu y banadyl. a blodeu yr erwem. Ac or rei hynny aswynaw yr un vorwyn decaf a thelediwhaf awelas dyn eiryoet. Ac bedydyaw or bedyd a wneynt yna. a doddi blodeuwed arnei. Gwedi y kyscu y gyt hwy ar y wled. nyt

hawd heb y gwydyon y wr heb gyuoeth idaw ossymdeithaw. Ie heb y math. mi arodaf idaw yr un cantref goreu y was ieuanc y gael. Arglwyd heb ef pagantref yw hwnnw. Cantref dinodig heb ef. a hwnnw aelwyr yr awrhonn eiwyned. ac ardudwy Sef lle ar y cantref y kyuanhedwys lys idaw. yny lle aelwir mur y castell. a hynny yggwrthdir ardudwy. ac yno y kyuanhedwys ef ac y gwledychwys. Aphawb auu uodlawn idaw ac y arglwydiaeth. Ac yna dreigylgweith kyrchu awnaeth parth achaer dathyl. y ymwelet a math mab mathonwy. ydyd yd aeth ef parth achaer dathyl troi o vwyn y llys awnaeth hi. Ahi a glywei lef corn. Ac yn ol llef y corn. llyma hyd blin yn mynet heibyaw. a chwn achynnydyon yn yol. ac yn ol y cwn ar kynnydyon bagad owyr ar traet yn dyuot. Ellyngwch was heb hi y wybot pwy y niuer racco. Y gwas aaeth a gouyn pwy oedynt. Gronw pebyr yw hwnn. y gyrr yssyd arglwyd ar penllynn heb wy. Hynny adywawt y gwas idi hitheu. Ynteu agerdwys yn ol yr hyd. ac ar auon gynwael gordiwes yr hyd ae lad.

Ac wrth ulingaw yr hyd. Allithyaw y gwn ef auu yny wascawd ynos arnaw. Aphan yttoed ydyd yn atueilaw ar nos yn nessau. ef a adoeth heb porth y llys Dioer heb hi ni agawn yngoganu gan yr unben. oe adu y pryttwn y wlat arall onys gwahodwn. Dioer arglwydes heb wy iawnaf yw ywahawd. Yna yd aeth kennadeu yn y erbyn y wahawd. Ac yna y kymeth ef y wahawd yn llawen. Ac y doeth yr llys. Ac y doeth hitheu yny erbyn ef y ressawu. ac y gyuarach gwell idaw. Arglwydes heb ef duw adalho it dy lewenyd. Ymdiarchenu a mynet y eisted a wnaethant. Sef awnaeth blodeued edrych arnaw ef. Ac yr awr yd edrychawd nyt oed gyueir arnei hi ny bei yn llawn oe garyat ef. Ac ynteu asynnywys arnei hitheu. ar un medwl adoeth yndaw ef ac adoeth yndi hitheu. ef ny allwys ymgelu oe uot yny charu hi. ae uenegi idi awnaeth. Hitheu agymerth diruawr lewenyd yndi. ac o achaws y serch ar caryat a dodassei bop un o honunt ar y gilyd y bu eu hymdidan y nos honno. ac ny bu oohir y ymgael o honunt. nyt amgen nor nos honno. ar nos honno kyscu ygyt awnaethant. Athran-noeth arouun awnaeth ef ymeith. Dioer heb hi nyt ey y wrthyfi heno. Y nos honno y buant ygyt heuyt. ar nos honno y bu yr ymgyghor gantunt pa ffuryf y keffynt vod ygkyt. Nyt oes gynghor heb ef onyt un. Keissaw y gantaw gwybot pa ffuryf y del y angheu. ahynny yn rith amgeled amdanaw. Trannoeth arouun awnaeth. Dioer heb hi ny chyghoraf it hediw uynet y wrthyfi. Dioer kanys kynghory ditheu. nyt

af ynheu heb ef. Mi adywedaf hagen uot yn berigyl dyuot yr unben bieu y llys adref. Ie heb hi auory mi ath ganhatat di y uynet ymdeith. Trannoeth aroun awnaeth ef. ac nys lludywys hitheu ef. Ie heb ynteu coffa adywedeis wrthyt ac ymdidan yn lut ac ef. a hynny yn rith ysmalhawch caryat ac ef. Adilyt y gantaw paffordd y gallai dyfot y anghau. Ynteu adoeth adref y nos honno. Treulaw ydyd awnaethant drwy ymdidan acherd achyuedach. Ac nos honnos y gyscu ygyt ydaethant. Ac ef a dywawt parabyll areil wrthi. Ac ynhyunny parabyll nys kauas ef. Paderw ytti heb ef ac awyt iach di. Medylyaw ydwyf heb hi yr hynn nys medylyut ti amdanafi. Sef yw hynny heb hi goualu am dy anghau di ot elut yn gynt no miui. Ie heb ynteu duw adalo itt dy amgeled. O nym lladi duw hagen nyt hawd vy llad i heb ef. awney ditheu yr duw. ac yrof inheu menegi ymi pafuryf y galler dy lad ditheu. kanys gwell yw uycyf i wrth ymoglyt nor teu di. Dywedaf ynllawen heb ef. nyt hawd vy lladi heb oergyt. areit oet uot vlwydyn yngwneuthur y par ymbyryt i ac ef. Aheb wneuthur dim o honaw namyn pan vydit ar yr aberth duw sul. Ae diogel hynny heb hi. Diogel dioer heb ef. Ni ellir uy lladi y mywn ty heb ef. ny ellir allan. ny ellir uy llad ar uarch. ny ellir ar uyntroet. Ie heb hitheu padelw y gellit dy lad ditheu. Mi ae dywedaf ytti heb ynteu. Gwneuthyr enneint im arlan auon. agwneuthur cromglwyt uchpenn y gerwyn. ae thoi ynda ac yndidos wedy hynny. a dwyn bwch heb ef ae doddi gerllaw y gerwyn. a doddi ohonaf inheu y neill troet ar geuyn y bwch. ar llall ar ymyl y gerwyn. pwy bynnac a meidrei i uelly ef awnei vy anghau. Ie heb hitheu diolchaf y duw hynny. ef aellir rac hynny dianc yn hawd. Nyt kynt noc y kauas hi yr ymadrawd. y hanuones hitheu att gronw pebyr. Gronw a laurywys gweith y gwaew. ar undyd ympenn y vlwydyn y bu barawt. ar dyd hwnnw y peris ef idi hi gwybot hynny. Arglwyd heb hi yd wyf yn medylyaw padelw y gallei uot ynwir adywedeist di gynt wrthyfi. ac adangossy di ymi pafuryf y saut ti ar ymyl y gerwyn ar bwch opharaf inheu yr enneint. Dangossaf heb ynteu. Hitheu aanvones at ronw ac a erchis idaw uot yghyscawt y brynn aelwir weithon brynn kyurgyr ygglan auon kynuael oed hynny.

Hitheu aberis kynullaw agauas o auar yny cantref. aedwyn yr parth draw yr auon gyuarwyneb abrynn kyurgyr. Athrannoeth hi adywawt. arglwyd heb hi mi a beris kyweiryaw yglwyt ar enneint y maent yn barawt. Ie heb ynteu awn y hedrych yn llawen. wynt adoethant drannoeth y edrych yr enneint. Ti aey yr enneint arglwyd heb hi. Af yn llawen heb

ef. Ef aaeth yr enneint ac ymeneiniaw awnaeth. arglwyd heb hi llyma yr anieileit adywedest ti uot bwch arnunt. Ie heb ynteu par dala un ohonynt. apha ydwyn yma. ef aducpwyd y bwch. yna y kyudes ynteu or enneint. agwiscaw ylawdyr ymdanaw. adodi y neilltroet idaw ar ymyl y gerwyn. ar llall ar geuyn y bwch. Ynteu ronw agyudes yuynyd or bryn aelwir brynn kyuegyr. ac arben y neillglyn y kyudes. ac ar gwenwynwaew y uwrw ae uedru yny ystlys. yny neitta y paladyr o honaw. athrifyaw penn yndaw. Ac yna bwrw ehetaan o honaw yn rith eryr. adodi garymleis anhegar. Ac ny chahat y welet ef o hynny allan. yngyngyflymet ac y daeth ef ymeith. Y kyrchassant wynteu y llys. ar nos honno kyseu ygyt Athrannoeth kyudi aoruc gronw agoresgyn ardudwy. Gwedy goresgyn ywlat y gwledychu awnaeth yny oed yny eidaw ef ardudwy a phenllyn. yna y chwedyl aaeth at math uab mathonwy. Trymuryt a goueileint agymerth math yndaw. a mwy wyd-yon. noc ynteu olawer. Arglwyd heb y gwydyon ny orffowyssaf uyth yny gaffwyf chwedleu y wrth fu nei. Ie heb y math. duw auo nerth itt. Ac yna kychwynnu awnaeth ef adechreu rodyaw racdaw. A rodyaw gwyned awnaeth ahowys yny theruyn. Gwedy daruot idaw uelly. ef adoeth hyt yn aruon. Ac adoeth y ty uab eillt ym maenawr bennard. Disgynnu yny ty awnaeth athrifyaw yno y nos honno. Gwr y ty ae dylwyth adoeth y mwyn. Ac yndiwethaf y doeth y meichat. Gwr y ty a dywawt wrth y meichat. Hawas heb ef adoeth dy hwch di heno y mywn. Doeth heb ynteu. yr awr hwnn doeth att y moch. Paryw gerdet heb y gwydyon yssyd ar yr hwch honno. Pan agorer y cren beunydd yd a allan. ny cheir craff arnei. ac nywybyddir pa fford yda. mwy no chynnelei yny dayar. awney di heb y gwydyon y rofi nat agorych y cren. yny vwyfi yny neillparth yr cren ygyt athi. gwnaf yn llawen heb ef. Y gysgu yd aethant y nos honno. Aphan welas y meichat lliw y dyd. ef a deffroes wydyon. achyuodi awnaeth gwydyon y gwisgaw ymdanaw. aduot ygyt ar meichat. aseuyll wrth y cren. Y meichat a agores y cren. ygyt ac y hegyr llyma hitheu ynbwrw neit allan. acherdet yn braff awnaeth. agwydyon ae kanlynwys a chymryt gwrthwyneb auon awnaeth a chyrchu nant awnaeth aelwir weithon nant y llew. Ac yno gwastadau awnaeth aphi. Ynteu wydyon adoeth y dan y prenn. Ac aedrychawd pabeth ydoedd yr hwch yny bori. Ac ef awelei yr hwch yn pori kic pdwyr a chynron. Sef awnaeth ynteu edrych ymblaen y prenn. Aphan edrych ef awelei cryr ymblaen y prenn. Aphan ymysgytwei yr eryr. y syrthei y pryuet ar kic pdwyr o honaw. ar

hwch yn yssu yrei hynny. Sef awnaeth ynteu medyllyaw mae llew oedd yr eryr. achanu englyn. Dar adyf y rwng deulenn. gorduwrych awyr aglen. ony dywetofi eu oulyden. llew panyw hynn. Sef awnaeth ynteu yr eryr ymollwng yny uyd ygkymberued y prenn. Sef awnaeth ynteu wyd- yon canu eglyn arall. Dar adyf ynard uaes. nys gwlych glaw. nys mwy tawd. naw ugein angerd aborthes. ynyblaen llew llaw cyffes. Ac yna ym- ellwng idaw ynteu yny uyd yny geinc issaf or prenn. Canu englyn idaw ynteu yna Dar adyf dan anwaerat. mirein medur ymywet. ony dywedafi fi. dydaw llew ym harffet. Ac ydygwydawd ynteu arlin gwydyon. Ac yna y trewis gwydyon a hutlath ynteu yny uyd yny rith ehunan. Nywelsei neb ar wr tremynt truanach hagen noc aoad arnaw ef. nyt oed dim onyt croen ac asgwrn. Yna kyrchu kaer dathyl awnaeth ef. ac yno y ducepwyt agahat o uedic da yggwyned wrthaw. Kyn kyuyl yr ulwydyn ydoed ef yn holliach Arglwyd heb ef wrth uath uab mathonwy. madws oed ymi kaffel iawn gan y gwr y keueis ouut gantaw. Dioer heb y math ny eill ef ymgynnal ath iawn ti gantaw. Ie heb ynteu goreu yw gennyfi bo kyntaf y kaffwyf iawn. Yna dygyuoriaw gwyned awnaethant. achyrchu ardudwy. Gwydyon a gerd- wys yny blaen. a cyrchu mur castell aoruc. Sef awnaeth blodeued clybot eu byt yn dyuot. Kymryt y morwynyon ygyt ahi achyrchu y mynyd. Athrwy auon gynuael. kyrchu llys aoad ar y mynyd. ac ny wydnt gerdet rac ovyn. namyn ac eu hwyneb dracheuyn. Ac yna ny wybuant yny syrth- assant yny llynn. Ac y bodyssant oll eithyr hi ehunan. Ac yna y godiwed- awd gwydyon hitheu. Ac y dywawt wrthi. Ny ladafi di. mi awnaf yssyd waeth itt. Sef yw hynny dy ellwng yn rith ederyn. ac o achaws y kewilyd awnaethost di y lew llaw gyffes. na beidych ditheu dangos dy wyneb liw dyd vyth. ahynny rac ouyn yr holl adar. abot yn anyan udunt dy uaedu. ath amherchi y lle yth gaffont. ac na chollych dy enw. namyn dy alw vyth blodeuwed. Sef yw blodeuwed tylluan or ieith yr awr honn. ac o achaws hynny y mae digassawc yr adar yr tylluan. ac ef a elwir ettwa y tylluan yn vlodeuwed. Ynteu gronw pebyr agyrchwys pennllynn. ac odyo ymgeunattau awnaeth. Sef kennadwri aanuones. gouyn awnaeth y lew llawgyffes. a vynnei ae tir ae dayar ae eur ae aryant am y sarhaet. Na chymeraf y duw y dygaf uygkyffes heb ef. allyma y peth lleiaf agymeraf y gantaw. Mynet yr lle yr oedwn i o honaw ef pan ymbyryawd ar par. aminheu y lle yr oed ynteu. Agadel y minheu y vwrw ef aphaer. Ahynny yn lleihaer peth agymeraf y gyntaw. Hynny auenegit y ronw pebyr. Ie heb ynteu. dir yw ymi gwneuthur hynny. vggwyrda kywir am teulu am brodyr maeth. aoes o honawch chwi agymero yr ergit drossofi. Nac oes dioer heb wynteu. Ac

oachaws gomed o honunt wy. diodef un ergit dros eu harglwyd. y gelwir wynteu yr hynuy hyt hediw. trydyd aniweir deulu. Ie heb ef mi ae kymeraf. Ac yna y doethant eldeu hyt ar lann auon gynuael. Ac yna y seuis gronw yny lle ydoedd llew llaw gyffes pan y byryawd ef. allew yny lle yd oed ynteu. Ac yna y dywawt gronw pebyr wrth lew. arglwydd heb ef. kanys odryc ystryw gwreic y gwneuthum i yti awneuthum. Minneu aarchaf yti yr duw. llech awelaf ar lan yr auon. gadel im dodi honno y ryngof ar dyrnawt. Dioer heb y llew nyth ommedaf o hynny. Ie heb ef duw adalo itt. ac yna y kymerth gronw y llech. ac y dodes y ryngtaw ar ergit. Ac yna y byryawd llew ef arpar. ac y gwant y llech trwydi. ac ynteu drwydaw yny dyrr y geuyn. Ac yna y llas gronw pebyr. Ac yno y mae y llech ar lann auon gynuael yn ardudwy ar twll trwydi. Ac o achaws hynny ettwa y gelwir hi llech gronw. Ynteu llew llaw gyffes eilweith aoresgynnwys y wlat. ac ae gwledychwys yn llwydyannus. A herwyd y dyweit y kyuarwydyt ef auu arglwyd wedy hynny ar wyned. ac velly teruyna y geing honn or mabinogi.



PEREDUR AB EFRAWC.

EFRAWC iarll bioed iarllaeth y gogled. A seithmeib aoed idaw. Ac nyt o gyuoetheu yn vwyaf yd ymborthai efrawc. Namyn o twrmeimeint aryueloed ac ymladeu. Ac ual y mae mynych yr neb aymkanlyno ac ymladeu aryueloed. ef alas aechwemeib. Seithuet mab aoed idaw Peredr oed yenw. a ieuhaf oed hwnnw. Ac nyt oed oet idaw vynet y ymlad nac y ryuel. Pei oct idaw. ef a ladyssit mal y lladwyt y tat. ae vrodyr. Gwreic ystrywyat kymet oed yn vam idaw. A phryderu aoruc yn uawr. am y hun mab ae chytoeth. Sef a gafas yny chyghor ffo y'ynyalwch adiff-eithwch didramweyit. ac ymadaw ar kyfannedeu. Ny adawd neb yny chedyndeithas namyn gwraged ameibion. adynyon didraha. ny ellynt nac ny wedei udunt nac ymlad. na ryfelu. Ny lyuassei neb yn y lle y clywei y mab. kynnullaw na meirch nac arueu. rac doddi y vryt or mab arnunt. Ac yr fforest yd aei y mab beunydyd i chware ac y tafu llysgyon. ac yskyryon adiwarnawt ef a welei. gatwan geifyr y uam. A dwy ewic yn gyfagos yr geifyr. yn sefyll. ac eresu yn uawr aoruc y mab bot ydwy hynny heb gym. a chyrn ar y rei ereill. athybyaw eu bot yn hir ar goll. ac am hynny kolli eu kyn onadunt. Ac y ty aoed ym benn y fforest yr geifyr. o vilwryaeth a phedestric, ef a gymhellwys yr ewiged ygyt ar geifyr ymywn. Ef a deuth peredur drachefyn att y uam. Y mam heb ef peth ryued ryweleis yghot. Dwy o'th eifyr di gwedy ryuynet gwyllt-ineb yndunt arygolli eu kyn. rac meint hyt y buant ar goll dan koet. Ac ny chafas dyn gystec uwy noc a geueis yn eu gyrru y mywn. Ac ar hynny kyfodi aoruc pawb adyfod y edrych. Aphan welsont yr ewiged ryfedu yn uawr aorugant. Adiwarnawt wynt a welynt tri marchawc yn dyuot arhyt marchawcford gan ystlys y fforest. Sef tri marchawc oedynt. Gwalchmei uab gwyar. a geneir gwystyl. ac owein uab uryen. Ac owein yn kadw yr ol y ymlit y marchawc a rannassai yr aualeu yn llys arthur. Vy mam heb y peredr beth yw y rei racko. Eglyyont ynt vy mab heb hitheu. llyma vy ffyd heb y peredr ydaf yn egyl gyt ac wynt. Ac yr fford yn eu herbyn ydeuth peredur. Dywet eneit heb yr owein a weleist ti vachawc yn mynet heibaw. na hediw na doe. Nawn heb ynteu beth yw marchawc. Yryw beth wyfi heb yr owein. Bei dywetut

ti ymi ypeth a ovynnaf ytti. Minneu a dywedwn y titheu yr hwn aovynny ditheu. Dywedaf yn llawen heb yr Owein. Beth yw hwnn heb y peredur wrth y kyfrwy. kyfrwy yw heb yr Owein. Amofyn aoruc ynllwyr beth oed ykyweirdebeu awelei ef ar y gwyr ar meirch. ar arueu. Apha beth a vynnnt ac wynt. ac aellynt o honunt. Owein a uenegis idaw yn llwyr pob peth or aellir ac wynt. Dos ragot heb y pered^r mi aweleis y kyfryw aovynny titheu. Ammineu aaf yth ol ti. Yna ymchoelut aoruc Pered^r att yuam. ar nifer. Ymam heb ef nyt egyption oed y rei gynneu. namyn marchogyon urdolyon. Yna ydygwydawd y uam yn farw lewic. Ac ydaeth pered^r hyt lle ydoed keffylei agywedei gynnut. Ac a dygei vwyt allynn or kyfanned yr ynyalwch. A cheffyl brychwelw yskyrnic cryuaf a tebygei a gymerth. A phynnyorec a wasgwys yn gyfrwy idaw. Ac owydyn danwaret y kyweirdabeu awelsei ar y meirch ac ar boppeth aoru pered^r. Athrachebyn y deuth pered^r att y uam. Ar hynny datlewygu aoruc yr iarles. Ie vy mab kychwyn a vynny. Ieu heb ef gan dy genyat. Arho y genyfi gyghoreu kyn dy gychwynu. Ynllawen heb ef dywet ar vrys. Dos ragot heb hi y lys arthur yn lle mae goreu y gwyr. a haelaf. a dewraf lle y gwelych eglwys. kan dy bader wrthi. Ogwely vwyt a diawt or byd reit itt wrthaw. ac na bo owybot adayoni y rodi itt. kymer dy hun ef. Or clywy diaspat dos wrthi. adiaspat gwreic annat diaspat or byt. Or gwely tlws tec. kymer ef. a dyro y arall. Ac o hynny clot a geffy. Or gwely wreic tec. gordercha hi. kyn nyth vynno. gwellgwr a phenedigach yth. wna o hynny no chynt.

A gwedy yr ymadrawd hwnnw ysgynnv aoruc peredur ar y uarch. a dyrneit o aflacheu vlaen llym yn yllaw. achychwyn radaw ymeith aoruc. Ac y bu deudyd a dwynos ynkerdet ynyalwch fforestyd. ac amryw lediffeith heb vwyt ac heb diawt. Ac yna y doeth y goet mawr ynyal. ac ympell nny coet ef awelei lannerch dec wastat. Ac nny llannerch y gwelei bebyll. Ac yn rith eglwys ef a gant y pader wrth y pebyll. A pharth ar pebyll y doeth. adrws y pebyll aoed yn agoret. A chadeir eureit oed yn agos yr drws. Amorwyn wineu delediw nny gadeir yn eisted. a ractal eur am y thal. ameini llywychedic nny ractal. Amodrwy eururas am y llaw. adisgyn aoruc peredur. adyuot recdaw ymywn. A llawen uu y uorwyn wrthaw. a chyfarch gwell idaw. Ar tal y pebyll ef awelei vwyt. adwy gostrel yn llawn owin. a dwy dorth o fara cann. A golwython o gie meluoch. Vy mam heb y pered^r aerchais ymi pale bynnac y gwelwn vwyt adiawt y gymryt. Dos titheu unben yn llawen yr bwyd a gressaw wrthyt. Yna y kymerth pered^r hanner y bwyd. ar llynn idaw ehun. Ac adaw yllall yr uorwyn. A phan

daruu y peredur vwyta. dyuod a oruc a gostwng ar tal y lin rac bron y uorwyn. Vy mam heb ef aerchis ymi yn lle y gwelwn tlws tec. y gymryt. Kymer titheu eneit heb hi. Y uotrwy a gymerth peredr. A chymryt y uarch. a chychwyn ymeith. Yn ol hynny llyma y marchawc bieuoed y pebyll yn dyuot. Sef oed hwnnw syberw y llanerch. Ac ol y march a welei. Dywet heb ef wrth y forwyn. Pwy a uu yma gwedi myvi. Dyn enryued y ansawd arglwyd heb hi. A menegi ansawd peredur ae gerdet yn llwyr. Dywet heb ef. a vu ef gennyt ti a gwneuthur amuod arnat. Na vu myn vygret heb hi. na cham nys goruc ym. Myn vygret nyth gredaf. ac yny ymgaffwyf ac efo y dial vyghewilyd am lliid ny cheffy ditheu trigyaw dwy nos yu vuty. A chyudi aoruc y marchawc y ymgeisiaw a pheredur. Ac ynteu beredur a gychwynnawd parth a llys arthur. A chynn y dyuot ef y lys arthur. ef adaethoed marchawc arall y lys arthur. Ac a rodes modrwy eururas yn drws y porth yr dala y uarch. Ac ynteu a deuth yr neuad yn lle yd oed arthur ar teulu. A gwenhwyfar ae rianed. a gwas ystafell yn gwasanaethu o orlwlch eur ar Wenhwyuar. Yna y marchawc a diueuawd y llyn aoed yndaw am y hwyneb ae bronffoll. a rodi bonclust mawr y Wenhwyfar. A dywedut. Or byd neb ky ehofnet. ac amwyn y gorulwch hwnn ami. Adial sarhaet gwenhwyfar. deuet ym ol yr weirglod a mi ae harhoaf yno. Ae varch a gymerth y marchawc ar weirglodd a gyrchwys. Set aorugant pawb or teulu gostwng eu penneu. rac adolwyn y un vynet y dial sarhaet gwenhwyfar. athebygolyaeth oed gantunt na wnaei neb chwaen ky ehofnet a hynny. o ny bei uot arnaw vilwryaeth. ac au gerd. neu letrith. ual na allei neb ymdial ac ef. Ar hynny llyma peredur yn dyuot yr neuad ar geffyl brychwelw ysgymic. a chyweirdabeu musgrell arnaw. ac yn anhydwf yn llys kyfurd a honno. Sef yd oed gei yn seuyll ymperued y neuad. Dywed heb y peredur y gwr hir racko mae arthur. Beth a vynnit ti heb y kei ac arthur. Vy mam aerchis ymi dyuot ym urdaw yn varchawc vrdawl att arthur. Myn vygkret heb y kei ry aghyweir ydwyt o uarch ac arueu. Ac ar hynny y arganuot or teulu abwrw llyskyon idaw. Ar hynny llyma gwr yndyuot y mywn. adaethoed blwydyn kynno hynny y lys arthur. ef a chorres. y erchi trwydet y arthur. a hynny a gawssant. Ac yggouot y vlwydyn nydywedassei un o honunt vngeir wrth neb. Aphan arganvu y cor peredr. haha heb ef gressaw duw wrthyt peredr dec uab efrawc. arbennic milwyr a blodeu marchogion. Dioer heb y kei llyna vedru yndrwc bot blwydyn yn llys arthur yn vut yn kael dewis dy ymdidanwr. a galw y kyfryw dyn a hwnn yggwyd arthur ae deulu. ae dyscu yn arbennic milwyr. a blodeu marchogyon. a rodi bonclust idaw yny vyd yr llawr yny varw

lewic. ar hynny llyma y gorres haha heb hi gressaw duw wrthyt pered^r dec vab efrawc. blodeu y milwyr a channwyll y marchogyon. Ie vorwyn heb y kei. Llyna vedr yn drwc bot vlwydyn yn vut yn llys arthur. a galw y kyfryw dyn hwnn yny mod y gelweist. a gwan gwtthroet o gei yndi yny vyd yr llawr yn varw lewic. y gwr hir heb y peredur manac ym mae arthur. Taw ath son heb y kei. dos yn ol y marchawc aeth odyma yr weirglawd. a dwe y gorvlwch y gan taw. a bwrw ef. a chymer y varch ae arueu a gwedy hynny ti a geffy dy urdaw yn varchawc urdawl. Y gwr hir minneu a wnaef hynny ac ymchoelut penn y varch ac allan. ac yr weirglod. Aphandeuth yd oed y marchawc yn marchogaeth yn ryuygus oe allel ae dewred oe tebygolyaeth ef. Dywet heb y marchawc aweleist ti neb or llys yn dyuot ym ol i. Gwr hir oed yno heb ef. aerchis ymi dy vwrw di achymryt y gorvlwch ar march ar arueu ym y hun. Taw heb y marchawc. dos drachefyn yr llys. ac arch y gennyf y arthur dyuot ae ef ae arall y ymwan ami. ac oni daw yn gyflym nys arhoaf i euo. Myn vygeret heb y pered^r dewis di ae oth vod ae oth anvod. mivi a vynnaf y march ar arueu ar gorvlwch. Ac yna y gyrchu or marchawc ef yn llidyawc. ae wan ac arlost y waew yrwng ysgwyd. a mynwgl. dyrnawt mawr dolurus. Aha was heb pered^r ny chwaryei weisson vymam a mivi velly. Minneu a chwaryaf a thitheu val hynn. ae vwrw ef a gaffach blaen llym. ae vedru yny lygat yny vyd trwy y wegil allan. ac ynteu yn varw yn gytneit. Dioer heb yr owein uab uryen wrth gei. drwc y medreist am dyn ffol a yrreist yn ol y marchawc. Ac un o deu aderw idaw ae lad ae vwrw. os y bwrw a derw yr marchawc. rif gwr mwyn or Llys a vyd arnaw gan y marchawc. ac aglot dragywydawl y arthur ae wilwyr. Os y lad aderw yr aglot a gerda val kynt. ae pechawt arnaw ynteu yn ychwannec. a llyna vy ffyd ydafi. y wybod py gyfranc yw yr eidaw ef. ac y doeth owein yr weirglawd. Sef y gwelei owein pered^r yn llusgaw y gwr. ar hyt y weirglawd. Beth awney di uelly heb owein. Nydaw byth heb y pered^r y beis hayarn y amdanaw. tym yw gennyf pa ny o honaw ehunam pan henyw.

Yna y diosdes owein yr arueu ar dillat. llyma eneit heb ef uarch ac arueu gwell. nor rei ereill. a chymer yn llawen wynt. adyret ygyt ami hyd att arthur yth urdaw yn varchawc urdawl. kanys ti ae dylyy. Ny chatwyf vywyneb ot af heb y peredur. namyn dwe di y gorflwch y gennyfi y wenhwyuar. a dywet i arthur palebynnac y bwyfi gwr idaw vydaf. ac o gallaf lles a gwasanaeth idaw mi ae gwnaef. a dywet na deuaef y lys vyth yny gaffwyf ar gwr hir yssyd yno y dial sarhaet y kor ar gorres. Yna y deuth owein drachefyn yr llys. amenegi y gyfranc y arthur a gwenhwyuar. ac y

bawp or teulu ar bwgwth ar gei. Ac ynteu pered^r a gychwynnwys ymeith. ac ual y byt yn kerdet. llyma uarchawc yn kyuarfot ac ef. Pa le pan deui di heb y marchawc. pandeuf o lys arthur heb y pered^r ae gwr i arthur wyt ti heb ef. Ie myn vygkret heb y pered^r. Iawn lle yd wyt yn ymardelw ac arthur. Paham heb y pered^r. Mi ae dywedaf itt heb ef * * ar arthur vum eiryoet, ageffyrdwys ami yn wyr idaw mi ae lledeis. Ny bu hwy yryngtunt no hynny ymwan a orugant. Ac ny bu hir nny vyryawd pered^r ef dros pedrein y varch yr llawr. Nawd aerchis y marchawc idaw. nawd a geffy heb pered^r gan rodi dy lw ar vynet y lys arthur a menegi y arthur mae mi ath vyrywys er enryded gwassanaeth idaw ef. a manac na deuaf byth y lys nny gaffwyf dial sarhaet y corr ar gorres. ar marchawc arodes y gret ar hynny. ac a gychwynnwys raddaw y lys arthur. ac aoruc hynny. ar bwgwth ar gei. ac ynteu pered^r a gychwynnwys raddaw. ac yn yr un wythnos ef a gyfaruu ac ef. Vn marchawc arbymthec. ac ef pered^r ae byrywys yn gywelydyus. ac aaethant y lys arthur. ar vn ryw ymadrawd gantunt ac a daethoed gan y marchawc kyntaf. ar vn bygwth gan pered^r ar gei. a cheryd a gauas kei gan arthur. agoualus uu ynteu gei amhynny. Ynteu pered^r a gychwynnwys raddaw. Sef ydeuth y goet mawr ynyal. ac yn ystlys y coet ydoed llyn. ac ar y tu arall ydoed kaer dec. ar lann y llynn y gwelei gwr gwynllwyt telediwi yn eisted ar obennyd o bali. a gwisc o bali ymdanaw. a gweisson yn pycotta ar y llynn hono. Val y gweleis y gwr gwynllwyt pered^r yn dyuot. kyuodi aoruc tu ar gaer. a chloff oed yr hen wr. ynteu pered^r a gyrchwys y llys ar porth a oed yn agoret. ac yr neuad ydeuth. Ac yd oed y gwr gwynllwyt yn eisted ar obennyd. a ffyryf dan mawr yn llosgi rac y vron. a chyfodi aoruc y teulu ar niuer yn erbyn pered^r ae diarchenu. ac erchi awnaeth y gwr yr mackwy eisted ar tal y gobenyd. Achyt eisted ac ymdidan aorugant. Aphan vu amser gossot byrdeu amynet y vwyta. ae ar y neill law yr gwr bioed y llys yd oed pered^r yn eisted. Gwedy daruod bwyta. govyn aoruc y gwr y peredur. awydyat llad a chledyf ynda. na wn heb y pered^r pei kaffwn dyse nas gwypwn. A wypei chware o ffon a tharyan ynda. ef awybydei ymlad achledyf. Deu vab oed yr gwr. gwas melyn a gwas gwiniu. Kyfodwch weisson heb ef y chware affynn. ac a tharyan. Ac yna y chware a ffyn yd aethant. Dywet eneit heb y gwr. Pwy oreu or gweisson dybygy di a chware. Vyntebic yw heb pered^r y gallei y gwas melyn wneuthur gwaet ar y llall pei as mynnei. Kyuot titheu eneit a chymer y ffon ar daryan o law y gwas gwineu. a gwna waet ar y gwas

melyn os gelly. Peredr agyfodes amynet y chware ar gwas melyn. adyrch-
 auel llaw arnaw. ae daraw dymawt mawr yny dygwydawd yr ael ar y
 llygat. ae waet ynteu yn rydec. Ieu eneit heb y gwr. dos y eisted bellach.
 agoreu dyn alad a chledyf yn yr yuys honn vydy di. ath ewythyр ditheu
 vrawt dy fam wyf ynneu. a chyt ami y bydy ywershoun yndyscu moes ac
 aruer y gwladod aed mynutrwyd. Kyuartalrwyd ac adfwynder ac unben-
 rwyd. ac ymadaw weithon a ieith dy vam. ami a vydaf athro itt. ac ath
 urdaf yn varchawe urdawl o hynn allan. allyma awnelych. Kyt gwelych
 beth avo ryued gennyt. na amouyn am danaw. ony byd o wybod y venegi
 itt. nyt arnat ti y byd y keryd. namyn arnafi. kanys mi yssyd athro itt. Ac
 amryfael enryded a gwassanaeth agymmerassant. Aphan uu amser y gyscu
 ydaethant. Pandoeth y dyd gyntaf. kyuodi aoruc. Peredr achymryt y varch
 achan gennyat y ewythr kychwyn ymeith. Ac ef adoeth y goet mawr
 nnyal. ac yn mhen y coet y deuth y dol. ar tu arall yr dol wastat y gwelei
 gaer vavr. athu ar lle hwnnw y kyrehwys Peredr ar porth a gauas ynagoret.
 ac yr neuad y deuth. sef y gwelei gwr gwynllwyт teleidiw yn eisted ar ystlys
 y neuad. a mackweyt yn amyl yn y gylch. a chyfodi aorugant yn urdasseid
 ae erbynnyaw. ae dodu y ar y neill law yr gwr bioed y llya. Ac ymdidan
 aorugaut. Aphan uu amser mynet yr bwyt. dodu Peredr awnaethpwyт y
 eisted ar neill law y gwr mwyn y wvyta.

Agwedy daruot bwyta ac yvet eu hamkann. gofyn aoruc y gwrda
 y Peredr awydyat ef lad achledyf. Pei kaffwn dysc tebie oed genyt y
 gwydwn heb Peredr. Ssef ydoed ystyffwl mawr yn llawr y neuad am-
 gyffret milwr yndaw. Kymer heb y gwr wrth Peredr y cledyf racko
 atharaw yr ystwffwl hayam. A pheredr agyfodes ac adrewis yr ystwffwl
 yny vu yndeudryll ar cledyf yndeudryll. Bwrw ydryllyeu ygyt achyu-
 anna wynt. Peredr aedodes ygyt achyuannhau aorugant ual kynt.
 Ar eilweith y trewis yr ystwffwl yny vyd yn deudryll ar cledyf
 yndeudryll. Ac ual kynt kyuannhau aorugant. Ar dryded weith y kyffelyb
 dymawt atrewis ae bwrw ygyt ac uy chyuanhaci nar ystwffwl nar cledyf
 Ie was heb y gwr dos y eisted bellach am bendith ytt. Yny teyrnas
 goreu dyn a lad a chledyf wyt. Deuparth dy dewred a geueist. ar
 trayan yssyd heb gael. Agwedy keffych yn gwbyl ny thyckya y neb
 amrysson a thi. ath ewythyр wyf inneu vrawt dy vam. brodoryon ym ni
 ar gwr y buost neithwyr yny ty. Ac yna ymdidan ae ewythyр aoruc
 peredr ar hynny y gwelei deuwas yn dyuot yr neuad. ac yn mynet yr
 ystauell. a gwaew gantynt anveitrawl y veint. athri ffrwt owaet yn reded
 or mwn hyt y llawr. Aphan welas ef y niver hwnnw. lleucin adrycyruerth a

orugant. Ac yr hynny ny thorres y gwr y ymdidan a pheredr. Yr hynny ny dywat ef y beredr, yr ystyr. nysgofynnawd ynteu. Gwedy tewi yspeit vechan. ar hynny llyma dwy vorwyn yn dyuot. adysgyl vawr y ryingtunt. aphenn gwr nny dysgyl. agwaet yn amyl nny chylch. Ac yna diaspedein aorugant yn vawr niuer y llys. nny oed vlin trigyaw yn vnllys ac wynt. Ac or diwed tewi o honnunt. Aphan vu amser y gysgu ydaeth peredr y ystauell tec. Athrannoeth peredr a gychwynnwys gan genyat y ewythyr racdaw ymeith. Odyna ef adoeth y goet ac ympell nny coet ef aglywei diaspat. Sef y gwelei wreic wineu delediw. amarch a chyfrwy arnaw yn seuyll geyr yllaw a chelein nny hymyl. ac yn keissaw bwrw y gelein ar y march nny kyfrwy. ydygwydei ynteu yr llawr. ac y dodei hitheu diaspat. Dywet vy chwaer heb y peredr pa diaspedein yssyd arnat. Oya ysgymunedic peredr bychanwaret vyggovit a geueist eiryoet genyt ti. Paham heb y peredr y bydwn ysgymun i. amdyuot yn achaws y lad dy uam. kany pan gychwynneist oe hanuod y neidyawd gwaew nny chalonn ac o hynny y bu uarw. Ac am hynny ydwynt yn ysgymunn. ar corr ar gorres aweleist yn llys arthur. coraeit di dat ti ath uam oedynt. Achwaeruaeth itt wyf ynneu. am gwr priawt oed hwnn. ae lladawd ymarchawc yssyd nny llannerch nny coet. ac na dos ditheu nny gyvyl ef rac dy lad o honaw. Vy chwaer cam ydwynt ymkerydu. am vymot yngylyt ac y bum y gyt a chwi. abreid vyd ym y oruot. Apehi bydwn avei hwy anawd vydei ym y oruot. athitheu taw bellach ath drycyruerth. kany thyckya aingen. ami a gladaf y gelein. Agwedy hyny mi aaf hyt lle mac y marchawc y edrych aallwyf y dial arnaw a gwedy cladu y gwr o honaw. Dyuot aorugant y lle ydoed y marchawc yn marchaethyn ryuygus nny llannerch. ar hynt gofyn or marchawc y perodr py le pandoei. Pan deuaf o lys arthur. ae gwr y arthr wyt ti. Ieu myn vygkret. Iawn lle yd ymgystlyny o arthur. Ny bu hwy no hynny ymgyrchu a orugant. Ac yn y lle pered. a vyrywawd y marchawc. A nawd a erchis ynteu y beredr. Nawd a ageffy heb y peredr gan gymryt y wreic honn yn priawt. a gwneuthur y parch ar anrhyded goreu a ellych idi. am lad o honat titheu y gwr priawt hi ya wirion. amynet o honat y lys arthur. amenegi idaw mac mi ath vyrywys yr enryded a gwasanaeth y arthur. Amenegi idaw na deuaf i hyt y lys ef nny ymgaffwyf ar gwr hir yssyd yuo y dial sarhaet y corr ar gorres arnaw. achedernyt ar hynny a gymierth y gan y marchawc. achyweiraw y wreic yn gyweir o varch a dillat gyt ac ef y lys arthr. A menegi y arthur y gyfranc. ar bwgwth ar gei. A cheryd a gauas kei gan arthr ar teulu am wylltu o honaw gwas kysstal a pheredr o lys arthur. Heb yr Owein uab uryen. ny daw y mackwy hwnnw byth yr

llys. nyt a kei or llys allan. Myn vygret heb arthur mi geissaf ynyalwch ynys prydein am danaw yny caffwyf. ac yna gwnaet pob un onadunt aallo waethaf y gilyd. Ynteu Peredr a gychwynnwys raddaw. ac adeuth y coet ynyal amsathyr dynyon nac alanot nys gwelei. namyn gwydweli a llysseu. Ac yn dibenn y coet ef awelei gaer uawr. athyreu kadarn amyl eini. Ac yn agos yr porth hwy oed y llysseu noc ynllle arall. Ac arlllost y waew ef a ffustawd y porth. ar hynny llyma was melyngoch achul ar vwch y gaer. Dewis unbenn heb ef ae mi a agorwyf y porth itt. ae menegi yr neb pennaf dy uot titheu yn drws y porth. Manac vy mot yma heb peredr. Ac or mynnir vy nyvot y mywn mi adeuaf. Y mackwy adeuth drachefyn ac a agores y porth y peredr. A phandeuth yr neuad ef awelei deunaw-weis o weisson culyon cochyon undwf ac vnpryt. ac vnwisc. ac unoet. ar gwas aagorassei y porth raddaw. .A. da vu eu gwybot ae gwasanaeth. ae diarchenu a orugant. Eisted ac ymdidan aorugant. Ar hynny llyma pump morwyn yu dyuot or ystauell yr neuad. Ar uorwyn pennaf onadunt. Dieu oed gantaw na welsei dreimeint kyndecket a hi eiryoet ar arall. a henwisc o bali rwyllawg ymdanei a vuassei da gynt. yny welir y chnawt trwydaw. a gwynnach oed no blawt y krissant. y gwallt hitheu ae dwy ael duach oedynt nor muchud. deu uann gochyon vychein yn y grudyeu. cochach oedynt nor dim cochaf. kyuarth gwell y peredr aoruc y vorwyn a mynet dwylaw mynwgwyl idaw. ac eisted ar y neill law. Nyt oed pell yn ol hynny. ef a welei dwy vanaches yn dyuot. achostrel yn llawn owin gan y lleill. a chwe thorth ovara cann gan y llall. Arglwydes heb wy duw a wyr na bu y gymeint arall a hynn ovwyt allyn yr koveint hwnt heno.

Odyna yd aethant y vwya. apheredr a adnabu ar y uorwyn mynnu rodi or bwynt arlllyn idaw ef mwy noc y arall. Tydi vychwaer heb y peredr. Myvi a rannaf y bwynt ar llyn. Nac ef eneit heb hi. Llyma vy ffyd mae mi ae rannaf. Peredr a gymerth attaw vara. ac arodes y bawp gystal ae gilyd. Ac y uessur ffiol orllyn ef a rodes y bawp gystal ae gilyd. Pan oed amser mynet y gyscu. ystauell a gweirwyt y peredr ac y gyscu yd aeth. llyma vy chwaer heb y gweisson wrth y vorwyn deckaf a phennaf o nadunt agyghwn i ytti. Beth yw hynny heb hi. Mynet att y mackwy yr ystauell uhot y ymgynnig idaw. ynywed y bo da gantaw ef ae ynwreic ae yn orderch. Llyna heb hi beth ny weda. mivi heb achaws eiryoet a gwr. Ac ymgynnig o honaf ynneu idaw ef. ymblaen vyggorderchu o honaw. ny allaf i hynny yr dim. Dygwn y duw ankyffes o ny wney di hyny. yth adawn yth elynnyon yma y wneuthur a vynnont athi. Ac rac ofyn hynny kychwynny a oruc y vorwyn. athan ellwg y dagrau dyuot racdi yr ystauell achaw dwrwf y dor yn agori. deffroi aoruc Peredr. Sef ydoed vorwyn yn

wylaw. ac yn drycaruerthi. Dywet vychwaer heb y peredr. Pa ystyr yd wyt yn wylaw. Mi aedywedaf ytt arglwyd heb hi. Vyntat i bioed y kyuoeth hwnn unben idaw ehun. ar llys honn ar iarllaeth ydanei goreu yn y gyuoeth. Sef ydoed mab iarll arall ym erchi ynneu ym tat. Nyt awn ynneu om bod attaw ef. nym rodi ynneu vynntat om hanuod idaw ef nac i iarll or byt. Ac nyt oed o blant ym tat i namyn myvi vy hun. Agwedy marw vyntat y dygwydwys y kyuoeth ym llaw ynheu. akwyrach y mynnwn euo no chynt. Sef aoruc ynteu yna ryuelu arnafi. agoresgynn y kyuoeth eithyr yr vnty hwnn. Ac rac daet y gwyr a weleist di brodoryon maeth ymi. achadarnet y ty. ny cheit byth trabarhaei bwyt a llynn. Ahynny aderyw. namyn ual yd oed y mynachesseu aweleist di yn porthi ni herwyd bot yn rud udunt hwy y kyfoeth ar wlat. Ac weithon nyt oes udunt wynteu na bwyt na llynn. Ac nyt oes oet bellach noc auory yny del y iarll ae holl allu gantaw ampenn y lle hwnn. ac os mivi ageiff ef. ny bydd gwell vyndihenyd. nam rodi y weisson y veirch. adyuot y ymgynnig y titheu arglwyd yn y wed y bo hegaraf gennyt. yr bot yn nerth ymi. yn dwyn odyma neu yn amddiffynn innheu yma. Dos vychwaer heb ef y gysgu. ac nyt af y wrthyt kynny wnelwyf dim oc adywedy. yny wypwyf aallwyf a nerth ywch. Drachefyn ydeuth y uorwyn y gysgu. Trannoeth y bore y kyuodes y uorwyn ac y deuth hyt lle yd oed peredr a chyvarch gwell idaw. Duw a rodo da ytt eneit a pha ryw chwedleu yssyd gennyt. Nyt oes namyn bot y iarll ae holl allu gwedy ry disgynnu wrth y porth. Ac ny welas neb lle amlach pebylleu na marchawc yn galw ar arall y ymwan. Ieu heb peredr kyweirer y minneu vy march. Yna y varch a gyweirwyt y beredur. ac ynteu a gyfodes ac y gyrchwys y weirglawd. Sef yd oed marchawc yn marchogaeth yn ryuygus yny weirglawd gwedy dyrchafel arwyd ymwan. Ac yn ymwan aorugant. A pheredr a vyryawd y marchawc dros pedrein y varch yr llawr. Ac yn diwed y dyd ef adeuth marchawc arbennic y ymwan ac ef. a bwrw hwnnw aoruc peredr. Nawd aerchis hwnnw. Pwy wyt ti heb y peredr. Dioer heb ef penteulu y iarll. Beth yssyd o gyfoeth y iarll yth uedyant ti. Dioer heb ef y trayan. Ieu heb ef eturyd idi draean y chyuoeth yn llwyr. ac a geueist oda o honaw a bwyt kanwr. ac eu llynn ac eu meirch ac eu harueu heno yn y llys idi. a thitheu yngarcharawr idi eithyr na byd eneint nadeu. A hynny a gahat yndiaannot. Ar uorwyn y nos honno yn hyfryt lawen. a gwedy caffel kwawl o hynny. Athrannoeth peredr a gyrchwys y weirglawd. alluossogryd o honunt a buryawd ef y dyd hwnnw. Yndiwed y dyd hwnnw ef adeuth marchawc ryfygus arbennic. a bwrw hwnnw aoruc

peredr a nawd a erchis hwnnw y peredr. Pa vn wyt titheu heb y peredr. Distein llys heb ef. Beth heb peredr yssyd o gyuoeth y uorwyn yn veu ytti. Trayan y kyuoeth heb ef. Ieu heb peredr y kyuoeth yr vorwyn. ac a o da o honaw yn llwyr. abwyt deukannwr. ac eu llynn ac eu meirch ac eu harueu. A thitheu yn garcharawr idi. a hynny yn diannot a gahat. ar trydyd dyd y deuth peredr yr weirglawd. a mwy a vrywys ef y dyd hwnnw noc undyd. Ac yndiwed y dyd ef adoeth iarll y ymwan idaw. ac ef ae byrywys a nawd a erchis ynteu. Pwy wyt titheu heb y peredr Mi y iarll heb ef nyt ymgelaf. Ieu heb y peredr y hyarlaeth yngwbwl yr vorwyn. ath iarllaeth titheu heuyt yn achwanec. A bwyt trychanwr. ac eu llynn ac eu harueu. ac eu meirch a thitheu yn y medyant. Ac uelly y bu yn gwbwl. Ac y trigyawd peredr teir wythnos yn periteyrnget a darestyngedigaeth yr uorwyn ar kyuoeth wrth y chyghor. gan dy genyat heb y peredr mi a gychwynnaf ymeith. Ie hynny vymrawt avynny. Ieu myn vygcret. aphei na bei o garyat arnat ti ny bydwn yma hyt y bum. Eneit heb hi Pa vn wyt titheu. Pared, uab efrawc or gogled. ac or daw na gofut arnat nac enpytrwyd. manac attaf. ami ath amdiffynaf os gallaf.

Odyna kychwyn aoruc peredr ac ym pell odyno ef a gyferuyd marchoges ac ef. Amarch achul gochwys y danei. A chyuarth gwell aoruc hi yr mackwy. Pa le pan deuy di vy chwaer. Mynegi aoruc idaw yr achaws yd oed ar y kerdet hwnnw. Sef oed honno gwreic syberw y llanerch. Ieu heb ef mi yw y marchawc y keueist di y gofut hwnn oe achaws. Ac ediuar vyd yr neb ae gwnaeth. Ar hynny llyma y marchawc yn dyuot ac yn amofyn a pheredr awelsei ef y kyfryw uarchawc ydoed ef yn y geisaw. Taw ath son heb y peredr mi ydwyt yny geissaw. ac myn vygkret drwc wyt ar deulu wrth y vorwyn achaws gwiryon yw o honafi. Ymwan eissoes aorugant. Ac ny bu hir yr ymwan peredr auryrawd y marchawc. a nawd aerchis ynteu y beredr. Nawd ageffy heb y peredr gan vynet dracheuyn y ford y deuthost y venegi kaffel y vorwyn yn wirion. Ac yn wynabwerth idi hitheu dy vwrw o honaf i. Y gret ar hynny arodes y marchawc. Ac ynteu peredr a gerdawd racdaw. ac ar vynyd y wrthaw ef a welci gastell. apharth ac yno ydeuth. a gwan y porth aoruc ae waew. ar hynny llyma was gwineu telediw yn agori y porth. a meint milwr yndaw. ae oedran mab arnaw. a phan deuth peredr yr neuad. ydoed gwreic vawr delediw yn eisted y mywn kadeir. Allawuorynyon yn amyl yn y chylch. a llawen vu y wreicda wrthaw. Aphan vu amser gantunt mynet y vwyta aorugant. Gwedy daruot bwyta. da oed yti vnben heb hi vynet y gyscu y le arall. Pony chawn gyscu yma heb y peredr. Naw gwidon eneit yssyd yma o

widonot kaeloyw. ae tat ae mam gyt ac wynt. ac nyt nes andianc ni erbyn y dyd noc udunt yn llad. Ac neur derw udunt goresgyn y kyuoeth ae diffeithaw o nyt yr vnty hwnn. Ieu heb y peredr yma y bydwn heno. Ac os gofut a daw arnawch os gallafi les mi ae gwnaf. afles nys gwnaf ynneu Ac y gyscu ydaethant. ac y gyt ar dyd peredr aglywei diaspat engiryawl. Achyuodi yngyflym aoruc peredr oe grys ae lawdyr ae gledyf am y vynwgyl. ac allan y doeth. Sef y gwelei gwidon yn ymordiwes a gwillwr. Ac ynteu yn diaspedeit. Peredr a gyrchwys y widon. ac ae trewis a chledyf ar y phenn yny ledawd yr helym ae phenffestin ual dyscyl ar y phen. Dy nawd peredr dec uab efrawc a nawd duw. Paham wrach y gwydost di mae peredr wyfi. Tyghetuen a gweledigaeth ym odef gofut y gennyt. Ac y titheu kymryt march ac arueu y genyf ynneu. Ac ygyt ami y bydy yn dyscu marchogaeth a theimlaw dy arueu. Val hynn heb y peredr y keffy nawd. Dygret na wnelych gam byth ygkyuoeth y iarlls. kedernyt ar hynny a gymerth peredr a chan ganyat y iarlls kychwyn ygyt ar widon y lys y gwidonot. ac yno y bu ef teir wythos ar vntu. ac yna dewis y uarch ae arueu. a chychwynnu racdaw. adiwedyd ef a doeth y dyffrynn. ac yn diben y dyffryn ef a doeth y gydygyl meudwy. Allawen uu y meidw y wrthaw. ac yno y bu ef y nos hono. Trannoeth y bore ef a gyfodes odyo. Aphan deuth allan ydoed gawat o eiry gwedy ry odi y nos gynt. a gwalch wyllt wedy llad hwyat yn tal y kudugyl. achan dwryf y march kilyaw or walch. a disgyn bran ar gie yr ederyn. Sef a oruc peredr seuyll a chyffelybu duet y vran. agwynder yr eiry. a chochet y gwaet. y wallt y wreic uwyaf a garei a oed kynduet ar muchud. Ae chnawt oed kynwynnet ar eiry. achochter y gwaet yn yr eiry yr deuvann cochion oed yny grudyeu. Ar hynny yd oed arthur ae deulu yn keissaw peredr a wydawch chwi heb yr arthur pwy y marchawc paladyrhir. a seif yn y nant uchot. Arglwyd heb un mi aaf y wybot pa vn yw. Yna y doeth y mackwy hyt y lle yd oed peredr. Agofyn idaw beth awnaci ef uelly. aphwy oed. ac rac meint medwl peredr ar ywreic vwyaf a garei. ny rodes atdeb idaw. Sef a oruc ynteu gossot a gwaew ar peredr ac ynteu peredr aymchoelawd ar y mackwy. ac ae gwant dros bedrein y uarch yr llawr. Ac yn ol ef adoeth pedwar mackwy ar hugeint attaw. ac nyt attebei yr vn mwy noe gilyd. namyn yr un gware aphob un. y wan ar un gossot yn llawr. Ynteu gei ydeuth attaw ef. ac a dywawt yn disgethrin anhegar wrth peredr. Apheredr ae kymerth agwaew y dan y dwy en. ac ae byrywys ergyt y wrthaw. yny dorres y vreich a gwaell y ysgwyd. amarchogaeth vn weith ar hugeint drostaw. Ac ual yd oed yny uarw lewic rac meint y dolur agawssei. yd-

ymchoelawd y uarch a thuth garw gantaw grawth. Aphan welsant y teulu y march yn dyuot heb y gwr arnaw. y kychwynasant ar vrys. parth ar lle y buassei y gyfranc. Aphaudeuthant yno tybygu ry lad kei. Wynt awelsant hagen or kaffeï vedic da. y bydei byw. Ny symudawd peredr y vedwl mwy no chynt yr gwelet y pennyal aoed amben kei. Ac y deuthpwynt achi hyt ympebyll arthur. ac y peris arthur dwyn medygon kywreint attaw. Drwc uu gan arthur kyfaruot a chei y gofut hwnnw Kanys mawr y karei. Ac yna y dywawt gwalchmei. nydyliei neb kyffroi marchawc urdawl y ar y medwl y bei arnaw yn agkyfuartal. Kanys ac attoed ae collet ar daethoed ydaw. ae ynteu yn medylyaw am y wreic vwyhaf a garei. ar agkyuartalwch hwnnw ac attuyd gyuaruu ar gwr a ymwelas ac ef yndiwethaf. Ac or byd da gennynt ti arglwyd miui aaf y edrych a symudawd y marchawc y ar y medwl hwnnw. Ac os uelly y byd. mi aarchaf idaw ynhygar dyuot y ymwelet athi. Ac yna y sorres kei ac y dywawt geirieu dic kenuigenus. Gwalchmei heb ef hysbys yw gennyfi y deuy di ac ef herwyd y awwyneu. Clot bychan hagen ac etmyc yw ytt oruot y marchawc lludedic gwedy blinaw yn ymlad. Velly hagen y goruost di ar lawer onadunt wy. Achyt tra barhao gennynt ti dauawt ath eirieu tec. digawn vyd itt o arueu. Peis o vliant teneu ymdanat. Ac ny byd reit itt torri nagwaew na chledyf yr ymlad ar marchawc a geffych yn yr ansawd honno. Ac yna ydywawt gwalchmei wrth gei. Ti aallut dywedut auei hygarach pei as mynhut. ac nyt arnafi y perthyn itti dial dy lit ath digyoveint. Tebic yw gennyf i hagen y dygafi y marchawc gyd ami heb torri na breich nac ysgwyd ymi. Yna ydywawt arthur wrth Walchmei. mal doeth a phwyllic y dywedy di. a dos ditheu ragot achymer digawn o arueu ymdanat. adewis dy uarch. Gwisgaw awnaeth gwalchmei ymdanaw. aacherdet radaw yn chweric ar gam y varch. parth arlle ydoed peredur. Ac ydoed ynteu yngorffowys wrth paladyr ywaew ac yn medylyaw yr vn medwl. Dyuot awnaeth gwalchmei attaw heb arwyd crelonder gantaw. adywedut wrthaw. Pei gwypwn vot yn da gennynt ti mal y mae da gennyfi. Mi a ymdidanwn athi. Eissoes negessawl wyfi y gan arthur attat. y atolwyn itt dyuot y ymwelet ac ef. Adeuwr a doeth kyn no mi ar y neges honno. Gwir yw hynny heb y peredur. ac anhygar ydoethant. ymlad awnaethant ami ac nyt oed da gennyf ynneu hynny. gyt ac nat oed da gennyf vyn dwyn y ar y medwl yd oedwn arnaw. Yn medylyaw yd oedwn am y wreic uwyhaf a garwn. Sef achaws y doeth cof im hynny. yn edrych yd oedwn ar yr eira. ac ar y uran. ac ar y dafneu o waet yr lwyat a ladyssei y walch yn yr eira. Ac yn medylyaw

yd oedwn bot yn gynhebic gwynder yr eira. aduhet y gwallt ae haeleu yr uran. ar deuvann goochyon aoed nny grudyeu yr deu dafyn waet. Heb y gwalchmei nyt oet anuonhedigeid y medwl hwnnw. Adiryued oed kynny bei da gennyt dy dwyn y arnaw. Heb y peredr adywedy di ymi a yttiwi kei ynllys arthur. yttiwi heb ynteu. ef oed y marchawc diwethaf aymwanawd athi. ac ny bu da ydoeth idaw yr ymwan hwnnw. torri awnaeth y vreich deheu idaw agwaell y yskwyd gan y kwymp agauas owth dy paladyr di. Ie heb y peredr nym tawr dechreu dial sarhaet y corr ar gorres velly. Sef awnaeth gwalchmei enryuedu y glybot yn dywedut am y corr ar gorres. A dynessau attaw a mynet dwylaw mynwgyl idaw. agovyn pwy oed y enw. Peredur uab efrawc ym gelwir i heb ef. athitheu pwy wyt. Gwalchmei ym gelwir i heb ynteu. Da yw gennyf dy welet heb y peredr. Dy glot vy ginglef ym pob gwlat or y bum o vilwryaeth a chywirdeb. ath athgedymdeithas yssyd adolwyn gennyf y gaffel. keffy myn vygkret. adyro ditheu. ymi y teu. Ti ageffy yn llawen heb y peredr. Kychwyn awnaethant ygyt ynlyfryt gyttuun parth ar lle ydoed arthur. aphan gingleu gei eubot yn dyfot. ef adywawt. Mi awydw na bydei reit ygei ymlad ar marchawc, adiryued yw idaw caffel clot. Mwy awna ef oe eireu tec no miui o nerth au harueu. Amynet a wnaeth peredr a gwalchmei hyt yn luest Walchmei ydiot eu harueu. Achymryt aoruc peredr y ryw wisic ac a oed y walchmei. amynet awnaethant yn llaw hyt y lle yd oed arthur. a chyuarth gwell idaw. Llyma arglwyd heb y gwalchmei y gwr y buost yr ystalym o amser nny geissaw. Graessaw wrthyt unben heb yr arthur. a chyt ami y triggy. apheigwypwn vot dy gynnyd mal y bu. nyt aut y wrthyfi pann aethost. Hwn hagen a doroganwys y corr ar gorres itt auu drwc kei wrthunt. athitheu ae dieleist. Ac ar hynny nachaf y vrenhines ae llawvorynyon yn dyuot. a chyvarch gwell awnaeth peredur udunt. a llawen uuaut wynteu wrthaw ae ressawu aorugant. parch ac enrhyded mawr awnaeth arthur amperedur. ac ymchoelut aorugant parth a chaerllion. Ar nos gyntaf y deuth peredr y gaer llion y lys arthur. ac yd yttoed yn troi nny gaer wedy bwyt. nachaf ygharat law eurawc ynkyuaruot ac ef. Myn vygkret vy chwaer heb y peredr morwyn hygar garueid wyt. ami aallwn arnaf dy garu ynvwylhaf gwreic pei da genyt. Miui arodav vygkret heb hi val hynn. na charafi dydi ac nath vynnaf yndragywydawl. Minneu arodaf vygret heb y peredr nadywedaf ynneu eir byth wrth gristawn nny adeuych ditheu arnaf vygaru i yn vwyaf gwr. Trannoeth ef a gerdawd peredr ymeith. ar prifford ar hyt keuyn mynyd ef awelei dyffryn crwnn. a gororeu y dyffryn yn goedawc carregawc. a gwastat y dyffryn

oed yn weirglodyeu. ac yn dired ar y rwng y gweirglodyeu ar coet. Ac ym mynwes y coet y gwelei tei duon mawr anuanawl eu gweith. adisgynnu awnaeth ac arwein y varch tuar coet. Ac am talym or coet ef a welei ochyr carreclm. ar ffordd ynkyrchu ochyr y garrec. allew yn rhwym wrth gadwyn. ac yn kyscu ar ochyr y garrec. aphwll dyfynn athrugar y veint awelei dan y llew. Ae loneit yndaw oesgym dynyon ac anieueleit. athynny cledyf awnaeth peredr atharaw y llew. yny dygwyd yn dibin wrth y gadwyn. uch penn y pwll. Ac ar yr eildyrnawt taraw y gadwyn aoruc yny tyrr. Ac yny dygwyd y llew yn y pwll. ac ar traws ochyr y garrec arwein y uarch aoruc peredr yny doeth yr dyffryn.

Ac ef a welei am ganawl y dyffryn castell tec. athuar castell dy outh. ac ar y weirglawd wrth y castell ef awelei gwr llwyt mawr yn eisted. mwy oed no gwr or a welsei eiryoet. A deu was ieueinc yn saethu. karneu eu kyllleill o asgwrn moruil. y neill o honunt yn was gwineu. ar llall yn was melyn. adyuot raddaw awnaeth hyt y lle ydoed y gwr llwyt. a chyvarch gwell a oruc peredur idaw. ar gwr llwyt a dywawt. mefyl ar varyf vymphorthawr. Ac yna y dyallawd peredr panyw y llew oed y porthawr. Ac yna ydaeth y gwr llwyt ar gweisson gyt ac ef yr castell. ac y daeth peredr gyt ac wy. a lle tec enrydedus a welei ef yno. ar neuad a gyrchasant. ar byrdeu oed gwedy eu dyrchael. a bwyt a llynn yn didlawt arnadunt. Ac ar hynny ef awelei yn dyuot or ystauell gwreic ohen a gwreic ieuanc. Amwyhaf gwraged or awelsei eiryoet oedynt. Ac ymolchi aorugant. amynet y vwytta. Ar gwr llwyt aeth y benn y bwrdd yn uchaf. ar wreic ohen yn nessav idaw. Apheredr ar uorwyn a dodet ygyt. Ar deuwas ieueinc yn gwassanaethu arnadunt. Ac edrych a wnaeth y uorwyn ar peredur a thristau. a govyn a oruc peredr yr vorwyn paham yd oed trist. Tydi eneit yr pann yth weleis gyntaf a gereis yn vwyyhaf gwr. athost yw gennyf welet arwas kyn uonhedicket athi. y dihenyd avyd arnat auory. Aweleist ti y tei duon llawer ym bron y coet. gwyr yw y rei hynny ymtat i oll y gwr llwyt racko. achewri ynt oll. ac avory wynt adygyforant am dy penn ac ath ladant. ar dyffryn crwnn y gelwir y dyffryn hwnn. Oia uorwyn dec a bery di bot vynnarch i am arueu yn vnletty ami heno. Paraf yrofi a duw os gallaf ynllawen. Pan vu amserach gantunt kymrut hun no chyuedach. y gyscu yd aethant. ar uorwyn a beris bot march peredr ae arueu yn vn lletty ac ef. Athrannoeth peredr a glywei gordyar gwyr a meirch ygkylch y castell. Apheredur a gyuodes. ac awisgawd y arueu ymdanaw. ac ymdan y uarch. ac ef a deuth yr weirglawd. ac y deuth

y wreic hen ar uorwyn att y gwr llwyt. Arglwyd heb hwy kymer gret y mackwy na dywetto or awelas yman. Ani a vydwn drostaw y keidw Na chymeraf myn vygkret heb y gwr llwyt. ac ymlad a wnaeth peredur ar llu. ac erbyn echwyd neur daroed idaw llad trayan y llu heb argyweddu neb arnaw ef. Ac yna y dywawt y wreic ohen. neur deiryw yr mackwy llad llawer oth lu. a dyro nawd idaw. Na rodaf myn vygeret heb yr ynteu. Ar wreic ohen. ar uorwyn dec yar vwlech y gaer yd oedynt yn edrych. Ac yn hynny ymgyvaruot o peredr ar gwas melyn ae lad. Arglwyd heb y uorwyn dyro nawd yr mackwy. na rodaf yryfi a duw heb y gwr llwyt. Ac ar hynny ymgyvaruot o peredr ar gwas gwineu ae lad. Buassei well itti pei rodassut nawd yr mackwy kyn llad dy deunaw o honaw. ac abreid vyd y titheu dy hun or dihegy. Dos ditheu vorwyn ac adolwyn yr mackwy rodi nawd ynni. kanys rodassam ni idaw ef. ar vorwyn adoeth yr lle yd oed peredur. ac erchi nawd y that aoruc. ac yr sawl adihagyssei oe wyr yn vyw. Keffy dan amot mynet oth tat a phawb or yssyd y danaw y wrhau yr amherawdyr arthur. ac y dywedut idaw pan yw peredr gwr idaw awnaeth y gwassanaeth hwnn. Gwnawn y rofi aduw yn llawen. a chymryt bedyd o honawch. A minneu aanuonaf att arthur. y erchi idaw rodi y dyffryn honn ytti. ac yth ettiued byth gwedy ti. ac yna y doethant y mywn. a chyuarh gwell a wnaeth y gwr llwyt arwreic vawr y peredr. Ac yna y dywawt y gwr llwyt. Yr pan yttwyf ynn medu y dyffrynn hwnn. mi ny weleis gristawn a elei ae eneit gantaw namyn ti. a ninneu a awn i wrhau y arthur ac y gymryt cret a bedyd. Ac yna y dywawt peredur diolchaf ynneu y duw. na thorieis vy llw wrth y wreic vwyhaf a garaf. na dywedwn un geir wrth gristawn. Trigyaw yno awnaethant y nos honno. Trannoeth y bore yd aeth y gwr llwyt ae niuer gantaw y lys arthur. Ac y gwrhayssant y arthur. Ac y parawd arthur eu bedydyaw. Ac y dywawt y gwr llwyt y arthur pan yw peredr ae goruassei. Ac arthur a rodes yr gwr llwyt ae niuer y dyffrynn oe gynnal y danaw ef mal yd erchis peredr. A chan gennat arthur y gwr llwyt a aeth ymeith parth ar dyffryn erwnn. Peredur ynteu a gerdawd y bore drannoeth raddaw talym mawr o diffeith. heb gaffel kyuanedd. Ac yn y diwed ef adoeth y gyuanedd bychann amldlawt. Ac yno y clywei uot sarff yn gorwed ar uodrwy eur. heb adel kyfanned seith milltir o bop parth idi. Ac y daeth peredur yr lle y clywei vot y sarff. ac ymlad awnaeth ar sarff yn llidyawc drut ffenedicualeh. Ac yn y diwed y lladawd. ac y kymerth y votrwy idaw ehun. Ac uelly y bu ef yn hir yn yr agherdet hwnnw. heb dywedut vngeir wrth neb ryw gristawn. Ac o hynny yd yttoed

yn kolli y liw ae wed o drahiraeth yn ol llys arthur ar wreic vwyaf a garei ae gedymdeithon.

Odyna y cerdawd racdaw y lys arthur. ac ar y ffordd y kyuaruu ac ef deulu arthur. a chei yn eu blaen yn mynet y neges udunt. Peredur a adwaenat bawp onadunt. ac nyt adwaeney neb or teulu eio. Pandeu di vnben heb y kei. a dwyweith atheir. ac nyt attebei ef Y wan aoruc kei a gwaew trwy y uordwyt. Ac rac kymell arnaw dywedut athorri y gret mynet heibyaw aoruc heb ymattiala ac ef. Ac yna y dywawt gwalchmei. Yrofi a duw gei drwc y medreist kyflauan ar mackwy ual hwnn yr na allei dywedut. Ac ymchoelut draeugeuyn y lys arthur. Arglwydes heb ef wrth wenhwyfar. Awelydi drycket y gyflauann aoruc kei ar y mackwy hwnn yr na allei dywedut. Ac yr duw ac yrof ynneu par di y uedeginyaethu ef erbyn pan delwyf drachefyn. ami adalaf y pwyth itt. achynn dyuot y gwyr oe eu neges ef adeuth marchawc yr weirglawd y ymyl llys arthur y erchi gwr y ymwan. A hynny a gauas. abwrw hwnnw awnaeth peredr ac wythnos y bu yn bwrw marchawc beunyde. Adiwarnawt yd oed arthur ae teulu yn dyuot yr eglwys. Sef y gwelynt marchawc gwedy dyrchael arwyd ymwan. Hawyr heb yr arthur. myn gwrhwt gwyr nyt af odyrna yny gaffwyf vymarch am arueu y vwrw y ianghwr racko. Yna yd aeth gweisson yn ol y uarch ae arueu y arthur. Apheredr agyfaruu ar gweisson yn mynet heibaw. ac a gymerth y march ar arueu ar weirglawd a gyrchawd. Sef awnaeth pawb oe welet ef ynkyuodi ac yn mynet y ymwan yr marchawc mynet ar benn y tei ar brynnau ar lle aruchel y edrych ar yr ymwan. Sef awnaeth peredr emneidaw ac law ar y marchawc y erchi idaw dechreu arnaw. Ar marchawc aossodes arnaw. ac nyt ysgoges ef or lle yr hynny. Ac ynteu peredur aordiuhaawd ac ae kyrchawd yn llityawedrut engiryawl chwerw awydualeh. Ac ae gwant dyrnawt gwenwyniclym tost drut milwryeid ffyryf. y dan y dwy en ae dyrchael oe gyfrwy, ae vwrw ergit mawr y wrthaw. ac yd ymchoelawd dracheuyn ac yd edewis y march ar arueu gan y gweisson mal kynt. ac ynteu ar y draet a gyrchawd y llys ar mackwy mut y gelwit peredur yna. ar hynny nachaf agharat Law eurawc yn kyuarfot ac ef. Yrofi a duw unbenn heb hi ys oed gryssyn na allut dywedut. Apei gallut diwedut mi ath garwn yn vwyhaf gwr. ac myn vyceret kyn nys gellyt mi ath garaf yn vwyhaf gwr. Duw atalo itt vygwhaer heb peredur ar myn vyceret minneu ath garaf di. Ac yna gwybuwyd pan yw peredr oed ef. ac yna y delis ef gedymdeithas a gwalchmei ac ac owein vaburyen. ac a phawb or teulu ac y trigywys yn llys arthur.

Arthur a oed ygkaer llion ar wysc. amynet awnaeth y hela. apheredr

a ellygawd y gi ar hyd ar ki a ladawd yr hyd y mywn diffeithwch. ac ympenn ruthur y wrthaw. ef a welei arwyd kyfanhed. athu ar kyfaned y deuth. ac ef awelei neuad. ac ar drws y neuad ef awelei gweis moel gethinyon yn gware gwydbwyll. Aphan deuth y mywn. ef a welei teir morwyn yn eisted ar leithic. ac vn ryw wiscoed amdanunt ual y dylvei am dyledogyon. Ac ef aaeth y eisted attunt yr lleithic. ac vn or morwynyon a edrychawd ar peredr yn graff. ac wylaw a wnaeth. Apheredur a ovynawd idi beth awylei. Rac drycket gennyf gwelet lleassu gwas kyndecket athi. Pwy am lleassei i heb y peredur. Pei ualrihyt ytt arhos yn y lle hwnn. mi ae dywedwn itt. Yr meint uo y gwrthret arnaf yn aros. mi ae gwrandawaf. Y gwr yssyd tat ymi heb y uorwyn. bieu y llys honn. A hwnnaw alad pawb or a del yr llys honn heb y ganhyat. Pa gyfryw wr yw awch tat chwi pan allo lleassu pawb uelly. Gwr awna treis ac anuod ar y gymodogyon. Ac ny wna iawn i neb amdanaw. ac yna y gwelci ef y gweisson yn cyfodi ac yn arllwyssaw y clawr or werin. ac ef a glywei dwryf mawr. Ac yn ol y twryf ef awelei wr du mawr unllygeitawc yn dyuot y mwyu. ar morynyon a gyfodassant yn y erbyn a diot y wisce y amdanaw awnaethant. ac ynteu aaeth y eisted. Agwedy dyuot y bwyll idaw ac aryfhau edrych aoruc ar peredur. a goun pwy y marchawc. Arglwyd heb yr vn or morynyon y gwas ieuanc teckaf abonhedickaf or aweleist eiryoet. Ac yr duw ac yr dy syberwyt pwylla wrthaw. Yrot ti mi abwyllaf ac a rodaf y eneit idaw heno. ac yna peredr adaeth attunt wrth y tan. ac a gymerth bwyt allynn. ac ymdidan ar rianed aoruc. Ac yna y dywawt peredr gwedy y vrwyscau wrth y gwr du. Ryued yw gennyf kadarnet y dywedy di dy uot. Pwy adiodes dy lygat ti. Un om kennedueu oed heb y gwr du. pwy bynnac aovynhei imi yr hynn ydwyt ti yn y ouyn. ny chaffei y eneit gennyf na yn rat nac ar werth. Arglwyd heb y uorwyn kyt dywetto ef overed o vrwysged amedawt parth ac attat ti. kywirha y geir a dywedeist gynneu ac a edeweist wrthyfi. Aminheu a wnaf hynny yn llawen yrot heb y gwr du. Mi aadaf y eneit idaw yn llawen heno. ac ar hynny y trigyassant y nos honno.

A thrannoeth kyuodi aoruc y gwrdu. a gwiscaw arueu ymdanaw. ac erchi peredr kyuod dyn y uynyd y diodef agheu heb y gwr du. Peredr a dywawt wrthaw. Gwna y neillpeth y gwr du. os ymlad avynny ami. ae diot dy arueu y ymdanat. ae titheu a rodo arueu ereill y minneu y ymlad a thi. Ha dyn heb ef ae ymlad aallut ti pei kaffut arueu. kymer yr arueu avynnych. Ac ar hynny y doeth y uorwyn ac arueu y peredr aoad hoff gantaw. Ae ymlad a wnaeth ar gwr du. yny uu reit yr gwr du erchi nawd y peredr. Y gwr du ti a geffy nawd tra uych yn dywedut ym pun wyt. aphwy a tynnawd dy lygat. Arglwyd minheu ae diwedaf. yn ymlad ar pryf du or

garn. Cruc yssyd aelwir y cruc galar. ac yn y cruc y mae karn. ac yn y garn y mae pryf. ac yn lloswrn y pryf y mae maen. a rinwedeu y maen ynt. Pwy bynnac ae kaffei yn y neill law. a vynnei o eur ef ae kaffei ar y llaw arall idaw. ac yn ymlad ar pryf hwnnw y kolleis i vy llygat. Amhenw ynneu yw y du trahawc. Sef achaws ymgelwit y du trahawc. ny a wn undyn ym kylch nys treisswn. a lawn nys gwnawn y neb. Ie heb y peredur py gybellet yw. Y dyd y kychwynnych odyma ti a doy y lys meibon y brenhin y diodevuyent. Paham y gelwir wynt uelly. adanc llynn ae llad wynt beunydd unweith. Pandelych odynd ti adeuy hyt yn llys iarllles y kampeu. Py gampeu heb y peredr yssyd erni hi. Trychanwr teulu yssyd idi. Pob gwr dieithyr or adel yr llys ef adywedir idaw campeu y theulu. Sef achaws yw hynny. y trychanwr teulu aeisted yn nessaf yr arglwydes. ac nyt yr amharch yr gwesteion. namyn yr dywedut kampeu y theulu. y dyd y kychwynnych odynd ti a ey y gruc galarus. Ac yno y maent perchen trychant pebyll ygkylch y cruc yn kadw y pryf. Can buost heb y peredr yn ormes yn gyhyt a hynny. mi awnaf na bych byth bellach. ae lad awnaeth peredr idaw. Ac yna y dywawt y uorwyn. adechreuissei ymdidan ac ef. Bei bydut dlawt yn dyuod yma. kyuoethawc vydut bellach o drysor y gwrdu a ledeist. Athi a wely y sawl uorynyon hygar yssyd yn y llys honn. ti a geffut orderchat ar yr un a vynnud onadunt. Ny deuthum i yma om gwlat arglwydes yr gwreicka. namyn gweison hegar awelaf yna. ymgefflybet bawp o honawch ae gilyd mal y mynno. a dim oc awch da nys mynnaf. ac nyt reit ym wrthaw. Odynd y kychwynyawd peredur racdaw. ac y deuth y lys meibon brenin y diodeiueint. Aphann deuth yr llys nywelei namyn gwraged. ar gwraged a gyuodassant racdaw. ac a vuant lawen wrthaw. ac ar dechreu eu hymdidan. ef a welei varch yn dyuot achyfrwy arnaw. achelein yn y kyfrwy. ac un or gwraged a gyuodes y vynydd ac a gymerth y gelein or kyfrwy ac ae heneinawd ymywn kawg aed islaw y drws a dyfyr twym yndi. ac a dodes eli gwerthuawr arnaw. ar gwr a gyuodes yn vyw. ac a deuth yr lle yd oedperedur. ae raessawu aoruc. a bot yn llawen wrthaw. a deuwr ereill adoethant y mywn yn eu kyfrwyeu. ar un dywygyat awnaeth y uoryn yr deu hynny ac yr un gynt.

Yna y govynnawd peredr yr vnben paham yd oedynt uelly. ac wynteu a dywedassant bot adanc mywn gogof. a hwnnw ae lladei wy unweith beunydd. ac ar hynny y trigyassant y nos honno. athranoeth y kyuodes y mackwyeit racdunt. ac yd erchis peredr yr mwyn eu gordercheu y adel gyt ac wynt. Ac wynteu ae gomedassant. adywedut pei ath ledit

ti yno. nyt oed itt ath wnelei yn vyw dracheuyn. Ac yna y kerdassant wy raodunt. ac y kerdawd peredr yn ei hol. agwedy eu difflannu wy hyt uas gwelei ef. Yna y kyuaruu ac ef yn eisted ar benn cruc. y wreic deckaf or a welsei eiryoet. Mi awn dy hynt heb hi. mynet yd wyt y ymlad ar adanc. ac ef ath lad. ac nyt oe dewred namyn oe ystryw. Gogof yssyd idaw. aphiler maen yssyd ar drws yr ogof. ac ef awyl pawb or a del y mywn. ac nys gwyl neb euo. ac a llechwaew gwenwynic o gysgawt y piler y llad ef bawp. Aphei rodut ti dy gret vygaru i yn vwyhaf gwreic mi a rodwn itt uaeu ual y gwelut euo pan elut y mywn. ac ny welei ef dydi. Rodaf myn vygkret heb y peredr. Yr pan yth weleis gyntaf mi ath gereis. apha le y keisswn i dydi. Pan geissych di vyui keis parth ar india. Ac yna y difflannwys y uorwyn ymeith gwedy rodi y maen yn llaw peredr. Ac ynteu adeuth raedaw parth a dyffrynn auon. agororeu y dyffrynoed yn goet. ac o pob parth yr auon yn weigrlo dyeu gwastat. Ac or neill parth yr avon y gwelei kadw odeueit gwynyon. ac or parth arall y gwelei cadw o deueit duon. ac ual y breuei vn or deueit gwynnyon y deuei vn or deueit duon drwod. ac y bydei yn wenn. ac ual y breuei vn or deueit duon. y deuei vn or deueit gwynnyon drwod ac y bydei yndu. Aphrenn hir a welei ar lann yr auon. Ar neill hanner a oed idaw yn llosgi or gwreid hyt y ulaen. Ar hanner arall a deil ir arnaw. ac uchlaw hynny y gwelei mackwy yn eisted ar ben cruc. adeu vilgi bronnwynyon vrychyon mywn kynllyuaneu yn gorwed geyr y law. A diheu oed gantaw nawelsei eiryoet mackwy kyn deyrneidet ac ef. ac yn y coet gyfarwyneb ac cf y clywei ellgwn yn kyuodi hydgant. A chyuaruch gwell awnaeth yr mackwy. ar mackwy a gyuaruchawd well y peredr. atheir fford a welei peredr yn mynet y wrth y cruc. Y dwy fford yn vawr ar dryded yn llei. agovyn aoruc peredur pa le yd aei y teir fford. vn or ffyrd hynn aa ym llys i. Ac un or deu agyghoraf i ytti ae mynet yr llys or blaen att vyggwreic i yssyd yno. ae titheu aarhoych yma athi a wely y gellgwn yn kymell yr hydrot blin or coet yr maes. athi awely ymilgwn goreu or aweleis eiryoet aglewhaf arhydrot yn eu llad ar ydwyfyr geir anllaw. Aphan uo amser ynni vynet yn bwyd ef adaw vyggwas am march ym herbyn athi ageffy lewenyd yno heno. Duw a diolcho itt. nythrigyafi. namyn ragof yd af. Y neill fford aa yr ddinas yssyd yma yn agos. ac yn hwnnw y keffi bwyd allynn ar werth. Ar fford yssyd lei nor rei ereill aa parth a gogof yr adanc. Can dy ganhyat vackwy parth ac yno ydafi. a dyuot awnaeth peredur parth ar ogof. achymryt y maen yny llaw asseu. ae waew yn y llaw deheu. ac ual y daw y mywn. arganuot yr adanc

awnaeth ae wan a gwaew trwydaw. allad y benn. Aphan daw y maes or ogof. nachaf yn drws yr ogof y tri chedymdeith. a chyuarch gwell a wnaethant y peredr. Adywedut panyw idaw yd oed darogan llad yr ormes honno. Arodi y penn awnaeth peredr yr mackwyeit. Achynnac awnaethant wynteu idaw yr vn a vynynt or tair chwioryd yn briawt. a hanner eu brenhinyaeth y gyt a hi. Ny deuthum i yma yr gwreika heb y peredr aphei mynnwn unwreic acatuyd. awch chwaer chwi a vynnwn yn gyntaf. A cherdet raddaw a wnaeth peredur. ac ef aglywei twrwf yn y ol. ac edrych awnaeth ynteu ynn ol. Ac ef awelei gwr ar gevyn march coch. ac arueu cochyon ymdanaw. ar gwr adeuth ar ogyvuch ac ef. achyuarch gwell awnaeth y peredur o duw ac o dyn. Ac ynteu peredr agyuarchawd gwell yr mackwy yn garedic. Arglwyd dyuot y erchi itti ydwyfi. Beth a erchy di heb y peredr. Fygykmryt yn wr itt. Pwy a gymerwn ynneu yn wr pei ath gymerwn. Ny chelaf vygkystlwn ragot. Etlym gledyf coch ymgelwir iarll o ystlys y dwyrein. Ryued yw gennyfi. ymgynnac o honat yn wr y wr ny bo mwy o gyuoeth no thi. nyt oes y minneu namyn iarllaeth arall. Achanys gwiw gennyt ti dyuot yn wr ymi. Mi ath gymeraf yn llawen. ac y doethant parth allys yr iarllas. Allawen vuwyt wrthunt nny llys. adywedut wrthunt awnaethpwyt. nat yr amarch arunt y dodit islaw y teulu. namyn kynnedyf y llys aod y velly. Kanys y neb avryei y thrychannwr teulu hi. bwyta a gaffei yn nessaf idi. ahi ae carei yn vwyhaf gwr. Agwedy y bwrw o peredur y thrychanwr teulu yr llawr. ac cisted ar y neill law. y dywawt y iarllas. Ydiolchaf y duw kaffel gwas kyndecket a chyndewret athi. kan nycheueis y gwr mwyhaf a garwn. Pwy oed y gwr mwyhaf agarut titheu. Mynvygeret etlym gledyf coch oed y gwr mwyhaf a garwn i. ac nys gweleis eiryoet. Dioer heb ef. kedymdeith ymi yw etlym. allyma evo. ac yr yvwyn ef y deuthum i y chware ath teulu di. Ac euo ae gallei ynwell no myvi pei asmynei. aminneu ath rodaf di idaw ef. Duw adiolcho y titheu uackwy tec. aminneu a gymeraf y gwr mwyaf a garaf. ar nos honno kyscu awnaeth etlym ar iarllas y gyt. Athrannoeth kychwynnu awnaeth peredur parth ar cruc galarus. Myn dy law di arglwyd mi a af y gyt athi heb yr etlym. Wynt adeuthant raddunt hyt y lle y gwelynt y cruc ar pebylleu. Dos heb y peredr att y gwyr racko wrth etlym. ac arch udunt dyuot y wrhau ymi. Ef a deuth etlym attunt. ac a dywawt wrthunt ual hynn. Dewch y wrhau ym harglwyd i. Pwy yw dy arglwyd di heb yr wynteu. Peredr baladyr hir yw vy arglwyd i heb yr etlym. Pei dyledus diuetha kennat. nyt aut dracheuyn yn vyw att dy arglwyd. am erchi arch mor drahaus y vrenhined

aieirll a larwneit a dyuot y wrhau yth arglwyd di. Peredr aerchis idaw vynet dracheuyn attunt. a rodi dewis udunt ae gwrhau idaw. ae ymwan ac ef. Wynt a dewissassant ymwan ac ef. Apheredr auyryawd perchen cant pebyll ydyd hwnnw yr llawr. athrannoeth ef avyryawd perchen cant ereill yr llawr. Ar trydyd dyd cant a gawssant yn eu kyghor gwrhau y pered. Apheredur aovynnawd udunt. Beth awneynt yno. ac wynteu adywedassant panyw gwarchadw y pryf nny vei varw. Ac yna ymlad awnaem ninneu y maen. ar neb auei drechaf o honam agaffei y maen. Arhowch vi yma heb y peredr mi aaf y ymwelet ar pryf. Nac ef arglwyd heb wynt. awn ygyt y ymlad ar pryf. Ie heb y peredur ny mynnafi hynny. Pei lledit y pryf ny chaffwn i o glot vwy noc un o honawch chwitheu. Amynet a wnaeth ef yr lle yd oed y pryf. ae lad. adyuot attunt wynteu. a dywedut wrthunt. Kyfriuwch awch treul yr pan doethawch yma. ami ae talaf ywch ar en heb y peredur. Ef adalawd udunt kymeint ac y dywawt pawb y dylyy o honaw. Ac nyt erchis udunt namyn adef eu bot yn wyr idaw ef. Ac ef a dywawt wrth etlym. att y wreic vwyaf a gery yd ey di. Aminneu aaf ragof. Ac a dalaf itt dyuot yn wr im. Ac yna y rodes ef y maen y etlym. Duw adalho itt. arwydheyt duw ragot. Ac ymeith yd aeth peredr ac ef a doeth y dyffrynn avon deckaf awelsei eiryoet allawer o bebylleu amliw awelei ef yno. aryuedach oed gantaw no hyny. gwelet y sawl a welei o velinau dwfyr. a melineu gwynt. Ef agehyrdawd ac ef gwr gwineu. mawr. a gweith saer arnaw. Agovyn pwy oed aoruc peredr. Penn melinyd wyfi heb ef ar y melineu racko oll. Agaffafi letty gennyt ti heb peredr. Keffy heb ynteu yn llawen. ef a doeth peredr y ty y melinyd. Ac ef awelas lletty hoff tec yr melinyd. ac erchi awnaeth peredr aryant yn echwyn yr melinyd y brynu bwyt allynn idaw ac y dylwyth y ty. Ac ynteu a talei kynny vynet odyno.

Gouyn aoruc yr melinydd py achaws yd oed y dygyuor hwnnw yno. Y dywawt y melinyd wrth peredr. Mae y neillpeth. ae tydi yn wr o bell ae titheu yn ynvyt. Yna y mae amherodres cristinobyl uawr. Ac ny mynn honno namyn y gwr dewraf. Kanyt reit idi hi da. ac ny ellit dwyn bwyt yr sawl vilioed yssyd yma. ac o achaws hynny y mae y sawl velineu hynn. Ar nos honno kymryt eu hessmwythter awnaethant. Athrannoeth kyuodi y uynyd a oruc peredr a gwisgaw ymdanaw ac ymdan y uarch y uynet yr twrneimeint. Ac ef awelei bebyll ymplith y pebylleu ereill teckaf or awelsei eiryoet. amowyn dec awelei yn ystynn y phenn trwy ffenestyr ar y pebyll. ac ny welsei eiryoet morwyn degach ac eurwisc o bali ymdanei. ac edrych awnaeth ar y uorwyn yn graff.

amynet y charyat yndaw yn vawr. ac uelly y bu yn edrych ar y uorwyn or bore hyt hanner dyd. Ac o hanner dyd yny oed pryt nawn. Ac yna neur daroed y twrneimeint. A dyuot aoruc y letty. a thynnu y arueu y amdanaw. Ac erchi aryant yr melinyd yn echwyn. Adic vu wreic y melinyd wrth pered^r ac eissoes y melinyd a rodes aryant yn echwyn idaw. Athranoeth y gwnaeth yr vn wed ac a wnaethoed y dyd gynt. Ar nos honno ydoeth y lletty ac y kymeth aryant ynechwyn y gan y melinyd. ar trydyd dyd pan yttoed yn yr vnle yno edrych ar y uorwyn. ef a glywei dyrnawt mawr rwng ysgwyd amynwgyl idaw amynybyr bwyall. Aphan edrychawd draegeuyn ar y melinyd. Y melinyd a dywawt wrthaw. Gwna y neillpeth heb y melinyd. ae tydi a dynno dy benn ymeith ae titheu a el yr twrneimeint. A gowenu awnaeth pered^r ar y melinyd. amynet yr twrneimeint. Ac a gyuaruu ac ef y dyd hwnnw. ef ae byryawd oll yr llawr wynt. a chym-eint ac a vyryawd ef a anuones y gwyr yn anrec yr amherodres. Ar meirch ar arueu yn anrec y wreic y melinyd. yr ymarhos am yharyant echwyn. Dylin aoruc peredur y twrneimeint yny vyryawd pawb yr llawr. ac anuon y gwyr o oruc y garchar yr amherodres. ar meirch ar arueu y wreic y melinyd yr ymarhos am yr aryant echwyn. Yr amherodres a anuones att varchawc y velin. y erchi idaw dyuot y ymwelet a hi. aphallu awnaeth pered^r yr gennat gyntaf. ar eil aeth attaw. a hitheu y dryded weith aanuones cant marchawc y erchi udunt y dwyn oe anuod. ac wynt adoethant attaw. ac a dywedassant eu kennadwri y wrth yr amherodres. Ynteu awharyawd ac wynt yn da. ef abarawd eu rwymaw wynt rwymet iwrch. ac eu bwrw ygklawd y velin. ar amherodres a ovynnawd kyghor y wr doeth a oed yn y chyghor. A hwnnw a dywawt wrthi mi aaf attaw ar dy gennyat. a dyuot att pered^r a chyuarach gwell idaw. ac erchi idaw yr mwyn y orderch dyuot y ymwelet ar amherodres. ac ynteu adeuth ef ar melinyd. ac yn y gyueir gyntaf y deuth yr pebyll eisted awnaeth. a hitheu adeuth ar y neill law. a byrr ymdidan auu y rygtunt. a chymryt kennat a wnaeth pered^r a mynet y letty. Trannoeth ef aeth y ymwelet a hi. Aphann doeth yr pebyll nyt oed vn gyueir ar y pebyll auei waeth y gyweirdeb noe gilyd. ac ny wydynt hwy py le yd eistedei ef. Eisted aoruc pered^r ar neill law yr amherodres. ac ymdidan awnaeth yn garedic. Pan yttoedynt uelly wynt awelynt yndyuot y gwr du agorflwch eur yn y law yn llawn o win. a dygwydaw a oruc ar penn y lin geyr bronn yr amherodres. ac erchi idi nas rodei onyt yr neb a delei y ymwan ac evo ymdanei. ahitheu aetrychawd ar pered^r arglwydes heb ef moes ymi y gorulwch. ac yuet y gwin aoruc pered^r a rodi y gorulwch y wreic y

melinyd. aphanu yttoedynt uelly nachaf wr du oed mwy nor llall. ac ewin pryf yn y law ar weith gorflwch ae loneit o win. ae rodi yr amherotres. ac erchi idi nas rodei onyt yr neb aymwaney ac ef. arglwydes heb y peredr moes ymi. ae rodi y peredr a wnaeth hitheu ac yued y gwin aoruc peredr arodi y gorflwch y wreic y melinyd. pann yttoedynt wynt uelly nachaf gwr pengrych arwaed vwy noc un or gwyr ereill yn dyuot y mywn a chawc yny law ae loneit o win yndaw. a gestwng ar penn y lin ae rodi yn llaw yr amherodres. ac erchi idi nas rodei o nyt yr neb ymwaney ac euo amdanei. ae rodi awnaeth hitheu y peredur. ac ynteu ae hanuones y wreic y melinyd. y nos honno mynet y letty a oruc peredr athrannoeth gwisgaw ymdanaw ac ymdan y varch. adyuot yr weirglawd a llad y trywyr aoruc Peredur. Ac yna y deuth yr pebyll. ahitheu adywawt wrth peredur. Peredur dec coffa dy gret arodeist ti ymi pan rodes ytti y maen pan ledeist yr adanc. Arglwydes heb ynteu gwir a dywedy. Aminneu ae coffaaf. Ac y gwledychwys peredur gyt ar amherodres pedeir blyned ar dec. megys y dyweit yr ystorya.

Arthur aod ygkaerllion arwysc prifys idaw. ac ygkenawl llawr y neuad yd oed pedwar gwyr yn eisted ar lenn obali. Owein uab uryen. a gwalchmei uab gwyar. a howel uab emyr llydaw. apheredur baladyr hir. ac ar hynny wynt a welynt yn dyuot y mywn morwyn benngrech du ar gevyn mul melyn. acharreieu anuanawl yny y llaw yngyrru y mul. aphryt anuanawl agherueid arnei. Duach oed y hwyneb ae dwylaw nor hayarn duhaf adarffei y bygu. Ac nyt y lliw hackraf namyn y llun. Grudyeu aruchel oed idi. Ac wyneb kyckir y waeret. athrwyn byr ffroenuoll. yr neill lygat yn vrithlas tratheryll. ar llall yn du ual y muchud ygkeuynt y phenn. Danned hiryon melynion melynach no blodeu y bandyl. ae chroth ynkychwymu o gledyr y dwyvron. yn vch noe helgeth. ascwm y chevyn aod ar weith bagyl. Y dwy clun aod yn llydan yscymic. Ac yn vein oll a hynny y waeret. eithyr y thraet ac glinyeu aedynt vreise. kyuarch gwell y arthur ae teulu oll eithyr y peredr aoruc. ac wrth peredr y dywawt geireu dic anhegar. Peredur ny chyuarchafi well ytti. kan nys dylyy. Dall uu tyghetuen pan rodes itti dawn achlot. Pan doethost y lys y brenhin cloff. aphanu weleist yno y mackwy yn dwyn y gwaew lliueit. Ac o vlaen y gwaew dafyn owaet. ahwmw yn rydec yn raeadyr hyt yn dwrn y mackwy. ac enryuedodeu ereill heuyt aweleist yno. ac ny ofynneist eu hystyr nac eu hachaws. Aphei ys gofynnut. iechyt agaffei y brenhin. ae gyuoeth yn hedwch. abellach brwytreu ac ymladeu achelli marchogyon. ac adaw gwaged ynwedw. arianed yn diosymdeith.

ahynny oll oth achaws di. Ac yna y dywawt hi wrth arthur. gan dy ganyat arglwyd pell yw vy lletty i odyma. nyt amgen ygkasstell syberw nyvun a glyweist y wrthaw ac yn hwnnw y mae chwech marchawc athrugeint aphumcant o varchogyon urdawl. ar wreic vwyhaf agar pob un gyt ac ef. aphwy bynnac a vynno ennill clot o arueu ac o ymwan. ac o ymlad. ef aekeiff yno os dirper. Auynnei hagen arbennic-rwyd clod ac etmyc. gwnn y lle y kaffei. Castell yssyd ar vynyd amlwc. ac yn hwnnw y mae morwyn. ac nny gyveistydaw yd ydys. Aphwy bynnac aallei y rydhau. penn clot y byd a gaffei. ac ar hynny kychwynn ymeith aoruc. Heb y gwalchmei. mynvygret ny chyscaf hun lonyd nes gwybot aallwyf ellwng y vorwyn. allawer o deulu arthur a gythinawd ac ef. Amgen hagen y dywawt peredur. Mynvygret ny chysgaf hun lonyd nes gwybot chwedyl ac ystyr y gwaew a dywawt y vorwyn du amdanaw: Aphan yttoed pawb yn ymgyweiryaw. nachaf uarchawc yn dyuot yr porth ameint milwr ae angerd yndaw yn gyweir o dillat ac arueu. ac a deuei racdaw ac a gyuarchei well y arthur ae deulu oll. eithyr y Walchmei. ac ar ysgwyd y marchawc yd oed taryan eurgrwydyr. athrawst o lassar glas yndi. ac yn vnlliw ahynny ydoed yr arueu ereill oll. Ac ef a dywawt wrth walchmei. Ti a ledeist vy arglwyd oth twyll ath vrat. Ahynny mi ae profaf arnat. Kyuodi awnaeth gwalchmei y uynyd Llyma heb ef vyggwystyl yth erbyn ae yma ae yn y lle y mynych nat wyfi na thwyllwr na bratwr. geyr bron y brenin yssyd arnafi y mynnafi bot y gyfranc y rof athi heb y marchawc. Ynllawen heb y gwalchmei. dos ragot mi yth ol. Racdaw ydaeth y marchawc. ac ymgyweiryaw awnaeth gwalchmei. a llawer o arueu a gynnigywyt idaw. ac ny mynnawd onyt y rei eidaw. Gwisgaw awnaeth gwalchmei apheredur ymdanunt. Ac y kerdassant nny ol o achaws eu kedymdeithas. ameint yd ymgerynt. ac nyt ymganlynnassant ygyt. namyn pob un yn y gyueir. Gwalchmei yn ieuencitit ydyd adeuth y dyffryn. ac nny y dyffryn y gwelei kaer allys uawr nny gaer. athyreu aruchelualch nny chylch. ac ef a welei varchawc yndyuot yr parth allan y hela y ar balfre glewdu ffroenuoll ymdeithic. arygig wastadualch escutlym didramgwydd gantaw. Set oed hynnw y gwr bioed y llys. Kyuarch gwell awnaeth gwalchmei idaw. Duw a rodo da itt unben. Aphanoy ditheu. pandeuaf heb ef o lys arthur. ae gwr y arthur wyt ti. Ie myn vygret heb y gwalchmei. Mi awnn gyghor da itt heb y marchawc. Blin alludedic yth welaf. Dos yr llys ac yno y triggy heno os da gennyt. da arglwyd a duw a dalo itt. hwde vodrwy yn arwyd att y porthawr. a dos ragot yr twr racco. achwaer yssyd y minnheu yno. Ar yr porth y doeth gwalch-

mei. adangos y votrwy awnaeth a chyrchu y twr. aphan daeth y mywn. yd oed ffyryfdan mawr ynllongi. afflam oleu uchel divwe o honaw. amorwyn uawrhydlic delediw yn eisted y mywn kadeir wrth y tan. Ar uorwyn a vu lawen wrthaw ac resawu aoruc. achychwynu yn y erbyn. ac ynteu aaeth y eisted ar neill law y uorwyn. eukinyaw agymerassant.

A gwedy eu kinyaw dala ar ymdidan hygar a orugant. Aphan ytt oedynt uelly. llyma yn dyuot ymywn attunt gwr gwyullwyt telediw. Ha * achenoges butein heb ef. pei gwypyt tiaw iawnet itt chware ac eisted ygyt ar gwr hwnnw. nyt eistedut ac ny chwaryut. athynnu y benn allan ac ymeith. Ha unbenn heb y uorwyn pei gwnelut vyghyghor rac ofyn bot pyt gan y gwr itt. ti a gaeut y drws. Gwalchmei a gyuodes y hynny. aphan daw tu ar drws. yd oed y gwr ar y * * yn llawn aruawe ynkyrchu y twr y * * sef ao * gwalchmei achlawr gwydbwyll diffyn rac * * onadunt nny doeth y gwr o hela. ar hynny llyma y iarll yn dyuot. Beth yw hynn heb ef. Peth hagyr heb y gwr gwynllwyt. bot yr achenoges racko yn eisted ac yn bwyta gyt ar gwr aladawd awch tat. Gwalchmei uab gwyar yw. Peitweh bellach heb yr iarll mivi aaf y mywn. Y iarll a vu lawen wrth walchmei. Ha unbenn heb ef cam oed itt * * * * an tat o honat. Kyn y gallom ny y dial duw ae dial arnat. Eneit heb y gwalchmei llyma ual y mae am hynny. Nac y adef llad awch tat chwi nac y diwat ny deuthum i. Neges yd wyfi yn mynet y arthur. ac ym y hun. Archaf i oet blwydyn hagen nny delwyf om neges. Ac yna ar vygret vyndyuot yr llys honn y wneuthur vn or deu ae adef ae wadu. Yr oet a gauas yn llawen. Ac yno y bu y nos honno. Traunoeth kychwyn ymeith aoruc. ac ny dyweit yr ystoria am walchmei hwy no hynny nny gyueir honno. Apheredur a gerdawd racdaw. Crwytraw yr ynys a wnaeth peredur. y geissaw chwedylyaeth y wrth y uorwyn du. ac nys kauas. ac ef adeuth y dir nyw atwaenyat ymywn dyffryn avon. ac ual yd yttoed yn kerdet y dyffryn. ef awelei varchawe yn dyuot nny erbyn. ac arwyd balawe arnaw. ac erchi y vedyth awnaeth. Och a truan heb ef ny dylyy gaffel bendyth. ac ny phrwytha itt. am wisgaw arueu dyd kyuuch ar dyd hediw. apha dyd yw hediw heb y peredur. Duw gwener y croclith yw hediw. Na cheryd ui nywydwn i hynny. blwydyn y hediw y kychwynneis om gwlat. ac yna disgynu yr llawr awnaeth ac arwein y uarch nny law. athalym or prifford a gerdawd nny gyuaruu ochelfford. ac yr ochelfford trwy y coet. ar parth arall yr coet. ef awelei gaer voel ac arwyd kyuaned awelei or gaer. apharth ar gaer ydoeth. ac ar borth y gaer y kyuaruu ac ef y balawe a gyuaruassei ac ef kynno

hynny. ac eichi y vendyth aoruc. Bendyth duw itt heb ef a iawnach yw kerdet uelly. achyt ami y bydy heno. athrignyaw awnaeth peredr y nos honno yno. Tranoeth arofun awnaeth peredr ymeith. Nyt dyd hediw y neb y gerdet. ti a vydy gyt ami hediw. ac avory a thrennydd. A mi a dywedaf itt y kyuarwydyt goreu aallwyf am yr hyn yd wyt yny geissaw. Ar pedwryd dyd arofun awnaeth peredr y ymdeith. ac adolwyn yr balawc dywedut kyfarwydyt ywrth gaer yr enryuedodeu. Kymeint ac awypwyfi mi ae dywedaf itt. Dos dros y mynyd racko. Athu hwnt yr mynyd y mae afon. ac yndyffrynn yr avon y mae llys brenhin. Ac yno y bu y brenhin y pasc. ac or keffy yn vnle chwedyl y wrth gaer yr enryuedodeu ti ae keffy yno. Ac yna y kerdawd peredr racdaw. ac y deuth y dyffryn yr avon. ac y kyfaruu ac ef niuer o wyr yn mynet y hela. ac ef awelei ymplith y niuer gwr urdedic. a chyuarach idaw aoruc peredr. Dewis di vnbenn ae ti aelych yr llys. ae titheu adelych gyt ami y hela. ae miinneu a yrro vn or teulu yth orchymun y verch yssyd un yno. y gymryt bwyt allynn yny delwyf o hela. Ac or byd dy negesseu. hyt y gallwyfi eu kaffel ti ae keffy yn llawen. a gyrru awnaeth y brenhin gwas byrr uelyn gyt ac ef.

Aphandoethant yr llys yd oed yr vnbennes gwedy kyfodi ac yn mynet y ymolchi. ac y deuth peredur racdaw. ac y gressawawd hi peredur yn llawen. ae gynnwys ar y neill law a chymryt eu kinyaw aorugant. apheth bynnac adywettei peredur wrthi. chwerrthin awnay hitheu yn vchel. mal y clywei pawb or llys. Ac yna y dywawt y gwas byr uelyn wrth yr vnbennes. Myn vygeret heb ef or bu wr itti eiryoet y mackwy hwnn ami. ac ony bu wr itt y mae dy vryt ath vedwl arnaw. Ar gwas byruelyu aeth parth ac att y brenhin. Ac a dywawt mae tebyckaf oed gantaw bot y mackwy a gyuaruu ac ef yn wr oe verch. ac onyt gwr mi adebygaf y dyt gwr idi yn y lle onyt ymogely racdaw. Mae dy gyghor di was heb y brenhin. Kyghor yw gennyf ellwng dewrwy am y benn aedala. yny wpych di heurwyd am hynny. Ac ynteu aellynghawd gwyr am benn peredr oe dala. ac y dodi ymywn geol. Ar vorwyn adoeth yn erbyn y that ac y ovynnawd idaw. py achaws y parassei carcharu y mackwy o lys arthur. Dioer heb ynteu ny byd ryd heno nac auory na threnhyd. ac ny daw or lle y mae. Ny wrthneuawd hi ar brenhin yr hynn a dywawt. adyuot att y mackwy. ae anigryf gennyt ti dy uot yma. Nym dorei i kynny bewn. Ny byd gwaeth dy wely ath ansawd noc un y brenhin. ar kerdeu goreu yny llys ti ae keffy wrth dy gyghor. A pheidi danach gennyt ditheu no chynt vot vynggwely i yma. y ymdidan a thi ti ae kaffut yn llawen. Ny wrthneuafi hynny heb y peredur. Ef auu ygkarchar y nos honno. Ar uorwyn a

gywirawd yr hyn aadawssei idaw. Athranoeth y clywei peredur kynnwryf yn y dinas. Oia vorwyn dec py gynnwryf yw hwinn heb y peredur llu y brenhin ae allu yssyd yn dyuot yr dinas honn hediw. Beth a vynnant hwy uelly. Iarll yssyd yn agos yma a dwy iarllaeth idaw. achygradarnet yw a brenin. achyfranc avyd y rygtunt hediw. adolwyn yw gennyfi yti heb y peredur peri ymi varch ac arueu yvynet y dysgwyl ar y gyfranc. ar vygkywirdeb ynheu dyuot ym carchar drachevyn. Yn llawen heb hitheu mi a baraf itt varch ac arueu. Ahi a rodes idaw march ac arueu ac hwnsallt purgoch aruchaf arueu. atharyan uelen ar y ysgwyd. adyuot yr gyfranc awnaeth. ac a gyf-aruu ac ef owyr yr iarll y dyd hwinnw ef ae byryawd oll yr llawr. ac ef adoeth drachevyn y garchar. Govyu chwedleu awnaeth y vorwyn y peredur. ac ny dywawt ef vn geir wrthi. Ahitheu a aeth y ofyn chwedleu y that. agovyn awnaeth pwy auuassei oreu oe deulu. Ynteu a dywawt nas atwaenat. gwr oed achwnsallt coch aruchaf y arueu atharyan uelen ar y ysgwd. a gowenu awnaeth hitheu. a dyuot yr lle yd oed peredur ada vu y barch y nos honno. A thri dieu ar untu y lladawd peredur wyr yr iarll. Achynn caffel oneb wybot pwy vei y doey y garchar dracheuyn. Ar pedweryd dyd y lladdawd peredur y iarll ehunan. adyuot aoruc y vorwyn yn erbyn y that. a govyn chwedleu idaw. Chwedleu da heb y brenhin. llad yr iarll. Aminneu bieu y dwy iarllaeth. awydost ti arglwyd pwy ae lladawd ef. Gwn heb y brenhin. marchawc y cwnsallt coch ar taryan uelen ae lladawd. Arglwyd heb hi miui awn pwy yw hwinnw. Yr duw heb ynteu pwy yw ef. arglwyd heb hi y marchawc yssyd ygkarchar gennyf yw hwinnw. Ynteu ydoeth hyt lle yd oed peredur. achyuarch gwell idaw awnaeth. adywedut idaw y gwasanaeth awnaethoed. y talei idaw megys y mynnei ehun. A phan aethpwyf y vwyta peredur a dodet ar neill law y brenhin. ar uorwyn y parth arall y peredur. Mi arodaf itt heb y brenhin vym merch yn briawt ahanner vy brenhinyaeth genthi. ardwy iarllaeth a rodaf i yth gyuarws. arglwyd duw a dalho itt heb y peredur. ny deuthum i yma yr gwreica. Beth a geisy ditheu unbenn. Keissaw chwedleu ydywf i wrth gaer y enryuedodeu. Mwy yw medwl yr unbenn noc y dymmyny geissaw heb y uorwyn. Chwedleu y wrth y gaer ti ae keffy. Achynhebrgyeit arnat trwy gyuoeth vyntat athreul digawn. athydi unbenn yw y gwr mwyhaf agarafi. Ac yna y dywawt. Dos dros y mynyd racko. athi awely lynn achaer o vwyn y llynn. a hono aelwir kaer yr enryuedodeu ac ny wdam ni dim oe henryuedodeu hi eithyr y galw velly. A dyuot aoruc peredur parth ar gaer. aphorth y gaer oed yn agoret. Aphan doeth tuar neuad. y drws oed yn agoret. ac val y doeth y mywn. gwydbwyll awelei yny neuad. aphob un or

dwy werin yn gware yn erbyn y gilyd. ar vn y bydei borth ef idi. agollei y gware arllall adodei awr yn vnwed aphey bydynt gwyr. Sef awnaeth ynteu digyaw achymryt y werin yn y arffet a thafu y clawr yr llynn. Aphan yttoed ef uelly. nachaf y uorwyn du yndyuoet y mywn. Ac yn dywedut wrth peredr. Ny bo gressaw duw wrthyt. Mynychach it wneuthur drwc no da. Beth a holy di ymi y uorwyn heb y peredur. Colledu o honat yr amherodres oe chlawr ac ny mynnei hi hyuny yr y amherodraeth. Oed wed y keffit y clawr oed bielhut y gaer ysbidinongyl. y mae yno wr du yn diffeithaw llawer o gyuoeth yr amherodres. allad hwnw o honat ti a gaffut y clawr. ac ot ey di yno ny doy yn vyw dracheuyn. A vydy di gyuarwyd y mi yno heb y peredur. Mi auanagaf fford itt yno heb hi. Ef adeuth hyt ygkaer Ysbidinongyl. ac a ymladawd ar gwr du. Ar gwr du a erchis nawd y peredr. Mi arodaf nawd it par vot y clawr yn y lle yd oed pan deuthum i yr neuad. Ac yna y doeth y uorwynyon. adywedut wrthaw. Ie heb hi. Emelltith duw itt yn lle dy lauur. am adaw yr ormes yn vyw yssyd yn diffeithaw kyuoeth yr amherodres. Mi aedewis heb y peredur idaw y eneit yr peri y clawr. Nyt yttiwi y clawr yn y lle kyntaf y kefeist. Dos dracheuyn allad ef. Mynet a oruc peredur allad y gwr du. Aphan doeth yr llys yd oed y uorwyn du yny llys. Ha uorwyn heb y peredur mae yr amherodres. Yrofi a duw nys gwely di hi yn awr. ony bei lad gormes yssyd yn y fforest racko o honat. Py ryw ormes yw hwnnw. Karw yssyd yno achynebrwydet yw ar adeinyawc kyntaf ac uncorn yssyd yn y dal. kyhyt a phaladyr gwaew. achynvlaenllymet yw ar dim blaenllymaf. Athorri awna vric y coet ac evo o well yn y fforest. Allad pob aniuell awna or agyfarffo ac ef yndi. Ac ar nas lladdo. marw vydant o newyn. a gwaeth no hynny. Dyuoet awna beunoeth ac yuet y byscotlyn yn y diawt. a gadu y pycawt yn noeth a meirw vyd en kanmwyhaf. kyn dyuoet dwfyr id drachefyn. A vorwyn heb heb y peredur adoy di y dangos ymi yr aniuell hwnnw. Nac af ny lyuasswys dyn uynet yr fforest yr ys blwydyn. Mae yna golwyn yr arglwydes. ahwnnw a gyfyt y karw adaw attat ac ef. ar karw ath gyrch di. Y colwyn aeth yngyfarwyd y peredr. Ac a gyuodes y carw. ac a doeth parth ar lle yd oed peredr ac ef. Ar karw a gyrchawd peredr ac ynteu aellyghwys ynteu heibaw. ac atrewis y benn y arnaw a chledyf. aphan yttoed yn edrych ar penn y karw. ef awelei varchoges yn dyuoet attaw. ac yn kymryt y colwyn yn llawes y chapann. ar penn y rygthi a choryf. Ar torch rudeur a oed amy vynwgyl. A vnben heb hi ansyberw y gwnaethost. llad y tlws teckaf oed ymkyuoeth. arch auu arnaf y hynny. Ac a oed wed y gallwn i kaffel dy gerennyd di. Oed. dos

y vronn y mynyd racko. ac yno ti awely lwyn. ac y mou y llwyn y mae llech. Ac yno erchi gwr y ymwan deirgweith ti agaffut vygkarenhyd. Peredur a gerdawd radaw. ac a deuth y ymyl y llwyn. ac aerchis gwr y ymwan. Ac ef a gyfodes gwr du y dan y llech. a march yskyrnic y danaw. ac arueu rytlyt mawr ymdanaw ac ymdan y uarch. ac ymwan awnaethant. Ac ual y byryei peredur y gwr du yr llawr y neityei ynteu yny gyfrwy dracheuyn. a disgynnv aoruc peredr athynnv cledyf. ac yn hynny difflannu aoruc y gwr du amarch peredr gantaw. ac ae varch ehun hyt nawelas ef yr eil olwc arnynt.

Ac ar hyt y mynyd kerdet awnaeth peredur. ar parth arall yr mynyd ef awelei gaer yn dyffryn auon. aphanth ar gaer ydoeth. ac ual y daw yr gaer. neuad awelei. adrws y neuad ynagoret. ac y mywn y doeth. ac ef a welei wr llwyd yn eisted ar y neill law. ac varch aducei y gwr du. awelei yn vn presseb amarch gwalchmei. allawen uuant wrth peredur. amynet y eisted aoruc y parth arall yr gwr llwyd. ac ar hynny nachaf was melyn yn dygwydaw ar penn y lin geyr bron peredr ac yn erchi kerennyd y peredur. Arglwyd heb y gwas ni adeuthum yn rith y uorwyn du y lys arthur. aphan vyrycist y clawr. a phan ledeist y gwr du o ysbidinongyl a phan ledaist y karw. aphan vuost yn ymlad ar gwr or llech. ami a deuthum ar penn yn waetlyt ar y dyseyl. ac ar gwaew ydoed y ffrwt waet or penn hyt y dwrn ar hyt y paladyr. ath geuynderw bioed y penn. agwidonot kaerloyw ae lladyssei. ac wynt a gloffassant dy ewythy. ath geuynderw wyf ynneu. adarogan yw ytti dial hynny. Achygor vu gan peredur a gwalchmei anuon att arthur aedeulu y erchi idaw dyuot am benn y gwidonot. adechreu ymlad awnaethant ar gwidonot. allad gwr y arthur geyr bron peredr awnaeth vn or gwidonot. ae gwahard awnaeth peredr ar eilweith llad gwr awnaethy widon geyr bron peredur ar eilweith y gwahardawd peredur hi. ar tryded weith llad gwr awnaeth y widon geyr bron peredr a thynnv y gledyf awnaeth peredur. Atharaw y widon aruchaf y helym yny hylt yr helym. ar aruen oll. ar penn yn deu hanner. A dodi llef awnaeth ac erchi yr gwidonot ereill ffo. adywedut pan yw peredur oed y gwr a vuassei yn dyscu marchogaeth gyt ac wynt ydoed tyghet eu llad. Ac yna y trewis arth ur ae deulu gan y gwidonot. Ac y llas gwidonot kaerloyw oll. Ac uelly y treythir o gaer yr enryuedodeu.

IARLLES Y FFYNNAWN.

Yr amherawdyr arthur oed ygkaerllion arwysc. Sef ydoed yn eisted diwarnawt yny ystauell. Ac ygyt ac ef owein uab uryen. Achynon uab clydno. A chei uab kyner. A gwenhwyuar ae llawuorynyon yngwniaw wrth ffenestr. Achyt dywettit uot porthawr ar lys arthur. nyt oed yr vn. Glewlwyt gauaelawr oed yno hagen ar ureint porthawr y aruoll ysp aphellennigyon. ac y dechreu euhantryledu. ac y uenegi moes y llys ae deuawt udunt. Yr neb adlyiei vynet yr neuad neu yr ystauell oe venegi idaw. Yr neb adlyiei letty oe venegi idaw. Ac ymperued llawr yr ystauell ydoedd yr amherawdyr yr arthr yn eisted. ar demyl oirvrwyn allenn obali melyngoch ydanaw. Agobennyd aedudet o bali coch dan pen y elin. Arhynny y dywawt arthur. Hawyr pei nam goganewch heb ef mi a gyskwn trauethu yn aros vy mwyt. ac ymdidan aellwch chwitheu. achymryt ysteneit oved agolwython y gan gei. Achyscu aoruc yr amherawdyr. A gofyn aoruc kynon uab klydno y gei yr hynn o adawssei arthur udunt. minneu a vynnaf yr ymdidan da a edewid y minneu heb y kei. Hawr heb y kynon teckaf yw itti wneuthr edewit arthur yn gyntaf. ac odynd yr ymdidan goreu a wypom ninneu ni ae dywedwn itti. Mynet aoruc kei yr gegin. ac yr vedgell adyuot ac ysteneit o ved gantaw. ac agorvlwch eur. ac alloneit ydwrn o vereu. a golwython amadunt. A chymryt y golwython awnaethant. adechreu yvet y med. Weithon heb y kei. chwitheu bieu talu y minneu uy ymdidan. kynon heb yr Owein tal y ymdidan y gei. Dioer heb y kynon hyn gwr wyt agwell ymdidanwr no mi. a mwy a weleist o betheu odidawc tal di vyndidan y gei. Dechreu di heb yr Owein or hyn odidockaf awypych. mi a wnat heb y kynon. Nanynd vn mab mam a that oedwn i. adrythyll oeddwn. a mawr oed vyryvic. Ac ny thybygwn yny byt aorffei amaf o neb rhyw gamhwri. A gwedy daruot im goruot ar bob camhwri or aoed yn vn wlat ami. ymgyweraw a wneuthum acherdet eithauoed byt adiffeithwch. Ac yny diwed dywannu awneuthum ar y glynn teckaf yny byt. agwyd gogyfuch yndaw. ac auon rededawc oed ar hyt y glynn. a fford gan ystlys yr auon. Acherdet y fford awneuthum hyt hamer dyd Ar parth arall a gerdeis hyt pryt nawn. Ac yna ydeuthum y uaes mawr.

Ac yn mhenn y maes ydoed kaer uawr lywychedic. agweilgi yngyuagos yr gaer. apharth ar gaer ydeuthum. Ac nachaf y gwelwn deu was pengrych velyn. a ractal eur am penn pob un o honunt. Aphis o bali melyn am pob un onadunt. agwaegau eur am vynygleu eu traet yn eu cau. Abwa o asgwrn eliphant yn llaw pob un o nadunt. ac eu llinynneu o ieu hyd. Ae saetheu ac eu pelydyr oasgwrn moruil. gwedy euhasgellu ac adaned pawin. Aphenneu eur ar y pelydyr. A chylleill a llafneu eur udunt. Ac eu karneu o asgwrn moruil yn nodeu udunt. Ac wynteu yn saethu eu kyllleill. A rynnawd ywrthunt y gwelwn wr pengrych melyn yny dewred. ae uaryf ynnewyd eillaw. A pheis amantell o pali melyn ymdaw. ac ysnoden o eurllin ympenn yuantell. Adwy wintas o gordwal brith am y draet. a deu gnap o eur yneukaeu. A phan y gweleis i ef ena dynesau awneuthum attaw. a chyfarch gwell awneuthum idaw. Ac rac dahet y wybod ef. kynt y kyuarhawd ef well ymi. no miui idaw ef. Adyuot gyt ami aoruc parth ar gaer. Ac nyt oed gyuanhed yny gaer. namyn aoed yn vn neuad. Ac yno ydoed pedeir morwyn ar hugeint. yngwniaw pali wrth ffenestyr. A llyn adywedaf ytti gei vot yntebic gennyf bot yntegach yr hacraf onadunt hwy nor vorwyn deckaf aweleist ti eiryoet yn ynys prydein. Yr anhardaf onadunt. hardach oed no gwenhwyuar gwreic arthur pan hu hardaf eiryoet duw nadolic neu duw pasc wrth offeren. Achyuodi aorugant ragof. achwech o nadunt agymerth uy march ac amdiarchenwys inneu. Achwech eraill o nadunt agymerth vy arueu. ac ae golchasant y mywn rol yny yttoedynt gynwynet ar dim gwynnaf. Ar trydyd chwech o nadunt adodassant llieienu ar y byrdeu. ac a arlwydassant vwyt. Ar pedwryd chwech adiodasant vy lludetcwisc. adodi gwisc arall amdanaf. nyt amgen. crys allawdyr or bliant. Aphis aswrcot amantell o bali melyn. A gorffwys llydan yn y vantell. A thynnu gobennydyeu amhyl a thudedeu or bliant coch udunt. y danam ac ynkylich. Ac eisted aorugant yna. Ar chwech onadunt agymerth vy march ae gorugant yndiwall oe holl ystarn. yn gystal ar ysweiniet goreu yn ynys prydein. Ac ar hynny nachaf gawgeu aryant adwfyf y ymolchi yndunt. A thyweleu ovliant gwryd. arei gwynyon. Ac ymolchi aorugam. amynet y eisted yr bwrdd aoruc y gwr gynneu. a minneu yn nessaf idaw. argwraged oll is vy llaw inneu. eithyr yrei oedyn gwassanaethu. Ac aryant oed y bwrdd. abliant oed leinieu y bwrdd. Ac nyt oed un llestyr yn gwassanaethu y bwrdd namyn eur neu aryant. neu vueli. Anbwyf a deuth in. A diheu oed iti gei. naweveis i eirmoet bwyt na llynn nywelwn yno ygyffelyp. Eithyr bot yn well kyweirdeb y bwyt arllyn aweveis i yno noc un lle arall eiryoet. A

bwyta aorugam hyt am hanner bwyt. ac ny dywat nar gwr nac vn or morwynyon vn geir wrthyf i hyt yna. A phanuu debic gan y gwr bot ynwell gennyf ymdidan no bwyta. amofyn aoruc ami pa ryw wr oedwn. a dywedut aorugum inneu bot ynda gennyfi kaffel aymdidanei ami. ac nat oed yny llys bei kymeint ac eudrycket ymdidan dynyon. Ha unbenn heb y gwr. ni aymdidanem a thi. oni bei lesteir ar dy vwyt. ac weithon ni aymdidanwn a thi. Ac yna y mynegeis i yr gwr pwy oedwn. ar kerdet oed arnaf adywedut vy mot yn keissaw aorffei arnaf. neu vinneu aorffei arbawp. ac yna edrych aoruc y gwr arnaf agowenu. a dywedut wrthyf. bei nathybyckwn dyuot gormod o ovut itt. mi auanagwu itt yr hynn ydwyt yny geissaw. A chymryt tristit agoueileint a wneuthum ynof am hynny. Ac adnabot awnaeth y gwr arnaf hynny. a dywetut wrthyf. kanys gwell yw gennytti heb ef. menegi ohanafi ytti dy afles noth les mi ae managaf itt. kwsc yma heno heb ef. a chyot yn uore y uynyd. a chymmer y fford ydwyt arhyt ydyffryn uchot. yny delych yr koet y daethost trwydaw. ac ynrynnawd yny coet ef agyferuyd gwahanfford athi. ar y tu deheu itt. acherda ahyt honno. ynny delych y lannerch uawr o uaes. agorsed ymperved y llannerch. a gwrdu mawr a wely ymponn yr orsed. ny bo llei odim no deuwr owyr y byt hwnn. Ac untroet yssyd idaw. ae un llygat ygknewillyn ytal. Affonn yssyd idaw o hayarn. adiheu yw itti nat oes deuwr yny byt ny chaffo eu llwyth yn y ffonn. ac nyt gwr anhegar ef. gwr hagr yw ynteu ac wtwart yw ar y koet hwnnw. athi awely mil o annieileit gwyllt ynpori yny gylch. a gofyn idaw fford yuynet orllannerch. ac ynteu avyd gwrthgloch wrthyt ti. ac ef avennyec fford itti ual y keffych yr hynn ageissy. A hir uu genyfi y nos hono. Ar bcre tranoeth kyfodi arorugum agwisgaw amdanaf. ac yscynnu ar vymarch acherdet ragof arhyt y dyffryn yr coet. Ac yr wahanfford avenegis y gwr y deuthum hyt y llannerch. aphan deuthum yno. hoffach oed gennyf awelwn yno o annieileit gwyllt no thri chymeint ae dywawt y gwr. Argwr du aoed yno yn eisted ympenn yr orsed. Mawr y dywawt y gwr imi y vot ef. mwy o lawer oed et no hynny. Ar ffonn hayarn adywedassei y gwr y mi uot llwyth deuwr yndi. Hyspys oed gennyfi gei uot llwyth pedwar milwr yndi. Ahonno oed ynllaw y gwrdu. Ac nydywedei ynteu wrthyfi. nanym gwrthgloched. Agofyn awneuthum idaw. pa vedyant oed idaw. ar yr annieileit hynny. Mi ae dangossaf itt dyn bychan heb ef. achrymryt y ffonn yny law. atharaw karw a hi dyrnawt mawr. yny ryd ynteu vreauar mawr. ac wrth y vrefarat ef y doeth o annieileit. yny yttoedynt gynamlet ar syr ynyr awyr. Ac yny oed gyfyng

ymî sefyll nny llannerch y gyt ac wynt. a hynny o seirff agwiberot. ac amryuael anniueileit. Ac edrych aoruc ynteu arnadunt lwy. Ac erchi udunt. vynet y bori. ac estwng eu penneu aorugant wynteu. ac adoli idaw ef. Val gwyr gwardawc y eu harglwyd. Ac yna y dywawt y gwr du wrthyf. Awelydi dyn bychan y medyant yssyd y mi ar yr anniueileit hynn. Ac yna gofyn fford awneuthum idaw. agarw uu ynteu. ac eissoes gofyn aoruc ef ymi pale y mynnwn vynet. adywedut aorugum idaw py ryw wr oedwn. aphy beth ageisswn. Amenegi a oruc ynteu ymi. kymmer heb ynteu y fford y tal y llannerch. acherda yn erbyn yr allt uchof nny delych oe phen. ac odyndu ti awely ystrat megys dyffrynn mawr. ac ymperued yr ystrat ti awely prenn mawr aglassach yw yvric norffenytwyd glassaf. Ac ydan y prenn hwnnw y mae ffynnawn. ac yn ymyl y ffynnawn y mae llech varmor. ac ar y llech y mae kawc aryant wrth gadwyn aryant. mal na ellir eu gohanu. Achymer y kawc a bwrw gawgeit or dwfyr am benn y llech. ac yna ti aglywy dwryf mawr. athi a tebygy ergrynu y nef ar dayar gan y twryf. ac yn ol y twrwf y daw kawat adoer. ac abreid vyd itti y diodef hi yn vyw. Achenlysc vyd y gawat. ac yn ol y gawat hinou avyd. Ac ny byd un dalen ar y pren ny darffo yr gawat eu dwyn. ac ar hynny y daw kawat oadar. a disgynnu ar y prenn awnant. Ac ny chlyweist eiryoet yth wlat dy hun kerd kystal ac aganant. Aphan vo digrifaf gennyf gerd yr adar. Ti aglywy duchan. achwynuan yn dyot ar hyt y dyffryn tu ac attat ac ar hynny ti awely varchawg ar varch purdu. agwisc o bali purdu ymdanaw. ac ystondard ovliant purdu ar y waew. ath gyrchu awna yngyntaf y gallo. Offoy di racdaw. ef ath ordiwed. os arhoy ditheu eno. athi yn varchawc. ef ath edeu yn bedestyr. ac ony cheffy di yno ofut. nyt reit itti amofyn gofut travych vyw.

Achymryt y fford aorugam hyd pandeuthum y benn yr allt. ac odyndu y gwelwn mal y managyssei y gwrdu ymi. ac y ymyl y pren y deuthum. ac ffynnawn awelwn dan y prenn. ar lech uarmor nny hymyl. ar kawc aryant wrth y gadwyn. Achymryt y kawc awneuthum. abwrw kawgeit or dwfyr ampen y llech. Ac ar hynny nachaf y twrwf yndyuot yn vwy ynda noc ydywedassei y gwr du im. Acynol y twrwf y gawat. Adiheu oed gennyfi gei. na dihangei nadyndu nallwdyn yuwyw oraordiweddi y gawat allan. kany orsafei vn genllysgen o honei. nac yr croen nac yr kie nny hatalyei yr asgwrn. ac ymchoelut pedrein uy march ar y gawat awneuthum. Adodi swch vyntaryan. arpenn vy march ae vwng. adodi y baryflen ar vypenn vy hun. Ac velly porthi y gawat. Aphanedrycheis ar y prenn nyt oed un dalen amaw. Ac yna ydhinones. Ac ar hynny

nachaf yr adar yndisgynnu ary prenn. ac yn kanu. Ahyspys yw genyfi gei. na chynt na gwedy na chiglefi kerd kystal a hono eiryoet. Aphan oed digrifaf gennyf gwrandaŵ ar y adar. nachaf tuchan yn dyuot ar hyt y dyffryn yn dyuot parth ac attaf. ac yndywedut wrthyf. A varchawc heb ef beth ahut ti ymi. padrwc digoneis inheu ytti pan wnelut titheu ymi. ac ymkyfoeth byth awnaethost hediw. ponywydut ti nat edewis y gawat hediw nadyd na llwdyn yn vyw ymkyfoeth or agauas allan. Ac ar hynny nachaf uarchawc ar varch purdu. a gwise o bali purdu ymdanaw. ac arwyd ovliant purdu ymdanaw. Ac ymgyrchu aorugam. Achyn bei drut hynny. ny bu hir yni ymbyrrywyt i. Ac yna doddi aoruc ymarchawc arlost ywaew drwy awwynffrwyd vy march. ac ymdeith ydaeth ar deuvarch gantaw. am adaw ynneu yno. Nywnaeth y gwr ymdanafi ovawred. Kymeint am karcharu. Nyt yspeilwys ynteu vi. A dyuot aorugum inneu drachefen y fford ydeuthum gynt. Aphan deuthum yr llannerch ydoed y gwr du yndi. am kyffes adygaf itti gei. mae ryued na thodeis yn llyntawd rac kewilyd gan agefeis owattwar gan y gwr du. Ac yr gaer y buaswn y nos gynt. ydeuthum ynos honno. Allawenach uuwyd wrthyf y nos hono nor nos gynt a gwell ymporthet. Ar ymdidan a vynnwn gan wyr achan wraged agaffwn. ac ny chaffwn i neb agyrbwylle wrthyfi dim am vygyrch yr ffynnawn. Nys kyrbwylleis ynneu wrth neb. Ac yno y bum y nos honno. Aphan gyfodeis y vynydd y bore trannoeth. ydoed balffrei gwineudu. Amygeu burgoch idaw kyngochet ar kenn yn barawt gwedy yystarnu yn gyweir agwedy gwisgaw vy arveu. ac adaw vy mendith yno. adyuot hyt vy llys vy hun. Ar march hwnnw Y mae gennyfi etto yn yr ystavell racko. ac yrof aduw gei nas rodwni euo ettwa yr y palffrei goreu ynynys prydein. Aduw awyr gei nac adeuawd dyn amaw ehun chwedyl vethedigach no hwnnw eiryoet. ac eissoes rac odidocket gennyfi. nachiglef eirmoet nachynt nac gwedy awypei dim ywrth ychwedyl hwnnw. namyn hynny. abot defnyd y chwedyl hwnnw ygkyfoeth yr Amherawdyr Arthur heb dywanu neb amaw. Hawyr heb yr owein ponyt oed da mynet y geisaw dywanu ar y lle hwnnw. Mynllaw vygyffeillt heb y kei mynych ydywedut ar dydauawt yr hynny peth fnysgwnelut ar dy weithret. Duw awyr heb ygwenhwyfar ys oed gwell dy grogi di gei. no dywedut ymadrawd mor warthaedic a hwnnw wrth wr mal owein. mynllaw vygyffeillt coreicda heb y kei. nyt mwy ovolant y owein a dywedeist ti. no minneu. Ac ar hynny deffroi aoruc Arthur agofyn agygsassei hayach. Do arglwyd heb yr owein dalym. ae amser ynni vynet yr byrdeu. Amser. arglwydd heb yr owein. Ac yna kanu korn ymolchi awnaethpwyt. A

mynet awnaeth yr Amherawdyr ae deulu oll yvwytta. Agwedy daruot bwytta. diffan aoruc owein ymeith. Adyuot y letty a pharattoi y varch ae arueu aoruc.

A phan welas ef ydyd drannoeth gwisgau y arueu aoruc ac ysgynnu ar y uarch. acherdet racdaw aoruc eithafoed byt. adiffeith vynyded. ac ynydiwed ydwanawd ar y glynn auanagassei gynon idaw. ual y gwydyat yn hyspys pan yw hwnnw oed. Acherdet aoruc ar hyt y glynn gan ystlys yr auon. Arparth arall yr auon y kerdawd nny doeth yr dyffrynn. Ar dyffrynn agerdawd nny welei y gaer. Aparth ar gaer y deuth. sef y gwelei y gweison ynasaethu eu kyllleill nny lle ygwelsei gynon. Ar gwr melyn bieuoed y gaer ynuseuyll ger eu llaw. Aphan yttoed owein yn mynnu kyuarth gwell yr gwr melyn. kyuarth gwell aoruc ygwyr y owein. A dyuot nny vlaen parth ar gaer. Ac ef awelei ystauell nny gaer. Aphandeuth yr ystauell ef awelei ymorynyon yngwnyaw pali y mywn kadeireu eureit. Ahoffach olawer oed gan owein etecket. Ac euhardet noc ydywawt kynon idaw. Achyfodi awnaethant ywassanaethu owein mal ygwassanaethassynt gynon. Ahoffach vu gan owein y borthant. no chan gynon. Ac am hanner bwytta amofyn aoruc y gwr melyn ac owein. py gerdet oed arnaw. Ac y dywawt owein gwybyl oe gerdet idaw ac yn ymgeissaw ar marchawc yssyd yngwarchadw y ffynnawn y mynnwn vy mot. Agowenu aoruc y gwr melyn. abot yn anhawd gantaw menegi y owein y kerdet hwnnw. mal ybu anhawd gantaw y uenegi y gynon. Ac eissoes menegi aoruc y owein gwbyl ywrth hynny. Ac y gysgu yd aethant. Arbore drannoeth y bu barawt march owein gan y morynyon. a cherdet aoruc owein racdaw nny deuth yr llannerch ydoed y gwr du yndi. Ahoffach uu gan owein meint y gwr du no chan gynon. Agofyn fford aoruc owein yr gwr du. Ac ynteu ae menegis. A cherdet aoruc owein y fford ual kynon. nny doeth yn ymyl y pren glas. Ac ef awelei yffynnawn. ar llech ynymyl y ffynnawn. ar kawc erni. achymryt y kawc aoruc owein abwrw kawgeit or dwfr ar y llech. Ac ar hynny nachaf y twryf. ac ynol y twryf y gawat Mwy o lawer noc ydywedassei gynon oedynt. A gwedy y gawat golcuhan aoruc yr awyr. Aphan edrychawd owein ar y prenn nyt oed vn dalen arnaw. Ac ar hynny nachaf yr adar yndisgynnu ar yprenn ac yn kanu. A phan oed digrifaf gan owein gerd yr adar. ef awelei varchawc yn dyuot ar hyt y dyffryn. ae erbynnyeit aoruc owein. Ac ymwan ac ef yn drut. a thori y deu baladyr aorugant. adispeilaw deu gledyf a wnaethant. ac ymgyfogi. Ac ar hynny owein adrewis dyrnawt ar y marchawc trwy y helym. ar penffestin. ar penngwch pwrqwin. athrwy y kroen ar kig ar asgwrn. nny glwyfawd

ar yr emennyd. Ac yna adnabot aoruc y marchawc duawc rygaffel dyrnawt angheuawl o honaw. Ac ymchoelut pen yvarch aoruc a ffo. ae ymlit aoruc owein. Ac nyt ymgaffei owein. ae vaedu ar cledyf. nyt oed bell idaw ynteu. Ac ar hynny owein awelei gaer uawr lywychedic. Ac y porth y gaer y deuthant. ac ellwng y marchawg duawc awnaethpwyt ymywn. Ac ellwng dor dyrchauat anwnaethpwyt ar owein. A honno ae medrawd odis y pardwngyl y kyfrwy yny dorres y march yn deu hanner trwydaw athroellu yr ysparduneu gan ysodleu owein. ac yny gerda y dor hyt y llawr. a throellu yr ysparduneu adryll y march y maes. Ac owein y rwng y dwydor ar dryll arall yr march. ardor y mywn agaewyt ual na allei owein vynet odynd. ac ygkyfyg gyghor yd oed owein. Ac ual ydoed owein uelly. sef y gwelei trwy gysswlt y dor heol gyfarwyneb ac ef ac ystret o tei o bop tu yr heol. ac awelei morwyn benngrech uelen aractal eur am y phenn. agwisc obali melyn ymdanei. adwy wintas ogordwal brith am y thraet. ac yn dyuot yr porth. Ac erchi agori aoruc. Duw awyr unbennes heb yr owein na ellir agori ytti odyma mwy noc y gelly ditheu waret y minneu o dyna. Duw awyr heb y uorwyn oed dyhet mawr na ellit gwaret itti. Ac oed iawn ywreic wneuthur da ytti. Duw awyr na weleis eirmoet was well no thidi wrth wreic. O bei gares itt goreu kargwreic oedyt. O bei orderch itt goreu gorderch oedet. Ac wrth hynny heb hi yr hynn aallafi o waret itti mi aegwnaf. Hwde di y votrwy honn adot ar dy vys. adot y maen hwnn y mywn dy law. achae dy dwrn am y maen. athra gudyych ti euo euo ath gud ditheu. Aphan hambwyllont hwy orlleon y deuant wy yth gyrchudi ythdihennydyaw amygwr. agweddy na awelont hwy dydi drwc vyd gantunt. Aminneu avydaf ar yr esgynuaen racko yth aros di. Athydi am gwely i kany welwyfi dydi. adyret titheu adot dy law ar penn vy ysgwyd i. ac yna y gwybydafi dy dyfot titheu attafi. ar fford ydelwyfi odynd dyred titheu gyt ami. Ac ar hyny mynet aoruc odynd ywrth Owein. ac Owein awnaeth aerchis y vorwyn idaw oll. Ac ar hynny ydeath ygwyr or llys y geisaw owein oedihenydu. Aphan deuthant y geisaw. ny welsant dim namyn hanner y march. A drwc ydaeth arnunt hynny adiffannu aoruc owein oc eu plith. A dyuot att y vorwyn adodi y law ar y hysgwyd. A chychwyn aoruc hitheu raddi. ac owein y gyt ahi yny deuthant y drws llofft uawr delediw. Ac agori yllofft aoruc y vorwyn. a dyuot y mywn achaeu yllofft aorugant. ac edrych ar hyt y llofft aoruc owein. ac nyt oed yny llofft un hoel heb y lliwaw alliw gwerthuawr. Ac nyt oed un ystyllen heb delw eureit arnei yn amryual. achynnu tan glo aoruc y vorwyn. Achym ryt kawc aryant aoruc hi adwfyndaw. athwel ovliant gwyn ar y hysgwyd

arodi dwfyr y ymolchi aoruc y owein. Adodi bwrd aryant goreureit rac y vronn. abliant melyn yn llein arnaw. adyuot aeginyaw idaw. adiheu oed gan owein. nawelsei eiryoet neb ryw vwyt. nywelei yno digawn o honaw eithyr bot ynwell kyrweirdeb ybwyt a welei yno. noc yn lle arall eiryoet. Ac nywelsei eiryoet lle kyn amlet anrec odidawc ovwyt allynn ac yno: Ac nyt oed vn llestyr yn gwasanaethu arnaw. namyn llestri aryant neu eur. A bwytta ac yuet aoruc owein nuy oed pryd nawn hir. Ac ar hynny nachaf y clywynt diaspedein yn y gaer. Agofyn aoruc owein yr uorwyn Py weidi yw hwnn. Dodi olew ary gwrda bieu y gaer heb yuorwyn. Ac ysgysgu yd aeth owein. Agwiw oed y arthur dahet ygwely awnaeth y uorwyn idaw. o ysgarlat agra aphali asyndal abliant. Ac amhanner nos yclywynt diaspedein girat. Py diaspedein yw hwnn weithon heb yr owein. Ygwr da bieu y gaer yssyd uarw yr awr honn heb y vorwyn. Ac amrynnawd ordyd. yclywynt diaspedein agweidi anueidrawl eu meint. Agofyn a oruc owein yr uorwyn. Paystyr yssyd yr gweidi hwnn. mynet achorff y gwrda bieu y gaer yr llann. A chyodi aoruc owein y vynynd a gwisgaw ymdanaw. ac agori ffenestyr ar y lofft. ac edrych parth ar gaer. Ac ny welei nac ymyl nac eithaf yr lloed yn llenwi yr heolyd. Ahynny yn llawn aruawc. agwaged llawer ygyt ac wynt ar ueirch ac ar traet. A chrefydwyd ydinas oll ynkanu. ac ef atebygei oweinbot yr awyr ynedrinaw rac meint y gweidi ar utkyrnn. ar crefydwyd ynkanu. Ac ymperued y llu hwnnw y gwelei ef yr elor. allenn o vliant gwyn arnei. aphyst kwyr ynllongi yn ymyl nuy chylch. ac nyt oed vndyn dan yr elor lai no barwn kyuoethawc. A diheu oed gan owein na welsei eiryoet niuer kyhardet a hwnnw o bali aseric asyndal.

Ac ar ol y llu hwnnw y gwelei ef gwreic velen ae gwallt dros y dwy ysgwyd. Ac agwaet briw amyl nuy brigeu. agwisg obali melyn ymdanei gwedi yrwygaw. adwy wintas o gordwal brith am y thraet. A ryued oed na bei yssic peuneu y byssed rac dyckynet y maedei y dwylaw ygyt. Ahypsypys oed gan owein na welsei ef eiryoet gwreic kymryt a hi beyt uei ar y ffuryf iawn. Ac uch oed ydiaspet. noc aoed odyn a chorn nuy llu. Aphan welas ef ywreic ennyu awnaeth oe charyat yn y oed gyflawn bob lle yndaw. Agofyn aoruc owein yr uorwyn pwy oed ywreic. Duw awyr heb y vorwyn gwreic y geliir dywedut idi y bot yn deckaf or gwaged. ac yndiweiraf. ac ynhaelaf. ac yn doethaf. ac yn vonhedickaf. vy arglwydes i yw honn racko. a iarlles y ffynnawn y gelwir gwreic y gwr aledaist ti doe. Duw awyr heb yr owein arnaf. mae mwyhaf gwreic agarafi yw hi. Duw awyr heb y uorwyn na char hi dydi

nabychydic nadim. Ac ar hynny kyuodi aoruc y vorwyn achynneu tan glo. allanw crochan adwfyf aedodi y dwymaw achymryt twel o vliant gwyn aedodi am vynwgl owein. achymryt gorflwch o ascwrn eliphant. a chawc aryant. ae lanw or dwfyr twym. agolchi pen owein. ac odyne agori pren- uol athynnu ellyn. ae charn oasgwrn eliphant. adeu ganawl eureit ar yr ellyn. Ac eillaw y uaraf aoruc asychu y benn ae vynwgyf ar twel. Ac odyne dyrchafel aoruc y uorwyn rac bronn owein. adyuot ae giuyaw idaw. adiheu oed gan owein. na chafas eiryot kinyaw kystal a honno na diuallech ywasanaeth. Agwedy daruot idaw y giuyaw. kyweiryaw aoruc y uorwyn y gwely. Dos yma heb hi y gyscu aminneu aaf yorderchu iti. A mynet aoruc owein y gyscu. achaeu drws y llofft aoruc y vorwyn amynet parth ar gaer. Aphan deuth yno nyt oed yno namyn tristyt a goul. ar iarllles ehun yn yr ystauell heb diodef gwelet dyn rac tristit. adyuot aoruc lunet attei achyuarch gwell idi. Ac nys atebawd yr iarllles. Ablyghau a oruc y uorwyn adywetut wrthi. pyderw ytti pryt nat atteppych y neb hediw. Lunet heb yr iarllles py wyneb yssyd arnat ti. pryt na delut y edrych y gofut auu arnafi. Ac aoed itti. ac ysgwneuthum i dy ti yn gyfoethawc. Ac aoed kam itti. nadelut y edrych y gofut auu arnafi. ac oed kam itti hynny. Dioer heb y lunet. ny thebygwn i nabei well dy synwyr di noc y mae. oed well ytti geissaw govalu am ennill y gwrda hwennw. noc ampeth arall. ny ellych byth y gaffet. Yrofi a duw heb yr iarllles. ny allwn i byth ennill vy arglwyd i o dyn arall nny byt. Gallut heb y lunet gwrhagwr a vei gystal ac ef neu well noc ef. Y rofi a duw heb yr Iarllles pei na bei wrthunn gennyf peri dihenydyaw dyn auackwn mi abarwn dy dihenydyaw. amgyffel- ybu wrthyf peth mor aghywir ahynny. Aphéri dy dehol ditheu mi ae gwnaf. Da yw gennyf heb y lunet nat achaws itt y hynny. namyn am venegi o honafi ytti dy les. lle nys metrut dy hun. a mefyl idi o honam y gyntaf a yrro att ygilyd. amiui y adolwyn gwahawd itti. ae titheu ym gwahawd inneu. Ac ar hynny mynet aoruc lunet ymeith. achyfodi aoruc yr iarllles hyt ar drws yr ystauell yn ol lunet. Aphessychu yn uchel. Ac edrych aoruc lunet tu draechefyn. Ac emæidaw aoruc yr iarllles ar lunet. adyuot drachefyn a oruc lunet at yr iarllles. Yrofi aduw heb yr iarllles wrth lunet drwc yw dy anyan. achanyf vy lles i yd oedut ti yuy venegi im. manac pa fford vei hynny. Mi aemanagaf heb hi. Ti awdost na ellir kynnal dy gyfoeth di namyn o vilwryaeth ac arueu. ac am hynny keis yn ebrwyd aekynhalyo. pa fford y gallafi hynny heb yr iarllles. mauagaf heb y lunet. Ony elly di gyn- nal y ffynnawn. ny elly gynnal dy gyuoeth. Ny eill kynnal y ffynnawn namyn vn o teulu arthur. A minneu aaf heb y lunet hyt ynllys arthur. A

mefyl im heb hi o deuf odyo heb uilwr agattwo y ffynnawn yngystal neu yn well nor gwr ae kedwis gynt. anhawd yw hynny heb yr iarllles. ac eissoes dos y brofi yr hynn adywedy. kychwyn aoruc lunet ar uedwl mynet y lys arthur. a dyuot aoruc yr llofft att owein. Ac yno y buhi gyt ac owein yny oed amser idi dyuot o lys arthur. Ac yna gwisgaw ymdanei aoruc hi a dyuot y ymwelet ar iarllles. allawen uu y iarllles wrthi. chwedleu o lys Arthur gennyf heb yr iarllles. Goreu chwedyl gennyf arglwydes heb hi kaffel ohonaf vy neges. Aphasbryt y mynny di dangos itt yr unbenn adoeth gyt ami. Dyret ti ac ef heb yr iarllles am hanner dyd avory. y ymwelet ami. a minneu abaraf ysgyfalhau ydref erbyn hynny. Adyuot awnaeth hi adref. Ac amhanner dyd trannoeth y gwisgwys owein ymdanaw peis aswrcot a mantell o bali melyn. ac orffreis lydan yny vantell o eurllin. adwy wintas o gordwal brith am y traet. allun llew o eur yn eu kaeu. Adyuot awnaethant hyt yn ystauell y iarllles. A llawen uu y iarllles wrthunt. Ac edrych ar owein yn graff aoruc y iarllles. Lunet heb hi nyt oes kerdetwr ar yr unben hwnn. py drwc yw hynny arglwydes. heb y lunet. y roffi aduw heb y iarllles naduc dyn eneit vy arglwydi oe gorff namyn y gwr hwnn. Pandit gwell itt arglwydes. pei na bei drech noc ef nys dygei ynteu y eneit ef. Ny ellir dim wrth hynny heb hi kan deryw. Ewch chwi drachefn atref heb yr iarllles. A minneu agymeraf gyghor. Apheri dyfynnu y holl gyuoeth yr unlle drannoeth aoruc y iarllles. Amenegi udunt uot hiarllaeth yn wedu. Ac na ellet y chynnal onyt o varch ac arveu amilwryaeth. Ac ysef y rodaf inneu ar awchdewis chwi. ae un o honawch chwi am kymero i. ae vy gkannyadu ynneu y gymrut gwr ae kanalyo ole arall. Sef agawsant yn eu kyghor kanhadu idi gwr o le arall. Ac yna yduc hitheu escyb ac archescyb oellys y wneuthur y priodas hi ac owein. Agwrhau aorugant gwyr y iarllaeth y owein. Ac owein agedwis y ffynnawn o waew a chledyf. Sef mal y kedwis adelei o varchawc yno. owein ae byryei. Ac aegwerthei yr y lawn werth. Ar da hwnnw arannei owein y varwnyeit ae varchogyon hyt nat oed vwy gan y gyfoeth garyat dyn or byd oll nor eidaw ef. Atheir blyned y bu ef felly.

Ac ual yd oed walchmei diwarnawt yn gorymdeith y gytar amherawdyr arthur. edrych aoruc ar arthur ae welet yn trist gystudedic. adoluryaw aoruc gwalchmei yn uawr owelet arthur yny drych hwnnw. agofyu aoruc idaw. arglwyd heb y gwalchmei py derw itti. Yrof aduw walchmei heb yr arthur hiraeth yesyd arnaf am owein. agolles y gennyf meint teir blyned. Ac obydaf y bedwarded vlwydyn heb y welet ny byd vy eneit ymkorff. A mi awn yn hysbys panyw o yndidan kynon mab clydno y kollas owein y

gennym. Nyt reit itti heb y gwalchmei luydyaw dy gyfoeth ar hynny. namyn ti agwyr dy ty aeill dial owein orllas. neu y rydhau ot ydiw ygkar-char. ac os buw y dwyn gyt athi. Ac ar a dywawt gwalchmei y trigywyt. Ac ymgyweiryaw awnaeth arthur agwyr ydy gyt ac ef y geissaw owein. Sef oed meint y nifer teir mil heb amlaw dynyon. Achynon mab clydno yngyfarwyd udunt. Adyuod aoruc arthur hyt y gaer y buassei gynon yndi. Aphan deuthant yno ydoed. ygweisson yn saethu yn yr un lle. Ar gwr melyn yn seuyll ach eu llaw. Aphan welas ygwr melyn Arthur. kyuarch gwell aoruc idaw ae wahawd. achymryt gwahawd aoruc arthur. Ac yr gaer ydaethant. Achyt bu mawr eu niuer. nywydit eu hyni nny gaer. A chyuodi aoruc y morwynyon y eu gwassanaethu. A bei awelsant ar bop gwassanaeth eiryot. eithyr gwassanaeth y gwaged. Ac nyt oed waeth gwassanaeth gweisson y meirch y nos honno. noc vydei ar arthur nny lys ehun. Ar bore trannoeth y kychwynnwys arthur. Achynon yn gyfarwyd idaw odyo. ac wynt a deuthant hyt lle yd oed y gwr du. A hoffach o lawer oed y gwr du. A hoffach o lawer oed gan Arthur meint y gwr du noc ydywedyssit idaw. Ac hyt ympenn yr allt y deuthant. Ac yr dyffryn hyt ynynyl ypren glas. ac nny welsant y ffynawn ar kawc ar llech. Ac yna ydoeth kei at arthur. A dywedyt wrthaw Arglywyd heb ef. mi a wnn achaws y kerdet hwnn oll. Ac eruyn yw gennyf. gadu ynn bwrw y dwfyr ar y llech. ac erbynyeit y gofut kyntaf adel. Ae ganhadu aoruc Arthur. Abwrw kawgeit ordwyr ar yllech aoruc kei. Ac nny lle arol hynny ydeuth y twrf. ac ynol y twryf y gawat. Ac nychlywyssynt eiryot twryf achawat kyffelyb y rei hynny. Allawer oamlaw dynyon aoed ygkyweithas arthur aladawd y gawat. Agwedy peidyaw y gawat ygoleuhawys yr awyr. Aphan edrychassant ar y pren nyt oed un dalen arnaw. Adisgynnu aoruc yr adar ar y preun. Adiheu oed gantunt nachlywyssynt eiryot kerd kystal ar adar ynkanu. Ac ar hynny ygwelynt varchawc y ar varch purdu. agwisc o bali purdu ymdanaw acherdet gwrd gantaw. ae erbynyeit aoruc kei. Ac ymwan ac ef. Ac ny bu hir yr ymwan kei avrywyt. Ac yna pebyllyaw aoruc y marchawc a phebyllyaw aoruc arthur aelu y nos hono. Aphan gytodant y bore trannoeth y vynydy. ydoed arwyd ymwan ar waew y marchawc. Adyuot aoruc Kei at Arthur adywedut wrthaw. Arglywyd heb ef kam ymbrywyt i doe. Ac aoed da yti ymi hediw vynet ymwan ar marchawc. Gadaf heb Arthur. Amyned aoruc kei yr marchawc. Ac nny lle bwrw kei aoruc ef. Ac edrych arnaw aewan ac arllost y waew nny tal nny tyr y helym ar penffestin ar croen ar kig hyt yr asgwm kyfled a

phenn y paladyr. ac ymchoelyt aoruc kei at y gedyndeithon drachefyn. ac o hynny allan ydaeth teulu arthur bop eilwers y ymwan ar marchawg. hyt nat oed un heb y vwrw or marchawc namyn arthur agwalchmei. ac arthur awisgawd ymdanaw y vynet y ymwan ar marchawc. Och arglwyd heb y gwalchmei gat y mi vynet y ymwan ar marchawg yngyntaf. ae adu a wnaeth arthur. ac ynteu aeth y ymwan ar marchawc. achwnswllt obali ymdanaw aanuonassei uerch iarll ragyw ymdanaw ac am y varch. wrth hynny nys atwaenat neb or llu. ef. ac ymgyrchu awnaethant ac ymwan y dyd hwnnw hyt ucher. ac ny bu agos yr un o nadunt abwrw ygilyd yr llawr. athrannoeth ydaethant y ymann apheleidydr godeuawc gantunt. ac ny orfu yr un onadunt ar y gilyd. ar trydyd dyd ydaethant yymwan. apheleidydr kadarnvras godeuawc gan bob un onadunt. ac ennynnv o lit awnaethant ac ymgyrchu a wnaethant amhanner dyd ehun. Ahwrd arodes pob un onadunt ygilyd. yny torreis holl gegleu eu meinch. ac yny vyd pob un onadunt dros bedrein yvarch yr llawr. a chyuodi yvynydr aorugant yn gyflym. a thynnu cledyfeu ac ymfust. adiheu oed gan y nifer aegwelei wynt uelly na welsynt eiryoet deu wr kynwychet ar rei hynny. nachyngryfet. a pheu tywyll y nos hi avydei oleu gan y tan harueu.

Ac ar hynny dynnawt a rodes y marchawc y Walchmei hyt pan troes yr helym y ar y wyneb. mal y hadnabu y marchawc pan yw gwalchmei oed. Ac yna ydywawt owein. arglwyd Walchmei nyt atwaenwn i didi o achaws dy gwnsallt am kefnderw wyt. hwdedi uygkledyfi am harueu. Tidi owein yssyd arglwyd heb y gwalchmei. athi a oruu. achymer di vygeledyfi. Ac ar hynny yd argauuu arthur wynt. adyuot attunt aoruc. Arglwyd arthur heb y gwalchmei llyma owein. gwedy goruot arnafi. ac ny mynn uy arfeu y genyf. Arglwyd heb yr owein euo aoruu arnafi. ac ny myn vygeledyf. moeswech attafi heb yr arthur awch cledydeu. Ac ny oruu yr vn o honawch ar y gilyd gan hynny. Amynet dwylaw mynwgyl y arthur aoruc owein. ac ymgaru aorugant. Adyuod aorugant y llu attunt yna gan ymsag abrys y geissaw gwelet owein. yny uynet dwylaw mynwgyl idaw. Ac ef a uu agos abot kalaned ynyr ymsag hwnnw. ar nos honno yd aethant y eu pebyllyeu. Athrannoeth arofynd aoruc arthur ymeith. Arglwyd neb yr owein nyt velly y mae iawn itt. teir blyned yr amser hwnn y deuthum i y wrthyt ti arglwyd. Ac ymae ymeu i y lle hwnn. Ac yr hynny hyt hediw ydwyfi yn darparu gwled ytti. Kan gwydwn y dout ti ym keissaw. Athi a deuy gyt ami y vwrw dyludet ti athwyr. Ac enneint ageffoch. Adyuot aorugant oll hyt ygkaer iarles yffynnawn. Ygyt ar wled

y buwyd deir blyned yny darparu. yn un trimis y treulwyd. Ac ny bu esmwythach udunt wled eiryoet na gwell no honno. Ac yna arofynd aoruc arthur ymeith. Agyrru kennadeu aoruc arthur att yr iarles y erchi ellwng owein y gyt ac ef oedanos ywyrda ynys prydein. Ae gwraged-da vn trimis. Ar iarles ae kanhadawd ac anhawd uu genthi hynny. Adyfot aoruc owein y gyt ac arthur y ynys prydein. Agweddy y dyuot ymplith y genedyl ae gyt gyfedachwyr. ef atrigywys tair blyned ygkyfeir y trimis.

Ac ual yd oed owein diwarnawt yn bwyta ar y bwrdd ygkaerlhon ar wysc. nachaf uorwyn yndyuot ar uarch gwineu mynggrych. ae vyghen agaffei. Agwisc ymdanei o bali melyn. Ar ffrwyn ac a welit or kyfrwy eur oed oll. ahyt rac bronn owein y deuth. a chymryt y uotrwy y oed ar law owein awnaeth. val hynn heb hi y gwneir y twyllwr bratwr aghywir yr mefyl ar dyuaryf. Ac ymchoelut penn y march ac ymeith. Ac yna y doeth cof y owein y gerdet hono. a thristau aoruc. Aphandaruu vwyta dyuot y letty aoruc. agofalu ynno honno. athranoeth y kyuodes. Ac nyt y llys agyrcchwys. namyn eithafoed bydoed. adiffeith vynyded. ac ef a uu velly yny daruu y dillat oll. Ac yny daruu y gorff hayach. ac yny tyfawd blew hir trwydaw. Achyt gerdet awnaei abwystuileit. achyt ymborth ac wynt yny oedynt gynefin ac ef. Ac yn hynny gwanhau aoruc ef heb allu eu kanhymdeith. ac estwng or myned yr dyffryn. a chyrru parc tecaf or byd. a iarles wedw bioed y parc. Adiwarnawt mynet aoruc yiarles aellawuorwyn y orymdeith gan ystlys llyn aod yny parc hyt argyfeir y chanawl. Ac wynt awelynt yno eilun dyn aedlw. ac ualdala ofyn racdaw aorngant. ac eissoes nessau aorugant attaw ae deymlo ae edrych. Sefygwelynt gwythi yn llawn arnaw. ac ynteu yn gwywaw wrth yr heul. Adyuot aoruc yr iarles drachefyn yr kastell. Achymryt lloueit gorflwch oireit gwerthuawr. ae rodi ynllaw un or llawuorwynon. Dos heb hi a hwnn gennyt adwe y march racko ardillat gennyt. adot ger llaw y gwr gyneuw. ac ir ef ar ireit hwun ar gyfeir y galon. ac orbyd eneit yndaw ef agyfyt gan yr ireit hwun. agwylya beth awnel. ar uorwyn adeuth racdi. Achwbyl or ireit arodes arnaw. ac adaw y march ar dillat ach y law. amynet ruthur y wrthaw. ac ymgudyaw a dsgwyl arnaw. ac ympenn rynnawd hi ae gwelei ynkossi y vreicheu. ac ynkyfodi yuynydd ac ynedrych ar y gnawt. achymryt kewilyd aoruc mor hagr oed y delw aod arnaw. ac argantod aoruc y march ar dillat y wrthaw. ac ymlithraw aoruc yny gafas tynnu y dillat attaw or kyfrwy ac eugwisgaw. Ac esgynnu ar y march o abreid aoruc. ac yna ymdangos aoruc yuorwyn idaw. achyvarch gwell idaw. allawen uu ynteu

wrth y vorwyn. agofyn aoruc idi py dir oed hwnnw aphyte. Dioer heb y vorwyn iarllles wedw bieu y kastell racko. Aphanuu uarw y gwr ef edewis genthi dwy iarllaeth. ahediw nyt oes ar y helw namyn yr unty hwnn nys ry dycko iarll ieuanc yssyd gymodawc idi. am nat aci yn wreic idaw. Truan yw hynny heb yr owein. acherdet aoruc owein ar vorwyn yr kastell. Adisgynu awnaeth owein nny castell. ar uorwyn ae duc ystauell esmwyth. achynneu tan idaw ae adaw yno. adyuot aoruc y uorwyn att yr iarllles. arodi y gorvlwch nny llaw. Ha vorwyn heb yr iarllles mae yr ireit oll. neur golles oll heb hi. Ha vorwyn heb yr iarllles. nyt hawd gennyfi dy atveiryaw di yr hynny. oed diryeit hagen y minneu treulaw gwerth seith ugeint punt o ireit gwerth-uawr wrth dyn heb wybot pwy. ac eissoes uorwyn heb hi gwassanaetha di euo. nny vo diwall o gwbyl. a hynny aoruc yuorwyn gwassanaetha ar vwyt adiawt athan agwely ac enneint nny vu iach. ar blew a aeth yar owein yn toruennu keunoc. Sef y bu ynhyunny trimis. agwynnach oed ygnawt yna. noc y buassei gynt. ac ar hynny y clywei owein diwarnawt kynnwryt nny castell. adwyn arueu y amywn. gofyn aoruc owein yr uorwyn py gwnnwryf yw hwnn. Yiarll heb hi a dywedeis i ytti yssyd yn dyuot wrth y kastell. ygeisaw diua ywreic honn allu mawr gantaw. Gofyn aoruc owein aoes uarch ac arueu yr iarllles. Oes heb y uorwyn yrei goreu or byt. aey di y erchi ymi benffie march ac arueu heb yr owein pei gallwn vynet ynedrychyat ar y llu. af heb y uorwyn. adyuot att yr iarllles aoruc, a dywedut wrthi y hymadrawd ogwbyl. Sef aoruc yr iarllles chwerrthin. Yrofi aduw heb hi mi arodaf varch ac arueu byth. ac ny bu ar y helw eiryoet march ac arueu kystal ac wynt. ada yw gennyfi eu kymryt ohonaw. rac eu kaffel om gelynyon auory om hanuod. ac ny wu peth avynn ac wynt. a dyuot awnaethpwy agwasgwyn du telediw achyfiwy o ffawyd araw. ac a digon o arueu gwr a march. agwisgaw aoruc owein ymdanaw. ac esgynnu ar y varch. amyuet ymeith adeu uackwy gyt ac ef yngyweir o veirch ac arueu. Aphan deuthant parth allu yr iarll. ny welynt nac ol nac eithaf idaw. agofyn aoruc owein yr mackwyeit. pa vydin ydoed yr iarll yndi. Y vydin y mae y pedeir ystandard melynyon yndi racko heb wynt. dwy yssyd nny vlaen a dwy nny ol. Ie heb yr owein ewch chwi drachefyn. ac arhowch viui yn ymyl porth y kastell. Ymchoelut aorug-ant hwy. acherdet aoruc ynteu racdaw nny gyferuyd ar iarll. Actynnu aoruc owein oe gyfrwy. nny uyd yrydaw acholof. ac ymchoelyt penn yuarch parth ar kastell. Apha ofut bynnac agafas ef adeuth ar iarll y borth y castell at y mackwyeit. Ac y mywn y deuthant. Ac owein a rodes y

iarll yn anrec yr iarll. adywedut wrthi. welydi yma yti bwyth yr ireit bendigedic. arllu a babyllwys ygkylch y kastell. ac rodi bywyth yr iarll yrodes ynteu y dwy iarllaeth idi drachefyn. ac yr rydit idaw yrodes hanner y gyfoeth ehun. achwbyl oe heur ae haryant ae thlysseu aegwystlon ar hynny. Ac ymeith ydaeth owein. ae wahawd awnaeth yr iarlls idaw. ef ae holl gyfoeth. ac ny mynnwys owein namyn kerdet racdaw eithafoed byt a diffeithwch. ac ual ydoed ynkerdet ef aglywei disgrech uawr y mywn koet ar eil ar dryded. adyuot yno aoruc owein. aphan doeth yno. ef awelei clocuryn mawr ygkanawl y koet. a charrec lwyth ynystlys y bryn. aholit aoed yny garrec. asarff aoed ynyr holit. Allew purdu aoed yn ymyl y garrec. aphan geissei y llew vynet odyo y neidei y sarff idaw ae vrathu. Sef aoruc owein dispeilaw cledyf a nessau att y garrec. ac ual ydoed y sarff yn dyuot or garrec. y tharaw aoruc owein achledyf. yny vyd yndeu hanner. a sychu y gledyf. adyfot yr fford ual kynt. Sef y gwelei y llew yny ganlyn. ac yngware yny gylch ual milgi a uackei chun. acherdet aorugant ar hyt ydyd hyt ucher. Aphan uu amser gan owein orffowys. disgynnu aoruc. agellwng yuarch ymywn dol goedawc wastat. allad tan aoruc. Aphan uu barawt y tan gan ōwein. yd oed gan y llew dogon ogynnut. hyt ympenn teirnos. a difflanu aoruc y llew ywrthaw. Ac yny lle nachaf y llew yndyuot attaw achaeriwrch mawr telediwr gantaw. ae vwrw ger bronu owein. amynet am y tan ac ef. achymryt aoruc owein y kaeriwrch ae vlighaw. adodi golwython ar uereu ygkylch y tan. a rodi y iwrch namyn hynny yr llew oe yssu. Ac ual ydoed owein uelly ef aglywei och uawr ar eil ar dryded yngyfagos idaw. a gotyn aoruc owein aedynbydawl. Ie ysgwir heb ydyn. Pwy wyt titheu heb yr owen. Dioer heb hi lunet wyfi llawuorwyn iarlls y ffynawn. Beth awney di yma heb yr owen. Vygkarcharu heb hi yd ydys. oachaws marchawc adoeth olys arthur y uynnu y iarlls ynpriawt ac a uu rynnawd gwt ahi. ac ydaeth y dreiglaw llys arthur. ac ny doeth vyth drachefyn. Achedymdeith ymi oed ef mwyaf agarwn or byt. Sef aoruc deu weissou ystauell yiarlls y oganu ef ae alw yntwyllwr. Sef ydywedeis i na allei ydeugorff hwy amrysson ae uncorff ef ac amhynny vygkarcharu yny llestyr maen. a dywedut nabydei vy eneit ymcorff onydelei ef ym amdifyn i yn oet y dyd. ac nyt pellach yr oet no thrennyd. ac nid oes ymi neb aekeissaw ef. Sef yw ynteu owein uab uryen. Aoed diheu gennyt titheu pei gwyppei ymarchawc hwnnw hynny ydeuei yth amdifyn. Diheu profi aduw heb hi. Aphan uu dogyn poethet y golwython. eu rannu aoruc owein yndeu hanner yryngtaw ar uorwyn. abwyta aorugant. agwedy hynny ymdidan yny vu dyd

drannoeth. Trannoeth gofyn aoruc owein yr uorwyn aoed le y gallei ef kaffel bwytt alleweuyd y nos honno. Oes arglwyd heb hi. dos yna drwod. a cherda yfford gan ystlys yr auon. ar ym penn rynnawd ti awely gaer uawr. athyreu yn amyl arnei. yr iarll bieu ygaer hono goreu gwr am vwytt yw orbyt. ac yno y gellydi uot heno. Ac ny wylwys gwylwr y arglwyd eiryoet yngystal ac y gwylwys y llew owein ynos honno.

Ac yna y kyweirywys owein y uarch. ac y kerdawd raddaw trwy y ryt yny welas y gaer. ac y doeth yr gaer. ae aruoll awnaethpwytt idaw yno yn enrydedus. achyweiryaw y varch yndiwall. adodi dogyn o vwytt rac y vronn. Amynet aoruc y llew y bresseb y march y orwed. hyt na lyfassei neb or gaer uynet ygkyfyl y march. adiheu oed gan owein. nawelas eiryoet lle kystal y wassanaeth ahwnnw. a chyndristed oed bop dyn yno achyn bei agheu ym pop dyn onadunt. Amynet aorugant y vwytta. Ac eisted aoruc yr iarll ar y neill law y owein. ac un verch oed idaw ar y tu arall yowein. Adiheu oed gan owein nawelas eiryoet vn vorwyn delediwaach no honno. Aduot aoruc y llew rwng deutroet owein dan y bord. ac owein ae porthes o bop bwytt or aoed idaw ynteu. Ac ny welas owein bei kymeint yno athristyt y dynyon. Ac amhanner bwytta gressawu owein aoruc y iarll. Madws oed itt bot ynllaweu heb yr owein. Duw a wyr ym nat wrthyt ti ydym drist ni. namyn dyuot deunydt tristit in agofal. Beth yw hynny heb yr owein. Deu uab oed im. amynet uyndeu uab yr myned doe y hela. Sef ymae bwystvil yno allad dynyon a wna. Ac eu hyssu. Adala vy meibion aoruc. Ac yvory y mae oet dyd y rofi ac ef y rodi yuorwyn honno idaw. neu ynteu a ladho vy meibon ymgwyd. Ac eilun dyn yssyd aruaw. Ac nyt llei ef no chawr. Dioer heb yr owein. truan yw hynny. Aphy un awney ditheu o hynny. Duw awyr arnaf heb yr iarll vot yn diweirach gennyf diuetha vy meibon a gafas omhanuod no rodi uy merch idaw ombod. oe llygru. aediutha. Ac ymdidan a wnaethant am betheu ereill. Ac yno bu owein ynos honno. Ar bore trannoeth wynt aglywynt twryf anveitrawl y ueint. Sef oed hynny y gwr mawr yndyuot ar deu uab gantaw. Amynnu kadw y gaer aoruc y iarll raddaw adilyssu y deu vab. Gwisgaw aoruc owein y arucu ymdanaw. amynet allan. ac ymbrawf ar gwr. arllew yny ol. Aphan welas y gwr owein yn aruawc. y gyrehu aoruc. Ac ymlad ac ef. agwell olawer ydymladei y llew ar gwr mawr noc owein. y rofi aduw heb y gwr wrth owein. nyt oed gyfyg gennyf ymlad athidi bei nabei yr anifeil gyt athi. ac yna y byryawd owein y llew yr gaer achaeu y porth aruaw. adyuot y ymlad ual kynt argwr mawr. adisgrech aoruc

y llew am glybot gofut ar owein. adrigyaw nny vyd arneud yr iarll. ac yar y neuad hyt ar y gaer. ac yar y gaer y neidyawd nny uu gytac owein. aphaluawt atrewis y llew ar ben ysgwyd y gwr mawr nny uyd y balaf trwy bleth y dwyclun. ual y gwelit y holl amysgar yllithraw o honaw. ac yna y dygwydwys y gwr mawr yn varw. ac yna yrodes owein ydeu vab yr iarll. agwahawd owein aoruc yr iarll. Ac nysmynnawd owein. namyn dyuot raddaw yr dol yd oed Lunet yndi. Ac ef awelei yno kynneu uawr o tan. adeu was penngrych wineu deledwiw yn mynet ar uorwyn ae bwrw nny tan. Agofyn aoruc owein py beth aholynt yr uorwyn. adatkanu eu kyfranc aorugant idaw. mal y datkanassei y vorwyn y nos gynt. ac owein a pallwys idi. ac am hynny y llosgwn ninneu hi. Dioer heb yr owein marchawc da oed hwnw. aryued oed gennyfi pei gwypei ef uot ar y uorwyn hynny na delei y hamdiffyn. aphei mynnewch chwi vyui drostaw ef. miui aawn y chwi. mynwn heb y gweisson mynn y gwr an gwnaeth. Amynet aorugant y ymdiot ac owein. agofut agafas owein gan ydeuwas. Ac ar hynny y llew anerthwys owein. ac aoruuant ar y gweisson. Ac yna ydywedassant wynteu. ha unbenn. nyt oed amot ynni ymlad namyn athydi dy hun. ac ys anhaws ynni ymlad ar anifeil racko noc athydi. ac yna ydodes owein y llew nny lle y buassei y uorwyn ygkarchar. a gwneuthur mur maen ar y drws. amynet y ymlad ar gwyr mal kynt. ac ny doethoed owein y nerth ettwa. a hyd yr oed y deuwas arnaw. ar llew vyth yndisgrechu am vot gouut ar owein. a rwygaw y mur aoruc y llew nny gauas fford allan. ac yngyflym y lladawd y neill or gweisson. ac nny lle y lladawd y llall. Ac uelly ydifferassant hwy lunet rac 'y llosgi. Ac yna ydaeth owein alunet gyt ac ef y gyfoeth iarllles yffynnawn. aphan doeth odyno y duc y iarllles gantaw ylys Arthur. Ahi auu wreic trauu vyw hi.

Ac yna ydeuth ef fford y lys y du traws. ac ymladawd ac ef. Ac nyt ymedewis yllew ac owein nny oruu ar y du traws. aphandoeth ef fford ylys ydu traws y neuad agyrchwys. ac yno y gwelas ef pedeir gwraged ar hugeint. telediawf ar awelas neb eiryoet. ac nyt oed dillat ymdanunt werth pedeir arhugeint o aryant. achyntristet oedynt ac agheu. Agofyn aoruc owein udunt ystyr eu tristit. Ydywedassant wynteu panyw merchet ieirll oedynt. ac ny doethoedynt yno namyn ar gwr mwyhaf agarei bop un onadunt gyt ahi. aphan doetham ni yma ni agawssam lewenyd apharch. ac an gwneuthur yn vedw. agwedy ybeym uedw y deuei y kythreul bieu yllys hon. ac y lladei an gwyr oll. ac ydygei an meirch ninneu ac an dillat. ac an eur ac aryant. achorfforoed y gwyr

yssyd ynyr un ty a llawer o galaned ygyt a wynt. Allyna itti unbenn ystyr an tristit ni. Adrwc yw gennym ni unbenn dy dyuot titheu yma rac drwc itt. athruan uu gan owein hynny. amynet aoruc y orymdeith allann. ac ef a welei uarchawc yndyuot attaw. ac yny aruoll trwy lewenyd acharyat val bei brawt idaw sef oed hwnnw ydu traws. Duw a wyr heb yr owein nat ygyrchu dy lewenyd ydodwyfi yma. Duw awyr heb ynteu nas keffy ditheu. ac yny lle ymgyrchu awnaethant. ac ymadoydi yndrut. ac yndiha-uarchu ac ef aoruc owein. ae rwymaw ae dwylaw ar y gefyn. anawd aerchis ydu traws y owein. adywedut wrthaw. arglwyd owein heb ef. darogan oed dydyuot ti yma ymdarestwng i. athitheu adeuthost. ac aorugost hynny. ac yspeilwr uum i yma. ac yspeilty uu uynty. adyro im vy eneit. a mi aaf yn yspyttywr. ami agynhalyaf y ty hwnn yn yspytty ywann ac y gadarn. tra vwyf vvw rac dy eneit ti. ac owein a gymerth hynny gantaw. ac yno y bu owein y nos honno. athraunoeth y kymerth y pedeir gwraged ar hugeint ae meirch ae dillat. ac adathoed gantunt oda athlysseu. ac y kerdwys ac wynt gyt ac ef hyt yn llys arthur. allawen uuassei arthur wrthaw gynt pan y kollassei. allawenach yna. Ar gwraged hynny yr honu a vynnei drigyaw yn llys arthur hi ae kaffei. ar honn a vynnei vynet ymeith elei. ac owein atrigywys yn llys arthur. ohynny allann ynpennenteulu. ac yn annwyl idaw yny aeth ar y gyfoeth ehun. Sef oed hynny trychant a edys Kenuerchyn ar vranhes. ac yr lle y delei owein a hynny gantaw. goruot awnaei ar chwedyl hwn aelwir. chwedyl iarlls y ffynnawn.



GERAINT AB ERBIN.

ARTHUR adcuodes dala llys ygkaer llion arwysc. ac y delis aruntu seith pasc. aphump nadolic. Arsulgwyn dreigylweith dala llys aoruc yno. Kanys hygyrchaf lle yny gyuoeth oed gaerllion y ar uor ac y ar dir. Adygyuot aoruc attaw naw brenhin coronawc. aoedynt wyr idaw hyt yno. ac ygyt a hynny Ieirll abarwneit. Kanys gwahodwyr idaw uydei yrei hynny ym pob gwyl arbennic onybei uawr aghenyon yn eu lludyas. Aphan vei ef ygkaer llion yn dala llys. teir eglwys ardec aachubit wrth yr offerenneu. Sef ual yd. achubit. eglwys y arthur ae deyrned ae wahodwyr. Ar eil y Wenhwyuar. ae rianed. ar dryded auydei yr distein ar eircheit. ar bedwared. y franc ar swydogyon ereill. a naw eglwys ereill auydei yr naw pennteulu. Ac y Walchmei yn bennaf. Kanys ef o arderchoerwyd clot milwryaeth ac urdas boned oed bennaf ar ynow pennteulu. ac nyt anghei yn vn or eglwysseu mwy uoc adywedasse ni uchot. Glewlwyt gauaeluawr oed penn porthawr idaw. ac nyt ymyrrei ef yggwassanaeth. namyn yn vn orteir gwyl arbennic. namyn seithwyr a oedynt ydanaw yn gwassanaethu. arennynt y vlwydyn yryngtunt. Nyt amghen. grynn. aphen pighon. allaes gymyn. agogyfwlch. a gwrднеi lygeit cath. awelei hyt nos yngystal ac hyt dyd. Adrem uab dremhitit. Achlust uab clustueinyt aoedynt wylwyr y arthur. Aduw mawrth sulgwyn ual yd oed yr amherawdyr yny gyuedach yneisted. nachaf was gwineu hir yn dyuot ymywn. Aphis a swrcot o bali caerawc ymdanaw. a chledyf eurdwrn am y vynwgyl. adwy esgit issel ogortwal am y draet. a dyuot aoruc hyt rac bronn Arthur. Henpych gwell arglwyd heb ef. Duw a rodho da it heb yr ynteu. agresso duw wrthyt. ac aoes chwedleu o newyd gennyt ti. Oes arglwyd heb yr ynteu. Nyt atwen i dydi heb yr arthur. Ryued yw gennyfi nam atwaenost. afforestwr itti arglwyd wyfi ynforest ydena. amadawc yw vy enw i uab twrgadarn. Dywet ti dy chwedleu heb yr arthur. Dywedaf arglwyd heb ef. Karw aweleis yny forest. ac ny wel-eis yrmoet ygyfryw. Pabeth yssyd arnaw ef heb yr arthur. pryt na welut eiryoet y gyfryw. Purwyn arglwyd yw. ac ny cherda gyt ac un aniveil o ryuic abalchder rac y urenhineidet. Ac y ouyn kyngor itti arglwyd ydodwyf. beth yw dy gynghor amdanaw. Iawnaf ygwnafi heb yr arthur.

mynet y hela ef auory yn ieuencitit y dyd. Apheri rybud heno ar bawp or llettyeu. Ac arryfuerys oed bennkynyd y arthur. ac areliuri oed benn mackwy. ac ar bawb y am hynny y trigyassant. agellwng y mackwy orblaen aoruc. Ac yna y dywawt gwenhwyuar wrth arthur. arglwyd heb hi agennhedy di vyvi avory y uynet yedrych ac y warandaw ar hela ykarw adywawt y mackwy. Kanhadaf ynllawen heb y arthur. Minneu aaf heb hi. Ac yna ydywawt gwalchmei wrth arthur. Arglwyd heb ynteu ponyt oed iawn ytitheu. kanhadu yr neb y delei hwnnw attaw nny helua. llad y benn ae rodi yr neb ymynhei ae yorderch idaw ehun ae y orderch ygedymdeith idaw. na marchawc naphedestyr ydel idaw. Kanhadaf yn llawen heb yr arthur. abit y keryd ar distein ony byd parawt pawp avory yuynet y hela. A threulaw y nos aorugant drwy gymedrolder ogerdeu adidanwch ac ymdidaneu adiwall wasanaeth. Aphan uu amser gan bawp onadunt vynet y gyscu wynt aethant. Aphan doeth ydyd drannoeth deffroi aorugant. agalw aoruc arthur ar y gweisson agadwei ywely. Nyt amgen. pedwar mackwy. Sef rei oedynt. Cadyrnerth uab porthawr gandwy. Ac Ambreu uab bedwor ac amhar uab arthur. agoreu uab Custenyn. ar gwyr hynny adoethant att arthur. ac agyuarchassant well idaw. ac awiscassant ymdanaw. A ryuedu a oruc Arthur na deffroes gwenhwyuar. ac nat ymdroes nny gwely. argwyr a vynnysynt y deffroi. Nadeffrowch hi heb yr arthur. kanygswell genthi gyscu no mynet y edrych ar yr hela. Ac yna y kerdawd arthur radaw. ac ef aglywei deu gorn yn canu. vn yn ymyl lletty y pennkynyd. ar llall yn ymyl lletty y penn mackwy allwyr dygyuor kwbyl or niuerod a doethant att arthur. a cherdet aorugant parth ar fforest. Agweddy mynet arthur odiethyr yllys ydeffroes gwenhwyuar agalw ar y morynyon aoruc agwiscaw ymdanei. A vorynyon heb hi. mi agymereis gennat neithwyr y vynet yedrych ar yr hela. Ac aet un o honawch yr ystabyll apharet dyuod ac a vo ovarch cr awedo y wraged eu marchogaeth. ac ef aeth vn onadunt. ac ny chahat yn yr ystabyll namyn dau varch.

Agwenhwyuar ac un or morynyon aethant ar y deuuarch. ac wynt adoethant drwy wysc. allusc ygwyr ar meirch agynhalasant. Ac ual y bydynt yn kerdet uelly wynt aglywynt twryf mawr angherdawl. ac edrych aorugant dracheuyn. ac wynt awelynt varchawc ar ebawlvarch helydeid athrugar yueint. amakwy gwyneu Ieuan egeirnoeth teyrneid arnaw. a chledyf eurndwrn ar y glun. apheis aswrkot obali amdanaw. adwy eskit issel ogordwal am y draet. allenn oborffor glas ar warthaf hynny. ac aual eur wrth bop cwrr idi. acherdet yn uchelualch drybelit ffraeth gyssonuyr awnaei y march. ac ymordiwes agwenhwyuar aoruc achyuarch gwell idi

aoruc. Duw arodho da itt ereint heb yr hitheu. Ami athadnabuum pann yth weleis gyntaf gynneu. agresaw Duw wrthyt. Aphaham nat aethost di gyt ath arglwyd yhela. Am na wybuum panaeth heb ef. Minneu aryuedeis heb hi gallu o honaw ef uynet yndirybud y mi. Ie arglwydes heb ef. Kyscu awneuthum i ual nawybuum pan aeth ef. agoreu vn kedymdeith genhyfi heb hi vygkedymdeithas arnaw yny kyvoeth oll wyt ti o was ieuanc. ac ef aallei uot yngyndigriuet ymi orhela ac udunt wynteu. kanys ni a glywn y kyn pan ganer. Ac aglywn y cwn pann ellynger. aphan dechreuont alw. Ac wynt adoethant y ystlys y forest. ac yno seuyll a wnaethant. Ni aglywn odyma heb hi pan ellynger y kwn. Ac ar hynny twryf aglywynt. ac edrych yggwrthwyneb y twrwr a orugant. Ac wynt a welent corr yn marchogaeth march ucheldew ffoenuoll maswehyn kadamdrut. Ac yn llaw y corr ydoed ffrowyll. Ac ynagos yr corr ygwel-ynt wreic y ar uarch canwelw telediw. aphedestric wastatualch gantaw ac eurwisc o bali ymdanei. ac yn agos idi hitheu marchawc y ar gatuarch mawr tomlyt. ac arueu trwm gloyw ymdanaw ac am y uarch. adihau oed ganthynt na welsynt eiryoet gwr amarch ac arueu hoffach gantunt eu meint noc wynt. Aphob un o nadunt yn agos ygilyd. Gereint heb y gwenhwyuar aatwaenost di y marchawc racco mawr. nac atwen heb yr ynteu. ny at yr arueu estronawl mawr racco welet nae wyneb ef nae bryt. Dos uorwyn heb y gwenhwyuar agouyn yr corr pwy y marchawc. mynet aoruc y uorwyn yn erbyn ycorr. Sef aoruc y corr kyuaros yuorwyn pan ygwelas ynduot attaw. Agouyn aoruc yuorwyn yr corr pwy y marchawc heb hi. Nys dywedaf ytti heb ef. kanys kyndrwc dy wybot heb hi ac nas dyweddy ymi. mi aegouynnnaf idaw ehun. Na ouynny myn uygret heb ynteu. Paham heb yr hi. Am nat wyt ynenryded dyn awedo wrthaw ymdidan amharglwydi. Sef aoruc y uorwyn yna trossi penn y march tu ar marchawc. Sef aoruc y corr yna y tharaw ar ffrowyll aod ynylaw ardraws y hwyneb ae llygeit yny uyd y gwaet yn hidleit. Sef awnaeth yuorwyn odolur y dymawt. dyuot dracheuyn. at wenhwyuar dan gwynaw y dolur. Hagur iawn heb y gereint y goruc y corr athi. Mi aaf heb y gereint ywybot pwy y marchawc. Dos heb y gwenhwyuar. dyuot aoruc gereint at y corr. Pwy y marchawc racko heb y gereint. Nys dywedaf ytti heb y corr. Mi ae gouynaf yr marchawc ehun heb ynteu. Naovynny myn vygret heb y corr. nyt wyt yn enryded di ac y dylyych ymdidan am arglwydi. Miui heb y gereint aydideneis agwr yssyd gystal ath arglwyd di athrossi penn yuarch aoruc parth ar marchawc sef aoruc y corr ymordiwes ac ef ae daraw yny gyueir y trawsei y uor-

wyn. ynyoed y gwaet yn lliwaw y llen oed am ereint. Sef aoruc gereint dodu ylaw ardrwn ygledyf. achymryt kyghor yny uedwl ac ystyryaw aoruc nat oed dial gantaw llad y corr. ar marchawc aruawc yny gael ynrat a heb arueu. Adyuot dracheuyn aoruc hyt lle ydoed Wenhwyuar. Doeth aphwyllawc y medreist heb hi. Arglwydes heb ef miui etwa aaf yny ol gandy gennyat ti. ac ef adaw yny diwed y gyuanned y kaffwyf y erueu. ae benffic ae ar wystyl. ual y kaffwyf ymbraw ar marchawc. Dos ditheu heb hi ac nac ynwasc ac ef yny geffych arueu da. agoual mawr uyd gennyfi ymdanat ti heb hi yny gaffwyf chwedleu ywrthyt. Os byw uydafi heb ef erbyn pryt nawn auorycher ti aglywy chwedleu odianghaf. Ac ar hynny kerdet aoruc. set fford y kerdassant is law y llys ykaerllion. Ac yr ryt ar wysc mynet drwod. agwastattir tec edrym aruchel agerdassant yny doethant y dinastref. Ac ympenn y dref y gwelynt kaer achastell. Ac y benn y dref y doethant. Ac ual y kerdei y marchawc drwy y dref y kyudei tylwyth pob ty y gyuarch gwell idaw ac y resawu. Aphan-daeth gereint yrdref edrych awnei ympobty y geissaw adnabot neb or awelei. ac nyt atwaenei ef neb na neb ynteu ual y gallei ef gaffel kymmwynas o arueu ae o venffic ae ar wystyl. Aphob ty awelei ynllawn o wyr ac arueu a meirch. ac yn llathru taryaneu. ac yn ysleipanu cledyfeu. ac yngolchi arueu. ac ynpedoli meirch. ar marchawc ar uarchoges ar corr a gyrcassant y castell aoed ynydref. llawen oed bawp wrthynt or kastell. Ac ar y vylcheu ar pyrth ympob kyueir yd ymdorunnnyglynt y gyuarch gwell. ac yuot yn llawen wrthynt. Seuyll ac edrych aoruc gereint auydei dim goeir arnaw yny castell. Aphan wybu yuhyspys y drigyaw. edrych aoruc ynygylch. ac ef awelei ar dalym or dref henllys atueiledic ac yudi neuad drydoll ac wrth nat atwaenat neb ynydref mynet aoruc yr henllys. Agwedy dyuot ohonaw parth ar llys. ny welei hayach namyn lofft awelei. aphont o uaen marmor yn dyuot or lofft. Ac ar y bont y gwelei gwrgwynllwyt yn eisted. ahen dillat atueiledic ymdanaw. Sef aoruc gereint edrych arnaw yngraft hirhynt. Sef ydywawt ygwr gwynllwyt wrthaw. Auaccwy heb ef. paedol yw y teu di. Medylyaw heb ynteu am na wn pa le y daf heno. A deuy di ragot yma unben heb ef. athi a geffy oreu agaffer itt. adyuot racdaw aoruc achyrchu aoruc y gwr gwynllwyt yr neuad oevlaen. Adisgynnv aoruc yny neuad ac adaw yno y uarch. adyuot racdaw tu ar lofft ef ar gwr gwyn llwyt. Ac ar y lofft y gwelei gohenwreic yn eisted ar obennyd. a hen dillat atueiledic obali ymdanei. Aphan uuassei yn y llawn ieuentit. tebic oed gantaw na welsei neb wreic degach no hi. a morwyn gyr y llaw achrys allenlliein ymdenei gohen yndechreu atueilaw. adiheu oed gantaw

na welsei eiryoet un uorwyn yn gyflawnach o amylder pryt agowed a thelediwrwyd no hi. ar gwr gwynllwyt adywawt wrth y uorwyn. Nyt oes was y uarch y mackwy hwnn henno namyn tydi. Ygwassanaeth goreu aallwyfi heb hi mi ae gwnaf ac idaw ac y uarch. A diarchenu y mackwy aoruc y uorwyn. Ac o dyna diwallu ymarch owellt ac yt. A chyrcu yr neuad ualkynt adyuot yr loft dracheuyn. Ac yna ydywawt y gwr gwynllwyt wrth yuorwyn. Dos yr dref heb ef ar trawgwyd goreu ac aellich ovwyt allynn par dyuot yma ac ef. Mi awnaf yn llawen arglwyd heb hi. Ac yr dref y doeth yuorwyn. ac ymdidan aorugant wynteu tra uu yuorwyn nny dref. Ac nny lle nachaf yuorwyn yndyuot agwas ygyt a hi. a chostrel ar y geuyn yn llawn o ued gwerth. achwarthawr eidon ieuanc. Ac yrwng dwylaw y uorwyn yd oed talym ouara gwynn. ac un coesset nny llenlliein. ac yr lofft ydoeth. Ny elleis i heb hi trawssgwyd well no hwnn. ac ny chawn uygredu ar well no hynn. Dadigawn heb y gereint apheri berwi y kie aorugant. aphanuu barawt eu bwynt wynt aethant y eisted. Nyt amgen. Gereint aeistedawd yrwng gwr gwynllwyt aewreic. ar uorwyn awasanaethawd arnynt. Abwyta ac yuet aorugant. A gwedy daruot bwyta. dala ar ymdidan ar gwr gwynllwyt aoruc gereint. agouyn idaw ae ef gyntaf bioed y llys yd oed yndi. Mi ysgwir heb ef ae hadeilawd a mi bieiuu y dinas ar castell a weleist ti. Och awr heb y gereint. paham y colleist ditheu hwnnw. Mi agolleis heb ynteu iarllaeth uawr ygyt ahynny. a llyma paham y colleis. Nei uab brawt aoed im. achyuoeth hwnnw ar meu vy hun agymereis i attaf. aphan doeth nerth yndaw holi y gyuoeth awnaeth. Sef y kynheleis ynheu y gyuoeth racdaw ef. Peri aoruc ynteu ryuelu arnafi. achyvanedu cwbl ar a oed ymllaw. awrda heb y gereint auenygy di y mi padyuotyat uu y marchawc adoeth yr dinas gynneu ar uarchoges ar corr. Aphaham y mae y darpar aweleis i argweiryaw arueu. managaf heb ef. Darpar yw auory archware yssyd gau yr iarll Ieuanc. Nyt amgen doddi ymywn gweirglawd yssyd yno dwy fforch. ac ar y dwy fforch gwialgeing aryant. allamhystaen adodir ar y wialgeing. Athwrneimeint auyd am y llamhysdaen. Ar niuer aweleist di nny dref oll owyr ameirch ac arueu adaw yr twrneimeint. ar wreic vwyhaf agarho adaw ygyt aphob gwr. Ac ny cheiff ymwan am yllamystaen y gwr ny bo gyt ac ef ywreic vwyhaf agarho. Ar marchawc aweleist di agauas y llamhystaen dwy vlyned. ac orkeiff ydryded vlwydyn yhanuon awneir idaw pob blwydyn wedy hynny. ac ny daw ehun yno. A marchawc y llamhystaen y gelwir y marchawc ohynn allan. Awrda heb y gereint mae dy gynghor di ymi am y marchawc hwnnw. am sarhaet ageis gau y

gorr ac agauas morwyn y wenhwyuar gwreic arthur. A menegi ystyr y sarhaet aoruc gereint yr gwr gwynllwyt. Nyt hawd rodi kynghor itt kanytoes na gwreic na morwyn ydymardelwych o honei, ydelut y ymwan-aethl. arueu aoed ymi yna yrei hynny agaffut ti. ac or bei well gennyt uy march i nor teu dy hun. A wrda heb ynteu duw adalo it. dadigawn yw gennyfi vy march vyhun ydwyfi yngynneuin ac ef. ath arueu ditheu. Aphony edy ditheu wrda ymi ardelw or uorwyn racco. yssyd uerch y titheu. yn oet ydyd auory. Ac ordianghafi or twrncimeint. Vygkywirdeb amkaryat auyd ar yuorwyn tra uwyfi vyw. Ouidianghaf inheu. kyndiweiret uyd y uorwyn achynt. Miui heb y gwr gwynllwyt awnaf hynny yn llawen. Achanyis ar ymedwl hwmw yd wyt titheu yntrigyaw. reit vyd itt pan uo dyd auory bot dy uarch ath arueu yn barawt. Kanys yna ydyt marchawc y llamhystaen gostec. Nyt amgen erchi yr wreic vwyhaf agar kymryt y llamhystaen. kanys goreu ygweda itti. athi ae keueist med ef yr llyned ac yr dwy. ac or byd ae gwarauunho itt hediw ogedernit. mi ae hamdiffynaf itt. Ac am hynny heb y gwr gwynllwyt y mae reit y titheu uot yno pan uo dyd. Aninheu yn tri avydwyn gyt athi. Ac ar-hynny trigyaw aorugant. Ac yny lle or nos ydaethant y gysgu. achyn ydyd kyuodi aorugant agwisgaw ymdanunt. Aphan oed dyd ydoedynt wynteu yllpedwar arglawd yn seuyll. Ac yna yd oed marchawc y llamhystaen yndodi yr ostec ac ynerchi y orderch kyrchu y llamhystaen. Na chyrch heb y gereint y mae yma uorwyn yssyd degach athelediwach adylyedogach. Ac aedyly yn well nothi. Os tydi agynhely y llamhystaen yn eidi hi dyret ragot y ymwan amiui. Dyuot racdo aoruc gereint hyt ympenn y weinglawd. yn gyweir o varch ac arueu trwm rytlyt dielw estronawl ymdanaw. ac ymda yuarch ac ymgyrchu aorugant. Athorri to obeleidyr. athorri yr eil. athorri ydryded do. a hynny bob eilwers. Ac wynt ae torrynt ual y dygit attunt. Aphanwelei y iarll ae niuer marchawc y llamhystaen ynhydyr. dolef a llewenyd agorawen auydei gantaw ef aeniuer. athristau awnaei y gwr gwynllwyt aewreic acuerch. ar gwr gwynllwyt awassanaethei y ereint or peleidr ual y torrei. ar corr awassanaethei uarchawc y llamhystaen. ac yna y doeth y gwr gwynllwyt at ereint. a unben heb ef welydy yma y paladr aoed ymlaw i y dyd ym urdywyt yn uarchawc urdawl. Ac yr hyt hediw ny thorreis ef. ac y mae arnaw penn iawnda. kanythyekya un paladr gennyt. Gereint agymerth y gwaew gan y diolwech yr gwr gwynllwyt. Ar hynny nachaf y corr yn dyuot agwaew gantaw ynteu y arglwyd. wely dy yma y titheu waew nyt gwaeth heb y corr. achoffa na sauawd marchawc eiryoet gennyt kyhyt ac y mae hwnn

ynseuyll. Y rof aduw heb y gereint onyt anghew ebrwyd aindwei. ny heubyd gwell ef oth borth di. Ac obell y wrthaw gordinaw y uarch gereint. ae gyrchu ef gan y rybudyaw agossot arnaw dyrnawt tostlym creulawn drut. ygkedernit y daryan yny hollides y daryan. ac yny tyrr yr arueu ygkyueir y gossot. ac yny tyr y gegleu. ac vyd ynteu ef ae gyfrwy dros bedrein y uarch yr llawr. Ac yn gyflym disgynnu aoruc gereint allidiaw. athynnu cledyf ae gyrchu ynllityawclym. y kyuodes y marchawc ynteu athynnu cledyf arall yn erbyn gereint. Ac ar eu traet ymfjust achledyfeu yny yttoed arueu pob un onadunt yn serigyluriw gan gan ygilyd. Ac yny yttoed ychwys argwaet yndwyn lleuer eu llygeit racdunt. Aphan uei hyttraf gereint y llawenhei ygwr gwynllwyf ae wreic ae uerch. aphan uei hyttraf y marchawc y llawenhei yiarll ae bleit. aphan welas y gwr gwyullwyf ereint wedy kaffel dyrnawt mawrdost. nessau aoruc attaw yn gyflym a dywedut wrthaw. aunben heb ef coffa y sarhaet. ageueist ygan y corr. Aphonyt y geissaw dial dy sarhaet ydeuthost di yma asarhaet gwenhwyuar gwreic arthur. Dyuot aoruc y ereint ymadrawd y gwr wrthaw. a galw attaw y nerthoed. adyrchael y gledyf. agossot ar y marchawc ygywarthaf y benn yny tyrr holl arueu y benn. ac yny tyrr y kie oll ar croen. ac yny iat. yny glwyua ar yr asgwrn. ac yny y marchawc arydeulin.

Abwrw y gledyf oelaw aoruc. Ac erchi trugared y ereint. arywyr heb ef y gadawd vygkamryuic am balchder ym erchi nawd. Ac ony chaf yspeit y ymwneuthur aduw am vympechawt. Ac y ymdidan ac offeirit. ny hannwyf well o nawd. Mi a rodaf nawd itt gan hynn heb y gereint. Dy uynet hyt at wenhwyuar gwreic arthur ywneuthur iawn idi am sarhaet y morwyn oth gorr. Digawn yw gennyf inheu awneuthum i arnat ti am ageueis o sarhaet gennyf ti ath gorr. Ac nadisgynnych or pan elych odyma hyt rac bronn gwenhwyvar y wneuthur iawn idi ual y barnher yn llys arthur. Aminheu awnaf hynny yn llawen. Aphwy wyt titheu heb ef. Mi ereint uab erbin. Amanac ditheu pwy wyt. Mi edern uab nud. Ac yna y byrýwyf ef ar y march ac y doeth racdaw hyt yn llys arthur. ar wreic uwyhaf agarei yny vlaen ae gorr. adrycyruerth mawr gantunt. a datkan y chwedl ef hyt yna. Ac yna ydoeth y Iarll bychan ae niuer hyt lle yd oed ereint achyuarch gwell idaw ae wahawd gyt ac ef yr castell. Na vynuaf heb y gereint. yr lle y bum neithwyr yd af heno. Kany uynny dywahawd. ti auynny diwallrwyd or a allafi y beri itt ir lle y buost neithwyr. Ami abaraf enneint itt a bwrw dy vlinder ath ludet yarnat. Duw adalo itt heb y gereint aminheu a af ymlletty,

Ac uelly ydoeth gereint. a nywl iarll ae wreic ae uerch. Aphan doethant yr llofft. yd oed gweission ystauell y iarll ieuanc ae gwassanaeth gwedy dyuot yr llys. Ac ynkyweiriaw y tei oll ac yn eu diwallu owellt a than. Ac ar oet byrr ynbarawt yr enneint. ac ydaeth gereint idaw. a golchi y benn awnaethpwyd. Ac ar hynny y doeth y Iarll ieuanc ar y deugeinauet o uarchogyon urdolyon. y rwng y wyr ehun a gwahodwyr or torneimeint. Ac yna y doeth ef or enneint. Ac yderchis yr iarll idaw vynet yr neuad y vwyta. Mae ynywl iarll heb ynteu ae wreic ae uerch. Y maent yny lofft racko heb y gwas ystauell y iarll. yngwiscaw ymdanunt y gwiscoed a beris y iarll ydwyn udunt. Na wiscet y uorwyn heb ynteu dim ymdanei onyt y chrys aellenlliein nyndel ylys arthur y wisgaw owenhwyuar ywisc avynno ymdanei. Ac nywiscawd yuorwyn. Ac yna ydoeth pawb yr neuad onadunt. Ac ymolechi aorugant amynuet y eisted ac y vwyta. Sef ual yd eistedassant. Or neill tu y ereint yd eistedawd y iarll ieuanc. Ac odynd ynywl iarll. or tu arall y ereint yd oed y uorwyn ae mam. A gwedy hynny pawb val yracvlaenei y enryded. Abwyta awnaethant adidlawt wassanaeth ac amylder o amryuael anregeyon agawssant. Ac ymdidan aorugant. Nyt amgen no gwahod or iarll ieuanc ereint trannoeth. Nanyunaf y rof aduw heb y gereint. ylys arthur ydafi ar uorwyn honn auory. adigawn yw gennyf hyt y mae ynywl iarll ar dlodi agouut ac ygeissaw aghwanegu gossymdeith idaw yd afi ynbennaf. A unben heb yr iarll ieuanc nyt om kam i ymae ynywl heb gyuoeth. Myn uygcret i heb y gereint ny byd ef heb y gyuoeth onyt agheu ebrwyd am dwc i. Ha unben heb ef am auu o anghyssondeb y rofi ac ynywl. mi auydaf wrth dygyghor di ynllawen gan dyuot yngyffredin ar y iawnder y rynghom. Nyt archafi heb y gereint rodi idaw. namyn ydylyet ehun ae amrygoll yr pangolles y gyuoeth hyt hediw. A minheu awnaf hynny yn llawen yrot ti heb ef. Ie heb y gereint auo yma or adylhyo bot yn wr y ynywl gwrhaet idaw or lle. ahynny aoruc ygwyr oll. ac ar y tagneued honno y trigywyt. ae gastell ae dref ae gyuoeth aedewit y ynywl. achwbwl or agollassei hyt ynoet y tlws lleihaf a gafas. Ac yna ydywawt ynywl wrth ereint. A unben heb ef yuorwyn a ymardelweist ohonei hyt y bu y twrneimeint. parawt yw y wneuthyr dy ewyllys a llyma hi yth uedyant. Ny mynnafi heb ynteu namynbot y uorwyn ual ymae yny del y lys arthur. ac arthur agwenhwyuar a vynnaf eubot yn rodyeit a yuorwyn. athrannoeth y kychwynnassant radunt y lys arthur. Kyfranc gereint hyt yma.

¶ Llyma weithon ual yd helawd arthur y carw. rannu yr erhyluaeu or gwyr ar cwn. agellwng y cwn arnaw aorugant. adiwethaf ki aellynghwyd

arnaw annwylgi arthur. cauall oed y enw. ac adaw yr hollgwn aoruc arodi ystum yr carw. ac ar yr eil ystum y doeth yr carw y erhylua arthur. ac arthur aymgauas ac ef. A chyn kyflauanu o neb arnaw. neur daroed y arthur lad y benn. Ac yna kanu corn llad a wnaethpwyd. ac yna dyuot a orugant pawp ygyt. adyuot aoruc kadyrieith att arthur adywedut wrthaw. Arglwyd heb ef y mae racco uenhwyvar heb neb gytahi namyn un uorwyn. Arch ditheu heb yr arthur y gildas uab kaw ae yscolheigyon y llys oll kerdet gyt a gwenhwyuar parth ar llys. a hynny a wnaethant wynteu. Ac yna y kerdwys pawb o nadunt a dala ar ymdidan aorugant am benn y carw y bwy y rodit. Un yn mynnu y rodi yr wreic yr vwyhaf agarei ef. Arall yr wreic vwyhaf agarei ynteu. Aphawb or teulu ar marchogyon yn amrysson yn chwerw am y penn. ac ar hynny y daethant yr llys. Ac y gyt ac y kicleu arthur a gwenhwyuar yr amrysson am y penn. ydywawt gwenhwyuar yna wrth arthur. Arglwyd heb hi. Llyma vygkyghor i am benn y carw. na rodher yny del gereint vab erbin or neges y dedyw idi. A dywedut y arthur ystyr yneges a oruc gwenhwyuar. Gwneler hynny yn llawen heb yr arthur. ar hynny y trigywyt. a thrannoeth y peris gwenhwyuar. bot disgwyleit ar y gaer am dyuotyat gereint. A gwedy hanner dyd y gwelynt godrumyd odyndychan ar uarch. ac yny ol ynteu gwreic neu uorwyn debygynt hwy ar uarch. ac yny hol hitheu marchawc mawr gochrwin penn issel goathrist. ac arueu briwedie amdawt ymdanaw. Achynn eudyuot ygkyuyl y porth y doeth un or diswyleit hyt lle yd oed wenhwyuar. adywedut idi y ryw dynyon awelynt ar ryw ansawd oed arnunt. Ny wnn i pwy ynt hwy heb ef. Mi aegwnn heb y gwenhwyuar llyma y marchawc yd aeth gereint yny ol. athebic yw gennyf nat gan y uod y mae yndyuot. ac ymordiawd gereint ac. neur dialawd sarhaet y uorwyn pan uo lleihaf. ac ar hynny nachaf y porthawr yndyuot hyt lle ydoed wenhwyuar. Arglwydes heb ef y mae yny porth marchawc. ac nywelas dyn eiryoet a golwe mor athrugar edrych arnaw ac ef. Arueu briwedie amdawt yssyd ymdanaw. alliw y waet arnunt yndrech noc eu lliw ehun. awdost di pwy yw ef heb hi. gwnn heb ynteu. Edyrn uab nud yw med ef. nyt atwen inheu ef. ac yna ydoeth gwenhwyuar yr porth yny erbyn. ac y mywn ydoeth. ac y bu dost gan wenhwyuar gwelet yr olwe awelei arnaw. pei na attei gyt ac ef y corr yn gyndrwc ywybot ac yd oed. Ar hynny kyuarth aoruc edyrn y wenhwyuar. Duw arodo da itt heb yr hitheu. Arglwydes heb ef dy annerch y gan ereint uab erbin y gwas goreu adewraf. A ymwelas ef athi heb hi. do heb ef ac nyt yr lles ymi. ac nyt arnaw ef ydoed hynny namyn arnafi arglwydes. Ath

annerch y gan ereint. achan dy annerch ef ankymhellawd i hyt yma. y wneuthur dy ewyllys di amgodyant dy uorwyn y gan y corr. Ynteu madeu-edic yw gantaw ygodyant ef. am aoruc arnaf kann tebygei vymot ynen-beitrwyd am vy eneit. Achymellyat cadarndrut gwrawl milwryeid aoruc ef arnaf fi hyt yma. y wneuthyr iawn itti arglwydes. Oia wr pa le yd ymordiwedawd ef athi. yny lle yd oedem ynchware ac yn amrysson am lamhystaen. yny dref aelwir yr awrhonn kaer dyff. ac nyt oed gyt ac ef oniuer. namryn tri dyn godlawt atueiledic euhansawd. Nyt amgen gwr gwynllwyd gohen. agwreic oetawc a morwyn ieuanc delediw. ahen dillat atueiledic ymdanynt. ac ardelw caru y uorwyn o ereint yd ymyrrawd yny twineimeint am y llamhystaen. adywedut bot yn well y dyliei y uorwyn. honno y llamhystaen nor uorwyn yma. aod gyt amiui. ac amhynny ymwan aorugam. ac ual y gwely di arglwydes y gedewis uivi. A wr heb hi pa bryt y tebygy di dyuot gereint yma. Auory arglwydes y tebygaf i ydyuot ef ar uorwyn.

Ac yna y doeth arthur attaw. a chyuarth gwell a oruc ef y arthur. ac edrych hir hynt aoruc arthur arnaf. abot yn aruthyr gantaw ywelet uelly. ac ual tybyeit y adnabot. agouyn idaw. Ae edyrn uab nud wyt ti. Mi arglwyd heb ynteu gwedy nygyhurd ami diruawr ouut a gwelioed annodefedic amenegi cwbl oe angherdet y arthur. Ie heb yr arthur. Iawn yw ywenwyuar uot yn drugarawc wrthyt wrth aglywafi. Ydrugared a ynnych di arglwyd heb hi. mi aegwnaf ac ef. wrth uot yngymeint gewilyd itti arglwyd kyhyrdu kewilyd amiui ac athyhun. Llyna yssyd iawnaf am hynny heb yr arthur. gadel medegynaethu ygwr yn wyper auobwy. ac os byw vyd gwnaet iawn mal y barno goreu gwyr y llys. achymer ueicheu ar hynny. Os marw uyd ynt. gormod uyd agheu gwas kystal ac edern yn sarhaet morwyn. Da yw genhyfi hynny heb y gwenhwyuar. Ac yna yd aeth arthur ynoruodawc drostaw. achradawc uab llyr. a gwallawc uab llenawc. Ac owein uabnud. a gwalchmei. adigawn yam hynny. ac y peris arthur galw morgan tut attaw. penn medygon oed hwnnw. Kymer attat edern uab nud. Apha gyweiriaw ystauell idaw. a phar uediginyaeth idaw. yngystal ac y parut y mi pei bewn urathedic. ac na at neb y ystauell y aflonydu arnaf. namyn ti ath disgyblon ae medeginyaetho. Mi awnaf hynny yn llawen arglwyd heb y morgan tut. Ac yna y dywawt y distein. Pa le y mae iawn arglwyd gorchymun y uorwyn. Y wenhwyuar ae llawuorynyon heb ynteu. ar distein ae gorchymynawd. Euchwedyl wynt hyt yma.

Traunoeth y doeth gereint parth ar llys. a disgwyleit oed ar y gaer y gan wenhwyuar rac y dyuot yndirbud. Ar disgwylat adoeth hyt lle yd oed wenhwyuar. Arglwydes heb ef mi a debygaf y gwelaf ereint ar

uorwyn gyt ac ef. ac ar uarch y mae. aphedyt wisc ymdanaw. y uorwyn hagen ual gorwyn y gwelaf athebic y lieinwisc awelaf ymdanei. Ymgweir-
 wech oll wragedin. adowch yn erbyn gereint y resawu. ac yuot yn llawen
 wrthaw. adyuot aoruc gwenhwyuar yn erbyn gereint ar uorwyn. Aphan-
 daw gereint hyt lle ydoed gwenhwyuar kyuarch gwell aoruc idi. Duw arodo
 da itt heb hi agressaw wrthyt. ahynt ffrwythlawn donyawc hyrrwyd glot-
 uawr adugost. aduw adalo itt heb hi peri iawn ym yn gynualchet ac y
 pereist. Arglwydes heb ef un abuchwn peri iawn itt wrth dy ewyllys.
 allyma yuorwyn y keueist ti dy warthrud oe hachaws. Ie heb y gwen-
 hwyuar gressaw duw wrthi. ac nyt cam bot yn llawen wrthi. Dyuot y
 mywn aorugant adisgynnv amynet gereint hyt lle ydoed arthur achyuarch
 gwell idaw. Duw a rodo da itt heb yr arthur agressaw duw wrthyt.
 achyt caffo edern uab nud gouut achlwyneu gennyt ti hynt lwydyanus
 adugost. nyt arnaf i y bu hyuny heb y gereint namyn ar ryuic edern
 uab nud ehun nat ymgystlynei. nyt ymadawn inheu ac ef yny wypwn pwy
 uei. neu yny orffei y lleill ar y llall. awr heb yr arthur pa le y mae y uor-
 wyn agiglef y bot yth ardelw di. Ymae gwedy mynet gyt agwenhwyuar y
 hystauell. Ac yna ydeuth arthur y welet y uorwyn. allawen uu arthur ae
 gedymdeithion aphawb orllys oll wrth y uorwyn. A hyspys oed gan bawp
 onadunt pei kyt rettei gossymdeith y uorwyn aephryt. nawelsynt eiryoet un
 wynpach no hi. Ac arthur auu rodyat ar yuorwyn yereint. arrwym a wneyit
 yna rwng deudyn awnaethpwyt y rwng gereint aruorwyn. Adewis ar holl
 wiscoed gwenhwyuar yr uorwyn. ar neb a welei y uorwyn yny wisc honno ef
 awelei olwe wedeidlwys delediw arnei. ar dyd hwnw ar nos honno atreulassant
 drwy dogynder ogerden. ac amylder o auregyon wirodeu. alluossyd o waryeu.
 Aphan vu amser gantunt uynet y gysgu wynt aethant. Ac ynyr ystauell
 yd oed wely arthur agwenhwyuar y gwnaethpwyt gwely y ereint ac enit. ar
 nos honno gyntaf y kysgassant ygyt. athrannoeth y llonydawd arthur yr eircheit
 dros ereint odidlawt rodyon. acheneuinaw aoruc y uorwyn ar llys. adwyn ked-
 ymdeithon idi o wyr agwraged hyt nadywedit am uu vorwyn yn ynys prydein
 vwy noc amdanei. Ac yna y dywawt gwenhwyuar. Iawn ymedreis i heb
 hi ambenn y carw na rodit y neb yny delei ereint. a llyma le iawn y
 rodi ef. y enit uerch ynywl y uorwyn glotuoraf. ac nythebygaffi ae gwar-
 auuno idi. Kanyt oes ryngthi aneb o nyt yssyd o garyat achedymdeithas.
 Canmoledic uu gan bawb hynny a chan arthur heuyt. a rodi penn y karw
 awnaethpwyt y enit. Ac o hynny allan lluosogi y chlot. ae chedymdeithon
 ohyuny yn vwy no chynt. Sef aoruc gereint o hynny allan caru carw twrn-
 eiineint achyfrangeu calet. abudugawl y deuei ef o bop un. ablwydyn adwy

atheir y bu ef yn hynny yny yttoed y glot yn ehedec dros wyneb y deyrnas.

A threiglweith ydoed arthur yn dala llys ygkaer llion ar wysc y sulgwyn. nachaf yndyuoet attaw kennadeu doethprud. dyscediclawm ymadrawdlym ac ynkyuarch gwell y arthur. Duw arodho da ywch heb yr arthur a gressaw duw wrthych. ac o pa le pan deuwch chwi. Pandeuwyn arglwyd arglwyd heb wy o gerynw achennadeu ym ni y gan erbin uab custenin dy ewythyf di. ac attat y mae yn kennadwri ath annerch y ganthaw. mal y dyly ewythyf annerch y nei. ac ual ydyly gwr annerch y arglwyd. ac yuenegi ytti yuoet ef yn amdrymmu ac yn llescu ac yndynesu ar heneint. ae gyttiogyon owybot hynny yn camderwynnu wrthaw. ac yn chwennyachu y dir ac gyuoeth. Ac ynadolwe y mae y ti arglwyd ellwng gereint y uab attaw y gadw y gyuoeth ac y wybot y deruyneu. Amenegi y mae idaw bot yn well idaw treulaw blodeu y Ieuenctit ae dewred ynkyynnal yderuyneu ehun. noc yn twrneimeint diffwyth kyt caffo clot yndunt. Ie heb yr arthur ewch y ymdiarhenu. Achymerwch ych bwyf. a byrrywch awch blinder y arnawch. Achynn ych mynet ymeith ateb a gefloch. Yvwytta yd aethant. Ac yna medyllyaw aoruc arthur. nat oet hawd gantaw ellwng gereint ywrthaw nac o unllys ac ef. Nyt oed hawd nathec ganthaw ynteu. uot y geuynderw yn gwarchadw y gyuoeth ae deruyneu cany allei y dat eu kynnal. Nyt oed lei goual gwenhwyuar ae hiraeth hi ar holl wraged ar holl uorynyon. rac ouyn mynet y uorwyn y wrthunt. Y dyd hwnnw. ar nos honno a dreulyssant drwy diwallrwyd o bob peth. Ac arthur auenegis y ereint ystyr y gennadwri adyuoatyf y kennadeu o gerynw attaw ef yno. Ie heb y gereint yr a del nac o les nac o afles ymi arglwyd o hynny. dy uynnu di awnaf am y genadwri honno. Llyma yw dy gynghor am hynny heb yr arthur. kyt boet dy hyhir gennyfi dy uynet ti. mynet o honat y gyuanhedu dy gyuoeth. ac y gadw dy deruyneu. achymer y niver a vynyth gyt athi amwyhaf agerych om fydlonyon i yn hebryngyeit arnat. ac atgarant ditheu athgytuarogyon. Duw adalo itt a minneu awnaf hynny heb y gereint. Paodwrdd heb y gwenhwyuar aglywafi y gennwch chwi. ac am hebryngyeit ar ereint parth aewlat. Ie heb yr arthur. Reit yw y minneu uedylyaw heb hi am hebryngyeit a diwallrwyd ar yr unbennes yssyd gyt a minneu. Iawn awney heb yr arthur. Ac y gysgu ydaethant y nos honno. a thrauoeth yd ellyngwyt y kennadeu y ymdeith. A dywedunt udunt y deuei ereint yn eu hol. Y trydyd dyd gwedy hynny y kychwynnawd gereint. Sef niuer aeth gyt ac ef gwalchmai uab gwyar; ariogued uab brenhin iwerdon. ac ondyaw uab duc bwrgrwin. Gwilym

uab rwyf ffreinc. Howel uab emyr llydaw. Eliury anaw kyrd. Gwynn uab tringat. Goreu uab custennin. Gweir gwrhyt uawr. Garannaw uab golithmer. Peredur uab efrawc. Gwynnlogell. gwyr ynat llys arthur. Dyuyr uab alun dyuet. Gwrei gwalstawt ieithoed. Bedwyr uab bedrawt. Hadwry uab gwryon. Kei uab kynyr. Ody ar ffranc. Ystiwart llys arthur. Ac Edern uab nud. Heb y gereint a glywaſ idigawn uarchogaet a uynaf gyt ami. Ie heb yr arthur ny weda itti dwyn y gwr honnw ygyt athi. kyt boet iach yny wneler tangneued y ryngtaw agwenhwyuar. Ef ar allei ywenhwyuar y ganhadu y gyt ami ar ueicheu os kanhatta. kanhadet heb ueicheu. kanys digawn ogymweu agoutyeu yssyd ar y gwr yn lle sarhaet y uorwyn ygan y corr. Ie heb y gwenhwyuar awelych di yuot yniawn am hynny ti a gereint mi ae gwnaf yn llawen arglwyd. Ac yna y kanhadawd hi edern y uynet yn ryd. adigawn y am hynny a aeth yn hebryngait ar ereint. achychwyn aorugant. acherdet ynwypaf niuer orawelas neb eiryoet parth ahafren. Ac ar y parth draw y Hafren ydoed goreugwyr erbin uab custennin. ae datmaeth yn eu blaen yn aruoll gereint yn llawen. a llawer o wraged y llys y gan y uam ynteu yn erbyn enit uerch ynywl y wreic ynteu. Adiruawr oruoled allewenyd agymerth pawp or llys yndunt. ac or holl gyuoeth yn erbyn gereint. rac meint y kerynt ef. ac rac meint y kynnullassai ynteu glot yr pan athoed y wrthynt hwy. Ac am uot y nedwl ynteu ar oreskyn ygyfoeth ehun. Ac y gadw y deruyneu. ac yr llys ydoethant. ac ydoed ynyllys udunt ehelaethrwyd diwallualch o amryuael anregyon ac amylder gwirodeu. adidlawt wassanaeth. ac amryuaelon gerdeu agwaryeu. Ac o anryded gereint y gwahodet holl wyrda y kyuoeth y nos honno y ymweleint agereint. Ar dyd hwnnw adreulassant ar nos honno drwy gymedrolder o esmwythdra. Ac yn ieuencitit ydyd drannoeth kyuodi aoruc erbin. adyuynnu attaw ereint ar goreugwyr adathoed y hebrwng. adywedut wrth ereint. gwr amdrwm oedawc wyfi heb ef. athra elleis i gynnal y kyuoeth ytti ac y myhun mi ae kynnheleis. athitheu gwas ieuanc wyt. ac ymblodeu dy dewred ath ieuencitit ydwyt. Kynnal dy gyuoeth weithon. Ie heb y gereint. om bod i ni rodot ti medyant dy gyuoeth ym llaw i yr awr honn, ac nymdygut ettwa o lys arthur. Yth law di mi y rodaf i achymer heuyt hediw wrogaeth dy wyr. Ac yna ydywawt Walchmei. Iawnaf yw itti lonydu yr eircheit hediw. ac auory kymer wrogaeth dygyuoeth. Ac yna y dyuynnwyt yr eircheit y un lle. ac yna y doeth kadyrieith attunt y edrych eu haruedyt. ac y ouyn y bawb beth aeruynnynnt. atheulu arthur a dechreuwys rodi. ac yny lle y doeth gwyr kernyw ac y rodassant wynteu

ac ny bu hir y buant yn rodi rac meint brys pawb onadunt yrodi. ac or adoeth y erchi da yno. nyt aeth neb ymeith odyo. namyn gan y uod. Ar dyd hwnnw ar nos honno a dreulassant drwy gymedrolder o esmwythdra. Athrannoeth yn ieuencitit ydyd yderchis erbin yereint anuon kennadeu ar y wyr y ovyn vdunt aoed diwrthrw m gantunt ydyuot y gymryt eu gwrogaeth. ac aoed ganthunt aebar ae enniwet odun adottynt yny erbyn. Yna y gyrrawd gereint gennadeu ar wyr kernyw y ovyn udunt hynny. ac ydywedassant wynteu nat oed gantunt namyn kyflawnder olewenyd agogonyant ganbawp onadunt am dyuot gereint y gymryt eu gwrogaeth. Ac yna y kymert hynnteu gwrogaeth aoed yno o nadunt. Ac yno y gyt y buant y dryded nos. Athranoeth yd arounawd teulu arthur ymeith. Rygyghyrth yw ywch uynet ymeith ettwa arhowch ygyt ami yny darffo ymgymryt gwrogaeth vggoreugwyr or aerkyttyo. o nadunt dyuot attaf. ac wynt a drigyssant yn y daruu idaw ef hynny. ac y kychwynnassant hwy parth allys arthur. ac yna ydaeth gereint y eu hebrwng ef ac enit hyt yndiganhwy. ac yna y gwahanyssant. Ac yna y dywawt ondyaw uab duc bwrwgwyn wrth ereint. Kerda heb ef eithauoed dy gyfoeth yn gyntaf. Ac edrych yn llwyrgraff deruynev dy gyuoeth. ac or gorthrymha gouut arnat manac ar dy gedymdeithon. Iuw adalo itt heb ef amineu awnaf hynny ac yna ykerdawd gereint eithauoed y gyuoeth. a chyvarwydyt hyspys gyt ac ef. o oreugwyr y gyuoeth. ar amcan pellaf a dangosset idaw agetwis ynteu gantaw. ac ual ygnottayssei trauu yn llys arthur. kyrchu twrneimeint awnaei ac ymwybot argwyr dewraf achadarnaf. yny oed glotauwr yny gyueir honno ual y buassei yn lle arall gynt. ac ae yny gyuoethoges y lys ae gedymdeithon ae wyrda. or neirch goreu ar arucu goreu. ac or eurdlysseu arbennickaf agoreu. ac ny orffowyssawd ef o hynny ehedawd yglot dros wyneb y deyrnas. Aphanwybu ef hynny. dechreu caru esmwythder ac ysgavrwyd aoruc ynteu. Kanyt oed neb adalei aruot yny erbyn. aclaru y wreic agwastatrwyd yny lys. acherdeu adidanweh. achartreuu yn hynny dalym aoruc. Ac ynol hynny karu yscafalweh oe ystauell ae wreic. hyt nad oed digrif dim gantaw namyn hynny. yny yttoed ynkolli calon y wyrda ae hela aedigrifwch. a chalon cwbyl o niuer y lys. ac yny oed ymodwr agogan arnaw gan lawgan dylwyth yllys. am y uot ynymgolli yngynlwyret ahynny ac eu kedymdeithas wy o garyat gwreic. ar geireu hynny aeth hyt att erbin. agwedy clybot o erbin hynny. Dywedut aoruc ynteu hynny y enit. agouyn aoruc idi ae hih oed yn peru hynny y ereint. ac yn doddi y danaw ymadaw ae lwyth ac ae niuer. Navi myn vygkyffes yduw heb hi. ac nyt oesdim gassach gennyfi no

hynny. ac ny wydyat hi beth awnaei. kanyt oed hawd ganthi adef hynny y ereint. Nyt oed haws genthi hitheu wrandaw araglywei heb rybudyaw gereint ymdanaw. agoueileint mawr adelis hi yndi amhynny.

Aboregwaith yr haf ydoedynt yn eugwely ac ynteu wrth yr erchwyn. ac enit oed heb gyscu y mywn ystauell wydrin. ar heul yn tywynnu ar y gwely. ar dillat gwedy rylithraw yar ydwyuronef aedwureich. ac ynteu ynkyseu. Sef aoruc hitheu edrych tecket ac aruthret yr olwc awelei arnaw. adywedut. Gwae ui heb hi os om achaws i y mae y breicheu hynu ar dwyuronn yn kolli clot a milwryaeth kymeint ac aoed eidunt. achan hynny ellwng y dagreu yn hidleit. yny dygwydassant ar y dwy uronn ef. ac un or petheu ae deffroes ef un hynny ygyt ar ymadrawd hi kynno hynny. amedwl arall ae kyffroes ynteu nat yr medwl ymdanaw ef ydywedassei hi hynny. namyn yr ystyryaw karyat ar wr arall drostaw ef. adamunaw yscualwch hebdau ef. ac ar hynny sef aoruc gereint antangneuedu yny uedwl. agalw ar ysgwier idaw. adyuot hwinnw attaw. Par yngyflym heb ynteu kyweiryaw vy march am arueu. ac eu bot yn barawt. achyuot titheu heb ef wrth enit agwisc ymdanat. Aphaer gyweiraw dy uarch. a dwc y wisce wacthaf ar dy helw gennyt wrth uarchogaeth. ameuyt ymi heb ef or deuy di yma yny wpych di a gollis i vy nerthoed kygwplet ac ydywedy di. ac ygyt ahynny or byd kynnysgualhet itt ac ydoed dy damunet y geissaw ysgualwch am y neb y medyllyt ymdanaw. Achyuodi aoruc hitheu agwiscaw yscaeluswisc ymdanei. Ny wnn i heb hi dim oth uedylyeu di arglwyd. Nysgwybydy di yr awrhonn heb ef. Ac yna y daeth gereint y ymwelet ac erbin. awrda heb ef neges yd wyf yn mynet idi. ac nyt hysbys gennyfi pabryt ydeuaf drachevyn. asynnya di heb wrda wrth dygyuoeth ynydelwyfi drachefu. Mi awnaf heb ef. ac eres yw gennyf mor deissyuyt yd wyt yn mynet. aphwy agerda gyt athi wrth nat wyt wrdi y gerdet tir lloegyr yn unic. Nydaw gyt amiui namyn un dyn arall. Duw ath gyghoro uu mab heb yr erbin. allawer dyn ae hawl arnat yn lloegyr. Ac yr lle ydoed y uarch ydoeth gereint. Ac ydoed yuarch yngyweir oarueu trwm estronawl gloyw. Ac erchi aoruc ynteu yenit ysgynnu ar ymarch a acherdet or blaen. a chymryt ragor mawr. Ac yr awelych nac yr aglywych heb ef arnafi. nac ymchoeldi dracheuyn. Ac ony dywedafi wrthyt ti na dywett ti vngeir heuyt. Acherdet raddunt o orugant. Ac nyt yfford digrifaf achyuanhedaf aberis ef ycherdet. namyn yfford diffeithaf adiheuaf uot llatron yndi. aherwyr abwystuileid gwennwynic. adyuot yr brifford ae chaulyr aorugant achoet mawr a welynt ywrthunt. a ffarth ar coet y deuthant. Ac yn dyuot orkoet allan ygwelynt pedwar marchawc aruawc. ac edrych aorugant

arnunt. adywedut aoruc un o honunt. Llyma le da ynni. heb ef y gymryt. ydeuarch racko ar arueu ar wreic heuyt. ahynny a gaffwn ynsegur yr yr un marchawc pendrwm goathrist racco llibin. ar ymdidan hwnnw agiglen enit. Ac nywydyt hitheu beth awnaei rac ouyn gereint ae dywedut hynny ae tewi. Dial duw arnaf heb hi onyt dewissach gennyf vy anghau oe law ef noc olaw neb. achyt ymlado ami. mi aedywedaf idaw rac gwelet anghau arnaf ef yndyvryt. Achyuaros gereint aoruc yny uyd ynagos idi. Arglwyd heb hi aglywydi geireu ygwyr ymdanat. Dyrchael y wyneb aoruc ynteu ac edrych arnei yn llidiawc. Nyt oed reit ytti heb ef namyn cadw ygeir. aarchyssit itt. Sef oed hwnnw tewi. Nyt amgeled gennyf yteu. ac nyt rybud. achyt mynnych di gwelet vy anghau i am diuetha or gwyr racko. nyt oes arnafi un argysswr. Ac ar hynny estwng. gwaew aoruc y blaenaf o honnunt agossot arereint. Ac ynteu ae herbynnawd ef ac nyt ualgwr llesc. agellwng ygossot heibaw aoruc. Agossot aoruc ynteu ar y marchawc yntewder ydaryan. yny hyllt ydaryan ac yny dyr yr arueu. ac yny uyd dogyn kyuelin uawr yndaw ynteu orpaladyr. Ac yny vyd hyt gwaew gereint dros pedrein y uarch yr llawr. Ar eil marchawc ae kyrchawd ynllidiawc amlad ygedymdeith. Ac ar ungossot y byryawd ef hwnnw ac ylladawd ual y llall. Ar trydyd aekyrchawd. Ac uelly ylladawd hwnnw. ac uelly ylladawd y pedwryd. Trist ac aflawen oed y uorwyn yn edrych ar hynny. Discynnu aoruc gereint adiot arueu ygwyr lladedic. aedodi yn eu kyfrwyau. a ffrwynglymhu ymeirch a oruc. Ac ysgynnu ar yuarch. Wely di awnelych heb ef kymer di y pedwarmeirch agyrr rac dy vronn. Acherda or blaen ual yderchis itt gynneu Ac nadywet ti vn geir wrthyfi yny dywettwyf i yngyntaf wrthyt ti. Ymkyffes y duw heb ef os hynny nys gwney ny byd diboen itt. Mi awnaf uygallu am hynny arglwyd heb hi wrth di gynghor di. Wynt agerdasant racdunt ygoet. Ac adaw ycoet aorugant adyuot y wastattir mawr. ac ymperved y gwastattir ydoed byrgoet pendew dyrys. Ac ywrth hwnnw ygwelynt tri marchawc yndyuot attunt. Yngyweir o ueirch ac arueu hyt y llawr ymdanunt ac ymdan eu meirch. Sef aoruc yuorwyn edrych yn graff arnunt. Aphanndoethant yn agos. sef ymdidan aglywei gantunt. llyma dyuot da ynni heb wynt ynsegur. Pedwar meirch aphedwar arueu. Ac yr y marchawc llaestrist racko rat y kaffwn wynt. ar uorwyn heuyt yn medyant ybyd. Gwir yw hynny heb hi blin yw y gwr o ymhwrdd argwyr gynneu. dial duw arnaf onys rybudyaf heb hi. Ac aros gereint a oruc yuorwyn yny uyd yn agos idi. Arglwyd heb hi pony chlywy di ymdidan y gwyr racko ymdanat. beth yw hynny heb ef. Dywedut y ryngtunt ehunein y maent y caffant hynn o yspeil yn rat. Yrofi aduw

heb ef ystrymach gennyfi noc adyweit y gwyr wrthyf. nathewy di wrthyfi. ac nabydy wrth vygkynghor. arglwyd heb hi rac dy gaffel yn diar-uot yw gennyfi. Taw bellach ahynny nyt amgeled gennyf y teu. Ac ar hynny estwng gwaew a oruc un or marchogyon. achyrchu gereint a gossod arnaw ynffrwythlawn debygei ef. ac ysgaelu y kymmerth gereint y gossot ae daraw heibaw aoruc. ae gyrchu yntev agossot arnaw yny gymherued. achan hwrd ygwr ar march ny thygyawd y riuedi arueu yny uyd penn ygwaew allan athalym or paladyr trwydaw. Ac yny vyd ynteu hyt yureich ae baladyr dros bedrein yuarch yr llawr. Ydeu uarchawc eraill adoethant bob eilwers ac nybu well eukyrch wynt nor llall. Y uorwyn yn seuyll ac yn edrych ar hynny. goualus oed or lleillparth o debygu briwaw gereint yn ymhwrdd argwyr. Ac or parth arall o lewenyd ywelet ynteu yngoruot. Yna y disgynnawd gereint. Ac y rwymawd y tri arueu yny tri chyfrwy. ac a ffrynglymawd y meirch ygyt. yny oed yna seithmeirch ygyt gantaw. ac esgynnu ar y uarch ehun aoruc a gorchymun yr uorwyn gyrru y meirch. ac nyt gwell im heb dywedut wrthyt no thewi kany bydy wrth vygkyghor. Bydaf arglwyd hyt y gallwyf heb hi. eithyr na allaf kelu ragot y geireu engiryawl chwerw a aglwyf yth gyueir arglwyd ygan estronawl giwtawdoed agerdo diffeithwch mal yrrei hynny. Yrof aduw heb ef nyt amgeled gennyf y teu. Athaw bellach. Mi awnaf arglwyd hyt y gallwyf. Acherdet aoruc y uorwyn ryngthi ar meirch aoed rac y bronn. Achadw y ragor aoruc. ac or pryse gynneu adywetpwynt uchof rwyd-dir arucheldec gwastatlwys erdrym ar gerdasant. Ac ympell y wrthunt wynt a welynt coet. Ac eithyr gwelet yr ymyl nessaf attunt. ny welynt wedy hynny nac ymyl nac eithaf yr coet. Ac wynt adoethant parth ar coet. ac yndyuoet or koet wynt awelynt pump marchawc awyddrut kadarnffyrif y gatueirch cadarn dew eskyrnbraf maswehynn ffroenvolldrut. adogynder o arueu am y gwyr ac am y meirch.

Agwedy eudyuoet yn agos ygyt. Sef ymdidan aglywei enit gan y marchogyon. Weldy yma ynni dyuoet da yn rat. Ac yndilauur heb wynt. hynn oll o ueirch ac arueu agaffwn arwreic heuyt yr yr un marchawc llibindrwm goathrist racco. Goualu aoruc y uorwyn yn uawr am glybot ymadrodyon ygwyr hyt nawydat or byd pawnaei. ac yny diwed y kauas yny chynghor rybudyaw gereint. Athrossi aoruc penn y march tu ac attaw. Arglwyd heb hi beiclywut ti ymdidan y marchogyon racko mal y kiglef i. mwy udei dy oual noc y mae. Glas chwerthin digius engiriawl chwerw aoruc gereint. adywedut. Mi athglywaf di heb yntorri pobeth or a wahardwyfi ytt. Ac ef aallei uot ynediuar gennyt ti hynny ettwa. Ac

yny lle nachaf y gwyr ynkyaruot ac wynt. Ac ynuudugawl orawenus gornot aoruc gereint ar y pumwyr. Ar pump arueu arodes yny pump kyvrrwy. Affrwynglymu ydeudegmeirch aoruc ygyt. Ac eu gorchymu y enit awnaeth. Ac nywnn i heb ef pa da yw ymi dy orchymun di. ar unweith honn ar ureint rybud itt mi ae gorchmynaf. acherdet racdi yr coet aoruc y uorwyn. aragor aerchis gereint idi y gadw hi ae kedwis. Athost oed gantaw edrych ar drallawt kymeint a hwnnw ar uorwyn kystal ahi gan ymeirch pei as gattei lit idaw. Ar coet agyrchassant. a dwvyn oed y coet amawr. Ar nos adoeth arnunt yny coet. Auorwyn heb ef ny thykya ymi keissaw kerdet. Ie arglwyd heb hi a uynnych di ni aegwnawn. Iawnaf yw yni heb ef trosi yr coet y orffowys ac aros dyd y gerdet. Gwnawn ninneu yn llawen heb hi. ahynny aorugant. adiskynnu a oruc ef. ae chymryt hitheu yr llawr. Ny allaf i heb ef yr dim rac blinder nachysgwyf. agwylha ditheu y meirch ac na chwsc. Mi awnaf arglwyd heb hi. achyscu aoruc ynteu yny arueu. athreulaw y nos. Ac nyt oed hir ynyr amser hwnnw. Aphanwelas hi awr dyd yn ymdangos y lleuver. edrych yny chyleh aoruc a yttoed ef yn deffroi. Ac ar hynny yd yttoed ef yn deffroi. Arglwyd heb hi mi auynnasswn dy duhunaw yr meitin. Kynhewi aoruc ynteu oulinder wrthi hi am nat archyssei idi dywedut. A chynodi aoruc ynteu adywedut wrthi. kymmer y meirch heb ef a cherda ragot. achynnal dy ragor ual y kynheleist doy. Ac ar dalym or dyd adaw y koet aorugant. adyuot y uacstir goanmoeth agweirglodyeu oed or neilltu udunt. aphiladurwyr yn llad ygweirglodyeu. Ac y auon yn eu blaen ydoethant. Agestwng aoruc y meirch ac yuet y dwuyr a wnaethant. Adyrchael aorugant or auon y riw aruchel. Ac yno y kyuaruu ac wynt glasswas goaduein athwel am y vynwgyl. abwrnn awelynt yny twel. Ac ny wydynt hwy beth. Aphisser glas bychan yny law. affiol ar wyneb y pisser. achyuarch gwell aoruc y gwas y ereint. Duw arodho da itt heb y gereint ac o bale pan deuy di. pan deuaf heb ynteu ordinas yssyd yth ulaen yna. Arglwyd heb yr ynteu ae drwc gennyt ti ouyn pa le pandeuy ditheu. Na drwc. drwy y coet racko. Nyt hediw y deuthost di drwy y coet. Nac ef heb ynteu yny coet y buum neithwyr. Mi adebygat heb y gwas yna nabu da dy ansawd yno neithwyr. ac nacheueist na bwynt nadiawt. Nado y rot aduw heb ynteu. Awney di vygkygor i heb y gwas. kymryt ygennnyfi dy ginniaw. Pa ryw ginnyaw heb ynteu. Bore vwyt ydoed un yny anuon yr paladurwyr racco. Nyt amgen no bara achic agwin. Ac os mynny di wrda ny chaffant wy dim. Mynnaf heb ynteu. aduw adalo itt. adisgynnu aoruc gereint. achymryt aoruc ygwas y uorwyn yr llawr. Ac ymolchi aorugant a chymryt eukinyaw. ar gwas adauellawd y bara ac arodes diawt udunt. Ac

ae gwassanaeth ogwbyl. Agwedy daruot udunt hynny. ykyuodes y gwas ac ydywat wrth creint. Arglwyd gan dy gennyat miui aaf y gyrchu bwyt yr paladurwyr. Dos yrdref heb y gereint yngyntaf. adala letty ymi nny lle goreu awypych ac ehangaf yr meirch. achymer ditheu heb ef yr un march auynnych ae arueu gyt ac ef yntal dywassanaeth ath anrec. Duw adalo itt arglwyd heb y gwas. adigawn oed hynny yntal gwassanaeth auei vwy norun awncuthum i. Ac yr dref yd aeth y gwas. adala lletty goreu ac esmwythaf awydyat nny dref awnaeth. Agwedy hynny yd aeth yr llys ae uarch ae arueu gantaw. adyuot aoruc hyt lle yd oed y iarll adywedut y gyfranc oll idaw. Amiui aaf arglwyd yn erbyn y mackwy y uenegi y letty idaw. Dos ditheu yn llawen heb ynteu. Allewenyd ageiff ef yman pei as mynnei ynllawen. Ac yn erbyn gereint y doeth y gwas adywedut idaw y kaffei lewenyd gan yr iarll ynlyls ehun. Ac ny mynawd ef namyn mynet y letty ehun. Ac ystauell esmwyth agauas adigawn owellt a dillat yndi. alle ehang esmwyth agauas y ueirch. adogyn odiwallrwyd aberis ygwas udunt. Agwedy ymdiarhenu onadunt y dywawt gereint wrth enit. Dos di heb ef yr tu draw yr ystauell. ac nadyret ti yrtu hwnn yr ty. a galw attat wreic y ty os myuny. Mi awnaf arglwyd heb hi ual y dywettych di. Ac arhynny ydoeth gwr y ty att ereint. ae resawu aoruc. A unben heb ef aleweist ti dy ginnyaw. Do heb ef. Ac yna ydywawt y gwas wrthaw. auynny di heb ef ae diawt ae dim. kynn dy uynet y ymwelet ar iarll. Mynnaf ysgwir heb ynteu. Ac yna ydaeth y gwas yrdref. ac ydoet. a diawt udunt. achymryt diawt aorugant. Ny allaf i nachysgwyf heb ef. Ie heb y gwas tra uych di yn kyscu. minneu aaf y ymwelet ar iarll. Dos ynllawen heb ynteu. adyret yma dracheuyn pan ercheis i ytti dyuot. achyscu aoruc gereint. achyscu aoruc enit. Adyuot aoruc y gwas hyt lle ydoed yr iarll. Agouyn aoruc yr iarll idaw pale ydoed lletty y marchawc ac ydywawt ynteu. Reit yw ymi heb ef vynet y wassanaethu arnaw et ychwinsaf. Dos heb ynteu ac annerch y gennyf i ef. adywet idaw mi aaf y ymwelet ac ef y chwinsaf. Mi awnaf heb ynteu. adyuot aoruc y gwas pan oed amser udunt deffroi. achyuodi aorugant a gorymdeith.

Aphan uu amser gantunt kymryt eu bwyt. wynt ae kymcrasant. ar gwas auu yn gwasanaethu arnunt. agereint auynnawd y wr y ty aod gedymdeithon udunt a vyunei eu gwahawd attaw. oes heb ynteu. Dwc ditheu wynt yma ygymryt digawn ar vygkost i or hynn goreu a gaffer nny dref ar werth. Y niuer goreu auu gan wr y ty ef ae duec yno y gymryt digawn argost gereint. Arhynny nachaf y iarll yn dyuot y ymwelet a gereint ac y deudecuet marchawc urdawl. Achyuodi aoruc gereint ae res-

sawu. Duw arodo da itt heb yr iarll. Mynet y eisted aorugant pawp ual y raculaenei y enryded idaw. Ac ymdidan aoruc y iarll agereint. agouyn idaw pa ryw gerdet oed arnaw. Nyt oes gennyfi heb ef. namyn edrych damweineu. agwneuthur negessev auo da gennyf. Sef aoruc y iarll yna edrych ar enit yngraiff sythedic. a diheu oed gantaw na welsei eiryoet vorwyn degach no hi nagwypach. adodi y vryt ae vedwl aoruc arnei. agovyn acruc y ereint. agafi gennyt ti gennat yuynet att y uorwyn draw y ymdidan ahi. megys ardidawl y wrthyt ygwelaf. Keffy yn llawen heb ef adyuot aoruc ynteu hyt lle ydoed yuorwyn adywedut wrthi. Auorwyn heb ef nyt digrif itt yny kerdet hwnn gyt ar gwr racco. Nyt annigrif heb hi gennyfi im gerdet y fford y kerdo ynteu. Ny cheffy heb ynteu nagweisson na morynyon ath wassanaetha. Ie heb hitheu. digriuach yw gennyf i. canlyn y gwr racko. na chyt caffwn weisson a morynyon. Mi awn gynghor da itt heb yr ynteu. Mi arodaf vy Iarlaeth yth uedyant athric gyt ami. Nauynnaf y rof aduw heb hitheu. ar gwr racco yd ymgredeis i yngyntaf eiryoet. ac annwadalaf y wrthaw. Cam awney heb ynteu. Olladafi y gwr racko. mi ath gaf di tra yth vynnwyf. agwedy nath uynnwyf mi ath dyrraf ymeith. Os oth uod y gwney ditheu yrofi. Kyssondeb tragywyd diwahan auyd yrom tra uom vyw. Medylyaw aoruc hitheu amadywawt ef. Ac oe medwl y kauas yny chynghor rodi ryuic idaw am aerchis. llyma yssyd iawnaf ytti unben heb hi. rac gyrru arnaf i mwy no messur o anniweirdeb. Dyuot yma auory ymkymryt ual na wypwn i ywrth hynny. Minneu awnaf hynny heb ef achyuodi aoruc ar hynny. a chymryt kennyat amynet ymeith ac ef ae wyr. Ac nydywawt hi y ereint yna dim o ymdidan y gwr ahi. rac tyuu aellit ae gual yndaw ae aflonydwch. Amynet i gyscu yn amser a orugant. Adechreu nos kyseu ychydic aoruc hi. Ac am hanner nos deffroi aoruc. achweiraw arueu gereint ygyt ual y bydynt barawt wrth y gwiscaw. ac yn ofnawc eryneigus ydoeth hi hyt yn ymyl gwely gereint. Ac yndawel araf ydywawt wrthaw. Arglwyd heb hi deffro agwisc ymdanat. A llyma ymdidan y iarll amiui arglwyd ae uedwl amdanaf heb hi. adywedut y ereint y holl ymdidan aoruc. achyt bei lidiawc ef wrthi ef agymerth rybud ac awiscawd ymdanaw. Agwedy llosgi kannwyll o honei hi yn oleuat idaw ef wrth ymwiscaw. adaw yna y gannwyll heb ef ac arch y wr y ty dyuot yma. Mynet aoruc hitheu agwr y ty adoeth attaw. Ac yna gouyn aoruc gereint idaw. Awdost di pa amkan adylyy di ymi. Ychydic adebygaf i y dylu itti wrda heb ef. Beth bynnac uu adylyych. kymer yr un march ar dec ar vn arueu ardec. Duw adalo itt arglwyd heb ef. ac ny

threuleis i wrthyt ti gwerth vn or arueu. Pathawr heb ynteu henbydy kyuoethogach. a wr heb ef adeuy di yn gyuarwyd y mi odieithyr y dref. Af heb ynteu ynllawen. Aphadraws ymae dy uedwl ditheu arnaw. Yr parth arall yr lle ydeuthum yr dref ymynnwn vynet. Gwr y lletty aeheb-rynghawd nny uu gwbyl gantaw yr hebryghyat. Ac yna yd erchis ef yr vorwyn kymryt ragor or blaen. Ahitheu ae kymmerth. ac agerdawd racdi. Ar porthmon adoeth adref. Ac ny daroed idaw namyn dyuot yr ty. nachaf y twrwr mwyhaf aglywssai neb yndyuot ambenn y ty. Aphann edrychawd allan. nachaf y gwelei. petwar ugeint marchawc yngkylch y y ty yn llawn arueu. ar iarll dwrm oed oc eu blaen. Mae y marchawc oed yma heb yr Iarll. Myndy law di heb ef y mae ardalym odyma. ac yr meitin ydaeth odyma. Paham uilein heb ynteu ygadut ti ef heb y uenegi ymi. Arglwyd heb ynteu nys gorchymynneist di euo ymi. pei asgorchymynnassut nysgadwn. Pa barth heb ynteu y tebygy di y uynet ef. Na wnn heb ynteu. namyn yr heol uawr agerdawd. Troi penneu eu meirch aorugant wynteu yr heol uawr. agwelet oleu y meirch awnaethant. achanlyn yr oleu aorugant. adyuot y brifford uawr. Sef awnaei y uorwyn edrych nny hol pannwelas oleuat y dyd. a hi awelei nny hol tarth a nywl mawr. A nesnes attei y gwelei. Agoualu aoruc hi am hynny. athebygu bot y iarll aelu yndyuot nny hol. Ac yn hynny hi awelei uarchawc nnymdangos or nywl. Myn vygyrret heb hi kyt ymllado i. gwell yw gennyf vy anghau oe law ef. no gwelet y lad ef heb y rybudyaw. arglwyd heb hi pony wely di y gwr ythgyrchu agwyr ereill llawer gyt ac ef. Gwelaf heb ynteu. ac yr aostecker arnat ti ny thewy di byth. ac ymchoelut aoruc ar y marchawc. ac ar y gossot kyntaf y uwrw yr llawr y dan draet y uarch. athrabarhaawd yr un or pedwar ugeint marchawc. ar y gossot kyntaf y byryawd pob un onadunt. ac o oreu y oreu ydoethant attaw eithyr yr iarll. Ac yndiwethaf oll y doeth yr iarll attaw. Athorri paladyr. athorri yr eil. Sef aoruc ynteu ereint ymchoelut arnaw agossot agwaew yn tewder ydaryan nnyhyllt y daryan. Ac nny tyrr yr holl arueu nny gyueir honno. Ac nny uyd ynteu dros bedrein y uarch yr llawr ac nny oed ymperigyl am y eneit. Anessau aoruc gereint attaw. achan dwryf y march datlywygu aoruc yr iarll. Arglwyd heb ef wrth ereint dy nawd. a nawd arodes gereint idaw. Ac yrwng calettet i dayar lle ybyrywyt ygwr. adruttet y gossodeu agawssant. nyt aeth yr un onadunt heb gwmp agheuawlchwerw clwyfedicdost briwedicffyrif y wrth ereint. Acherdet aoruc gereint racdaw ar y prifford ydoed arnei. Ar uorwyn a gedwis y ragor. Ac yn agos udunt wynt awelynt. dyffryn teccaf or awelsei

neb eiryoet. Aphrif auon arhyt ydyffryn. aphont awelynt ar yr auon. ar prifford yndyuoet yr bont. Ac uch law y bont or tu draw yr auon wynt a welynt gastelldref teccaf awelsei neb eiryoet. Ac ual y kyrchei ef y bont ef awelei wr yndyuoet tu ac attaw trwyvyrgoet bychan tew y ar uarch mawr uchel ymdeithwastat hywedualch. Ha uarchawc heb y gereint opa le pandeu y di. Pan deuat heb ynteu ordyffryn issot. Awr heb y gereint adywedy di ymi pieu y dyffryn tec hwinn. ar castelldref racco. Dywedaf ynllawen heb yr ynteu. Gwiffert petit y geilw y ffreinc. ar brenhin bychan y geilw y kymry ef. ac yr bont racco heb y gereint ydafi. ac yr brifford issaf ydan y dref. Nados di heb ymarchawc ar y dwrr ef or tu draw yr bont ony mynny ymwelet ac ef. Kanys y gynnedyt yw na daw marchawc ar y dir ef na mynno ef ymwelet ac ef. Yrof a duw heb y gereint miui agerdaf yr hwnw vy fford. Tebyckaf yw gennyfi heb y marchawc os uelly ygwney uu. y keffy gewilyd agwarthaet yn orulwng galounawedic. Kerdet aoruc gereint y fford ual yd oed y uedwl kyn no hynny ac nyt y agyrchei y dref or bont agerdawd gereint. namyn y fford agyrchei y kalettir erdrym aruchel dremhynuawr. Ac ual y byd uelly ynkerdet ef awelei uarchawc yuy ol y ar gatuarch kadamdew kerdetdrut llydangarn bronehang. ac ny welsei eiryoet gwr lei noc aod ar y march. Adogynder o arueu ymdanaw ac am y uarch. Aphann ymordiwedawd agereint. ydywawt wrthaw. Dywet unbenn heb ef ae oannwybot. ae yntev ae oryuic y keissut ti colli ohonafi vymbreint. athorri vygkynnedyf. Nac ef heb y gereint nywydwn i kaethau fford y neb. Kanys gwydut heb ynteu dyret gyt amyui ymllys ywneuthur iawn im. Nac af myn vygcret heb ynteu ereint. Nyt awn y lys dy arglwyd onyt arthur yw dy arglwyd. Myn llaw arthur un heb ef mi auynnaf iawn y geunyt. neu uinneu agaffwyf y gennyt ti diruawr out. Ac yn diannot ymgyrchu aorugant. Ac ysswein idaw ef adoeth y wasanaethu arbeleidyr ual y torrynt. Adyrnodeu calet tost arodei bawp onadunt y gilyd yny golles y taryaneu eu holl liw. Ac amprytuerth oed y ereint ymwan ac ef rac y vchanet. ac anhawssset craffu arnaw. achalettet y dyrnodeu arodei ynteu. Ac ny dyffyg-yassant wy ohynny yny dygwyd awd y meirch ar eu glinyeu. Ac yny diwed y byryawd gereint et ynol y benn yr llawr. Ac yna ydaethant ar eutraet y ymfust. adyrnodeu kyflymedic tostdrut kadarnchwerw arodei bob un onadunt y gilyd. athrydyllu y helmeu abriwaw y paeledeu ac essigaw yr arueu aorugant. yny oed eu llygeit yn colli eulleuer gan ychwys argwaet. Ac yny diwed lliidiaw aoruc gereint. agalw attaw y nerthoed. Ac yn lliidiawc drut gyflymwychyrr greulawnffyrff. dyrchael y gledyf aoruc ac daraw ygwastal y benn dymawt agheuwaldost gwenwyniclym engiriawl chwerw.

yny dyrr holl arueu y penn ar croen arkie. ac yny vyd clwyf ar yr asgrwn. Ac yny uyd y gledyt olaw y brenhin bychan. yn eithaf y maes y wrthaw. ac erchi yr duw nawd gereint aedrugared aoruc yna. Ti ageffy nawd heb y gereint. ac ny bu da dy wybot. ac ny buost gyfartal. gau dy uot yn gedymdeith. ac nat elych ymherbyn yr eilweith. Ac o chlywy ouut arnaf y achubeit ohonat. Ti a geffy hynny arglwyd yn llawen. ae gret a gymerth ar hynny. Athitheu arglwyd heb ef adeuy gyt ami ymllys racco y vwrw dyludet athulinder y arnat. Nac af y rof aduw heb ynteu. Ac yna edrych gwiffert petit ar enit yn lle ydoed. athost uu gantaw welet lluosogrwyd o ouut. ar dyn kyn uonedigeidet ahi. Adywedut yna aoruc wrth ereint. Arglwyd heb ef cam awney nachymery ar dymhereu ac esmwythder. Ac ochyueruyd caledi a thi ynransawd honno ny byd hawd itt y oruod. Ny mynnawd gereint namyn kerdet racdaw. ac esgynnv ar y varch yn greulyt anesmwyt. ar uorwyn agynhelis y ragor. ac wynt agerdassant parth achoet awelynt y wrthunt. ar tes oed yn uawr ar arueu drwy chwys ar gwaet yn glynu wrth y gnawt. Agweddy eudyuot yr coet. seuyll aoruc ydan brenn y ochel y tes. adyuot cof idaw y dolur yna yn vwy no phan ykawssai. A seuyll aoruc y uorwyn ydan brenn arall. Ac ar hynny wynt aglywynt kyrn adygyuor. Sef ystyr oed hynny. Arthur ae niuer oed yndisgynnu yny coet. Sef aoruc ynteu medlyyaw pafford yd aei y eugochel wynt. Ac ar hynny nachaf bedestyr ynyarganuot. Sef ydoed yno gwas yr distein. adyuot aoruc att y distein. adywedut idaw welet ykyfryw wr ac awelsei yny coet. Sef aoruc y distein yna peri kyfrwyaw y uarch. achymryt y waew ae dar-yan adyuot hyt lle ydoed ereint. A varchawc heb ef beth awney di yna. Seuyll dan brenn goer agochel y brwt ar tes. Pa gerdet yssyd arnat ti a phwy wyt ti. Edrych damwheineu a cherdet y fford ymynnwyf. Ie heb y kei dyret ti gyt amiui y ymwelet ac arthur yssyd yma yn agos. Nac af y rof aduw heb yntev ereint. Ef auyd reit itt dyuot heb y kei. a gereint a atwaenat gei. ac nyt atwaenat gei ereint. Agossot aoruc kei arnaw ual y gallawd ef oreu. ablynghau aoruc gereint. ac ac arllost y waew y wan yny uyd ynol y benn yr llawr. Ac ny mynnawd gwneuthur idaw waeth no hynny. Ac yn wyllt ofnawc ykyuodes kei. Ac ysgynnu ar y uarch a dyuot y letty. Ac odyno mynet aoruc y orymdeith hyt ympebyll gwalchmei. A wr heb ef wrth walchmei. mi agiglef gan vn or gweisson gwelet yny coet uchoth marchawc briwedic. ac arueu amdawt ymdanaw. Ac or gwney iawn ti aey y edrych aegwir hynny. Nyntawr i vynet heb y gwalchmei. kymer dy uarch un heb y kei apheth oth arueu. mi agiglef nat diwrthgloch ef wrth y neb adel attaw. Gwalchmei agymerth y waew aedaryan. ac a

esgynnawd ar y uarch. ac adoeth hyt lle ydoed ereint. A uarchawc heb ef paryw gerdet yssyd arnat ti. Kerdet wrth vy negesseu. ac y edrych damwheineu y byt. Adywedy di ymi pwy wyt. neu adeuy y ymwelet ac arthur yssyd yn agos yma. Nyt ymgystlynafi wrthyt ti. ac nyt af y ymwelet ac arthur heb ef. Ac euo aatwaenat walchmei. Ac nyt atwaenat walchmei ef. Nychlywir arnaf vyth heb y gwalchmei dy adu y wrthyf. yny wypwyf pwy vych ae gyrchu agwaew agossot yny daryan yny vyd y paladyr yn yssic vriw. ar meirch daldal. Ac yna edrych arnaw yn graff aoruc gwalchmei ae adnabot. Och ereint heb ef ae tidi yssyd yma. Nac wyf ereint i heb ef. Gereint yrof aduw heb ynteu. acherdet agkyghorus truan yw hwnn. Ac edrych yny gylch aoruc. Ac arganuot enit. ae graessawu abot ynllawen wrthi. Gereint heb y gwalchmei dyret y ymwelet ac arthur dy arglwyd yw ath geuynderw. Nac af heb ynteu. nyt yttwyfi yn ansawd y gallwyf ymweled aneb. ac ar hynny nachaf un or mackweyt yndyuoet ynol gwalchmei y chwedleua. Sef aoruc gwalchmei gyrru hwnnw y uenegi y arthur uot gereint yno ynvriwedid. ac nadeueief yymwelet ac arthur. ac ydoed druan edrych ar yr ansawd yssyd arnaw. ahynny heb wybot y ereint ac ynhustying y ryngtaw ar mackwy. ac arch y arthur heb nessau y bebyll ar y fford. kany daw ef yymwelet oe uod ac ef. Ac nat hawd ydiriaw ynteu yn yr agwed ymae. Ar mackwy adoeth att arthur ac adywawt idaw hynny. Ac ynteu asymudawd y bebyll ar ymyl yfford. A llawenhau aoruc medwl y uorwyn yna. a chynnhwyllaw gereint aoruc gwalchmei. ar hyt yfford yr lle yd oed arthur y pebyllaw. ae uackweyt yntynnu pebyll yn ystlys y fford. Arglwyd heb y gereint henpych gwell. Duw arodo da it heb yr arthur. aphwy wyt ti. Gereint heb y gwalchmei yw hwnn. Ac oe uod nyt ymwelei athydi hevyd. Ie heb yr arthur yny aghyngor y mae. ac ar hynny enit adoeth hyt lle ydoed arthur. achyuarch gwell idaw. Duw arodo da itt heb yr arthur. kymeret vn hi yr llawr. ac vn or mackweyt ae kymerth. Och aenit heb ef pa gerdet yw hwnn. Nawnn arglwyd heb hi. namyn dir yw ymi gerdet y fford y kerdo ynteu. Arglwyd heb y gereint ni aawn ymeith gan dy gennyat. Pale uyd hynny heb yr arthur. ny elly di vynet yr awrhonn. o nyt ey y orffen dy angheu. Ny adei ef ymi heb y gwalchmei gwahawd arnaw. sef ae gat ymi heb yr arthur. Ac ygyt a hynny nyt a ef odyma yny uo iach. Goreu oed gennyfi arglwyd heb y gereint. pei gattut inni ymeith. Na adaf y rof aduw heb ynteu. Ac yna y peris galw ar y uorwyn yn erbyn enit oe dwyn y bebyll ystauell gwenhwyuar. allawen uu Wenhwyuar wrthi argwaged oll. agwaret y marchawcwisc y amdanei. A rodi arall ymdanei. a galw argadyrieith

aoruc ac erchi idaw tynnu pebyll y ereint ae uedygon. adodi arnaw peri diwallrwyd obop peth ual ygouynnit idaw. A hynny aoruc kadyrieith ual yd erchit idaw oll. adwyn morgant tut ae disgyblon aoruc att ereint. Ac yno y bu arthur ae niuer agos y uis wrth uedeginyaethu gereint. Aphan oed gadarn y gnawt gan ereint ydeuth at arthur. ac yd erchis kennat y uynet y hynt. Nywnn awyt iach iawn ettwa. wyf ysgwir arglwyd heb y gereint. Nyt tydi agreedaf i am hynny. namyn y medygon auu wrthyt. Adyuynnu y medygon attaw aoruc. agouyn udunt aoed wir hynny. Gwir arglwyd heb y morgant tut. Trannoeth y kanhadawd arthur ef y uynet ymeith. Ac ydaeth ynteu y orffen y hynt. Ar dyd hwnnw ydaeth arthur odyo. Ac erchi aoruc gereint y enit kerdet or blaen. achadw y ragor ual y gwnathoed kynno hynny. ahitheu agerdawd. ar brifford adilynawd. Ac ual y bydynt uelly wynt aglywynt diaspat grochaf or byd yn agos udunt. Saf di yma heb ef achyvaro. a minneu aaf y edrych ystyr ydiaspat. Mi awnaf heb hi. amynet aoruc ynteu. adyuot y lannerch aoed yn agos yr fford. ac ar y llannerch y gwelei deu uarch un achyfrwy gwr arnaw. ar llall achyfrwy gwreic arnaw. amarchawc ae arueu ymdanaw yn uarw. ac uch benn y marchawc y gwelei morwynwreic ieuanc. ae marchawcwise ymdanei. ac yn diaspedein. Aunbennes heb y gereint paderw itti. Yma yd oedwn yn kerdet ui ar gwr mwyhaf a garwn. Ac ar hynny ydoeth tri chwyr ogewri attam. aheb gadw iawn or byt ac ef ylad. Pafford yd eynt hwy heb y gereint. Yna yr fford uawr heb hi. Dyuot aoruc ynteu att enit. dos heb ef att yr unbennes yssyd yna obry ac aro ui. yno ydeuaf. Tost uu genthi erchi idi hynny. Ac eissoes dyuot aoruc att y uorwyn. ac irat oed warandaw arnei. A diheu oed genthi na deuei ereint uyth. yn ol y kewri ydaeth ynteu. ac ymordiwes ac wynt aoruc. Amwy oed bob un o nadunt nothrywyr. A chlwppa mawr oed ar ysgwyd pob un onadunt. Sef aoruc ynteu. dwyn ruthor y vn onadunt. ae wan agwaew trwydaw berued. Athynnu y waew ohwnnw. agwan arall onadunt trwydaw heuyt. Ar trydyd aymchoelawd arnaw. Ac aetrewis achlwppa yny hylt ydaryan. ac yny ettellis y ysgwyd ynteu. Ac yny ynegyr y holl welioed ynteu. ac yny uyd y waet yncolli oll. Sef aoruc ynteu yna tynnu cledyf ae gyrchu ef ae daraw dyrnawt tostlym athrugar angerdawl-drut. yggwarthaf y benn yny hylt y benn ae vynwgyl hyt ydwy ysgwyd. Ac yny dygwyd ynteu yn uarw. ac eu hadaw yn uarw aoruc uelly. adyuot hyt lle ydoed enit. Aphanwelas ef enit. y dygwydawl yn varw yr llawr y ar y uarch. Diaspat athrugar aruchel didaweldost adodes enit. Adyuot uch y benn

lle y dygwydassei. Ac ar hynny nachaf yndyuot wrth ydiaspat iarll yr lumwris aniuer aoed ygyt ac ef aoedynt yn kerdet y fford. Ac o achaws y diaspat y doethant dros y fford. Ac yna ydywawt y Iarll wrth enit. A unbennes heb ef paderyw ytti. Awrda heb hitheu llad yr undyn mwyaf agereis yrmoet ac agaf vyth. Pa beth heb ef aderw y titheu wrth y llall. llad y gwr mwyaf a garwn heb hi heuyt. Pa beth ae lladawd wynt heb ef. Kewri heb yr honno aladawd y gwr mwyaf agarwn i. ar marchawc arall heb hi aeth yneu hol. Ac ual ygwelydi ef. ydoeth y wrthunt. ae waet yn colli mwy no messur. athebic yw gennyf heb hi na doeth ywrthunt heb lad ae rei onadunt ae kwbyl. Y iarll aberis cladu y marchawc aedewssitt ynuarw. Ynteu adebygei uot peth or eneit y mywn gereint ettwa. ac aberis ydwyn gyt ac ef y edrych auei vvw ymplyc ydaryan ac ar elor. Ar dwy uorwyn adoethant yr llys. Agweddy eudyuot yr llys. y dodet gereint ar elor wely ar dal vort aoed yny neuad. Diarchenu aoruc pawb o nadunt.

Ac erchi aoruc y iarll y enit ymdiarchenu. achymryt gwisc arall ymdanei. Na uynnaf y rof aduw heb hi. A unbennes heb ynteu nauyd gyndristet ti a hynny. Anawd iawn yw vyghyngori i am hynny heb hi. Mi awnaf itt heb ynteu hyt nat reit itt uod yndrist beth bynnac auo y marchawc racco na byw na marw. Y mae yma iarllaeth da ti ageffy honno ythuedyant. A minneu gyt ahi heb ef. Abyd lawen hyfryt bellach. Na vydaf lawen ymkyffes yduw heb hi tra vwyf i vvw bellach. Dyret y uwytta heb ef. Nac af y rof aduw heb hi. Deuy y rof aduw heb ynteu. aedwyn gyt ac ef yr uort oe hanuod. ac erchi idi vwyta yn uynych. Navwytaaf ymkyffes yduw heb hi yny vwyttao ygwr yssyd ar yr elor racco. Ny ellydi gywiraw hynny heb yr iarll. Y gwr racco neut marw haeach. mi a brofaf y allu heb hi. Sef aoruc ynteu. kynnic ffioleit o lynn idi hi. Yf heb ynteu y ffioleit honn. ac ef aamgena dy synnwyr. Meuyl ymi heb hi ot yfaf i diawt yny hyuo ynteu. Ie heb yr iarll nyt gwell ymi uot yn hegar wrthyt ti noc yn anhegar. arodi bonclust aoruc idi. Sef aoruc hitheu. dodi diaspat uawr arucheldost. adoluryaw yr vwy yna o lawer no chynno hynny. adodi y dan y medwl pei byw gereint na bonclustit hi uelly. Sef aoruc gereint datlywygu odatsein ydiaspat. achyuodi yn y eisted achaffel yglydyf ymplyc ydaryan. adwyn ruthur hyt lle ydoed yr Iarll. ae daraw dyrnawt eidielwm gwennwynicdest kadarnffyrff yng-gwarthaf y benn. ynyholltes ynteu. ac yny etteil yvort y cledyf. Sef aoruc pawp yna adaw y bordeu affo allan. Ac nyt ouyn y gwr byw oed vwyaf arnunt. namyn gwelet y gwr marw yn kyuodi y eu llad. Ac

edrych a oruc gereint ac enit yna. a dyuot yndaw deu dolur. vn o honynt owelet enit wedyr gollu y lliw ae gwed. ar eil onadunt. gwybot y bot hi ar yr iawn. arglwydes heb ef. awdost di pale y mae an meirch ni. Gwnn arglwyd heb hi. pale yd aeth dy uarch di. ac ny wnn i pale yd aeth y llall. Yr ty racco yd aeth dy uarch di. Ynteu adaeth yr ty. ac atynnawd y uarch allan. Ac ysgynnv aoruc arnaw. achymryt enit. y ar y llawr. ae dodu y ryngtaw argoryf. acherdet racdaw ymeith. Ac ual y bydynt uelly ynkerdet ual yrwng deugae. ar nos yngoruot ar y dyd. nachaf y gwelynt y ryngtunt ar nwyure ar euhol peileidyr gwewyr athwryf meirch aglywynt agodwrđ yniuer. Mi aglywaf dyuot yn hol heb ef. ami athrodaf dros ykae. aerodi aoruc. Ac ar hynny nachaf uarchawc yny gyrrchu ynteu. Ac yn estwng y waew. Aphann welas hi hynny y dywawt. A unbenn heb hi paglot ageffy di yr llad gwr marw pwy bynnac auych. Och duw heb ynteu ae gereint yw ef. Ie y rof aduw. Aphwy wyt titheu. Mi yw y brenhin bychan heb ynteu yndyuot yn borth itti. amglybot bot gouut. Apei gwnelut ti vyghygor ny chyhyrdei a gyhyrdawd o galedi athi. Ny ellir dim heb y gereint wrth auynno duw. llawer da heb ynteu adaw ogyghor. Ie heb ybrenhin bychan. mi awnn gyghor da itti weithon dyuot gyt ami y lys daw gan chwaer y mi yssyd yn agos yma. ythuedeginyaethu. or hyn goreu agaffer yny deyrnas. awn ynllawen heb y gereint. amarch un oyssweineit y brenhin bychan a rodet y dan enit. Aduot racdunt aorugant y lys y barwn. allawen uuwynt wrthunt yno. ac ymgeled. agawssant. agwassanaeth. Athrannoeth y bore yd aethpwynt y geissaw medygon. Ac ar oet byrr wynt adoethant. A medeginyaethu gereint awnaethpwynt yna yny oed holliaich. A thrauuwynt yny vedeginyaethu ef y peris y brenhin bychan kyweiryaw y arueu yny oedynt gystal ac buassynt oreu eiryoet. Aphenewnos amis y buant yno. Ac yna y dywawt y brenhin bychan wrth ereint. Ni awn parth am llys inneu weithon y orffowys ac ygyrryt esmwythder. Peida gennynt ti heb y gereint ni agerdem un dyd ettwa. ac odynt ymchoelut dracheuyn. Yn llawen heb y brenhin bychan kerda ditheu. Ac yn ieuengtāt ydyd y kerdassant. Ahyfrytach allawenach y kerdawd enit y gyt ac wy y dyd hwnnw noc eiryoet. Ac wynt ae doethant yfford uawr. Ac wynt ae gwelynt yn gwahanu yn dwy. Ac ar hyt y neill onadunt wynt a welynt pedestyr yndyuot yn eu herbryn. agouyn aoruc gwiffart yr pedestyr padu pandeuei. Pandeuaaf heb ynteu o wneuthur negesseu or wlat. Dywet heb y gereint pa fford oreu ymi ycherdet or dwy hynn. Goreu itt gerdet honno heb ef. Ot ey y honn ny deuy dracheuyn byth. Issot heb ef y mae kae nywyl. ac

y mae yn hwnnw gwaryeu lletrithawc. ar geniuer dyn adoeth yno. ny dodyw vyth dracheuyn. allys owein iarll yssyd yno. Ac nyt at neb y lettya nny dref. namyn adel attaw y lys. Yrof aduw heb y gereint yr fford issot ydawn ni. Ac y honno ydoethant nny deuant yr dref. Ar lle hoffaf atheccaf gantunt nny dref y dalyassant letty yndaw. Ac ual y bydynt uelly. nachaf was ieuanc yndyuoat attunt ac ynkyuarch gwell udunt. Duw arodo da itt heb wy. A wyrda heb et pa darpar yw yr einwch chwi yna. Dala lletty heb wynteu. athrignyau heno. Nyt deuawt gan y gwr bieu ydref gadu neb y lettyaw yndi odynyon mwyn. namyn adel attaw ef ehun yr llys. A chwithieu dowch yr llys. awn yn llawen heb y gereint. A mynet aorugant gyt ar mackwy allawen uuwyrt wrthunt ynnyllys. Ar iarll adoeth yr ncuad yn eu herbyn. Ac a erchis kyweiryaw y bordeu. ac ymolchi aorugant amynet y eisted. Sef ual ydeistedassant gereint or neilltu yr iarll. ac euit or tu arall. Yn nessaf y enit y brenhin bychan. Odyna y iarllles yn nessaf y ereint. Pawb gwedy hynny ual y gwedei udunt. Ac ar hynny medylyaw aoruc gereint am y gware. athebygu na chaffei ef uynet yr gware. Apheidaw abwytta oachaws hynny. Sef aoruc y iarll edrych ar ereint amedylyaw. Athebygu panyw rac mynet yr gware yd oed yn peidyaw abwytta. Ac yndrwc gantaw gwneuthur y gwaryeu hynny eiryoet. kynny bei namyn rac colli gwas kystal agereint. Ac ot archei ereint idaw peidaw ar gware hwnnw. ef abeidei vyth ynllawen ac ef. Ac yna ydywawt y iarll wrth ereint. Pa uedwl yw dy teu di unben pryt na bwyttehych. Os petrussaw yd wyt ti uynet yr gware ti a geffy nat elych. ac nat eldyn vyth idaw oth enryded ditheu. Duw adalo itti heb y gereint. Ac ny mynnaf i namyn mynet yr gware am kyfarwydyaw. idaw. Os goreu gennyt ti hynny ti ae key yn llawen. Goreu ysgwir heb ynteu. Abwytta aorugant. adogynder o wassanaeth. Ac amylder o anregyon. alluosogrwyd owirodeu ageffynt. A phan daruu bwytta. kyuodi aorugant. agalw aoruc gereint am y uarch ac arueu. agwiscaw ymdanaw ac am y uarch a oruc. adyuoat aorugant yr holl niueroed. nny vydant ynnyml y kae. Ac nyt oed is y kae awelynt nor dremynt uchaf awelynt nnyr awyr. ac ar bop pawl oc awelynt nny kae ydoed penn gwr. eithyr deu bawl. ac amyli iawn oed y polyon nny cae a thrwydaw. Ac yna ydywawt y brenhin bychan. ageiff neb vynet ygyt ar unben namyn ef ehun. Nacheiff heb yr owein iarll. Pagyueir heb y gereint ydeir yma. Na wnn i heb yr owein namyn y gyueir y mynnych ac y bo hawssaf gennyt dos. Ac ynehouyn dipetrus mynet aoruc gereint racdaw yr nywl. A phan edewis y nywl ef adoeth y berllan uawr. allannerch awelei nny berllan. Aphebyll obali pen-

goch awelei nny llannerch. adrws y pebyll awelei yn agoret. ac auallen aod ygkyueir drws y pebyll. Ac ar yscwr or auallen ydoed corn canu mawr. adisgynnv aoruc ynteu yna adyuot yr pebyll y mywn. Ac nyt oed nny pebyll namyn vn vorwyn yneisted ymywn cadeir eureit. A chadeir arall gyuerbyn ahi ynwaac. Sef aoruc gereint eisted nny gadeir waac. A unben heb y uorwyn. ny chynghoraf i ytti eisted nny gadeir honno. Paham heb y gereint. Y gwr bieu ygadeir honno ny diodeuawd y arall eisted eiryot nny gadeir. Nymtawr i heb y gereint kyt boet drwc gantaw ef eisted nny gadeir.

Ac ar hynny wynt a glywynt twryt mawr ygkylch y pebyll. Ac edrych aoruc gereint pa ystyr oed yr twryf. Ac ef awelei uarchawc allan ar gatuarch ffrocnuolldrut awyduawr esgyrnbraff. achwnsallt deuhanner ymdanaw. ac am y uarch. adogynder o arueu ydan hynny. Dywet unben heb ef wrth ereint pwy aerchis itti eisted yna. Myhun heb ynteu. Cam oed itt wneuthur kewilyd kymeint ahwnnw imi agwarthaet. achyuot ti odynd y wneuthur iawn ymi amdy agkemiahawt dy hun. Achyuodi aoruc gereint. Ac yndiannot mynnet y ymwan aorugant. athorri to o belydyr aorugant. athorri yr eildo. athorri y dryded do. adyrnodeu caletchwerw kyflymdrut arodei pob un onadunt y gilyd. Ac nny diwed lliidiaw aoruc gereint. agordinaw y uarch ae gyrchu. a gossot amaw yghedernit y daryan. nny hyllt ac nny uyd penn ywaew nny arueu. Ac nny dyrr y holl gegleu. Ac hynny uyd ynteu dros bedrein yuarch yr llawr hyt gwaew gereint. ahyt y vreich yn wysc y bean. Och arglwyd heb ynteu dy nawd. a thi ageffy a vynnuch. Ny mynnaf i heb ynteu namyn nabo yma vyth ygware hwnn nar cae nywl. nar hut na lletrith ar y uu. Ti a geffy hynny ynllawen arglwyd. Par ditheu heb ef vynet y nywl ymeith or lle. Can di y corn racco heb eff. Ac yr awr y kenych ef aa y nywl ymeith. Ac nny canei ef uarchawc am byryei i nyt aei y nywl ryth odynd. Athrist agoualus oed enit nny lle ydoed rac goual am ereint. Ac yna dyuot aoruc gereint achanu y corn. Ac yr awr y rodes unllaf amaw. yd aeth y nywl ymeith. Ac ydoeth yniuer ygyt. ac y tagnouedwyt pawb o nadunt ae gilyd. Ar nos honno y gwahodes y iarll ereint ar brenhin bychan. Athrannoeth y bore ygwahanysant. Ac yd aeth gereint parth ae gyuoeth ehun. Ac y wledychu ohynny allan ynllwydyannus ef ae uilwryaeth ae wychdra yn parhau ganglot ac etmic idaw. ac y enit o hynny allan.

YSTORI KULHWCH AC OLWEN,

NEU

HANES Y TWRCH TRWYTH.

KILYD mab kelydon wledic aynnei wreic kynmwyd ac ef. Sef gwreic a vynnawd goleudyd merch anlwd wledic. Gwedy ywest genthi mynet y wlat yggwedi malkawn a geffyt ettiued. Achaffel mab ohonunt trwy wedi y wlat. Ac ar awr y dellis beichogi, ydeuth hitheu yggwylltawc heb dy anhed. Pan dyuu y thymp idi, ef a dyuu y iawnbwyll idi. Sef y dyuu, mynyd yd oed meichat ynkadw kenuein o uoch, acrac ouyn y moch engi aoruc y vrenhines, a chymryt y mab aoruc y meichiat hyt pan dyuu yr llys, abedydyaw y mab a wnaethpwt, a gyrru kulhwch arnaw, wrth y gaffel yn retkyrr hwch. Bonhedic hagen oed y mab. Keuynderw y arthur oed. A rodi y mab awnaethpwyd ar ucithrin. Agwedy hynny cleuychu mam y mab goleudyd merch anlwd wledic. Sef aoruc hi galw y chymar attei. Ac yna ydywat hi wrthaw ef, marw uydaf i oreleuyt hwnn, agwreic arall aynny ditheu, arecdouyd ynt ygwaged weithon. Drwc yw itti hagen llygru dy uab. Sef y harchaf itt na mwunych wreic, hyt pan welych dryssien deu peinawc ar vymbed i, ac adaw aoruc ynteu, ac erchi idaw amlynu y bed bop blwydyn hyt nathyuei dim arnaw, marw uu y brenhines. Sef awnaci y brenin gyrru gwas bob bore i edrych a dyuei dim arybed. Gwallocau aoruc yr arthro ympenn y seith mlyned yr hynn aaddawssei yr urenhines. Diwarnawt yuhely y brenhin, dy gyrcu y gordlan aoruc y brenhin, gwelet y bed a vynnei trw y kaffei wreika, agwelet y dryssien aoruc. Ac mal y gwelas, mynet aoruc y brenhin ygkyghor pale kaffei wreic. Heb un or kynghorwyr, mi awyddwn wreickada itt awedei. Sef yw honno gwreic doget vrenhin. Kynghor uu gantvnt y chyrchu, allad y brenhin, adwyn y wreic gantunt aorugant, ac un uerch oed idi gyt ahi agoresgyn tir y brenhin awneuthant. Dydgweith ydaeth y wreicda allan y

orymdeith. ydeuth y dy henwrach oed yny dref heb dant yny phenn. Ac y dywawt y urenhines ha wrach adywedy di ymi y peth aovynnaf itt yr duw. ble mae plant y gwr amllathrudawd yggordwy. Heb y wrach nit oes blant idaw. heb y urenhines. gwae uinneu vyndyuot at anuab. Ac yna y dywawt y wrach. nyt reit itti hynny. Darogan yw idaw kaffel etiued o honat ti. yr naskaffo o arall. Na wnadristyt heuyt un mab yssyd idaw. mynet aoruc y wreicda yn llawen atref. Ac a dywawt hi wrth y chymar. Pa ystyr yw gennyt ti kelu dy blant ragof i. heb y brenhin. a meinheu nys kelaf weithon. kenattau y mab aorucpwy. adyuot ac ef yr llys. Dywedut aoruc y lysuam wrthaw. Gwreic yssyd da itti y chael. amerch yssyd imi gwiw y bob gwr da yny byt. y dywawt y mab. nyt oet ymi ettwa wreicka. Ac yna y dywawt hitheu. Mi atynghaf dynghet itt na chyflado dy ystlys wrth wreic. hyt pan geffych olwen merch yspadaden pennkawr. lliwaw aoruc y mab. amynet serch y uorwyn yn ympob aelawt idaw yr nas gwelsei eiryoet. Ac yna y dywawt ydat wrthaw. Ha uab py liuy di. Pydrwc yssyd arnat ti. vy llysuam adynghwys im na chaffwyf wreicbyth hyt panngaffwyf olwen merch yspadaden bennkawr. Hawd yw itti hynny heb y dat wrthaw. Arthur yssyd geuynderw itt. dos att arthur. y diwyn dy wallt. ac erchych hynny idaw yngyuarws itt. Myned aoruc y mab ar orwyd penlluchlwyd pedwar gayaf gauyl gyvwng karngragen. A ffrwyn eur kymbiawc yny benn. a chyfrwy eur anllawd y danaw. A deupar aryannhyeit lliueit yny law. Gleif penntirec yny law. kyuelin dogyn gwr odrwm hyt awch y gwaet ar y gwynt adgyrchei. bydei gynt nor gwllithin kyntaf or konyn hyt y llawr pan uei uwyhaf y gwllith vis meheuin. Cledyf eurdwrn ar y glun. arac llauyn eur idaw. a chroes eurgrwydyr arnaw. alliw lluchet nef yndi. a lludgorn eliffeint yndi. a deu vilgi uron wynnyon vrychion tu racdaw. a gwrtdorch rudem am vynwgyl pob un o guwch ysgwyd. hyt ysgyuarn. yr hwnn auei or parth asseu a vydei or parth deheu. ar hwnn auei or parth deheu auydei or parth asseu. mal dwy uorwennawl yn darware yny gylch. Pedeir tawarchen a ladei bedwarcarn y gorwyd. mal pedeirgwenawll yn yr awyr uch y benn. gweithu uchot. gweithu issot. llenn o borffor pedeir ael ymdanaw. ac aual eur wrth bop ael idi. can mu oed werth pob aual.

Gwerth trychanmu oeur gwerthuawr oed yny archenat. aewarth-afleu sanguarwy o benn y glun hyt ymblaen y bys. Ny chrymei vlaen blewyn ydanaw rac yscawnet tuth y gorwyd oed y danaw ynkyrchu porth llys arthur. y dywawt y mab. aoes borthawr. Oes ahithu nybo teu dy benn byrr y kyuerchy di. Mi a uydaf borthawr y arthur bop duw kalan

ionawr. am rac lonyeit nagen y vlwydyn eithyr hynny. Nyt amgen huan-
dau. agogigwc. a llaeskenym. aphenningyon a ymda ar y benn yr arbet y
draet. nyt wrth nef. nyt wrth dayar. namyn ual maen treigyl ar lawr llys.
agor y porth. Nac agoraf. Py ystyr nasagory di. Kyllell aedyw
ym bwyt allynn ymbual. Ac amsathyr neuad arthur. namyn mab brenhin
gwlat teithiawc. neu gerddawr adycko y gerd. ny atter y mywn. llith yth
gwn ac yth ueirch. agolwython poeth pebreid y titheu. agwin gorysgalawc.
adidan gerdeu ragot. Bwyt degwyr. adeugeint adaw attat yr yspytty.
yno ybwytta pellennigyon. a maibyon gwladoed ereill. nid ergyttyo kylch
yn llys arthur. Ni byd gwaeth imi yno. no chyt ac arthur yn y llys.
Gwreic y gyscu genthi. adidan gerdeu rac dy vronn. auory pryt anterth pan
agorer y porth rac y niuer a deuth yma hediw. Bydhawt ragot ti gyntaf
ydaigorir y porth. Achyfeisted a wnelych yny lle adewissych yn neuad
arthur. oe gwarthaf hyt y gwaelawt. Dywedut aoruc y mab ny wnaft i dim
o hynny. ot agory y porth da yw. Onys agory mi adygaf angelot yth
arglwyd. adryceir y titheu. a mi adodaf teir diaspat ar drws y porth hwnn.
hyt nabo angheuach ympenn pengwaed yngkernyw. ac yggwaelawt dinsol yny
gogled. ac ynesgeir oeruel yn iwerddon. ac yssyd o wreic ueichiawc yny llys
honnmethawd eu beichiogi. Ac arnunt beichawc o nadunt ymchoelawd eu kall-
onneb yn wrthrw m heint arnadunt mal bont ueichawc byth o hediw allan.
Heb y glewlwyt gauaeluawr Padiaspettych di bynnac am gyfreitheu llys
arthur. nyth ellyngir di y mywn. yny elwy fi y dywedut y arthur gysseuin.

Ac yna y doeth y glewlwyt yr neuad. ac y dywawt arthur wrthaw.
Chwedleu porth gennyf. Ys ethyw gennyf deuparth vy oet. adeuparth y
teu ditheu. mi auum gynt ygkaerse. ac asse. yn sachasalach yn lotor.
affotor. Mi auum gynt ynyr india uawr. ar india vechan. Mi avum gynt yn
ymlad deu ynyr pan ducpwyf y deudec gwystyl olychlyn. ami auum gynt
ynyrgrop. ami auum ynyr affric. ac yn ynyssed corsica. ac ygkaer bryth-
weh. abrythach. auerthach. Mi auum gynt pan ledeist di deulu clis mab
merin. Panledeist mil du mab ducum. mi a uum gynt pan oresgynneist
roec wrth parth y dwyrein. mi auum gynt ygkaer oeth ac anoeth. Ac
ykkaer neuenyh naw nawd teyrn. dynyon tec awelsam ni yno. ny weleis i
eiryoet dyn kyuard ar hwn yssyd yn drws y porth yr awr honn. Ac y
dywawt arthur. Os ar dygam yr doethost y mywn. dos ar dy redec
allan. ar sawl aedrych y goleu. Ac aegyry y lygat. ac ae kae angheugaeth
idaw. agwassanaethet rei o vuelin goreureit. ac ereill agolwython poeth
pybreid hyt pan vo parawt bwyt allyn idaw. ysydied abeth gadu dan wynt
a glaw y kyfryw dyn adywedy di. Heb y kei. myn llaw vygkyueillt pei

gwnelhit vygkyghor i ny thorrit kyfreitheu y llys yrddaw. Nawir kei wynn ydym wyrda hyt tra yndygyrcher. ydyt no mwyaf y kyuarws arod-hom. Mwy vwy vyd yn gwrdaaeth ninneu ac anclot. ac anhetmic. ac ydoeth glewlwyt yr porth. ac agori y porth racdaw. Ac yr y pawb disgynnu wrth y porth ar yr ysgynnvaen nysdisgynnawd ef. namyn ar y gorwyd y doeth y mywn. Ac y dywawt kulwch. henpych gwell penteyrned yr ynys hon. ny bo gwaeth yr gwaelawtty. noc yr gwarthafdy. Poet yn gystal yth deon ath niuer ath gatvridogyon y bo y gwell hwnn. Ny bo didlawt neb o honaw mal y mae kyflawn y kyuercheis i well itti, Poet kyflawn dy rat titheu. ath glot ath etmic yn yr ynys honn. Henpych gwell ditheu heb yr arthur. Eisted y rwg-deu or milwyr adidangerd a geffy rac dy uron. a breint teyrn arnat gwrthrychyt teyrnas pyhyt bynnac y bych yma. A phan rannwyf uynda y ospeit aphellennnigyon. bint yth law panydechreuwyf yny llys hon. Heb y mab. ny deuthum i yma yr ffrawdunyaw bwyt allyn. namyn or kaffaf vygkyuarws y dalu ae uoli awnaf. O nys kaffaf dwyn dy agclot ti awnaf hyt y bu dy glot ympedryuol byt bellaf. Heb yr arthur yna. kanny thriggy di yma unben. ti ageffy y kyfarws a notto dy benn ath dauawt. hyt y sych gwynt. hyt y gwlych glaw. hyt y treigyl heul. hyt yd amgyffret mor. hyt yd ydiw y dayar. eithyr vy llong. am llen. a chaletuwlech uyg cledyf. arongomyant uyygwaew. ac wyneb gwrthucher uyn taryan. acharnwenhau vygkyllell. a gwenhwyuar uyygwreic. Gwir duw ar hynny ti ae keffy yn llawen. Not a nottych. Diwyn uyygwallt a uynnaf. Ti ageffy hynny. cymryt crip eur o arthur. a gwelleu a doleu aryant idaw. achribaw y benn aoruc. agouyn pwy oed aoruc arthur. mae vygcallon i yntirioni wrthyt. mi awn dy hanuot om gwaet. dywet im pwy wyt. Dywedaf heb y mab. kulhwch mab kilyd. mab kyledon wledic. o oleudyd merch anlwd wledic vy mam. Gwir yw hynny heb yr arthur. keuynderw wyt titheu ymi. Not anottych athi ae keffy. a notto dy benn ath dauawt. gwir duw im ar hynny agwir dy deyrnas. ti ae keffy yn llawen. Nodaf arnat. kaffel im olwen merch yspadaden penkawr. ae haswynaw awanaf ardy uilwyr.

Asswynaw y gauarws o honaw ar gei. abedwyr. agreidawl galldonyd. agwythyr uab greidawl. agreit mab eri. Achyndelic kyuarwyd. athathal twyll goleu. A maelwys mab baedan. achrychwyr m. nes. achubert m. daere. apherocos m. poch. a lluber beuthach. A choruil beruach. agwynn m. nud. ac edern m. nud. ac adwy mab gereint. afflewduw fflam wledic. a ruawn pebyr m. dorath. a bratwen m. moren mynawc. a moren mynawc ehun. a

dalldaf eil kimin cof. a mab alun dyuet. a mab saidi. a mab gwryon. Ac
 uchtrut ardywat kat. achynwas curuagyl. a gwrhwr gwaithecuras. Ac
 Ispebyr ewingath. agallcoyt gouynynat. aduach. agrathach. a nerthach.
 meibion gwawr dur kyruach. o wrthtir uffern. pan hanoed y gwyr hynny
 achilyd canhastyr. achanastyr kanllaw. Achors cant ewin. ac esgeir gulhwch
 gouynkawn. Adustrwrn hayarn. aglewlwyt gauaeluawr. a lloch llawwyn-
 nyawc. Ac aunwas adeiniawc. a sinroch mab seithuet. agwennwynwyn
 mab naw. a bedyw mab seithuet. a gobrwy m. echel uordwyttwll. Ac
 echel uordwyttwll ehun. amael m. roycol A datweir dallpenn. agarwyli
 eilgwythawc gwyr. a gwythawc gwyr ehun. Agormant m. ricca. a
 menw. m. teirgwaed. a digon m. alar. a selyf m. smoit. a gusc m. atheu.
 a nerth m. kedarn. adrutwas m. tryffin. a thwrch m. perif. athwrch m.
 annwas. a Iona urenhin ffreinck. a sel m. selgi. atheregut. m. Iaen.
 a sulyen m. Iaen. abratwen m. Iaen a moren m. Iaen asiawn m. Iaen
 achradawc m. Iaen. Gwyr kaer tathal oedynt kenedyl y arthur o
 bleit y dat. Dirmyc m. kaw. a Justic m. kaw ac etmic m. kaw. ac
 angawd m. kaw. ac ouan m. kaw. achelin m. kaw. a chonnyn m. kaw.
 a mab sant m. kaw. a gwyngad m. kaw. allwybyr m. kaw. achoth m.
 kaw. a meilie m. kaw. achynwas m. kaw. ac ardwyat m. kaw. Ac ergyryat
 m. kaw. a neb m. kaw. agilda m. kaw a chalcas m. kaw. a hueil m. kaw.
 nyt asswynwys eiryot ynllaw arglwyd. a samson uinskych. a theleessin
 pennbeird. amamawydau m. llyr. allary m. kasnar wledic. ac yspeni
 m. fflergant brenhin llydaw. a saranhon m. glythwyr. a llawr eilerw. ac
 annyanniawc m. menw. m. teirgwaed. A gwynn. m. nwyvre. a fflam m.
 nwyvre. a gereint m. erbin. Ac ermit m. erbin. a dyuel m. erbin. agwynn
 m. ermit. a chyndrwyn m. ermit. A hyueid unllen. Ac eidon uawr urydic.
 a reidwn arwy. agormant m. ricca. brawt y arthur o barth y uam. penn-
 hynef kernyw y tat. a llawnrodet uaruawc. a nodawl varyf twrch.
 aberth m. kado. a reidwn m. beli. ac Iscouan hael. ac Iscauin m. panon.
 a moruran eiltegit. ny dodes dyn y araf yndaw ygkatgamlan rac y hac-
 cret. pawb a dybygynt y uot yngytreul canhorthwy. blew oed arnaw ual
 blew hyd. a sande bryt agel. ny dodes neb y waew yndaw ygkatgamlan.
 rac y decket. pawb a debygynt yuot yn agel kanhorthwy. achynnwyl
 sant. y trydyd gwr adihengis o gatkamlan. ef a ysgarwys diwethaf ac
 arthur y ar hen groen y uarch. ac uchtryd m. erim. Ac eus m. erim.
 a henwas adeinawc m. erim. a henbetestyr m. erim. Ac sgilti yscawntroet
 m. erim. Teir kynnedyf aoed ar y trywyr hynny. henbedestyr ni chauas
 eiryot ae kyffrettei o dyn. nac ar uarch. nac ar droet. Henwas adeinawc

ny allwys mil pedwar troetawc eiryoet y ganhymdeith hyt un erw. y chwaethach a uei bellach no hynny. Sgilti ysgawndroet pan uei wyn hwyl kerdet yndaw wrth neges y arglwyd. ni cheisswys ford eiryoet am gwypei pa le yd elei. namyn trauei y mywn coet aruric y coet y kerdei. ac yn hyt y oes ny fflygwys konyn dan y droet yghwaethach torri rac y ysgawnet. Teithi hen. m. gwynhan. a oresgynnwys mor y kyuoeth. ac y dihengis ynteu o vreid. ac y doeth att arthur. a chynnedyf aoed ar ygyllell. yr pan deuth yma nythrigyawd carn arnei vyth. ac wrth hynny y tyuawd heint yndaw. anychtawt hyt tra uu uyw. ac o hynny y bu uarw. Acharnedyr m. gouynyon hen. Agwenwynwyn m. naf gysseuin rysswr arthur. A llysgatrud emys. Agwrbothu hen. ewythred arthur oedynt vrodyr y uam. Kulanawyt m. goryon. a llenuleawc wydel o bentir ganion. aduynwal moel. Adunart brenhin y gogled. Teirnon twryf bliant. athecuan gloff. Athegyr talgellawc. Gwrđinal mab ebrei. a morgant hael. Gwystyl mab. Run m. nwython. A llwydeu m. nwython. Agwydre m. llwydeu. owenabwy merch y uam. hueil y ewythyr ae gwant. ac am hynny y bu gas rwng hueil ac arthur am yr archoll. Drem vab dremidyf. awelei o gelli wic ygkernyw. hyt ympenn blathaon ymprydein. pan dyrchauei y gwydbedyn y bore gan yr heul. Ac eidyol m. ner. aglwydyn saer. awnaeth ehangwen neuad arthur. Kynyr keinuaruawc. Kei a dywedit y uot yn vab idaw. ef adywawt wrth y wreic. o sit rann y mi oth uab di uorwyn oer vyth vyd y gallon. Ac ny byd gwres yny dwylaw. kynnedyf arall arnaw. Os mab imi uyd kyndynnyawc uyd. Kynnedyf arall auyd arnaw. Pandycko beich na mawr na bychan uo. ny welir vyth. nac rac y wyneb na thraegeuyn. Kynnedyf arall heuyt auyd arnaw. ny pheit neb adwuyr ac athan yngystal ac ef. Kynnedyf arall auyd arnaw. ny byd gwassanaethwr naswdwr mal ef. Henwas. a hen wyneb. a hen gedymeith y arthur. Gwallgoyc un arall. y dref y deyhei. kyt bei trychant tei yndi. or bei cisseu dim arnaw. ny adei ef hun vyth arlygat dyn tra uei yndi. Berwyn mab gerenhir. Apharis brenhin ffreinc. ac osla gyllelluawr. ayndygei broynllaun verr llydan. pan delei arthur aeluoed y uroen llifdwr y keissit lle kyuing ar y dwuyr. ac ydodit y gyllell yny gwein ar draws y llifdwr. digawn o bont uydei y lu teir ynys prydein. Ae their rac ynys ac eu haureitheu. Gwydawc mab menestyr aladawd Kei. Ac arthur alladawd ynteu. ae urodyr yn dial Kei. Garanwyn mab kei. ac amren mab bedwyr. ac ely amyr. a reu rwyd dyrys. a run rudwern. ac eli. a thrachmyr pen kynydyon arthur. Allwydeu mab kelcoet. A hunabwy mab gwryon. a gwynn got y fron. a gweir datharwennidawc. A gweir m. kadell m. tal

aryant. a gweir gwrhyt ennwir. A gweir baladyr hir. ewythred y arthur vrodyr y uam. meibon llwch llawwynnyawc ortu draw y uor terwyn. llenlleawc wydel. Ac arderchawc prydein. Cas mab saidi. Gwrvan gwallt auwyn. a gwelennhin brenhin ffreinc. a gwittart mab oed brenhin Iwerdon. Garselit wydel. Panawr pen bagat. A ffeudor mab naf. Gwynnhyuar maer kernyw adyfeint. nawuet gwr aystoues katgamlan, Keli a chueli. agilla goes hyd. trychannerw alammei yny un llam penn llemhidyd Iwerdon oed hwnnw. Sol. agwadn ossol. agwadyn oedyeth. Sol aallei seuyll undyd ar y untroet. Gwadyn ossol. pei safhei ar benn y mynyd mwyhaf yny byt. ef auydei yn tyno gwastat dan y traet. Gwadyn o deith kymeint ar vas twym pantynnit or eueil oed tanllachar y wadneu. pangyuarffei galet ac wynt. ef aarllwysssei fford y arthur yny llud. Hirerwm. a hir atrwm. y dyd y delynt y west. trychantref aachubit yn eu kyfueir gwest hyt nawn awneynt adiotta hyt pan vei nos pan elynt y gysgu. Ac yna penneu y pryuet a yssynt rac newyn mal pei nat yssynt uwyt eiryoet. Pan elhynt y west nyt edwynt wy na thew. na thenev. na thwym. nac oer. na sur. na chroew. nac ir na hallt. na brwd nac of. Huarwar mab aflawn a nodes ywala ar Arthur yny gyuarws. trydyd gordibla kernyw vu pan gahat y wala idaw. ny cheffit gwynngwen arnaw vyth. namyn tra uei lawn. Gware gwallt euryn. Deu geneu gast rymi. gwydrut. agwydneu astrus. Sugyn m. sucnedyd. a sucnei y morawl y bei drychanllong arnaw. hyt nabei namyn traeth sych. Bronllech rud aoed yndaw. Racymwri gwas Arthur. dangossit yr yscubawr a uynnit idaw. kyt bei i rwyf dec erydyr ar hugeint yndi. ef ae trawei affust hayarn hyt na bei well yr rethri ar trostreu. ar dulatheu. noc yr mangeirch yn gwaelawt yr yscubawr yny ueistawn. adygyflwng ac anoeth ucidawc. ahir eidyl. ahir amreu deuwas y arthur oedynt. a Gweuyl mab gwastat. y dyd y beidrist y gollyngei y lleill weuyl idaw y waeret hyt y uogel. ar llall a uydei. yn pennguch ar y penn. Vchdryt uaryf draws. auryrei y uaryf goch scuydlawc aoed idaw dros wythdrawst adeugeint a oed yn neuad arthur. Elidyr gyfarwyd. yskyrdaf. ac yscudud. deu was y wenhwyuar oedynt. kynn ebrwydet oed eu traed wrth eu neges ac eu medwl. Brys uab bryssethach o dal y redynawc du obrydein. a grudlwyn gorr. Bwlch. achyuwlch. a scfwlch. meibon cledyf kyfwlch. wyron cledyf difwlch. Teir gorwen gwenn eu teir ysgwyd. Tri gouan gwann eu tri gwaew. Tri benyn. byneu eu trichledyf. Glas. Glessic. Gleisat eu tri chi. Kall. Cuall. Cauall. eu tri meirch. hwyrdydw. adrwedydw. a llwyrdydw. eu teir gwraged. Och. agarym a diaspat. eu teir wyryon. lluchet. aneuet. ac eissiwet

eu teir merchet. Drwc. a gwaeth. a gwaethaf oll. Eu teir morwyn. Ehcubryt merch kyfwlch. Gorascwrn merch nerth. Ewaedan merch kynuelyn keudawt pwyll hanner dyn. Dwnn di essic unben. Eiladyr mab penn llarcau. Kyuedyr wyllt mab hettwn tal aryant. Sawyl benn uchel. Gwalchmei mab gwyar. Gwalhauet mab gwyar. Gwrhryr gwastawt ieithoed. yr holl Ieithoed a wydyat. ar ketherwm offeirat. Clust mab clustueinat. pei cledit seith cuppyt yn y dayar. deng milldir adeugeint y clywei y morgrugyn y bore pan gychwynei y ar y lwth. medyr vab methredyd. auetrei y dryw yn esgeir oeruel yn Iwerdon trwy y dwy goes yn gythrymhet ogelli wie. Gwiawn lygat cath. aladei onggyl arlygat y gwybedyn. heb argywed. ol mab olwyd seith mlyned cyn noe eni aduepwyt moch y dat. a phan dyrchauawd ynteu yn wr yd olrewys y moch. ac ydeuth adref ac wynt yn seith kenuen. Betwini escob auendigei vwyt allyn arthur. yr mwyn merchet eurdyrehogyon yr ynys honn.

Yam wenhwyuar pennrianed yr ynys honn. a gwennhwyach ychwaer. A rathtyeu merch unic clememhill. a relemon. merch kei. a thannwen merch weir datharwemdawc. Gwennalarch merch kynwyl canbwch. Erneit merch clydno eidin. eneuawc merch uedwyr. Enrydrec merch tutuathar. Gwennwledyr merch waledur kyrvach. Erdutnid merch tryffin. Eurolwen merch wdolwyn gorr. Teleri merch peul. Indec merch arwyhir. moruud merch uryen reget. Gwenllian dec y morwyn uawr vrydic. Creidylat merch llud llaw ereint y uorwyn uwyhaf y mawrhed auu ynteir ynys y kedyrn. ae their rac ynys. Ac am honno y mae gwythyr mab greidawl. agwynn mab nud yn ymlad bob duw kulan mei vyth hyt dydbrawt. Ellylw merch neol kynn croc. a honno auu teir oes gwyr yn vyw. Essyllt vinwen ac essyllt vingul. arnadunt oll y haswynwyn-wys kulwch mab kilyd y gyuarws.

Arthur adywawt yna. Aunben ny ry giglif i eirmoet dim y wrth y uorwyn a dywedy di. nae rieni. mi aellyngaf gennadeu oe cheissaw ynllawen. dyro ym yspeit y cheissaw. Y mab adywawt rodaf yn llawen or nos heno hyt y llall ympenn y vlwydyn. Ac yna y gyrrwys arthur y kennadeu y bop tir yn deruyn y geissaw y uorwyn honno. Ac ympenn y vlwydyn y doeth kennadeu arthur drachevyn. heb gaffel na chwedyl nachyuarwydyt y wrth olwen mwy nor dyd kyntaf. Ac yna y dywawt kulwch. pawb agauas y gyuarws aminneu ydwyf yn eissywedec ettwa. Mynet a wnaf i ath wyneb di adygaf i gennyf. yna y dywawt kei. A unben rwy y gwerthey di arthur. Dy gyrch di gennym ni hyt pan dywettych di nat ydiw y uorwyn honno nny byt. neu ninneu ae kaffom. nyt yscarwn athi. Kyuodi kei yna. angerd oed argei naw nos a naw diwarnawt hyt

y anadyl y dan dwfyr. Naw nos a naw diwarnawt y bydei heb kyscu. Cleudawt kei ny allei uedic y waret. Budugawl oed gei. kyhyt ar prenn uchaf yny coet uydei pan uei da gantaw. Kynnedyf arall oed arnaw. pan uei uwyhaf y glaw. dyrnued uch ylaw. ac arall is y law y bydei yn sych. yr hyn auei yn y law rac meint y angerd. A phan uei vwyhaf y annwyt ar y gedymdeithon diskymon uydei hynny udunt y gynneu tan. Galw aoruc arthur ar uedwyr yr hynn nyt arswydwys eiryoet yr neges y delei gei idi vynet. nyt oed neb kyfred ac ef ynyr ynys honn. namyn arthur adrych eil kibdar. a hynn heuyt kyt bei un llofyawc. nyt anwaedwys tri aeruawc yn gynt noc ef yn un vaes ac ef. Angerd arall oed arnaw un archoll auydei yny waew. a naw gwrthwan. Galw o arthur ar gynecelic kyfarwyd. Dos di yr neges honn gyt ar unbenn. achaws nyt oed waeth kyfarwyd yny wlat nys rywelsei eiryoet noc yny wlat ehun. Galw gwrhyr gwalltawt ieithoed. achaws yr holl ieithoed a wydyat. Galw Gwalchmei mab gwyar kanny deuth adref eiryoet heb y neges yd elhei y cheissaw. Goreu pedestyr oed a goreu marchawc. nei y arthur uab y chwaer. ae geuynderw oed. Galw o arthur ar uenw uab teirgwaed. kanys ot elynt y wlat anghret. mal y gallei yrru lletrith arnadunt ahut. hyt nas gwelei neb wynt. ac wyntwy awelynt pawb.

Mynet aorygant hyt pan deuthant y uaestir mawr. ynyuyd kaer uawr awelynt teckaf o geiryd y byt. Kerdet aorugant ydyd hwnnw hyt ucher. pan debygynt hwy eu bot ynngyuagos yr gaer nyt oedynt nes nor bore. Ar eildyd ar trydyd dyd y kerdasant. ac ovreid y doethant hyt yno. Aphan deuant ymbronn y gaer yny uyd dauattes uawr a welynt heb ol. a heb eithaf idi. a heussawr yn cadw y deveit arbenn gorsedua. aruchen o grwyn ymdanaw. agauaelgi kedenawc ach y law. oed vwy noc amws nawgayaf. Deuawt oet arnaw nychollet oen eiryoet ganthaw. agwhaethach llwdyn mawr. Nyt athoed gyweithyd hebdaw eiryoet. ny wnelei ae anaf ae adoet arnei. Y sawl uarwbrenn athwypath auei ar y maes. alosgei y anadyl hyt y prid dilis. yna ydywawt kei. gwrhyr gwalstawt ieithoed. Dos y gyfrwch ardyn racco. Kei heb ef nyt edeweis i uynet namyn hyt yd elut titheu. Down ninheu ygyt yno heb y kei. Heb y menw mab teirgwaed. nauit amgeled gennwch mynet yno. mi ayrraf letrith ar y ki hyt na wnel argywed y neb. Dyuoet aorugant mynyd oed yr heussawr. Ac y dywedassant wrthaw. berth ydwyt heussawr. Ny bo berthach byth y boch chwi no minneu. Mynduw kan wyt penn. nyt oes anaf ymlygru. namyn vympriawt. Pieu y deueit agedwy di neu bieu ygaer racko. meredic awyr ywch. dros y byt y gwys panyw kaer yspadaden penkawr yw. Neu ditheu pwy wyt. Custennin ymgelwir uab defnedic. ac am vympriawt ymrylygrwys ymnbrawt yspadaden peukawr neu chwithew pwy ywch. kennadeu arthur yssyd yna ynerchi olwen merch

yspadaden pen kawr. vb wyr nawd duw ragoch. yr y byt na wnewch hynny. ny doeth neb eiryoet y erchi yr arch honno aelei aebywyt gantaw. Kyuodi aoruc heussawr y uynyd. Ac ual y kyuyt rodi modrwy eur aoruc culhwch idaw. Keissaw gwisgaw y uodrwy honno o honaw. ac nyt aei idaw. aedodi aoruc ynteu ymys y uanec. acherdet aoruc atref. arodi y uanec att y gymhar y gadw. achym-ryt aoruc hitheu y vodrwy oruanec. Pan y ry attei. y dywawt hitheu. gwr y uodrwy hon nyt oed vnych ytt gaffel bud. Mi aeuthum heb ef. y geissaw moruwyt yr mor. nachaf kelein awelwn yndyuot gan y tonneu. ac ny welais y mor. moet kelein degach no hi. ac y vvs ef y keueis y uodrwy honn. Oiawr ka nat y mor marw dlws yndaw. dangos i mi y gelein honno. ha wreic y neb aeth y gelein ti ae gwely yma y chwinsaf. Pwy yw hwnnw heb y wreic. mab mab mab kilyd. mab kelydon wledic. o oleudyd merch anlwd wledic. adoeth y erchi olwen yn wreic idaw. Deu synnwyr oedd genthi. liawen oed genti dyuot y nei vab y chwaer attei. A thrist oed genthi. kanywelsei eiryoet y uynet ae eneit ganthaw adelei y erchi y neges honno. Kyrchu aorug-ant hwy porth llys custenin heussawr. clybot o honei hitheu eutrws hwy yn dyuot. Redec o honei yn eu herbyn o lewenyd. Goglyt aoruc kei ynprenn or glut weir ae dyuot hitheu yn eu herbyn y geissaw mynet dwylaw mynwgyl udunt. gossot o gei eiras y rwng ydwylaw. Gwascu o honei hitheu yr eiras yny yttoed yn wden diednedic. Ha wreic heb y kei. pei mi a wascut uelly ny oruydei ar arall vyth rodi y serch arnaf. drycserch oed hwnnw. Dyuot aorugant hwy yr ty agwneuthur eugwassanaeth. Ym pen gwers pan aeth pawb allan y chware. agori kib uaen aoed yn tal y penntau aoruc y wreic. achyuodi gwas pengrych melyn o honei. Heb y gwrhwr ysoed gryssyn kelu yryw was hwnn. Gwn nat y drwc ehun adielir arnaw. Heb y wreic ysgohilyon hwnn. tri meib arhugeint aladawd yspadaden penn kawr ymi. nyt oes oueneic y mi o hwnn mwy noc or rei ereill. Ac yna y dywawt kei. dallet gedymdeithas ami. ac nynlledir namyn y gyt. Bwytta o honunt. ac y dywat y wreic. pa neges y doethawch chwi yma oe hachaws. Ni a doetham y erchi olwen yr gwas hwnn. heb y wreic yna. Yr duw canych gwelas neb or gaer ettwa. ymchoelwch drach-euyn. Duw awyr nat ymchoelwn hyt paun welhom y uorwyn. Heb y kei adaw hitheu yma yn teruyn y gweler. Hi adaw yma bopduw sadwrn y olchi y phenn. ac yny llestyr yd ymolcho yd edeu y modrwyeu oll. na hi nae chennat nydaw byth amdanunt. a daw hi yma o ny chennetteir. Duw awyr na ladafi vy eneit. na thwyllafi am cretto. Namyn orodwch gret nawneloch gam idi. mi aekannattaf. Rodwn heb wynteu. y chennattau aorucpwyt. Dyuot aoruc hitheu. Achamse sidan flamgoch ymdanei. a gwrddorch rudeur am vynwgyl y uorwyn. amererit gwerthuawr yndi arudemu. Me'lynach oed y phenn no

blodeu y banadyl. Gwynnachoed y chnawt nodistrych tonn. Tegach oed y dwylaw ae byssed no channawan gotrwyth o blith man gaean ffynnawn ffynhonws. Nagolwe hebawe mut. nagolwe gwalch trimut nyt oed olwe degach nor eidi. Gwynnach oed y dwyuron no bronn alarch gwynn. Cochach oed y deurud nor ffuon cochaf. y sawl ae gwelei kyflawn vydei oe serch. Pedeir meill onen gwynnyon. auydei yny hol pa fford bynnac y delhei. Ac am hynny y gelwit hi olwen. Dyuot yr ty aoruc. ac eisted geyr llaw kulhwch ar dalueinc. ac ual y gwel y hadnabu. ac y dywawt kulhwch wrthi. Hauorwyn ti agereis. dyuot awnelych gennyf rac eirychu pechawt itti ac y minneu. llawer dyd yth rygereis. Nyallafi dim o hyny. Cret aerchis uyntat im nat elwyf heb y gyghor, kanyt hoedel idaw namyn hyt pan elwyfi gan wr. yssyd yssit hagen cussul arodaf itt os aruolly. Dos di ym erchi i ymtat. Aphobpeth or anotto ef arnat ti y gael. adef y gel aminneu agey. ac ot amheu ef dim mi nys keffy. a dayw itt ordihengy ath uywyt gennyt. Mi a adawaf hynny oll. ac ae kaffaf heb ynteu. Kerdet aoruc hi y hystauell. Kyuodi o honyut wynteu yny hol hi yr gaer. a llad y naw porthawr aod. ar y naw porth. heb disgyryaw un gwr. a naw gauaelgi heb wichaw un. adyuot raedunt aorugant ac yr neuad. Henpych gwell heb wy yspadaden penkawr oduw ac ody. Neu chwitheu pan doethawch. neur doetham y erchi olwen dyuerch y gullwch mab kilhyd mab kelydon wledic. Mae vyingweisson am direitwyr. dyrcheuwch y ffyrch y dan uyn dwy ael adygywdawd ar vyllygeit hyt pan welwyf defnyd vyndaw. Hynny awnaethpwyt. Dowch yma auory chwi ageffwch atdeb. kyuodi ymeith aorugant wy. ac ymauel aoruc yspadaden penkawr yn un or tri llechwaew gwenwynnic oed geir ylaw. ae doddi ar eu hol. ae aruoll aoruc bedwyr ae odif ynteu. agwan yspadaden penkawr trwy anal y garr yngythrymet. y dywawt ynteu. ymendigeit aunwar daw hanbyd gwaeth byth ym ymdaaf gan annwaeret. maldal cleheren ym tostes yr haearn gwenwynnic hwn. boet ymendigeit y gof ae digones. ar eingon y digonet arnei mor dost yw. Gwest aorugant y nos honno heuyt yu ty gustennin heussawr. Yr eil dyd gan uawred. gyrru gwiwgrib ymywn gwall y doethant yr gaer ac y mywn yr neuad. Dywedut aorugant. yspadaden penkawr. dyro in dy uerch dros y hengwedi ae hamwabyr y titheu aedwy gares. ac onys rody dy angheu ageffy amdanci. y dywawt ynteu. hi aephedeir gorhenuam. ae phedwar gorhendat. yssyd vyw ettwa. reit yw im ymgyghor ac wynt. Dybi itti hynny heb wynt. Awn yubwyt. mal y kyudant kymryt aoruc ynteu yr eil llechwaew aod ach y law. ae odif ar eu hol. ae aruoll aoruc menw mab gwaed. ae odif ynteu ae wan yn alauon y dwy uron hyt pan dardawd yr meingeuyn allan. Ymendigeit aunwar daw heb ynteu mal dala gel bendoll ymtostes yr hayarn dur. Poet ymendigeit y ffoc y berwit yndi ar gof ae digones mor dost yw. pan elwyf yu

erbyn allt atuyd ygder dwyuron arnaf weithion. achyllagwst. amynych lysuwyt. Kerdet aorugant hwy y eu bwyt. adyuot y trydyd dyd yr llys. y dywawt yspadaden penkawr. Nasaethutta vi bellach o nyt dy uarw a uynny. mae vygweisson dyrcheuwch y ffyrch vy aelau syrthwys ar aualeu vy llygeit hyt pann gaffwyf edrych ar defnyd uyndaw. Kyuodi aorugant hwy. ac ual y cyuodant. Kymryt aoruc yspadaden penncawr trydyd llechwaew gwennwynic. ae odif ar eu hol. ae aruoll aoruc culhwch. ae odif ynteu ual y rybucheï. ae wan tiwy aual y lygat hyt pan aeth trwy ywegil allan. Ymendigeit anwar daw. hyt tra ymgatter yn vyw hanbyd gwaeth drem vy llygeit pan elwyf yn erbyn gwynt. berwi awnant. atuyd gael penn a phendro arnaf arulaen pob lloer. Poet emendigeit ffoc yt gweirwyt yndi. maldala ci canderawc yw gennyf mal ymgwant yr hayarn gwennwynic hwnn. Mynet o nadunt y eubwyt. Trannoeth y doethant yr llys ac y dywedassant. nasaethutta ni bellach. namyn anaf ac adoet. amerthyrolyaeth yssyd arnat ac auo mwy os mynny. Dyro imi dy uerch. ac onys rody ti ageffy dy agheu ymdeni. Mae y neb yssyd yn erchi vy merchi. dos yma lle ydymwelwyf athi. Kadeir a dodet y danaw wyneb yn wyneb ac ef.

Y dywawt yspadaden penn kawr. ae ti a eirch uy merch i. Mi heb y kulhwch. Cret a uynnaf gennyt na wnelych waeth no gwir arnaf. pangaffwyf anottwyf arnat ti. titheu a geffy vy merch. ti a gehy ynllawen heb kulhwch. notta yr hynn avynnych. Nodaf heb ynteu. a welydi y garth mawr draw. Gwelaf. Diwreidaw hwnnw or dayar auynnaf ae losgi ar wyneb y tir hyt pan uo yn lle teil idaw. ae eredic ae heu yn un dyd ac uot aeduet. a hynny gouot undyd. ac or gwenith hwnnw y mynnaf i gwneuthur bwyt a llynn tymeredic yth neithawr di ti am merchi. a hynny cll auynnaf ywneuthur yn un dyd. Hawd yw gennyf kaffel hynny. kyt tybyckych di na bo hawd. kyt keffych hynny yssyd ny cheffych. amaeth a amaetho y tir hwnnw nac ae digonho mor dyrys yw nyt oes. namyn amaethon uab don. nydaw ef oe uod y gennyt ti. ny elli ditheu dreis arnaw ef. hawd y kaffafi hynny kyt tebyckych di nabo hawd. kyt keffych ditheu hynny yssit nas keffych. Gouannon uab don y dyuot y penn y tir ywaret yr heyrn. ny wna ef weith oe uot namyn y urenhin teithiawc. ny elly ditheu dreis arnaw ef. Hawd yw gennyfi hynny. Kyt keffych di hynny. yssit nas keffych. Deu ychen gwllwyd wnieu yndeu gyt preinyawc y eredic y tir dyrys draw yn wych. nys ryd ef oe uod. ny elly ditheu dreis arnaw ef. Hawd yw gennyf i kaffel hyny. kyt keffych hynny yssit nas keffy. y melyn gwannwyn. ar ych brych yn deu gyt breinawc auynnaf. Hawd yw gennyfi kaffel hynny. Kyt keffych hynny yssit nas keffych. Deu ychen bannawc y lleill yssyd or parth hwnt yr mynyd bannawc. ar llall or parth yma. ac eudwyn y gyt adan yr un aradyr. Sef yw y rei hynny. nyunyaw. apheibaw arithwys duw yn ychen am y

pechawt. Hawd yw gennyf kaffel hynny. kyt ceffych hynny yssit nas ceffych. awely di y keibedic rud draw. Gwelaf. Pan gyuaruum gysseuin amam y uorwyn honno. yd hewyt naw hestawr llinat yndaw nadu na gwyn ny deuth o honaw ettwa.

Ar messur hwnnw yssyd gennyfi ettwa. ar llinat hwnnw a uynnaf i y gaffel y heu yn y tir newyd draw. hyt pan uo ef auo pennlliein gwynn am penn uym merch i ar dy neithawr di. Hawd yw gennyf kaffel hynny kyt tebyckych di nabo hawd. Kyt keffychdi hynny yssit naskeffych. Mel auo chwechach naw mod no mel kynteit. Heb wychi ac heb wenyn yndaw a vynnaf y vragodi y wled. Hawd yw gennyf kaffel hynny. kyt tebyckych di nabo hawd. kib llwyr uab llwyrion yssyd bennllat yndi. kan nyt oes lestyr yny byt adalyo y llyn kadarn hwnnw. namyn hi. nys keffy di hi oe uod ef. ny elly ditheu dreis arnaw ef. Hawd yw gennyf kaffel hynny kyt tebyckych di nabo hawd. Kyt keffych hynny yssit naskeffych. Mwys gwydneu garanhir. kyt delei ybyt ygyd bop trinaw wyr. y bwyt avynno pawb wrth y uryt a geiff yndi. mi avynaf vwytta o honno y nos y kysco vym merch gynnyt. nys ryd ef oe uod y neb. ny elly ditheu y dreissaw ef. Hawd yw gennyf gaffel hynny kyt tebyckech di nabo hawd. kyt keffych hynny. yssit nas keffych. Corn gwlgawt gogodin y wallaw arnam y nos honno. nysryd ef oeuod ny elly ditheu y dreissaw ef. Hawd yw gennyf kaffel hynny. kyt tebyckych nabo hawd kyt keffych hynny yssit nas keffych. Telyn teirtu ymdidanu y nos honno. panuo da gan dyn canu awna e hunan. pan uynner idi tewi hi a teu. a honno nysryd ef oe uod. ny elly ditheu dreis arnaw ef. Hawd yw gennyf kaffel hynny. kyt tebyckych nabo hawd. kyt keffych hynny yssit nas keffych. Peir diwrnach wydel. maer odgar mab aed brenhin iwerdon. y uerwi bwyt dyneithawr. Hawd yw gennyf kaffel hynny kyt tebyckych nabo hawd. Kyt keffych hynny yssit naskeffych. Reit ymi olchi vumpenn ac eillaw uymbaraf. yskithyr yskithyrwyn penn beird a uynnaf y eillaw ym. ny hanwyf well o honaw onyt yu uyw y tinnir oe penn. Hawd yw gennyf kaffel hynny kyt tebyckych nabo hawd. kyt keffych hynny yssit na keffych. Nyt oes yny byt ae tynho oe penn namyn odgar mab aed brenhin iwerdon. Hawd yw gennyf kaffel hynny. Kyt keffych hynny yssit nas k'. Nyt ymdiredaf y neb o gadw yr yskithyr namyn ygado o prydein. trugein cantref prydein yssyd y danaw ef. ny daw ef oe uod oe deyrnas. ny elly ditheu dreis arnaw ynteu. Hawd yw gennyf kaffel hynny kyt tebyckych nabo hawd. kyt keffych hynny yssit naskeffych. Reit yw ym estynnu uymblew wrth eillaw ym. nyt estwng vyth ony cheffir gwaet ywidon ordu. merch y widon orwenn o pennant gouut yggwrthtir uffern. Hawd yw gennyf kaffel hynny Kyt tebyckych na bo ha'. kyt k'. Ny mynnaf y gwaet onyt yndwym y keffych. nyt oes lestyr yny byt agattwo gwres y llynn adotter yndaw. namyn betheu

gwidolwyngorr agatwant gwres yndunt. pan dotter nny dwyrein yndut y llynn. hyt pan deler yr gorllewin. nys ryd ef oe uod. ny ellyditheu y dreissaw ef. Hawd yw gennyf & ceta'. kyt k'. llefrith awhennychrei. nyt aruaeth kaffel llefrith y bawp nes kaffel botheu rinnon rin barnawt. ny sura uyth llynn yndunt. nys ryd ef oe uod y neb ni elly ditheu dreis arnaw ef. Hawd yw gennyf k'. kyt ceffych h'. Nyt oes nnybyt crib agwelleu y galler gwrteith uyggwallt ac wynt rac y ryunet. namyn y grib ar gwelleu yssyd y rwng deuglust twrch trwyth mab tared wledic. nys ryd ef oe uod & ceta'. Hawd yw gennyf kyt ceffych hi &c. Ny helir twrch trwyth nny gaffer drutwyn keneu greit mab eri. Hawd yw. kyt keff'. Nyt oes nny byt cynllyuan adalyo arnaw. namyn cynllyuan cwrs cant ewin Hawd yw g' cyt ceff' h'. Nyt oes torch nny byt adalhyo y gynllyuan. namyn torch canhastyr canllaw. Hawd &c'. cyt ceffych hynny yssit nas ceffych. Kadwyn kilyd canhastyr y dala y dorch gyt ar gynllyuan. Hawd yw. cyt k'. &c'. Nyt oes nny byt cynyd adigono cynnydaeth ar ci hwnnw. onyt mabon mab modron, a ducpwynt yn teir nossic y wrth y vam. ny wyspadu y mae. na pheth yw ae byw ae marw. Hawd yw. Kyt. k'. &c'. Gwynn mygdwn march gwedw cynebrwydet yw athonn. y dan vabon y hela y twrch trwyth. nysryd ef oeuod. &c. Hawd yw g'. k'. ceffych h'. ny cheffir mabon uyth cany wys pa tu y mae. nes caffel ei doel y gar cysseuin mab aer. canys diudyawc uyd nny geissaw. ygeuynderw yw. Hawd &c. cyt k'. Garselit wydel peuncynyd iwerdon yw. ny helir twrch trwyth vyth hebddaw. Hawd yw. cyt k'. Kynllyuan o uaryf dissull uarchawc. canyt oes adalhyo y deu geneu hynny. namyn hi. ac ny ellir mwyunyant ahi. onyt ac ef ynvyw y tynnir oe uaryf. ae guithyaw achyllellbrenneu. nyat oe uywyt gwneuthur hynny idaw. ny mwynha hitheu yn uarw canys breu vyd. Hawd yw. cyt ceffych hynny &c. Nyt oes cynyd nny byt a dalyo y deugeneu hynny. namyn cynedyr wyllt mab hettwn glafyrawc. gwylltach uaw mod yw hwnnw nor gwydlwdyn gwylltaf nny mynyd. nys ceffy di ef byth. na merch inneu nys ceffy. Hawd yw g cyt ceff. Ny helir twrch trwyth nes caffel gwynn uab nud. ary dodes duw aryal dieuyl anuwuyn yndaw rac rewinyaw y bressen. ny hebcorir ef odyo. Hawd yw. cyt k'. Nyt oes uarch nny byt a dycco y wynn y hela twrch trwyth. namyn du march moro oerfedawc. Hawd yw cyt. k'. h'. Nes dyuot galenuhin urenhin ifreine ny helir twrch trwyth vyth hebddaw. hagyar yw idaw adaw ydeyrnas yr ot ti. ac nydaw ef vyth yma. Hawd yw. cyt k'. h'. Ny helir twrch trwyth vyth heb gaffel mab alun dyuet. gell-lyngwr da yw hwnnw. Hawd yw. Kyt &c. Ny helyr twrch trwyth vyth nes caffel anet ac aethlem. cynebrwydet ac awel wynt ynt. ny ellyngwynt eiryoet ar lwdyn nysledynt. Hawd &. cyt ceff h'. Arthur ae gedymdeithon y hela twrch trwyth. gwr cyuoethawc yw. ac ny daw ef yrot ti. ny elly ditheu

dreis arnaw ef. Hawd &c. Kyt p. &c. Ni ellir hela twrch trwyth vyth nes kaffel bwlch a chyuwlech wyryon kledyf diuwlech. teir gorwenn gwen eu teir yscwyd. Tri gouan gwan eu tri gwaew. Tri benyn byn eu tri chledyf. Glas. Gleissic. Clerssac. eu tri chi. Call. Cuall. Cauall. eu tri meirch. hwyrdydwc. a Drwcdydwc. allwyrdydwc. eu tair gwraged. Och agaram. adiaspat. eu teir gwreichon. lluchet. avynet ac cissiwet. eu teir merchet. Drwc. agwaeth. agwaethaf oll. eu teir morwyn. Y trywyr hynny aganant eu cym. aphawp or rei ereill adiaspedant. nny debycko pawb dygwydaw y nef ar y dayar. Hawd yw. &c. kyt k'. Cledyf wrnach gawr. nyledir vyth. namyn ac ef. nys ry ef oe uod nac ar werth nac yn rad. ny elly ditheu dreis arnaw ef. Hawd yw. &c. kyt keffych. Anhuned heb gyscu nos ageffy yn keissaw hynny. ac nys keffy. am merch inneu nys keffy. Meirch agaffaf inneu amarchogaeth. am harglwyd gar arthur ageiff imi hynny oll. ath verch ditheu agaffaf i. ath eneit a golly ditheu. Kerda mi ragot. ny oruyd arnat nabwyt nadillad ym merch i trageissych hynny. Aphangeffych hyny oll or anoetheu vyperch inneu ageffy yn neu itt.

Kerdet aorugant hwy y dyd hwnnw educher. ynyuyd kaer uawr awelynt. vwyhaf or byt. Nachaf wr du mwy oed no thrywyr nny byt hwnn yn dyuot or gaer. ac ydywedassant wynteu wrthaw. Pan deuy di wr. or gaer awelwch chwi racco. Pieu y gaer heb wynt. Meredic awyr ywch chwi. nyt oes nny byt ny wypo pieu y gaer honn. wrnac gawr bieu. Py uoes yssyd y osp aphellennic ydiskynnu nny gaer honn. Haunben duw ach nodho. ny deuth gwestei eiryoet o honei ae vywyt gantaw. ny edir neb idi namyn adycko y gerd gantaw. kyrchu y porth aorugant. heb y gwrhwr gwalstawt ieithoed. Aoes borthawr. Oes. a thitheu ny bo teu dy dauawt yth benn. pyrac y kyuerchy di. Agor y porth. Nac agoraf. Py ystyr nas agory di. kyllell aedyw ymbwyt allynn ym bual. ac amsathyr yn neuad wrnach gawr. namyn y gerdawr adycko y gerd y mywn nyt agorir yma heno bellach. heb y kei yna. Y porthawr y mae kerd gennyfi. Pa gerd yssyd gennyt ti. Yslipanwr cledyueu goreu nny byt wyf i. Mi aaf y dywedut hynny y wrnach gawr. ac adygaf atdeb itt. Dyuot aoruc y porthawr y mywn. ac y dywawt wrnach wrthaw. Chwedleu porth y gennyt. Ys ydynt gennyt kyweithyt yssyd yndrws y porth auynnynt dyuot y mywn. aouynneist di aoed gerd gantunt hwy. Gouynneis heb ef. ac uno nadunt adywawt gwybott yslipanu cledyueu ohonaw ynda. aoed reit ynni wrth hwnnw. Ysgwers yd wyf ynkeissaw aolchei vygeledyf. ac nys keueis. Gat hwnnw y mywn. kan oes gerd gauthaw. Dyuot aoruc y porthawr ac agori y porth. adyuot kei y mywn ehun. achyuarch gwell aoruc ef y wrnach gawr. Kadeir adodeit y danaw geyr bron gwrnach. ac y dywawt wrnach wrthaw. Hawr ae gwir a dywedir arnat ti. y gwdost yslipanu cledyueu. Mi awnn hynu

yn da heb y kei. Dwyn cledyf wrnach awnaethpwyd attaw. Kymryt agalen gleis aoruc kei y dan y gesseil. a gouyn ordeu pwy oed oreu gantaw. ae gwynseit. ae grwmseit yr hwnn auo da gennyd ti malpei teu uei gwna arnaw. Glanhau aoruc hanner y lleill gyllell idaw. ae rodi yny law aoruc. areinc dy uod di hynny. Oed gwell gennyf noe yssyd ym gwlat pei bei oll ual hynn. Dyhed abeth bot gwr kystal athi heb gedymdeith. Oi awrda ymi gedymeith. kynnydyeko y gerd honn. Pwy yw hwnnw. aet y porthawr allan. ami adywedaf idaw y arwydon. Penn y waew adaw yar y baladyr. ac yssef adygyrch y gwaet yar y gwynt. ac adiskyn ar y paladyr eilweith. agori y porth awnaethpwyd. a dyuot bedwyr y mywn. ac y dywawt kei. budugawl yw bedwyr. kynny wypo y gerd honn. Dadleu mawr auu gan y gwyr aoad allan amdyuot bedwyr ahei y mywn. adyuot gwas iauanc oed gyt ac wynt y mywn. un mab custennin heussawr. Sef awnaeth ef aegydyndeithon ygglyn wrthaw dyuot dros y teir katlys. hyt pann yttoed y mwyn y gaer. y dywedassant y gedymdeithon wrth uab custennin. ti aorugost hynn. goreu dyn wyt. Ac o hynny allan y gelwit ef Goreu mab custennin. Gwasgaru a orugant wy y eu llettyeu. mal y keffynt llad eu llettywyr. heb wybod yr kawr. Y cledyf a daruu y wrteith. aerodi aoruc kei yn llaw wrnach gawr. y malphei y edrych a ranghei y uod idaw y gweith. ac y dywawt y kawr. Da yw gweith. a ranc bod yw gennyf. Y dywawt kei. dy wein di a lygrwys dy gledyf. dyro di y mi y diot y kyllell brenneu o honci. ac y wneuthur creill o newyd idaw. Achymryt y wein o honaw. ar cledyf yny llaw arall. adyuot o honaw uchpenn y kawr mal pei y cledyf adottei yny wain. Y ossot aoruc yuteu ympenn y kawr allad y benn y ergyt y arnaw. Diffeithaw y gaer. a dwyn a vynnassant orda ar tlyssen. Ac ygkeuenn yr undyd ympenn y vlwydyn ydeuthant i lys Arthur a chledyf wrnach gandunt.

Dywedut awnaethant y arthur y ual y daruu udunt. Arthur adywawt. pa beth yssyd iawnaf y geissaw gyntaf or annoetheu hynny. Iawnaf yw heb wynteu ceissaw mabon uab modron. ac nyt caffel arnaw nes caffel eifloel uab aer y gar. yn gyntaf. Kyuodi aoruc arthur a milwyr ynys prydein gantaw y geissaw eidoel. a dyuot aorugant hyt yn rackaer gliui yn y lle yd oed eidol ygkarchar. Scuyll aoruc gliui ar vann y gaer. Ac y dywawt arthur py holydi ymi pryt nam gedy yny tarren honn. nyt da im yndi ac nyt digrif. nyt gwenith. nyt ceirch im. kynny cheissyech ditheu wneuthur cam im. Arthur adywawt. Nyt yr drwe itti ydeuthum i yma. namyn y geissaw y karcharawr yssyd gennyd. mi arodaf y carcharawr itti ac ny darparysw'n y rodi yneb. ac ygyt a hyuny vy nerth au porth ageffy di. Y gwyr adywawt wrth arthur. arglwyd dos di adref ny elly di uynet ath lu y geissaw peth mor uan ar rei hynn. Arthur adywawt. Gwrhwr gwalstawt ieithoed itti y mae iawn mynet yr neges honn. yr holl ieithoed yssyd

gennyt. a chyfyeith wyt ar rei or adar ar anniucilet. Eidoel itti ymae iawn mynet y geissaw dy gyuenderw yw. gyt am gwyr i. Kei abedwyr. gobeith yw gennyf y neges yd eloch ymdanei y chaffel. Swch im yr neges honn. Kerdet aorugant raedunt hytt att vwyaleh gilgwri. Gouyn aoruc gwrhwr idi yrduw a wdost ti dim yrwrth uabon uab modron. aduepwyt ynteir nossie ody rwng y van ar paret. Yuwyalch adywawt. pan deuthum i yma gyntaf. eingon gof aoad yma. a minneu ederyn ieuanc oedwn. ny wnaethpwyt gweith arnei. namyn tra uu uyg-geluin arnei bob ucher. hediw nyt oes kynmeint knenen o honei heb dreulaw. dial duw arnaf ochigleu i dim yrwrth y gwr a ovynnweh chwi. Peth yssyd iawn hagen. adlyet ymi y wneuthur y gennadeu arthur mi ae gwnaf. Kenedlaeth uileit yssyd gynt a rithwys duw nomi. mi aaf yu gyuarwyd ragoch yno. Dyuot aorugant hyt ynllle yd ced karw redynure. Karw redynure yma ydoetham ni attat. cennadeu arthur kany wdam aniucil hyn no thi. dywet. awdost di dim y wrth uabon uab modron. aduepwyt yndeir nossie y wrth y uam. Y carw a dywawt. Pandearthum i yma gyntaf. nyt oed namyn vureit o bop tu ympenn. ac nyt oed yma goet namyn un o gollen derwen. ac y tyfwys honno yndar can keing. ac ydygwydwys ydar gwedy hynny. a hediw nyt oes namyn wystyn coeh o honei. yr hynny hyt hediw ydwyf i yma. ny chigleu i dim or neb a ouynnweh chwi. Miui hagen auydaf gyfarwyd yweh canys cennadeu arthur yweh hyt lle y mae aniucil gynt arithwys duw no mi. Dyuot aorugant. hyt lle yd oed euan ewm cawlwyt. euan ewm cawlwyt yma y mae kennadeu arthur. awdost di dim yrwrth vabon vab modron aduepwyt &c. Pei asgwypwn ni aedywedwn. Pan deuthum i yma gyntaf. y ewm mawr awelweh glynn coet oed. ac ydeath cenedlaeth o dynyon idaw. ac y dinawyt. ac y tyuwys yr eileoet yndaw. ar trydyd coet yw hwnn. an inneu neut ydynt yn gynyon boneu vy esgyll. yr hynny hyt hediw. ny chiglefi dim or gwr aouynnweh chwi. mi hagen auydaf gyuarwyd y genadeu arthur. nny deloch hyt lle y mae yr anniucil hynaf yssyt nny byt hwnn. a mwyaf adreigyl. eryr gwern abwy. Gwrhwr adywawt. Eryr gwern abwy ni a doetham gennadeu arthur attat. youyn itt awydost dim y wrth vabon uab modron adue. &c. Yr eryr adywawt. mi adeathum yma yr yspell o amser. aphan deuthum yma gyntaf. maen aoad ym. ac yar y bein ef ypigwn ysyr bop ucher. weithon nyt oes dymued nny uchet. yr hynny hyt hediw ydwyf i yma. ac ny chiglefi dim y wrth y gwr aouynnweh chwi. onyt un treigyl ydeathum y geissaw uymbwyt hyt yn llynn llyw. aphan deuthum i yno y lledeis uygeryuangheu y mywn ehawe odebygu bot vymbwyt yndaw wers vawr. ac y tynnwys ynteu ui hyt yr affwys. hyt pamm uu abreid im yndiane y gantaw. Sef awneuthum inheu mi am holl garant mynet yggwryf wrthaw y geissaw ydiuetha. Kennadeu a yrrwys ynteu y gymot ami. adyuot aoruc ynteu attaf fi y diot dee tryuer adeu-

geint oe geuyn. onyt ef awyr peth or hynn ageisswch chwi. ny wnn i neb ae gwypo. mi hagen auydaf gyuarwyd ywech hyt lle y mae. Dyuot aorugant hyt lle yr oed. Dywedut aoruc yr eryr. Ehawc llyn lliw mi adeuthum attat. gan gennadeu arthur youyn awdost dim ywrth vabon uab modron aduepwyt yn teir nossic y wrth y uam. Y gymeint awypwyfi mi adywedaf. Gan bob llanw ydaf i ar hyt yr auon uehot hyt pandelwyf hyt ym ach mur kaerloyw. ac yno y keueis i. ny cheueis cirmoet o drwe y gytueint. ac mal y crettoch doet un ar uyndwy ysgwyd i yma o honawch. ac ysef y daeth ar dwy ysgwyd yr ehawc. kei a gwr hyr gwalstawt icithoed. ac y kerdassant hyt panndeuthant am y uagwyr ar karcharawr. nny uyd cwynuan agriduan aglywynt am y uagwyr ac wy. Gwrhryr adywawt. pa dyn agwyn nny maendy hwn. Oiawr yssit le idaw y gwynaw y neb yssyd yma. Mabon uab modron yssyd yma ygcarchar. ac ny charcharwyt neb kyndostet ynullwrw carchar ami. nacharchar llud llaw ereint. neu garchar greit mab eri. Oes obeith gennyt ti ar gaffel dy ellwng ac yr eur ae yr aryant ae yr golut pressenawl. ae yr catwent ac ymlad. Ygymeint o honof i agaffer a geffir drwy ymlad. Ymchoelut ohonunt wy odyno. adyuot hyt lle ydoed arthur Dywedut o honunt y lle yd oed mabon uab modron ygarchar. Gwyssyaw a oruc arthur milwyr yr ynys honn. amynet hyt ygkaer loyw y lle yd oed mabon ygkarchar. mynet aoruc kei abedwyr ardwyr ysewyd y pysc. tra yttoed vilwyr arthur yn ymlad ar gaer. rwygaw o gei y uagwyr achymryt y carcharawr ar y geuyn. ac ymlad ar gwyr ualkynt. atref y doeth arthur a mabon gantaw ynryd.

Dywedut aoruc arthur. beth iawnhaf weithon y geissaw yngyntaf or annoethu. Iawnhaf yw keissaw deu geneu gast rymhi. awys heb yr arthur pa du y mae hi. Y mae heb yr un yn aber dengledyf. Dyuot aoruc arthur hyt ynty tringat yn aber cledyf. agouyn aoruc wrthaw. aglyweist ti y wrthi hi yma. Py rith y mae hi. ynryth bleidast heb ynteu. ac deugeneu genthi yd ymda. hi a ladawd vy ysgrybul ynvynych. ac y mae hi issot yn aber cledyf y mywn gogof. Sef aoruc arthur gyrru ymryt wenn y long ar uor. ac ereill ar y tir y hela yr ast. ae chylehynu uelly hi ae deugeneu. ac eudat rithaw o duw y arthur yneurith ehunein. Gwascaru aoruc llu arthur bob un bob deu.

Ac ual ydoed gwythyr mab greidawl. dydgweith ynkerdet dros vynynd. y clywei leucin agridua girat agarscon oed eu clybot. achub aoruc ynteu parth ac yno. ac malydeuth yno. dispeilaw cledyf awnaeth. allad y twynpath wrth y dayar. ac ediffryt uelly rae y tan. ac y dywedassant wynteu wrthaw Dwe uendith duw ar einym gennyt. ar hynn ny allo dyu vyth ywaret. ni adown y waret itt. Hwynthwy wedy hynny adoethant ar naw hestawr llinat. anodes yspadaden pennkawr ar culhwch ynuessuredic oll heb dim yn eisseu o honunt eithyr un llinhedyn. ar morgrugyn cloff adoeth ahwmw kynn y nos.

Pan yttoed gei abedwyr yn eisted ar benn pumlumon, ar garu gwylathyr ar wynt mwyaf yny byt, edrych awnaethant yneukylch, ac wynt awelynt vwe mawr parth ar deheu ym pell y wrthunt heb drossi dim gan y gwynt, ac yna y dywawt kei, myn llaw vyingkyueillt, sylldy racco tan rysswr. Bryssyaw aorug-ant parth ar mwc, adynessau parth ac yno dan ym ardisgwyl obell, yny uyd dillus uarruawe yndeuaw baed coet. Llyna hagen yrysswr mwyaf aochelawd arthur eiryoet. Heb y bedwyr yna wrth gei, ac hatwaenost di ef, atwen heb y kei. Llyna dillus uarruawe nyt oes yny byt kynllyuan adalyo drutwyn, keneu greit uab eri, namyn kynllyuan o uaryf y gwr awely di racko, ac ny mwynhaa heuyt onyt ynvyw y tynnir achyllell preneue oc uaraf, kanys breu uyd yn uarw. Mae ankynghor minneu wrth hynny heb y bedwyr. Gadwn ef heb y kei y yssu y wala or kie, a gwedy hynny kyseu awna. Tra yttoed ef yn hynny y buant wynteu yngwneuthur cyllell-brenneu. Panwybu gei yndiheu y uot ef yakyseu, gwneuthur pwll aoruc dan y draect mwyhaf yny byt, atharaw dyrnawt arnaw au-ueitrawl y ucint aoruc, ac wascu yny pwll hyt pandaroed udunt y gnithiaw yn llwyr ar kylllellbrenneu y uaraf, agwedy hynny y lad yngwbyl. Ac odynd y deuthant eldeu hyt ygkelli wie ygkernyw, achynllyuann o uaryf dillus uaruawe gantunt, ac rodi aoruc kei ynllaw arthur, ac yna y kanei arthur yr egllyn hwnn.

Kynllyuan aoruc kei.

O uaryf dillus uab euei.

Pei iach dy anghen nydei.

ac am hynny y sorres kei hyt pan uu abreid yuilwyr yr ynys honn tangneuedu y rwng kei ac arthur. Ac eissoes nac yr anghyfnierth ar arthur, nac yr llad ywyr, nyt ymyrrwys kei yn reit gyt ac ef o hynny allan. Ac yna y dywawt arthur. Beth iawnaf weithon y geissaw or annoethen, Iawnaf yw keissaw drutwyn keneu greit uab eri, kynno hynny yehydie ydaeth creidylat uereh lud law ereint gan wythyr mab greidawl, achynnkyscu genthi dyuot gwynn uab nud ac dwyn y treis, kynnnullaw llu o wythyr uab greidawl, adyuot y ymlad a gwynn mab nud, agoruot o wyn, adala greit mab eri, aglinneu eiltaran, agwrgwst letlwm, a dyfnarth y uab, adala openn uab nethawe, anwython, a chyledyr wyllt y uab, alladnwython aoruc adied y gallon, a chymell ar kyledyr yssu callon y dat, ac am hynny, ydaeth kelydyr yggwyllt. Clybot o arthur hynny, adyuot hyt y goglet, adyuynnu aoruc ef gwynn uab nud attaw, agellwng y wyrda y gantaw oc garehar, agwneuthur tangneued y rwng gwynn mab nud agwythyr mab greidawl. Sef tangneued awnaethpwyt, gadu y uorwyn yn ty y that yndiuwyn or dwy barth, ac ymlad bob duw kalan mei uyth hyt dydbrawt or dyd hwnnw allan, y rwng gwynn agwythyr, ar un a orffo o nadunt dydbrawt kymeret y uorwyn. Agwedy kymot y gwyrda hynny uelly, y kauas arthur mygdwn march

gwedw. achynllyuan cwrs cant ewin. Gwedy hynny ydaeth arthur hyt yn llydaw. a mabon uab mellt gantaw. agware gwallt euren y geissaw deu gi glythmyr lewic. a gwedy eu kaffel yd aeth arthur hyt yggorllewin iwerdon y geissaw gwrgi seuri. ac odgar uab aed brenhin iwerdo gyt ac ef. ac odyne ydeuth arthur yr gogled. ac y delis kyledyr wyllt. ac yd aeth yskithyrwyn pennbeird. ac ydaeth mabon mab mellt adeugi glythuyr ledewic ynnylaw. adrutwyn geneu greit mab eri. ac ydaeth arthur ehun yr erhyl. a chauall ki arthur yny law. ac yd esgynnwys kaw o brydein ar lamrei kassec arthur. ac achub yr kyfuarch. Ac yna y kymerth kaw o brydein nerth bwyellic. ac ynwyeh yr trebelit y doeth ef yr baed. ac y holldes y benn ynneu hanner. achymryt aoruc kaw yr ysgithyr. Nyt y kwn anottayssei yspadaden ar gullwch aladawd y baed. namyn kauall ki arthur ehun.

Agwedy llad ysgithyrwyn bennbeid yd aeth arthur aeniuer hyt yngkelliwic yngkernyw. ac odyne y gyrrwys menw mab teirgwaed y edrych a uei y tlysseu y rwng deuglust twrch trwyth. rac salwen oed uynet y ymdaraw ac ef. ac onybei y tlysseu gantaw. diheu hagen oed yuot ef yno. neur daroed idaw diffeithaw traean iwerdon. Mynet aoruc menw y ymgeis ac wynt. sef ygwelas wynt ynesgeir oeruel yn Iwerdon. ac ymrithaw aoruc menw yn rith ederyn. adisgynnu awnaeth uch penn ygwel. acheissaw ysglyffyaw un or tlysseu y gantaw. ac ny chauas dim hagen namyn un oe wrych. Kyuodi aoruc ynteu yn wychydrda. ac ymysgytyaw hyt pan ymordiwedawd peth or gwenwyn ac ef. Odyne ny bu dianaf menyw uyth. Gyrru o arthur gennat gwedy hynny ar odgar uab aed brenhin iwerdon. y erchi peir diwrnach wydel maer idaw. Erchi o otgar idaw yrodi. y dywawt diwrnach. duw awyr pei hanffei. well o welet un olwe arnaw nas kaffeid adyuot o gennatanac genthi o Iwerdon. Kychwynnu aoruc arthur ac ysgawu niuer ganthaw amynet ymbrytwen y long. a dyuot y ywerdon. adygyrchu ty diwrnach wydel aorugant. Gwelsant niuer otgar eu meint. agwedy bwytta o nadunt ac yuet eu dogyn. erchi y peir aoruc arthur. Y dywawt ynteu pei asrodei y neb. y rodei wrth eir odgar brenhin Iwerdon. Gwedy lleueryd nac udunt. Kyuodi aoruc bedwyr ac ymauel yn y peir. aedodi ar geuyn hygwyd gwas arthur. brawt oed hwnnw unuam y gachamwri gwas arthur. Sef oed y swyd ef yn wastad ymdwyn peir arthur a doddi tan ydanaw. Meglyt olenlleawe wydel ygkaletwleth ac ellwng ar y rot. allad diwrnach wydel ac niuer achau. Dyuot lluoed Iwerdon ac ymlad ac wy. agwedy ffo y lluoed achlan. mynet arthur ac wyr yn eu gwyd yny llong. ar peir yn llawn o swllt iwerdon gantunt. adiskynnu ynty llwyden mab kel coet ymport kerdin yndyuet. ac yno y mae messur y peir. Ac yna y kynnullwys arthur aod o gynifywr ynteir ynys p'rydein. ac thair rac ynys. ac aod ynffreinc allydaw. anormandi agwlat yr haf. ac aod o gicwr dethol. a march clotuawr. ac

ydaeth ar niweroed hynny oll hyt yn iwerdon. ac y bu ouyn mawr ac ergryu rac daw yn Iwerdon.

Agwedy disgynnu arthur yr tir. dyuot seint Iwerdon attaw y erchi nawd idaw. ac y rodes ynteu nawd udunt hwy. ac yrodassant wynteu eu bendith idaw ef. Dyuot aoruc gwyr iwerdon hyt att arthur arodi bwyttal idaw. Dyuot aoruc arthur hyt yn esgeir oeruel yn Iwerdon. yny lle ydoed twrch trwyth. ae seithlydyn moch gantaw. gellwng kwn arnaw o bop parth. y dyd hwnnw educher yd ymladawd y gwydyl ac ef. yr hynny pymhet ran y iwerdon a wnaeth yndiffeith. athrannoeth ydymladawd teulu arthur ac ef. namyn agawssant odrwe y gantaw. ny chawssant dim o da. y trydyd dyd yd ymladawd arthur ehun ac ef naw nos. a naw nieu. ny ladawd namyn un parchell oe uoch. Gouynnwys y gwyr y arthur peth oed ystyr yr hwch hwnnw. y dywawt ynteu. brenhin uu. ac am y bechawt yrithwys duw ef yn hwch. Gyrru awnaeth arthur gwrhwr gwalstawt ieithoed. y geissaw ymadrawd ac ef. Mynet aoruc gwrhwr yrith ederyn. adisgynnu a wnaeth vchben y wal ef ae seithlydyn moch. a gouyn aoruc gwrhwr gwalstawt ieithoed idaw. Yr y gwr ath wnaeth ar y delw honn. or gellwch dywedut. y harchaf dyuot un ohonawch y ymdidan ac arthur. Gwrtheb awnaeth grugyn gwrych creint. mal adaued aryant oed ywrych oll y fford y kerdei argoet ac aruaes y gwelit ual y llithrei y wrych. Sef atdeb a rodes grugyn. myn y gwr angwuaeth ni ar y delw honn. ny wnawn. ac ny dywedwn dim yr arthur. oed digawu odrwe awnaethoed duw ynni. angwneuthur arydelw hon. kynny delewch chwitheu y ymlad ani. mi adywedaf ywch ydymlad arth^r am y grib ar ellyn ar gwelleu yssyd rwng deuglust twrch trwyth. Heb y grugyn hytt pann gaffer y eneit ef yngyntaf. ny cheffir y tlysseu hynny ar boreu auory y kychwynnwmi odyma. ac ydawn y wlat arth^r. ar meint mwyhaf a allom ni odrwe awnawn yno. Kychwyn aorugant hwy ar y mor parth a chymry. ac y dauth arthur ae luocd ae ueirch ae gwn ymprytwen. atharaw lygat ymwelet ac wynt. Disgynnu awnaeth twrch trwyth ymport cleis yndyuet. Dyuot aoruc arthur hyt ymmynyw y nos honno. Trannoeth dywedut y arthur eu mynet heibaw. ac ymordiwes aoruc ac ef yn llad gwarthec kynnwas kwrr y uagyl. agwedy llad aoed yndeugledyf odyn amil kynndyuot arthur. Orpandenth arth^r. y kychwynnwys twrch trwyth odyo hyt ympreseleu. Dyuot arthur alluoed y byt hyt yno. Gyrru aoruc arthur y wyr yr erhyl. Ely. athrachmyr. adrutwyn keneu greit mab eri ynylaw ehun. Agwarthegynt uab kaw yghongyl arall. adeugi glythmyr letewic ynylaw ynteu. a bedwyr a chauall ki arthur ynylaw ynteu. a restru aoruc y milwyr oll odeutu nyuer.

Dyuot tri meib cledyf diwlwch. gwyr agauas clot mawr ynlad ysgith-
rwynt pennbeid. ac yna y kychwynnwys ynteu olynny nyuer. ac y doeth y gwm

kerwyn. ac y rodes kyuarth yno. ac yna y lladawd ef bedwar rysswr y arthur. gwarthegydd mab kaw atharawc allt clwyd. arcidwn uab eli atuer. ac iscouan hael. agwedy llad y gwyr hynny. y rodes yr eil kyuarth udunt yny lle. ac y lladawd gwydre uab arthur. agarselit wydel. aglew uab yscawt. ac iscawyn uab panon. ae doluryaw ynteu yna awnaethpwyt. ar bore ymbronny ydyd drannoeth yd ymordiwedawd rei or gwyr ac ef. ac yna y lladawd huandaw. agogigwr. aphennpingon. tri gweis glewlwyd ganaeluwyr. hyt nasgwydyat duw was yny byt ar y helw ynteu. eithyr llaesgeuyn ehunan gwr ny hanoed well neb ohonaw. ac y gyt a hynny y lladawd llawer owyr y wlat. a glwydyn saer pensaer y arthur. ac yna yd ymordiwedawd arthur ympelumyawe ac ef. ac yna y lladawd ynteu madawc mab teithyon. agwyn mab tringat mab neuet. ac ciryawn penllorau. Ac odynd y daeth ef hyt yn abertyvei. ac yno y rodes kyuarth udunt. ac yna y lladawd ef kyulas mab kyan. agwilenhin breinfreinc. odynd yd aeth hyt ygglynn ystu. ac yna yd ymgollasant y gwyr ar cwn ac ef. Dyuyndu aoruc arthur gwyn uab nud attaw. agouyn idaw awydyat ef dim ywith twrch trwyth. y dywawt ynteu uas gwydyat. y hela y moch yd aeth y kynnydyon yna holl hyt yn dyffryn llychwr. ac ydigribywys grugyn gwallt ereint udunt. a llwydawe gouynnyat. ac y lladass y kynnydyon hyt na diengis dyn yn vyw o nadunt. namyn un gwr. Sef aoruc arthur dyuot ae luoed hyt lle ydoed grugyn a llwydawe. a gellwng yna arnadunt a oed ogy rynydydoed yn llwyr. ac wrth yr awr adodet yna ar kyuarth. ydoeth twrch trwyth ac y diffyrthwynt. ac yr pandaethoedynt dros uor iwerdon. nyt ymwelsei ac wynt hyt yna. Dygwydaw awnaethpwyt yna agwyr a chwn ainaw. ymrodi y gerlet o honaw ynteu. hyt ym mynyd amanw. ac yna y llas banw oeuoch ef. ac yna yd aethpwyt eneit dros eneit ac ef. ac y lladwyt yna twrch llawin. ac yna y llas arall oe voch. gwys oed y enw. ac odynd ydaeth hyt yn dyffryn amanw. ac yno y llas banw a bennwic. Nyt aeth odynd gantaw oe uoch ynywyw. namyn grugyn gwallt ereint. a llwydawe gouynnyat. Or lle hwnnw yd aethant hyt yn llwch ewin. ac ymordiwedawd arthur ac ef yno. Rodi kyuarth a wnaeth ynteu yna. ac yna y lladawd ef echel uordwyd twll. ac arwyli eil gwydawe gwyr. allawer o wyr a chwn heuyt. ac y daethant odynd hyt yn llwch tawy. Yscar awnaeth grugyn gwrych ereint ac wynt yna. ac ydaeth grugyn odynd hyt yndintywi. ac odynd yd aeth hyt ygkeredigyaw. ac eil. athrachmyr gantaw. a lliaws gyt ac wynt heuyt. ac ydoeth hyt ygarth gregyn. ac yno y llas llwydawe gouynnyat yny mysc. ac y lladawd ruduyw rys. a llawer gyt ac ef. ac yna ydaeth llwydawe hyt ynystrat yw. ac yno y kyuaruu gwyr llydaw ac ef. ac yna y lladawd ef hirpeissawe brenhin llydaw. a llygatyrd emys agwrbothu. ewythred arthr vrodyr y uam. ac yna y llas ynteu. Twrch trwyth aeth yna yrwng tawy ac euyas. Gwyssyaw kernyw adyfeint o Arthur yny

erbyn hyt yn aber hafren. a dywedut aoruc arthur wrth vilwyr yr ynys honn. Twrch trwyth a ladawd llawer om gwyr. myngwrhyt gwyr nyt ami yn uyw yd aho ef y gernyw. nys ymlityafi ef bellach. namyn mynet eneit dros eneit ac ef a wnaf. Gwnewch chwi awnelhoch. Sef adaruu o gyghor gantaw ellwng kat o uarchogyon. achwn yr ynys gatynt hyt yn euys. ac ymchoelut odyo hyt yn hafren. ae ragot yno ac a oed o vilwyr prouedic ynyr ynys honn. ae yrru angheu yn angheu yn hafren. amynet a wnaeth mabon uab modron gantaw ar wynn mygdon march gwedw yn hafren. agoreu mab custennin. a menw. mab teingwaed y rwng llyn lliwan ac aber gwy. adygwydau o arthur arnaw. a rysswyr prydein gyt ac ef. Dynessau aoruc osla gyllelluawr. amanawydau uab llyr. achacmwri gwas arthur. agwyngelli. a dygrynyaw yndaw. ac ymauel yngyntaf yny traet. ae gleicaw ohonunt yn hafren. yny yttoed yn llenwi o dyuchtaw. Brathu amws o uabon uab modron or neillparth a chael yr ellyn y gantaw. ac or parth arall y dygyrchwys kyledyr wyllt y ar amws arall gantaw yn hafren. ac yduc y gwelleu y gantaw. Kynn kaffel diot y grib. kaffel dayar o honaw ynteu ae draet. ac or pan gauas y tir ny allwys na chi na dyn na march y gamhymdeith hyt pan aeth y gernyw. Noc agaffat odrwe ynkeissaw y tlysseu hynny y gantaw. gwaeth a gaffat ynkeissaw diffryt y deuwr rac eu bodi. Kacmwri ual y tynnit ef y uynyd y tynnei deu uaeu ureuan ynteu yr affwys. osla gyllelluawr yn redec yn ol y twrch. y dygwydwys y gyllell oe wein ac y kolles. a wein ynteu gwedy hynny yn llawn or dwfyr. ual y tynnit ef y uynyd y tynnei hitheu ef yr affwys. Odyna y daeth arthur alluoed hyt pan ymordiwedawd ac ef ygkernyw. Gware oed a gafet o drwe gantaw kynno hynny y wrth agaffet yna gantaw yn keissaw y grib. O drwe y gilyd y kaffat y grib y gantaw. ac odyna y holet ynteu o gernyw. ac y gyrrwyt yr mor yny gyueir. Nywybuwyt vyth o hynny allan pale y daeth ac anet ac aethlem gantaw. Ac odyo y daeth arthur y ymeneinaw ac y uwrw y ludet y arnaw hyt ygkelli wie ygkernyw.

Dywedut o arthur aoes dim weithor or anoethu heb gaffel. Y dywawt vn or gwyr. oes. gwaet y widon ordu merch y widon orwen o penn nant gouut yggwrth tir uffern. Kychwyn aoruc arthur parth ar gogled. a dyuot hyt lle ydoed gogof y wrach. A chynghori owynn uab nud. agwythyr uab greidawl gellwng kacmwri. ahygwyd yurawt. y ymlad ar wrach. Ac ual y deuthant y mywn yr ogof y hacub aoruc y wrach. ac ymauel yn hygwyd herwyd gwallt y benn. ae daraw y llawr deni. ac ymauel o gacmwri yndi hitheu herwyd gwallt y phenn. ae thynnu yar hygwyd yr llawr. ac ymchoelut aoruc hitheu ar kacmwri ac eu dygaboli yll deu. ac eu diaruu aegyrru allan dan eu hub ac eu hob. a llid-yaw aoruc arthur o welet y deu was hayachen wedi eu llad. acheissaw achub yr ogof. ac yna y dywedassant gwynn a gwythyr wrthaw. nyt dec ac nyt digrif

genhym dy welet yn ymgribyaw agwrach. gellwug hiramreu ahir eidil yr ogof. a mynet aorugant. ac or budrwc trafferth y deu gynt. gwaeth uu drafferth ydeu hynny. hyt nasgwypei duw y vn o honunt ellpedwar allu mynet or lle. namyn mal ydodet ellpedwar ar lamrei kassec arthur. Ac yna achub aoruc arthur drws yr ogof. ac yar y drws auyryei ywrach a charnwennan y gyllell. aetharaw am y hanner yny uu yndeugelwrn hi. a chymryt aoruc kaw o brydein gwaet y widon ae gadw ganthaw.

Ac yna y kychwynnwys kulhwch. agoreu uab custennin gyt ac ef. ar sawl a buchei drwc y yspadaden pennkawr. ar anoetheu gantunt hyt y lys. Adyuot kaw o brydein y eillaw y uaryf. kic a chroen hyt asgwrn ar deuglust yn llwyr. ac y dywawt kulhwch a eillwyt itti wr. Eillwyt heb ynteu. ae meu y minneu dy uerch di weithon. Meu heb ynteu. ac nyt reit itt diolwch y mi hynny namyn diolwch y arthur y gwr ae peris itt. Om bod i nys keffut ti hi vyth. am heneit inheu ymadws yw ydiot. Ac yna ydymauaelawd goreu mab custennin yndaw herwyd gwallt y penn. ae lusgaw yny ol yr dom. allad y penn aedodi ar bawl y gatlys. a goresgyn y gaer aoruc aegyuoeth. Ar nos honno y kyscwys kulhwch gan olwen. ahi auu un wreic idaw traau vyw. A gwascaru lluoed arthur pawb y wlat. Ac velly y kauas kulhwch olwen merch yspadaden pennkawr.



BREUDDWYD RHONABWY.

MADAWC uab maredud aoed idaw powys yny theruynu. Sef yw hynny o porfoed hyt yggwauan yggwarthaf arwystli. Ac ynyr amser hwnw brawt aoed idaw. nyt oed kyuurd gwr ac ef. Sef oed hwnnw Iorwerth uab maredud. A hwnnw agymerth goueileint mawr yndaw athristwch owelet yr enryded ar medyant aoed y vrawt ac ynteu heb dim. Ac yngeissaw aoruc aegedymdeithon ae vrodoryon maeth. Ac ymgyghor ac wynt beth awnelei am hynny. Sef a gawssant yn eu kyghor. ellwng rei onadunt y erchi gossymdeith idaw. Sef y kynnigwys madawc idaw y pennteuluaeth achystal ac idaw ehun. a meirch ac ariueu. ac enryded. agwrthot hynny aoruc Iorwerth. Amynet arherw hyt yn lloeger. allad kalaned allosgi tei. adala karcharoryon aoruc Iorwerth. Achyghor agymerth madawc agwyr powys ygyt ac ef. Sef y kawssant yn eukyghor gossot kanwr ympop tri chymwt ympowys oe geissaw. a chystal ygwneynt rychtir powys. oaber ceirawc ymallictwn ver yuryt wilure ar efyrynwy. ar tii chymwt goreu oed ympowys. arny vydei da idaw ar teulu ympowys. ar ny bei da idaw yny rychtir hwnw. a hyt ynnillystwn trefan yn rychtir hwnnw ydymrannassant y gwyr hynny. agwr aoed ar y keis hwnnw. sef oed y enw Ronabwy. ac y doeth ronabwy achynnwric vrychgoch gwr o vawdwy. achadwgawn vras gwr o voelure ygkynlleith y ty heilyncoch vab kadwgawn uab idon yn ran. A phan doethant parth ar ty. Sef y gwelynt hen neuad purdu tal unyawn. a mwe o honei digawn y ueint. Aphan doethant y mywn y gwelynt lawr pyllawc anwastat. yn y lle y bei vrynn arnaw. abreid yglynei dyn arnaw rac llyfnat y llawr gan vissweil gwarthec ae trwnc. ynulle y bei bwll dros vynwgyl y troet ydai ydyn gan gymysc dwfyr a thrwnc yggwarthec. agwrysc kelyn yn amyl ar y llawr. gwedy ryyssu or gwarthec eu bric. Aphan deuthant y kynted y ty y gwelynt. parthau llychlyt goletlwm. A gwrwrach yn ryelu ar yneillparth. Aphan de elei annwyt arnei y byryei arffedeit or us ampenn y tan hyt nat oed hawd ydyn or byt diodef y mwe hwnnw yn mynet ymywn ydwy ffroen. ac ar y parth arall ygwelynt croen dinawet melyn ar y parth. a blaenbren oed gan uu o nadunt agaffei vynet ar y croen hwnnw. agwedy eu heisted gofyn aorugant yr wrach padu yd oed dynyon y ty. ac ny dywedei y wrach wrthunt namyn gwrthgloched. Ac ar hynny nachaf y dynyon yndyuoet. gwr coch gwaruoel gogrispin abeich gwrysc ar

y gefyn. agwreic veinlas vechan Achesseilwrn genti hithev. a glasressawu a wnaethant ar y gwyr. achynneu tau gwrysc udunt amynet y pobi aoruc y wreic. adwyn y bwyt udunt. bara heid a chaws aglastwfyr llefrith. ac ar hynny nachaf dygyuor owynt a glaw hyt nat oed hawd y neb vynet yr agheuedyl. ac rac annesmwythdet gantunt eu kerdet dyffygaw aorugant a mynet y gyscu. A phan edrychwyt y dyle nyt oed arnei namyn byrwellt dysdlyt chweinllyt. aboneu gwrysc yn amyl trwydaw. agwedy ryussu or dinewyt y meint gwellt aoed uch eu pennau ac is eutraet arnei. Breckan lwytkoch galetlom toll adannwyt arnei. a llenlliein vrastoll trychwauawc aruchaf y vreckan. a gobennyd lletwac a thudet govudyr idaw ar warthaf y llenlliein. ac y gyscu y daethant. a chyscu a disgynnwys ar deu gedymdeith ronabwy yn trwm. gwedy y goualu orchwein ar annesmwythder. a ronabwy hyt na allei na chyscu na gorffowys. medylaw aoruc bot yn llei boen idaw mynet ar groen ydinawet melyn yr parth y gyscu. Ac yno y kysgwys. Ac yngytneit ac y daeth hun yny lygeit y rodet drych idaw y vot ef ae gydymdeithon yn kerdet ar traws maes. argygroec ae o hen ae vryt adebygei y uot parth a ryt y groes ar hafren. ac val ydoed yn kerdet y clywei twryf. a chynhebrwyd yr twryf hwnnw nys ryglywssei eiryoet. ac edrych aoruc drae gefn. Sef y gwelei gwraenc penngrych melyn. ae varyf yn newyd eillaw y ar varch melyn. Ac o penn ydwygoes athal ydeulin y waeret yn las. apheis o bali melyn am y marchawc. wedy rywniaw ac adaued glas. achledyf eurdwrn ar y glun. a gwein o gordwal newyd idaw. Acharrei oledyr ewic. agwaec erni o eur. Ac ar warthaf hynny llenn o bali melyn wedy rywniaw asidanglas. agodreon y llenn las ac aoed las o wisc y marchawc ae uarch aoed kynlasset a deil y ffenitwyd. ac aoed velyn o honci aoed kynvelynet a blodeu y banadyl. arac druttet y gwelynt marchawc. dala ofyn awnaethant adechreu ffo. Ac euhymlit aoruc ymarchawc. Aphan rynnei y march y anadl y wrthau y pellaei y gwyr y wrthaw. Aphan y tynnei attaw y nesseynt wynteu attaw hyt ymbron y march. Aphan y gordiwedawd erchi nawd aorugant idaw. Chwi ae keffwech ynllawen. Ac na vit ofyn arnawch. Ha vnbenn kan rodeist nawd ymi. adywedy ymi pwy wyt heb y ronabwy. Nychelaf ragot vygkystlwn. Idawc uab mynyo. Ac nyt om henw ym clywir yn vwyaf. namyn om llysenw. adywedy di ynni pwy dy llysenw. dywedaf. Idawc cord prydein ym gelwir. Ha vnbenn heb y ronabwy paystyr yth elwir ditheu uelly. Mi aedywedaf itt yr ystyr. vn oedwn or kenadeu ygkatgamlan y rwng arthur amedrawt y nei. agwr ieuanc drythyll oedwn i yna. ac rac vychwannocket y vrwydyr ytvyseis y rygtunt. Sef yryw teruyse aorugum pan ymgyrrei i. yr amherawdyr arthur y venegi y vedrawt y uot yndatmaeth ac yn ewythyrd idaw. ac rac llad meibon teyrned ynys prydein ae gwyrda y erchi taguefed. Aphan dywettei arthur yr ymadrawd teckaf wrthyf

or aallei. y dywedwn ynneu yr ymadrawt hwnnw ynhastraf aallwn wrth vedrawt. Ac o hynny y gyrrwyt arnaf ynneu idawc cord brydein. Ac o hynny ydysdovet y gatgamlan. ac eissoes teirnos kynn gorffen y gatgamlan. ydymedeweis ac wynt. Ac y deuthum hyt ar y llech las ymprydein y penytyaw. Ac yno y bum seithmlyned yn penydyaw. A thrugared a gefeis. Ar hyuny nachaf yclywynt twryf oed vwy o lawer nor twrwr gynt. Aphan edrychassant tu ar twryf. nachaf was melyngoch ieuanc heb varyf a heb drawsswch arnaw. Agosged dylyedawc arnaw yar varch mawr. Ac o penn y dwy ysgwyd. athal y deulin y waeret yr march yn velyn. a gwisc ymdan y gwr o pali coch gwedy rwyniaw a sidann melyn. a godreon y llen yn velyn. Ac araoed velyn oewisc ef ae varch aoed kynuelynnet ablodeu y banadyl. Ac aoed goch ohonunt yn gynnogochet ar gwaet cochaf or byt. ac yna nachaf y marchawc yn eu gordiwes. ac yngofyn y Idawc a gaffe ran ordynyon bychein hynny gantaw. Y ran aweda ymi y rodi mi aerodaf. bot yn gedymeith udunt ual y bum ynneu. A hynny aoruc ymarchawc amynet ymeith. Idawc heb y ronabwy pwy oed y marchawc hwnn. Rwawn bybyr uab deorthach wledic. Ac yna y kerdassant ar traws maes mawr argygroec hyt yn ryt y groes ar hafren. amilltir ywrth y ryt o pob tu yr ffordd y gwelynt y llusteu ar pebylleu. adygyfor o lu mawr. ac y lan y ryt y deuthant. Sef y gwelynt arthur yn eisted mywn ynys wastad is y ryt. ac or neillparth idaw betwin escob. ac or parth arall gwarthegynt vab kaw. agwas gwineu mawr yn seuyll rac eubronn. aegledeu trwy ywein nny law. apheis achapan o pali purdu ymdanaw. Ac yngynwynnet ywyneb ac ascwrn yr elifant. Ac yn gynduet y aeleu ar muchud. ac ny welei dyn dim oe ardwrn yrwng y venic ae lewys. Gwynnuch oed nor alaw. a breisgach oed no mein eskeir milwr. ac yna dyuot o Idawc ac wynteu y gyt ac ef hyt rac bronn arthur. a chyuarth gwell idaw. Duw arodo da ytt heb yr arthur. Padu idawc y keueist di ydynyon bychein hynny. mi aekeueis arglwyd uchod ar y ford. Ssef aoruc yr amherawdr glas owenu. arglwyd heb Idawc beth achwerdy di. Idawc heb yr arthur. nyt chwerthin awnaf namyn truanet gennyf vot dynyon kyvawhet a hynn yngwarchadw yr ynys honn. gwedy gwyr kystal ac aegwarchetwis gynt. Ac yna ydywawt Idawc. Ronabwy awely di y fodrwy ar maen yndi ar law yr amherawdyr. gwelaf heb ef. Vn o rinwedeu y maen yw. dyuot cof yti aweleist yma heno. aphei nawelut ti y maen ny doi gof ytti dim o hynn o dro. Agwedy hynny y gwelei uydin yn dyuot tu ar ryt. Idawc heb y ronabwy pieu y vydin racko. Kedyndeithon rwawn pebyr uab deorthach wledic. Argwyr racko a gaffant med a bragawt yn enrydedus ac agaffant gorderchu merchet teyrned ynys prydein yndiwaravun ac wynteu ae dylyant hynny. kanys ympob reit ydeuant nny vlaen ac nnyol. Ac ny welei amgen liw nac ar varch nac ar wr or vydin honno. namyn eu bot yn kygochet ar gwaet. Ac or gwahanei un or

marchgyon ywrth y vydin honno. kynhebie ypost tan uydei ynkychwynnu yr awyr. Ar uydin honno yn pebyllyaw uch y ryt. ac arhynny ygwelynt vydin arall yndyuoet tu ar ryt. acor korneu blaen yr meirch y uynyd yn gywynnhet ar alaw. ac o hynny y waeret yu gyduet ar muchud. Ssef y gwelynt varchawc yn rac vlaenu ac yn brathu march yn yr ryt nny ysgeinwys ydwfyr ampenn arthur ar escob. ac aoad yuy kygor ygyt ac wynt. nny oedynt kynwlypet achyttynnit or auon. ac ual ydoed yn trossi penn y varch. ac atrawei y gwas oed yn sefyll rac bronn arthur y march ar y dwyffroen ar cledyf trwy y wein. ynyoed ryued bei trewit ardur na bei yssic ygkwaethach aikie neu ascwrn. athynni aoruc ymarchawc ygledyf hyt am y hanner y wein. agofyn idaw paham y treweist ti vy march i. ae yr amarch y mi ae yr kyghor arnaf. Reit oed itt wrth gyghor. Pa ynvydrwyd awnei ytti varchogaeth yn gydruttet ac y hysteynei y dwfyr or ryt am penn arthur ar escob kyssegredic. ac eu kyghorwyr nny oedynt kynwlypet a chyttynnit or auon. minneu ae kymeraf yn lle kyghor. ac ymchoelut penn y uarch drachefyn tu ae vydin. Idawc heb y ronabwy pwy y marchawc gynneu. Y gwas ieuanc kymheunaf adoethaf awneir nny teyrnas honn. adaon uab telessin. Pwy oed y gwr a drewis y varch ynteu. Gwas traws fenedic. elphin uab gwydno. Ac yna y dywawt gwr balch telediw. Ac ymadrawd bangaw ehawn gantaw. bot yn ryued kysseigaw llu kymeint a hwnn yn lle kygyfyget a hwnn. ac aoad ryuedach ganthaw bot yma yr awr honn aadawei eu bot yggweith uadon erbynn hanner dyd yn ymlad ac ossa gyllellwar. a dewis di ae kerdet ae na cherdych. miui agerdaf. Gwir adywedy heb yr arthur acherdwn niinneu ygyt. Idawc heb y ronabwy pwy y gwr adywawt yn gyuaruthret wrth arthur. ac y dywawt y gwr gynneu. Gwr adylyei dywedut yn gynehofnet ac ymynnei wrthaw. karadawc vreichuras uab llyr marini penn kyghorwr ae gefynderw. Ac odyna Idawc a gymerth ronabwy is y gil. ac y kychwynyssont y llu mawr hwnnw bop bydin nny chyweir parth achevyndigoll. Agwedy eu dyuoet hyt ymperued yryt ar hafren. troi aoruc idawc penn y varch draegefyn ac edrych a oruc ronabwy ar dyfryn hafren. sef y gwelei dwy vydin waraf yn dyuoet tu ar ryt ar hafren. Abydin eglurwenn yn dyuoet. allenn o bali gwyn ambop un o nadunt. agodryon pob vn yn purdu. Athal eu deulin a phenneu eu dwygoes yr meirch yn purdu. ar meirch yn ganwelw oll namyn hynny. ac eu harwydon yn purwynn. a blaen pob un o honunt yn purdu. Idawc heb y ronabwy pwy y vydin burwenn racco. Gwyr llychlyn yw y rei hynny. a march uab meirchawn yn tywyssawc arnadunt. Kefynderw y arthur yw hwnnw. Ac odyna ygwelei vydin agwisc purdu am bop un o nadunt. agodrean pob llen yn purwynn. ac openn eudwygoes athal eudeulin yr meirch yn purwynn. ac eu harwydon yn purdu. Ablaw pob vn o honunt yn purwynn. Idawc heb y

ronabwy pwy y vydin purdu racco. Gwyr denmarc. ac edeyrn uab nud yntyw-
yssawc arnadunt. aphan ordiwedassant y llu. neurdisgynnassei arthur aelu y ked-
yrn od is kaervadon. ar fford y kerdei arthur y gwelei ynteu yuot ef ac idawc yn
kerdet. agwedy ydisgynno y klywei twryf mawr abrwysgyl ar y llu. ar gwr auei
arymyl y llv yr awrhonn. avydei ar eu kanawl elchwyl. ar hwnn avydei yny
kanawl a vydei ar yr ymyl. Ac ar hynny nachaf y gwelei varchawc yndyuot a
lluruc ymdanaw. Ac am y varch kywynnet y modrwyen ar alaw gwynnaf. achyn-
gochet y hoelon ar gwaet cochaf. a hwnnw yn marchogaeth ymplith y llu. Idawc
heb y ronabwy ae ffo a wna y llu ragof. ny ffoes yr amherawdyr arthur eiryoet.
Aphai clywit arnat yr ymadrawd hwnn gwr diuethaf vydut. namyn y marchawc
awelydi racko. kei yw hwnnw. teckaf dyn a varchocka yn llys arthur yw kei. ar
gwr ar ymyl y llu yssyd ynbryssyaw yn ol y edrych ar kei yn marchogaeth. ar gwr
yny kanol yssyd yn ffo yr ymyl rac y vriwaw or march. a hynny yw ystyr kynnwryf
y llu. Ar hynny sef y clywynt galw argadwr iarll kernyw. nachaf ynteu yn
kyuot. a chledyf arthur ynylaw. allun deu sarf ar y cledyf o eur. Aphan tyn-
nit y cledyf oe wein. ual dwy fflam o tan awelit o eneneu y seirff. a hynny nyt
oed hawd y neb edrych arnaw rac y aruthret. ar hynny nachaf y llu yn arafhau
ar kynnwryf ynpeidaw. Ac ymchoelut or iarll yr pebyll. Idawc heb y ronabwy
pwy oed ygwr aduc y cledyf y arthur. Kadwr iarll kernyw gwr adyly gwisgaw
y arueu am y brenhin yndyd kat ac ymlad. ac ar hynny y clywynt galw ar eiry-
nych. amheibyn gwas arthur gwr garwgoch anhegar. athrawsswch goch idaw. a
blew seuedlawc arnei. nachaf ynteu ynduot ar uarch coch mawr. gwedy rannu
y vwng o bobtu y vynwgyl. aswmer mawr telediw gantaw. adisgyn aoruc y gwas
coch mawr rac bron arthur. athynnu kadeir eur or sumer. a llenn o pali kaerawc.
Athanu y llenn aoruc rac bron arthur. Ac aual rudeur wrth bop koghyl idi. a
gossot y gadeir ar y llenn. Achymeint oed y gadair ac y gallei tri milwr yn arv-
awc eisted. Gwenn oed enw y llenn. ac vn o genedueu y llenn oed. y dyn
ydottit ynygylch. nywelei neb eno awelei bawp. Ac ny thrigyei liw arnei vyth
namyn y lliw ehun. Ac eisted aoruc arthur ar y llenn. ac owein uab uryen yn
seuyll rac y uron. Owein heb arthur a chwaryydi wydbwll. Gwaryaf arglwyd
heb owein. Adwyn orgwas coch yr wydbwyll y arthur ac owein. Gwerin eur.
a clawr aryant. adechreu gware a wnaethant. aphan yttoedynt uelly yndrigrifaf
gantunt. eu gware uch yr wydbwyll. nachaf y gwelynt o pebyll gwynn penn-
gech adelw sarf purdu ar penn y pebyll. allygeit rudgoch gwenwynic ympen y
sarf. ae dauawt yn fflamgoch yny vyd mackwy ieuanc pengrych melyn llygatlas
yn glassu baryf yn dyuot. A pheis a swrcot o pali melyn ymdanaw. adwy
hossan o vrethyn gwyrddvelyn teneu am y traet. ac uchaf yr hossaneu dwy wintas
ogordwal brith. Achaeadeu oeur am vynygleu y draet yneu kaeu. Achledyf

eurdwrn trwm tri chanawl. agwein ogordwal du idaw aswch o ruder coeth ar penn y wein ynduot tu ar lle ydoed yr amherawdr ac owein yn gware gwydbwyll. achyuarch gwell aoruc y mackwy y owein. aryuedu o owein yr mackwy gyuarch gwell idaw ef ac nas kyfarchei yr amherawd. arthur. a gwybot awnaeth arthur panyw hynny auedylyei owein. adwedut wrth owein. na vit ryued gennyt yr mackwy gyfarch gwell ytt yr awrhonn. ef ae kyfarchwys y minheu gynneu. Ac attat titheu y mae y neges ef. Ac yna y dywawt y mackwy wrth owein. arglwyd ae oth gennyt ti y mae gweisson bychein yr amherawdyr ae uackwy-eit yn kipris ac yn kathedrach ac yn blinaw dy vrein. Ac onyt oth gennyt. par yr amherawdr eu gwahard. Arglwyd heb yr owein. ti aglywy adyweit y mackwy os da genhyt gwahard wynt ywrth vymranos. Gware dy chware heb ef. ac yna ydymchoeles ymackwy tu ae bebyll. Terynu ygware hwnnw awnaethant. adechreu arall. Aphan yttoedynt amhanner y gware llyma was ieuanc coch gobengrych gwineu llygadawc hydwf gwedy eillaw y varyf ynduot o pebyll puruelyn. a delw llew purgoch arpenn y pebyll. a pheis o pali melyn ymdanaw yngyfuch amein yesceir. gwedy ygwniaw ac adaued o sidan coch. adwy hossan am ydraet o vwckran gwyn teneu. ac ar uchaf yr hossaneu dwy wintas ogordwal du am y draet. agwaegeu eureit arnadunt. achledyf mawr trwm tri chanawl yny law. agwein ohydgen coch idaw. a swch eureit ar y wein ynduot tu ar lle ydoed arthur ac owein ynygware gwydbwyll. achyuarch gwell idaw. adrwc yd aeth ar owein gyuarch gwell idaw. ac ny bu waeth gan arthur nochynt. Ymackwy a dywawt wrth owein ae oth anuod di y mae mackwyeit yr amherawdyr. yn brathu dy vrein. ac yn llad ereill. ac yn blinaw ereill. ac os anuod gennyt. adolwc idaw y gwahard. Arglwyd heb owein. gwahard dy wyr os da gennyt. Gware dy whare heb yr amherawdyr. Ac yna ydymchoeles y mackwy y tu ae pebyll. Y gware hwnnw ateruynwyt. adechreu arall. Ac ual yd oedynt yn dechreu y symut kyntaf ar y gware. Sef y gwelynt ruthur y wrthunt pebyll brychuelyn mwyaf or awelas neb. adelw eryr ceur arnaw. a maen gwerthuawr ympenn yr eryr. Ynduot or pebyll y gwelynt vackwy a gwallt pybyr uelyn ar y benn yntec gosgeidic. allenn o pali glas ymdanaw. agwaell eur yny llenn ar yr ysgwyd deheu idaw. Kynvrasset agaranvys milwr. adwy hosan am y traet o twtreis teneu. adwy esgit o gordwal brith am y traet. agwaegau eur arnadunt. Ygwas yn vonhedigeid y bryt wyneb gwyn grudgoch idaw. a llygeit mawr hebogeid. yn llaw y mackwy ydoed paladyr bras vrithuelyn. Aphenn newyddif arnaw. Ac ar y paladyr ystandard amlwc. Dyuot aoruc y mackwy yn llidyawc angerdawl. athuth ebrwyd gantaw tu ar lle yd oed arthur yn gware ac owein uchpenn yr wydbwyll. ac adnabot aorugant y vot yn llidiawc. Achyuarch gwell eissoes y owein a oruc ef. adywedut idaw rydaruot llad y brein arbennickaf onadunt. Ac

ar ny las o nadunt wynt avrathwyt ac a vriwyt yn gymeint ac nadigawn yr vn o nadunt kychwynn y hadaned un gwryt y wrth y dayar. Arglwyd heb yr owein gwahard dy wyr. Gware heb ef os mynny. Ac yna ydywawt owein wrth y mackwy. dos ragot ac yn y lle y gwelych y vrwydyr galettaf. dyrchaf yr ystondard y vynyd. ac avynno duw derffit. Ac yna y kerdwys ymackwy raddaw hyt y lle ydoed galettaf yvrwydyr ar y brein. a dyrchael yr ystondard. Ac ual y dyrchefit y kyudant wynteu yr awyr yn lldiawc angerdawl orawenus. y ellwng gwynt yn euhadaned ac y vwrw y lludet y arnunt. Agwedy kaffel eu hangerd ac eu budugolyaeth. yn llidyawc orawenus yngytnait ygostygassant yr yr llawr ampenn ygwyr. awnathoedynt lit a goueileint achollet udunt kynno hynny. Penneu rei adygynt. llygeit ereill. achlusteu ereill. abreicheu ereill. ae kyuodi yr awyr a wneynt. Achynnwryf mawr auu yn yr awyr gan asgellwrych y brein gorawenus ac eu kogor. achynnwryfmawr arall gan disgyryein ygwyr. yn eu brathu ac yn eu hannau ac ynllad ereill. Achan aruthret uu gan arthur. a chan owein vch benn yr wydbwyll klybot y kynnwryf. Aphan edrychant y klywynt marchawc ar varch erchlas yndyuot attunt. lliw enryued aoad ar y varch yn erchlas. ar vreich dehau idaw yn purgoch ac o penn y goesseu hyt ymynwes yewined y garn yn puruelyn idaw. ymarchawc yngyweir ae varch oarueu trym-yon estronawl. Cwnsallt y varch or gorof vlaen idaw yvynyd ynsyndal purgoch ac or gorof y waeret yn syndal puruelyn. Cledyf eurdwrn mawr un min arglun y gwas. agwein bur las idaw newyd aswch ar y wein o lattwn yr yspsaen. gwregys y cledyf ogordwal ewyrdonic du. athrostreu goreureit aruaw. agwaec o asgwrn elifant aruaw. a balawc purdu ar y waec. helym eureit arpenn y marchawc. a mein mawr weirhawc gwyrthuawr yndi. ac ar penn yr helym delw llewpart mel-ynrud. a deu vaen rudgochyon ynypenn. mal ydoed arthur y vilwr yr kadernet vei y gallon edrych yn wyneb y llewpart aghwaethach yn wyneb y milwr. Gwaell paladyrlas hirtrwm yn y law ac oedwrn y vynyd yn rudgoch. Penn y paladyr gan waet y brein ac eu pluf. Dyuoat aoruc y marchawc tu ar lle ydoed arthur ac owein vchpenn yr wydbwyll. Ac adnabot aorugant yuot yn lludedic lityawcvlin yndyuot attunt. Ymackwy agyuarchawd gwell y arthur ac adywawt vot brein owein yn llad yweisson bychein ae vackwyeit. Ac edrych aoruc arthur ar owein. adywedut. gwahard dy vrein. Arglwyd heb yr owein gware dy chware. a gware awnaethant. ymchoelut aoruc ymarchawc drachefyn tu ar vrwydyr. Ac nywahardwyt y brein mwy no chynt. Aphanyttoedynt gwedy gware talym. sef y klywynt kynwryf mawr. adisgyryein gwyr. achogor brein yn dwyn y gwyr yn eu nyrrth yr awyr ac yn eu hyscoluaethu rydunt. Ac yn eu gollwng yndrylleu yr llawr. Ac ywrth y kynnwryf y gwelynt uarchawc yn dyuoat ar uarch kanwelw. ar ureich asseu yr march yn purdu hyt ymynnwes y

garn. Ymarchawc yn gyweir. ef ae varch o aruev trymleisson mawr. Cwnsallt ymdanaw o pali kaerawc melyn. agodreion y gwnsallt yn las. Kwnsallt y uarch yn purdu. ae odreion yn puruelyn. ar glun y mackwy yd oed gledyf hirdrwm trichanawl. agwein oledr coch ysgythredic idaw. Agwregis ohydgen newyd goch a throstreu eur amyl arnaw. a gwaec o asgwrn moruil arnaw. abalawc purdu arnaw. Helym eureit ampenn ymarchawc. amein saffir rinwedawl yndi. Ac ar penn yr helym. delw llew melyngoch. aedauawt yn fflamgoch troetued oepenn allan. allygeit ruchgochyon gwennwynic nyny benn. ymarchawc yn dyuot apha- adyr llinon bras yn y law. aphennewyd gwaetlyt arnaw. alletteineu aryant yndaw. achyfarch gwell aoruc y mackwy yr amherawdyr. Arglwyd heb ef. neur derw llad dyuackweyt ath weisson bychain ameibon gwyrda ynys prydain. hyt na byd hawd kynnal yr ynys honn byth o hediw allan. Owein heb arthur. gwahard dy vrein. Gware arglwyd heb owein y gware hwnn. Daruot awnaeth ygware hwnnw adechreu arall. aphan yttoedynt ardiwed y gware hwnnw. nachaf y klywynt gynnwrf mawr. adisgyryein gwyr aruawc. achogor brein ac eu hasgellwrych yn yr awyr. ac yn gollwng yr arueu yngyfan yr llawr. Ac yn gollwng y gwyr ar meirch yn drylleu yr llawr. Ac yna ygwelynt uarchawc yar varch olwyn du pennuchel. aphennewyd goes asseu yr march yn purgoch. ar vreich deheu idaw hyt ymynwes y garn yn purwyn. Ymarchawc ae uarch yn aruawc o arueu brychuelynyon wedy en brithaw alattwn yr yspaen. Achwnsallt ymdanaw ef ac ymdau y uarch deu hanner gwynn a phurdu. agodreion y gwnsallt o porffor eureit. ac aruchaf y gwnsallt cledyf eurdwrn gloew trichanawl. gwregis y cledyf o eurllin melyn. a gwaec arnuw o amrant moruarch purdu. abalawc o eur melyn ar ywaec. Helym loyw ampenn y marchawc alactwnn melyn. a mein cristal gloew yndi. ac ar penn yr helym llun ederyn egriff. A maen rinwedawl nyny penn. Paladyr llinwyd palatyr grwn nyny law. gwedy y liwaw ac asur glas. penn newyd gwaetlyt ar y paladyr. gwedy letteinu ac aryant coeth. adyuot aoruc ymarchawc yn lliadiawc yr lle ydoed arthur. adywedut daruot yr brein lad ydeulu a meibon gwyrda yr ynys honn. Ac erchi idaw peri y owein wahard yurein, yna yderchis arthur y owein wahard y vrein. Ac yna y gwasgwys arthur y werin eur aoed ar y clawr nyny oedynt yn dŵst oll. ac yderchis y owein wers vab reget gostwng y vaner. Ac yna y gostynghwyt ac y tagnovodwyt pob peth. Yna y govynnwys ronabwy y Idawc pwy oed y trywyr kyntaf adeuth at owein. ydywedut idaw uot yn llad y vrein. Ac ydywawt idaw gwyr oed drwc ganthunt dyuot collet y owein. kytunbynn idaw achedymdeithon. Selyf vab kynan. garwyn o powys. agwgawn gledyfrud. Agwres uab reget. y gwr aarwed y vaner yndyd kat ac ymlad. Pwy heb y ronabwy y trywyr diweithaf adeuthant att arthur y dywedut idaw ryuot y brein yn llad y wyr. Y gwyr goreu heb yr Idawc a dewraf. a hackraf gantunt golledu ar arthur

o dim. Blathaon uab mwrheth. A rwawn pebyr uab deorthach wledic. ahyueid unllen. Ac ar hynny nachaf pedwar marchawc arhugeint yndyuot y gan ossa gyllellwawr. yerchi kygreir y arthur hyt ympenn pythewnos a mis. Sef awnaeth arthur kyuodi a mynet y kymryt kyghor. sef ydaeth tu ar lle yd oed gwr pengrych gwineu mawr rynawd ywrthaw. ac yno dwyn y gyghorwyr attaw.

Betwin escob. agwarthegynt uab kaw. Amarch uab meirchawn. Achradawc ureichuras. Agwalchmai uab gwyar. Ac edyrn uab nud. Arwawn pebyr uab deorthach wledic. Ariogan uab brenhin Iwerdon. Agwenvynnwyn uab naf. Howel uab emyr llydaw. Gwilym uab rwyf freinc. Adanet m oth. A goreu custennin. amabon m modron. apheledur paladyr hir. a heneidwn llen. A thrwch m perif. Nerth m. kadarn. agobrw m. ethel uordwyt twyll. gweir m. gwestel. ac adwy uab gwereint.

Dyrstan mab talluch. moryen manawc. granwen mab llyr. allacheu mab arthur. allawuroded uaryfawc. achadwr iarll kernyw. moruran eil tegit. aryawd eil morgant. adyuyr alun dyuet. gwyr gwalstot ieithoed. adaon mab telyessin. allara uab kasnat wledic. Affleudur ffiam. agreidyal gall dofyd. Gilbert mab katgyffro. menw mab teirgwaed. gwrthmwl wledic. Hawrda uab karadawc vreichvras. Gildas mab kaw. karieith mab seidi. allawer o wyr llychlyn a denmark. allawer owyr groec y gyt ac wynt. adigawn olu adeuth yr kyghor hwnuw. Idawc heb y ronabwy. Pwy y gwr gwineu y deuthpwynt attaw gynneu. Run uab maelgwn gwyned gwr y mae o vreint idaw dyuot pawp y ymgyghor ac ef. Pa achaws y ducpwynt gwas kyieuanghet ygkyghor gwyr kyvurd arrei racko. mal kadyrieith mab saidi. wrth nat oed ymprydein gwr urdarch y gyghor noc ef. Ac ar hynny nachaf ueird yndyuot y datkanv kerd y arthur. ac nyt oed dyn a adnapei y gerd honno. namyn kadyrieith ehun. eithyr yuot yn uolyant y arthur. Ac ar hynny nachaf pedeir assen arugeint ac eupynneu o eur ac aryant yndyuot. agwr lludedicvlin ygyt aphob un o honunt yndwyn teyrnget y arthur o ynyssed groec. yna y derchis kadyrieith mab saidi rodi kygreir y ossa gyllellwawr hyt ympenn pethewnos amis. arodi yr assennoed adathoed ar teyrnget yr beird. ac o oed arnunt ynllle gobyr ymaros. Ac ynoet y gygreir talu eu kanu udunt. Ac ar hynny y trigywynt. Ronabwy heb Idawc ponynt cam gwarauun y gwas ieuanc a rodei gyghor kyhelaethet ahwnn vynet ygkyghor y arglwyd. Ac yna y kyuodes kei ac y dywawnt. pwy bynnac avynno canlyn arthur. bit heno yghernyw gyt ac ef. Ac ar nys mynno. bit yn erbyn arthur hyt ynoet ygygreir. Ac rac meint y kynnwryf hwnnw deffroi aoruc ronabwy. Aphan deffroes ydoed ar groen y dinawet melyn. gwedy rygysu o honaw teir nos athri dieu. Ar ystoria honn a elwir breidwyt ronabwy. Allyma yr achaws nawyr neb y vreidwyt. na bard na chyfarwyd heb lyuyr. o achaws y geniuer lliw aod ary meirch a hynny o amrauael liw odidawc ac ar yr aruev ac eu kyweirdebeu. ac ar y llenneu gwerthuawr ar mein riweddawl.

BRANWEN VERCH LLYR.

BENDIGEITVRAN vab llyr a oed vrenhin coronawc ar yr ynys honn. Ac arderchawc o goron lundein. Aphrynhawngweith ydoed yn hardlech yn ardudwy yn llys idaw. ac yneisted yd oedynt ar garrec hardlech uch penn y weilgi. amanawydan uab llyr y vrawt y gyt ac ef. adeu vroder unuam ac ef. nissyen ac efnissyen. a gwyrda y am hynny ual y gwedei ygkylch brenhin. Y deu uroder vnuam ac ef meibion oedynt y eurosswyd oeuam ynteu. Penardim uerch ueli uabmynogan. ar neill or gweisson hynny gwas da oed. ef a barei dangneued y rwng y deulu pan bydynt lidyawckaf. Sef oed hwnnw nissyen. Y llall a barei ymlad rwng ydeu uroder pan uei uwyhaf ydymgerynt. Ac ual ydoedynt yn eisted uelly wynt awelynt teir llong ardec yndyuot o deheu iwerddon ac ynkyrchu parth ac attunt. acherdet rugyl ebrwyd gantunt. Y gwynt yn eu hol ac yneunessau ynebrwyd attunt. Mi awelaf longeu raco heb y brenhin ac yndyuot ynebrwyd parth ar tir. ac erchwch y wyr yllys wiscau ymdanunt. amynet y edrych pauedwl yw yr eidunt. Y gwyr awiscwys ymdanunt. ac a nessayssant attunt ywaeret. gwedy gwelet y llongeu o agos diheu oed gantunt nawelsynt llongeu gyweiryach y hansawd noc wynt. A rwydon tec gwedus o bali a oed arnunt. Ac ar hynny nachaf un orllongeu yn raculaenu rac y rei ereill. ac y gwelynt dyrchauael taryan yn vch no bwrdd y llong. Aswch ydaryan y vynydd yn arwyd tangneued. Ac y nessawys y gwyr attunt ual ydymglywynt ymdidan. Bwrw badeu allan awnaethant wynteu a nessau parth ar tir. achyfarch gwell yr brenhin. Y brenhin ac clywei wynteu or lle ydoed ar garrec uchel uch eu penn. Duw arodho da ywch heb ef a graessaw wrthyach. Pieu y niuer llongeu hynn. aphwy yssyd bennaf arnunt wy. Arglywyd heb wynt ymae yma matholwch brenhin Iwerddon. ac ef bieu y llongeu. Beth heb y brenhin a uynnei ef. a vynn ef. dyuot yr tir. Na vynn arglywyd heb wynt negessawl yw wrthyt ti onyt y neges ageiff. Pa ryw neges yw yr eidaw ef. heb y brenhin. mynnu ymgyfath-rachu athydi arglywyd heb wynt. y erchi branwen uerch llyr ydoeth ef. Ac os da gennyt ti ef auynn ymrwymaw ynys y kedym ac iwerdon ygyt ual y bydynt gadarnach. Ie heb ynteu doet yr tir. achynghor agymerwn ninheu am hynny. Yr ateb hwnnw aeth attaw ef. Minneu aaf yn llawen heb ef. Ef adoeth yr

tir. a llawen uuwyt wrthaw. adygyuor mawr a vu yn y llys ynys hono yrwng y niueroed ef aniueroed yllys. Yny lle dranoeth kymryt kynghor. Sef agahat yny kynghor hwnnw rodi branwen y uatholwch. a honno oed dryded prif rieni yn yr ynys hon. teckaf morwyn yny byt oed. Agwneuthur oet ynaberffraw y gyscu genthi. Ac odyo y gychwynnu. ac ykychwynnasant yniueroed hynny parth ac aberffraw. Matholwch ac niueroed yny llongeu. bendigeituran ae niueroed ynteu ar tir yny doethant hyt yn aberffraw. Yn aberffraw dechreu ywled ac eisted. Sef ual ydeistedassant. brenin ynys y kedyrn. amanawydan uab llyr or neillparth. a matholwch or parth arall abranwen verch llyr gyt ac ynteu. Nyt ymywn ty ydoedynt namyn ymywn palleu. nyt eyngassei bendigeituran eiryot mywn ty. ar gyuedach adechreuassant. Dilit ygyuedach awnaethant. ac ymdidan. Aphanweissant bot ynwelludunt kymrut hun no dilit kyuedach ygyscu y daethant. Ar nos honno y kyscwys matholwch abranwen ygyt. athrannoeth kyuodi aorugant pawb oniuer y llys. arswydwyr adechreuassant ymaruar am rannyt y meirch ar gweisson. ac eu rannu awnaethant ympob kyueir hyt y mor. ac ar hynny dydgweith nachaf ef nyssyn gwr anhagneuedus adywedassam ni uchot yndywannu y letty meirch matholwch. a gofyn awnaeth pioed y meirch. Meirch matholwch brenhin iwerdon. ac yr gyscwys gan vrannwenn dy whaer. ae ueirch yw y rei hynn. Ae uelly y gwnaethant wy am vorwyn kystal a honno. Ac ynchwaer y minneu. y rodi heb vygkennyat i. ny ellynt wy tremic vwy arnafi no hwnnw heb ef. Ac yn hynny gwan y dan ymeirch. a thorri y gwefieu wrth y danned udunt ar clusteu wrth y penneu. ar rawn wrth y keuyn. ar ny chaei graf ar yr amranneu. y lladei wrth yr ascwrn. agwneuthur anfurys ar y meirch uelly. hyt nat oed rym aellit ar y meirch. Y chwedyl a doeth. att uatholwch. Sef ual ydoeth. dywedut anffuruaw y veirch ac eullygru hyt nat oed un mwynant aellit o honunt. Ie arglwyd heb yr vn dywaratwydaw awnaethpwyt. a hynny auynnir ywneuthur ytti. Dioer eres yw gennyf os vygwaradwydaw a vynnnt. rodi morwyn gystal kyuard kyn annwylet gan y chenedyl ac arodyssant ym. Arglwyd heb un arall ti awely dangos y mae ef. Ac nyt oes itt a wnelych namyn kyrchu dy longeu. Ac ar hynny arouyn y longeu awnaeth ef. Y chwedyl adoeth at vendigeitvrann bot matholwch ynadaw y llys heb ofyn kenyat. achennadeu aaeth y ouyn idaw paham oed hynny. Sef kennadeu aaeth. Idic vab anarawc. ac eueyd hir y gwyr hynny ae gordiwedawd ac aovynassant idaw padarpar oed yr eidaw. a pha achaws ydoed yn mynet ymeith. Dioer heb ynteu pei ysgwypwn nydown yma. Cobyl waratwyd a geueis. ac ny due neb kyrch waeth noc adugum i yma. a ryuedawt rygynneryw ami. Beth yw hynny heb wynt. Rodi brannwen uerch llyr ym yntryded prif rieni yr ynys honn. Ac ynuerch y vrenhin ynys ykedyrn achyscu genthi. agweddy hyuny vyg

gwaradwydaw. a ryued oed gennyf nat kynnw rodi morwyn gystal ahonno yn y gwneit y gwaradwyd a wnelit ym. Dioer arglwyd nit ouod yneb avedei y llys heb wynt na neb oegyghor ygwnaethpwyt y gwaratwyd hwnnw ytti. achyt bo gwaratwyd gennyf ti hynny. mwy yw gan vendigeituran. no chennyf ti y tremic hwnnw ar gware. Ie heb ef mi atebygaf. ac eissoes ny eill ef vy niwaratwydaw i ohynny. Y gwyr hynny a ymchoelassant ar ateb hwnnw parth ar lle ydoed vendigeituran. amenegi idaw yr ateb arodassei uatholwch. Ie heb ynteu nyt oes ymwaret oe vynet ef ynanygneuedus ac nys gadwn. Ie arglwyd heb wy anuon ettwa gennadeu nnyol. anuonaf heb ef. kyfodwch vanawydau vab llyr. ac cueyd hir. ac unic glew yscwyd. ac ewch yny ol heb ef amenegwch idaw. ef ageiff march iach ambop un or alygrwyt. ac ygyt a hynny ef ageiff ynwynabwarth idaw llathen aryant auo kyfref a chyhyt ac ef ehun. Achlawr eur kyflet ae wyneb. amenegwch idaw py ryw wr awnaeth hyny. aphanyw om anuod inneu y gwnaethpwyt hynny. ac ymae brawt un uam ami awnaeth hynny. ac nad hawd genyf ynneu nae lad ef nae diuetha. adoet y ymwelet ami heb ef. ami awnaf y dangneued ar y llun y mynno ehun. Y kennadeu aaethant ar ol matholwch. ac auanagasasant idaw yr ymadrawd hwnnw yngaredic. ac ef aegwarandewis. A wyr heb ef ni agymerwn gynghor. Ef aaeth yny gynghor. sef kynghor auedylyassant. Os gwrthot hynny a wnelynt bot yndebygach gantunt kael kewilyd auei vwy. no chael iawn avei gymeint. adiskynnu awnaeth ar gymryt hynny. ac yr llys ydoethant yndangneuedus. a chweiryaw y pebylleu arpalleu a wneuthant udunt ar ureint kyweirdeb neuad amynet y vwyta. ac ual y dechreuassynt eisted ardechreu y wled yd eistedassant yna. adechreu ymdidan awnaeth matholwch abendigeituran. ac nachaf yn ardiawc gan vendigeitvrau yn ymdidan ac yn drist. am y barch ac agaei gan vatholwch aeleweuyd yn wastad kynno hynny.

Amedylyaw aoruc bot ynathrist gan yr unben vychanet agawssei o yawn am y gam. A wr heb y bendigeituran nyt wyt gystal ymdidanwr heno ac un uos. ac os yr bychynet gennyf ti dyaawn. ti agey y chwanegu it wrth dy vynnu dy hun. ac auory talu dy ueirch itt. Arglwyd heb ef duw adalo itt. mi adelediawaf dy iawn heuyt it heb y bendigeituran. Mi arodaf it peir. achynnedyf y peir yw. y gwr alader hediw it. y vwrw yny peir. ac erbyc auory y vot yngystal ac y bu oreu. eithyr na byd lleueryd gantaw. A diolch awnaeth ynteu hynny. a diruawr lewenyd agymerth yndaw or achaws hwnnw. Athrannoeth y talwyt y ueirch idaw tra barhaawd meirch dof. ac odyne y kyrchwyt ac ef kymwt arall ac y talwyt ebolyon idaw. yny uugwbyl idaw ydal. ac wrth hynny y dodet ar y kymwt hwnnw o hynny allan tal ebolyon. Ar eil nos eisted ygyt awnaethant. arglwyd heb y matholwch pandoeth ytti y peir arodeist ymi. Ef adoeth ym heb ef ygan wr auu yth wlat ti. ac ny vun nabo yno y kaffo. Pwy oed hwnnw

heb ef. llassar llaesgyfnewit heb ef. a hwnnw adoeth yma o Iwerdon achymideu kymein uoll y wreic ygyt ac ef. ac adiangyssysant or ty haearn yniwerdon. pan wnaethpwyd yn wynnyas yneu kylch. ac ydihangyssant odyo. ac eres yw gennyfi ony wdast ti dim wrth hynny. Gwn arglwyd heb ef achymeint ac awnn mi ae managaf yti. Ynhela ydoedwn yn iwerdon dydgweith ar ben gorsed a oed uch pennllynn yn Iwerdon. allynn y peir y gelwit. A mi a welwn gwr melyngoch mawr yn dyuot or llyn a pheir ar y gefyn. A gwr athrugar mawr adrycweith auorles arnaw oed. Agwreic nny ol. Ac ot oed wawr ef mwy dwyweith oed ywreic noc ef. achyrchu attaf awnaethant achyfuarch gwell im. Ie heb ymi pa gerdet yssyd arnawch chwi. llyna y ryw gerdet arglwyd yssyd arnam ni heb ef. Y wreic honn ympenn pythewnos a mis y byd beichogi idi. ar mab aaner yna or torllwyth hwnw. arbenn y pythewnos ar mis y byd gwr ymlad. llawn aruawc. y kymereis ynneu arnaf ygwssymdeithaw wyntwy. ac y buant vlwydyn y gyt ami. nny vlwydyn y keueis yndiwarauun wynt. O hynny allan y gwarauunwyt im. Achynn penn y pedwryd mis wynt ehun ynperi eu hatgassau ac aghynnwys nny wlat yn gwneuthur sarhaedeu. Ac ynighaw ac yn gouutyaw gwyrda a gwraged da. O hynny allan y dygyuores vygkyuoeth am vympen y erchi im ymvadeu ac wynt. A rodi dewis im ae vyngkyuoeth ae wynt. Ydodeis ynneu ar gyughor vyggwlat beth awnelit amdanunt. Nyt eynt hwy oe bod nyt oed reit udunt wynteu oehanuod herwyd ymlad vynet. Ac yna nny kyuyng gynghor ykawssant gwneuthur ystauell hacarn oll. Agwedy bot ynbarawt yr ystauell. Dyuyntu aood oof yn Iwerdon yno. or aood o berchen geueyl a myrthwl. apheri gossot kyouch a chrib yr ystauell o lo. Apheri gwassanaethu yndiwall o vwyt allyn arnynt ar ywreic ae gwr ae phlant. Aphanwybuwyt eu medwi wynteu ydechreit kymysgu y tan ar glo ambenn yr ystauell. achwythu y megineu. nny vyd y ty ynburwenn am eu penn. ac yna y bu y kynghor gantunt ymperued llawr yr ystauell. Acyd arhoes ef nny vyd y pleit hayarn yn wenn. Ac rac diruawr wres ykyrchwys y y pleit ae yscwyd ae tharaw gantaw allan. Ac yn yol ynteu y wreic. Aneb nydihengis odyo namyn ef ae wreic. Ac yna omtebygu i arglwyd heb y matholwch wrth bendigeituran ydoeth ef drwed attat ti. Ynadioer heb ynteu ydoeth yma ac y rodes y peir y minheu. Padelw arglwyd yd erbynneist tiwyntwy. Eu rannu ympob lle nny kyuoeth. Ac y maent yn lluosawc ac yn dyrchael ympob lle. ac ynkadarnhau nny uann y bont owyr ac arueu goreu awelas neb. Dilit ymdidan awnaethant ynos honno tra uu da gantunt acherd achyuedach. Aphan welsant vot yn llessach udunt uynet y gyscu noc eisted auei hwy. y gysgu ydaethant. Ac uelly y treulassant y wled honno trwy digrifwch. Ac yn niwed hynny y kychwynnwys matholwch abrannwen gyt ac

ef parth ac iwerdon. A hynny o aber menei y kychwynnassant teir llong ardeo ac y doethant hyt yn iwerdon. Yn iwerdon diruawr lewenyd a uu wrthunt. Nydoei wr mawr na gwreicda yn iwerdon y ymwelet abrannwen ny rodei hi ae cae ae modrwy ae teyrndlws cadwedid idaw auei arbennic y welet ynmynet ymeith. Ac ymysc hynny y vlwydyn honno aduc hi ynglotuawr. Ahwyl delediw aduc hi o glot achedymdeithon. Abeichogi adamweinwys idi y gael yn hynny. Agwedy treulaw yr amseroed dyledus mab aanet idi. Sef enw adodet arnaw gwern uab matholwch. Rodi y mab aruaeth awnaethpwyd yr unlle goreu y wyr yn Iwerdon. A hynny yn yr eil ulwydyn llyma ymodwrdd yn iwerdon am y gwarantwyd agawssei vatholwch ygkymry. arsom awnathoedit idaw am y veirch. Ahynny y urodyr maeth ar rei nessaf gantaw ynlliwaw idaw hynny heb y gelu.

Ac nachaf ydyguor yn iwerdon hyt nad oed lonyd idaw onychaei dial ysarhaet. Sef dial awnaethant gyrru brannwen o vn ystauell ac ef. ae chymell y bobi yny llys. Apheri yr kigydd gwedy y bei yndryllyaw kie dyuot idi atharaw bonclust arnei beunyd. Ac uelly y gwnaethpwyd y phoen. Ie arglwyd heb y wyr wrth uatholwch. parweithon wahard y llongeu ar ysgraffeu ar corygeu ual nat el neb y gymry. Ac adel yma o gymry carchara wynt hyt nat elont dracheuyn rac gwybot hynn. Ac ar hynny y disgynnyssant blwynyded nyt llei notheir y buant uelly. Ac ynhyunny meithryn ederyn drytwen a wnaeth hitheu ar dal y noe gytahi a dyscu ieith idi. Amenegi yr aderyn y ryw wr oed y brawt. adwyn llythyr y poeneu ar amarch aoed arnei hitheu. ar llythyr a rwymwyt am von esgyll yr ederyn. ae anuon parth a chymry. Ar ederyn a doeth yr ynys honn. Sef lle y kauas uendigeituran ygkaer seint yn aruon. yndadleu idaw dydgweith. Adisgynnu ar y yscwyd agarwhau y phluf yny arganuuwyt y llythyr ac adnabot meithryn yr ederyn ygkyuanned. Ac yna kymryt y llythyr ae edrych. a phandarllewyt y llythyr doluryaw awnaeth bendigeituran o glybot y poen aoed ar vranwen adechreu or lle hwnnw anuon kenadeu ydygyforyaw yr ynys honn ygyt. Ac yna y peris ef dyuot llwyrwys pedeirgwlat a seith ugeint hyt attaw. Ac ehun kwynaw wrth hynny bot y poen aoed ar ychwaer. ac yna kymryt kynghor. Sef kynghor agahat kyrchu iwerdon ae adaw seithwyr yntywyssogyon yma. Achradawc uab bran yn bennaf. Ac eu seith marchawc. yn edeirnon yd edewit y gwyr hynny. Ac o achaws hynny y dodet seith marchawc ar y dref. Sef seithwyr oedynt. Cradawc uab bran. ac eueyd hir. ac vnic glew yscwyd. Ac idic uab anarawc walltgrwn. Affodor uab eruyll. ac wlch minascwrn. Allashar uab llaesar llaesgygydd. Aphendaran dyuet ynwas ieuanc gyt ac wy. Y seith hynny a dricywys yn seith kynweissat ysynnyaw ar yr ynys honn. A chradawc uab brann yn bennaf kyunweisyat

arnunt. Bendigeituran ar niuer a dywedassam ni ahwylyassant parth ac iwerdon. Ac nyt oed uawr y weilgi yna y ueis y daeth ef. Nyt oed namyn dwy auon. lli ac archan y gelwit. agwedy hynny yd amylhawys yweilgi y teyrnassoed. Ac yna y kerdwys ef ac aoed o gerd arwest ar y geuyn ehun a chyrchu tir iwerdon. A meicheit matholwch oed ar lan y weilgi. wynt adoethant att vatholwch. Arglwyd heb wy henpych gwell. Duw arodo da ywch heb ef. achweleu ygennych. arglwyd heb wy. mae gennym ni chwedlyu enryued. coet rywelsom ar yweilgi. yny lle ny welsam eiryoet vnprenn. llyma beth eres heb ef. awelwch chwi dim namyn hynny. Gwelem arglwyd heb wy mynyd mawr geir llaw y coet. ahwnnw argerdet. Ac esgeir aruchel ar y mynyd. A llyn o bob parth or esgeir. Ar coet ar mynyd aphoppeth o hynny oll ar gerdet. Ie heb ynteu nyt oes neb yma a wypi odiywrth hynny o nys gwyr branwen gouyn awnaeth y kennadeu aeth att uranwen. Arglwydes heb wy beth debygy di yw hynny. Gwyr ynys y kedyrn yndyuoet drwad oglybot vympoen i amhamarch. Beth yw y coet awelat ar ymor heb wy. Gwerneneu llogeu ahwylbrenni heb hi. Och heb wy beth oed y mynyd awelit gan ystlys y llongeu. Bendigeituran vymrawt i heb hi oed hwnnw Yndyuoet y ueis. nyt oet log y kyghanei ef yndi. beth oed yr esgeir oruchel. ar llynn obop parth yr esgeir. Ef heb hi yn edrych ar yr ynys honn lliadiawc yw. Y deu lygat ef opob parth y drwyn yw y dwy lynn o bopparth yr esceir. Ac yna dygyuor holl wyr ymlad iwerdon awnaethpwyty gyt. ar holl uorbennyd yn gyflym. Achynghor agymerwyt. Arglwyd heb y wyrda wrth vatholwch nyt oes gynghor namyn kiliaw drwy linon auon aoed yniwerdon. Agadu llinon yrot ac ef. athorri y bont yssyd ar yr auon. Ameinsugyn yssyd yggwaelawt yr auon. ny eill na llong na llestyr arnei. Wynt agilyassant drwy yr auon ac a torrassant y pont. Bendigeituran adoeth yr tir allyghes ygyt ac ef parth aglann yr auon. Arglwyd heb y wyrda ti awydost kynnedyf yr auon. ny eill neb vynet drwydi. nyt oes bont arnei hitheu mae dy gynghor am bont heb wy. Nyt oes heb ynteu. Namyn awo penn bit bont. Miui auydaf bont heb ef. Ac yna gyntaf y dywetpwyty y geir hwnnw ac y diaerebir ettwa o honaw. Ac yna gwedy gorwed o honaw ef ar traws yr auon. y byrywyt elwyteu arnaw ef. ac ydaeth yluoed ef ar y draws drwod. ar hynny gyt ac y kyuodes ef. Llyma gennadeu matholwch yn dyuoet attaw. ac ynkyuarch gwell idaw. ac yny annerch ygan uatholwch ygyuathrachwr. Ac yn menegi ae vod ef na haedei arnaw nanamyn da. Ac y mae matholwch yn rodi brenhinyaeth iwerdon y wern uab matholwch dynei ditheu uab ychwaer. Ac yny estynnu yth wyd di. ynllle y cam ar codyant awnaethpwyty y vrannwen. ac yny lle ymynnych ditheu. ac yma ae ynynys y kedyrn gossymdeitha uatholwch. Ie heb ynteu bendigeituran ony allafi vy hun cael y vrenhinyaeth. ac atuyd yskymeraf gyghor am ych kennadwri chwi. O hynn hyt pan

del amgen ny cheffwch y gennyfi atdeb. Ie heb wynteu. yr atdeb goreu agaffom ninneu attat ti ni adawn ac ef. Ac aro ditheu yn kennadwri ninheu. Arhoaf heb ef a dowch yn ebrwyd. Y kennadeu agyrchassant racdu ac att vatholwch ydoethant. Arglwyd heb wy kyweura atdeb auo gwell at vendigeituran. ny warandawei dim or atdeb aeth y gennym ni attaw. Hawyr heb y matholwch mae ych kynghor chwi. Arglwyd heb wy nyt oes itt gyghor namyn un nyt eigwys ef y mywn ty eiryoet heb wy. Gwna ty heb wynt y geingho ef agwyr ynys y kedym nny neillparth yr ty. athitheu ath lu nny parth arall. adyro dy urenhinyaeth nny ewyllys agwrhaidaw. Ac o enryded gwneuthur y ty heb wynt. peth nys kauas eiryoet ty y geinghei yndaw. ef atangneuedha athi. Ar kennadeu aethant ar gennadwri honno gantunt att uendigeituran. Ac ynteu a agymerth kynghor. Sef agauas nny gynghor kymryt hynny. athrwy gynghor branwen uu hynny oll. Ac rac llygru y wlat oed genti hitheu hynny. Y dangneued honno agyweirwyt arty aateilwyt yn uawr ac ynbraff. ac ystryw awnaeth y gwydyl. Sef ystryw awnaethant doddi gwanas o bop parth y bop colouyn o cant colouyn aod nny ty. adodi boly croen ar bop gwanas. agwr aruawe ympob un ohonunt. Sef awnaeth efnysyen dyuot ymblaen llu ynys y kedym mymywn ac edrych golygon orwyllt antrugarawc ar hyt y ty. Ac arganuot y bolyeu crwyn awnaeth ar hyd y pyst. Beth yssyd nny boly hwnn heb ef wrth un orgwydyl. blawt eneit heb ef. Sef awnaeth ynteu y deimlaw hyt pangauas y benn. A gwascu y benn nny glyw yvysed yn ymauodi nny vreithell drwy yr ascwrn. Ac adaw hwnnw. adodi y law ar un arall agouyn beth yssyd yma. blawt medei y gwydyl. Sef awnaey ynteu yr un gware aphawb ohonunt hyt nat edewis ef wr byw or holl wyr ordeucanwr eithyr un. Adyuot at hwnnw agouyn beth yssyd yma. blawt eneit heb y gwydyl. Sef awnaeth ynteu y deimlaw ef. nny gauas y benn. Ac ual y gwascassei benneu yrei ereill gwascu penn hwnnw. Sef y clywei arucu am benn hwnnw. nyt ymedewis ef ahwnnw nny lladawd. ac yna canu eglyn. Yssit nny boly hwnn amryw vlawt. keimet kynniuyeit disgymueit yntrin rac kytwyr cat barawt. Ac ar hynny ydoethyw yniuerod yr ty. ac y doeth gwyr o ynys Iwerdon yr ty or neillparth. agwyr o ynys y kedym or parth arall. ac yn gyuebrwydet ac ydeistedassant y bu duundeb y ryngtunt. Ac yd estynnwyd y vrenhinyaeth yr mab. Ac yna gwedy daruot y dangued galw o vendigeituran ymab attaw. ygau vendigeituran y kyrchawd ymab att vanywydan. A phawb or ae gwelei nny garu. y gan uanawydau y gelwis nyssyen uab eurosswyd y mab attaw. Y mab aeth attaw yndiryon. Paham heb yr efnysyn. nadaw uy nei uab vychwaer attafi. kynny bei urenhin ar iwerdon da oed geunfy ymdirioni ar mab. Aet ynllawen heb y bendigeituran. Y mab a aeth attaw yn llawen. Y duw ydygaf vyingkyffes heb ynteu nny uedwl. ys an-

hebic agyflauan gan y tylwyth y gwneuthur awnafi yr awr rhon. achyuoedi y uynyd a chymryt y mab herwyd ydrael. ac heb ohir kynn kael o dyn yn y ty gauael arnaw ynywant y mab ynwyse y benn nny gynneu tan. Aphanwelas branwenn y mab yn boeth nny tan. hi agyngytwys bwrw neit nny tan orlle ydoed yn eisted rwng y deu uroder. A chael o vendigeituran hi nny noillaw. ac taryan nny llaw arall. Ac yna ymgyuoc o bawp ar hyt y ty. allyna y godwrđ mwyhaf auu gan niuer unty. Pawb yn kymryt y arueu. Ac yna y dywawt Mordw tyllion. Gwern gwngwch uiwch uordwyt tyllion. Ac nny aeth pawb ympenn y arueu. y kynbellis bendigeituran vranwen y rwng y daryan ae ysewyd. Ac yna y dechreius y gwydyl kynneu tan dan y peir dateni. ac yna y byrywt y kalaned yn ynypeir. nny uei yn llawn. Ac y kyuoelynt drannoeth yn wyr ymlad yn gystal achynt eithyr na ellynt dywedut. Ac yna pan welas efnysyn y kalaned heb eni yn vnle owyr ynys y kedym ydywawt nny uedwl. Oiaduwb heb ef gwac vi vymot yn achaws yr wydwic honn o wyr ynys y kedym. A meuylm heb ef ony cheissafi waret rac hynn. Ac ymedyryaw ymplith calaned y gwydyl adyuoet deu wydel uonllwm idaw ae vwrw nny peir ynryth gwydel. Ymestynnu idaw ynteu ynypeir nny tyrr y peir ynpedwardryll. ac yna tyrr y gallon ynteu. Ac o hynny y bu y meint goruot auu y wyr ynys y kedym. Ni bu oruot ohyny eithyr diane seithwyr abrathu bendigeituran yn y troet agwenwynwaew. Sef seithwyr a dihengis. Pryderi. Manawydan. Gluueri. Eil taran. Talyessin. Ac ynawc grud-yen uab muryel. Heilyn uab gwynn hen. Ac yna y peris bendigeituran llad y benn. A chymerwch chwi y penn heb ef adygwch hyt y gwynuryrn yn llundein. achledwch yno ef ac wyneb ar freine achwi a vydwch ar y fford yn hir. Yn hardlech y bydwech seithmlyned ar ginyaw. ac adar riannon yn canu ywech. Ar penn auyd kystal gennwech y gedymdeithas ac y bu oreu gennwech pan uu ar af i ciryoet. Ac yggwales ympenuro ybydwch pedwar ugeint mlyned. Ac nny agoroch y drws parth ac aber henuelen y tu a chernyw y gellwech uot yno. ar penn yndilwgyr gennwech. Ac or pann agoroch y drws hwmw ny ellwech uot yno. kyrchwech lundein y gladu y penn. achyrehwech chwi ragoch drwod. Ac yna y llas y benn ef. Ac y kychwynnassant ar penn gantunt drwod y seithwyr hynny. A branwen ynwythuet. Ac y aber alaw yntal ebolyon ydaethant yr tir. Ac yno eisted awnaethant agorffowys. Edrych ohoni hitheu ar iwerdon. Ac ar ynys y kedym awelei o honunt. Oiauab duw heb hi gwac ui omganedig-aeth. ysda dwy ynys adiffeithwyt om achaws i. adodi ueheneit uawr athorri y challon ar hynny. A gwneuthur bed pedryual idi ae chladu yno ygglan alaw. Ac ar hynny kerdet awnaeth y seithwyr parth a hardlech ar penn gantunt val y bydant yn kerdet. llyma gyweithyd yn kyuaruot ac wynt owyr agwraged. A oes gennwech chwi chwedleu heb y manawydan. Nac oes heb wynt o nyt gores-

gyn o gasswallawn uab beli ynys y kedryn. Ae vot yn vrenhin coronawc yn llundein. Pa daruu heb wynteu y garadawc vab bran. ar seithwyr aedewit y gyt ac ef yn yr ynys honn. Dyuoet kasswallawn am eu penn allad y chwegwyr. A thorri o honaw ynteu gradawc y gallon o annyuyget. Am welet y cledyf ynllad y wyr. ac nawydyat pwy ac lladei. Kasswallawn ar daroed idaw wisawc llen hut ymdanaw. Ac nywelei neb ef ynllad y gwyr. namyn y cledyf. Ny mynnei gasswallawn ylad ynteu yuei uab y geuynderw oed. Ahwnnw uu y trydyd dyn atores y gallon o amniuyget. Pennndarandyuet aoed ynwas ieuanc gyt ar seithwyr adihengis yr coet heb wynt. Ac yua y kyrchassant wynteu hardlech ac y dechreuassant eisted. Ac y dechreuwynt ym diwallu o vwyt allynn. Ac y dechreuassant wynteu vwytta ac yuet. Dyuoet tri ederyn adechfeu canu udunt ryw gerd. ac oc aglywssynt ogerd. diuwyn oed pob un y wrthi hi. Aphell dremynt oed udunt eu gwelot uch penn y weilgi allan. achyn amlycket oedudunt wy a chynbydynt gyt ac wy. ac ar hynny oginyaw y buant seith mlyned. Ac ympenn yscithuet ulwydyn y kychwynassant parth a gwalas ympenuro. ac yno ydoed udunt lle tec breihineid uchbenn y weilgi. Ac y neuad uawr aoed yno udunt. ac yr neuad y kyrchysant. ac deudrws aoed ynagoret. ar trydyd drws yngayat yr hwm tua chernyw. Weldi racco heb y manawydau y drws nydylywn ni y agori. Ar nos honno y buant yno ydiwall. ac yndigrif gantunt. ac yr awelsynt o vwyt nny gwyd. ac yr aglywys ehun. ny doey y gof udunt hwy dim. nac o hynny nac o alar nybyt. Ac yno y treulyssant y pedwar ugeint mlyned hyt na wybuant hwy eiryoet. dwyn yspeit digrifach na hyfrydach no honno. Nyt oed annesmwythach nac adnabot o vn ar ygilyd y uot yn hynny o anser no phan doethant yno. Nyt oed annesmwythach gantunt wynteu gytuoet y penn yna. no phan uuassei bendigeituran yn vyw gyt ac wynt. Ac oachaws y pedwar ugeint mlyned hynny y gelwit. Yspydawt urdal benn yspydawt vramwen a math-olweh oed yr honn yd aethpwynt y iwerdon. Sef a wnaeth heilyn uab gwynn dyd-gweith. Meuyr ar uymarafi heb ef onyt agoraf y drws. y wybot ae gwir adywedir am hynny. Agori y drws awnaeth. ac edrych ar gernyw. ac ar aber henuelen. Apham edrychwys yd oed yngynhyspysset gantunt y geniuer collet agollassynt eiryoet ar geniuer car achedymdeith a gollassynt. Ar geniuer drwc adoethoed udunt achyt bei yna y kyuarffei ac wynt. Ac yn bennaf am eu harglwyd. Ac or gyuawr honno ny allyssant wy orfowys. namyn kychwynnu ar penn parth a llundein. Pa hyt bynnac ybydynt ar y fford wynt a doethant hyt yn llundein. Ac agladassant y penn nny gwynurynn. A hwnnw uu y trydyd mat cud pan cudywynt. Ar trydyd anuat dateud pandatcudywynt. kanydoey ormes byth drwy vor yr ynys honn trauei y penn nny cud hwnnw. A hynny adyweit y kyfarwydyt eu kyfranc hwy. y gwyr y gychwynnwys o iwerdon yw hwnnw. Yn iwerdon nyt

edewit dyn byw namyn pump gwraged beichiawc y mywn gogof yn diffeithwch iwerdon. Ar pump gwraged hynny ynyr un kyfnot aonet uduut pumpmeib. Ar pumpmeib hynny auagassant hyt pan uuant weisson mawr. Ac yny uedylyassant amwraged. Ac yny uu damunet gantunt eu kaffael. Ac yna kyscu pob un law heb law ganuam ygilyd. agwledychu y wlat ae chyuanhedu. ae rannu y ryngtunt ell pump. ac o achaws yrannyat hwnnw y gelwir ettwa pump rann Iwerdon. ac edrych ywlat awnaethant ford y buassei yr aeruaeu. achael eur ac aryant yny yttoedynt yn gyuoethawc. Allyna ual y teruyna y geinc honn or mabinogi. O achaws paluawt branwen. yr honn a vu tryded anuat paluawt ynyr ynys honn. ac o achos yspadawt bran pan aeth niuer degwlat a seith ugeint y iwerdon y dial paluawt branwenn. ac am y ginyaŵ ynhardlech seith mlyned. ac am ganyat adar riannon. ac ar yspydawt benn pedwar ugeint mlyned.



MANAWYDDAN VAB LLYR.

GWEDY daruot yr seithwyr adywedassam ni uchof cladu penn bendigeituran yny gwynvryn yn llundein. ae wyneb ar freinc. edrych awnaeth manawyddan ar y dref yn llundein ac ar y gedymdeithon adodi ucheneit uawr. achymryt diruawr alar ahiraeth ynddaw. Oiaduw holl gyuoethawc gwaewi heb ef nyt oes neb heb le idaw heno namyn mi. Arglwyd heb y pryderi. nauit gyndrymhet genhyt a hynny. dy geuynderw yssyd urenhin ynys y kedyrn. achyn gwnel gameu ti heb ef. ny buost ti hawlwr tir adayar eiryoet. tryded lledyf unbenn wyt. Ie heb ef kyt boet keuynderw ymi ygwr hwnnw. goathrist yw gennyf gwelet neb yn lle bendigeituran vy mrawt. ac ny allaf uot ynllawen yn unty ac ef. awney ditheu gynghor arall heb y pryderi. Reit oed im wrth gynghor heb ef. apha gynghor yw hwnnw. Seith gantref ry edewit ymi heb y pryderi a riannon uy mam yssyd yno. mi arodaf itti honno a medyant y seith gantref genthi. Achynny bei itti o gyuoeth namyn y seith cantref hynny. nyt oes seith cantref well noc wy. Kicua uerch wynn gloyw yw vyggwreic ynneu heb ef. achynn enwedigaeth y kyuoeth ymi. bit y mwynant yti ariannon. Aphi mynnot gyuoeth eiryoet atuyd y kaffut ti hwnnw. Nauynnaf unbenn heb ef. duw adalo it dygedymdeithas. Ygedymdeithas oreu aallwyfi ytti y byd os mynny. Mynnaf eneit heb ef duw adalo itt. A mi aaf gyt athi yedrych riannon. Ac y edrych y kyuoeth. Iawn awney heb ynteu. mi atebygaf nawrendeweist eiryoet ar ymdidanwreic well no hi. Yr amser y bu hitheu ynydewred ny bu wreic delediwach no hi. ac ettwa ny byd y anuodlawn y phryt. wynt agerdassant ractunt. a phahyt bynnac y bydynt ar y fford wyni adoethant y dyuet. Gwled darparedic oed udunt erbyn eudyuot yn arberth. Ariannon achicua wedy y harlwyaw. Ac yna dechreu kyt eisted ac ymdidan o uanawydan ariannon. Ac or ymdidan tirioni awnaeth y bryt ae uedwl wrthi. Ahoffi nny uedwl na welsei eiryoet gwreic digonach y thecket ae thelediwet no hi. Pryderi heb ef mi avydaf wrth adywedeisti. Padyweddydat oed hwnnw heb y riannon. Arglwydes heb ef bryderi. mi athroessum yn wreic y uanawydan uab llyr. A minheu a vydaf wrth hynny ynllawen heb y riannon. llawen yw genyf inneu heb y manawydan. Aduw adalo yr gwr yssyd yn rodi y minneu ygedymdeithas mor diffeis a hynny. Kynndaruot y wled honno y kyscwynt genthi. ar ny deryw or wled heb y pryderi treulwch chwi. aminneu aaf y

hebrwng vyggwrogaeth y gasswallawn uab beli hyt yn lloegyr. arglwyd heb y riannon ygkent y mae kasswallawn. athi aelly treulaw y wled houn. ae aros ynteu auo nes. Ninheu ae harown heb ef. ar wled honno adreulassant. A dechreu awneuthant kylchaw dyuot ae hela. achymryt eu digrifwch. Ac wrth rodyaw y wlat ny welsynt eiryoet wlat gyuanhedach no hi. naheldir well. nac anylach y mel ae physcawt no hi. Ac yn hynny tynu kedymdeithas y rygtunt yllpedwar hyt na mynnai yr vn vot heb y gilyd na dyd na nos. ac ymmysc hynny ef aaeth at gasswallawn hyt yn ryt ychen y hebrwng y wrogaeth idaw. A diruawr auu yny erbyn yno. adiolwch idaw hebrwng y wrogaeth idaw. a gwedy y ymchoelut kymryt eu gledeu ae hesmwythter aorugant pryderi amanawydau. a dechreu gwled aorugant yn arberth kanys priflys oed. ac o honei y dechreuit pob enryded. Agwedy y bwyta kyntaf y nos honno tra uei y gwassanaethwyr yn bwyta. kyuodi allan aorugant a chyrcu gorsed arberth awnaethant yllpedwar ac eu niuer gyt ac wynt. Ac ual y bydant yn eisted uelly. llyma dwryf. Achan ueint y twryf llyma gawat o nywl yn dyuot hyt nawahanhoed yr un ohonunt hwy y gilyd. Ac yn ol y nywl llyma yngoleuhau pob lle. Aphan edrychysant y ford y gwelynt y preideu ar anreithu ar kyuanhed kynno hynny. ny welynt neb ryw dim. na thy nac aniueil. na mwc. na than. na dyn. na chyuanhed eithyr tei y llys ynwac diffeith angkyfanned heb dyn heb vil yndunt. Seu kedymdeithon chun wedy eu colli heb wybot dim ywrthynt onyt hwy yllpedwar. Oia yr arglwyd duw heb y manawydau mae niuer yllys an niuer ninheu eithyr hynn. awn y edrych. dyuot yr neuad awnaethant nyt oed neb. kyrchu y kastell ar hundy ny welent neb. yn medgell nac y glythyn nyt oed namyn diffeithwch. Dywod awnaethant yllpedwar* ahela awnaethant achymmeryd digrifwch adechreu awnaeth. pob un o honynt y rodyaw y wlat ar kyuoeth yd oed gantunt ae ty. ae kyuanhed. a neb ryw† eithyr gwydlydnot. Agwedy gorphen eu gwled ac eu darmerth o honunt. dechreu awnaethant ymborth ar gic hela a physcawt abydafeu. Ac uelly blwydyn ar eil a treulyssant yn digrif gantunt. Ac ynydiwed diffygyaw a wnaethant. Dioer heb y manawydau ny bydwn ualhynn. kyrchwn loegyr acheisswn grefft y kaffon yn hymborth. Kyrchu lloegyr aorugant. A dyuot hyt yn henfford. Achymryt arnunt gwneuthur kyfrweu. adechreu awnaeth ef uanawydau llunyaw corfeu ac eu lliwaw arywed y gwelsei ganlasar llaesgygyd achalch llasar. agwneuthur calchlasar racdaw ual y gwnathoed y gwr arall. ac wrth hynny y gelwir etwa calchlasar. am y wneuthur o lasar llaesgygyd. Ac or gweith hwnnw trageffit gan uanawydau. ny phrynit gan gyfrwydd dros wyneb hennfford na chorof na chyfrwy. ac yny adnabu bop un or kyfrwydyon y uot yn kolli oe hennill llawer. ac ny phrynit dim gantunt

* Mae'r llawysgrif yma yn amherfaith; tebygol mai "treulaw gwled" ydyw'r ymadrodd.

† "dim ny welynt."

onyt gwedy na cheffit gan uanawydan. Ac ynhyunny ymgynullaw ygyt ohonunt aduunaw am y lad ef ae gedymdeith. Ac ynhyunny rybud agawssant wynteu achymryt kynghor am adaw y dref. Yrofi a duw heb y pryderi ny chynghorafi adaw y dref. namyn llad y taeogyon racco. Nac ef heb y manawydan bei ymladem ni ac wyntwy clot drwc avydei arnam ac an carcharu awneit. ysgwell ynn heb ef kyrchu tref arall y ymosmeithaw yndi. Ac yna kyrchu dinas arall a wnaethant elpedwar. Pa geludyd heb y pryderi agymerwn ni arnam. Gwnawn taryaneu heb y manawydan. A wdwm ninneu dim ywrth hyunny heb y pryderi. Ni ae provwn heb ynteu. Dechreu gwneuthur taryaneu aorugant. ac eu llunyaw ar lun y taryaneu da a welsynt. adodi yr hyn a dodassynt ar y kyfrwyen arnunt. ac yn y lle hwnnw alwydwys ractunt hyt nat oed eiseu taryan yn yr holl dref onyt* gantunt hwy. kyflym† wynteu adiuessur awnel‡ y buant yny dygwydawd yw kyt-drefwyr ractunt. ac yny duunassant argeissaw eullad. Rybud adoeth udunt wynteu. achlybot bot y gwyr ae bryt ar eu dihenydyaw. Pryderi heb y manawydan y mae y gwyr hynn yn mynnu an diuetha. Na chymerwn ninneu ygan y taeogau hyunny. awn y danunt a lladwn wynt. Nac ef heb ynteu. kasswallawn a glywei hyunny ae wyr. a rewin vydem. Kyrchu tref arall awnawn. Wynt a doethant y dref arall. Pa gelvydyt yd awn ni wrthi heb y manawydan. Yr honn y mynnych or awdam ni heb y pryderi. Nac ef heb ynteu gwnawn grydyaeth. ny byd o gallon gan grydyon nac ymlad ani nac ymwaravun. Ny wn i dim ywrth honno heb y pryderi. Mi ae gwnn heb ymanawydan a mi adyscaf itti wniaw. Ac nyt ymyrrwn ar gyweiryaw lledyr namyn y prynu yn parawt a gwneuthur yn gweith o honaw. Ac yna dechreu prynu y cordwal teekaf a gafas yny dref. Ac amgen ledyr no hwnnw ny phrynei ef eithyr lledr gwadneu. a dechreu awnaeth ymgedymdeithassu ar eurych goreu yny dref. Apheri gwaegeu yr esgidyeu ac euraw y gwaegeu a synnyaw ehun arhyunny yny gwybu. ac or achaws.hwnnw y gelwit ef yn drydyd eurgyrd. Trageffit gantaw ef nac esgit na hossan ny phrynit dim gan gryd yn yr holl dref. Sef awnaeth y crydyon adnabot bot eu hennill yn pallu udunt. kanys ual y llunyei vanawydan y gweith y gwniei pryderi. Dyuot y crydyon achymryt kyghor. Sef a gawssant yn eu kynghor duunaw ar eu llad. Pryderi heb ymanawydan y mae y gwyr hynn yn mynnu anllad. Paham y kymerwn ninneu hyny ygan y taeogeu lladron heb y pryderi. namyn eu llad hwy oll. Nac ef heb y manawydan nyt ymladwn ac wynt. ac ny bydwn yulloegyrr bellach. kyrchwn parth a dyuet. ac awn y hedrych. Pa hyt bynnac y buant ar y fford wynt a doethant y dyuet. ac arberth a

* Telygol "a gessyt." † "uelly y bu eu gweith." ‡ "-ynt o daryaneu, ac uelly."

gyrchasant. Allad tan awnaethant, a dechreu ymborth a hela athreulaw mis uelly. achynnull eu kwn attunt a bot uelly yno vlwydyn. A boregweith kyuodi. pryderi amanawydan y hela. a chyweiryaw eu kwn amynet odieithyr yllys. Sef awnaeth rei o cwn. kerdet oe blaen amynet y berth vechan aoed geyr eullaw. Ac ygyt ac ydaant yr berth kiliaw yngyflym acheginwrych mawr gantunt ac ymchoelut at y gwyr. Nessawn heb y pryderi parth arberth y edrych beth yssyd yndi. nessau parth ar berth awnaethant. pan nessayssant llyma vaed coet claerwyn yn kyuodi or berth. Sef aoruc y cwn ohyder ygwyr ruthraw idaw. seef awnaeth ynteu adaw y berth achilyaw dalym ywrth y gwyr. Ac yny uei agos y gwyr idaw kyuarth arodei yr kwn heb gilyaw yrdunt. Aphan yghei y gwyr y kiliei eilweith ac y torrei y gyuarth. Ac ynol y baed y kerdassant yny welynt gaer uawr aruchel. agweith newyd arnei yny lle ny welsynt na maen nagweith eiryoet. Ar baed ynkyrchu yr gaer yn vuan ar kwn ynyol. A gwedy mynet y baed ar kwn yr gaer. ryuedu a wnaethant welet y gaer yny lle ny welsynt eiryoet weith kyn no hynny. Ac o benn yr orsed edrych awnaethant ac ymwarandaw ar kwn. Pa hyt bynnac ybydynt uelly ny chlywynt un or kwn na dim y wrthunt. Arglwyd heb y pryderi mi aaf yr gaer y geissyaw chwedleu y wrth y cwn. Dioer heb ynteu nyt da dy gyghor uynet yr gaer honn nys gweleist eiryoet. Ac ogwney vygkyngor i nyt ey idi. ar neb adodes hut ar y wlat aberis bot y gaer ymma. Dioer heb y pryderi ny madeuaf i vygcwn. Pagyghor bynnac a gaffei ef y gan uanawydan y gaer agyrchawd ef. Pandaeth yr gaer na dyn. na mil. nar baed. nar cwn. na thy. nac anhed. nys gwelei yny gaer. Ef a welei ual amgymherued llawr y gaer ffynawn agweith o vaen marmor ynychylch. Ac ar lan y fynnawn kawc eur uchben llech o vaen marmor. achadwyneu yn kyrchu yr awyr. a diben nysgwelei amunt. Gorawennu awnaeth ynteu wrth decket yr eur. adahet gweith y kawc. Adyuot awnaeth ynyd oed y kawc ac ymauael ac ef. Ac ual y dymauaelawd ar kawc glynu y dwylaw wrth y kawc. ac draet wrth y llech ydoed y kawc yn seuyll arnei. adwyn y leueryd y gantaw hyt na allei dywedyt vn geir. a seuyll awnaeth uelly. ac aros ynteu awnaeth manawydan hyt parth adiwed ydyd. aphrydnawn byrr gwedy bot yn diheu gantaw na chaei chwedleu ywrth pryderi nac ywrth y cwn. dyuot aoruc parth ar llys. pan daw y mywn. sef awnaeth riannon edrych arnaw. Mae heb hi dy gedymdeith ti ath gwn. Llyma heb ynteu vyingkyfranc ae datkanu oll. Dioer heb y riannon ys drwc agedymdeith uuost di. ac ys da agedymdeith agollaist di. a chan y geir hwnnw mynet allan. ac yr artal y managassei ef uot y gwr argaer. kyrchu yno awnaeth hitheu. Porth y gaer awelas yn agoret ny bu argel arnei. Ac ymywn y doeth. Ac ual y doeth arganuot pryderi ynymauael ar kawc a dyuot attaw. Och arglwyd heb hi beth awney di yma. Ac ymauael ar kawc

gyt ac ef. ac ygyt ac ydymeveil glynu y dwylaw hitheu wrth y kawc. ae deutroet wrth y llech hyt na ellei hitheu dywedut un geir. Ac ar hynny gyt ac y bu nos. llyma dwryf arnunt achawat o nywl. achan hynny diflanu ygaer. Ac ymeith ac wynteu. Pan welas kicua verch gwyn gloew nat oed nny llys namyn hi a manawydan. drycyruerth awnaeth hyt nat oed well genti ybyw noe marw. Sef a wnaeth manawydan edrych ar hynny. Dioer heb ef cam ydwyt arnaw os rac vy ovyn i y drycyruertly dy. mi arodaf duw yn vach itt naweleisti gedymdeith gywirach noc y keffydi vi. tra vynnno duw itt uot uelly. Yrof aduw pei yt uewn i yndechreu vy ieunctit mi agadwnn gywirdeb wrth pryderi. ac yrot titheu mi ae cadwnn. ac na vit un ovyn arnat heb ef. ac yrof aduw heb ef. ti ageffy y gedymdeithas auynnnych y gennyfi herwyd vyggallu i trawelo duw yn bot nny dihirwech hwnn argoual. Duw adalo itt heb hi ahynny adebygwyn i. Ac yna kymryt llewenyd ac elhouydra or uorwyn o achaws hynny. Ie eneit heb y manawydan. nytkyfle ynni trigyaw yma. yn kwn agollasom. ac ymborth nys gallwn. kyrchwn loeger. hawssaf yw yni ymborth yno. Ynllawen arglwyd heb hi. ni a wnawn hynny. Ygyt y kerdassant hyt yn lloegyr. Arglwyd heb hi pa grefft agymerydi arnat. kymer vn lannweith. Nychymeraf i heb ef namyn crydaeth. ual y gwneuthum gynt. Arglwyd heb hi nyt hoff honno y glanet y wrkygynnilet kyuard athydi. wrth honno ydafi heb ef. dechreu y geluydyt awnaeth a chyweiryaw y weith or cordwal teckaf agauas nny dref. ac ual y dechreuyssynt yn lle arall dechreu gwaegu yr yskidyeu owaegeu eureit nny oed ouer a manweith holl grydyon y dref ywrth yr eidaw ef ehun. Athrageffit y gantaw nac eskit na hossan. ny phryneit y gan ereill dim. A blwydyn uelly y treulwys ef yno nny oed y crydyon yndala kynuigen achyghoruynt wrthaw. Ac ynydoeth rybudyen idaw. aiuenegi uot y crydyon wedy duunaw ar y lad. Arglwyd heb y kicua pam y diodefir hynn y gan y taogeu. Nac ef heb ynteu ni aem eissoes y dyuet. dyuet agyrchassyant. Sef aoruc manawydan pan gychwynnwys parth a dyuet. dwyn beich owenith gantaw a chyrchu arberth. achyvanhedu yno. ac nyt oed dim digriuah gantaw no gwelet arberth ar tirogaeth y buassei yn hela ef aphryderi a riannou gyt acwynt. Dechreu a wnaeth kynneuinaw a hela pycawt allydnot ar eugwal yno. Ac yn ol hynny dechreu ryuoryaw. ac yn ol hynny heu grofft. ar eil. ar dryded. Ac nachaf y gwenith ynkyuot ynoreu nny byt. ae deir grofft yn llwydyaw yn vn dwf. hyt nawelsei dyn wenith degach noc ef. Treulaw amseroed y vlwydyn awnaeth. nachaf y kynnhaeaf yndyuoet. Ac y edrych un oe roffteu ydacth. nachaf honno yn aeduet. Mi a uynnaf vedi honn auory heb ef. Dyuoet draegeuyn ynno honno hyt yn arberth. y bore glas drannoeth dyuoet y uynnv medi y rofft. pan daw nyt oed namyn y kalaf yn llwm wedy daruot torri pob un nny doi ynydywyssen orkeleuyn. amynet ymeith ar

tywys yn hollawl. ac adaw y calaf yno yn llwm. Ryuedu hynny yn uawr a wnaeth adyuot y edrych grofft arall. nachaf hwnnw yn aeduet. Dioer heb ef mi a uynnaf uedi honn auory. athrannoeth dyuot ar uedwl medi honno. Aphanaw nyt oed dim namyn y kalaf llwm. Oiaarglwyd duw heb ef pwy yssyd yngorffen vyndiua i. a mi aegwnn y neb adechreuis uyndiua yssyd nny orfen. Ac adiuawys ywlat gyt ami. Dyuot y edrych y dryded rofft. pan doeth ny welsei neb wenith degach. ahwnnw yn aeduet. meuyl ymi heb ef ony wylaf i heno. ar neb a duc yr yt arall adaw ydwyn hwnn. ami awybydaf beth yw. Achymryt y arueu a wnaeth adechreu gwylat y grofft. Amenegi awnaeth y kicua hynny oll. Ie heb hi beth yssyd yth vryt ti. Mi awylaf y grofft heno heb ef. Y wylat y grofft y daeth. Ac ual y byd am hanner nos uelly nachaf twryf mwyaf nny byt. Sef awnaeth ynteu edrych. ar hynny llyma eliwl y byt olygot. a chyfrif na messur ny ellit ar hynny. Ac ny wydyat nny uyd y llygot yngwan adau y grofft. A phob un yn drigyaw ar hyt y keleuyn. ac nny estwng genti. ac yn torri y tywysen. ac yn gwan ardywyssen ymeith. ac yn adaw y kalaf yno. Ac ny wydyat ef uot un keleuyn yno. ny bei lygodet am bob un. Ac agymerynt eu hynt radunt ar tywys gantunt. Ac yna rwng dieter a llit taraw ymplith y llygot a wnaeth. amwy noc ar y gwydbet neu yr adar yn yr awyr ny chytremei ef ar yr un o honunt eithyr un awelei yn amdrom ual y tebygei na alleid un pedestric yn ol honno y kerdwys ef ae dala awnaeth ae doddi nny uanec. ac allinin rwymaw geneu y vanec. ae chadw gantaw. achyrchu y llys. Dyuot yr ystauell nny lle ydoed kicua. Agoleuhau y tan. ac wrth y llinin doddi y uanec ar y wanas a oruc. Beth yssyd yna arglwyd heb y kicua. lleidr heb ynteu ageueis yn lletratta arnaf. Pa ryw leidyrglwyd aallut ti y doddi yth uanec heb hi. llyma oll heb ynteu amenegi ual yr lygryssit ac y diuwynissit y groffteu idaw. ac ual y doethant y llygot idaw yr grofft diwethaf nny uyd. Ac vn ohonunt oed amdrom ac adelleis inheu ac yssyd yn vy manec. ac a grogaf inheu avory. Ac ymkyffes y duw bei askaffwn oll mi ae crogwn. Arglwyd heb hi di ryued oed hynny. Ac eissoes anhwyp yw gwelet gwr kyfurd kymoned athidi yn crogi y ryw bryf hwnnw. Apehi gwnelut iawn nyt ymyriut nny pryf. namyn y ellwng ymeith. meuyl ymi heb ef pei as caflwn i oll wynt onys crogwn. ac ageueis mi ae crogaf. Ie arglwyd heb hi nyt oes achaws ymi y uot ynborth yr pryf hwnnw. namyn goglyt ansyberwyt yti. a gwna ditheu dy ewyllys arglwyd. Beigwypwn innheu defnyd nny byt y dylyut titheu bot ynborth idaw ef. mi avydwn wrth dy gynghor am danaw heb manawydan. achansys nys gwnn arglwydes. medwl yw gennyf y diuetha. agwna ditheu yn llawen heb hi. Ac yna y kyrchwys ef orsed arberth arlygoden gantaw. A sengi dwy fforch nny lle uchaf yn yr orsed. Ac ual y byd uelly. llyma y gwelei yscolheic yn dyuot attaw. a hen dillat hydreul tlawt

yndanaw. ac neut oed seith mlyned kynno hynny yr panwelsei ef na dyn na mil eithyr y pedwardyn y buassynt ygyt nny golles y deu. Arglwyd heb yr ysgolheic dyd da itt. Duw arodho da itt a gressaw wrthyt heb ef. pan doydi yr yscolheic heb ef. Pandoaf arglwyd oloygyr o ganu. Aphaham y gouynny di arglwyd. heb ef. am na weleis heb ef yr ys seith mlyned undyn onyt pedwardyn ditholedic athitheu yr awr honn. Ie arglwyd heb ef mynet trwy ywlat honn yd wyf inheu yr awr honn parth amgwlat vy hvn. Apharywweith yd wyd yndaw arglwyd. Crogi lleidyr ageueis yn lletratta arnaf heb ef. Paryw leidy arglwyd heb yr yscolheic. pryf awelaf yth law di ual llygoden. adrwc y gweda y wr kyfurd athydi teimlaw pryf kyfryw a hwnnw. gellwng ymeith ef. Na ellyngaf y rof aduw heb ynteu. yn lletratta arnaf y keueis i ef. Achyfreith lleidyr awnaf inheu ac ef y grogi. Arglwyd heb ynteu rac gwelet gwr kyfurd a thidi nny gweith hwnnw. punt a geueis i o gardotta mi ae rodaf itti agellwng y pryf hwnnw ymeith. Na ellyngaf y rof aduw. ac nys gwerthaf. Gwna di arglwyd heb ef ony bei rac gwelet gwr kyfurd athidi ynteimlaw y ryw bryf hwnnw. nymtorey i. Ac ymeith y daeth yr yscolheic. Val y byd ynteu yn dodi y dulath nny ffyrch nachaf offeiraf yndyuot attaw ar uarch yn gyweir. Arglwyd dyd da itt heb ef. Duw a rodho da itt heb y manawydan. athuendith. Bendyth duw itt. apharyw arglwyd ydwyt nny wneuthur. Crogi lleidyr a geueis yn latratta arnaf heb ef. Paryw leidy yw hwnnw arglwyd heb ef. Pryf heb ynteu ar ansawd llygoden. alletratta awnaeth arnaf. adihenyd lleidyr awnaf ynneu arnaf ef. Arglwyd heb ynteu. rac dywelet yn teimlaw y pryf hwnnw mi ae prynaf ellwng ef. Y duw ydygaf vygkyffes nae werthu nae ellwng nas gwnaf i. Gwir yw arglwyd nyt gwerth arnaf ef dim. Eithyr rac dywelet ti yn ymlhologi wrth y pryf hwnnw. mi arodaf itt teirpunt agollwng ef ymeith. Na vynnaf y rofi aduw heb ynteu vu gwerth yrdaw. namyn yr hwnn a dyly y grogi. Ynllawen arglwyd gwna dy vynnwy. ymeith ydaet yr offeiraf. Sef a wnaeth ynteu maglu y llinin aui vynnwyl y llygoden. ac ual ydoed nny dyrchael llyma rwtter escob awelei ac swneru ae niuroed. Ar escob ehun yn kyrchu parth ac attaw. Sef awnaeth ynteu gohir ar yweith. Arglwyd esgob heb ef dy uendith. Duw arodho y uendith itt heb ef. paryw weith ydwyt ti yndaw. Crogi lleidyr ageueis yn lletratta arnaf heb ef. Ponyt llygoden heb ynteu a welaf ythlaw di. Ie heb ynteu. a lleidyr uu arnafi. Ie heb ynteu kan deuthum i ar diuetha y pryf hwnnw mi ae prynaf y gennyt. mi arodaf seithpunt itt yrddaw. ac rac gwelet gwr kyfurd athi yndiuetha pryf mor dielw ahwnnw gollwng ef arda ageffy ditheu. Na ellynghaf y rof aduw heb ynteu. Kan nys gollynghy yr hynny mi a rodaf it pedeirpunt ar hugeint o aryant parawt agellwng ef. Na ellyngaf dygaf yduw vynnkyffes yr y gymeint arall heb ef. Kannys

gellyngy yr hynny heb ef mi arodaf itt awely o veirch yny maes hwnn. ar seith swmer yssyd yma. ar seith meirch y maent arnunt. Na vynnaf y rof aduw heb ynteu. Kany mynny hynny gwna yr gwerth avynnych. Gwnaf heb ynteu. rydhau riannon aphryderi. Ti a gey hynny. Na vynnaf yrof aduw. Beth a uynny ditheu. Gwaret yr hud ar lletrith y ar seith cantref dyuet. Ti ageffy hynny heuyt a gellwng y llygoden. Naellyngaf y rof aduw heb ef. Gwybot a uynnaf pwy ef y llygoden. Vyggwreic i yw hi a phany bei hynny nys dillynghwn. Paffuryf y doeth hi attafi. Y herwa heb ynteu. Miui yw llwyd uab kil coet. a mi adodeis yr hut ar seith cantref dyuet. ac y dial gwawl uab clut o gedymdeithas ac ef ydodeis i yr hut. ac ar pryderi y dieleis i gware broch ygcot a gwawl uab clut pan y gwnaeth pwyll penn amwn. a hynny ynllys eueyd hen y gwnaeth o aghyghor. agwedy gwybot dy not titheu ynkyuanhedu ywlat. ydoeth vynteulu attaf ynheu ac erchi eu rithaw ynlllygoŷ y diua dy yt ti. Ac y doethant y nos gyntaf vynteulu ehuncin. Ar eil nos y doethant heuyt ac y diuayasasant y dwy grofft. ar tryded nos y doeth uynngwreic a gwraged y llys ataf y erchi im eu rithaw. ac y ritheis ynheu. abeichawe oed hi. Aphany bei ueichawe hi nysgordiwedut ti. Achanyis hynny vu ae dalahi mi arodaf pryderi ariannon itt. ac aaredaf yr hut ar lletrith yar dyuet. Minneu auenegeis itti pwy oed hi. agellwng hi weithon. Naellyngaf yrofi aduw heb ef. Beth auynny ditheu heb ef. Llyma heb ynteu auynnaf. na bo hut vyth ar seith cantref dyuet ac na dotter. Ti ageffy hynny heb ef agellwng hi. Na ellynghaf myn uyngeret heb ynteu. Beth avynny ditheu bellach heb ef. Llyma itt heb ef avynnaf. na bo ymdiala ar pryderi a riannon nac arnaf inheu byth am hynn. Hynny oll a geffy. adioer da y medrieist heb ef. ef adoci am dy benn gwbyl or gouut. Ie heb ynteu rachynny y nodeis ynneu. Rydhaa weithon vyggwreic im. Na rydhaf y rof aduw heb ef. yny welwyf pryderi ariannon yn ryd gyt ami. Wel dyma wyntwy. yn dyuot heb ef. arhynny llyma pryderi a riannon. Kyuodi aoruc ynteu yn eu herbyn aegressawu. ac eisted ygyt. A wrda rydha vyggwreic im weithon heb yr escob. ac neu rygeucist gwbyl or annodeist. Gellyngaf yn llawen heb ef ac yna y gellyngawd ef hi. Ac y trewis ynteu hi ahutlath. Ac y datrithwys hi yn wreic ieuanc deccaf awelsei neb. Edrych yth gyleh ar y wlat heb ef. athi awely yr holl anhedu ar kyuanhed ual y buant oreu. Yna kyuodi aoruc ynteu ac edrych. aphan edrychawd ef awelei yr holl wlat yn gyuaned. Ac yngyweir oe holl alauoed ae hannedu. Paryw wassanaeth y bu pryderi ariannon yndaw heb ef. Pryderi a uydei ac yrd porth uy llys i am y uynwgyl. A riannon auydei amweireu yr essyn wedy bydynt ynkywein gweir am y mynwgyl hitheu. Ac uelly y bu eu carchar. Ac o achaws y karchar hwnuw y gelwit y kyfarwydyt hwnuw mabinogi. mynweir a mynord. Ac uelly teruyna y geinc honn yma or mabinogi.

PWYLL PENDEVIG DYVED

PWYLL penrdeic dyuet aoed yn arglwyd ar seith cantref dyuet. Athreigylgweith ydoed yn arberth priflys idaw. adyuot nny uryt ac nny vedwl' uyned y hela. Sef kyveir ae gynoeth a vynnei y hela glynn cuch. Ac ef agychwynn-wys y nos honno o arberth. Ac adoeth hyt ympenn llwyn diarwyd. Ac yno y bu y nos honno. athraunoeth yu Ieuencitit y dyd kyuodi aorue adyuot y lynn cuch y ellwng y gwn dan y coet. A chanu y gorn adechreu dygyuor yr hela. a cherdet yn ol y cwn ac ymgolli ae gedymdeithon. Ac ual y byd yn ymwarandaw allef yr erchwys. ef a glywei llef erchwys arall. Ac nyt oedynt vn llef. A hynny yn dyuot yn erbyn y erchwys ef. Ac ef awelei lannerch nny coet ouaes gwastat. Ac ual ydoed y erchwys ef yn ymgael ac ystlys y llannerch. ef a welei carw ovlaen yr erchwys arall. Apharth a pherued y llannerch llyma yr erchwys aoed nny ol yn ymordiwes ac ef. Ac nny vwrw yr llawr. Ac yna edrych ohonaw ef ar liw yr erchwys heb hanbwyllaw. edrych ar y carw. Ac or a welsei ef ohelgwn ybyt ny welsei cwn un lliw ac wynt. Sef lliw aoed arnunt. Claerwynn llathreit. Ac eu clusteu yn gochyon. Ac ual y llathrei wynnet y cwn y llathrei cochet y clusteu. Ac ar hynny att y kwn y doeth ef. agyrru yr erchwys aladyssei y carw ymeith. allithyaw y erchwys ehunan ar y carw. ac ual y byd yn llithyaw y cwn. ef awelei varchawe yn dyuot yn ol yr erchwys y ar varek erchlas mawr a chorn canu am y vynwgyl. Agwisc o vrethyn llwyttei ymdanaw yn wise hela. ar hynny y marchawe adoeth attaw ef. adywedut ual hyn wrthaw. A vnenn heb ef mi awnn pwy wyt ti. Ac ny chyuarachaf i well ytti. Ie heb ef acatuyd. y mae arnat oenryded ual nasdylyy Dioer heb ef nyt teilygdawt vy anryded am hetteil y hynny. Avnenn heb ynteu beth amgen. y rofi aduw heb ynteu dy annwybot dy hun. ath ansyberwyt. Pa ansyberwyt unben aweleist ti arnafi. Ni weleis ansyberwyt vwy ar wr heb ef. no gyrru yr erchwys aladyssei y karw ymeith. allithyaw dy erchwys dy hun arnaw. hynny heb ef ansyberwyt oed. achynnyt ymdialwyf athi yrofi aduw heb ef mi awnaf o aoglot itt gwerth can carw. Avnenn heb ef or gwneuthum gam mi abrynaf dy gerenyd. Padelw heb ynteu y pryndi. wrth ual y bo dy enryded. ar ny wni pwy wyt ti. Brenhin coronawe wyfi nnywlat yd henwyf o honei. Arglwyd heb ynteu dyd da itt. aphawlat yd herwyt titheu o honei. O annuvyn heb ynteu. arawn vrenhin annwuynd wyfi. Arglwyd heb ynteu paffuryf y kaffafi dy

gederennyd di. llyma yr wedd y keffy heb ynteu. Gwr yssyd gyuerbyn y gyuoeth am kyuoeth ynneu yn ryuelu arnaf yn wasstat. Sef yw hwnnw. Hafgan breuhin o annwun. Ac yr gwaret gormes, hwnnw y arnaf. a hynny aelly di yn hawd y keffy vygkerennyd. Minnheu awnaf hynny heb ynteu yullawen. A manac dithen ymi pafuryf y gallwyf hyny. Managaf heb ynteu. llyna val y gelly. Mi wnaaf athi gedymdeithas gadarn. Sef ual y gwnaf mi athrodaf di ym lle i yn annwun. ac arodaf y wreic deckaf. aweleist eiryoet y gyscu y gyt athi beunoeth. Am pryt ynheu amgosked arnat ti. hyt na bo gwas ystauell naswvdyawo nadyn arall oc am kanlynnwys i eiryoet awypo nabo miui vych di. a hynny heb ef hyt ympenn y vlwydyn oryd auory. ac an kynnydyl yna yny lle honn. Ie heb ynteu kyt bwyfi yno hyt ympenn y vlwydyn. pagyfuarwyd avyd ymi o ymgael ar gwr dywedy di. Blwydyn heb ef y heno y mac oet yrofi ac ef ar y ryt. Abyd di ym ryth i yno heb ef. ac un dynawt arodych di idaw ef. ny byd byw ef o honnw achyt archo ef ytti yr eil nadyro yr aymbilio athi. Yr a rodwn i idaw ef hagen. kystal achynt ydymladei ami drannoeth. Ie heb y pwyll beth awnaf i ymkyuoeth. Mi awnaf heb yr arawn na bo yth gyuoeth na gwr na gwreic a wypo na bo tidi wyfi. amiui aaf ith le di. yn llawen heb y pwyll a mivi aaf ragof. Di lesteir uyd dy hynt ac ny russya dim ragot yny delych ymkyuoethi. A mi auydaf hebrygyat arnat ef ahebrygyawd yny welas y llys ar kyfuanned. llyna heb ef y llys ar kyuoeth yth uedyant. Achyrch y llys nyt oes yndi neb nyth adnapo. Ac wrth ual y gwelych y gwassanaeth yndi yd adnabydy voes y llys. kyrechu y llys aoruc ynteu. ac ynyllys ef aweleu hundyeu ancuadeu ac ystauelload. ac adurn teckaf or awelsei neb o adeiladeu. Ac yr neuad y kyrchwys y diarchenn. ef adoeth mackwycit a gweisson ieuenc ydiarchenu.

A phawb ual y delynt kyuarach gwell awnelynt idaw. Deu varchawe a doeth y dynnu y wise hela y amdanaw. ac y wisaw curwise o bali ymdanaw. ar neuad a gyweirywyt. llyna y gwelei ef teulu a niueroed. ar niuer hardaf a chyweiryaf or awelsei neb yndyot y mywn. ar urenhines ygyt ac wynt yn deckaf gwreic or awelsei neb. Ac eurwise ymdanei obali llathreit. Ac ar hynny ymoleli ydaethant. Achyrchu y byrdeu aorugant. Ac eisted awnaethant ual hyn. Y urenhines or neillparth idaw ef. ar iarll debygyei ef or parth arall. a dechreu ymdidan a wnaeth ef ar vrenhines. Ac orawelsei eiryoet wrth ymdidan ahi. disemylaf gwreic a bouhedigeidaf y hamwyt ac ymdidan oed. athreulaw a wnaethant bwyt allynn acherdeu achyuedach. Or awelsei o holl-lyssocd y dayar llyna y llys diwallaf o vwyt allyn. ac eurllestri a theyrmdlysseu. Amser a doeth udunt y uynet y gyscu. Ac y gysgu ydaethant ef ar urenhines. Ygyt ac ydaethant yr gwely ymchoelut y wyneb att yr echwyn aoruc ef. ac gevyn

attei hitheu. o hynny hyt trannoeth, ny dywawt ef wrthi hi vngeir. Trannoeth tirionwch ac ymdidan hegar auu ryingtunt. Peth bynnac o garueidrwyd a vei y dyd. ny bu un nos hyt ympenn y vlwydyn amgen noc auu y nos gyntaf. Trellaw y vlwydyn awnaeth drwy hela a cherdeu a chefedach acharueidawyd ac ymdidan achedymdeithon. hyt y nos ydoed oet y gyfranc. Ynoet y nos honno kystal y doi y gof yr dyn eithaf ynyr hollgyuoeth yroet. Ac yntev adoeth yroet agwyrda y gyuoeth ygyt ac ef. Ac ygyt ac ydoeth yr ryt. marchawe a gyuodes y uynyd. ac adywauwt val hynn. A wyrda heb ef ymwarandewch yn da y rwng y deu vrenhin y mae yr oet hwnn y ryingtunt. Ahynny rwng eu deu gorf oldeu. Aphob un o honunt yssyd hawlwr ar y gilyd a hynny am dir a dayar. asegur y digawu pawb o honawch vot eithyr gadu y ryingtunt wy ildeu. Ac ar hynny y deu urenhin anessaysant ygyt amperued y ryt. ac ymgyuaruot. Ac ar y gossot kyntaf y gwr aoed yn lle arawn aossodes ar hafgan ymperued bogel ydaryan yny hyllt yn deu hanner ac ynytyrr yr arueu. ac yny vyd hafgan hyt y vreich ae paladyr dros pedrein y varch yr llawr. Ac agheuawl dyrnawt yndaw ynteu. A unben heb yr hafgan padylyet oed itti ar vy angeu i. nyt yttoedwn i ynholi dim ytti ny wydwnachaws itt heuyt ym llad i. Ac yr duw heb ef canys dechreueist vy llad gorffen. A vnbenn heb ynteu. ef acill vot yn ediuar gennyf awnenthum itt. Keis ath ladho ny ladaf idi. Vyggywyrda. Kywir heb yr hafgan dygwch vi o dyma. neut teruynedic. agheu y mi. nyt oes ansawd ymi ych kynnal chwi bellach. Vyggywyrda ynheu heb y gwr aoed yn arawn kymerwch ych kyuarwyd agwybydwch pwy a dylyy bot ynwyrr ymi. Arglwyd heb y gwyr da pawb ae dylyy. kanyt oes vrenhin ar holl annwvyn namyn ti. Ie heb ynteu adel ymwardawe iawn yw y gymryt. ac ar ni del yn ufud. kymheller o nerth cledyveu. Ac ar hynny kymryt gwrogaeth y gwyr adechreu goresgyn y wlat. ac erbynn hanner dyd drannoeth ydoed yny vedyant y dwy deyrnas. Ac ar hynny ef agerdwys parth ae gynnadyl. ac adoeth y lyn cuch. Aphan doeth yno ydoed arawn vrenhin annwvyn yny erbyn. llawen vu pob un wrth y gilyd o honunt. Ie heb yr arawn duw adalo itt dy gedymdeithas mi ae kigleu. Ie heb ynteu pan delych dy hun yth wlat. ti awely awnenthum y rot ti. a wnaethost heb ef yrofi. Duw ae talo itt. Yna y rodes arawn y ffuryf ae drych ehun y pwyll pendeuic dyuet. Ac y kymerth ynteu y ffuryf ehun ae edrych. Ac y kerdawd arawn racdaw parth ae lys y annwvyn. ac y bu digryf gantaw ymwelet ae niuer ac ae teulu. Kanys gwelsei yr ystalym. Wynteu hagen ni wybuysynt y eisseu ef. ac ni bu newydach gantunt y dyuodyat no chynt. Y dyd hwnnw a drelwys trwy digrifwch allewenyd. Ac eisted ac ymdidan ae wreic ac aewyrda. Aphan vu amserach kymryt hun no chyuedach y gyscu ydeuthant. Y wely agyrehwys y brenhin ae wreic aeth attaw. Kyntaf y gwnaeth ef

ymdidan aew reic. ac ymyrru ardigrifwch serchawl a charyat arnei. Ahynny nys-gordyfynassei hi ysblwydyn. a hynny avedylywys hi. Oi aduw heb hi pa amgen vedwl yssyd yndaw ef heno noc aryuu ysblwydyn y heno. Amedylyaw awnaeth yn hir. Agwedy y medwl hwnnw dyhunaw awnaeth ef. apharabyl adywawt ef wrthi hi ar eil ar trydyd. Ac ateb nys kauas ef gentli hi yn hynny. Paachaws heb ynteu na dywedy di wrthyf i. Dywedaf wrthyt heb hi nadywedeis ysblwydyn y gymeint yny kyfryw le ahwnu. Paham heb ef. ysglut a beth ydyndidanysam ni. Meuyl im heb hi yr ysblwydyn y neithwyr or pan elem yn yblic yr dillat gwely na digrifwch nac ymdidan nac ymchoelyt ohonat dy wyneb attafi ynchwaethach auei vwy no hymn or bu y rom ni. ac yna y medylywys ef. Oia arglwyd duw heb ef kadarn avugwr y gedymdeithas adiffleis a geueis i yngedymdeith. Ac yna y dywawt ef wrth y wreic. arglwydes heb ef na chabladi viui. Y rofi a duw heb ynteu ny chysgeis ynneu ygyt athitheu yr ysblwydyn y neithwyr. ac ni orwedeis. Ac yna mynegi y holl gyfaranc awnaeth idi. Y duw y dygaf vyngkyffes heb hitheu. ganael gadarn ageueist ar gedymdeith ynherwyd ymlad a phrouedigaeth y gorff a achadw kywirdeb withyt titheu. Arglwydes heb ef sef ar ymedwl hwnnw ydoedwn ynheu. tradeweis wrthyt ti. diryued oed hynny heb hitheu. Ynteu pwyll pendeuic dyued adoeth ygyuoeth ac ywlat. adechreu amouyn agwyrda ywlat beth uuasei y arglwydiaeth ef arnadunt hwy y vlwydyn honno. y wrth ryuuassei kynno hynny. Arglwyd heb wy ny bu gystal dywybot. ny buost gyn hegaret gwas ditheu. ny bu gynhawsset gennyt titheu treiliaw dy da. ny buwell dy dosparth ciryoet nor ulwydyn honn. y rofi aduw heb ynteu ys iawn abeth yw ychwi diolwch yr gwr aru ygyt achwi. allyma ygyfranc ual y bu ac datkanu oll o bwyll udunt. Ie arglwyd heb wy diolwch y duw kaffel o honat ygedymdeithas honno. ararglwydiaeth agawssam ninheu. y vlwydyn honno nys attygy y genym otgwun. nac attygaf yrofy aduw heb ynteu bwyll. ac o hynny allan dechreu kadarnhau kedymdeithas yryngtunt. ac anuon obop un y gilyd meirch a milgwn a hebogeu. aphob kyfryw dlws or a debygei pob vn digrifhau medwl ygilyd ohonaw. Ac o achaws y drigyant ef y vlwydyn honno yn annwun. agwledychu o honaw yno mor lwydyannus adwyn ydwy deyrnas yu un dyd drwy ydewred ef ae vilwryaeth ydiffygwys y enw ef ar pwyll pendeuic dyuet. Ac ygelwyt pwyll penn annwun ohynny allan. A threigylgweith ydoed yn arberth pryflys idaw agwled darparedic idaw ac y niuroed mawr owyr ygyt ac ef. A gwedy y bwyta kyntaf kyuodi y osymdeith aoruc pwyll. achyrchu penn gorsed aoed uchlaw yllys aelwit gorsed arberth. Arglwyd heb un orllys kynedyf yr orsed yw padyledawe bynnac aeistedo arnei nat a odyno heb vn or deupeth. ae kymriw ae archolleu neu ynteu awelei ryuedawt. Nyt oes arnafi ovyn kael kymriw neu archolleu ymplith hynn o niuer. Ryuedawt hagen da oed

gennyf pei asgwelwn. mi aaf yr orsed y eisted. Eisted awnaeth ar yr orsed. ac ual y bydant yn eisted wynt awelynt gwreic ar uarch canwelw mawr aruchel. agwisc eurit lathreit ymdanei yndyuoet arhyt y brifford agerdei or orsed. Kerdet araf gwastat oed gan ymarch ar uryt y neb ai gwelei. Ac yn dyuoet yn ogyfuuch ar orsed. Hawyr heb y pwyll aoes ohonawch chwi aadnapo y uarchoges racco. Nac oes arglwyd heb wynt. Aet un heb ynteu ynyherbyn. ywybot pwy vo. vn a gyuodes yuynd. a phan doeth ynyherbyn y fford. neut athoed hi heibaw. Y hymlit awnaeth ual y gallei gyntaf o pedestric. Aphei vwyhaf vei y vrys ef. pellaf vydei hitheu y wrthaw ef. Aphanwelas nathygyei idaw y hymlit. ymchoelut aoruc att pwyll a dywedut wrthaw. Arglwyd heb ef nythyckya y pedestyr nny byt y ymlit hi. Ie heb ynteu pwyll dos yr llys achymer y march kyntaf awelych ados ragot nny hol. Y march agymerth ac racdaw y daeth. y maistir gwastat agauas. ac ef adangosses yr ysparduneu yr march. A phei vwyhaf y lladei ef ymarch. pellaf uydei hitheu y wrthaw ef. Yr vn gerdet adechreuassei hitheu ydoed arnaw. y varch ef aballwys. aphan wybu ef ar y varch ballu y pedestric. ymchoelut hyt y lle ydoed pwyll awnaeth. Arglwyd heb ef ny thyckya y neb ymlit yr unbennes racko. Ny wydwn i farch gynt nny kyuoeth no hwnn. ac ny thygyei ymi yhymlit hi. Ie heb y pwyll y mae yno ryw ystyr hut. awn parth arllys. Yrllys ydoethant. athreilaw ydyd hwnw awnaethant. Athrannoeth kyuodi y uynyd awnaethant athreilaw hwnnw ynjoed amser mynet y vwyta. Agweddy y bwyta kyntaf. Ie heb ynteu bwyll ni awn yr vn niuer y buam doe y penn yr orsed. A thydi heb ef wrth vn oe uackwyeit. dwe gennyt y march kyntaf awypych nny maes. hynny awnaeth y mackwy. Yr orsed a gyrechassant ar march gantunt. Ac ual y bydynt yn eisted wynt awelynt y wreic ar yr un march. ar vn wisce ymdanei yndyuoet yr vnfford. llyma heb y pwyll ymarchoges doe. Byd barawt was heb ef y wybot pwy yw hi. arglwyd heb ef mi a wuaf hynny yn llawen. Ar hynny y uarchoges adoeth gyuerbyn ac wynt. Sef aoruc y mackwy yna ysgynnu ar ymarch. Achynndaruot idaw ymgyweiryaw nny gyfrwy. neur ry adoed hi heibyaw. a chynnwll y ryngtunt. Amgen brys gerdet nyt oed genthi hi nor dyd gynt ynteu agymerth rygig y gan y uarch. ac ef adebygei yr arauet y kerdei y uarch. yr ymordiweddi a hi. a hynny ny thygyei idaw. Illwng y uarch aoruc wrth avwyneu. nyt oed ef nes idi yna no chyn bei ar y gam. Aphei vwyhaf y lladei ef y varch. pellaf vydei hitheu ywrthaw ef. y cherdet hitheu nyt oed uwy no chynt. Kanywelas ef tygyaw idaw y hymlit ymchoelut awnaeth hyt ylle ydoed pwyll. Arglwyd heb ef nyt oes allu gan y march amgen noc y weleist ti. Mi aweleis heb ynteu ny thyckya y neb y herlit hi. Ac yrofi aduw heb ef yd oed neges idi wrthrei or maes hwnn. peigattei wrthpwyll idi ydywedut. a ni awn

parth arllys. Yrllys ydoethant athreulaw y nos honno awnaethant. drwy gerdeu achyuedach ual ybu lonyd gantunt. A thrannoeth dyvyru ydyd awnaethant yny oed amser mynet yuwyta. Aphandaruu udunt y bwyd pwyll adywawt. Mae yr niuer y buam ni doe ac echdoe ympenn yrorsed. llyma arglwyd heb wynteu. awn heb ef yr orsed y eisted a thitheu heb ef wrth was y uarch kyfrwya vy march ynda adabre ac ef yrfford. adwg vy ysparduneu gennyt. ygwas awnaeth hynny. Dyuot yr orsed a orugant yeisted. nybuant hayach oenkyt yno ynywelynt y uarchoges yndyuot yr unfford. ac yn vn ansawd ac yn vngerdet. Hawas heb pwyll mi awelaf y farchoges yndyuot. moes vymarch. Ac nyt kynt ydyskynn ef ar y uarch noe yd a hitheu hebdau ef. Troi yny hol aoruc ef. a gadael y uarch drythyll llamsachus y gerdet. Ac ef a tebygei ar yr eil cam neu ar y trydyd ygordiwedei. nyt oed nes hagen no chynt. y uarch agymhellawd orkerdet mwyhaf aoed gantaw. A gwelet a wnaeth nathygyei idaw y hynlit. yna y dywat pwyll. A vorwyn heb ef yr mwyn y gwr mwyhaf agery arho vi. Arhoaf ynllawen heb hi ac oed llessach yr march. pei assarchut yr meittyn. Seuyll ac arhos aoruc y uorwyn. agwaret y rann adylyei vot am y hwyneb owise y phenn. ac ottal y golwe arnaw adechreu ymdlidan ac ef. Arglwydes heb ef pandoy di apha gerdet yssyd arnat. kerdet wrth vy negesseu heb hi ada yw gennyf dywelet ti. grasaw withit y gennyfi heb ef. Ac yna medylyaw awnaeth bot yndiuwyn ganthaw pryt awelsei eiryoet ovorwyn a gwreic y wrth y phryt hi. Arglwydes heb ef adywedy di ymi dim oth negesseu. Dywedaf y rof aduw heb hi. Pennaf neges iui yuu keisaw dywelet ti. llyna heb y pwyll y neges oreu gennyfi dydyuot ti idi. ac adywedy di ymi pwy wyt. Dywedaf arglwyd heb hi. Rhianon uerch heueyd hen wyfi amrodi ywr omhanvod ydydys. Ac nymymcis inheu ungwr. A hynny oth garyat ti. Ac nys mynnaf ettw. onyt ti amgwrthyt. Ac y wybot dy ateb di am hynny ydeuthum i. Rofi aduw heb ynteu bwyll. llyna vy hateb i ytti. pei caffwn dewis arholl wraged a morwynyon y byt. mae ti adewiswn. Ie heb hitheu. os hynny avymny kyn ny rodi y wr arall gwna oet ami. Goreu yw gennyfi heb y pwyll bo kyntaf. ac yny lle ymynych di gwna yr oet. gwna arglwyd heb hi. blwydyn y heno yn llys heueyd ni abaraf bot gwled darparedie yn barawt erbyn dydyuot. Yn llawen heb ynteu a minheu a vydaf yn yr oet hwnnw. Arglwyd heb hi tric yn iach achoffa gyweiraw dy edewit. Ac ymeith ydaf fi. agwahanu a wnaethant. achyrchu a wnaeth ef parth aeteulu ae niuer. Pa amouyn bynnac avei ganthunt wy ywrth y uorwyn y chwedleu ereill y trossei ynteu. Odyna treilaw y vlwydyn hyt yr amser a wnaethant. ac ymgweiraw ar y ganuet marchawe. amynet y rygtaw a llys eueyd hen. Ac ef adoeth yr llys allawen uuwyd wrthaw. adygyuor allawenyd ac arlwy mawr aoed yny erbyn. A holl uaramed y llys wrth y gyghor ef y treulwyt.

Kyweiryaw y neuad awnaethpwyd ac yrbordeu ydaethant. Sef ual ydeistedyssant heuyd hen arneilllaw pwyll. Ariannon or parth arall idaw. Yam hynny pawb ualybeiyenryded. Bwyta achuedach ac ymdidan awnaethant. Ac ar dechreu kyuedach gwedy y bwyd wynt awelynt yn dyuot ymywn. gwas gwineu mawr teyrneyd. a gwise o pali ymdanaw. aphandoeth y gynted y neuad. kyuarach gwell aoruc y pwyll ae gedymdeithon. Grassaf duw wrthyt eneit heb y pwyll ados y eisted. Nac ef heb ef eirchat wyf am neges awnaf. gwna yn llawen heb y pwyll. Arglwyd heb ef wrthyt ti y mae vyneges i ac y erchi itt y dodwyf. Paarch bynnac aerchych di ymi hyt ygallwyf y gaffel itti y byd. Och heb y riannon paham yrody di atdeb uelly. neus rodes uelly arglwydes yggwyd gwyrda heb y mackwy. Eneit heb y pwyll beth yw dy arch di. Y wreic vwyaſ agaraf ydwyt yn kyscu heno genthi. Ac y herchi hi ararlwy ar darmerth yssyd ymau y dodwyfi. Kynhewi aoruc pwyll kan y bu atdeb arodassei. Taw hyt y mynnych heb y rianon. ny bu musercellach gwr ar y synnwyr ehun noc ryuost ti. arglwydes heb ef nywydwn i pwy oed ef. llyna y gwr ymynnassit uy rodi i idaw omhannuod heb hi. gwawl uab clut gwr tormynnawe kyuoethawe. A chanderw itt dywedut ygeir adywedeist dyro vi idaw rac aglott itt. Arglwydes heb ef ny wn i paryw atdeb yw hwnnw. ny allaf i arnaf adywedydi vyth. Dyro di vi idaw ef hebli a mi awnaf nachaffo ef viui vyth. Pa ffuryf vyd hynny heb y pwyll. mi arodaf yth law got vechan heb hi achadw houno ynda. Ac ef aeirch ywled ararlwy ar darmerth. ac nit oes yth uedyant ti hynny. amiui arodaf y wled yr niueroed ar teulu heb hi. A hwnnw uyd dy atdeb am hynny. Amdanaf ynneu heb hi mi a wnaſ oet ac ef vlwydyn y heno y gyseu gennyf. ac ympenn y vlwydyn heb hi bid ditheu ar got honn gennyt ar dy ganuct marchawe yny berllan uchoſ. A phan uo ef ar ganawl y digrifwch ae gyuedach. dyret titheu dy hun y nawyn a dillat reudus ymdanat ar got yth law heb hi. Ac nac arch dim namyn lloneit y got o vwyt. aminneu abaraf heb hi pei dottit yssyd yny seith cantref hynn o vwyt allynnyndi. na bo llawnach no chynt. A gwedy byryer llawer yndi ef a ovyn itt avyd llawndy got ti byth. Dywet titheu navyd ony chyvyt dylyedawe trachyuoethawe agwasen ae deutroet y bwyd yny got. adwedut digawn adodet y man. aminneu abaraf idaw ef vynet y segghi y bwyd yny got. Aphanef ef tro ditheu y got yny el ef dros y penn yny got. ae yna llad glwm ar garreyeu y got. abit corn canu da amdyvynwgyl. Aphan vo ef ynrwymedic yny got. dot titheu lef ar dy gorn. abit hynny yn arwyd yrot athuarchoygon. Pan glywhont llef dy gorn disgynnent wynteu ambenn y llys.

Arglwyd heb y gwawl madws oed ymi kaffel atdeb am aercheis. kymeint ac aercheist heb y pwyll or auo ym medyant i ti aekeffy. Eneit heb hitheu riannon am y wled ar darpar yssyd yma. hwnnw arodeis i ywyr dyuet ar teulu amiueroed

yssyd yma. hwnnw nyt adawafi yrodi y neb. blwydyn y heno y byd gwled darparedic yuy llys hwnn y titheu eneit y gyscu gennyf ynheu. Gwawlagerdawd ryngthaw ae gyuoeth. Pwyll ynteu adoeth ydyuet. Ar vlwydyn honno adreulwys pawb ohonunt hyt oet ywled oed ynllys eueyd hen. Gwawl uab clut adoeth parth ar wled aoad darparedic idaw. a chyrchu y llys awnaeth a llawen uuwyrt wrthaw. Pwyll ynteu penu annwuynt a doeth yr berllan ar y ganuet marchawc ual y gorchymynnassei riannon idaw. argot gantaw. Gwiscaw bratteu trymyon amdanaw awnaeth pwyll alloppaneu mawr am ytraet. Aphan wybu y bot ar dechreu kyuedach wedy bwytta. dyuot racdaw yr neuad. Agwedy y dyuot y gynted y neuad. kyfuarch gwell awnaeth ywawl uab clut. ae gedymdeithon owyr agwraged. duw arodo da ytt heb ygwawl agrassaw duw wrthyt. arglwyd heb ynteu duw a dalo itt. negessawl wyf wrthyt. Graessaw wrth dy neges heb ef ac os arch gyfuartal aerchy ymi yn llawen 'ti aekeffy. Kyfuartal heb ynteu nyt archaf onyt rac eisseu. Sef arch aarchaf lloneit y got uechan a wely di owwyrt. Arch didraha yw honno heb ef athi aekeffy yn llawen. Dygwchvwyrt idaw ef. Riuedi mawr o swydwyr agyuodassant y uynynt. a dechreu llenwi y got. Ac yr auyrit yndi ny bydei lawnach no chynt. Eneit heb y gwawl avyd llawn dy got ti vyth. Nauyd yrof aduw heb ynteu yr adotter yudi vyth. ony chyuyt dyledawc tir adayar achyuoeth asenghi ae deu troet y bwyrt yny got. adywedut digawn adodet yma. agennat heb y riannon kyuoet y uynynt ar vyrr wrth wawl uab clut. Kyuodaf yn llawen heb ef. achyuodi y uynynt a oruc adodi y deutroet yny got. athroi o bwyll y got yny vyd gwawl dros y benn yny got. Acyngyffym kaeu y got a llad clwm ar y carreyeu. adodi llef ar y gorn. Ac ar hynny llyma y teulu am penn y llys. Ac yna kymryt pawb or niuer a doeth ygyt a gwawl. aedodi yny garchar ehun. A bwrw y bratteu ar lloppaneu ar yspeil didestyl y amdanaw aoruc pwyll. Ac ual y delei bob un oe niuer ynteu y mywn y trawei dyrnawt ar y got. Ac y gouynnei beth yssyd yman. Broch medynt wynteu. Sef kyfryw chwarae awneynt. taraw awnaei bopun dyrnawt ar ygot. ae aedroet ae athrossawl. ae uelly gwarae ar got awnaethant. Pawb ualydelei aovynnei pa chwarae a wnewch chwi uelly. Gwarae broch ygcot medynt wynteu. ae yna gyntaf y gwarywyrt broch ygcot. Arglwyd heb y gwr or got peigwrandawut uiui nyt oed dihenyd arnaf vyllad ymywn cot. Arglwyd heb eueyd hen gwir adyweit. Iawn yw itt y warandaw nyt dihenyd arnaf hynny. Ie heb y pwyll mi awnaf dygyghor di amdanaw ef. llyma dy gyghor di heb y riannon yna. ydwyt ynulle y perthyn arnat llonydu eirheit acherdoryon. gat yno ef y rodi y bawp drossot heb hi. a chymer gedernit y ganthaw nabo amovyn nadial vyth amdanaw. a digawn yw hynny o gosp arnaf. Ef ageiff hynny yn llawen heb y gwr or got aminneu aekymeraf yn llawen heb y pwyll gan gynghor

eueyd ariannon. kynghor yw hynny y gennym ni heb wynt. Y gymryt awnaf heb y pwyll keis veichev drossot. Ni avydwn drostaw heb eueyd. ynyvo ryd ywyr yvynet drostaw. ac arhynny ygollygwyd ef or got ac y rydhawyt y oreugwyr. Gouyn weithon ywawwl veicheu heb eueyd. ni aatwaenwn y neb a dylyer ykymryt y gantaw. Riuaw y meicheu awnaeth eueyd. llunnya dy hun heb ygwawl dy amot. Digawn yw gennyfi heb y pwyll ual y llunyawd riannon Y meicheu aaethar yr amot hwnnw. Ie Arglwyd heb ygwawl briwedic wyfi a chymriw mawr a geneis. Ac enneint yssyd reit ymi. ac ymeith ydaf gandy gennyat ti. Ami aatawaf wyrda drosof yma yatteb y bawp or ath ovyno di. Yn llawen heb y pwyll. agwna ditheu hynny. Gwawl aaeth parth ae gyuoeth. Yneud ynteu agyweirwyt y pwyll aeniuer. ac y niuer y llys y am hymny. Ac yr bordeu ydaethant y eisted. ac ual ydeistedyssant vlwydyn or nos honno. yd eistedwys pawb ynos honno. Bwyta a chuedach awnaethant. Ac amser adoeth y vynet y gyscu. Ac yr ystauell ydaeth pwyll ariannon. athreulaw y nos honno drwy digrifwch a llonydwch awnaethant. Athranoeth ynieuencit ydyd. arglwyd heb y riannon kyuoet y uynyd. adechreu lonydu y kerdoryon. Ac na omed neb hediw or a vynno da. Hynny awnaf i ynllawen heb y pwyll a hediw apheunytrabarahao y wled honn. Ef agyudes pwyll y vynyd apheri dodi gostec y erchi y holl eirheit acherdoryon dangos. amenegi udunt y llonydit pawb o honnunt wrth yuod aevympwy. a hynny awnaethpwyt. Y wled honno adreulwyt. ac ni omedwyt neb trabarhaawd. A phandaruu y wled. arglwyd heb y pwyll wrth eueyd mi agychwynnaf gan dygenyat parth adyuet auory. Ie heb eueyd duw arwydhao ragot. a gwna oet achyfnot y del riannon ythol. Y rofi aduw heb ynteu bwyll ygyt y kerdwn odyma. Ae uelly ymynny di arglwyd heb yr eueyd. velly y rof aduw heb y pwyll. wynt a gerdassant trannoeth parth adyuet. allys arberth agyrchassant agwele darparedic aoed yno udunt. Dygyuor ywlat arkyuoeth adoeth attunt or gwyr goreu argwraged goreu. ohynny nyt etewis riannon neb heb rodi rod ennwawe idaw. aeogae. ae ovodrwy. ae o vaen gwerthuawr. Gwledychu ywlat awnaethant yn llwydyannus. y vlwydyn honno. ar eil. Ac yn y dryded vlwydyn y dechreuis gwyr ywlat dala trymuryt yndunt o welet gwr kymeint agerynt ae harglwyd. ac eubrawtuaeth yn dietiued ae dyuynnu attynt a wnaethant. Sef lle ydoethant ygyt. i bressleu yn dyuet. Arglwyd heb wynt ni awdam nabydy gyuoet ti arei owyr y wlat honn. ac ynnouyn ni yw nabyd itt etiued or wreic yssyd gyt athi. Ac wrth hynny kymer wreic arall y bo etiued itt ohonei. nyt byth heb wynt y perhey di achyt kerychdi vott velly nis diodefwn y gennyt. Ie heb y pwyll nyt hir ettwa ydym ygyt allawer damwein edigawn bot. Oetwch ami hynn hyt ympenn y vlwydyn. A blwydyn yr amser hwnn ui awnawn yr oet y dyuoet ygyt. ac wrth ych kynghor y bydaf. yr

oet awnaethant. Kynn pen cwbyl or oet mab aanet idaw ef. ac yn arberth y ganet. Ar uos y ganet y ducpwyd gwaged y wylat y mab ae uam. Sef awnaeth y gwaged kyseu amam y mab riannon. Sef riuedi o wraged a ducpwyd yr ystauell chwech wraged. Gwylat awnaethant wyuteu dalym or nos. Ac yn hyny eissoes kynn hanner nos kyseu awnaeth pawb ohonunt. a thu ar pylgein deffroi. aphandeffroassant edrych aorugant y lle y dodyssant y mab. ac nit oed dim o honaw yno. Oeh heb yr un or gwaged neur golles y mab. Ie heb arall bychan adial oed anlosci ni. neu andihenydyaw am y mab. Aoes heb un or gwaged kyghor orbyt am hymn. Oes heb arall mi awn gyghor da. Beth yw hynny heb wy. Gellast yssyd yman heb hi a chynawon genthi. lladwn rei or kenawon ac irwn y hwyneb hitheu riannou argwaet. ae dwylaw. a byrwn yr esgyru gery bron. athaerwn arnei chun diuetha y mab. Ac nybyd antared ni an whech wrthi hi ehunan. ac ar y kyghor hwnnw y trigyassant. Parth ardyd riannon adeffroes ac adywawt. awraged heb hi mae y mab. Arglwydes heb wy na ouyn di yni y mab nyt oes ohonam ni namyn cleissen adyrnodeu yn ymdaraw a thi adiamheu yw gennym na welsam eiryoet vilwryaeth yn vnwreic kymeint ac ynot ti, ac ny thygyawd yni ymdaraw athi. neur diffetheeist dy hun dy uab. ac na hawl ef yny. A drueni heb y riannon yr arglwyd duw a wyr pobpeth. na yrrweh geu arnafi. Duw a wyr pob peth awyr bot yn eu hynny. Ac os ovynn yssyd amawch chwi. ymkysfes y duw mi achdifferaf. Dioer heb wy ny adwn ni drwe amom ny hunein yr dyn yny byt. Adrueni heb hitheu ny cheffwech un drwe yr dywedut y wirioned. Yr adywettei hi yndec ae yn druan ny chaffei namyn yr un ateb gan y gwaged. Pwyll penn annwuyr ar hynny agyudes ar teulu ar niuerod. achelu y damwein hwnnw ny allwyt. yr wlat ydaeth y chwedyl aphawb or gwyrda ae kigleu. argwyrda adoethant ygyt ywneuthur att bwyll. y erchi idaw ysgar aewreic amgyllafan mor anwedus ac awnaethod. Sef ateb arodes pwyll. nyt oed achaws gantunt hwy y erchi ymi ysgar am gwreic. namyn am na bydei blant idi. Plant awn i y uot idi hi. ac nyt ysgaraf a hi. Or gwnaeth hitheu gam kymeryt y phenyt amdanaw. Hitheu riannon a dyuynwys attei athrawon adoethion. Agwedy bot yndegach genthi kymryt y phenyt noe ymdaeru ar gwaged. y phenyt agymerth. Sef phenyt adodet arnei bot yny llys honno yn arberth hyt ympenn y seith mlyned. ac ysgynuaen aod odieuthyr y porth. eisted o honci geyrllaw hwnnw beuny. adywedut y bawp or adelei or adebyckei nas gwypei y gyfranc hommo oll. ac or a attei idi y dwyn. kynnac y westei. aphellennic ydwyn ar y cheuyn yr llys. adamwein y gadei yr un y dwyn. ac uelly treulaw talym or vlwydyn awnaeth. Ac ynyr amser hwnnw ydoed yn arglwyd ar Went is coet teirnyon twryf vliant. Ar gwr goreu yny byt oed. ac yny ty ydoed cassec. ac nyt oed yny teyrnes na march. na chassec degach no hi.

aphob nos calan mei y moei Ac ny wybydei neb ungeir y wrth yheawl. Sef awnaeth teirnon ymdidan nossweith ae wreic. Hawreic heb ef llibin yd yni bop blwydyn yn cadw eppil ynkassec heb gaffel yr vn o honynt. Beth aellir wrth hynny heb hi. Dial duw arnaf heb ef. nos galanmei yw heno ony wyby laf i padileith yssyd yn dwyn yr ebolyon. Peri dodu y gassec ymywn ty awnaeth. agwiscaw arueu ymdanaw aoruc ynteu. adechreu gwylat ynos. ac ualybyd dechreu nos. moi y gassec ar ebawl mawr telediw. ac ynseuyll nny lle. Sef awnaeth teirno kyudi ac edrych ar praffter yr ebawl. ac ual ybyd uelly. ef aglywei twryf mawr. ac yn ol y twryf llyma grauanc trwy ffenestyr aryty. ac yn ymauael ar ebawl geir y vwng. Sef awnaeth ynteu teirnon tynnu cledyf atharaw y vreich o not yr elin ymeith. Ac nny byd hynny or vreich ar ebawl gantaw ef y mywn. ac arhynny twryf adisgyr agigleu ygyt. agori y drws aoruc ef adwyn ruthur yn ol y twryf. ny welei ef y twryf rac tywyllet y nos. ruthur aduc nny ol ae ymlit. a dyuot cof idaw adaw ydrws yn agoret. Ac ymchoelut awnaeth. ac wrth y drws llyma vab bychan nny gorn gwedy troi llen opali ynygylch. Kymryt y mab awnaeth attaw. a llyma y mab yngryf ynyr oet oed arnaf. Dodi cacat ar y drws awnaeth achyrchu yr ystauell ydoed ywreic yndi. Arglwydes heb ef ae kyscu ydwyt ti. Nac ef arglwyd heb hi. mi agyseis aphan doethost ti y mywn mi a deffroeis. Y mae yma vab itt heb ef os mynny yr hwnn ny bu it eiryot. Arglwyd heb hi pagyfranc uu hynny. llyma oll heb y teirnon amenegi y dadyl oll. Ie arglwyd heb hi paryw wise yssyd am y mab. llenn obali heb ynteu. mab y dynyon mwyn yw heb hi. arglwyd heb hi digrifweh a didanweh oed gennyfi bei mynnyv ti. mi adygwn wraged yn vn ami. ac a dywedwn vymot ynveichawc. miui adunaf athi yn llawen heb ef am hynny. ac uelly y gwnaethpwyd. Peri awnaethant bedydyaw y mab or bedyd awneit yna. Sef enw adodet arnaf gwri wallt euryr. Yr hyn aodet ar y benn owallt kynvelynet oed ar eur. Meithryn y mab awnaethpwyd. nny llys nny oed vlwyd. achynn y vlwyd yd oed ynkerdet yn gryf. a breiscach oed no mab teirblwyd avei vawr y dwf ue ueint. Ar eil vlwydyu y magwyt y mab. Achynureisget oed a mab chweblwyd. achyn penn y pedwryd vlwydyn ydoed yn ymoprau agweisson y meirch am y adu oe dwyn yr dwfyr. Arglwyd heb y wreic wrth teirnon mae yr ebawl adiffereist di ynos y keueist y mab. mi ae gorchmynneis y weisson y meirch heb ef. ac aercheis synnyaw wrthaw. Ponyt oed da itti arglwyd heb hi peri yhyweddu ae rodi yr mab. kany y nos y keueist y mab y ganet yr ebawl ac y differeist. Nyt afi ynerbyn hynny heb y teirnon. mi aadaf itti y rodi idaw. Arglwyd heb hi duw a dalo it minneu ae rodaf idaw. Yna y rodet y march yr mab. ac y deuth hi att y gwastrodyon ac att weisson y meirch y orchymun. synnyeit ar y march. ae uot yn hywed erbyn pan elei y mab y uarchogaeth achwedyl wrthaw. Ymysc hynny wynt

aglywsont chwedyllyaeth y wrth rianno ac am y phoen. Sef awnaeth teirnon twryf uliant o achaws y douot a gawssei ymwrandaŵ am y chwedyl ac ymouyn ynlut amdanaw. yny gicleu gan lawer oluosogrwyd or adeulei yr llysmynychu-kwynaw truanet damwein riannon ae phoen. Sef awnaeth teirnon ynteu medylyaw amhyyny. ac edrych ar y mab yn graff. a chael yny uedwl yn herwyd gweledigaeth na rywelsei eiryoet mab athat kyndebycket armab y pwyll penn annwn. ansawd pwyll hyspys oed gantaw. Kanys gwr uuassei idaw kyn no hynny. ac yn ol hynny goueileint a adelis yndaw. o gamhet idaw attal ymab gantaw ac ef yngwybot y vot yn vab y wr arall. Aphan gauas gyntaf oysgualwch ar y wreic. ef a uenegis idi hi nat oed iawn udunt hwy attal ymab gantunt agadu poen kymeint ac aoed ar wreicda kystal a riannon or achaws hwnnw. ar mab yn vab y pwyll. pennannwn. a hitheu wreic teirnon a gytsynnywys ar anuon y mab y pwyll. A thripheth arglwyd heb hi agaffwn ni o hynny. Diolwch ac alwisieu o ellwng riannon or poen y mae yndaw. adiolwch gan pwyll am ueithryn ymab ae eturyt idaw. ar trydyd peth os gwr mwyn vyd ymab. mab maeth ynni vyd agoreu a allo vyth awna ynni. Ac ar y kynghor hwnnw y trigyassant. Ac ny bu hwy gantunt no thrannoeth ymgyweiryaw aoruc teirnon ar y drydyd marchawc. ar mab yn pedweryd gytt ac wynt ar y march arodassei deirnon idaw. A cherdet parth ac arberth awnaethant. Ac nybuhir y buant yny doethant y arberth. Pandoethant parth ar llys. wynt awelynt riannon yn eisted yn ymyl yr ysgynuaen. Pan doethant ar ogyfuch a hi. A vnbenn heb hi nac ewch bellach hynny mi adygaf bob un o honawch hyt y llys. A hynny yw vympenyt amlad ohonaf vyhun vy mab. ae diuetha. a wreicda heb y teirnon ny thebygafi y vn o hynn vynet ac dy geuyn di. aet ae mynno heb y mab nyt afi. Dioer eneit heb y teirnon nyt awn ninheu. Y llys a gyrchassant. adiruawr lewenyd auu yny herbyn. Ac yndechreu treulaw gwled yd oedit ynnyllys. ynteu pwyll oed yn dyuot o gylchaw dyuet. Yr neuad y daethant ac y ymolchi. allawen vu pwyll wrth teirnon. ac y eisted y daethant. Sef ual yd eistedyssant. Teirnon y rwng pwyll a riannon. a deugedymdeith teirnon uchlaw pwyll. ar mab y ryngtunt. Gwedy daruot bwytta ar dechreu kyuedach ymddidan awnaethant. Sef ymddidan vu gan teirnon. menegi y holl gyfranc am y gasec ac am y mab. ac megys y buassei y mab ar y hardelw hwy teirnon ae wreic ac y magyssynt. Ac weldy yn dy uab arglwydes heb y teirnon. aphwy bynnac adyvat geu arnat cam awaeth. a minneu pan gicleu y gouut aoed arnat. trwm uu gennyf a doluryaw awneuthum. Ac ny thebygaf or niuer hwn oll neb nyt adnappo. vot y mab yn uab pwyll heb y teirnon. Nyt ocs neb heb y pawb ny bo diheu gantaw hynny. Yrofi aduw heb y riannon oed escor vympryder ymi pei gwir hynny. Arglwydes heb y pendarandyuet da yd

ennweist dy uab pryderi. agoreu y gweda arnaw pryderi uab pwyll penn annwn. Edrychwch heb y riannon na bo goreu y gwedo arnaw y enw ehun. Mae yr enw heb y penndaran dyuet. gwri wallt euryr adodyssom ni arnaw ef. Pryderi heb y penndaran uyd y enw ef. Yawnhaf yw hwnnw heb y pwyll. kymryt enw ymab y wrth y geir adyvat y uam. pangauas llawenchwedyl. y wrthaw. ac ar hynny y trigywyt. Teirnon heb y pwyll duw o dalo it ueithryn y mab hwnn hyt yr awr honn. A iawn yw idaw ynteu or byd gwr mwyn y dalu itti. Arglwyd heb y teirnon y wreic ae magwys ef nyt oes yny byt dyn vwy y galar no hi yny ol. Iawn yw idaw coffau ymi ac yr wreic honno awnaethom yrdaw. Yrofi aduw heb y pwyll traparhawyfi mi ath gynhalaf athi ath gyuoeth. tra allwyf kynnal ymeu vy hun. Os ynteu avyd iawnach yw idaw dy gynnal noc ymi. Ac oskyghor gennyt ti hynny achan hynn owyrda. canys megeist ti evo hyt yr awr honn. ni aerodwn aruaeth att benndara dyuet ohynn allan A bydweh gedymdeithon chwitheu athatmaethen idaw. Kyngor iawn heb y pawb yw hwnnw. Ac yna y rodet y mab y penndaran dyuet ac ydymyrrwys gwyrda y wlat ygyt ac ef. Ac y kychwynnwys teirnon toryf vliant ae gedymdeithon y ryngtaw ae wlat ac ae gyuoeth gan garyat llewenyd. Ac nyt aeth heb gynnig idaw y tlysseu teccaf ar meirch goreu ar cwn hoffaf. Ac ni mynnwys ef dim. Yno y triggassant wynteu ar eukyoeth. ac y magwyt pryderi uab pwyll pennannwn ym amgeledus ual ydoed dilyet yny oed delediawf gwas atheckaf achwplaf o bop camp da ac aoed yny deyrnas. Velly y treulassant blwydyn ablwydyned ynn y doeth terwyn ar hoedyl pwyll pennannwn ac y bu uarw. Ac ygwledychwys ynteu pryderi seith cantref dyuet yn llwydiannus garedic gan y gyuoeth a chan pawb yny gylch. Ac ynol hynny y kynydwys tri chantref ystrattywi. aphedwar cantref keredigyawn. ac y gelwir y rei hynny seith gantref seissyllwch. Ac ar y kynnyd hwnnw y bu ef pryderi uab pwyll penn annwn yny doeth yny vryt wreicka. Sef gwreic avynnawd kicua verch wynn gohoyw uab gloyw wllalt lydan. uab casnar wledic. o dyledogyon yr ynys honn. Ac velly y teruyna y geing hon or mabynogyon.

X



LLYMA GYFRANC LLUD A LLEUELIS.

Yr beli mawr uab manogan y bu tri meib. llud. achasswallawn. anynnyaw. aherwyd y kauarwydyt pedweryt mab idaw un lleuelys Agwedy marw beli adygwydau teyrnas ynys prydein ynllaw llud. yuab yr hynaf. aellywyaw olud hi ynllwydyannus ef aatnewydwys muroed llundein. oanriuedic tyroed aedamgylchynwys. Agwedy hynny. aorchymynwys yr kiwtawtwyr adeilat tei yndi megys na bei ynyteyrmasoed tei kyfurd ac auei yndi. Ac ygyt ahynny ymladwr da oed. ahael ac ehelaeth yrodei vwyt adiawt y bawb or ackeissei. achyt bei lawer ogeyryd adinassoed idaw honn agarei ef yn vwy nor vn. ac yn honno ypresswylei yrann vwyhaf or vlwydyn. ac wrth hynny ygelwit hi kaerlud. ac or diwed kaer lundein. Agwedy dyuot estrawn genedyl idi. ygelwit hi lundein neu ynteu lwndrys. mwyhaf oe vrodyr y karei lud ylleulys. kanys gwr prud adoeth oed. Agwedy clybot ryuarw brenhin Ffraeinc heb adaw etiued idaw namyn vnuerch. ac adaw y kyuoeth yn llaw honno. ef adoeth att lud y vrawt yerchi kyghor anerth idaw ac nyt ynvwyahaf yrles idaw ef. namyn yrkeissaw achwanegu enryded ac vrdas atheilyngdauw y eu kenedyl ogallei vynet yteyrnas ffreinc y erchu yuorwyn honno yn wreic idaw. Ac yn lle y vrawt agytsynnyawd ac ef. ac auu da gantaw ygyghor ar hynny. Ac yny lle paratoi llongeu ac eullanw ovarchogyon arwawc. achychwyn parth affreinc. ac yny lle gwedy eudisgynnu. anuon kenadeu aorugant y uenegi ywyrda freinc ystyr y neges ydoethoed oecheissaw ac ogytgyghor gwyrda freing aethywyssogyon y rodet yuorwyn yleuelys. achoron ydeyrnas ygyt ahi. Agwedy hynny ef alywyawd ygyuoeth ynprud ac yndoeth. ac yndetwyd hyt trabarhaawd yoes. Agwedy llithraw talym o amser. teir gormes adygwydwys yn ynys prydein arnywelsei neb or ynyssed gynt eukyfyw. Kyntaf onadynt oed ryw genedyl adoeth aelwit y coranneit. achymeint oed engwybot ac nat oed ymadrawd dros wyneb yr ynys yr isset ydywettit or kyuarffei ygwynt ac ef nys gwypynt. Ac wrth hynny ny ellit drwe udynt. Yr eil ormes oed diaspat adodit pob nos kalan mei. Uch bob aelwyt ynynys prydein. Ahono aaei trwy gallonneu ydynyon. ac ae hofnockaei yngymeint ac y colleu ygwyr eulliw ac eunerth. Argwaged eu beichogyeu. Ar meibon ar merchet agollynt eusynhwyreu. Ar holl anueileit argwyd ardayar. Ar dyfred aedewit yndiffwyth.

Tryded ormes oed yr meint uei ydarmeth ar arlwy, a barattoit ynlyssod y brenhin, kyt bei arlwy vlwydyn ovwyt adiawt, ny cheffit vyth dim o honaw, namyn atreulit yr vn nos gyntaf, ardwy ormes ercill nyt oed neb awyppei pa ystyr oed udunt. Ac wrth hynny mwy gobeith kaffael gwaret or gyntaf, noc oed or eil neu or dryded. Ac wrth hynny llud vrenhin agymerth pryder mawr agoual yndaw, kany wydyat pafford y kaffei waret rac y gormesseu hynny. Agalw attaw aoruc holl wyrda ygyuoeth, agouyn kyghor udunt pabeth awnelynt yn erbyn ygormessoed hynny. Ac ogyfred gyghor y wyrda llud uab beli a aeth att leuelis y vrawt brenhin freinc, kany gwr mawr ygygor adoeth oed hwnnw ygeissaw kyghor ygantaw. Ac yna parattoi llyghes awnaethant. A hynny yndirgel ac yndistaw, rac gwybot orgenedyl honno ystyr yneges, nac oneb dyeithyr y brenhin ae gyghorwyr. Agwedy eubot ynbarawt wynt aethant yn eullynghes, llud ac aethole ygyt ac ef, adechreu rwygaw ymoroed parth afreinc, agwedy dyuot ychwedleu hynny att leuelis, kany wydyat achaws llyghes yvrawt, ydoeth ynteu orparth arall nny erbyn ef, allynghes gantaw diruawr y meint. Agwedy gwelet olud hynny, ef aedewis y holl longeu ar yweilgi allan dyeithyr vn llong. Ac yn yr vn honno ydoeth yn erbyn yvrawt. Ynteu ymywn vn llong arall adoeth yn erbyn y vrawt. Agwedy eudyuot ygyt pob un onadunt aaeth dwylaw mynwyl ygilyd. Ac o vrawdoryawl garyat pob vn aressawawd ygilyd onadynt. Agwedy menegi olud y vrawt ystyr yneges, lleulis adywawt ygwydyat ehun ystyr ydyuodyat yr gwladoed hynny. Ac ody na ykymerassant kyt gyghor y ymdidan am eu negesseu yn amgen nohynny, megys nat elei ygwynt amehymadrawd, rac gwybot or corannyeit adywettynt. Ac yna y peris lleuelis gwneuthur corn hir o euyd, a thrwy ycorn hwnnw ymdywedut, aphy ymadrawd bynnac adywettei yr vn onadynt wrth ygilyd, trwy ycorn nydodei ar yr vn onadunt, namyn ymadrawd go atcas gwrthwyneb. Agwedy gwelet^o leuelis hynny abot y kythreul yn eullesteiryaw. Ac yn teruyscu trwy y corn, yperis ynteu doddi gwin nny corn ae olchi, athrwy rinwed ygwin gyrru y kythreul or corn. Agwedy bot eu hymadiawd yndilesteir, ydywawt lleuelis wrth yvrawt yrodei ryw bryuet, agadu rei onadunt yn yw yhiliaw, rac ofyn dyuot eilweith odamwein y ryw ormes honno. Achymryt ereill or pryuet ae briwaw ymplith dwuyr, ac ef agadarnhaei bot ynda hynny ydistriw kenedyl y coranyeit. Nyt amgen gwedy ydelei adref y deyrnas, dyuynnu yrholl bobyl ygyt y genedl ef, a chenedyl ycoranyeit yr vndadleu. Aruedwl gwneuthur, tagneued yrygtunt. Aphan vei bawp onadunt ygyt. Kymryt y dwuyr rinwedawl hwnnw, ae vwrw ar pawp yngyfredin. Ac ef agadarnhaei ygwennwynei ydwfyr hwnnw genedyl ycorannyeit, ac naladei, ac nat eidiganeu neb oegenedyl ehun. Yr eil ormes

heb ef yssyd yth gyuoeth di. dreic yw honno. adreic estrawngenedl arall yssyd ynymlad ahi. Ac yn keissaw y goresgynn. Ac wrth hynny heb ydyt ych dreic chwi diaspat engiryawl. Ac ual hynny y gelly kaffel gwybot hynny. Gwedy delych atref. par uessuraw yr ynys oe hyt ae llet. ac ynulle ykeffwch di ypwnt perued yn iawn. par gladu ylle hwnnw. Ac odyndy par doddi kerwyneit or med goreu aaller y wneuthur ymywn yclad hwnnw. a llenn o pali ar wyneb ygerwyn. ac odyndy yth person dyhunan. byd yn gwylaw. ac yna ti awely ydreigeu yn ymlad yn rith aruthter aniuileit. Ac or diwed ydant yn rith dreigeu yn yr awyr. Ac yn diwethaf oll gwedy darffo udunt o engiryawl a girat ymladlinaw. wynt asyrthant yn rith deu barchell hyt ar y llenn ac asudant gantunt y llenn. Ac aetynnant hyt ygwaelawt ygerwyn. Ac ayvant ymed yngwbyl. ac agyscant gwedy hynny. Ac yna nny lle plycca ditheu y llenn yneu kylch wynteu. Ac nny lle kadarnhaf ageffych yth gyfoeth y mywnkist uacen clad wynt. a chud ymywn ydaear. ahyt tra vont hwy yn y lle kadarn hwnnw. nydaw gormes y ynysprydein ole arall. Achaws ytryded ormes yw heb ef. Gwr lleturithawc kadarn yssyd yndwyn dy vwyt athlyn athdarmerth. a hwnnw tew yw yhut aleturith abeir i bawp kyscu. Ac wrth hynny y mac reit y titheu yth persson dy hun gwylaw dyweledeu ath arwyleu. Ac rac goruot oegyscu ef arnat. bit gerwynet odyfyr oer geyr dy law. Aphanvo kysgu yn treissaw arnat. dosymywn ygerwyn. Ac yna ydymcholes llud dracheuyn y wlat. Ac yndiannot ydyuynnwys attaw pawb ynllwyr oegenedyl ef. Ac or coranneit. Ac megys y dysgawd lleuelis idaw briwaw y pruyet aoruc ymplith y dwfyr. abwrw hwnnw yngyffredin ar bawp. Ac yndiannot ydiffeithawd holl giwtawt y coranneit uelly heb echrys ar neb or brytanyeit. Ac ympenn yspeit gwedy hynny. llud aberis messuraw yr ynys aryhyt ac ar y llet. Ac ynrytychen y cafas y pwynt perued. Ac ynulle hwnnw y peris cladu ydayar. Ac ynyclad hwnnw gossot kerwyn yn llawn or med goreu aallwyt y wneuthur. allenn opali ar ywyneb. Ac ef ehun ynno honno yn gwylyat. Ac ual ydoed uelly. ef awelas ydreigeu yn ymlad. Agwedy blinaw onadunt adiffygyaw. wynt adisgynnassant ar warthaf yllenn. ac thynnu gantunt hyt yggwaelawt y gerwyn. Agwedy daruot udunt yuet y med. Kyscu aorugant. Ac yneu. kwsc llud ablygwys y llenn yn eu kylch. Ac nny lle diogelaf agauas yneryri ymywn kist vaen ae kudywys. Sef ffuruf ygelwit y lle hwnnw gwedy hynny. dinas emreis. A chyn no hynny dinas ffaraon dande. Trydyd crynweissat un hwnnw a torres y gallon anniuged. Ac uelly y peidywys ydymhestlus diaspat aoed nny kynuoeth. Agwedy daruot hynny. llud vrenhin aberis arwy gwled di'ruawr y meint. Agwedy ybot ynbarawt gossot kerwyn yn llawn odwfyr oer geyr ylaw. Ac ef ehun nny priawt

person aegwylwys. Ac ual y byduelly ynwiscedic o arueu. valam ytryded wylua or nos. nachaf yclyw llawer odidaneu odidawc. Ac amryuaelon gerdeu. ahun yny gymell ynteu y gyscu. Ac ar hynny sef aoruc ynteu rac llesteiryaw ar y darpar ae orthrymu oehun. mynet yn vynyeh yn ydwfyr. Ac yn y diwed nachaf gwr diruawr y veint yn wiscedic o arueu trymyon kadarn yndyuoet ymywn achawell gantaw. Ac megys ygnottayssei yn dodu yr holl darmerth ar arlwy o vwyt allyn yny cawell. Ac yn kychwyno ac ef ymeith. Ac nyt oed dim ryuedach gan lud noc eigaw yny kawell hwnw peth kymeint a hynny. Ac ar hynny llud vrenhin a gychwynnwys yny ol. Ac adywawt wrthaw val hyn. arho arho heb ef. kyt rywnelych di sarhaedeu llawer acholledu kynno hynn. nys gwney bellach. ony barn dy vilwryaeth dy uot yn drech ac yn dewrach no mi. ac yn diannot ynteu assodes y kawell ar y llawr. Ac ae arhoes ef attaw. Ac angerdawl ymlad avu rygtunt. yny oed y tanllachar yn ehedec or arueu. Ac or diwed ymauael aoruc llud ac ef. ar dyghetuen awelas damwheiniaw y uudugolyaeth y lud. gan vwrw yr ormes yryngtaw ar daear. A gwedy goruot arnaw o rym ac angerd. erchi nawd aoruc idaw. Pawed heb y brenhin ygallwn i rodi nawd ytti wedy ygyniuer collet asarhaet rywnaethost titheu ymi. Dy holl golledu eiryoet heb yr ynteu or awneuthum i ytti. mi aehennillaf itt yn gystal ac y dugym. Ac ny wnafl y gyffelyb o hynn allan. agwr ffydlawn vydafi ytti bellach. Ar brenhin a gymerth hynny y gantaw. Ac uelly y gwardawd llud y teir gormes yar ynys prydein. Ac o hynny hyt yn diwed y oes yn hedwch lwydyannus y llywyawd llud uab beli ynys prydein. ar chwedyl hwnn a elwir kyfranc llud a lleuelys. Ac uelly y teruynha.



HANES TALIESSIN.

GWR bonheddig oedd gynt ymhenllyn a elwid Tegid Voel ai dreftad oedd ynghanol Llyn Tegid, ai Wraig Briod a elwid Caridwen, ac o'r wraig honno y ganed mab a elwid Morfran ap Tegid, a Merch a elwid Greirfyw, a thecca merch o'r Byd oedd honno, a Brawd iddynt hwy oedd or Dyn hagcraf or Byd a Afagddu. Ac yno Caridwen ei Fam a feddylioedd nad oedd ef debyg i gael ei gynnwys ymplith boneddigion rhag ei hagered oni bai arno ryw gampeu neu wybodau urddasol. Canys yn Nechreuad Arthur a'r ford gron oedd hynny.

Ac yna yr Ordeiniodd hi drwy Gelfyddyd Llyfrau pheryllt i ferwi Pair o awen a Gwybodau iw mab fel y bai urddasach ei gymeriad am ei wybodau ai Gelfyddyd am y Byd a ddelai rhagllaw.

Yna y dechreuodd hi ferwi y Pair yr hwn wedi y dechreuidd ei ferwi nid ellid torri y Berw dan ben undydd a Blwyddyn ac oni getfid 3 defnyn bendigedig o rad yr yspryd—A Gwion bach mab Gwreang o Lanfair yng Nghaer Einion ym Mowys a roes hi i amodi y Pair. A Dall a elwid Morda i Gynneu y Tan dan y Pair. A Gorchymyn na adawai ir berw dorri hyd pan ddelai undydd a Blwyddyn. A hithau drwy lyfrau Astronomyddion ag wrth oriau y Planedau yn Llysieuu beunydd o bob amrafael Lysiau rhinweddol. Ac fel yr oedd Geridwen ddiwrnod yn Llyseua ac yn gorchfanu yn agos i ben Flwyddyn y damweiniodd neittio a disgyn o dri defnyn or Dwr rhinweddol or Pair ar Fis Gwion bach a rhag ei frytted ef ei trewis yn ei Ben, ac yn gydtrym ac y trewis y defnynnau gwrthfawr hynny yn ei ben efe awyddai bob peth ar a ddelai rhagllaw ac efe a adnabu yn hyspys mai mwya gofal oedd iddaw ystryw Caridwen Canys mawr oedd ei Gwybodau. Arhag dirfawr ofn, efe a ffoes parth tu ai wlad ar Pair a dorres yn ddau hanner, herwydd y dwr i gyd oedd wenwynig eithr y 3 defnyn rhinweddol hynny fal y Gwenwynodd Feirch Gwyddno Garanhir am yfed y Dwfr or Aber yrhedodd y Dwr or Pair iddi, ac am hynny y gelwir yr aber o hyny allan Gwenwyn feirch Gwyddno.

Ac ar hynny Caridwen yn dyfod i mywn ac yn gweled ei Llafur er ys Blwyddyn yn Golledig, ysglyfy Rhodyl a tharo y dall Morda ar ei ben oni aeth un oi lygaid ar ei rudd. Sef y dywaid ynte' Drwg i'm anffurfaist a minneu yn wirion. ni buost golledig o'm hachos i Gwir a ddywedaist eb y Caridwen, Gwion bach am hyspeiliodd i a chyrchu ar ei ol dan redeg, ai chanfod hithau a wnaeth ynteu. Ac ymrithio yn rhith ysgyfarnog arhedeg. Sef y rhithiodd hithau yn

Filast ai ystumio ai ymchoelyd tuag afon, ac ymrithio yn Bysgodyn. A hithau yn rhith Dyfrâst ac ymgeisio ac ef dan y Dwfr, oni fu ddir iddo ymrithio yn Aderyn i'r wybr a hithau yn walch (nagê Llymysten) iw ymlid ac ni adodd iddo lonydd yn yr wybr, aphan oedd yn ei Oddiwes ac yntau yn ofn Angeu arno, efe Arganfu Dwrr o Wenith nithiedig ar lawr ysgubor ac efe a ddisgynodd i'r gwenith ac a ymrithiodd yn rhith un o'r Grawn, ac yno yr ymrithiodd hitha yn Iar Ddu Goppog ac i'r gwenith yr aeth ac ai thraed ei grafu ai adnabod ef ai lyngcu Ac fal y dywaid 'r ystori Hi a fu naw mis yn feichiog arno. Ac wedi esgor o honi ni allai hi ar ei chalon ei ladd rhag mor deg oedd, Namyn ei wisgo mewn Boly o Groen ai fwrw ef yn ewyllys Dyn yn y mor y 29 dydd o Ebrill ac yn yr amser hwnnw yr oedd Gored Wyddno yn y traeth rhwn Dyfi ac Aberystwyth garllaw ei Gastell ei Hun Ac yn y Gored hwnnw y ceid Cywerthydd Can Punt bob nos Galanmai.

Ac yn yr amser hwnnw yr oedd un mab i Wyddno a elwid Elphin yn un o'r rhai dyrssaf o'r Ieuainge a mwyaf eisiau arno, Ac yn Orthrwm gan ei Dâd hynny gan dybiaw ei eni ar awr ddrwg a thrwy Annogiad ei gyngoriaid arno ef a roes ei Dâd iddaw dynniad y Gored y Flwyddyn honno i edrych a ddamweiniau iddo râs byth ac i ddechreu gwaith iddo. A thranoeth wrth edrych o Elphin ac nad oedd ynnddi ddim. Ond wrth fyned i ffordd arganfod ar bawl y Gored y Bol Croen. Yna dywawd un or Goredwyr wrth Elphin ni buost ti anhappus erioed hyn Heno. Canys ti a dorraist gyneddfau y Gorred yn yr hon y ceid ynnddi werth Can Punt bob Nos Galanmai ac nid oedd heho namyn y Croenyn hwn, Beth yn awr, eb Elphin ef a allai fod yna Cywerthyd Can Punt o Ddâ. Dattod y croen a wnaethpwyd. ac arganfod or agorwr Dâl mab, ac a ddywawd wrth Elphin Llyma Daliesin! Taliesin bid ef eb yr Elphin, a dyrchafael y mab rhwng ei ddwyio gan gwyno anhap iddo ac ai cymerth yn brudd is ei gil ar awr honno ef a berai i'r march rygyngu oedd yn tuthiaw or blaen ai arwain mor esmwyth a phettau yn eistedd mewn cadair esmwytha o'r Byd. Ac yn fuan yn ol hynny y gwnaeth y mab Ddeluddiant i Elphin a moliant. ac y prophwydodd urddas i Elphin ar ddehuddiant oedd fel y gwelwch—

'Elphin deg taw a'th wyl
Na chabled neb yr eiddo
Ni wna les drwg obeithio
Ni wyl dyn dim ai portho
Ni bydd coeg gweddi Cynllo
Ni thyr Duw a'r addawo
Ni chaed yn ngored Wyddno
Erioed cystal a heno.
Elphin deg sych dy ddenrudd
Ni weryd vod yn rhybrudd
Cyd tybiaist na chevaist rudd
Ni wna les gormodd cystudd

Nac ammau wyrthian Dovydd
Cyd bwyv bychan wyl gelvydd
O voroedd ac o vynydd
Ac o eigiawn avonydd
Y daw Duw a da i ddedwydd
Elphin gynneddvau diddau
Anwraidd yw dy anean
Nid rhaid it ddirvawr gwynvan
Gwell Duw na drwg ddarogan
Cyd bwyv eiddil a bychan
Ar gorverw mor dylan
Mi a wnaaf yn nydd cyvran
It well no thrichau marau

Elphin gyneddvan hynod
Na sor er dy gafaolod
Cyd bwyv wan ar lawr vy nghod
Mae rhiuwedd ar vy nhavod

Tra bwyv vi i'th gyvragod
Nid rhaid it ddirfawr onnod
Drwy gofa henwau'r Drindod
Ni ddichon neb dy orvod."

A hon oedd y Gerdd Gyntaf a ganodd Taliessin er dyhuddo Elphin am ei fod yn drist golli helpa y Gored a gwaeth ganddo weled or Byd mai arno ef yr oedd y Bai ar anffortun, ac yno y gofynnodd Gwyddno Garanhir iddo beth oedd efe ai Dyn ai yspryd ac yno y canodd yntau yr hanes Hon ac y dywawd—

* * * * *

"Cyntaf im lluniwyd ar lyn dyn glwys
Yn llys Caridwen em penydiwys
Cyd bawn bach o'm gwelid gwyl fy nghynuwys
Oeddwn fawr uwch llawr llann am tywys
Pryd fum parwyden per awen Parwys
Ag ynghfraith heb iaith am rhydd rylliwys
Hen widdon didulon pan lidiwys
Anghuriawl ei hawl pan hwyliwys
Ffoes yn gadarn ffoes yn llyfan
Ffoes yn rhith bran braidd orphowys
Ffoes yn derwyn ffoes yn gadwyn
Ffoes yn Iyrchwyn mewn llwyn llychwys
Ffoes yn feiddyn ffoes bleiddawr yn niffaeth
Ffoes yn froufraith cyfaith Coelwys
Ffoes yn gadno cyd naid ystuma

Ffoes yn Felau fal na thycciwys
Ffoes yn wiwair ni chynnydd celwys
Ffoes yn Gern Hydd rhydd im rhwyfwys
Ffoes yn haearn mewn tan towys
Ffoes yn ben gwayw gwae ai puchwys
Ffoes yn Darw taer ymladdwys
Ffoes yn faedd Gwyrch mewn rhych rhithiwys
Ffoes yn ronyn gwyn Gwenith lwys
Ar ael llen carthen im cartaglwyn
Cymmaint oedd ei gwelid a chyfeb rhewys
A fai yn llenwi fal llong ar ddyfrwys
Mewn boly tywyll im tywallldwys
Mewn mor dylan im dychwelwys
Bu goelfain im pan im caiu fagwys
Duw Arglwydd yn rhydd am rhyddhawys."

Yno daeth Elphin a Thaliessin ganddo i dy neu Lys Gwyddno ei Dad ac a ofynnodd Gwyddno iddaw Ai da yr Caffaeliad yn y Gored? Yntau a ddywawd wrtho gaffael peth oedd well na Physgod. Beth oedd eb y Gwyddno? Bardd eb yr yntau Elphin yna y dywawd Gwyddno, Och druan, beth a Dal hwnnw i ti? yno yr atebawdd Taliessin ei hunan ac a ddywawd, Ef a dâl hwn iddo ef fwy nag y dalodd y Gored erioed i ti. Yno y Gofynnodd Gwyddno iddo. A fedri di ddywedyd a chyn fychaned a wyt? yno yr atebawdd yntau Taliessin ac y dywawd. Medraf fi ddywedyd mwy nag afedri di ofyn i mi. moes i mi glywed beth a fedri eb y Gwyddno.

Yno y canodd Taliessin

"Ar ddwr mae cyflwr can fendigaw
Ar Dduw mae iawnaf iawn syuwyraw
Ar Dduw mae cyfiawn gweddiaw'n brudd
Can ny ellir lludd cael budd iwrthaw
Tairgwaith i'm ganed gwn fyfyriaw
Truan oedd i ddyn na ddoe geisiaw
Holl gelfyddydau byd sy'n byddinaw i'm bru
Canys gwn a fu ac a fydd rhagllaw

Cyfarch i'm naf nawdd i'm ganthaw
Cyfarchwel i'm del dawn o'i eiddaw
A'm crair yw Mab Mair mawr arnaw vy mryd
Canys delir y byd bob awr iwrthaw
Bu Duw i'm dyscu a'm disgwyliaw
Gwir greawdyr nef nawd i'm gantaw
Cywraint yw i'r saint weddiaw beunydd
Canys Duw Dofydd a'u dwg attaw."

* * * * *

Yn y man y rhoddes Elphin ei gaffaeliad iw wraig briod yr hon ai magodd ef yn gu ag yn anwyl, ac o hynny allan i'r amlhaoedd golud Elphin well well bob dydd yn ol ei gilydd, ac o gariad a chymmeriad gyda'r brenin [ac yno y Bu Taliessin onid oedd xiii oed, yno i'r aeth Elphin ab Gwyddno Mewn gwâ'dd y Nadolig

at Faelgwyn Gwynedd ei ewythr] yr hwn o fewn dogn o amser yn ol hyn a oedd yn cynnall llys agored o fewn Castell Teganwy ar amser nadolic, ai holl amlder arglwyddi a bob un or ddwyradd ysbrydol a bydol gyda mawr luosogrwydd nifer o farchogion ac ysweiniaid, ym mlith yr rhain i cyfodes ymddiddan drwy ymfyn a dywedyd fal hyn.

A oes yn yr holl fyd frenin mor gyfoethoc a Maelgwn, ac wedi darfod ir Tad or nef roddi cymmaint ag a ddarfodd i Dduw roddi o roddion ysprydol iddo ef; yn gyntaf pryd a gwedd, ag addrwynder a nerth heblaw cwbl o alluau yr enaid a chyda y rhoddion hyn yma ynt hwy addywedant fod y Tad wedi ei rhoddi iddo ef, un rodd rhagorol yr hwn hagen a bassiai y rhoddion eraill i gyd, yr hyn sydd iw draethu ym mlith a gwedd ac ymddygiad a doethineb a diweirdeb ei frenhines, yn y rhinweddau yr ydoedd hi yn rhagori ar holl Arglwyddesau a merched boneddigion yr holl Deyrnas. Ac heblaw hyn i bwriant wy ofynion yn eu mysg eu hunain pwy ddewrach ei wyr? pwy deccach a buannach ei feirch, ai filgwn? pwy gyfarwyddach a doethach ei feirdd no Maelgwn? Y rhain yn yr amser yna a gymerid mewn cymmeriad mawr ym mlith Ardderehogion y Deyrnas, ac yn yr amser yma ni wnaid neb o'r swydd hon yr rhain heddyw a elwir yn Heralds onid o fai gwyr dysgedic na enid yn unig mewn gwasanaeth brenhinoedd a thywysogion, namyn yn fyfyr ac yn hyfedr o achau ac arfau a gweithredoedd brenhinoedd a thywysogion yn gysdadr o deyrnasoedd dieithr ac o hynafiaid y deyrnas honn. yn enwedig o hanes y dyledogion pennaf. Hefyd ir ydoedd yn rhaid i bawb o naddynt wy fod yn drapharod eu hattebion mewn amrafaelion Ieithau Lladin, Ffrangeg, Cymraeg a Saesoneg. A chyda hyn yn ystoriawr mawr ac yn Gofadur da, ac yn gelfydd mewn prydyddiaeth i fod yn barod i wneuthur englynion mydr ymhob un o'r feithau hynny, ac or rhain ir ydoedd yr wyl hon o fewn Llys Maelgwn gymmaint a phedwar ar ugeint, yn bennaf ar y rhain yr ydoedd un yr hwn i'r oeddid yn ei heawi Heiniu Fardd, felly yn ol darfod o bawb foliannu'r brenin ai ddoniau, fo a ddigwyddodd i Elphin ddywedyd fal hynn: Yn wir nid oes neb yn abl i yngystadli a brenin ond brenin, eithr yn wir onibai ei fod ef yn frenin myfi a ddywedwn fod imi wraig yngystal o ddiweirdeb ei choroph ag un Arlwyddes a geffir o fewn y deyrnas, a hefyd i mae imi un Bardd y sydd gyfarwyddach no holl feirdd y brenin; ir hwn ymheu ychydig amser y dangoses rai oi gymdeithion ef gwbl fogsach Elphin, yr hwn a orchymmynawdd y brenin ei roi ef mewn carchar cadarn, oni ddarfai iddo ef gaffael gwir wybodaeth o ddyweirdeb ei wraig ef, ag o wybodaeth ei Fardd ef; A yn ol darfod rhoddi Elphin mewn Twr or castell a gefyn mawr ar ei draed, a dywedir mae gefyn arian ydoedd am ei fod o waed brenhinol, yr hwn megis ac i maer hanes yn dangos a ddanfonws ei fab Rhun i brofi diweirdeb gwraig Elphin, ac un o'r gwyr aullattaf or byd ydoedd

Rhun, cans nid ai na Gwraig na morwyn hagen yn ddiogan ar i caffi ef ennyd i ymddyddan a hi. Ac fal yr ydoedd Rhun yn dyfod ar frys tuac at blas Elphin ar i lawn fryd i amcanu halogi ei wraig ef, i dywawd Taliesin iw feistres drwy hir brofes y modd ir ydoedd y brenin wedi doddi ei feistr ef mewn carchar, ar modd ir ydoedd Rhun yn dyfod ar frys i amcanu llygru ei diweirdeb hi, o'r achos fo a beris iw feistres wisco un o ferched y gegin yn ei harchennod hi yr hyn a wnaith y wraig fonheddig yn llawen ag yn ddiandllawd drwy drefnu ei dwylaw hi yn llawn o'r modrwyau gorau ar a oedd ar ei helw hi ai gwr.—Ac yn y modd hwn i peris Taliesin iw feistress osod y forwyn i eiste ar y ford yn ei ystafell iw swpper, yr hon a ddaroedd i Daliesin ei gwneuthur hi yn gyfelyb iw feistres ai feistres yn gyfelyb ir forwyn. Ac fal ir oeddynt hwy brydferthaf yn eiste ar ei swpper yn y modd ag y dywedid fo a ddisymmythodd Rhun i blas Elphin. y neb a dderbyniwyd i mewn yn llawen canys pawb or gwasanaethwyr ai adwaenent ef yn ysby, ac ar frys hwy ai dygasant ef ir ystafell at ei meistres yn rhith yr honn i cyfodes y forwyn oddiar ei swpper i fynu, ac ai croesawoedd ef yn llawen, ac yn ol hyn hi a eisteddes i'w swpper eilwaith, a Rhun gyda hi, yr hwn a ddechreuodd ymgellwair trwy eiriau godinebu, ar forwyn, yr hon a oedd yn cadw ei semlant yn gyfelyb iw meistres. ac yn wir y mae'r stori honn yn dangos syrthio o'r forwyn yn frwyse yn gymmaint ag iddi ddechreu cysgu canys i maer hanes yn dangos mai Powdr a roesai Rhun yn ei diod hi; yr hyn a wnaeth iddi hi gyscu, yn gyn drymed, ac na chlybu hi ddim o honaw ef yn torri ei bys bach hi oddiwrth ei llaw, am yr hwn yr ydoedd fodrwy insel Elphin yr honn a ddanfonasau ef yn arwydd at ei wraig ychydig yn y blaen ac yn y modd hwn fo a wnaeth a weles ef ei fod yn dda ar ferch, ag wedi fo a aeth ar bys ar fodrwy am danaw yn goelfain i'r Brenin ir neb y dangoses ef ddarfod iddo ef lygru ei diweirdeb hi drwy ddangos y modd i torrasai ef ei bys hi wrth ymadael, heb iddi hi ddefro oi chwsc.—or chwedleu i cymmerth y brenin lawenydd mawr, or'achos i danfones ef am ei gyngor ir rhain i dangoses ef y cyfan o ben bwy gilydd ir hanes, drwy beri cyrchu Elphin or carchar ai geryddu ef am ei fost; ac am hynny y dywawd ef wrth Elphin yn y modd yma, Elphin bid ysby itti a diammeu itti, nad oes ond ffoledd i wr yn y byd goelio ei wraig am ddiweirdeb ei chorph, ym mhellach nac y gallo ef ei gweled hi, ac megis ag i bo diogel itti dorri oth wraig di ei phriodes y nos neithiwyd ddiweddaf wel dyma ei bys hi yn arwydd itti ath fodrwy insel di am danaw gwedi darfod ir neb a orweddws gyda hi i dorri oddiwrth ei llaw, ac y hi yn ei chwsc megis na bai fost itti ddiweddyd yn erbyn na thorassai hi ei diweirdeb. Ac yr hyn a dywawd Elphin yn y modd yma. Gydach cennad chwi frenin anrhydeddus, yn wir nid wyf i mewn un modd yn abl i wadu fy modrwy, canys i mae nifer o bobl yn ei hadnabod hi, eithr yn wir mi anodaf

yn gadarn na bu y bys i mae yn ei gylch ermoed wrth law fy ngwraig i, canys yn sier wir i mae arno ef dri pheth nodedic, yr hyn er moed ni bu yr un or tri ar un o fyssedd dwylo fy ngwraig i, ar cyntaf or tri ydyw, yn sier gyda chenad eich gras chwi pa le bynnag i mae fy ngwraig i ar yr awr honn yn eiste ai yn sefyll ai yn gorwedd ni saif y fodrwy honn ar ei bawd hi a chwychwi a ellwch weled yn eglur fod yn anhawdd gyrru y fodrwy honn dros figwrn y bys lleiaf ar a oedd ar y llaw i torred y bys hwnn oddiwrti; ar ail peth ydyw yn wir ni bu fy ngwraig i un sadwrn er pan adwaen i hyhi heb barrio ei hewinedd cyn ei myned iw gwely, ac yn wir chwi a ellwch weled yn amlwg na thorred ewin y bys bach hwn er ys mis. Ar trydydd peth ydyw yn wir, yllaw i torred y bys yma oddiwrti a deliniodd does rhyg o fewn y tridiau cyn torri y bys oddiwrti i llaw i torred y bys yma oddiwrti. A myfi a gadarnhaf yn wir i eich daioni chwi na theliniodd fy ngwraig i does rhyg er pan ydyw hi wraig i mi. ar brenin a sorrawd yn aruthr wrth Elphin am sefyll mor gadarn yn ei erbyn ef gyda diweirdeb ei wraig, o'r achos y brenin a gorchmynnodd ef ir carchar eilwaith, drwy ddywedyd na chaffai ef ollyngdod oddiyno nes yddo brofi ei fogsach yn wir yn gystal am gowreindeb ei fardd ag am ddiweirdeb ei wraig, yr hain yr hyd yr amser yma a oeddent ym mhlas Elphin yn gwneuthur yn llawen, o fewn ir amser i dangos Taliessin iw feistres y modd yr ydoedd Elphin mewn carchar or achos hwynt, eithr y fo a erchis iw feistres fod yn llawen drwy ddangos iddi y modd ir ai ef i Lys Maelgwn i ryddhau ei feistr. Ac yna i gofynnodd hi yddaw ef pa ddelw y gollyngai ef ei feistr yn rydd, ac ynteu a ddywawd yn y modd yma,

“ Pedrestic a wnaif
Ac ir porth mi a ddeuaf
Ar neuadd a gyrchaf
Am cerdd a ganaf,
Am gwawd a draethaf
A Beirdd y Brenin awaharddaf,
Ger bronn y pennaf
Gogyfarch a wnaif,
Ac arnyn mi dorraf,
Ac Elphin yn rhydd mi ollynghaf.

A phan ddel yr Amryson
Yngwydd y Teyrnion
A gwsy i'r beirddion
Am y gerdd gywir gyffon
A gwyddbwyll Dewinion
A Doethder Derwyddon
Yn Llys meibion Deion
Mae rhai a ymrhithiason
O gygrwys ddichellion,
Ac ystrywgar foddion
Yngofidiau gloesion
Am gamweddu ar y Gwirion.

Tawon ynfidion
Mal pan fu waith Faddon

Arthur Benhaelion
Ei lfnau'n hir gochion,
O waith gwyr gofwynion
Gwaith Rhi ar ei alon.
Gwae hwynt yn ynyfydion
Pan ai del ddiulon,
Mi Daliesin ben Beirddion
A doeth Eiriau Derwyddion
A ollwng Elphin dirion
O garchar y trabeilech trawsion

Ei gofwynion gwaed aredd
O waith Gorwydd rhyfedd
O feith beildder Gogledd,
Hwn a wna ei diwedd,
Na bo rad na gwedd
Ar Faelgwn Gwynedd,
Am drais a chamwedd,
A dirfawr gyfrwysedd, greulonedd
Dialeddig ddiwedd
Ar Rhun ei etifedd,
Poed fyrr fo'i fuchedd,
Poed diffaith ei diredd,
Poed hir ddirfroedd
Ar Faelgwn Gwynedd.”

Ac yn ol hyn fo gymmerth ei gennad oddiwrth ei feistres, ag or diwedd fo a ddaeth i Lys Maelgwn, y neb a oedd yn ei frenhinol radd yn myned i eiste yn ei neuadd iw giuio megis ac ir arfer ei frenhinoedd a Thywysogion oi wneuthur ar bob Gwyl uchel yn yr oes honno.—Ac yn gythrum ac i Daliesin ddyfod oddifewn y neuadd y fo a gauflu le iddo mewn cornel disathr heblaw y man i gorfyddai ar y Beirdd ar Gler ddyfod i wneuthur ei gwasanaeth au dyled ir Brenin, megis ag i mae'n arferol etto yn y Llysoedd o grio helaethrwydd ar uchel wyliau, ac felly yr amser a ddaeth ir Beirdd neu ir Herots ddyfod i grio Lardgys a gallu y Brenin ai nerth, y rhain a ddoeth heb law y man yr ydoedd Daliesin yn erwiciaw mewn cornel, yr hwn a estynodd ei wefl yn eu ol wynt ac ai fys y chwrei blerwm blerwm ar ei wefl, ar y neb ni ddaliassant wy fawr sulw wrth fyned heibio, onid cerdded ou blaen, oni ddaethant wy ger bronn y Brenin, ir neb i gwnaethant wy eu moes a'u cyrph megis yr ydoedd yn ddyledus uddunt wy ei wneuthur, heb ddywedyd un gair ou penau onid estyn eu gweflau a mingammu y brenin drwy chwarae blerwm blerwm au byssedd ar eu gweflau megis ag i gwelsant wy y bachgen yn ei wneuthur yn y blaen, y golwg a wnaeth ir Brenin gymeryd rhyfeddod a syndod ynddo ei hun ei bod wynt wedi meddwi o amllder gwirodau or achos fo a orchymmynodd i un or Arglwyddi a oedd yn gwasanaethu ar ei ford ef fyned attynt wy ac erchi uddynt wy alw iw cof ai myfyrdod attunt a meddwl y man ir oeddynt yn sefyll, a pheth a ddyleynt wy ei wneuthur, yr hyna wnaeth yr Arglwydd yn llawen. eithr ni bu gynt iddynt wy beidio a'u gorwagedd, o'r achos i danfones ef eilwaith a'r drydedd i erchi iddynt wy fyned allan o'r neuadd: ac or diwedd ir erchis y brenin i un o'r ysweiniaid roddi dyrnod ir pennaf onaddunt wy, y neb a elwid Heinin Fardd, ar Yswain a gymmerth ddeseibell ac ai tarawodd ef ar ei benn oni syrthiodd ef yn ei eiste ar ei din, or man y cyfodes ef ar ei liniau, or lle y gotynodd ef i ras y Brenin ei genuad i ddangos iddo ef nad ydoedd y diffig hwnnw arnynt o nag eisiau gwybodaeth nag o feddwdod, namyn o rinwedd rhyw yspryd ar a oedd o fewny neuadd, ac yn ol hyn y dywawt Heinin yn y modd yma. o frenin aurhydedus bid hyspysich gras chwi nad o angerdd cyffeithlder gormodion wirodau ir ydym ni yn fudion heb allu ymddiddan, fal dynion meddwon, namyn o rinwedd yspryd y sydd yn eiste yn y gornel accw ar swm dyn bach o'r man i gorchymmynodd y Brenin i Yswain ei gyrehu ef yr hwn a aeth ir gillfach ir ydoedd Daliesin yn eiste, ac ai dug ef odd yno gar bronn y Brenin, y neb a ofypodd iddo pa beth ydoedd ef, ag o ba le i daethai ef? neb a atebawdd y Brenin ar wawd, fal y gweler yma

"Prifardd cyssefin wyf Elphin,
Am gwlad gynnefin yw Bro saer hefin
Idno a Heinin am galwai Merddin
Weithiau pob Brenin am geilw Taliessin

Mi a fum gydam ner yn y goruchelder
Pan gwmpodd Luwsiffer i uffern ddyfnder,
Bum yn arwain baner o flaen Alexander
Mi a wnn enwau'r ser o ogledd hyd Awster,
Mi a fum ynghaer wydion ger orsedd Deon,
Mi a fum yn y Ganon pan las Absalon,
Mi a ddugum Heon i lawr glyn Ebron
Mi a fum yn Llys Don cyn geni Gwdion,
Mi a fum bedroc i Eli ac Enoc
Mi a fum addeinioc Awen gefnagloc
Mi a fum lafaroc cynbod tafodoc,
Mi a fum ar fann eroc Mab Daw trugaroc.
Mi a fum dri chyfuod yn ngharchar arianrod
Mi a fum Benciwdod ar waith Twr nimrod,
Mi yw rhyfeddod ni wyr neb fy hanfod,
Mi a fum yn Asia gyda Noe yn Arca
Mi a welais ddifa Sodom a Gomorra,

Mi a fum yn yr India pan adeilwyd Roma,
Mi a ddaethum yma at Weddillion Troea.

Mi afum gyda'm Rhen ymrhesob yr Asen
Mi a nerthais Foesen drwy ddwr Urddonen,
Mi a fum yn wybren gyda Maer Fadlon,
Mi a gefais Awen o Bair Ceridwen.
Mi a fum fardd Telyn i Leon Llychlyn
Mi a fum yn y Gwynfryn yn Llys Gynfelin,
Undydd a blwyddyn mewn cyff a gefyn,
Mi a ddugum newyn am fab Iforwyn,

Mi a fum ymlygawd yng wlad y Duwdawd
Mi a fum dysogawd ir holl feddyldawd,
Mi a wn ddysgu gwawd ir holl fodyfawd,
Mi a fyddaf hyd ddydd brawd ar wyneb daearawd
Ac ni wyddis beth yw y nghawd ai cig ai pysgawd,"

Mi a fum naw mis haech
Ynghroth Ceridwen wrach,
Mi a fum Gynt Wion bach
Taliessin a fyddaf bellach."

A phan y clybu y Brenin ai urddasolion y gwawd hwnn synnu yn fawr a wnaethant, ac ni chlywsant o ben bachgen ei fychaned a ellid ei debygu ir gan honn, a phan wybu y brenin mai Bardd Elphin oedd efe, erchi a wnaeth efe ar Henin ei Fardd pennaf a doethaf ddyfod ac ateb i Daliesin ac ymorechestu ac ef, onid pan y daethaf yno nis gallai amgen na chwarae blerwm ar ei wefl a phan ddaunfoned am y rhai eraill or pedwar ar hugain Beirdd yr un peth a wnaethant ac nis gellynt amgen yna i gofynes Faelgwn ir Bachgen Taliessin pa beth ydoedd ei neges yno. ag efe a atebawdd fal hynn, ar wawd,

"Cul Fardd ceisiaw ir wyf
Cadw'r gamp nis gallwyf
Darogan dywettwyf
A rygeissio ir wyf,
Y golled a gafwyf
Cwbl geisydd coelwyf,
Elphin yughyswy
O Gaer Deganwy,
Arwaw na ddodod rhwy
Hual o Aerwy,
Cadair Caer Deganwyf
Eilchwyl a archwyf,
Ca'r fy ngorawen wyf
Cadarn ym a geiswyf.
Treichan cerdd a mwyf
Yw'r gerddwawd a ganwyf,
Ni ddylly saw y lle ydd wyf
Na maen na modrwyf,
Na bydd im Cylchwy
Un Bardd nis Gwyppwyf,
Elphin ap-Gwyddno
Y sydd dan anraithdro
Dan dri ar ddeg clo
Am ganmawl ei athro.

A minnen iw Taliessin
Pen Beirdd y Gorllewin
A ollwng Elphin
O'r hual goreurin."

* * * *

"Os ywch brif feirddion
Crwyf celfyddion
Trenthwech oruchuddion
Or Mundi Maon
Y mac pryf atcas
Oi Kaer Satanas
A oresgynas
Rhwyng dwfn a bas
Cyted yw ei enau
A mynydd Mynau
Nys gorfydd angeu
Na llaw na llafneu
Mae llwyth naw can men
Yn rhawn dwy bawen
Un llygad yn ei ben
Gwyredd fal glas iaen
Tair ffynnon y sydd
Yn ei wegorlydd

Mor fryched arnaw
 A nobiant trwyddlaw
 Bu laith bualawn
 Deifr ddonwy dyfr ddawn
 Henwa'r tair ffynawn
 O ganawl Eigiawn
 Un llwydd heli
 Pan fo yn corini
 I edryd liant
 Dros Moroedd difant
 Yr ail yn ddinam
 A ddigwydd arnam
 Pan fo'r gwlaw allan
 Drwy awyr dylan
 Y drydydd a ddawedd
 Trwy wythi Mynyddedd
 Fal callestig wledd
 O waith Rex Rexedd
 Ydywch bosfeirdd
 Mewn rhwyf ofeiliant
 Ny wyddoch ddychanu
 Teyrnas y Brytannaec
 Minneu yw Taliesin
 Ben beirdd y Gorllewin
 A ollwng Elphin
 Oi hual Eurin "

* * * *
 "Tewch chwï Bosfeirddion ffeision anhylwydd
 Ni wyddoch i farnu rhwng gwir a chelwydd
 Odych brifeirdd ffydd o waith Duw ofydd
 Dywedwch i'ch Brenin beth fydd ei dramgwydd
 Myfi sydd Dewin a phrif Fardd cyffredin
 A wyr bob gorsin ynglad eich Brenin
 Mi a ryddhaf Elphin o fol twr meinin
 Ag a ddyweda i'ch Brenin bethe i gyffrin
 Fe dlaw pryf rhyfedd iar Forfar Rhianedd
 I ddial anwiredd ar Faelgwn Gwynedd
 Ai flew ai ddanedd ai lyged yn eurwedd
 A hwnnw a wna ddial ar Faelgwn Gwynedd "

* * * *
 "Dychymic di pwy yw
 Creadur cadarn cyn dilyw
 Heb gig heb asgwrn heb wythen heb waed
 Heb pen a heb draet
 Ni bydd llyn ni bydd iau
 Nog yn y dechreu
 Er ofn nag ny ddiifoes eisïau
 Gan greaduriau
 Mawr Dduw mor wynneu
 Ban ddaw o ddechreu
 Mawr ei freitheiriau
 Pan ddel or debau
 Mawr ei ferthidau
 Y gur gan goreu

Ef yn maes ef ynghoet
 Heb law ac heb droet
 Heb henaïnt heb hoet
 Ac ef yn gyfoed
 A phumoes pymbhoed
 A hefyd y sydd llyn
 Pet pemwnt ffyyddyn
 Ag ef yn gyfled
 Ag wyneb tudwed
 Ag ef ni anet
 Ac ef ni weled
 Ef a nona gythrudd
 Lle mynuo Dofydd
 Ef ar for ef ar dir
 Ni wyl ni welir
 Ac ef yn aughywir
 Ni ddaw pan fyunnir
 Ef ar dir ef ar for
 Ef yn anhepcor
 Ef yn diesor
 Ef yn beteiror
 Ef yn ddi achor
 Ef yn ddeisor
 Ef o bedeiror
 Ni bydd wrth gyngor
 Ni fydd heb gyngor
 Ef cychwyn agor
 O dduch maen mynor
 Ef yn llafar ef yn fud
 Ef yn fynud
 Ef yn wrdd ef yn ddrut
 Pan dremyn drosdud
 Ef myd ef llafar
 Ef yn orddear
 Mwyaf y amar
 Ar wyneb daear
 Ef yn dda ef yn ddrwg
 Ef yn orddwc
 Ef yn anamlwc
 Cannis gwyl golwc
 Ef yn ddrwg ef yn dda
 Ef hwnt ef yma
 Ef a aurhefna
 Ni ddiwg a wna
 Ni ddwg a wnech
 Ec ef yn ddibech
 Ef yn wlyb ef yn sych
 Ef a ddaw'n fynych
 O wres haul ac oerfel
 Lloer yn hanhel
 Lloer yn anlles
 Handid llai ei gwres
 Un gwr ai goreu
 Yr holl greadwireu
 Drwy ddirfawr awel
 I wneuthur dialedd
 Ar Faelgwn Gwynedd."

Ac fal ydd ydoedd ef fal hyn yn canu ei gerdd am y porth y cyfodes temestl o wynt aruthr oni thybiassau y brenin ai holl urddasoliou y syrthiai y castell am eu pennau wynt oll, a'r brenin a beris gyrcu Elphin yn fuan o'r carchar ai osod ef gar bron Taliesin, yn y lle ar amser y dywedir ganu o hono ef gerdd nes agori or gefyn oddiam ei draed ef,—

“Golychaf wledig pendefig pob wa
Gwr a gynneil y Nef Arglwydd pob tra
Gwr a wnaeth y dwfr i bawb yn dda
Gwr a wnaeth pob llad ac ai llwydda
Meddwer Maelgwn Mon ag an meddwa
Ai feddgorn ewyn gwerlyn gwynha
As gynnul gwenyn ac nis mwynna
Med hidleid moleid molud i bob tra
Lleaws Creadur a fag terra
A wnaeth Duw i ddyn er ei ddonha
Rhai drud rhai mud ef ai mwynha

Rhai gwyllt rhai dof Dofydd ai gwna
Yn ddillig iddynt yn ddillad ydd a
Yn fwyd yn ddiawd hyd frawd yd barha
Golychaf i wledig pendefig gwlad hedd
I ddillwag Elphin o alltudedd
Y gwr am rhoddes y gwin ar cwrwaf ar medd
Ar meirch mawr modur mirein eu gwedd
Am rothwy etwa mal diwedd
Trwy fodd Duw y rhydd trwy enrhydedd
Pump pembwnt cahan ynghaman hedd
Elfinawg farchawg medd hwyr dy Ogledd.”

Yn ol hynn y canodd efe ostec yr honn a elwir gorchestion y Beirdd, fal ac y mae yma

“Pa ddyn gyntaf
A oruc Dnw naf
Para weniath deccaf
A drefnodd leuaf,
Pa fwyd pa ddiad,
Pa do ei wasgod,
Pa cyntaf annod
Ei brif fy fyrdod,
Pwy ddoethai ddillad
Pwy a ddug ymawd
O ystryw gwlad
Yn y dechreuad,

Paham i mae caled maen
Paham i mae biauillym draen,
Pwy sydd galed fal Malen
Pwy yn hallt fal halen,
Pwy yn felus fal mel?
Pwy a ferchyg yr awel?

Paham i mae cefnog y trwyn,
Paham y mae cronyn yr olwyn
Paham y traeth y tafawd
Angen nag arall aelawd,
O medri di a'th feirdd Henin
Atteb atebant i mi Daliesin.”

Gwedi hynny y canodd efe yr ostec honn a elwir Cystwy'r Beirdd

“Os ydwy't di Fardd cyfrisgin
O awen ddisgethrin
Na fydd yn ddiscethrin
Yn Llys dy frenin
Oni wyppir dy henw rimirin
Gorthaw di Henin,
A henw rimiad
A henw ramiad
A henw dy hendad
Cyn ei fedyddiad
A henw dy furment
A henw yr element
A henw dy iaith,
A henw'r dalaith,
Gosco feirdd uchod

Gosco feirdd isod
Fy anwyl i sydd isod
Dan hual arianrod,
Ni wyddoch chwi ynddiau
Ddeall y gan y min mau,
Na dosparth diau,
Rhwyngy y gwir ar gau,
Beirdaion bychain ei bro
Paham nad ewch chwi ar ffo
Y Bardd nim gostecco
Gostec nis caffo,
Oni el mewn gortho
Dan raian a gro,
Y sawl an gwrandawo
Gwrandewid Duw fo.”

Gwedi hynny y canodd efe yr Ostec honn a elwir Bustl y Beirdd

" Cler o gam arfer a arferant
 Cathl annuwiol yw eu moliant
 Cerdd arwag ddiflan a ganant
 Celwydd bob amser a arferant
 Gwirionion ddynion a ddyfalant
 Priodol wragedd hwy ai llygrant
 Gwirionion forwynion mair a halogant
 A'u hoes au hamser yn ofer adreuliant
 Gwirionion gweinion a ddyfalant
 Y nos i meddwant, y dydd i cysgant
 Yn segur heb lafur ydd ymb-erthant
 Yr Eglwys a gassant a'r dafarn a gyrchant
 A lladron ac udion a gyd fymiant,
 Llysoedd a Gwleddoedd a ymosfynant,
 Pob parabl dibwyll a grybwyllant,
 Pob pechod marwol a ganmolant,
 Pob salwedd fuchedd a arweddant,

Pob pentref, pob tref, pob gwlad a grwydrant,
 Gafaelau angau nis pryderant
 Letty a chardod fyth ni roddant,
 Gormodau o fwyllau a fwythaant,
 Llaswyr na phader nis arferant,
 Degwm ag otrwm i Dduw nis talant,
 Gwylliau a seiliau nis addolant
 Mewiliau na chatcor nis ymdorant
 Adar a hedant pyscod a nofiant
 Gwenyn a felant, pryfed a ymlusgant
 Pob peth a ymdaith i ymhill ei borthiant
 Ond cler a lladron diogion difwyniant,

Ni chabla'r ffa'r gerdd na cherddwriaeth,
 Cans Duw ai rhoes rhag drygaur galaeth,
 Onid hwn ai harwain o gamlywodraeth,
 Am gablu Iesu a wasanaeth."

Yn ol darfod i Daliesin dynnu ei feistr yn rhydd oi garchar a gwirio diweirdeb ei feistres a gostegu'r Beirdd hyd na lyfasau neb o honynt ddywedyd un gair ac yna dwyn gwraig Elphin ger bron, a gweled nad un oi bysdedd yn eisiau, llawen y bu Elfin, llawen Taliesin sef a erchis, Elphin wneuthur Cyngwystl ar Brenin fod iddo ef un march cynt a buanach na holl feirch y Brenin, yr hyn a wnaeth Elphin, ar dydd ar amser, ar lle a noded, ar lle ar man a elwir heddyw Moifa Rhianedd man i daeth y Brenin ai bobl a phedwar ar hugain or meirch cyntaf ar a oedd ar ei helw ef, ac yn y man yn ol hir broses i noded yr yrfa ac i osod y meirch i redeg, i'r man y daeth Taliesin a phedair gwialen ar hugain o wiaill celyn gwedi ei golosei wynt yn dduon, y rhain a berris ef ir bachgen a oedd yn marchogaeth march ei feistr ei dodi wynt dan ei wregys, drwy rodli gorchymyn arno ef ar illwng holl feirch y Brenin oi flaen ac megys i cae ef ei goddiwes wynt bob un or meirch yn ol ei gilydd, cymeryd un o'r gwiaill a rhoddi gwialenod ar draws pedrain y march, ag yn ol hynny gellwng y wialen honno ir llawr ac yn ol cymmeryd gwialen arall a gwneuthur yn yr un modd am bob un or meirch, megis ac i cai ef ei goddiwes wynt, drwy rodli gorchymyn mawr ar y marchog ar wylled yn ddieseculus pa fan i cwmpiau ei farch ef a bwrw ei gapp ir llawr yn y man hwnnw, yr hyn oll a gyflawnes y bachgen yn gystal am rodli gwialennod i bob un o feirch y Brenin, ag o fwrw ei gapp ir llawr yn y man i cwmpiasse i march. ir man y dug Taliesin ei feistr, yn ol yw farch ef ymhill yr yrfa, ac i perris i Elphin osod gwyr ar waith i gloddio pwll, yn y man gwedi iddynt wy gloddio'r ddacar i ddogu o ddyfuder, i cawsant wy bair mawr yn llawn o aur, yn yr anser i dywawd Taliesin, Elphin wel dyna itti dal a gobrwy am fy nwyn i allan or gored ac am fy magu i er hynny hyd heddyw, yn y man a'r lle i mac Llyn o ddwr yn sefyll yr hwn a elwir er hynny hyd heddyw y Pwllbair.

Ac yn ol hynny y perris y Brenin ddwyn Taliesin gar ei fionn ef, ir neb i

gofynnodd ef gyfarwyddyd am ddechreuad cenedldyn, yn yr amser i gwnaeth ef yr ostep yr honn ddilyn yma, yn ol ag ir ydys yn ei henwi heddyw un o bedair Colofn Cerdd, ag a ddechreu fal hynn,

Ef a wnaeth Panton
Ar Lawr Glyn Ebron
Ai ddwylo gwynnion
Gwiw lun Adda

A phum canmlynedd
Heb fawr ymgeledd
Y bu e'n gorwedd.
Cyn cael anima

Ef a wnaeth eilwys
Yn Llys Baradwys
O Assen Asswys
Iesin ffœmina

Saith awr i buan
Yn cadw y berllan
Cyn cyfrdan Sattan
Suttiwr Taeryra

Ac yno i gyrrwyd
Drwy ryn ac anwyd
I ddwyn ei bywyd
Ir byd yma,

I ddwyn drwy ludedd
Meibion a merched,
I gael teyrnged
Ar dir Assia

Dau bump deg ac wyth
I bu hi yn ymdwyth
Yn dwyn ei mysclwyth
Mascl a ffœmina

Ac yna heb gel
Pan ymdduc hi Abel,
A Chain ddi ymgel
Diymwaredicca

Iddo yn gymmar
I rhodded rhaw balar
I dorri daear
I gael Bara

Y gwenith claerwyn
I hau y vorwyn
I borthi pob dyn
Hyd wyl Fangra

Engylaw! gennad
Odoiwrth Ucheldad
A dduc had tyfiad
Hyd at Efa,

Hithau a guddiodd
Degfed ran y rhodd
Hyd na chwbl hauodd
Yr holl balfa,

A rhyg du a gad
Yn lle'r gwenith had
I ddangos afrad
Ar ladratta

Am hyny o ffals dwrn
I mae'n rhaid gystwm medd sadwrn
I bawb rhoi eu degwm
I Dduw'n benna

O'r gwir Senoblrudd
A blanwyd yr haulddydd
Ar nos loer gynnydd
Ar gwin alba

O'r gwenith gwia fraint
O'r gwin rhudd rhwydd fraint
I gwnair corph cowraint
Crist fab Alpha

O'r afrillad yw'r cnawd
O'r gwin yw'r gwaedrawd
A geiriau'r drindawd
Ai cyssegra,

Pob rhyw lyfr dirgel
O waith y mannuel
A dduc Raphael
I'w roddi i Adda,

Pan oedd yr hen furmen
Goruwch ei ddwyen
O fewn dwr Eurddonen
Yn ei ddirwestfa

Y fo a gafas Moesen
O fewn dwfr Eurddonen
Nerth o rinwedd i tair gwialen
Enwedicca,

Efo a gafais Salmon
O fewn Twr Babilon,
Holl gelfyddyd
Gwlad yr Assia

Neu'r gefais innau
Yr mars gyflyrau
Holl gelfyddydau
Europ ac Affrica,

Myfi a wn eu cerdded
 Au tref au trwydded
 Au lwnng ai tynged,
 Hyd ddyd Ūltima

Och Dduw mor druan
 Drwy ddirfawr gwynfan
 I daw'r ddarogan
 I lin drōea

Sarphes Gadwynog
 Falch annhrugarog
 Ai hesgyll yn eurog
 O Sermania,

Honno a oresgyn
 Holl Loegr a Phrydyn
 O lan Mor Llychlyn
 Hyd Sabrina

Yna i bydd Brython
 Fal carcharorion

Mewn braint Alltudion
 Tir Saxonia

Eu ner a folant
 Eu hiaith a gadwant
 A'u tir a gollant
 Ond gwyllt Walia,

Oni ddel rhyw fyd
 Yn ol hir benyd
 Pan fo gogyhyd
 Y ddau draba

Yna caiff Brython
 Eu tir a'u coron
 Ar bobl estronion
 A ddiiflanna,

A Geiriau'r Angel
 Am hedda a Rhyfel
 A fydd diogel
 I Fruttania.

Ac yn ol hynny i dywawd ef amrafael brophwydoliaethau ir brenin
 or byd a ddelai yn ol ar ganuau fal y maent yma yn dilyn, &c.

NODIADAU.

Taliesin.—Bernir ei fod yn cydoesi â'r enwogion Aneuryn a Llywarch, ryw bryd tua chanol y 5ed ganrif; ac efe oedd yr enwocaf o'r Cynfeirdd. Y mae yn anhawdd gwneud allan ei wir haues, gan fod cynifer o chwedlau rhamantus wedi eu plethu o'i ddeutu. Bernir nad yw hanes ei ymgipris hefo Ceridwen Wrach, a'i gaffaeliad Moesenaidd yn Nghored Gwyddno, ond cynyrch ym-enydd dychymygtawr Tomos ab Einion Offeiriad, yr hwn oedd yn ei flodeu yn y 12fed ganrif. Y dyb gyffredin ydyw ei fod yn fab i Henwg Sant, o Gaerleon ar Wysg; ac iddo dderbyn ei addysg yn Nghôr Cattwg, yn Llanfeithin, Morganawg. Arddelai y flydd yn Nghrist, canys dywedir yn Tri 125:—'Tri Phrifardd Bedydd Ynys Prydain: Merddin Emrys, Taliesin Ben Beirdd, a Merddin ab Madawg Morfryl.' Efe oedd bardd tenluol Urien Rheged, a Gwyddnyw ab Gwyddno; a threuliodd ei oes yn benaf rhwng llys y blaenaf yn Aberllychwr, a llys yr olaf yn Arllechwedd yn Arfon. Cafodd dir a daear yn anrheg gan Gwyddnyw; a'r pryd hwnw y daeth i driganu ar lan Llyn Geirionydd, oddiar Ddyfryn Cynwy. Yn mhên yspaid, dygwyd ei dir a'i freintiau oddiarno gan Faelgwyn Gwynedd; a chanodd yntau ei felldith ar Faelgwyn ac ar yr oll a feddai. Credai lluaus mai un o frwythau y felldith hono ydoedd y Fad Felen a ddaeth i'r wlad ar diriogaeth Maelgwyn yn Rhos; yr hon oedd mor angeuol, fel ped edrychid yn unig arni, marwolaeth sicr fyddai'r canlyniad. A Maelgwyn a edrychodd arni trwy dwll y clo yn Eglwys Rhos, ac a fu farw o'i gweled. Yn ei hen ddyddiau, dychwelodd Taliesin yn ol i'w wlad, gan gartrefu gyda Rhiwallon ab Urien. Wedi hynny, ymwelodd â Cedig ab Ceredig, yn Ngheredigion, lle y bu farw. Claddwyd ef heb fod yn mhell o Aberystwyth, mewn llecyn a adwaenir eto wrth yr enw *Bedd Taliesin*. Y mae 77 o ddarnau barddonol yn dwyn ei enw; ond tua 12 yn unig ohonynt a gydnabyddir fel gwaith dyls y Prifardd, ac wyth eraill yn anmheus. Priodola Thomas Stephen y gweddill i'r Canol Oesau. Profa rhai o'i gerddi dyls ei fod yn gynefin â Gogledd Prydain; ac y mae tuedd yn rhai beirniaid i ddweyd mai brodor o'r rhanbarth hono oedd efe.

Ceridwen.—Nid oes enw mor adnabyddus i'r darlennydd Cymreig. Ond y mae y cyfeiriad-an ati a geir yma ac acw mor farddonol, ac yn gwrth-ddywedyd cymaint ar eu gilydd, fel mai anhawdd ydyw gwneud dim tebyg i fywgraffiad rheolaidd ohonynt. Dywedir mai gwraig Tegid Foel ydoedd; ei bod yn fam i Forfran ab Tegid, neu fel y gelwir ef weithiau Afagddu, y 'dyn hylaf yn yr holl fyd,' ac i Greirfyw—y rhian decaf yn y byd, a'r hon a gofnodir yn y Trioedd tan y penawd un o'r 'Tair Gwenrian.' Barna Davies yn ei *Myth. of the Druids*, ei bod yn llanw yr un swydd yn chwedloniaeth y Cymry ag a leinw Ceres gyda'r Groegiaid; tra y barnai'r Dr. Pughe ei bod yn meddu mwy o ansoddion Venus. Hwyrach mai ei chymeriad mwyaf cyffredin gan Gymry yr oes hon ydyw mam, addysges, a duwies y beirdd. 'Credwch chwi, feib Ceridwen,' ebo Gwallter Mechain. Tybia Davies ei bod yn cael ei haddoli mewn cysylltiad a'r lloer yn y 12fed ganrif; ond y mae Thomas Stephen yn gwadu hyny. *Teml Ceridwen* y gelwir cylch bylchog o geryg anferth a welir ar Gaergyfylchi, yn Arfon.

Gwyddno Garanhir.—Dan y penawd, 'Tri Charnfeddwon Ynys Prydain,' dywed y Trioedd:—'Trydydd, Seithynyn feddw ab Seithyn Saidi, brenin Dyfed, a ollyngwys yn ei ddiawd y môr dros Gantrev Gwaelod, oni chollwyd o dai a daear y maint ag oedd yno, lle cyn hyny y caid un dinasdref ar bymtheg yn oreuon ar oll drefydd a dinasoedd Cymru, a gadu yn amgen Caerllion ar Wysg: a chyfoeth Gwyddnaw Garanhir, brenin Ceredigion, ydoedd Cantrev Gwaelawd; ac yn amser Emrys Wledig y bu hynny; a'r Gwyr a ddianghasant i rhag y bawdd hynny a diriasant yn Arludwy, a gwlad Arfon, a mynyddoedd Eryri, a lleoedd eraill nad oeddent gyfannedd cyn no hynny.' Tybir i hyn gymeryd lle tua chanol y 5ed ganrif. Y mae'r môrghloddiau, meddir, i'w gweled eto, y rhai a elwir yn bresenol Sarn Cyntelyn, Sarn y Bwch, a Sarn Badrig. Yn ol y *Cambro Briton* i. 362, gellir gweled Sarn Badrig, ar ddistyll trai, am un filldir ar hugain o hyd, gan ddechreu yn Harlech a rhedeg mewn cyfeiriad de-orllewinol. Y mae dernyn tra barddonol o waith Gwyddno yn argraffedig yn y *Myv. Arch.*, lle y galara'n dost ei golled drom; a choffheir y trychineb mewn dwy linell sydd ar lafar gwlad hyd y dydd hwn:—

Uchenaid Gwyddno Garan Hir
Pan droes y don dros ei dir.

Tybia awdwr y *Mythology of the Druids*, mai yr un ydyw Gwyddno a Thegid Foel, etifeddiaeth yr hwn a safai yn Llyn Tegid; ac nad yw y ddau ond enwau Celtaidd ar Noa. Mab i Gwyddno oedd yr anffodus Elphin.

Maelgwn Gwynedd.—Mab ydoedd i Gaswallon Lawhir, brenin clodfawr y Brythoniaid. Olianodd ei dad fel brenin ar Wynedd yn 517; ac etholwyd ef yn frenin y Brythoniaid ar farwolaeth ddiaryfyd Gwrthefyr yn 546. Ef oedd y cyntaf o hiliogaeth Arthur a ddygodd y gwledydd canlynol tan deyrnged; sef Iwerddon, Alban, Orcney, Norway, a Denmarc. Efe oedd y cyntaf a wnaeth gor Bangor yn esgobaeth, a gwnaeth gymunroddion helaeth tuag ati; sefydlodd hefyd briordy Penmon, a choleg yn Nghaergybi, yn Mon. Efe hefyd a adeiladodd gestyll Caer Digoll, neu 'Mwythig; Caer Gollwyn, neu Harlech; a Chaer Gyffin, neu Conwy; a Chaer Deganwy, yn y Creuddyn, lle y preswyliai. Bu farw yn 560, yn eglwys Llanrhos, i ba le y ffoisai am nawdd y gysegrfa rhag y fad felen, a anrheithiai Gymru y pryd hwnw; a hyn a roddes fywyd i'r hen air, 'Hun Maelgwyn Gwynedd yn Eglwys Llanrhos.' Claddwyd ef yn Ynys Seiriol. Bu iddo ddau fab, sef Rhun ac Einion; ac un ferch o'r enw Eurgain.—*Brutiau Cymreig*.

Heinin Fardd.—Bardd Coleg Llanfeithin, yn Llancarfan, Morganwg, ac yn ei flodeu o 520 i 560. Y mae dywediad o'r eiddo ar gof a chadw yn Chwedlau'r Doethion, fel y gelwir hwy yn yr *Iolo MSS*.

A glywaist ti chwedl Heinin
Fardd o Nangon Llanfeithin
Gwrawl ni fydd diageithrin.

LLYMA VREIDWYT MAXEN WLEDIG.

MAXEN wledic oed amherawdyr yn rufein atheccaf gwr oed adoethaf. agoreu awedei yn amherawdyr or avu kynnoc ef adadleu brenhined aoed arnaw diwarnawt. ac ef adywawt y annwyleit. Miui heb ef a vynnaf avory vynet y hela. Trannoeth y bore ef a gychwynnawd ae nifer ac adoeth ydyffrynn auon adygwyd yruuein. Hela y dyffrynn awnaeth hyt pan vu hanner dyd. ydoed gyt ac ef hagen deudec brenhin arhugeint ovrenhined coronawc yna yn wyr idaw. Nyt yr digrifwch hela yd helei yr amherawdyr yngyhyt a hynny. namyn ywneuthr. yngyuurdgwr ac ybei arglwyd ar ysawl vrenhined hynny. Arheul aoed yn vchel ar yr awyr. uch eu penn. ar gwres yn vawr. achyscu adoeth arnaw. Sef awnaeth yweisson. seuyll kastellu eutaryaneu yn ygylch ar peleidyr gwaewar rac yr heul. Taryan eurgrwydyr adodassant dan y penn. Ac uelly y kysewys maxen. ac yna y gwelei vroidwyt. Sef breidwyt awelei. y uot ynkerdet dyffrynn yr avon hyt y blaen. ac y vynnyd uchaf or byd y deuei. Ef atebygei vot ymnyd yngyfuch ar awyr. aphan deuei dros ymnyd. ef awelei y uot yu kerdet gwladoed teccaf a gwastattaf awelsei dyn eiryoet or parth arall yr mynyd. a phrif auonyd mawr a welei or mynyd yn kyrchu ymor ac yr mor rytyeu ar yr auonyd y kerdei. Pahyt bynnac y kerdei velly. ef adoeth yaber prif auon vwyhaf or awelsei neb. a phrif dinas awelei yn aber yr auon. a phrif gaer ynydinas. a phrif dyroed amyl amliwawc awelei ar yr gaer. allynghes awelei yn aber yr auon. a mwyaf llyghes oed honno or awelsei neb eiryoet. allong awelei ymplith y llynghes. Amwy olawer a thegach oed honno nor rei ereill oll. awelei ef vch ymor or llong. yneill ystyllen awelei ef yneureit ar llall yn aryanneit. Pont awelei o ascwrn moruil or llong hyt ytir. ac ar hyt y bont y tebygei y vot yndyuoet yr llong. Hwyl a dyrcheuit ar y llong. Ac ar vor agweilgi y kerdet a hi. Ef awelei y dyuoet yynys deckaf or holl vyt. Agweddy ygkerdei ardraws yr ynys or mor pygilyd hyt yr ymyl eithaf or ynys. kymeu awelei a diffwys acherric uchel eithyr agarw amdyfrwys nyrywelsei eiryoet y gyfryw. Ac odyno ef awelei yny mor gyuarwyneb ar tir amdyfrwys hwnnw ynys. ac y rygtaw ar ynys honno y gwelei ef gwlat aoed kyhyt y maestir ae mor. kyhyt y mynyd ae choet. Ac or mynyd hwnnw avon a welei ynkerdet ardraws ywlat yn kyrchu y mor. Ac yn aber yr auon ef awelei prifgaer deckaf or awelsei dyn eiryoet. Aphorth y gaer a welei yn agoret. adyuoet

yr gaer awnaeth. Ef awelei neuad dec nny gaer. toat y neuad atebgei y vot yn eur oll. Cant y neuad atebgei yuot yn vein llywychedic gwyrrhuawr aegilid. Doreu yneuad atebgei eubot yneur oll. lleithigeu eureit awelei nny neuad. abyrdeu aryant. ac ar y lleithic kafarwyneb ac ef y gwelei deu vackwy wineuon ieu-einc yngware gwybwyll. Clawr aryant awelei yr wydbwyll. agwerin eur arnei. Gwisc ymackweyt oed pali purdu. Aractaleu orudeur ynknynall eugwallt. a mein mawrweithawc llywychedic yndunt. Rudem agem pob eilwers yndunt ar amherodron mein. Gwintasseu o gordwal newydd am eu traet. a llafneu o rudeur yneu kayu. Ac ymon colofyn yneuad ygwelei gwr gwynllwyt ymywn cadeir o ascwrn eliphant. adelw deu eryr arnei orudeur. Breichrwyfeu eur oed am y vreicheu. amodrweu amyl am ydwyllaw. agordtorch eur am y vynwgyl. aractal eur ynknynall ywallt. Ac ansawd erdrym arnaw. Clawr oeur agwybwyll rac y vronn. allath eur ynnylaw. allifeu dur. ac yntorri gwerin gwydbwyll. amorwyn awelei yneisted rac yvronn y mywn kadeir o rudeur. mwy noc ydoed hawd disgwyl ar yr heul pan vei teckaf nyt oed haws disgwyl arnei hi rac y thecket. Crysseu o sidan gwynn a oed am yuorwyn. achaeu o rudeur rac y bronn aswrcot opali eureit ymdanei. aractal oruddeur am yphen. arudem agem nny ractal. amein mererit pob eilwers. Ac amherodron vein. agwregis orudeur ymdanei. ac yn teckaf golwc o dyn edrych arnei. achyuodi aoruc yuorwyn or gaddeir racdaw. adodi awnaeth ynteu ydwyllaw am vynwgyl yuorwyn. ac eisted a wnaethant elldu nny gadeir eur. ac nyt oed gyuyghach ygadeir udunt elldu noc yr uorwyn ehun. aphan yttoed ef aedwyllaw am vynwgyl yvorwyn. ac aerud wrth ygrud hitheu. rac angerd y kwn wrth eu kynllauann. ac yscwydeu y tar-yaneu ynymgyhwrdd ygyt. apheleidr y gwaewar yn kyflad agweryrat y meirch ac eu pystylat. Deffro awnaeth yr amherawdyr. A phan deffroes. Hoedel nac einyoes na bywyt nit oed idaw am y vorwyn rywelsei trwy y hun. Rygwn vn ascwrn yndaw. na mynnwes vn ewin yghwaethach lle avei vwy no hwnnw nyt oed nybei gyflawn o garyat yuorwyn. ac yna ydywawt y teulu wrthaw. Arglwyd heb wynt. neut yttiaw dros amser itt kymryt dy vwyt. Ac yna yd esgynnwys yr amherawdr. ar y balfrey yndristaf gwr awelsei dyn eiryoet. ac y kerdwys y ryngtaw aruuein. ac uelly y bu yr wythnos ar y hyt. pan elhei y teulu y yvet y gwin armed or eurllestri. nyt aey ef ygyt aneb onadunt wy. Pan elhynt hwy y warandaw kerdeu adidanwch. nyt aey ef ygyt ac wynt. Ac ny cheffit dim gautaw. namyn kyscu yn gyfynychet ac y kysgei ywreic vwyhaf agarei awelei trwy y hun. pryt no chysgei ynteu ny handei dim amdanei. kanywydyt or byt pale ydoed. ac ydywawt gwas ystafell wrthaw diwarnawt. Ac yr y vot ynwas yntauell. brenhin romani oed. Arglwyd heb ef ymae dywyr oll ythgablau Paham ycablant wy vyui heb yr amherawdr. Oachaws nachaffant gennyt na

neges nac ateb or ageiff gwyr gan euharglwyd. A llyna yr achaws ar cabyl yssyd arnat, hawas heb yr amherawdr, dwc ditheu doethon ruvein ymkylchi. Ami adywedaf paham yd wyf trist i, ac yna yducpwyt doethon ruvein ygkylch yr amherawdr, ac y dywawt ynteu, doethon ruvein heb ef, breudwyt aweleis i, ac yny breudwyt y gwelwn morwyn. Hoedyl na bywyt nac einioes nyt oes in am y vorwyn, arglwyd heb wynteu, kanys arnam ni y berneist ti dy gyghor, ni ath gyghorwn di, allyna an kyghor ni ytti ellwng kennadeu teir blyned y teir rann y byt, y geissaw dy v Reidwyt, achanywdost pa dyd pa nos ydel chwedleu da attatt hynny o obeith ath geidw, yna y kerdwys y kennadeu hyt ympenn y vlwydyn ygrwytaw y byt ac y geissaw chwedleu y wrth y v Reidwyt. Pan doethan dracheuyn ympenn y vlwydyn ny wyddynt vngeir mwy nor dyd y kychwynnyssant, athristau aoruc yr amherawdyr yna otebygu na chaffeï byth chwedleu am y wreic vwyhaf agarei, ac yna ydywawt brenin romani wrth yr amherawdr. Arglwyd heb ef kychwyn y hela yfford y gwelut dy uot yn mynet ae parth ar dwyreïn ae parth argorllewin. Ac yna y kychwynwys yr amherawdyr y hela, ac ydoeth hyt ygglann yr auon, llyma heb ef ydoedwn i pann weleis y v Reidwyt ac ynghyueir blaen yr auon y tu ar gorllewin y kerdwn. Ac yna y kerdassant trywyr ardec yn gennadeu yr amherawdyr. Ac oeblaen y gwelsant mynyd mawr adebygynt yuot wrth yr awyr. Sef ansawd oed ar y kennadeu yn eu kerdetyat, vnllawee aod ar gapan pob un onadunt or tu raddaw ynarwyd eu bot yngennadeu pa ryueltir bynnac y kerdynt yndaw nawnelit drwc udunt.

Ac ual ydoethant dros ymynydd hwnnw, wynt awelynt gwladoed mawr gwastat. Aphrif auonyd drwydunt ynkerdet. Llyma heb wynt y tir awelas anharglwyd ni. Yr mor rydyeu ar auonyd y kerdassant, yny doethant yprif auon awelynt ynkyrchu ymor, aphrif dinas, aphridyroed amliwawe ar y gaer. Llyghes vwyhaf or byt awelynt yn aber yr auon. Allong oed vwy noc vn or rei ereill, llyman ettwa heb yr wynt y vrendwyt awelas anharglwyd ni, ac yny llog uawr honno y kerdassant ar y mor, ac ydoethant y ynys prydeïn, ar ynys agerdassant yny doethant y eryri. Llyman ettwa heb yr wynt y tir am dyfrwys awelas anharglwyd ni, wynt adoethant raddunt ynywelynt mon gyuarwyneb ac wynt, ac yny welynt heuyt aruon, llyma heb wynt y tir awelas anharglwyd ni trwy y hun. Ac aber sein awelynt ar gaer yn aber y auon. Porth ygaer awelynt yn agoret. Yr gaer y doethant, neuadd awelsant y mywn ygaer. Llyman heb wynt y neuad awelsam ni trwy y hun, wynt adoethant yr neuad, ac wynt awelsant y y deu vackwy yngware yr wydbwyll, ar y lleithic eur. Ac awelsant y gwr gwynllwyt ymon y golofyn, yny gadeir ascwrn yn torri gwerin yr wydbwyll, ac a welsant yuorwyn yn eisted ymywn cadeir orudeur. Agostwng artal eugllyneu

awnaethant y kennadeu. amherodres ruuein hanpych gwell. Hawyr da heb yuorwyn ansawd gwyr dylwedawc awelaf arnawch. ac arwyd kenadeu. pywattwar awnewch chwi amdanafi. nawnawn arglwydes vngwattwr amdanat. Namyn amherawdr. ruuein ath welas trwy yhun. Hoedel nac einyoes nyt oes idaw amdanat. Dewis arglwydes agoffy y gennym ni. aedyuot gyt ani yth wneuthur yn amherodres yn ruuein. aedyuot yr amherawdyr yma yth gymryt yn wreic idaw. Hawyrda heb y uorwyn amheu yr hynn adywedwch chwi nysgwinafi. naegredu heuyt yn ormod. Namyn os miui agar yr amherawdyr. deuhet hyt yman ym ol. Ac yrwng dyd a nos y kerdassant y kenadeu dracheuyn. Ac ual y diffykyei eu meirch y prynynt ereill o newyd. ac ual ydoethant hyt yn ruuein kyuarch gwell yr amherawdyr a wnaethant. ac erchi eukoeluein. a hynny agawsant ual y notteynt. Ni avydwng gyuarwyd itt arglwyd heb wynt ar vor ac ar tir hyt y lle y mae y wreic vwyhaf agery. ani awdam y henw ae chystlwn ae boned. ac yndiannot y kerdwys yr amherawdyr yn yluyd. ar gwyr hynny yngyuarwyd udunt. Parth ynys prydein ydoethant dros vor a gweilgi. Ac y goresgynnwys yr ynys ar veli mab manogan ae ueibon. ac y gyrrwys ar uot wynt. ac y deuth racdaw hyt y aruon. ac yd adnabu yr amherawdyr y wlat mal ygwelas. ac ual ygwelas kaer aber sein. Weldy racco heb ef y gaer y gweleis i ywreic vwyhaf agaraf yndi. ac ydoeth racdaw yr gaer. ac yr neuad. ac ygwelas yno kynan uab eudaf. ac adeon uab eudaf yngware yrwydbwyll. ac awelas eudaf uab karadawc. yneisted y mywn kadeir o ascwrn yn torri gwerin yr wydbwyll. Y uorwyn a welas trwy yhun ef aegwelaei yn eisted ymywn kadeir oeur. amherodres ruuein heb ef hanpychgwell. amynet dwylaw mynwgyl idi awuaeth yr amherawdyr. Ar nos honno y kysgwys genthi. athrannoeth y bore yd erchis yuorwyn y hagwedi am y chaffel ynuorwyn ac yntev aerchis idi nodi y hagwedi. ahithu anodes ynys prydein yw that. ovorrud hyt ym mor lwerdon ar teir rac ynys ydala dan amherodres ruuein. agwneuthur teir prif gaer idi hitheu yny lle y dewissei yn ynys prydein. ac yna y dewissawd gwneuthur ygaer uchaf ynuaruon idi. ac y ducpwyd egweryt ruuein yno. hyt paun uei iachussach yr amherawdyr y gyscu. ac yeisted ac y ymdeith. Odyna y gwnaethpwyd y dwy gaer ereill idi. Nyt amgen kaer llion achaervyrdin. adiwarnawt ydaeth yr amherawdyr y hela ygaer vyrdin. ac ydaeth hyt ympennu y vrevi vawr. athynnv pebyll awnaeth yr amherawdyr yno. achadeir vaxen ygelwir ypebyllua honno yr hyt hediw. O achaws ynteu gwneuthur ygaer o vyrd o wyr y gelwit kaer vyrdin. Odyna ymedylywys elen gwneuthur prif ffyrd obob kaer hyt ygilyd ar traws ynys prydein. ac y gwnaethpwyd y ffyrd. Ac oachaws hynw ygelwir wynt ffyrd elen luydawc wrth y hanuot hi o ynys prydein. ac nawnaei wyr ynys prydein ylluydeu mawr hynny yneb namyn idi hi. Seith mlyned y bu yr

amherawdyr yn yr ynys honn. Sef oed deuawt gwyr ruuein yn yr amser hwnnw Paamherawdr. bynnac adrickyei yggladoed ereill yn kynnyduseith mlyned trickyei ar y orescyn. Ac ny chaffei dyuot yruvein dracheuyn ac yna ygwnaethant wynteu amherawdyr newyd. Ac yna ygwnaeth hwnnw lythyr bygwth ar vaxen. Nyt oed hagen olythyr. namyn o deuy di ac odeuy di byth yruuein. Ac hyt ygkaer llion ydoeth y llythyr hwnnw aruaxen ar chwedleu. Ac odyndu ydanuones ynteu lythyr ar y gwr adywedei y uot yn amherawdyr yn ruuein. Nyt oed nny llythyr hwnnw heuyt dim namyn ot af ynheu yruuein ac ot af. Ac yna ykerdwys maxen nny luyd parth aruuein. ac y goresgynnwys ffreinc abwrgwyn ar holl wlatoed hyt yn ruuein. Ac ydeistedawd wrth gaer ruuein. Blwydyn y bu yr amherawdyr wrth ygaer. nyt oed nes idaw y chael nor dyd kyntaf. ac nny ol ynteu ydoeth brodyr y elen luydawc o ynys prydein allu bychan gantunt. agwell ymladwyr oed nny llu bychan hwnnw. noc eu deu kymeint o wyr ruuein. ac y dywespwyt yr ym herawdyr owelet y llu yndisgynnw yn ymyl y lu ynteu ac ynpebyllyaw. Ac nywelsei dyn eiryot llu degach nachyweirach nac arwydon hardach noc oed hwnnw nny ueint. ac ydoeth elen yetrych y llu. ac ydadnabu arwydon y brodyr. Ac yna ydoeth kynan uab eudaf ac adeon uab eudaf y ymwelet ar amherawdyr. Ac y bu lawen yr ymherawdyr wrthunt. ac ydaeth dwylaw mynwyl udunt.

Ac yna yd edrychassant wy ar wyr ruuein yn ymlad ar gaer ac y dywawt kynan wrth y vrawt. Nyni ageissiwn ymlad ar gaer yn gallach no hynn. Ac yna ymessurassant wynteu hyt nos uchet y gaer. ac ydellygassant euseiri yr koet. Ac y gwnaethpwynt yscawl y pob petwargwyr onadunt. Agweddy bot hynny ynbarawt gantunt. Peunyd pob hanner dyd y kymerei ydeu amherawdyr eu bwyt. Ac y bawp peidynt ac ymlad o bop parth nny darffei y vwytta. Ar boreddy y kymertth gwyr ynys prydein eu bwyt. Ac yvet awnaethant nny yttoedynt vrwyskeit aphan yttoedynt ydeu amherawdyr ar eu bwyt ydoeth y brytanyeit wrth ygaer adodi eu hysgolygon wrthi. ac yndiannot ydaethant dros ygaer ymywn. Ni chauas yr amherawdyr newyd aruot y wisgaw y arueu ymdanaw nny doethant am y penn ae lad. allawer ygyt ac ef. Atheirnos athridieu ybuant yn gwastattau y gwyr aoedynt nny gaer ac yngoresgyn ykastell. ar ranneu ereill onadunt yn cadw ygaer rac dyuot neb olu maxen idi. nny darffei udunt hwy gwastatau pawb wrth eukyghor. Ac yna y dywawt maxen wrth elen luydawc. Ryued mawr yw gennyfi arglwydes heb ef nat ymi ygoresgynnei dy vrodyr di y gaer honn. Arglwyd amherawdyr heb hitheu. gweisson doethaf or byt yw vym brodyr i. ados ditheu racco y erchi y gaer. Ac os wynteu ae med hi. ti ae keffy ynllawen. ac ydoeth yr amherawdyr ac elon y erchi y gaer. Ac ydywedassant wynteu wrth yr am-

herawdyr. nat oed weithret y neb y gaffel y gaer. nae yw rodi idaw ynteu. nanmyn ywyr ynys prydein. Ac yna yd agoret pyrth kaer ruuein. ac yd eistedwys yr amherawdyr yny gadeir. ac y gwedwys idaw pawb owyr ruuein. Ac yna ydywawt yr amherawdyr wrth gynan ac edeon. Hawyrda heb ef cwbyl ageucis i om amherodraeth. ar llu hwn mi ae rodaf y chwytheu y oresgyn y gyueir ymynnoch ar y byt. ac yna y kerdassant wynten ac y goresgynnassant gwledyd achestyll a dinassoed. ac y lladdasant eugwyr oll. ac y gadassant y gwraged yn vyw. ac uelly y buant yny yttoed y gweisson ieuene a dathoed ygyt ac wynt ynwrw llwydon. rac hyt y buassynt yny goresgyn hwnnw. ac yna ydywawt kynan wrth adeon yvrawt. Beth avyny di heb ef ae trigyaw yny wlat honn. ae mynet yr wlat yd hanwyt ohonei. Sef ykauas yny gyghor mynet y wlat allawer ygyt ac ef. ac yno y trigywys kynan ar rann arall gyt ac ef y presswylaw. ac ykawssant yn eu kyghor llad tauodeu y gwraged. rac llygru euhieith. ac ochaws tewi or gwraged ac eu hieith. y gelwit gwyr llydaw brytaen. ac ody na ydoeth yn vyny ch oynys prydein ac ettwa y daw yr icith honno. ar chwedyl hwn aelwir. breudwyt maxen wledic amherawd^r. ruuein. Ac y man ymae ternynarnaw.



Dangoseg i'r Hen Gymraeg.

MATH VAB MATHONWY	-	-	-	9
PEREDUR AB EFRAWC	-	-	-	22
IARLLES Y FFYNNAWN	-	-	-	51
GERAINT AB ERBIN	-	-	-	69
KULHWCH AC OLWEN	-	-	-	98
BREUDDWYD RHONABWY	-	-	-	122
BRANWEN VERCH LLYR	-	-	-	131
MANAWYDDAN VAB LLYR	-	-	-	141
PWYLL PENDEVIG DYFED	-	-	-	149
LLUDD A LLEVELYS	-	-	-	162
HANES TALIESSIN	-	-	-	166
BREIDWYT MAXEN WLEDIG	-	-	-	180

Y MABINOGION,

MEWN CYMRAEG DIWEDDAR.

MATH AB MATHONWY.

[DICHON mai yr enw mwyaf priodol ar y rhanant ysblenydd hon a fuasai *Llew Llaw Guffes*, ac nid *Math ab Mathonwy*, gan mai y Llew mewn gwirionedd ydyw ei harwr, er mai Math ydyw ei phen hudolwr, ac mai ei swynlath fedrus ef sydd yn peri yr vsoggiadau mwyaf pwysig ynddi. Diau fod Math yn ymherawdwr ar fyd yr Hud a Lledrith Prydeinig; ac fel y cyfryw y cyfeirir ato gan feirdd a llenorion yr oesau. 'Triwyr Hud a Lledrith Ynys Prydain: Math ab Mathonwy, ac efe a ddangoses ei hud i Wydion ab Don; a Menyw ab Teirgwaedd, a ddysges ei hud i Uthr Bendragon; a Rhuddlwm Gawr, ac efe a ddysges ei hud y gan Eiddic Gorr a Choll ab Collfrewi.'—*Triocdd* 90. Mewn *Triocdd* arall (xxxii.), cysylltir ei enw hefo Menyw ab Teirgwaedd ac Eiddilic Corr. Cyfeirir yn fynych ato yn ngwaith Taliesin, a gogynfeirdd eraill, megys yn *Cad Goddeu*, *Marwnad Aeddan o Fon*, &c. Pwy oedd Math, ac yn mha oes yr oedd yn byw, y mae yn anhawdd os nid annichonadwy ateb; ond blodeuai yn y cyfnod llwydoleu hwnw pan oedd traddodiad yn gwned y gwaith a wneir yn bresenol gan hanes, ac y mae yn fwy na thebyg fod lluaws o'r gweithredoedd synfawr a briodolir iddo ef a'i gyfeillion, wedi tyfu arnynt yn nhrefliad amser, fel y tyf mwsogl ar y graig, neu eiddiorwg o gylch pren oedranus. Yr hyn sydd yn chwangu llawer at ddyddordeb y Fabinogi hon ydyw y ffaith fod safleoedd ei digwyddiadau yn adnabyddus. Fel yn y Mabinogion Pwyll, Branwen, a Manawyddan, y mae Mabinogi Math yn ymdrin mwy a swyngyfaredd nag a gwrhydri corphorol.]

MATH AB MATHONWY oedd arglwydd ar Wynedd; a Phryderi ab Pwyll oedd arglwydd ar un cantref ar hugain yn Neheudir Cymru, sef saith cantref Dyfed, saith cantref Morganwg, pedwar cantref Ceredigion, a thri Ystrad Tywi. Ac yn yr amser hwnw, Math ab Mathonwy ni byddai byw ond tra f'ai ei ddeutroed yn gorphwys ar lin morwyn, os na lesteirid ef

gan gynhwrf rhyfel. A'r forwyn gydag ef oedd Goewin¹ ferch Pebin, o Ddol Pebin² yn Arfon, a hono oedd y forwyn decaf yn ei hoes am a wyddid yuo. Ac yn Nghaer Dathal³ yn Arfon yr oedd Math yn wastadol, ac ni allai gylchu y wlad; eithr Gilfaethwy ab Don ac Enait ab Don, ei neiaint feibion ei chwaer, a'r teulu gyda hwynt, a gylchent y wlad drosto.

A'r forwyn oedd gyda Math yn wastadol, a Gilfaethwy a roes ei fryd arni, a'i charu hyd na wyddai pa beth a wnai am dani; ac o'r herwydd, adfeiliodd ei liw, a'i wedd, a'i ansawdd, hyd nad oedd yn hawdd ei adnabod.

A Gwydion⁴ ei frawd, a sylwodd un diwrnod yn graff arno. 'Ha was!' eb efe. 'beth a ddarfu i ti?' 'Paham,' ebe yntau, 'beth a weli di

¹ *Goewin*.—Yn ol Cyfreithian Hywel Dda, perthynai i lys Brenin swyddog a elwid y "*Troediawg*," breinian a dyledswyddau yr hwn a nodir fel y canlyn:—

'1. Efe a ddyly ei Dir yn rhydd, a'i Farch preswyl, a'i Frethynwisg i gan y Brenin, a'i Lieinwisg i gan y Frenhines. A'r swydd hono a ddaw o freint tir iddaw.

'2. Efe a ddyly ddaly traed y Brenin yn ei arfed, o'r pan ddechreuo eistedd yn ei gyfeddach yn y el i gysgu, ac a ddyly gosi y Brenin; ac yn gyhyd a hyny o ysbaid gwylied ef y Brenin rhag gwall.

'3. Rhan a geiff o Ariant y gwesdaeu.

'4. Ei Nawdd yw o'r pan ddotto y Brenin ei draed yn ei arfed yn y el i'w ystafell, dwyn y dyn a wnel y cam.

'5. Efe a ddyly fwyta ar un ddysgl a'r Brenin, a'i gefn ar y tân.

'6. Ac eisoes bwyd saig a gwirawd a gaiff, can nad oes gyfedd iddaw.

'7. Efe a ennyn y ganwyll gyntaf rhag bron y brenin wrth fwyta.

'8. Ei sarhaad yw chwe' buw a chweugaint o ariant.

'9. Ei werth yw chwe' buw a chweugeinmuw.'

LEGES WALLICAE, lib. i., cap. xxxviii.

² *Dol Pebin*.—Y mae lle yn awr o'r enw yn mhlwyf Llanllyfni yn Arfon.

³ *Cae'r Dathal* neu *Dathyl*.—Y mae gweddillion yr hen gaer hon i'w gwelod eto yn Mhen y Gaer, ar y mynydd uwchlaw Llanbe-ir-y-Cenin, yn Nyffryn Conwy.

⁴ *Gwydion ab Don*.—Priodolir gorchestion ac ystranciau dirif bron i'r hen ddoethawr hwn, ac y mae teulu Don, fel teulu, yn sefyll yn uchel am eu rhagoroldeb mewn gwybodau a dysg. Dywed y rhamant hon fod Math yn ewythr iddo o du ei fam; ac yn ol Taliesin, yn *Kerdd Darowey*, yr oedd Mathonwy, ei daid, yn gampwr yn y gelfyddud gudd. Yr oedd Arianrod, ei chwaer; ac Amaethon, a Gofannon, ac Eunydd, ei frodyr, yn mysg enwogion eu hoes. Am Amaethon, gweler y nodiadau ar *Kilwech ac Olwen*; a chyfeiria Taliesin at y ddau olaf yn ei Farwnad i *Aeddon o Fon*. Safent mor uchel yn marn eu cydgenedl fel seryddwyr, os nad serddewiniaid hefyd, nes y galwyd rhai o 'lygaid aur y nos' ar eu henwau. Gelwid y Tŵr Tewdws, neu gydsr Cassiopeia, yn *Llys Don*; y Corona Borealis yn *Gaer Arianrod*; a'r hen enw Cymreig ar y Llwybr Llaethog (*Milky Way*) oedd *Caer Gwydion*. Barna Davies, yn y *Mythology of the Druids*, fod Gwydion yn dal yr un sydd mewn ffugdraith Gymreig ag a ddaliai Hermaas, cynghorydd Cronus, neu Mercury mab Jove, yn ffugtraethau y Groegiaid. Yn y *Triodd* sonir am dano fel un o dri buclydd (*herdsman*), gosgordd Ynys Prydain:—'Gwydion ab Don a gedwis wartheg gosgordd Gwynedd Uch Conwy, ac yn y fuel honno ugein mil ac un.' Mewn *Tri* arall, rhestrir ef gydag Idris Gawr a Gwyn ab Nudd, fel 'tri gwyn serenyddion Ynys Prydain'; 'a chan faint eu gwybodeu am y ser, a'u hanianeu, a'u hawsoddeu, fel y darogant a chwenychid hyd yn nydd brawd.' Yn ol y *Brutiau*, mab ydoedd i Frenin Llychlyn (*Iceland*), yr hwn yn nghyntaf a anrheithiodd Iwerddon, ac a groesodd i Wynedd yn oed Cred 267. Yn ol *Englynion y Beddau*, claddwyd ef yn *Morfa Dinlle*, yn Arfon.

arnaf fi?' 'Gwelaf dy fod wedi colli dy bryd a'th liw; a pha beth a ddarfu iti?' 'Arglwydd frawd,' eb ef, 'yr hyn a ddarfu i mi anfuddiol fyddai ei addef.' 'Beth yw hyny, enaid?' eb ef. 'Ti a wyddost,' ebe yntau, 'gyneddf Math ab Mathonwy, sef pa gyfrinach bynag, a pha mor fach bynag y bo, os cyffwrdd y gwynt â hi, Math a'i gwybydd.' 'Ie,' ebe Gwydion, 'taw bellach; mi a wn dy feddwl; caru Goewin yr ydwyt.'

A phan wybu Gilfaethwy fod Gwydion yn adnabod ei feddwl, efe a roes yr ochenaidd drymaf yn y byd.

'Taw, enaid, â'th ocheneidid,' ebai ef, 'nid felly y gorfyddir. Mi a baraf gynhyrfu Gwynedd a Phowys a Deheubarth er ceisio y forwyn; a bydd di lawen, mi a'i paraf iti.'

Ar hynny, hwy a ddeuthant at Math. 'Arglwydd,' ebe Gwydion, 'mi a glywais ddyfod i'r Deheubarth ryw bryfaid na ddaeth eu cyffelyb erioed i'r Ynys hon.' 'Beth yw eu henw?' eb ef. 'Hobau, arglwydd.' 'Pa fath anifeiliaid yw y rhai hyny?' 'Anifeiliaid bychain, gwell eu cig na chig eidion.' [Ac y maent yn newid eu henwau, Moch y gelwir hwynt yn awr. Eto yr ydys yn cadw o'r enw hwnw, *Haner hwch, Haner hob*].

'Pwy a'u piau hwynt?' ebai Math. 'Pryderi ab Pwyll; a danfonwyd hwynt iddo o Annwn, gan Arawn² brenin Annwn.' 'Ie,' ebe yntau, 'pa ffordd y ceir hwy ganddo?' 'Mi a af yn un o ddeuddeg yn rhith beirdd i erchi y moch.' 'Yn llawen,' ebe yntau, 'dos rhagot.'

A Gilfaethwy ac yntau, a deg o wyr gyda hwynt, a aethant hyd yn Ngheredigion, i fan a elwir yn awr Rhuddlan Teifi,³ lle yr oedd llys Pryderi. Yn rhith beirdd y daethant i mewn, a llawen a fuwyd wrthynt, ac ar naill law Pryderi y gosodwyd Gwydion y nos hono. 'Ie,' ebe Pryderi, 'da fyddai genym ni gael chwedl gan un o'r gwyr ieuaine acw.' 'Y mae yn aiferiad genym ni, arglwydd,' ebe Gwydion, 'y nos gyntaf y deler at wr mawr i'r pencerdd chwedleua; mi a ddywedaf chwedl yn llawen.' Gwydion yntau oedd y chwedleuwr goreu yn y byd; a'r nos hono dyddanu y llys a wnaeth âg ymddyddanion digrif a chwedlau, onid oedd yn hoff gan bawb, ac yn ddyddan gan Pryderi ymddyddan âg ef.

Ac ar ddiwedd hynny, 'Arglwydd,' eb ef, 'ai gwell genyt i arall draethu fy neges i wrthynt na myfi ty huu?' 'Na well,' ebe yntau,

¹ *Hob*.—Er na ddefnyddir yn awr y gair *Hob* am fochyn, eto dywedir Hauerhob am ystlys (*glitch*) o'i gig; a barna lluwys nad yw enw yr hen alaw, 'Hob y deri dan do,' ond 'Mochyn y coed ar y cambren' yn hafodiaith yr oes hon.

² *Arawn, brenin Annwn*.—Gweler ychwaneg am y bod cyfrin hwn yn y Fabinogi 'Pwyll, pendeig Dyfed,' mab i'r hwn ydyw Pryderi.

³ *Rhuddlan Teifi*.—Yn awr Glan Teifi, tua milltir a haner o Aberteifi.

'tafod rwydd sydd genyt.' 'Dyma fy neges, arglwydd,' eb efe, 'deisyf genyt yr anifeiliaid a gefaist ti o Annwn.' 'Digon hawdd fyddai hyny,' eb ef, 'pe na fuasai amod rhwngwyf fi a'm gwlad am danynt; sef yw hyny, nad elont o'm gfael hyd oni hiliant eu dau cymaint yn y wlad.' 'Arglwydd,' ebe yntau, 'mi a allaf dy ryddhau di o'r amod hwnw. Na ddyro y moch imi heno, ac na nacca fi ohonynt; ac yfory mi a ddangosaf gyfnewid iti am danynt hwy.'

A'r nos hono, yr aeth ef a'i gydymdeithion i'w lletty, ac y cymerasant gynghor. 'Ha wyr!' eb ef, 'ni chawn ni y moch o'u herchi.' 'Pa fodd y ceir hwynt, ynte?' ebynt hwythau. 'Mi a baraf eu cael,' ebe Gwydion. Yna yr aeth efe at ei gelfyddyd, ac a ddechreuodd arfer ei hud (*charm*), gan ledrithio deuddeg cadfarch, a deuddeg milgi du bronwynion, ac ar bob un yr oedd deuddeg torch a deuddeg cynllyfan (*leashes*), nas gallai undyn a'i gwelai wybod nad aur oeddynt. A deuddeg cyfrwy ar y meirch, ac yn mhob lle y dylai haiarn fod arnynt, nid oedd ond aur. Ac efe a ddaeth, hefo'r meirch a'r cwn, at Pryderi.

'Dydd da it, arglwydd,' eb ef. 'Duw a roddo dda it,' ebe yntau, 'a chroesaw iti.' 'Arglwydd,' eb ef, 'dyma ryddhad iti o'r gair a ddywedaist neithiwr am y moch, sef nas rhoddit ac nas gwerthit—ti a eili eu cyfnewid am a fo gwell. Mi a roddaf y deuddeg meirch hyn fel y maent yn gywir, a'u cyfrwyau, a'u ffrwynau; a'r deuddeg milgi, a'u torchau a'u cynllyfanau, fel y gweli hwynt; a'r deuddeg tarian euraidd a weli di acw, y rhai hyny a rithasai ef o'r madarch (*fungus*—bwyd llyffant). 'Ie,' ebe yntau, 'ni a gymerwn gynghor.' Ac yn y cynghor, penderfynwyd rhoddi y moch i Gwydion, a chymeryd y meirch a'r cwn a'r tarianau ganddo yntau.

Yna hwy a gymerasant eu cenad, ac a gerddasant gyda'r moch. 'Ha! gydymdeithion,' ebe Gwydion, 'rhaid ini gerdded yn brysus; ni phery yr hud ond i'r un amser yforu.' A'r nos hono y cerddasant hyd yn ngwarthaf Ceredigion, i'r lle a elwir eto o'r achos hwnw Mochtref. Tranoeth, cymerasant eu hynt tros Felenydd¹; a'r nos hono y buant rhwng Ceri ac Arwystli, yn y dref a elwir hefyd o'r achos hwnw Mochtref.²

¹ *Elenydd* neu *Melenydd*.—Mynydd gerllaw Llanddewi Ystrad Enni, yn sir Faesyfed.

² *Y Mochdref*.—Y gyntaf yn sir Aberteifi; yr ail rhwng Ceri ac Arwystli, tref-gorddau yn sir Drefaldwyn; y drydedd yn nghantref y Creuddyn, rhwng Abergele a Chonwy. Dywed y Fabinogi mai arosiad Gwydion, a'i gyfoillion, a'i foch, a rodde eu henw i'r manau hyn, cystal ag i Fochnant, dyffryn prydfarth ar derfynau siroedd Dinbych a Thre'aldwyn; ond dylid cofio fod ystyr arall i'r gair *moch*, sef *buan*, *cyflym*, *chwyrn*, &c.; megis yn yr hen ddiareb, 'Moch barn pob ehud' (*the judgement of every silly person is hasty*). Ond gwnaeth awdwr cyfrwysgall y Fabinogi ddefnydd rhagorol o ddau ystyr y gair i roddi arwedd o bosiblwydd i'w ramant.

Oddiyno cerddasant rhagddynt, a'r nos hono y daethant hyd i gwmwd yn Mhowys, a elwir hefyd o'r herwydd Mochnant; yno y buont y nos hono. Yna cerddasant hyd yn Nghantref y Rhos; ac yno y buont y nos hono, mewn tref a elwir eto Mochtref.

'Ha! wyr,' ebe Gwydion, 'ni a gyrchwn gadernid Gwynedd gyda'r anifeiliaid hyn, canys y mae llu yn ein hymlid; a chyrchasant y dref uchaf yn Arllechwedd. Yno gwneuthur cren (*styes*) i'r moch; ac o'r achos hwnw y galwyd y dref, Crenwryon. Ac wedi gwneuthur y cren, cyrchasant at Fath ab Mathonwy yn Nghaer Dathyl; a phan ddaethant yno, yr oeddynt yn cynhyrfu y wlad i ryfel. 'Pa newydd y sydd yma?' ebe Gwydion, 'Y mae Pryderi,' ebynt hwythau 'yn codi un cantref a'r hugain i'ch ymlid chwi. Rhyfedd mor araf y cerddasoch chwi. Pa le y mae yr anifeiliaid yr aethoch i'w hymofyn?' ebe Math. 'Y maent wedi gwneuthur cren iddynt yn y cantref arall isod,' ebe Gwydion.

Ar hyny, clywent yr udgyrn a'r dygyfor yn y wlad; a gwisgo eu harfau a wnaethant, a cherdded hyd yn Mhenardd yn Arfon. A'r nos hono, dychwelodd Gwydion ab Don a Gilfaethwy ei frawd i Gaer Dathal; ac i wely Math ab Mathonwy yr aeth Gilfaethwy, gan orfodi Goewin o'i hanfodd i gydgysgu, a bwrw y morwynion eraill allan yn anmharchus.

Pan welsant y dydd dranoeth, cyrchu a wnaethant lle yr oedd Math ab Mathonwy a'i lu; a phan ddaethant, yr oedd y gwyr hyny yn myned i gymeryd cynghor pa du yr arhoynt Pryderi a Gwyr y Dehau; ac i'r cynghor y daethant hwythau. A chawsant yn y cynghor mai goreu aros yn nghadernid Gwynedd, yn Arfon; ac yn nghanol y ddwy faenor yr arosasant, sef Maenor Penardd a Maenor Coed Alun¹. Pryderi a ymosododd arnynt, ac yno y bu brwydr galed a lladdfa fawr o bob tu, a bu raid i Wyr y Dehau encilio, ac enciliasant hyd y lle a elwir eto Nantcoll². Ymlidiwyd hwynt, a bu yno frwydr ddifedur ei maint; yna y ciliasant hyd y lle a elwir Dolbenmaen; ac yno deisyf heddwch a wnaethant, a cheisio tangnefedd, a Phryderi a roddes Gwrgi Gwastra a phedwar ar hugain o feibion bonedd yn wystlon heddwch. Wedi hyn cerddasant mewn tangnefedd hyd y Traeth Mawr; ond fel y deuent tua Melenryd³, nis

¹ *Maenor Penardd a Maenor Coed Alun*.—Y mae amrywiaeth barn parth safle y flaenaf. Yn *Mabinogion* Lady Guest, dywedir mai gerllaw Conwy y safai, tra y tybia eraill mai yn ardal Clynog a'r Eifl. Os yr olaf, yr oed hi a Maenor Coed Alun, yn awr Coed Helen, ger Caernarfon, yn taro ar eu gilydd. Y mae y dybiaeth olaf yn hwyluso cryn lawer ar dreigliad y digwyddiadau rhagllaw.

² *Nant Coll*.—Afonig a groesir tua naw milldir o Gaerynarfon ar y ffordd rhwng y dref hono a Dolbenmaen, yn Eifionydd.

³ *Melenryd*.—Cwmwd rhwng y Traeth Mawr a'r Traeth Bach.

gellid atal gwyr y ddau lu rhag saethu ar eu gilydd. A Phryderi a yrodd genadau at Math yn erchi gwahardd y ddau lu, a gadael rhyngddo ef a Gwydion ab Don, canys efe a barasai y rhyfel. Daeth y genad hon at Fath ab Mathonwy. 'Ie,' eb ef, 'rhyngof fi a Duw, os da gan Wydion ab Don, mi a'i gadawaf yn llawen; ni cymhellaf fi neb fyned i ymladd heb wneuthur ohonom ninau yn ol ein gallu.' 'Diau,' medd y cenhadau, 'Pryderi a ddywed mai teg oedd i'r gwr a wnaeth hyn o gam iddo ddyfod i ymladd law-law âg ef, a gadael y ddau lu yn segur.' 'Dygaf i Dduw fy nghyffes,' ebe Gwydion, 'nad archaf i Wyr Gwynedd ymladd drosof fi, a minau fy hun yn cael ymladd â Phryderi. Mi a ymladdaf âg ef law-law yn llawen.' A danfonwyd hyny at Pryderi. 'Ie,' eb ef, 'nid archaf finau i neb ofyn fy iawn namyn fy hun.'

Yna y ddau a wisgasant eu harfau, ac ymladd a wnaethant. a thrwy nerth grym a lliidiowgrwydd, a hud a lledrith Gwydion, lladdwyd Pryderi, ac yn Maen Tyriawc¹, uwch Melenryd, ei claddwyd, ac yno y mae ei fedd.

Gwyr y Deheu a gerddasant yn athrist tua'u gwlad; ac nid rhyfedd—eu harglwydd a gollasant, a llawer o'u goreugwyr, a'u meirch, a'u harfau gan mwyaf. Gwyr Gwynedd a ddychwelasant yn llawen a gorawenus.

'Arglwydd,' ebe Gwydion wrth Math, 'onid iawn ini ollwng eu gwystlon i wyr y Deheu a wystlasant i ni ar eu heddwch, ac na ddylem eu cadw yn ngharchar?' 'Rhyddhaer hwynt ynte,' ebe Math. Felly y gwas hwnw, a'r gwystlon oeddynt gydag ef, a ollyngwyd ar ol gwyr y Deheu.

Yntau Math a gyrchodd Gaer Dathal; eithr Gilfaethwy ab Don a'r teulu oeddynt gydag ef a acthant i amgylchu gwlad Gwynedd, yn ol eu harfer, heb fyned i'r llys. Math a gyrchodd i'w ystafell, ac a barodd barotoi lle iddo i benelino, fel y caffai ddodi ei draed ar lin y forwyn. 'Arglwydd,' ebe Goewin, 'cais forwyn arall a fo is dy draed; gwraig wyf fi.' 'Pa ystyr sydd i hyn?' 'Trais, arglwydd, a ddaeth am fy mhen, a hyny yn ddirgel; ac ni buom i ddystaw; nid oedd yn y llys neb ar nas gwypai; sef trais dy neiaint feibion dy chwaer, arglwydd, Gwydion ab Don a Gilfaethwy ab Don; cam a wnaethant i mi, a chywilydd i tithau; a chysgu a wnaethpwynt genyf, a hyny yn dy ystafell ac yn dy wely di.' 'Ie,' ebe yntau, 'yr hyn a allaf, mi a'i gwnaf; mi

¹ *Maen Tyriawc*—Maentwrog. Eithr dywed *Englynion y Beddau* mai yn Abergenoli y claddwyd Pryderi.

a baraf iti gael iawn yn nghyntaf, ac yna mynaf inau iawn. Tithau, mi a'th gymeraf yn wraig, ac a roddaf feddiant fy nghyfoeth yn dy law.'

Ac ni ddaethant hwythau ar gyful y llys, namyn trigo yn amgylchu y wlad a wnaethant, onid aeth gwaharddiad iddynt gael na bwyd na diod. Ar y cyntaf ni ddaethant hwy ar gyful Math; yna y daethant ato. 'Arglwydd,' ebynt hwy, 'dydd da iti.' 'Ie,' ebe yntau, 'ai i wneuthur iawn imi y daethoch chwi?' 'Arglwydd, wrth dy ewyllys di yr ydym.' 'Pe buasech wrth fy ewyllys, ni chollaswn gynifer o wyr ac o arfau ag a gollais. Fy nghywilydd ni ellwch chwi ei dalu imi, heb son am angau Pryderi; a chan y daethoch at fy ewyllys, minau a ddechreuaf boen amoch.'

Yna y cymerth ei hudlath¹, ac a darawodd Gilfaethwy onid oedd yn ewig; ac ymaflodd yn y llall yn gyflym, gan y mynai ddianc, ac a'i tarawodd â'r un hudlath onid oedd yn garw. 'Gan eich bod mewn rhwymedigaeth mi a wna i chwi gerdded yn nghyd, a meddu anian y creaduriaid yr ydych ar eu ffurf; a blwyddyn i heddyw, dowch yma ataf fi.'

Yn mhen blwyddyn i'r un dydd, y clywid twrw o dan bared yr ystafell, a chwn y llys yn cyfarth am ben y twrw. 'Edrych,' ebe Math, 'pa beth sydd allan.' 'Arglwydd,' ebe un, 'mi a edrychais; y mae yna garw, ac ewig, ac elain² (*fawn*) gyda hwynt. Yna cyfododd yntau, a daeth allan; a phan y daeth, gwelai y tri llwdn, sef carw, ewig, ac elain cryf. Yna efe a ddyrchafodd ei hudlath, ac eb efe, 'Yr hwn a fu ohonoch yn ewig y llynedd, bydded faedd coed eleni; a'r hwn a fu garw y llynedd, bydded garmen coed (*a wild sow*) eleni;' ac ar hyny eu taraw â'r hudlath. 'Yr ieuanc hwn a gymeraf i, ac a baraf ei feithrin a'i fedyddio.' A'r enw a ddoded arno oedd, *Hyddwn*. 'Ewch chwithau, a byddwch y naill yn faedd coed, a'r llall yn garmen coed, ac anian y moch coed bydded i chwithau; a blwyddyn i heddyw, byddwch yma o dan y pared, a'ch etifedd gyda chwi.'

Yn mhen blwyddyn, clywid cyfarthfa cwn dan bared yr ystafell, a chynhwrf yn y llys ar ben hyny; ac ar hyny, cyfodi a wnaeth yntau a myned allan. A phan ddaeth allan, tri llwdn a welai, sef baedd coed, a charnen coed, a llwdn ieuanc da gyda hwynt; a mawr ydoedd o'i oedran. 'Ie.' eb efe, 'hwn a gymeraf i ataf, ac a baraf ei fedyddio;' a tharawodd ef â'i hudlath onid oedd yn llanc gwinau, llyfneg; a dodwyd arno yr enw

¹ *Cymerth ei hudlath.*—Diuu mai amcan yr awdwr yn yr adran hon o'i Fabinogi ydyw dwyn i ddirmyg a gwarth yr hen goel Dderwyddol mewn trawsfurfiad eneidiau.

² *Elain.*—'Fel elain coch o flaen cwn,' ebe Tudur Aled yn ei gywydd i'r March; a thybia rhai mai dyna wreiddyn yr euw Dolyddelen.

Hychdwn. ‘A chwithau, yr un a fu faedd coed ohonoch y llynedd, bydded flaiddast eleni; a'r hwn a fu garnen y llynedd, bydded flaidd eleni.’ Yna tarawodd hwynt â'i hudlath onid oeddynt flaidd a bleiddast.' ‘Ac anian yr anifeiliaid yr ydych yn eu rhith bydded i chwithau; a byddwch yma flwyddyn i heddyw dan y pared hwn’

Yr un dydd yn mhen y flwyddyn, clywid cynhwrf a chyfarthfa cwn o dan bared yr ystafell, ac yntau a gyfodes allan. A phan ddaeth, gwelai flaidd a bleiddast, a chenaw cryf gyda hwynt. ‘Hwn a gymeraf i,’ eb efe, ‘ac a baraf ei fedyddio, ac y mae yr enw yn barod, sef yw hwnw, *Bleiddwn.* Tri meib y sydd i chwi, a'r tri hyny ynt:—

Tri meib Gilfaethwy enwir,
Tri o ymladdwyr cywir,
Bleiddwn, Hyddwn, Hychdwn hir.’

Yna efe a'u tarawodd hwythau ill dau â'r hudlath onid oeddynt yn eu cnawd eu hunain. ‘Ha wyr!’ eb efe, ‘o gwnaethoch gam i mi, digon y buoch mewn poen, a chywilydd mawr a gawsoch—bod plant i bob un ohonoch o'i gilydd. Darperwch enaint i'r gwyr, a golchi eu penau. a'i hadgyweirio.’ A gwnaed hyny.

Ac wedi ymgweirio, daethant ato ef. ‘Ha wyr!’ eb efe, ‘tangnefedd a gawsoch, a'm caredigrwydd a gewch; a roddwch chwi cyngor imi pa forwyn a geisiaf?’ ‘Arglwydd, ebe Gwydion ab Don, ‘hawdd yw dy gynghori—Arianrod¹ ferch Don, dy nith, ferch dy chwaer.’

Hono a gyrchwyd ato, a'r forwyn a ddaeth i mewn. ‘Ha forwyn!’ eb efe, ‘a wyt ti forwyn?’ ‘Ni wn i, arglwydd, amgen na'm bod.’ Yntau a gymerodd ei hudlath, ac a'i camodd; ‘cama di dros hon,’ eb efe, ‘ac os wyt ti forwyn, mi a wn yn y camawd.’ Yna hi a gamodd dros yr hudlath; ac ar y cam, gadawodd fab brasfelyn mawr. Ac yn ol dolefain y mab, hi a gyrchodd y drws; ac ar hyny, rhyw beth bychan a welwyd, Ond cyn cael o neb ail olwg arno, Gwydion a'i cymerth, ac a roddes len o bali [sidan] yn ei gylch ac a'i cuddiodd yn ngwaelod cist is traed ei wely. ‘Ie,’ ebe Math ab Mathonwy, ‘mi a baraf fedyddio hwn,’ wrth y mab brasfelyn; ‘a'r enw a baraf iddo, Dylan.’

Bedyddio y mab a wnaethpwyd; ac fel yr oeddys yn ei fedyddio, ete a gyrchodd i'r môr. A phan y daeth i'r môr anian y môr a gafodd, a

¹ *Arianrod ferch Don.*—Rhestrir hi yn y *Triodd* gyda Gwenn ferch Cywryd ab Crydon a Creirwy merch Ceridwen, tan y penawd, ‘Tair Gwenrian Ynys Prydain.’ Yn y nodiad blaenorol ar *Gwydion ab Don*, sylwasom fod y Cymry gynt yn galw y Corona Borealis yn Gaer Arianrod. Dywed y Parch. P. Bailey Williams, yn ei *History of Carnarvonshire*, fod traddodiad yn ardal Clynog y gellid gwled, ar dywydd braf ac ar ddistyll trai, gerllaw i'r lle hwnw weddillion hen dref Gymreig sydd yn awr yn orchuddiedig gan y môr; ac mai enw y dref ydoedd Caer Arianrod.

chystal y nofiai a'r pysg goreu yn y môr, ac o achos hyny y gelwid et Dylan eil Don'. Ni thores tòn o tano erioed. A'r ergyd y daeth ei angau ohoni a fwrwyd gan Gofannon ei ewythr, a hono a elwid y 'Drydydd anfad Ergyd.'

Fel yr oedd Gwydion un diwrnod yn neffro yn ei wely, ef a glywai swm yn y gist is ei draed; ac er nad oedd y swm yn uchel, digon uchel ydoedd iddo ef ei glywed. Yntau a gyfododd yn gyflym, ac a agorodd y gist; ac wedi ei hagog, ef a welai fab bychan yn rhwyfo ei freichiau o blyg y lleni, ac yn eu gwasgaru. Ac efe a gymerth y mab yn ei freichiau, ac a'i cyrchodd i dref lle y gwyddai fod gwraig â bronau ganddi, a chytuno a wnaeth â'r wraig i feithrin y mab; a'r mab a fagwyd y flwyddyn hono.

Yn mhen y flwyddyn, hoff oedd ganddynt ei weled yn edrych gymaint a mab dwyflwydd oed; a'r ail flwyddyn, mab mawr oedd, yn gallu dyfod ei hun i'r llys. Yna Gwydion, wedi ei ddyfod i'r llys, a sylwodd arno; a'r mab a ymgynefinodd âg ef, ac a'i carodd yn fwy nag undyn; a'r mab a fagwyd yn y llys hyd onid oedd yn bedair blwydd oed, pryd yr oedd gymaint a phe buasai wyth mlwydd oed.

Un diwrnod, efe a aeth gyda Gwydion i ymdaith allan, a Gwydion a gyrchodd i Gaer Arianrod, a'r mab gydag ef. Wedi ei ddyfod i'r llys, cyfododd Arianrod i'w dderbyn, a'i groesawu, a chyfarch gwell iddo. 'Duw a roddo dda iti,' eb efe. 'Pwy yw y mab hwn sydd gyda thi?' ebe hi. 'Y mab hwn, mab i ti yw ef.' 'Och! paham y cywilyddi fi, a'm dilyn â'm cywilydd, a'i gadw cyhyd a hyn?' 'Oni bydd arnat ti gywilydd mwy na meithrin ohonof i fab cystal a hwn, bychan o beth fydd dy gywilydd.' 'Pa enw sydd ar y mab?' ebe hi. 'Diau,' eb efe, 'nid oes arno un enw eto.' 'Ie,' ebe hi, 'mi a dyngaf dynged iddo, na chaiff ef enw oni chaffo genyf i.' 'Dygaf i Dduw fy nghyffes,' eb efe, 'gwraig ddrwg wyt ti; a'r mab a gaiff enw er dy wacthaf di; yr hyn sydd yn dy flino di ydyw na'th elwir yn forwyn.' Yna cerdded ymaith mewn llid a wnaeth, a chyrru Caer Dathal, ac yno y bu y nos hono.

Tranoeth, cododd a chymerodd y mab gydag ef, ac aeth i ymdaith ar lan y weilgi rhwng hyny ac Aber Menai. Aphan welodd hesg a môr-wiail, efe a rithiodd long ohonynt. ac o'r gwymon a'r hesg y rithiodd lawer o gordwal (*Turkish Leather*). ac a'i brithodd hyd na welsai neb ledr tecach

¹ *Dylan Eil Don*.—'Dylan,' traeth y môr; o *ily* a *glan*. 'Eil,' cyfystyr â mab. Y mae yr hen chwedlonydd yn dangos ei ddonioldeb arferol, trwy wneud gair mwys o Don, fel nas gwyr y darlennydd yn iawn pa un ai Don, enw y teulu, ynte tòn y môr, a feddylir. Ymddangosodd Marwnad Dylan Ail Ton' yu y *Cambro Briton*, i. 151; a phriodolir hi i Daliesfn.

nag ef. Wedi hyny, cyweirio hwyl ar y llong a wnaeth, a dyfod i ddrws porth Caer Arianrod ef a'r mab yn y llong, a dechreu llunio esgidiau a'u gwnio. A gwelwyd hwynt o'r Gaer, a phan wybu yntau eu gweled, cyfnewidiodd ei wedd a'i ffurf ei hun a'r mab, fel nad adnabyddid hwynt. 'Pa ddyinion y sydd yn y llong acw?' ebe Ananrod. 'Cryddion,' ebynt hwy. 'Ewch i edrych pa ryw ledr sydd ganddynt, a pha ryw waith a wnant.'

A daeth y cenhadau atynt; a phan ddaethant yr oedd ef yn britho cordwal, a hyny yn euraidd. Dychwelodd y cenhadau, gan fynegi hyny i Arianrod. 'Ie,' ebe hithau, 'dygwch iddo fesur fy nhroed, ac erchweh i'r crydd wneud esgidiau imi.' Yntau a luniodd yr esgidiau; nid wrth y mesur, eithr yn fwy. Dygwyd yr esgidiau iddi, ac wele yr oeddynt yn ormod. 'Gormod yw y rhai hyn,' ebe hi, 'efe a gaiff eu gwerth, gwnaed hefyd rai a fo llai na hwynt.' Yntau a wnaeth rai eraill yn llawer llai na'i throed, a'u hanfon iddi. 'Dywedwch iddo,' ebe hi, 'mae rhy fychain yw y rhai hyn;' a dywedwyd hyny iddo. 'Ie,' ebe yntau, 'ni luniaf i esgidiau iddi oni welwyf ei throed.' Ebe hi, 'Mi a af hyd ato ef.' A hi a ddaeth hyd at y llong; a phan ddaeth, yr oedd ef yn llunio esgidiau a'r mab yn gwnio. 'Dydd da iti, arglwyddes,' eb efe. 'Duw a roddo dda i tithau,' ebe hi; 'rhyfedd yw genyf na fedrit wneud esgidiau oddiwrth fesur.' 'Nis medrwn,' ebe yntau, 'ond yn awr mi a fedraf.'

Ar hyny, wele ddryw yn sefyll ar fwrdd y llong; a'r mab a anelodd ato, ac a'i tarawodd rhwng gwyn ei goes a'r asgwrn. Hithau a chwaddodd, 'diau,' ebe hi, 'gyda llaw gyffes (*steady*) y tarawis y llew ef.' 'Ie,' ebe yntau, 'anniolch Duw i ti, y mab a gafodd enw, a da ddigon yw yr enw; gelwir ef bellach, *Llew Llaw Gyffes*.¹

Yna y diflanodd y cyfan, yn hesg ac yn wymon; a'r gwaith nis canlynodd ef yn hwy na hyny; ac o'r aches hwn y gelwir Gwydion yn 'Drydydd Eurgydd.' 'Diau,' ebe hithau, 'ni byddi di well o fod yn ddrwg wrthyf i.' 'Ni bum i yn ddrwg eto wrthyf ti,' eb efe. Yna efe a droes y mab yn ol i'w bryd ei hun. 'Minau a dyngaf dynged,' ebe hi, 'na chaffio

¹ *Llew Llaw Gyffes*.—*Gyffes*, o *guf* ac *ys*—gwir diysgog, gan gyfeirio at yr ergyd a roddes efe i Gronw Pebyr. Rhestrir ef yn y *Triodd*, gyda Caswallon ab Beli a Manawyddan ab Llyr, dan y penawd, 'Tri Eurgydd Ynys Prydain;' 'p un fu ef, gyda Gwydion ab Don, yn ceisio enw ac arfaeth y gan Rianon [Arianrod] ei fam ef.' Mewn *Tri* arall, cysylltir ei enw hefo Rhun ab Beli a Morgan Mwynfawr, fel 'Tri ruduawe [gwaedlyd] Ynys Prydain;' 'ond un oedd ruddocach na'r tri; Arthur oedd ei enw—am flwydlyn, ni ddeuai na gwellt na llyisiau y ffordd y cerddai Arthur.' Cyfeirir at ei fedd yn *Englynion y Bebban* :—

'Bet Llew Llaw Gyffes y dan achles mor
Yny ben y gywnes
Gur oet hwanu gair ni rote.'

Ac yn ol *Triodd y Meirch*, 'Melyngan mangre,' ei farch, oedd un o dri phrif gadfarch yr Ynys hen.

arfau byth hyd oni wisgwyf fi hwynt am dano.' 'Rhyngof fi a Duw,' eb efe, 'er gwaethaf dy ddireidi di, ef a gaiff arfau.'

Yna y daethant hwy tua Dinas Dinllef, lle y meithrinwyd Llew Llaw Gyffes oni allai farchogaeth pob march, ac onid oedd gyflawn o bryd, twf, a maint. A Gwydion a wybu ei fod yn dihoeni o eisiau meirch ac arfau; a galwodd ef ato. 'Ha! was,' eb efe, 'ni a awn i neges yforu, a bydd di lawenach nag ydwyf.' 'Hyny a wnaf,' ebe y gwas.

Ac yn ieuencyd y dydd dranoeth, cyfodi a wnaethant, a chymeryd yr arfordir, i fyny tua Bryn Arien; ac yn y pen uwchaf i Gefn Clydno, cymeryd meirch a wnaethant, a dyfod tua Chaer Arianrod. Yno newidiasant eu pryd a'u gwedd, a myned at y porth yn rhith dau was ieuanc, eithr fod pryd Gwydion yn bruddach nag un y gwas. 'Y porthor,' eb efe, 'dos i fewn, a dywed fod yma feirdd o Forganwg.' Y porthor a aeth. 'Can croesaw iddynt; gollwng hwy i mewn,' ebe hi.

A dirfawr lawenydd a gawsant; y neuadd a gyweiriwyd, ac i fwyta yr aethant. Gwedi darfod bwyta, ymddyddan a wnaeth hi a Gwydion am chwedlau a hanesion; a chweddeuwr da oedd Gwydion. A phan ddaeth amser ymadael â'r gyfeddach, ystafell a gyweiriwyd i'r dyeithriaid, ac i gysgu yr aethant.

Yn y plygain, Gwydion a gyfodes, ac a alwodd ei hud a'i allu ato; ac erbyn ei bod yn oleu dydd, yr oedd sain udgyrn a thrwst arfau yn diaspedain trwy yr holl wlad. Pan oedd y dydd yn dyfod, hwy a glywent guro ar ddrws eu hystafell, ac Arianrod yn erchi ei agoryd. A chyfodi a wnaeth y gwas ieuanc ac agoryd; hithau a ddaeth i mewn, a morwyn gyda hi. 'Hawyr da!' ebe hi, 'lle ddrwg yr ydym ni?' 'Ie,' ebe yntau, 'ni a glywn udgyrn a llefain; a pha beth a debygi di o hyny?' 'Diau,' ebe hi, 'ni chawn i ni weled lliw y weilgi gau gynifer o longau sydd yn cyniweir ar hyd-ddo, ac y maent yn cyrchu gyntaf gallont i'r tir. Pa beth a wnawu ni?' 'Arglwyddes,' ebe Gwydion, 'nid oes ini gynghor onid cau y gaer arnom, a'i chynnal goreu gallom.' Ebe hithau, 'Duw a dalo i chwi; cynheliwch chwithau; cewch yma ddigon o arfau.'

Ar hyny, i ymofyn yr arfau yr aeth hi; ac wele hi yn dyfod, a dwy forwyn gyda hi, ac arfau deuwr ganddynt. 'Arglwyddes,' eb efe, 'gwisg am dan y gwr ieuanc hwn; a minau, mi a'r morwynion, a wisgaf am danaf inau. Mi a glywaf dwrf y gwyr yn dyfod.' 'Hyny a wnaf,' ebe hi; a hi a wisgodd am dano ef yn llawen ac yn gyfangwbl. 'A ddarfu

i ti,' eb efe 'wisgo am y gwr ieuanc?' 'Do,' ebe hi. 'Yr wyf inau wedi darfod,' ebe Gwydion; 'diosgwn yn awr ein harfau; nid rhaid ini wrthynt.' 'Och!' ebe hithau, 'paham? dyma y llynges yn nghylech y ty.' 'Ha! wraig, nid oes yna yr un llynges.' 'Och!' ebe hithau, 'pa beth oedd yr holl gynhwrf a fu yma?' 'Cynhwrf ydoedd,' ebe yntau, 'i dori dy fwriad di, ac i gael arfau i'th fab; ac yn awr efe a gafodd arfau, heb ddim diolch i ti.' 'Rhyngof i a Duw,' ebe hi, 'gwr drwg wyt ti. Gallasai llawer mab golli ei fywyd trwy y cynhwrf a beraist ti yn y cantref hwn heddyw. Ond mi a dyngaf dynged na chaiff ef wraig fyth o'r un genedl sydd ar y ddaear yr awrhon.' 'Gwraig ddireidus a fuost ti erioed,' eb efe, 'ac ni ddylai neb fod yn help i ti; er hyny, ete a gaiff wraig.'

Hwythau a ddaethant at Fath ab Mathonwy, a chwynfan yn brudd rhag Arianrod a wnaethant; a mynegi iddo pa fodd y cawsant arfau i'r mab. 'Ie,' ebe Math, 'ceisiwn niiau, fi a thithau, ein hud a'n lledrith, a gwnawn iddo wraig o flodeu. Bellach, y mae efe yn wr llawn maint a chyn deced gwas ag a welodd dyn erioed.' Yna y cymerasant hwy flodeu y derw, a blodeu y danadl (*broom*), a blodeu yr erwain (*meadow sweet*); ac o'r rhai hyny swyno y forwyn decaf a theleidiaf a welodd dyn erioed; a'i bedyddio a wnaed yn y fan, a doddi arni yr enw *Blodeuwedd*.

Wedi iddynt briodi ac i'r wledd fyned heibio, ebe Gwydion, 'Nid hawdd i wr heb gyfoeth deithio oddiamgylch.' 'Ie,' ebe Math, 'mi a roddaf iddo y cantref goreu i was ieuanc ei gael.' 'Arglwydd,' eb efe, 'pa gantref yw hwnw?' 'Cantref Dunodig,' ebe Math; a hwnw a elwir yr awrhon yn Eifionydd ac Ardudwy². A'r lle ar y cantref y cyfaneddodd efe

¹ *Blodeuwedd*.—Fel y gallesid disgwyl, y mae y drychfeddwl swynol hwn wedi cael sylw aml un o'r beirdd Cymreig. Cyfeiria Taliesin ato yn 'Kadeir Keridwen;' a'r serch-fardd digyffelyb Dafydd ab Gwilym, yn ei gywydd 'Achau y Dylluan;' a ddywed mewn ymgom rhyngddo ef â hi:—

BARDD.—Er hyn, pa 'dderyn pa't haint
Pwy dy henw, pryd henaint?

DYLLUAN.—Bonedd gwelgwedd f'm gelwynt,
Blodeuwedd wrth gyfedd gynt;
Merch i arglwydd, ail Meirchion,
Wyt ti, myn Dewi! o Fon.

BARDD.—Hoywfan wen, gwawr ei henwi
Er trist ion, pwy a'th troes ti?

DYLLUAN.—Gwydion fab Don ar Gonwy,
Hudlath ni bu o'i fath fwy
A'm hudodd i o'm hoywder
I'r poen a weli, nid per.

Haul dramawr o hll dremynt,
Am heuru ei garu gynt,
Goronwy fab Pefr Goronhir,
Arglwydd Penlyn hoywyn hir.

² *Ardudwy*.—Saif Dyffryn Ardudwy ar fin y môr yn nghwr gorllewinol sir Feirionydd. Y mae'r holl fangre yn fyw gan ddyddordeb hanesyddol a clwedlonol. Yn y naill ben iddo, saif Castell Harlech, maes cynifer o ddigwyddiadau cyffrous o amser Branwen ferch Llyr a Dafydd ab Einion i lawr hyd ddyddiau y Weriniaeth; yn y pen arall, Bron y Clydwr, cartref yr hen Buritan Hugh Owen; ar ei du dwyreiniol, ceir bwlech, lle y collwyd llawer o waed y dewrion gynt, a elwir Drws Ardudwy; ac ar yr ochr arall, 'E geir lle bu yd a gwin fawr grugiau o for grogyn,' canys yno y gorwedd tan y môr barus adfeilion Cantref y Gwaelod.

ydoedd lys a elwir Mur y Castell, yn ngwrthdir Ardudwy. Yno y cyfaneddodd ac y gwladychodd ef, a phawb a fu foddlon iddo ef a'i arglwyddiaeth.

Ac un diwrnod, efe a aeth i Gaer Dathal, i ymweled â Math ab Mathonwy; a'r un dydd hithau a gerddodd yn y llys. A hi a glywai lef corn; ac ar ol llef y corn, wele hydd blin yn myned heibio, a chwn a helwyr o'i ol ar draed ac ar feirch. 'Danfonweh was,' ebe hi, 'i wybod pwy yw y nifer acw.' Y gwas a aeth a gotyn pwy oeddynt. 'Gronw Pebr' yw hwn, y gwr sydd yn arglwydd ar Benllyn,' ebynt hwy; a hyny a ddywed y gwas iddi hithau. Yntau a gerddodd ar ol yr hydd, ac ar yr afon Gynfael y goddiwedddodd ac y lladdodd ef.

Ac wrth flingo yr hydd, a bwydo ei gwn, yno y bu hyd oni ddaeth y nos arno; a phan oedd y dydd yn adfeilio a'r nos yn neshau, efe a ddaeth at borth llys Mur y Castell. 'Diau,' ebe Blodeuwedd, 'ni a gawn ein goganu gan y penaeth hwn, onis gwahoddwn ef i mewn.' 'Diau, arglwyddes,' ebynt hwy, 'iawnaf yw ei wahodd.' Yna yr aeth cenadau ato, ac efe a gymerth ei wahodd yn llawen, ac a aeth i mewn. Hithau a ddaeth i'w groesawu, ac i gyfarch gwell iddo. 'Arglwyddes,' eb efe, 'Duw a dalo it' dy garedigrwydd.'

Wedi diosg ei wisg helwriaethol, myned i cistedd a wnaethant. A Blodeuwedd a edrychodd arno; ac o'r awr yr edrychodd hi arno, hi a lanwyd yn gyflawn o'i serch. Yntau a edrychodd arni hithau, a'r un meddwl a ddaeth ynddo ef ag oedd ynddi hi; ac nis gallai gelu ei fod yn ei charu, a'i fynegi iddi a wnaeth. Hyn a barodd iddi ddirfawr lawenydd; ac o achos y serch a'r cariad a ddodasai pob un ohonynt ar eu gilydd y bu eu hyn-ddiddan y nos hono, ac i gysgu yr aethant.

Dranoeth, efe a geisiodd fyned ymaith. 'Diau,' ebe hi, 'nid ai di oddiwrthyf fi heno.' Y nos hono hefyd y buant yn nghyd; ac y bu cynghor ganddynt pa fodd y caent fod yn nghyd yn barhaus. 'Nid oes gynghor,' eb efe, 'onid un; ceisio cael gwybod ganddo pa ffordd y daw efe i'w angau, a hyny yn rhith gofal am dano.'

Dranoeth drachefn, efe a geisiodd fyned ymaith; ac ebe hi, 'Diau, ni chynghoraf di heddyw i fyned oddiwrthyf fi.' 'Diau,' ebe yntau, 'gan mai felly y cynghori di, nid af finau. Ond dywedaf, er hyny, fod perygl

¹ *Gronw Pebyr*.—Efe ydoedd arglwydd Penllyn, yn mlaen Dyffryn Edernion. Safai ei gyfoeth oddiar Lyn Tegid, yn Meirion. Cofnodir ei deulu, neu ei wyr, yn *Tri* 35, fel hyn: 'Tri anniweir deulu Ynys Prydain; Teulu Goronwy Pefyr o Benllyn a ommeddasant eu harglwydd o erbynieit y gwenwynwaew gan Llew Llaw Gyffes yn Llech Oronwy ym blaen Cynfael yn Ardudwy.' Y ddau deulu eraill oeddynt yr eiddo Gwrgi a Pheredur a theulu Alan Fyrgan.

i'r penaeth biau y llys ddyfod adref.' 'Ie,' ebe hi, 'yforu mi a ganiataf i ti fyned ymaith.'

A'r diwrnod nesaf, efe a gychwynodd, ac ni luddiodd hithau ef. 'Cofia,' eb efe, 'yr hyn a ddywedais wrthyf, ac ymddyddan yn ddwys âg ef, a hyny yn rhith ysmaldod cariad; a deisyf wybod ganddo pa ffordd y gallai ddyfod i'w angau.'

Yna y daeth Llew Llaw Gyffes adref; a threulio y dydd a wnaethant trwy ymddyddan, a cherdd, a chyfeddach; a'r nos hono, i gysgu yn nghyd yr aethant. Ac efe siaradodd â hi unwaith ac eilwaith, ac nid atebodd hi iddo. 'Pa beth a ddarfu i ti?' eb efe, 'a wyt ti yn iach?' 'Meddwl yr ydwyf,' ebe hi, 'yr hyn nis meddyllet ti am danaf i, sef gofalu am dy angau di, os elit ti o'm blaen i.' 'Duw a dalo iti am dy ymgeledd,' eb efe, 'oni ladd Duw fi, nid hawdd fy lladd.' 'A wnei di, er Duw ac crof inau, fynegi imi pa ffurf y daw dy angau; canys gwell yw fy nghof i er gochelyd yr anffawd hono na'r eiddot ti.' 'Dywedaf yn llawen,' eb efe, 'nid hawdd y gellir fy lladd, oddieithr trwy ergyd, a rhaid iddynt fod flwyddyn yn gweuthur y bar y lleddir fi âg ef, ac heb wneuthur dim arno ond pryd aberth ddydd Sul.' 'Ai dyogel hynny?' ebe hi. 'Dyogel ddigon,' eb efe; 'ac ni ellir fy lladd i mewn tŷ, nac allan o dŷ; ni ellir fy lladd ar farch nac ar fy neudroed.' 'Pa ffordd ynte,' ebe hi, 'y gellir dy ladd di?' 'Mi a ddywedaf i ti,' ebe yntau, 'gwneuthur badd imi ar lan afon, a gwneud cronglwyd uwch ben y gerwyn, a dwyn bwch a'i ddodi gerllaw y gerwyn; a doddi ohonof inau y naill droed ar gefn y bwch, a'r llall ar ymyl y gerwin; a phwy bynag a'm tarawai felly, a'm lladdai.' Ebe hithau, 'Diolchaf i Dduw, hawdd yw ysgoi hyny.'

Nid cynt y clywodd hi yr ymadrodd nag y danfonodd at Gronw Pebyr. A Gronw a lafuriodd yn gwneud y waywffon; ac yn mhen un dydd a blwyddyn, yr oedd yn barod, ac efe a beris i Flodeuwedd wybod hynny.

'Arglwydd,' ebe hi wrth y Llew, 'yr wyf wedi meddwl pa fodd y gallai fod yn wir yr hyn a ddywedaist ti wrthyf gynt; ac a ddangosi di i mi pa fodd y safet ti ar ymyl y gerwyn ac ar y bwch, os ceisiaf inau yr badd?' 'Dangosaf,' ebe yntau. Hithau a ddanfonoes at Ronw, ac a archodd iddo fod yn nghysgod y bryn a elwir yn awr, Bryn Cyfergyr, yr hwn sydd ar lan afon Cynfael. Ii a beris hefyd gynull holl eifr y Cantref, a'u dwyn i'r ochr draw i'r afon, gyferbyn a Bryn Cyfergyr.

Dranoeth, hi a ddywedodd wrth Llew, 'Mi a berais ddarpar y

glwyd a'r enaint, ac y maent yn barod.' Ebe yntau, 'Awn ninau i'w hedrych yn llawen.' A hwy a ddaethant dranoeth i weled y fan. 'Ti a ai i'r badd, arglwydd,' ebe hi.' 'Af yn llawen,' ebe yntau; ac efe a aeth i'r badd ac a ymeneiniodd. 'Arglwydd,' ebe hi, 'dyma yr anifeiliaid y dywedaist ti mai bychod oeddynt.' 'Pâr ddal un ohonynt a'i ddwyn yma,' eb efe; a gwnaed hyny. Ac efe a gyfododd o'r badd, ac a wisgodd ei lodrau am dano, ac a ddododd y naill droed ar ymyl y gerwyn a'r llall ar gefn y bwch.

Yna cyfododd Gronw o'i guddfa, ac ar ben ei lin y cyfodes, ac a fwriodd saeth wenwynig, ac a darawodd y Llew yn ei ystlys nes y lluchiodd y paladr ymaith, ond y pen a lynodd yn yr archoll. A Llew a roes waedd dorcalonus, ac a ehedodd i fynu yn rhith eryr, ac ni welwyd ef o hyny allan.

Cyn gyflymed ag yr aeth ef ymaith, y cyrchasant hwythau, Blodeuwedd a Gronw, i'r llys; a chysgu y nos hono yn nghyd. Tranoeth, Gronw a oresgynodd Ardudwy; ac wedi goresgyn y wlad, efe a drigodd ynddi, onid ei eiddo ef oedd Ardudwy a Phenllyn.

A'r chwedl hon a ddygpwyd at Fath ab Mathonwy; a thrymder a thristwch mawr a barodd hi iddo, ac i Wydion mwy nag iddo yntau. 'Arglwydd,' ebe Gwydion, 'ni orphwysaf byth oni chaffwyf wybod beth a ddaeth o fy nai.' 'Ie,' ebe Math, 'Duw a fo yn nerth i ti.' Ac efe a gychwynodd, ac a rodiodd rhagddo hyd derfynau Gwynedd a Phowys; ac wedi hyny, a ddaeth hyd yn Arfon.

Ac yno, yn Maenor Penardd, efe a ddaeth i dŷ mab aillt (*bondsman*), lle y disgynodd ac y trigodd y nos hono; a gwr y tŷ a'i dylwyth a daethant i mewn, ac yn ddiweddaf y daeth y meichiad [ceidwad y moch]. Ebe gwr y tŷ wrth y meichiad, 'Ha! was, a ddaeth dy hwch di heno i mewn?' 'Do,' ebe yntau, 'yn awr y daeth hi at y moch.' 'Pa ryw gerdded sydd ar yr hwch?' ebe Gwydion. Ebe'r meichiad, 'Pan agorer y cren bob dydd, yr â allan; ac ni cheir golwg arni, ac ni wyddis pa ffordd yr â, mwy na phed elai i'r ddaear.' 'A wnei di,' ebe Gwydion, 'erof i, beidio agor drws y cren oni byddwyf i yno gyda thi?' 'Gwnaf yn llawen,' ebe yntau.

I gysgu yr aethant y nos hono; a phan welodd y meichiad liw y dydd, efe a ddeffroes Gwydion; ac yntau a gyfododd, ac a wisgodd am dano, ac a ddaeth gyda'r meichiad, ac a safodd wrth y cren. A'r meichiad a agorodd y cren, ac ar hyny, dyma hithau yn bwrw naid allan, ac yn cerdded ymaith yn gyflym. Gwydion a'i canlynodd, a chymeryd gwrthwyneb i rediad afon a wnaeth hi, nes dyfod i nant a elwir yn awr Nant y Llew.

Yno, hi a ddechreuodd bori; a Gwydion a ddaeth o dan y pren lle yr oedd yr hwch, ac a edrychodd pa beth oedd hi yn ei bori, a phori yr ydoedd gig pwdr a chynron. Yna, efe a edrychodd i frig y pren, ac a welai eryr; a phan ymysgydwai yr eryr, y syrthiai y pryfed a'r cig pwdr ohono, a'r hwch yn ysu y rhai hyny, ac efe a dybiodd mai y Llew oedd yr eryr, ac a ganodd iddo yr englyn hwn:—

'Derwen a dyf rhwng dau lyn,
Gorddu yw awyr a glyn,
Oni adwaenaf ei ofid tyn;
Llew, pa beth yw hyn.'

Ar hyny yr eryr a ddaeth i lawr i ganol y pren, a Gwydion a ganodd iddo englyn arall:—

'Derwen a dyf yn ardd faes,
Nis gwlych gwlaw, nis mwydawdd,
Naw ugain angerdd a borthes—
Yn y blaen Llew Llaw Gyffes.'

Yna Llew a ymollynges, onid oedd ar y gaino isaf yn y pren; a Gwydion a ganodd englyn arall iddo:—

'Derwen a dyf dan oriwaered,
Mirain a medrus im' ydyw;
Oni ddywedaf i
Y daw y Llew i'm harffed.'

Yntau a ddisgynodd ar lin Gwydion, ac efe a'i tarawodd â'i hudlath onid oedd yn ei rith ei hun; ac ni welodd neb erioed dremynt truenusach nag oedd arno—nid oedd ddim ond croen ac asgwrn.

A hwy a ddaethant i Gaer Dathal, a dygwyd at Llew bob meddyg da yn Ngwynedd, a chyn terfyn y flwyddyn yr oedd yn holliach. 'Arglwydd,' eb efe wrth Fath ab Mathonwy, 'y mae yn amser i mi gael iawn gan y gwr y cefais ofid ganddo.' 'Diau,' ebe Math, 'nis gall efe ymgynal, a'th iawn di ganddo.' 'Ie,' ebe yntau, 'goreu genyf i po gyntaf y caffwyf iawn.'

Yna cynhyrfu Gwynedd a wnaethant, a chyrchu i Ardudwy; a Gwydion a gerddodd yn y blaen, ac a ddaeth at Fur y Castell. A phan glybu Blodeuwedd ei fod yn dyfod, hi a gymerth ei morwynion gyda hi, ac a ffodd i'r mynydd. Wedi croesi yr Afon Gynfael, hwy a ddaethant at lys oedd ar y mynydd; a chan ofn, yr oeddynt yn cerdded yn ngwysg eu cefnau hyd oni syrthiasant i lyn¹, ac y boddasant oll oddieithr Blodeuwedd. Gwydion a'i goddiweddodd hithau, ac a ddywedodd wrthi, 'Ni laddaf dydi; mi a wnaf iti y sydd waeth, sef yw hyny dy ollwng yn rhith aderyn; ac o achos

¹ *Syrthiasant i'r Llyn.*—Yma rhydd yr awdwr cywrain gyfleusdra i'r darlennydd ddyfalu trosto ei hun pa lyn ydoedd, gan fod yn dra sicr mai Llyn y Morwynion a ddyfelid. Gorwedda Llyn y Morwynion ar y mynydd, tua thair milldir i'r deheu-ddwyrain o Ffestiniog, ar drefynau Ardudwy, ac nid yw Mur y Castell nepell oddiwrtho.

y cywilydd a wnaethost i Lew Llaw Gyffes, ni feiddi byth ddangos dy wyneb liw dydd, a hyny rhag ofn yr holl adar, a bod yn anian iddynt dy faeddu a'th amharchu lle bynag y'th gaffont. Ac ni cholli di dy enw, eithr gelwir di tyth, *Blodeuwedd.* A Blodeuwedd yw Dallhuan yn iaith yr awr hon; ac am hyny, y mae yn gas gan yr adar y Ddalluan; a gelwir eto y Ddallhuan yn Flodeuwedd.

Yntau Gronw Pebyr a ffodd i Benllyn, ac oddiyno a ddanfonodd genhadau at Llew Llaw Gyffes yn gofyn a fynai efe ai tir, ai daear, ai aur, ai arian, yn iawn am y sarhad. 'Na chymeraf, myn y Nefoedd,' eb efe. 'a dyma y peth lleiaf a gymeraf i ganddo:—Myned i'r lle yr oeddwn i ynddo pan y tarawodd fi â'i waewffon, a minau i'r lle yr oedd yntau; a gadael imi ei daraw ef; a hyny yw y lleiaf peth a gymeraf i ganddo.'

Hyny a fynegwyd i Ronw Pebyr. 'Ie,' ebe yntau, 'teg yw imi wneuthur hyny. Fy ngwyr da, a'm teulu, a'm brodyr maeth, a oes un ohonoch chwi a gymer yr ergyd drosaf i?' 'Nac oes, yn ddiau,' ebynt hwythau. Ac o achos gomedd ohonynt ddyoddef un ergyd dros eu harglwydd, y gelwir hwy o hyny hyd heddyw, 'Trydydd Anniwair Deulu.' 'Ie,' eb efe, 'mi a'i cymeraf.'

A daethant ill dau hyd at lan yr Afon Gynfael; a Gronw a safodd yn y lle yr oedd Llew Llaw Gyffes pan y tarawyd ef, a Llew yn y lle yr oedd yntau. Ac ebai Gronw Pebyr wrth Llew, 'Gan mai o ddrwg ystryw gwraig y gwnaethum i iti yr hyn a wnaethum, mi a ddeisyfaf arnat er Duw adael imi ddodi y llech a welaf acw ar lan yr afon rhyngof â'r ddyrnod.' 'Diau,' ebe Llew, 'ni'th omeddaf o hyny.' 'Duw a dalo iti,' ebe Gronw; ac efe a gymerodd y llech ac a'i dodes rhyngddo â'r ergyd.

Yna Llew a fwriodd y saeth, nes yr aeth trwy y llech, ac y torodd gefn Gronw. Ac yno y lladdwyd Gronw Pebyr. Ac y mae y llech ar lan Afon Gynfael, yn Ardudwy, â'r twll trwyddi; ac o achos hyny y gelwir hi yn *Llech Gronw.*

Llew Llaw Gyffes eilwaith a oresgynodd y wlad, ac a'i llywiodd yn llwyddianus; a dywed hanes iddo fod yn arglwydd wedi hyny ar Wynedd.

Ac felly y terfyna y gainc hon o'r *Fabinogi.*

PEREDUR AB EFROG.

[Y MAE y Fabinogi hon, gydag ychydig o gyfnewidiadau, wedi ei chyfieithu i amryw o ieithoedd Gogleddbarth Ewrob. Yn y Ffrancaeg, ceir hi mewn dwy ffurf—brydyddol a rhyddieithol; y gyntaf tan y teitl *Perceval le Galois*, a phriodolir ei hawduriaeth i Chrestien de Troyes, yr hwn a flodeuai yn y 12fed ganrif, a'r hwn a gyfieithodd hefyd *Iarlls y Ffynon*. Argraffwyd hi yn ei ffurf ryddieithol yn Paris yn 1529; eithr hyd y gwyddis, un copi o'r argraffiad hwnw sydd ar gael. Y mae y cyfieithiad Seisnig ohoni mewn Saesneg hynafol, ac nid oes ond un copi o'r llawysgrifen ar gael, a hwnw yn nghadw yn Mhrif-eglwys Lincoln. Ei theitl ydyw, *Sr. Pcevell of Gales Cosyn to King Arthoure*; a bernir ei bod cyn hyned a'r 13eg ganrif. Cyfieithwyd hi o'r Ffrancaeg i'r Germanaeg rywbryd tua 1200, gan Wolfram von Eschenbach; a chyrrhaeddodd y fath boblogrwydd, fel y mae amryw lawysgrifau hynafol ohoni ar gael eto; ac argraffwyd hi yn y 15fed ganrif. Ymddangosodd cyfieithiad o *Perceval* mewn Germanaeg ddiweddar hefyd o waith Sann Marts, yn 1836. Cyrhaeddodd mor bell i'r Gogledd ag Ynys yr Ia (*Iceland*); trosglwyddwyd hi i iaith ddyagrifiadol y brodorion yno, tan yr enw *Parceval Saga*, yn yr 17eg ganrif. Yr oedd y gweithrediadau milwriaethus a chyffrous a gofnodir ynddi yn cyfateb i chwaeth ryfelgar y gwledydd hyny saith neu wyth can' mlynedd yn ol.]

[Ni wyddis nemawr ddim am PEREDUR, ond ei fod yn un o farchogion mwyaf clodfawr Llys Arthur. Cymerai ran arbenig yn mhrif ymchwil yr oes hono, sef dyfod o hyd i'r Greal Cyfrin; ac yn ol y chwedl yn Ffrancaeg, Peredur a'i cafodd yn y diwedd. Dywed yr hon ramantau Seisnig, *Morte d'Arthur*, yr un peth am dano; a dilynwyd hwythau gan Tennyson yn ei *Idylls of the King*. Cyfeirir ato mewn dau o leiaf o'r *Trioedd*. Yn un ohonynt dywedir:—'Tri Marchawg Llys Arthur a gadwasant y Greal: Cadawg fab Gwynlliw, ac Illtud Farchawg a sant, a Pheredur fab Efrawc.'—*Tri* 121. Un arall a ddywed:—'Tri Marchawg Llys Arthur a gawsant y Greal: Galath vab Lawnslot dy Lak, a Pheredur mab Efrawc Iarll, a Bort mab brenin Bort. Y dden gyntaf oeddynt wery o gorff a'r trydydd oedd ddiweir am na wnaeth pechawd cnawdol ond unweith a hyny drwy brofedigaeth yn yr amaer yr euillodd ef * * * o Brangor, yr hon a fu Ymerodres yn Constinobl, or honu y doeth y genedlaeth fwyaf o'r byd, ag o genedlaeth Joseph o Arimathea y hanoeddynt ell tri, ac o lin Dafydd brophwyd mal y tystiolaetha ystoria y Greal.'—*Tri* lxi. Y mae lluwaws o feirdd yr oesau wedi canu ei glodydd, a dringeb uwchaf eu mawl i wrhdyri a dewrder personol fyddai cydmaru gwrthrychau eu canmoliaeth i Peredur ab Efrog. Bernir iddo gael ei ladd yn mrwydr Cattraeath, canys y mae Aneuryn, yn ei restr o arwyr y gad drychinebus hono, yn son am 'Peredur arueu dur.' Efrog yn bresenol ydyw York; ac felly, gellir tybied mai brodor o Ogledd Prydain oedd Peredur. Fe wel y darlennydd wrth ddarllen y *Fabinogi*, ei fod yn cael ei alw weithiau ynddi yn 'Peredur Baladr Hir,' yr hyn sydd yn arwyddo ei fedrusrwydd wrth drin y waewffon.]

EFROG IARLL oedd biau iarllaeth y Gogledd. A saith mab oedd iddo. Ac nid ar ei gyfoeth yr oedd yn byw, eithr ar yr hyn a enillai mewn

twrneimeint¹, a rhyfeloedd, ac ymladdau. Ac fel y mae yn mynych ddi-gwydd i'r neb a ganlyno ymladdau a rhyfeloedd, efe a'i chwe' mab a laddwyd. Seithfed mab oedd iddo, Peredur oedd ei enw, a'r ieuangaf oedd hwnw; nid oedd ef mewn oedran i fyned i ymladd nac i ryfel, onide lladdesid yntau fel y lladdwyd ei dad a'i frodyr. A gwraig ddyfeisgar ofalus oedd ei fam, a mawr oedd ei phryder am ei hunig fab a'i gyfoeth. A hi a benderfynodd ffoi i anialwch a diffeithwch didramwy, a lle amgwyfanedd; ac ni adawodd hi neb yn ei chymdeithas oddieithr gwragedd a bechgyn, a dynion didraha, na allent, ac na weddai iddynt, nac ymladd na rhyfela. Ni chaniatai hi i neb, yn y lle y clywai ei mab, son am na meirch nac arfau, rhag doddi ohono ei fryd arnynt. A'r mab beunydd a âi i'r fforest i chwareu, ac i dafu darnau o goed ac ysgyrrion; ac un diwrnod. efe a welai ddeaddell geifr ei fam, a dwy ewig (*hind*) yn gyfagos iddynt yn sefyll, a rhyfeddu yn fawr a wnaeth fod y ddwy hyny heb gym, a chym ar y rhai eraill, a thybiodd iddynt tod yn hir ar goll, a cholli eu cyn am hyny. A thrwy ei fedr, a chyflymdra ei draed, efe a gynullodd yr ewigod a'r geifr i mewn i dŷ oedd yn mhen y fforest; ac a ddaeth drachefu at ei fam. 'Fy mam,' eb efe, 'mi a welais beth rhyfedd yn y coed; dwy o'th eifr di wedi myned yn wylltion, a cholli eu cyn gan faint yr amser y buant ar goll; ac ni chafodd dyn erioed gymaint trafferth ag a gefais i yn eu gyru i mewn.' Ar hyny, cyfodi a wnaeth pawb, a myned i'w gweled; a phan eu gwelsant, hwy a ryfeddasant.

Un diwrnod, hwy a welent dri marchog yn dyfod ar hyd y ffordd fawr oedd yn ystlys y fforest; sef, Gwalchmai ab Gwyar¹, Geneir Gwystyl²,

¹ *Twrneimeint* (Tournaments).—Ymladdau personol, gledd yn nghledd fynychaf. Pan oedd marchogwriaeth (*chivalry*) mewn bri, cynhelid y twrneimeint hyn mewn gwahanol barthau o'r wlad or gwobrwyo teilyngdod y buddugoliaethwr, ac fel math o Eisteddfodau marchogaethol; a mawr oedd parch y buddugwyr ynddynt gan wreng a boneddig. Cyn-ygiodd Harri VII., brenin Lloegr, ddwy fodrwy aur, ac ynddynt feini gwerthfawr, yn wobr i'r goreu mewn twrneimeint. Bryd arall, y wobr fyddai swm mawr o aur ac arian; ac nid anfynych y ceid iarlod, fel Efrog yn byw yn bendefigaid wrth ddilyn twrneimeint ac ymladdau.

² *Gwalchmai ab Gwyar*.—Arwr enwog yn rhan flaenaf y 6ed ganrif. Yr oedd yn nai fab chwaer i Arthur, o Gwyar, ei hail wr. Gwneir tri chofnodiad ohono yn y *Tri-oedd*. Yn *Tri 70*, rhestrir ef gyda Llechau ab Arthur a Rhiwallon Wallt Banhadlen, tan y penawd, 'Tri deifnigion Ynys Prydain;' 'ac nid oedd nas gwypynt ei ddefnydd a'i ddeifnogaeth, ai o ryw, ai o ran, ai o ansawdd, ai o gyfansawdd, ai o ddechymod, ai o ddechymyg, ai o anian, ai o aniad y byddei.' Cofnodir ef yn *Tri 115*, gyda Drudwas a Madawc, fel 'tri marchogion aurdafodogion Llys Arthur;' 'a doethaf o bob doethion o'u hamser oeddynt, ac mor deg a llaryeidd eu hymddwyn, ac mor hyawdl eu boll ymadroddion, fel nas gallai neb ball iddynt ar a geisiynt.' Rhoddir cymeriad cyffelyb iddo hefyd yn *Tri 119*. Oblegyd y cynneddfau hyn, yr oedd Gwalchmai yn gymeriad tra enwog

ac Owain ab Urien¹; ac Owain oedd yn ymlid ar ol y marchog a ranasai yr afalau yn Llys Arthur². 'Fy mam,' ebe Peredur, 'pwy yw y rhai acw?' 'Angylion ydynt, fy mab,' ebe hithau. 'Ar fy ffydd,' ebe Peredur, 'mi a âf yn angel gyda hwynt;' ac efe a ddaeth i'r ffordd i'w cyfarfod. 'Dywed, enaid,' ebe Owain, 'a welaist ti farchog yn myned heibio yma heddyw neu ddoe?' 'Ni wn i beth yw marchog,' ebe yntau. 'Y cyfryw un ag wyf i,' ebe Owain. 'Os dywedi di imi y peth a ofynaf iti,' ebe Peredur, 'minau a ddywedaf i tithau yr hyn a ofyni dithau.' 'Dywedaf yn llawen,' ebe Owain. 'Beth yw hwn?' ebe Peredur am y cyfryw. 'Cyfryw,' ebe Owain. Ac efe a holodd yn fanwl beth oedd y taclau a welai ef ar y gwyr a'r meirch a'r arfau, a pha beth oedd eu hansawdd a'u dyben; ac Owain a fynegodd iddo yn llwyr bob peth am danynt. 'Dos rhagot,' ebe Peredur, 'mi a welais un cyffelyb i'r hwn yr ymfyui am dano; a minau a ddeuaf ar dy ol di.'

Yna dychwelodd Peredur at ei fam a'i chymdeithion. 'Fy mam,' eb efe, 'nid angylion oedd y gwyr hyny, eithr marchogion urddasol;' a'r fam a syrthiodd mewn llewyg. A daeth Peredur at y fan yr oedd y ceffylau a glydent y tanwydd ac a ddygent y bwyd a'r ddiod o'r lle cyfanedd i'r anialwelch, a chymerth o'u plith geffyl brychwelw, esgyniog, yr hwn debygai ef oedd y cryfaf ohonynt; ac efe a wasgodd bynored (*pack saddle*) yn gyfryw iddo, ac hefo gwyddenau (*twigs*) a ddywardodd y taclau a welsai ar y meirch y dydd o'r blaen, ac ar bobpeth arall. Ac efe a ddaeth drachefn at ei fam, ac, erbyn hyn, yr oedd yr iarllles wedi dadebru o'i llewyg. 'Ie, fy mab, ai cychwyn fynt?' 'Ie,' eb efe, 'trwy dy genad.' 'Cymer genyf i gynghorau cyn cychwyn,' ebe hi. 'Cymeraf yn llawen,' eb efe, 'dywed ar frys.' 'Dos rhagot,' ebe hi, 'i Lys Arthur, lle y mae y gwyr goreu, a haclaf, a dewraf. Os gweli eglwys, cân dy Bader. Os gweli fwyd a diod, a'u heisiau arnat, ac na bo neb yn dy gymhell, cymer hwynt dy hun. Os

gydag awduron Cymreig. Ei enw yn Lladin ydyw—Walganus neu Walweyn; ac yn Ffrancaeg, Gawain. Dywed William o Malmesbury, fod bedd Gwalchmai, neu fel ei gelwir ganddo ef Walwen, wedi ei ddarganfod yn 1086, ar lan y môr, yn nghantref y Rhes, sir Benfro, lle y mae man o'r enw Castell Gwalchmai neu *Walwyn's Castle*. Dywed *Englynion y Beddau*—

Bet gwalchmai ym pyton
I'r ddiif dymeton.

Lladdwyd ef yn nechreud y rhyfel trychinebus rhwng ei ewythr a Medrawd.—*Encyclogion Cymru*.

² *Geneir Gwystyl*.—Nid oes dim o hanes y marchog hwn ar gof a chadw.

¹ *Owain ab Urien*.—Gweler y Nodion i *Iarllles y Ffynon*.

² *Llys Arthur*.—Safai prif Lys Arthur yn Nghaerlleon ar Wysg, sir Fynwy. Y mae y dref yn dwyn eto amryw o olion ei mawredd gynt. Gelwir ei hamphitheatre (*amphitheatre*) yn Ford Gron Arthur.

clywi waedd, dos ati; a gwaedd gwraig yn anad gwaedd arall yn y byd. Os gweli dlws teg, cymer ef, a dyro i arall; a chlod a geffi o hyny. Os gweli ferch deg, câr hi, ér na fyn hi di; gwell ac uwch gwr y gwneir di o hyny na chynt.'

Ac wedi yr ymadrodd hwn, Peredur a esgynodd ar ei farch, a chymerodd yn ei law ddyrnaid o ffyrch blaen-llymion, ac a gychwynodd ymaith rhagddo. Deuddydd a dwynos y bu yn cerdded anialwch, a fforestydd, a lleoedd diffaeth, heb fwyd ac heb ddioid; ac yna y daeth i goed mawr, anial; ac yn mhell yn y coed, efe a welai lanerch deg, wastad; ac yn y llanerch, efe a welai babell; a chau dybied mai eglwys oedd y babell, efe a ganodd ei Bader. A phan ddaeth efe at y babell, yr oedd y drws yn agored, a chadair aur oedd yn agos i'r drws, a morwyn wineu, brydferth, yn eistedd yn y gadair, a rhactal (*frontlet*) aur am ei thalcen, a meini disglaer yn y rhactal, a modrwy aur oedd ar ei llaw. A Pheredur a ddisgynodd, ac a aeth i mewn. A llawen fu y forwyn wrtho, a chyfarch gwell iddo. Yn mhorth y babell, efe a welai fwyd, a dwy gostrel yn llawn o win, a dwy dorth o fara cann, a golwythion o gig machyn gwyllt. 'Fy mam,' ebe Peredur, 'a barodd imi, pa le bynag y gwelwn fwyd a dioid, ei gymeryd.' 'Cymer dithau, unben,' ebe hi, 'y bwyd a chroesaw.' Ac efe a gymerodd haner y bwyd a'r ddioid iddo ei hun, gan adael y llall i'r forwyn. Ac wedi darfod bwyta, efe a ddaeth ac a benliniodd gerbron y forwyn. 'Fy mam,' ebe efe, 'a barodd imi, lle bynag y gwelwn dlws teg, ei gymeryd.' 'Cymer dithau, enaid,' ebe hi. Ac efe a gymerth y fodrwy ac a esgynodd ar ei farch, ac a aeth ymaith.

Ar ol hyny, wele y marchog biau y babell yn dyfod, sef oedd hwnw, Syberw y Llanerch; ac wrth weled ol y march, efe a ddywedodd wrth y forwyn, 'Pwy a fu yma ar fy ol i?' 'Dyn rhyfedd ei ansawdd, arglwydd,' ebe hi; ac a ddysgrifiodd ei wedd a'i ymddygiad yn hollol. 'Dywed,' eb efe, 'a wnaeth efe gam â thi?' 'Naddo, myn fy nghred,' ebe hi. 'Myn fy nghred, ni'th gredaf,' eb efe, 'ac oni chaf i hyd iddo, a dial arno fy lliid a'm cywilydd, ni chei di drigo dwy nos yn fy nhŷ.' A chyfodi a wnaeth y marchog, a myned i chwilio am Peredur.

A Pheredur a deithiodd yn mlaen tua Llys Arthur; eithr cyn iddo ef gyrhaedd, yr oedd marchog arall wedi bod yno, a rhoddi modrwy eurfras¹ yn nrws y porth er dal ei farch, a myned i'r neuadd lle yr oedd

¹ *Modrwy eurfras*.—Yn nyddiau marchogwriaeth, yr oedd yn angenrheidiol fod y march wrth law bob amser. Nid anfynych y byddai i'w weled gyda'i berchen yn ystafell y

Arthur¹ a'r teulu, a Gwenhwyfar² a'i morwynion, a gwas yr ystafell yn gwasanaethu o orflwch aur ar Wenhwyfar. A'r marchog a dafiodd y ddiod oedd yn y blwch i'w gwyneb ac ar ei gwisg, ac a roddes fonclust mawr i Wenhwyfar, gan ddywedyd, 'Os bydd neb cyn hyfed âg ymofyn y gorflwch hwn â mi, a dial sarhad Gwenhwyfar, deued ar fy ol i'r weirglodd, ac mi a'i harosaf yno.' Ac efe a gymerth ei farch ac a gyrchodd i'r weirglodd. A phob un o'r teulu a ostyngodd ei ben, rhag ofn y gofynesid iddo fyned i ddial sarhad Gwenhwyfar; a thebygent nad oedd neb yn ddigon eofn i hyny, os na byddai wedi ei amgylchu â swyn a lledrith, fel nas gellid dial arno. Ar hyny, wele Peredur yn dyfod i'r neuadd ar geffyl brychwelw, esgryniog, a thaclau musgrell arno, annheilwng o lys urddasol felly; ac yn nghanol y neuadd y safai Cai. 'Dywed, y gwas hir,' ebe Peredur, 'ai dacw Arthur?' 'Beth a fyni di,' ebe Cai,

wledd; ac un o 'Dri Thlws ar Ddeg Ynys Prydain' oedd, 'Kebustr (*halter*) Klydno Eiddyn a oedd mewn ystwiwl is draed i wely; eiddunai y march a fynai yno, ef a'i cai.'

¹ *Arthur*.—Prif arwr milwrol chwedloneg Brydeinig. Mab ydoedd i Uthr Bendragon, yr hwn oedd yn fab i Gystenyn Fendigaid, ac yn frawd i Emrys Wledig. Ei fam ydoedd Eigr, merch Amlawdd Wledig. Yr Eigr hon yw *Igern* y Lladin, ac *Ygraine* y rhamantau Ffrengig, y rhai a'i galwant hi y wraig brydferthaf yn Ynys Prydain. Y mae tua haner dwsin o wahanol fanau yn Mhrydain yn ymryson am fod yn fan genedigaeth iddo; ond y farn fwyaf cyffredin yw mai yn Tintagel, yn Nghernyw, y gwelodd efe gyntaf oleuni dydd. Mae yn ddiddadl ei fod yn hanu o linachau mwyaf clodfawr yr Ynys. Ond beth oedd hyd a lled gwirioneddol ei diriogaeth, a maint ei deyrnas, nid yw yn hawdd gwybod. Ynladdodd aml i frwydr waedlyd yn erbyn y Saeson, y rhai yn yr oes hono oeddynt yn 'giwdod ormes' yn Mhrydain; cofnodir deuddeg o'r cyfryw, a'r manau y cymerasant le, a bu yn fuddugol mewn unarddeg o'r deuddeg; ond yn y ddeuddegfed, trwy frad a thrwy law Modred, ei nai fab chwaraer, lladdwyd y ddau wrth ymladd â'u gilydd mewn brwydr lawlaw. Gelwir hono, Cad Gamlan. Claddwyd ef yn Ynys Afallon, ger Gwlad yr Haf; a bu traddodiad am oesau yn mhilith ei gydgenedl nad oedd ei farwolaeth ond cwsg, ac y codai drachefn i'w rhyddhau hwynt o tan iau gaethiwus yr estron. Fe welir oddiwrth hyn fod yn Arthur holl anheggorion arwr; ac nad oedd yn angenrheidiol er cwblhau y meddylddrych ond ei chwyddo ef, ei gyfeillion, a'u gweithrediadau. Cydnebydd pawb fod chwedloneg wedi cyflawni hyn yn dra effeithiol; a thrwy ei hofferynoliaeth hi y mae Arthur wedi myned yn enw teuluaid trwy yr holl fyd gwareiddiedig.

² *Gwenhwyfar*.—Dywed y *Trioedd* fod gan Arthur dair gwraig o'r enw hwn; ond yr enwocaf ohonynt ydoedd y drydedd, yr hon oedd yn ferch i Gogyrfan Gawr. Fel gwraig i arwr ardderchog, gwisgir hithau mewn prydfwrthwch arbenig, a chloddforir hi uwchlaw holl rianod y byd. Dyna ddywed Chwedl am dani; ond y mae Traddodiad yn dywedyd dipyn yn wahanol, canys ceir ar Lafar Gwlad hyd y dydd hwn—'Gwenhwyfar, merch Gogyrfan Gawr—drwg yn fechan, gwaeth yn fawr.' Hyhi ydyw *Guinevere* Tennyson; a chyfeiria Dante, yn ei ystlysgan swynol i Francisca da Ramini ati hi ar marchog ffyddlawn Syr Lancelot.

³ *Cai Hir*.—Ydoedd fab i Gynyr Cainfarfawg, ab Gwron ab Cunedda Wledig. Yr oedd yn un o bedwar marchog ar bugain Llys Arthur. Gwneir amryw gyfeiriadau ato yn y *Trioedd*. Gelwid ef yn un o 'Dri Taleithawg Cad,' sef rhai a wisgent dalaithiau am yr arlais mewn rhyfel. *Tri* arall a ddywed ei fod yn un o 'Dri Lledrithlawg Farchawg,' y rhai pan ymlidid hwynt, allent drawsffurfio eu hunain i'r llun a fynent. Efe oedd prif gogydd Llys Arthur. Tybir mai oddiwrtho ef y cafodd Caer Gai, yn Mhenllyn, Meirion, ei enw; a chredir mai yn Cai Hir, Aberafon, Morganwg, y claddwyd ef.

'âg Arthur?' 'Fy mam a barodd imi ddyfod i'm hurddo yn farchog urddawl at Arthur.' 'Myn fy nghred,' ebe Cai. 'yr wyt yn rhy annheilwng o ran dy farch a'th arfau.' Yna gwelwyd ef gan y teulu, a bwriwyd ysglodion ato. Ac ar hyny wele gorr (*dwarf*) yn dyfod i mewn a chorres gydag ef, a ddaethai i'r Llys flwyddyn cyn hyny i erchi trwydded gan Arthur, yr hyn a gawsant; ac yn ystod y flwyddyn, ni ddywedasai yr un ohonynt yr un gair wrth neb. Y corr pan welodd Peredur, 'Haha!' eb efe, 'croesaw Duw iti, Peredur deg fab Efrog, pen y milwyr a blodeu y marchogion.' 'Diau,' ebe Cai, 'dyma dro chwith, bod flwyddyn yn fud yn Llys Arthur, yn cael dewis dy ymddyddanwr, ac yn galw y cyfryw ddyd a hwn, yn ngwydd Arthur a'i deulu, yn ben y milwyr a blodeu marchogion,' a rhoes fonclust iddo onid oedd ar lawr mewn marw lewyg. Yna gwaeddai y gorres, 'Haha!' ebe hi, 'croesaw Duw iti, Peredur deg fab Efrog, blodeu y milwyr a chanwyll y marchogion.' 'Ie, forwyn,' ebe Cai, 'dyma dro gwael, bod flwyddyn yn fud yn Llys Arthur, a galw y cyfryw ddyd a hwn yn y modd y gelwaist,' a Chai a roddes droediad iddi onid oedd ar lawr mewn marw lewyg. 'Y gwr hir,' ebe Peredur, 'mynega imi pa le y mae Arthur.' 'Taw â'th swm,' ebe Cai, 'dos ar ol y marchog a aeth oddiyma i'r weirglodd, a dwg y gorflwch oddiarno, ac ymladd âg ef, a chymer ei farch a'i arfau, ac wedi hyny ti a gei dy urddo yn farchog urddawl.' 'Y gwr hir, minau a wna hyny,' ac efe a droes ben ei farch, ac a aeth allan ac i'r weirglodd. A phan ddaeth, yr oedd y marchog yn ymdaith yn ol a blaen, yn falch o'i allu a'i ddewder. 'Dywed,' eb efe, 'a welaist ti neb o'r llys yn dyfod ar fy ol i?' 'Y gwr hir oedd yno,' ebe Peredur, 'a barodd i mi dy ddymchwel di, a chymeryd y gorflwch, a'r march, a'r arfau, i mi fy hun.' 'Taw,' ebe'r marchog, 'dos yn ol i'r Llys, a phâr i Arthur ei hun ddyfod, neu ddanfôn rhywun arall, i ymladd â mi; ac oni ddaw yn fuan, nid arosaf am dano.' 'Myn fy nghred!' ebe Peredur, 'dewis di ai o'th fodd ai o'th anfodd, myfi a fynaf y march, a'r arfau, a'r gorflwch.' Yna y marchog a ruthrodd arno yn lliodiog, ac a roes ddyrnod mawr dolurus iddo rhwng ei ysgwydd a'i wddf. 'Aha!' ebe Peredur, 'ni chwareuai gweision ty mam â mi fel yna; minau a chwareuaf â thithau yr un modd.' Ac efe a'i tarawodd hefo fforch flaenllem yn ei lygad, nes yr aeth trwy ei wegill allan, ac y syrthiodd i'r llawr yn farw.

'Diau,' ebe Owain ab Urien wrth Gai, 'drwg y gwnaethost yn gyru y dyn ffol hwnw ar ol y marchog; un o ddau beth a ddigwydd iddo—naill ai cael ei ladd neu ei ddymchwelyd. Os dymchwelir ef gan y

marchog, efe a dybia mai un o wyr y Llys ydoedd, a daw o hyny annglod dragwyddol ar Arthur a'i wyr. Os ei ladd a gaiff, bydd yr annglod yr un, a'i bechod arno yntau yn ychwaneg. Mi a af i weled beth a ddigwyddodd iddo.' Ac Owain a welai Peredur yn llusgo y marchog ar hyd y weinglodd. 'Beth a wnei di fel hyn?' eb efe. 'Ni ddaw y bais haiarn hon,' ebe Peredur, 'byth oddiam dano, trwy fy ymdrech i.' Ac Owain a ddiosges yr arfau a'r dillad. 'Dyma i ti, enaid,' eb efe, 'farch ac arfau gwell na'r rhai eraill; cymer hwynt yn llawen, a thyred gyda mi at Arthur i'th urddo yn farchog urddawl, canys yr wyt yn ei haeddu.' 'Na weler fy wyneb mwy, od af,' ebe Peredur, 'eithr dwg di y gorflwch hwn i Wenhwyfar; a dywed i Arthur pa le bynag y byddwyf mai gwr iddo ef a fyddaf, ac os gallaf wneud lles a gwasanaeth iddo mi a'i gwnef, a dywed na ddeuaf byth i'r Llys hyd oni chaf ddial sarhad y corr a'r gorres ar y gŵr hir sydd yno.' Yna y daeth Owain drachefn i'r Llys, ac a fynegodd yr hanes i Arthur a Gwenhwyfar, ac i bawb o'r teulu, yn nghyda'r bwgwth ar Gai.

A Pheredur a aeth i'w daith; ac fel yr oedd yn myned rhagddo wele farchog yn cyfarfod âg ef. 'O ba le y deui di?' ebe'r marchog. 'O Lys Arthur,' ebe Peredur. 'Ai gwr i Arthur wyt ti?' 'Ie, myn fy nghred,' ebe Peredur. 'Iawn y lle hwn iti broffesu bod yn ngwasanaeth Arthur.' 'Paham?' ebe Peredur. 'Mi a ddywedaf,' eb efe, 'pob gwr i Arthur a gyfarfyddodd â mi, a leddais.' Ni bu mwy rhyngddynt na hyny, eithr ymladd a wnaethant; ac nid yn hir, nes y bwriodd Peredur ef dros bedrain (*crupper*) ei farch i'r llawr. Yna'r marchog a ddeisyfodd ei nawdd. 'Nawdd a geffi,' ebe Peredur, 'os rhoddi dy lw ar fyned i Lys Arthur a mynegi iddo mai myfi a'th fwriodd er anrhydedd a gwasanaeth iddo ef, a dywed na ddeuaf byth i'r Llys hyd oni chaffwyf ddial sarhad y corr a'r gorres. A'r marchog a roddes ei lw ar hyny, ac a gychwynodd tua Llys Arthur, ac a ddywedodd hyny, a'r bygythiad ar Gai.

Peredur a aeth rhagddo; ac yn yr un wythnos, cyfarfu âg un marchog ar bumtheg, ac efe a'u bwriodd oll yn gywilyddus. Hwytiau a aethant i Lys Arthur; a'r un ymadrodd ganddynt ag oedd gan y marchog cyntaf, a'r un bygythiad o eiddo Peredur ar Gai. A cherydd a gafodd Cai gan Arthur, ac yntau a fu ofidus am hyny.

Peredur a aeth rhagddo, ac a ddaeth i goed mawr anial, ac yn ystlys y coed yr oedd llyn, ac ar y tu arall yr oedd caer deg. Ar lan y llyn, gwelai wr gwynllwyd hardd yn eistedd ar obenydd o sidan, a gwisg o sidan am dano, a gweision oedd yn pysgota ar y llyn hwnw.

A phan welodd y gwr gwynllwyd Peredur yn dyfod, efe a gerddodd tua'r gaer; a chloff oedd yr hen wr. Yntau Peredur a gyrchodd i'r llys, a'r porth oedd yn agored, ac i'r neuadd y daeth. A'r gwr gwynllwyd oedd yn eistedd ar obenydd o flaen tanllwyth o dân mawr; a'r teulu a'r cwinni a godasant i dderbyn Peredur a'i ddadwisgo, a'r gwr a barodd iddo eistedd ar gwr y gobenydd. A chyd eistedd ac ymddiddan a wnaethant. A phan ddaeth amser gosod y byrddau a myned i fwyta, yn ymyl y gwr a biau y llys y dodwyd Peredur i eistedd. Gwedi darfod bwyta, gofynodd y gwr i Peredur os gwyddai efe pa fodd i ladd â chleddyf yn dda. 'Na wn,' ebe yntau, 'ond pe cawn ddysg, mi a wyddwn.' 'Yr hwn a wyr,' ebe'r henwr, 'pa fodd i chwareu â ffon a tharian yn dda, a wyr hefyd pa fodd i ymladd â chleddyf.' A dau fachgen oedd i'r gwr, sef un â gwallt melyn a'r llall â gwallt gwineu. 'Cyfodwch weision,' eb efe wrthynt, 'i chwareu â ffyn ac â tharian; ac i chwareu â ffyn yr aethant.' 'Dywed, enaid,' ebe'r gwr, 'p'run yw'r goreu o'r ddau, debygi di, am chwareu?' 'Tybio yr wyf i,' ebe Peredur, 'y gallai y llanc melyn dynu gwaed o'r llall os mynai.' 'Cyfod dithau, enaid, a chymer y ffon a'r darian o law y llanc gwineu, a thyn waed o'r gwas melyn, os gelli!' A Pheredur a gyfododd i chwareu â'r gwas melyn, ac a ddyrchodd ei fraich, ac a roes iddo ddyrnod mawr nes y disgynodd ei ael ar ei lygad, ac nes oedd ei waed yn rhedeg. 'Ie, enaid,' ebe'r gwr, 'dos i eistedd bellach; y dyn goreu am ladd â chleddyf yn yr Ynys hon a fyddi di; ewythr i ti brawd dy fam wyf i, a chyda ni yr arosi am ysbaid yn dysgu moes ac arfer y gwledydd, ac iawn ymddygiad, ac addfwynder, a boneddigeiddrwydd. Gad heibio bellach arferion ac ymddyddanion dy fam, ac mi a fyddaf yn athraw i ti, ac a'th wnaf yn farchog urddawl. A dyma a wnei di:—Os gweli rywbeth a fo'n rhyfedd genyt, nac ymhola yn ei gylch, os na ddywedir wrthyt o garedigrwydd; nid arnat ti y bydd y bai, eithr arnaf i fel dy athraw.' Ac anrhydedd a gwasanaeth ddigon a gawsant; a phan fu amser, i gyngu yr aethant.

Pan ddaeth y dydd gyntaf, Peredur a gytododd, ac a gymerodd ei farch, a thrwy ganiatad ei ewythr a gychwynodd ymaith. Ac efe a ddaeth i goed mawr anial, ac yn mhen y coed y daeth i ddol, a'r tu arall i'r ddol wastad efe a welai gaer fawr. Tua'r lle hwnw y cyrchodd efe, a'r porth a gafodd yn agored, ac i'r neuadd y daeth. Yno gwelai wr gwynllwyd hardd yn eistedd yn ystlys y neuadd, a lluaws o weision o'i amgylch, y rhai a gyfodasant yn urddasol i'w dderbyn, ac a'i dodasant i eistedd yn ochr y gwr biau y llys. Ac ymddiddan a wnaethant;

a phan ddaeth amser bwyd, dodwyd Peredur i eistedd yn ymyl y gwr mwyn i fwyta. Gwedi darfod bwyta ac yfed eu gwala, gofynodd y gwr da i Peredur os gwyddai efe pa fodd i ymladd â chleddyf. 'Pe cawn ddysg, mi a wyddwn,' ebe yntau. Ac yn llawr y neuadd yr oedd ystwffwl (*staple*) mawr, gymaint ag y medrai llaw milwr ei amgyffred. 'Cymer,' ebe'r gwr wrth Peredur, 'y cleddyf acw, a tharo yr ystwffwl haiarn.' A Pheredur a gyfododd, ac a darawodd yr ystwffwl haiarn yn ddau ddarn, a'r cleddyf yn ddau ddarn. 'Dod y darnau yn nghyd, a chyfana hwynt,' ebe'r gwr. Peredur a'u dododd yn nghyd, a hwy a aethant yn gyfan fel cynt. Ac eilwaith efe a darawodd yr ystwffwl onid oedd yn ddau ddarn, a'r cleddyf yn ddau ddarn; ac fel o'r blaen, cyfanhau a wnaethant. A'r drydedd waith, efe a darawodd ddyrnod gyffelyb; ac yna ei rhoddes yn nghyd, ac ni chyfanai yr ystwffwl na'r cleddyf. 'Ie, was,' ebe'r gwr, 'dos i eistedd bellach, a'm bendith arnat. Y dyn goreu yn y deymas am ladd â chleddyf wyt ti. Deuparth dy allu a gyrhaeddaist; y drydedd ran ni chefaist eto. Pan y cei hwnw, ni thycia i neb ymryson â thi; ewythr i ti wyf inau frawd dy fam; brawd imi yw'r gwr y llettyaist gydag ef neithiwr. Yna ymddyddan â'i ewythr a wnaeth Peredur. Ar hyny, wele ddau was yn dyfod i'r neuadd ac yn myned i'r ystafell, a gwaewffon ganddynt anfeidrol ei maint, a thair ffrwd o waed yn rhedeg o'r dur hyd y llawr. A phan welodd y cwmni hyny, llefain ac wylofain a wnaethant; eithr y gwr ni thorodd ei ymddyddan â Pheredur. Ni ddywedodd efe ychwaith beth oedd ystyr y gwaed, ac nis gofynodd yntau. Gwedi ysbaid fechan o ddystawrwydd, dyma ddwy forwyn yn dyfod a dysgl fawr rhyngddynt, a phen gwr ar y ddysgl, a gwaed lawer o'i gyleh. A chwmni y llys a godasant waedd fawr, nes yr oedd yn flin trigo yn yr un llys a hwynt. Ac o'r diwedd, tewi a wnaethant, a phan oedd yn amser, i gysgu yr aeth Peredur i ystafell deg.

Tranoeth, Peredur trwy genad ei ewythr, a gychwynodd ymaith. Oddi-yno efe a ddaeth i goed; ac yn mhell yn y coed, efe a glywai waedd. A gwraig wineu brydferth a welai, a march a chyfrwy arno yn sefyll gerllaw. Yn ei hynyl yr oedd corff marw, a hithau yn ccisio codi y corff i'r cyfrwy ar y march; ond gan nas medrai, ac yntau yn syrthio i'r llawr, hi a godai waedd wylofus. 'Dywed, fy chwaer,' ebe Peredur, 'pahan yr wyt yn wylofain?' 'O! ie, Peredur ysgymunedig, bychan o wared a gafodd fy ngofid genyt ti erioed.' 'Pahan,' ebe Peredur, 'yr wyf i yn ysgymun?' 'Am dy fod yn achos i ladd dy fam; canys pan gychwynaist ymaith o'i hanfodd, y neidiodd gwaew i'w chalon, ac o hyny y bu hi farw.

Am hyny yr ydwynt yn ysgymun; a'r corr a'r gorres welaist yn Llys Arthur, corriaid dy dad a'th fam oeddynt. A chwaer i ti wyf inau, a'm gwr priod oedd hwn, a'r marchog sydd yn y llanerch yn y coed a'i lladdodd; ac na ddos dithau ar ei gyful ef rhag dy ladd ganddo yr un modd.' 'Fy chwaer, cam yw i ti fy ngheryddu; gan i mi aros cyhyd gartref gyda chwi, nes o'r braidd y gallaf orchfygu y marchog hwn; a phed arosaswn yn hwy, nis gallaswn ychwaith. Tithau, taw bellach â'th wylofain, gan na thycia; minau a gladdaf y corff, ac wedi hyny âf i'r lle y mae y marchog er ceisio dial arno.' Ac wedi claddu y gwr, hwy a ddaethant i'r lle yr oedd y marchog, ac a'i cawsant yn marchogaeth yn falch ryfygus yn y llanerch; ac efe a ofynodd i Peredur o ba le y deuai. 'O Lys Arthur,' ebe yntau. 'Ai gwr i Arthur wyt ti?' 'Ie, myn fy nghred.' 'Gwr iawn i'w wasanaethu yw Arthur!' Ac yn y fan a'r lle, ymladd a wnaethant; a Pheredur a fwriodd y marchog; ac efe a ddeisyfodd ei nawdd. 'Nawdd a gei,' ebe Peredur, 'trwy gymeryd y wraig hon yn briod, a rhoddi y parch a'r anrhydedd goreu a ellych iddi, am i ti ladd ei gwr priod hi yn ddiachos; a myned ohonot i Lys Arthur, a mynegi iddo mai myfi a'th fwriodd er anrhydedd a gwasanaeth iddo ef. Mynega hefyd iddo na ddeuaf i i'w Lys ef hyd oni ymgaffwyf â'r gwr hir sydd yno er dial arno sarhad y corr a'r gorres.' Ac efe a gymerth ernes am gyflawniad hyn oll gan y marchog. A'r marchog a ddarparodd farch a dillad i'r wraig, ac a'i dug gydag ef i Lys Arthur. Yno efe a fynegodd yr hanes, a'r bygythiad a'r Gai. A cherydd a gafodd Cai gan Arthur a'r teulu am iddo wylltio gwas cystal a Pheredur o'r Llys.

Ebe Owain ab Urien, 'Ni ddaw y llanc hwnw byth i'r llys, onid êl Cai allan.' 'Myn fy nghred,' ebe Arthur, 'mi a chwiliaf holl anialweh Ynys Prydain am dano nes y caf ef, ac yna gwnaed y naill y gwaethaf i'r llall.'

Yntau Peredur a gychwynodd rhagddo, ac a ddaeth i goed anial, lle nis gwelai na dyn nac anifail, dim ond dyrysni a llyisiau; ac yn mhen y coed, gwelai gaer fawr a llu o dyrau cedyrn arni; ac yn agos i'r porth, yr oedd mwy o lysiau nag yn unlle arall. Ac efe a gurodd y porth hefo llafn ei waewffon. Ar hyny, dyma was cul melyngoch yn dyfod i fwch yn y gaer. 'Dewis, unben,' eb efe, 'pa un a agoraf i y porth i ti, yntê dweyd wrth y penaethiaid dy fod yma.' 'Dywed fy mod yma,' ebe Peredur, 'ac os mynir i mi ddyfod i mewn, mi a ddeuaf.' Y gwas a ddaeth drachefn, ac a agorodd y porth iddo; a phan ddaeth i'r neuadd, efe a welai ddeunaw o weision culion, cochion, o'r un faint, a'r un pryd, ac un wisg, ac un oed, a'r gwas a agorasai y porth iddo; a

da oedd eu moesau a'u gwasanaeth; ac wedi diosg ei arfau, ymddyddan a wnaethant âg ef. Ar hyn, dyma bum' morwyn yn dyfod o'r ystafell i'r neuadd; a'r forwyn benaf ohonynt, diau oedd ganddo na welsai erioed rian cyn hardded a hi, a hen wisg o sidan rhwylllog (a fuasai gynt yn dda) am dani; mor dyllog oedd ei dillad fel y gwelid ei chnawd drwyddynt, a gwynach oedd na blawd y crisiant (*crystal*). Ei gwallt a'i dwy ael, duach oeddynt na'r muchud (*jet*), a'r ddau fan coch bychain ar ei gruddiau, cochach oeddynt na'r dim cochaf. A'r forwyn a gyfarchodd well i Peredur, ac a roes ei dwylaw am ei wddf, ac a eisteddodd yn ei ymyl. Yn fuan ar ol hyny, efe a welai ddwy fynaches yn dyfod, a chostrel yn llawn o win gan y naill, a chwe' torth o fara gan y llall. 'Arglwyddes,' ebynt hwy, 'Duw a wyr nad oes ond cymaint arall a hyn o fwyd a diod yn y Coveint (*Convent*) acw heno. Yna hwy a aethant i fwyta; a deallodd Peredur fod y forwyn yn mynu rhoddi mwy o'r bwyd a'r ddiod iddo ef nag i eraill. 'Fy chwaer,' eb efe, 'mi a ranaf y bwyd a'r ddiod.' 'Nage, enaid,' ebe hi. 'Myn fy ffydd, mi a'i rhanaf,' ebe Peredur. Ac efe a gymerth ato y bara, ac a roddes i bawb gystal a'u gilydd; ac a roes yr un mesur o'r ddiod i bawb fel eu gilydd. A phan oedd amser myned i gysgu, darparwyd ystafell i Peredur, ac i gysgu yr aeth.

Ac ebe'r gweision wrth y forwyn hono decaf a phenaf ohonynt, 'Y mae genym gyngor i ti.' 'Beth yw hyny?' ebe hi. 'Myned at y llanc i'r ystafell uchod, a chynyg dy hun iddo, naill ai fel gwraig neu gariadferch.' 'Hyny,' ebe hi, 'a fyddai anwedus; myfi heb achos erioed â gwr, yn cynyg fy hun iddo, cyn iddo ymserchu; ni allaf wneud hyny er dim.' 'Dygwn i Dduw ein cyffes,' ebynt hwy, 'oni wnei di hyny, y gadawn di i'th elynion i wneuthur a fynont â thi.' Rhag ofn hyny, y forwyn a gychwynodd, a than ollwng ei dagrau, a ddaeth rhagddi i'r ystafell; a chan dwrf y ddôr yn agor, Peredur a ddeffrodd. A'r forwyn oedd yn wylo ac yn ochain. 'Dywed,' fy chwaer,' ebe Peredur, 'paham yr wyt ti yn wylo?' 'Mi a ddywedaf i ti, arglwydd,' ebe hi, 'fy nhad oedd biau yr etfeddiaeth hon, a'r llys hwn, a'r iarllaeth sydd dani. Yna mab i iarll arall a'm ceisiai inau gan fy nhad; ac am na chymerwn i ef o'm bodd, ni roddai fy nhad fi o'm hanfodd iddo ef nac i un iarll arall yn y byd. Myfi oedd unig blentyn fy nhad; a phan fu ef farw, daeth y cyfoeth i mi; a mwy oedd fy ngwrthwynebiad iddo wed'yn na chynt. Felly efe a ddug ryfel yn fy erbyn, ac a oresgynodd yr holl gyfoeth oddieithr yr un ty hwn; a thrwy ddewrder y gwyr a welaist, y rhai ydynt frodyr maeth i mi, a chadernid y lle, nis gellid byth ei gymeryd tra fyddai ynddo fwyd a diod. A darfu y rhai hyny; eithr fod

y mynachesau a welaist ti yn ein porthi ni, gan fod y wlad yn rhydd iddynt hwy. Bellach, nid oes ganddynt hwythau na bwyd na diod. Ac yforu, fe ddaw yr iarll a'i holl lu gydag ef am ben y lle hwn; ac os syrthiaf i'w ddwyllaw, ni bydd gwell fy nhynged na'm rhoddi i weision ei feirch. Gan hyny, daethum i ofyn dy nawdd yn y wedd y byddai goreu genyt, naill ai i'm cymeryd ymaith, neu fy amddiffyn yma.' 'Dos i gysgu, fy chwaer,' eb efe, 'nid af oddiwrthyt nes gwneud yr hyn a ofyni, a cheisio bod yn nerth i chwi.' A'r forwyn a aeth yn ol i gysgu. Bore dranoeth hi a gyfododd, ac a ddaeth i'r lle yr oedd Peredur, ac a gyfarchodd well iddo. 'Duw a roddo dda iti, enaid,' eb efe, 'a pha newydd sydd genyt?' 'Dim ond fod yr iarll a'i holl lu wedi disgyn wrth y porth, ac ni weles neb erioed gynifer o bebyll, nac o farchogion yn galw am eraill i ymladd.' Ebe Peredur, 'Darparer i minau fy march,' a'i farch a ddarparwyd iddo, ac efe a gyfododd, ac a ddaeth i'r weirglodd. Yno yr oedd marchog yn marchogaeth yn falch ryfygus, wedi dyrchafu arwydd ymladd. Ac i ymladd yr aethant, a Pheredur a'i bwriodd ef tros bedrain (*crupper*) ei farch i'r llawr. Ac ar ddiwedd y dydd, y daeth marchog arbenig i ymladd âg ef, ac efe a daflodd hwnw hefyd. Hwnw a ddeisyfodd nawdd gan Peredur. 'Pwy wyt ti?' ebe yntau, 'Penteulu yr iarll,' eb efe. 'Beth sydd o gyfoeth yr iarll yn dy feddiant di?' 'Y drydedd ran'. 'ebe'r marchog. 'Adfer di iddi y drydedd ran o'i chyfoeth yn llwyr, a'r hyn a gefaist oddiwrtho, a danfon hyny heno i'r llys hwn iddi, a danfon heblaw hyny fwyd a diod i gant o ddynion, a meirch ac arfau iddynt, onide ni chaniataf i ti dy ddeisyfiad.' A hyny a wnaeth efe yn ddioed. A'r forwyn oedd yn hyfryd lawen y nos hono, wedi cael hyn oll.

Dranoeth, daeth Peredur i'r weirglodd, ac efe a daflodd luaws o farchogion y dydd hwnw. Ac ar ddiwedd y dydd, daeth marchog rhytygus arbenig yn mlaen i ymladd, ac ete a fwriodd hwnw hefyd, a nawdd Peredur a ddeisyfodd. 'Pwy wyt ti?' ebe Peredur. 'Distain (*steward*) llys yr iarll, 'eb efe. 'Beth sydd o gyfoeth y forwyn yn dy feddiant di?' 'Y drydedd ran,' eb efe. 'Ie,' ebe Peredur, 'dychwel y cyfoeth i'r forwyn, a'r holl dda a gefaist ti ohono yn llwyr, a chyda hyny fwyd a diod i ddau cant o wyr, a meirch iddynt ac arfau; a bydd di yn garcharor iddi.' A hyny a gafwyd yn ddioed.

A'r trydydd dydd y daeth Peredur i'r weirglodd, ac efe a daflodd

¹ Y *drydedd ran*.—Yn y gwreiddiol, defnyddir y gair 'trayan.' Yn ol Cyfreithiau Hywel Dda, yr oedd y distain a'r penteulu i gael y drydedd ran o rai o'r dirwyon, ac arferir y gair yno hefyd i'r un perwyl.

fwy y diwrnod hwnw, nag un dydd o'r blaen. Ac yn niwedd y dydd hwnw, y daeth yr iarll ei hun i ymladd âg ef; a Pheredur a'i bwriodd yntau, a'r iarll a ddeisyfodd ei nawdd. 'Pwy wyt ti?' eb efe. 'Myfi yw yr iarll, ni wadaf.' 'Ie,' ebe Peredur. 'dyro yr holl iarllaeth yn ol i'r forwyn, a'th iarllaeth dy hun hefyd yn ychwaneg; a bwyd a diod i dri chant o wyr, ac arfau a meirch iddynt heblaw hyny; a bydd dithau tan ei hawdurdod.' Ac felly o gwbl y bu. A Pheredur a drigodd yno dair wythnos yn peri teyrnged ac ufudd-dod i'r forwyn wrth ei chynghor. 'Trwy dy genad,' eb efe, 'mi a gychwynaf ymaith.' 'Ie, fy mrawd,' ebe hi, 'a raid i ti gael myned?' 'Rhaid, myn fy nghred,' eb efe, 'a phe na b'ai o gariad atat, ni buaswn yma cyhyd ag y bum.' 'Enaid,' ebe hi, 'pwy wyt ti?' 'Peredur mab Efrog o'r Gogledd; ac os daw arnat rhyw ofid neu enbydrwydd, danfon ataf, a mi a'th amddiffynaf os gallaf.'

Felly Peredur a gychwynodd ymaith; ac nid yn mhell oddiyno daeth marchoges i'w gyfarfod, ar farch teneu yn chwys trosto; a hi a gyfarchodd well iddo. 'O ba le y deui di, fy chwaer?' Hithau a ddywedodd wrtho yr achos o'i thaith. Gwraig ydoedd i Syberw y Llanerch. 'Ie,' eb efe, 'myfi ydyw'r marchog a fu yn achos iti o'r gofid hwn; ac edifar fydd i'r neb a'i gwnaeth.' Ar hyny, dyma y marchog yn dyfod, ac yn gofyn i Peredur a welsai efe y cyfryw farchog ag oedd ef yn ei geisio. 'Taw a'th son,' ebe Peredur, 'myfi wyt ti yn ei geisio; ac myn fy nghred, drwg yr ymddygi di a'r teulu at y forwyn, gan mai dieuog yw ohonof i.' Ac ymladd a wnaethant, ac ni bu hir nes y bwriwyd y marchog, ac efe a ddeisyfodd nawdd Peredur. 'Nawdd a geffi,' ebe Peredur, 'ond rhaid iti ddychwelyd y ffordd y daethost i fynegi fod y forwyn yn ddiuog; ac fel iawn am y cam a wnaethost, dywed imi dy fwrw.' A'r marchog a roddes ei lw ar hyny.

A Pheredur a gerddodd rhagddo; ac uwchlaw iddo, gwelai gastell, a thuag ato yr aeth, ac efe a darawodd y porth â'i waewffon. Ar hyny, dyma was gwineu prydferth, o faint milwr ac oedran bachgen, yn agor y porth; a phan ddaeth efe i'r neuadd, efe a welai wraig fawr hardd yn eistedd mewn cadair, a llawforwynion yn aml o'i chylch, a hi a fu yn llawen wrtho. A phan ddaeth hi yn amser, i fwyta yr aethant. Gwedi dartod bwyta, ebe hi, 'Unben, gwell fyddai i ti fyned i gysgu i le arall.' 'Paham na chawn i gysgu yma?' ebe Peredur. 'Naw gwiddon (*witoh*) y sydd yma, enaid, o Widdonod Caerloyw (*Gloucester*), ac y mae eu tad a'u mam gyda hwynt, ac nid oes a ddianc rhagddynt, ac y maent wedi goresgyn yr holl gyfoeth a'i ddyfetha, oddieithr y tŷ hwn.'

'Ie,' ebe Peredur, 'ni a aroswn yma heno; ac os daw rhyw niwaid i chwi, mi a'ch cadwaf rhagddo os gallaf, ac ni wnaif i fy hun i chwi un niwaid.' Ac i gysgu yr aethant; a chyda'r dydd, Peredur a glywai waedd ddychrynlyd; ac efe a gyfododd yn gyflym ac a wisges ei grys a'i lawdr (*breeches*), a'i gleddyf am ei wddf, ac allan y daeth. Yno gwelai widdon wedi dal gwyliwr, ac yntau yn gwaeddi. Ac efe a ymosododd ar y widdon, ac a'i tarawodd â'r cleddyf ar ei phen oni ledodd yr helm a'i phenwisg fel dysgl ar ei phen. 'Dy nawdd, Peredur deg fab Efrog,' ebe hi, 'a nawdd Duw.' 'Pa fodd, wrach, y gwyddost mai Peredur wyf i?' 'Tyngedfen a roes imi weledigaeth y cawn ofid genyt ti; ac y byddai i ti gymeryd march ac arfau genyf inau. A rhaid i ti aros gyda mi i ddysgu marchogwriaeth (*chivalry*), a thrin arfau.' 'Fel hyn,' ebe Peredur, 'y ceffi di fy nawdd. Tynga na wnelych di gamwedd byth yn nghyfoeth yr iarllles hon.' Ac efe a gymerodd ernes am hyny; a thrwy ganiatad yr iarllles, a gychwynodd ymaith gyda'r widdon i Lys y Gwiddonod, lle y bu am dair wythnos, ac y dewisodd ei farch a'i arfau, ac yna aeth i'w ffordd.

Yn niwedd y dydd efe a ddaeth i ddyffryn, ac yn mhen y dyffryn yr oedd cell meudwy (*hermit's cell*); a llawen fu y meudwy wrtho, ac yno y bu ef y nos hono. Bore dranoeth, efe a gododd oddiyno; a phan ddaeth allan, wele cawod o eira a ddisgynasai yn ystod y nos, ac yr oedd gwalch gwyllt wedi lladd hwyad gerllaw y gell; ond swu y march a ddychrynodd y gwalch, a brân a ddisgynodd ar y gelain farw. A sefyll a wnaeth Peredur, a chyffelybu duwch y frân, a gwynder yr eira, a chochni y gwaed; i wallt y wraig a garai fwyaf, yr hwn oedd can ddued a'r muchud (*jet*), a'i chnawd i wynder yr eira, a chochni y gwaed yn yr eira i'r ddau ysmotyng coch oedd ar ei gruddiau.

Ac yr oedd Arthur a'i deulu yn chwilio am Peredur. 'A wyddoch chwi,' ebe Arthur, 'pwy yw y marchog paladr hir a saif yn y nant uchod?' 'Arglwydd,' ebe un, 'mi a af i ofyn iddo pwy ydyw.' Ac efe a ddaeth at y fan yr oedd Peredur, ac a ofynodd iddo beth a wnai ef felly, a phwy ydoedd. Eithr ei feddwl ef oedd wedi ymgolli gymaint mewn myfyrdod ar y wraig a garai fwyaf, fel na roddes ateb iddo. Yna'r gwas a'i tarawodd â'u waewffon, a Pheredur a droes arno, ac a'i tafodd tros bedrain ei farch i'r llawr. Ar ei ol ef, y daeth pedwar gwas ar hugain ato ar yr un neges, ac nid atebai yntau yr un o honynt mwy na'i gilydd, eithr rhoddai yr un driniaeth i bob un, sef ei fwrw i'r llawr. Yna Cai a ddaeth ato, ac a draethodd ei genadwri yn arwffin a chwerw; a Pheredur a'i tarawodd ef

â'i waewffon o tan ei ên, ac a'i hyrddiodd oddiwrtho, nes y torodd ei fraich a gwaell ei ysgwydd (*shoulder blade*), ac yna a farchogodd drosto un waith ar hugain. A phan oedd Cai mewu llewyg fel hyn ar lawr, trwy y ðyrnodiau a gawsai, ei farch a droes yn ol ac ar dith chwyrn a ddaeth i'r man yr oedd Arthur a'i deulu. Hwytbau pan welsant y march yn dychwelyd heb y marchog, a gychwynasant ar frys tua'r lle y buasai'r ysgarmes; a phan ddaethant yno, meddylient fod Cai wedi ei ladd, ond cawsant, ond iddo gael meddyg da, y byddai byw. Ni symudodd Peredur o'i fyfyrdod mwy na chynt, er gweled yr helynt oedd yn nghylch Cai. A Chai a ddygwyd i babell Arthur, ac Arthur a barodd ddwyn meddygon cywrain ato; a drwg fu gan Arthur i Gai gyfarfod â'r gofid hwnw, canys efe a'i carai yn fawr.

Yna y dywedodd Gwalchmai, 'Ni ddylai neb gyffroi marchog urddawl oddiar ei fyfyrdod yn fyrbwyll; canys meddwl y mae naill ai am rhyw golled a ddaeth iddo, neu am y wraig a gâr fwyaf; a'r byrbwylldra hwnw fu yr achos o adfyd yr hwn a ymweles ddiweddaf âg ef. Ac o bydd da genyt ti, arglwydd, mi a af i edrych a symudodd y marchog oddiar y meddwl hwnw; ac os felly, mi a archaf iddo yn addfwyn ddyfod i ymweled â thi.' Ac yna Cai a sorodd, ac a ddywedodd eiriau dig cenfigenus, 'Gwalchmai,' eb efe, 'diau y deui di âg ef trwy addfwynder. Clod bychan er hyny a haeddit am orfod ar farchog lluddedig, wedi blino yn ymladd. Felly y gorfuost ti ar lawer cyn hyn; a thra bo genyt dafod a geiriau teg, ni raid iti wrth arfau. Pais o lian teneu a fydd yn ddigon am danat; ac ni bydd raid iti dori gwaewffon na chleddyf er ymladd â marchog a geffych yn nghyflwr y marchog hwn.' Yna Gwalchmai a atebodd Cai:—'Ti a allet draethu ymadroddion hawddgarwch, pe mynit; ac nid arnaf i y dylit ddial dy lid a'th ddigofaint. Tebygol genyf i y dygaf y marchog yma heb imi gael tori na braich nac ysgwydd.' Yna y dywedodd Arthur wrth Gwalchmai, 'Geiriau doeth a phwyllog a ddywedi di. Dos rhagot, a chymer ddigon o arfau am danat, a dewis dy farch.' A Gwalchmai a wisges ei arfau, ac a farchogodd yn frysiog tua'r fan yr oedd Peredur, yr hwn a gafodd efe fyth yn myfyrio yr un meddwl ac yn gorphwys ar baladr ei waewffon¹.

A Gwalchmai a ddaeth ato heb un arwydd gelyniaeth, ac a ddywedodd wrtho, 'Pe gwyddwn y byddai cystal genyt ti ag yw genyf i, mi

¹ Y mae cymeriadau cyffredinol y ddau farchog yn cael eu harddangos yma yn dra nerthol. Cai yn fyrbwyll, trahaus, ac aflwyddianus yn ei neges; Gwalchmai yn bwylllog, llariaidd, ac yn cyrhaedd ei amcan ei hun tra yn enill ar yr un pryd serch a chyfeillgarwch Peredur.

a ymddiddanwn â thi. Cenadwr ydwyf i oddiwrth Arthur atat, yn atolwg iti ddyfod i ymweled âg ef. A bu dau wr ar yr un neges hon o'm blaen i.' 'Gwir yw hyny,' ebe Peredur, 'ac anhawddgar y daethant. Ymladd a wnaethant â mi, ac nid oedd dda genyf inau hyny, gan nad oedd dda genyf gael tynu fy sylw oddiar yr hyn y meddylw'n am dano. Meddwl yr oeddwn am y wraig a garwn fwyaf; ac hyn a barodd imi feddwl—edrych yr oeddwn ar yr eira, ac ar y frân, ac ar y dafnau o waed yr hwyad a laddasai gwalch yn yr eira. A meddwl yr oeddwn fod ei gwynder yn debyg i'r eira, a'i gwallt a'i haeliau yn debyg i'r frân, a bod y ddau fan coch ar ei dwy rudd yn debyg i'r ddau ddefnyn o waed.' Ebe Gwalchmai, 'Nid anfoneddigaidd oedd y meddwl hwnw; ac nid rhyfedd dy fod yn anfoddlawn i gael dy ddwyn oddiwrtho.' Ebe Peredur. 'A ddywedi di imi, a ydyw Cai yn Llys Arthur?' 'Ydyw,' ebe yntau, 'ac efe oedd y marchog diweddaf a ymladdodd â thi; ac ni bu da iddo o'r ymladd hwnw; efe a dorodd ei fraich ddeheu a gwaell ei ysgwydd yn y cwmp a gafodd oddiwrth dy baladr di.' 'Ie.' ebe Peredur, 'nid yw yn ddrwg genyf ddechreu dial y sarhad ar y corr a'r gorres.' A Gwalchmai a ryfeddodd ei glywed yn son am y corr a'r gorres, ac a ddynesodd ato, ac a roes ei ddwylaw am ei wddf, gan ofyn beth oedd ei enw. 'Peredur ab Efrog i'm gelwir,' eb efe; 'a phwy wyt tithau?' 'Gwalchmai i'm gelwir i,' ebe yntau. 'Da yw genyf dy weled,' ebe Peredur, 'dy glod a glywais yn mhob gwlad am filwriaeth a chywirdeb, a'th gyfeillgarwch a atolygaf.' 'Ti a'i cei, myn fy nghred,' ebe Gwalchmai, 'a dyro i mi yr eiddot tithau.' 'Ti a'i cei yn llawen,' ebe Peredur.

A hwy a aethant yn nghyd, yn hyfryd a chyttun, tua'r lle yr oedd Arthur; a phan glybu Cai eu bod yn dyfod, efe a ddywedodd, 'Mi a wyddwn na byddai raid i Walchmai ymladd â'r marchog, ac nid rhyfedd yw ei fod yn cael y fath glod. Gwna ef fwy hefo'i eiriau teg, na myfi o nerth ac arfau.' Ac aeth Peredur a Gwalchmai i babell Gwalchmai er diosg eu harfau; a Pheredur a wisgodd yn gyffelyb i Walchmai, a myned a wnaethant law yn llaw i'r lle yr oedd Arthur, a chyfarch gwell iddo. 'Arglwydd,' ebe Gwalchmai, 'dyma'r gwr yr ydwyf er's talm yn ei geisio.' 'Croesaw iti unben,' ebe Arthur, 'a chyda mi y trigi bellach, a phe gwybuaswn y buasai dy gynydd fel y bu, ni chawsit fyned oddiwrthyf fel yr aethost. Hyny, modd bynag, a brophwydodd y corr a'r gorres, y rhai a gamdriniodd Cai, ac ar yr hwn y dialaist tithau.' Ar hyny, wele y frenhines a'i llawforwynion yn dyfod, a chyfarch gwell a wnaeth Peredur iddynt. Llawen fuant hwythau wrtho, a'i groesawu a wnaethant. Parch

anrhydedd mawr a roddes Arthur i Peredur; a hwy a ddychwelasant i Gaerlleon.

A'r nos gyntaf y daeth Peredur i Lys Arthur yn Nghaerlleon, wedi bwyta, efe a rodiai yn y gaer, ac wele Angharad Law Eurawg yn cyfarfod âg ef. 'Myn fy nghred, fy chwaer,' ebe efe, 'morwyn hawddgar wyt, a phe da genyt, mi a allwn dy garu yn fwy nag un forwyn.' 'Mi a roddaf fy nghred,' ebe hi, 'na charaf i dydi, ac na'th fynaf yn dragwyddol,' 'Minau a dyngaf,' ebe Peredur, 'na ddywedaf air byth wrth Gristion nes iti gydnabod dy fod yn fy ngharu yn fwy nag un gwr arall!'

Tranoeth, Peredur a gerddodd ymaith ar brif-ffordd ar hyd cefn mynydd, ac efe a welai ddyffryn crwn, gororau yr hwn oedd yn goediog a charegog, a gwastad y dyffryn oedd yn weirgloddiau, a goriwaered rhwng y gweirgloddiau a'r coed. Ac yn mynwes y coed, gwelai dai duon lawer a gwaith garw arnynt. Disgyn a wnaeth, ac arwain ei farch tua'r coed, ac heb fod neppell yn y coed, efe a welai graig serth, a'r ffordd yn rhedeg gydag ochr y graig, a llew yn rhwym wrth gadwyn yn cysgu a'r astell o'r graig, a phwll dwfn anferthol ei faint a welai o dan y llew a'i lonaid o esgyrn dynion ac anifeiliaid. Ac efe a dynodd ei gleddyf, ac a darawodd y llew oni syrthiodd tros y dibyn wrth ei gadwyn uwch ben y pwll. Ac efe a roes yr ail ddymod i'r gadwyn, nes y torodd, a'r llew a syrthiodd i'r pwll. Yna efe a arweiniodd ei farch tros lechwedd y graig hyd nes y daith i'r dyffryn.

Ac efe a welai yn nghanol y dyffryn gastell teg, a thuag ato yr aeth. Ac ar y weirglodd wrth y castell, gwelai wr llwyd yn eistedd, mwy o faint na'r un gwr a welsai erioed, a chyda hyny, ddau was ieuanc yn saethu carnau eu cyllyll o asgwrn morfil (*whalebone*)—y naill ohonynt yn was gwineu, a'r llall yn was melyn. Peredur a aeth rhagddo at y gwr llwyd, ac a gyfarchodd well iddo. 'Mefi ar farf fy mhorthor (*porter*),' ebe'r gwr llwyd; a Pheredur a ddeallodd mai y llew oedd ei borthor. Yna y gwr llwyd a'r gweision a ddaethant i'r castell, a Pheredur a ddaeth gyda hwynt. Lle teg anrhydeddus a welai ef yno; ac i'r neuadd yr aethant, a'r byrddau oeddynt wedi eu codi, a bwyd a diod ddigonedd arnynt, Ar hyny, efe a welai wraig hen a gwraig ieuanc yn dyfod o'r ystafell; ac yr oeddynt y gwragedd mwyaf a welsai erioed. Wedi ymolchi, i fwyta yr aethant; y gwr llwyd oedd yn mhen uchaf y bwrdd, a'r wraig hen yn nesaf ato; a a Pheredur a'r forwyn a ddodwyd yn nghyd; a'r ddau was ieuanc yn

¹ Yr oedd ymdyngbedu i gyflawni rhyw wag orchest fel hyn yn beth cyffredin yn nyddiau Marchogwriaeth.

gwasanaethu amynt. Ac edrych a wnaeth y forwyn ar Peredur, a thristhau; yntau a ofynodd iddi achos ei thristwch. 'Tydi, enaid,' ebe hi, 'er pan y'th welais gyntaf, a gerais yn fwyaf gwr; a thost yw genyf feddwl am y dynged gyferfydd yforu i was mor foneddigaidd a thi. A welaist ti yr aml dai duon sydd yn ochr y coed? gwyr i'm tad, y gwr llwyd acw, sydd yn byw yn yr oll ohonynt, a chewri ydynt oll; ac yforu hwy a gyfodant yn dy erbyn, ac â'th laddant. Y Dyffryn Crwn y gelwir y dyffryn hwn.' 'Ol ie, forwyn deg,' ebe Peredur, 'a beri di fod fy march i a'm harfau yn yr un lletty a mi heno?' 'Rhyngof i a Duw,' ebe hi, mi a'i paraf, os gallaf, yn llawen.'

Pan ddaeth amser fod yn well ganddynt gysgu na chyfeddach, i gysgu yr aethant; a'r forwyn a barodd fod march ac arfau Peredur yn yr un lletty ag ef. Tranoeth, clywai drwst gwyr a meirch o gyleh y castell; ac efe a gyfododd, ac a wisgodd arfau am dano ac am ei farch, ac a ddaeth i'r weirglodd. A daeth y wraig hen a'r forwyn at y gwr llwyd, gan ddywedyd, 'Arglwydd, cymer air y llanc dycithr na bydd iddo ddweyd dim o'r hyn a welodd yma; a nyi a fyddwn wystlon trosto.' 'Na cymeraf, myn fy nghred,' ebe y gwr llwyd. A Pheredur a ymladdodd â'r llu; ac erbyn yr hwyr, yr oedd wedi lladd y drydedd ran ohonynt, ac heb dderbyn ei hun unrhyw niwaid. Yna y dywedodd y wraig hen, 'Y mae'r llanc wedi lladd llawer o'th lu; dyro nawdd iddo.' 'Na roddaf, myn fy nghred,' ebe'r gwr llwyd. A'r wraig hen a'r forwyn deg oeddynt yn gwylid yr ymladdfa oddiar fwlech yn y gaer. Yna Peredur a gyfarfu â'r gwas melyn, ac a'i lladdodd. 'Arglwydd,' ebe'r forwyn, 'dyro nawdd i'r llanc.' 'Na roddaf, rhyngof i a Duw,' ebe'r gwr llwyd. Yna Peredur a gyfarfu â'r gwas gwinan, ac a'i lladdodd. 'Buasai'n well iti pe rhoddasit nawdd i'r llanc cyn iddo ladd dy ddau fab, ac o'r braidd y bydd i tithau dy hun ddiane,' 'Dos dithau, forwyn,' eb efe, 'ac atolwg ar y llanc rodidi nawdd i mi; yr ydym ni yn ymostwng iddo.' A'r forwyn a ddaeth i'r man yr oedd Peredur, ac a atolygodd ei nawdd i'w thad, ac i'r sawl a ddiangesynt o'i wyr yn fyw. 'Nawdd a geiff,' ebe yntau, 'ar yr amod fod iddo ef, a phawb sydd dano, fyned i ymostwng i'r Ymherawdwr Arthur, a dywedyd wrtho mai Peredur, gwr iddo ef, a wnaeth y gwasanaeth hwn.' 'Myn y Nefoedd, mi a wnawn hyny yn llawen,' ebe hi. 'A rhaid i chwi,' eb efe, 'gymeryd eich bedyddio, a minau a ddanfona at Arthur i ddeisyf arno rodidi y dyffryn hwn i ti, ac i'th etifedd byth ar ol hyny.' Yna hwy a aethant i mewn, a'r gwr llwyd a'r wraig fawr a gyfarchasant well i Peredur. A'r gwr llwyd a ddywedodd wrtho, 'Er pan ydwyf yn meddu y dyffryn hwn, ni welais Gristion ond tydi

yn myned oddiyma â'i fywyd ganddo, Ninau a awn i ymostwng i Arthur, ac i gymeryd Cred a Bedydd,' Ebe Peredur, 'Diolchaf inau i Dduw na thorais fy llw wrth y wraig a garaf fwyaf, sef na ddywedwn un gair wrth Gristion.'

Trigasant yno y nos hono. Tranoeth, y gwr llwyd a'i nifer gydag ef a aethant i Lys Arthur, ac a ymostyngasant iddo. Ac Arthur a barodd eu bedyddio; a'r gwr llwyd a'i hysbysodd mai Peredur a'i trechasai ef. Ac Arthur a roddes i'r gwr llwyd a'i nifer y dyffryn yw gynal tano ef. yn ol fel y deisyfasai Peredur; a thrwy genad Arthur, hwy a ddychwelasant i'r Dyffryn Crwn.

Peredur yntau dranoeth a gerddodd rhagddo trwy diriogaeth fawr ddi-faeth heb ynddi dŷ cyfanedd. O'r diwedd, efe a ddaeth at dŷ bychan a thlawd, lle y clywodd fod yno sarph yn gorwedd ar fodrwy au, yr hon nid adawai dŷ cyfanedd am saith milldir o gwmpas iddi. A Pheredur a ddaeth i'r lle y clywai fod y sarph, ac a ymladdodd â hi yn llidiog, dewr, a ffyrnig-wyllt. O'r diwedd, efe a'i lladdodd, ac a gymerth y fodrwy iddo ei hun. Ac felly y bu ef yn cerdded yn hir heb ddywedyd yr un gair wrth neb rhyw Gristion, nes yr oedd yn colli ei liw a'i wedd o hiraeth ar ol Llys Arthur, a'r wraig a garai fwyaf, a'i gydymdeithion.

Yna, efe a gerddodd rhagddo tua Llys Arthur; ac ar y ffordd, cyfarfu âg ef deulu Arthur yn myned ar neges, a Chai o'u blaen. Efe a'i hadwaenai hwynt oll, eithr nid adwaenai yr un ohonynt hwy mohono ef. 'O ba le y daethost ti, umben?' ebe Cai wrtho ddwywaith a theirgwaith; eithr nid atebai Peredur. Yna Cai a'i gwanodd ef â'i waewffon trwy ei forddwyd. Ond rhag iddo ddywedyd gair, a felly dori ei lw, efe a aeth heibio, heb ymddial arno. Yna y dywedodd Gwalehmai, 'Rhyngof i a Duw, Cai, drwg oedd iti archolli llanc fel hwn na allai siarad;' ac efe a droes yn ol i Lys Arthur. 'Arglwyddes,' eb efe wrth Wenhwysfar, 'a weli di gyflafan cyn ddihired a wnaeth Cai ar y llanc hwn, yntau yn tudan? er Duw, ac crof inau, pâr di ei feddiginiaethu ef erbyn y dychwelwyf, a mi a dalaf y pwyth¹ i ti.'

A chyn dyfod y gwyr yn ol o'u neges, daeth marchog i'r weirglodd yn ymyl Llys Arthur, yn herio gwr i ymladd âg ef. Peredur a dderbyniodd yr her, ac a'i trechodd; a threchai farchog bob dydd am wythnos. Un diwrnod, yr oedd Arthur a'r teulu yn myned i'r eglwys, a gwelent farchog wedi dyrchafu arwydd ymladd. 'Ha! wyr,' ebe Arthur, 'myn

¹ *Talu'r Pwyth*.—Ffurf ymadrodd wedi ei fenthyca o'r hen arferiad Gymraeg o roddi a thau anrhegion priodas, y rhai a elwid *Pwythlion*.

eich dewrder, nid af i oddiyma hyd omi chaf fy march a'm harfau i dafu yr iancwr acw.' A gweision a aethant i geisio ei farch a'i arfau iddo. A Pheredur a gyfarfu a'r gweision yn myned heibio, ac a gymerth y march a'r arfau, ac a aeth ei hun i'r weirglodd. Pan ei gwelsant ef yn cyfodi i fyned i ymladd â'r marchog, pawb a frysient i benau'r tai, a'r bryniau, a lleoedd uchel, er gweled yr ymladdfa. A Pheredur a amneidiodd â'i law ar i'r marchog ddechreu arno, a'r marchog a ymosododd, eithr nid ysgogodd Peredur er hyny. Yna Peredur a yspardynodd ei farch, ac a ruthrodd ato yn lliodiog, ffyrnig, chwym, a diwrthgil, ac a'i gwanodd hefo dyrnod llym-wenwynig, tost, beiddgar, milwraidd, o dan ei ddwy ên, nes ei godi o'r cyrwy, a'i luchio bellder mawr oddiwrtho. Yna Peredur a adawodd y march a'r arfau i'r gweision fel o'r blaen, ac a ddychwelodd ar ei draed i'r Llys; a'r 'Marchog Mud' y gelwid ef. A daeth Angharad Law Eurawg i'w gyfarfod. 'Erof i a Duw, unben,' ebe hi; 'gresyn nad ellit siarad; pe gellit siarad, mi a'th garwn yn fwy nag un dyn arall; ac myn fy nghred, er nas gelli, mi a'th garaf felly.' 'Duw a dalo iti, fy chwaer,' ebe Peredur, 'myn fy nghred, minau a'th garaf dithau.' Yna y gwybuwyd pwy oedd Peredur; ac efe a gyfeillachodd hefo Gwalchmai, ac Owain ab Urien, ac hefo pawb o'r teulu; ac a drigodd yn Llys Arthur.

ARTHUR oedd yn Nghaerlleon ar Wysg; ac efe a aeth allan i hela, a Pheredur gydag ef. A Pheredur a ollyngodd ei gi ar hydd (*hart*), a'r ci a laddodd yr hydd mewn diffeithweh. Yna efe a welai arwydd tŷ, ac a aeth tuag ato; ac efe a welai neuadd, a cher drws y neuadd yr oedd bechgyn ieuaine difarf, cethin, yn chwareu gwyddbwyll¹. A phan aeth i mewn, gwelai dair morwyn yn eistedd ar faine, a gwisgoedd am danynt fel y gweddai i ferched uchelradd. Yntau a aeth i eistedd atynt ar y faine; ac un ohonynt a edrychodd arno yn graff, ac a wylodd. A Pheredur a ofynodd iddi paham yr wylai. 'Gan ofid meddwl mai ei ladd a geiff gwas cyn deced a thi.' 'Pwy a'm lladd i?' ebe Peredur. 'Pe gwyddwn y rhwystrai hyny iti aros yn y lle hwn, mi a'i dywedwn.' ebe hi. 'Er maint fy mherygl,' ebe yntau, 'mi a'i gwrandawaf.' 'Y gwr sydd dad i mi,' ebe'r forwyn, 'biau y llys hwn; ac efe a ladd bawb a ddel i'r llys heb ei genad.' 'Pa fath ddyn yw eich tad chwi, pan y gall ladd

¹ *Gwyddbwyll*.—O 'Bedair Camp ar Hngain' yr Hen Gymry, yr oedd pedair a elwid yn Gogampau, sef:—1, Chwareu Gwyddbwyll (*Chess*); 2, Chwareu Towlbwrdd (*Quoits*); 3, Chwareu Ffristial (*Dice*); a Chyweiriaw Telyu.

pawb felly?’ ‘Gwr ydyw sydd yn gwneud trais ac anfodd ar ei gymydogion; ac ni wna gyfiawnder â neb.’ Yna efe a welai y gweision yn cyfodi, ac yn arllwys y werin (*chessmen*) oddiar y bwrdd. Ac efe a glywai dwrf cryf; ac ar ol y twrf, gwelai ddyn du mawr unllygeidiog yn dyfod i mewn; a’r morwynion a gyfodasant i’w dderbyn a diosg ei wisg oddiam dano. Yntau a aeth i eistedd; ac wedi gorphwys ac ymbwyllo, efe a edrychodd ar Peredur, ac a ofynodd pwy oedd y marchog. ‘Arglwydd,’ ebe un o’r morwynion, ‘y gwas ieuanc tecaf a boneddigeiddiaf a weleist ti erioed. Ac er Duw, ac er dy anrhydedd, bydd bwyllog wrtho.’ ‘Erot ti, mi a ymbwyllaf, ac a roddaf ei fywyd iddo heno.’ Yna Peredur a ddaeth atynt wrth y tân, ac a gymerodd fwyd a diod, ac a ymddyddanodd â’r rhanod. A than effeithiau y ddiod, eb efe wrth y gwr du, ‘Rhyfedd yw genyf, os wyt ti cyn gryfed ag y dywedi dy fod, pwy allodd dyuu dy lygad?’ ‘Y mae yn ddeddf genyf,’ ebe’r gwr du, ‘pwy bynag a ofyn i mi yr hyn a ofynaist ti, na chaiff ei fywyd genyf, yn rhad nac er gwerth.’ ‘Arglwydd,’ ebe’r forwyn, ‘pa beth bynag a ddywed ef wrthyt mewn ysmaldod tan effaith y ddiod, cadw dy air a ddywedaist gyneu, ac a addewaist wrthyf.’ ‘Mi a wnaaf hyny yn llawen erot ti,’ ebe’r gwr du, ‘mi a adawaf iddo ei fywyd heno.’ Ac felly y buont y nos hono.

Dranoeth, cododd y gwr du, ac a wisgodd ei arfau am dano, ac a dywedodd wrth Peredur, ‘Cyfod i fynu, ddyn, i ddiodeff argau.’ Peredur a’i hatebodd, ‘Y gwr du, os ymladd a fyni, naill ai diosg dy arfau oddiam danat; neu dyro arfau eraill i minau i ymladd â thi.’ ‘Ha! ddyn,’ eb efe, ‘a fedrit ti ymladd pe ceit arfau? cymer yr arfau a fynot.’ Ac ymladd a wnaethant hyd oni fu raid i’r gwr du erfyn nawdd Peredur. ‘Y gwr du,’ ebe Peredur, ‘ti a gei nawdd os dywedi pwy ydwyt, a phwy a dynodd dy lygad.’ ‘Arglwydd,’ eb efe, ‘mi a ddywedaf. Ymladd y bum â’r Pryf Du o’r Garn. Y mae yno grug (*mound*) a elwir yn Grug Galar, ac yn y crug y mae carnedd, ac yn y garnedd y mae pryf, ac yn nghynffon y pryf y mae maen; a rhinweddau y maen ydynt, pwy bynag a’i caiff yn un llaw a fyno o aur a gaiff yn y llaw arall. Ac yn ymladd â’r pryf hwnw y collais i fy llygad. A’m henw yw y Du Trahawe; a’r achos y’m gelwid y Du Trahawe ydoedd am nad oedd neb o’m cylch a’r nas gorthrymwn, a chyfiawnder nis gwnawn i undyn.’ ‘Ie,’ ebe Peredur, ‘pa mor bell yw y pryf hwnw?’ ‘Y dydd y cychwyni oddiyma, ti a ddeui i lys meibion Brenin y Dioddefaint.’ ‘Paham y

gelwir hwynt felly?' 'Addanc y Llyn¹ a'u lladd hwynt unwaith bob dydd. Oddiyno ti a ddeui i lys Iarles y Campau.' 'Pa gampau,' ebe Peredur, 'sydd arni hi?' 'Y mae ei theulu yn cynwys tri chant o wyr; a dywedir campau y teulu wrth bob gwr dyeithr a ddel i'r llys. A'r tri-chanwr a eistedd yn nesaf i'r arglwyddes, a hyny nid er amharch ar y gwesteion (*guests*) eithr fel y dywedont gampau y teulu. Oddiyno ti a ddeui i'r Crug Galarus, lle y mae perchenogion tri chant o bebyll oddeutu y crug yn gwarchod y pryf.' 'Gan i ti fod o gymaint gormes, am gyhyd o amser,' ebe Peredur, 'mi a wnafr na byddi felly mwyach,' a Pheredur a laddodd y gwr du.

A'r forwyn a ddechreuasai ymddyddan âg ef a ddywedodd, 'Os oeddit dlawd yn dyfod yma, cyfoethog fyddi bellach o drysor y gwr du a leddaist; a thi a weli y morwynion hawddgar sydd yn y llys hwn, ti a gei yn gariadferch yr un a fynot ohonynt.' 'Ni ddaethum i yma o'm gwlad, arglwyddes, er gwreica; namyn bydded i'r gweision hawddgar a welaf yma ymgyplysu bawb ohonoch â'ch gilydd fel y mynoch; a dim o'ch da nis mynaf, ac ni raid imi wrtho.' Oddiyno Peredur a aeth rhagddo, ac a ddaeth i lys meibion Brenin y Dyoddefaint; ac yn y llys ni welai ond gwragedd, a'r gwragedd a gyfodasant i'w dderbyn, ac a fuant lawen wrtho: ac fel yr oedd yn dechreu ymddyddan, wele farch a chyfrwy arno yn dyfod, a chelain [corff] yn y cyfrwy. Ac un o'r gwragedd a gyfododd i fynu, ac a gymerth y gelain o'r cyfrwy, ac a'i heneiniodd mewn cawg o ddwfr twym oedd islaw y drws, ac a ddodes eli gwerthfawr arno. A'r gwr a gyfododd yn fyw, ac a ddaeth i'r lle yr oedd Peredur, ac a'i croesawodd, ac a fu lawen wrtho. Dau wr eraill hefyd a ddaethant i mewn yn eu cyfrwyau, a'r un modd y triniodd y forwyn y ddau hyn a'r cyntaf. Yna y gofynodd Peredur i'r unben paham yr oeddynt felly, a hwythau a ddywedasant fod Addanc mewn ogof yn eu lladd unwaith bob dydd. Ac felly y buant y noson hono.

Dranoeth cyfododd y llanciau i fyned rhagddynt, a deisyfodd Peredur, er mwyn y rhai a garent, adael iddo ef fyned gyda hwynt. Hwythau a omeddasant, gan ddywedyd, 'Pe lleddid di yno, nid oes iti ddim a'th wnelai yn fyw drachefn.' A hwy a gerddasant rhagddynt, a Pheredur a gerddodd yn eu hol. Pan oeddynt hwy wedi myned o'i olwg, efe a ddaeth

¹ *Addanc y Llyn*.—Rhyw anghenfil cyfrin a grybwyllir yn y *Trioddell*, 'Tri phrif orchestwaith Ynys Prydain: Llong Nefydd Naf Neifion, a ddug ynddi wryw a benyw o bob byw bann dorres Llynn Llion; ac Ychain Bannog Hu Gadarn, a lusgasant Afanc y Llyn i dir, ac ni thorres y Llyn mwyach; a Main Gwyddon Ganhebon, lle y darllenid arnynt holl gelfyddydau a gwybodau y byd.'—*Tri* 97.

at grug ar yr hwn yr eisteddai y wraig decaf a welsai erioed. 'Mi a wn dy hynt di,' ebe hi, 'myned yr ydwyt i ymladd â'r Addanc, ac efe a'th ladd nid trwy nerth ond trwy ystryw. Y mae ganddo ogof, ac ar ddrws yr ogof y mae piler careg; a thra y gwel ef bawb a ddaw i mewn, nis gall neb ei weled ef; ac o gysgod y piler efe a ladd bawb hefo saeth wenwynig. A phe tynget ti y byddai i ti fy ngharu i yn fwy nag un wraig, mi a roddwn i ti faen fel y gellit ei weled ef pan elit i mewn. ac ni welai ef dydi.' 'Tyngaf, myn fy nghred,' ebe Peredur; 'er pan y'th welais gyntaf, mi a'th gerais. Pa le y ceisïaf i dydi?' 'Pan y ceisï fi, cais fi tua'r Indla.' Ac wedi rhoddi y gareg yn llaw Peredur, y forwyn a ddiflanodd.

Yntau a aeth rhagddo, ac i ddyffryn âg afon ynddo; a gororau y dyffryn oedd yn goed, ac o bob tu i'r afon yr oedd gweirgloddiau gwas-tad. Ac ar un tu i'r afon, gwelai ddeadell o ddefaid gwynion, ac ar y tu arall ddeadell o ddefaid duon; ac fel y brefai un o'r defaid gwynion, y deuai un or defaid duon trwodd, ac y byddai yn wen; ac fel y brefai un o'r defaid duon, y deuai un o'r defaid gwynion trwodd. ac y byddai yn wen; ac fel y brefai un o'r defaid duon, y deuai un o'r defaid gwynion trwodd, ac y byddai yn ddu. Ac ar lan yr afon efe a welai bren hir, a'r naill haner iddo yn llosgi o'r gwraidd hyd ei flaen; a'r haner arall â dail ir arno. Ac uwchlaw hyny, efe a welai wr ieuanc yn eistedd ar ben crug; a dau filgi bronwynion, brychion, mewn cynllyfanau (*leashes*) gerllaw; ac yr oedd yn sier na welsai erioed wr ieuanc â golwg mor urddasol arno. Ac yn y coed gyferbyn, efe a glywai helgwn yn codi haid o geirw. Ac efe a gyfarchodd well i'r gwr ieuanc, ac yntau a gyfarchodd well i Peredur. A thair ffordd a welai Peredur yn myned oddiwrth y crug, dwy ffordd fawr, a'r drydedd yn llai; ac a ofynodd, 'Pa le yr â y tair ffordd hyn?' 'Un ohonynt a â i'm llys i. A mi a'th gynghoraf i wneud un o ddau beth, naill ai myned i'm llys i rhag dy flaen, at fy ngwraig; neu aros yma, a thi a gei weled yr helgwn yn ymlid yr hyddod blin o'r coed i'r maes, a thi a weli y milgwn goreu a glewaf mewn helfa a welaist erioed, yn lladd yr hyddod wrth y dwfr hwn ger ein llaw. A phan fo amser i ni fyned am fwyd, fe ddaw fy ngwas â march i'm cyfarfod, a thi a gei lawenydd acw heno.' 'Duw a dalo i ti,' ebe Peredur, 'nid arhosaf, eithr âf rhagof.' 'Y naill ffordd a â i'r ddinas sydd yn agos, lle y gelli gael bwyd a diod ar werth; â'r ffordd gulaf ohonynt sydd yn myned tuag Ogof yr Addanc.' 'Trwy dy genad, wr ieuanc, tuag yno yr âf i.'

A Pheredur a ddaeth at yr ogof, ac a gymerth y gareg yn ei law aswy, a'i waewffon yn ei law ddeheu. Ac fel yr elai i mewn efe a ganfu

yr Addanc, ac a'i trywanodd trwyddo, ac a dorodd ei ben ymaith. Ac fel y denai allan o'r ogof, wele yn ei gyfarfod ei dri chydymaith, a chyfarch gwell a wnaethant iddo, a dywedyd fod darogan y buasai iddo ef ladd yr ormes hono. A Pheredur a roddes y pen iddynt; a chynyg a wnaethant hwythau iddo yr un a fynai o'u tair chwaer yn briod, a haner eu breuhiniaeth gyda hi. 'Ni ddaethum i yma i wreica,' ebe yntau, 'phe mynwn un wraig, ysgatfydd eich chwaer chwi a fynwn yn nghyntaf.' A Pheredur a gerddodd rhagddo, ac efe a glywai dwrf o'i ol; a phan drodd i edrych, gwelai wr ar gefn march coch ac arfau cochion am dano. A'r gwr a ddaeth ar ei gyfer, ac a ddymunodd iddo ffafr Duw a dyn. Peredur a gyfarchodd well iddo yntau yn garedig. 'Arglwydd,' ebe'r gwr, 'dyfod i ofyn ffafr genyt yr ydwyf.' 'Beth a fyni di?' ebe Peredur. 'Fy nghymeryd yn was i ti.' 'Pwy a gymerwn i'n was pe cymerwn i dydi?' 'Ni chelaf i pwy ydwyf oddiwrthyt. Etlym Gleddyf Coch y'm gelwir, iarll o ystlys y Dwyrain.' 'Rhyfedd genyf dy fod yn cynyg dy hun yn wr i un nad oes ganddo fwy o gyfoeth na thithau; nid oes genyf inau ond iarllaeth. Ond gan fod yn wiw genyt ddyfod yn was i mi, mi a'th gymeraf yn llawen.'

A hwy a ddaethant i Lys yr Iarll, lle y cawsant dderbyniad llawen; a dywedwyd wrthynt nad er ammharch arnynt y gosodid hwynt i eistedd islaw y teulu, eithr mai dyna oedd defod y Llys. Eithr yr hwn a allai daflu y trichanwr oedd yn y teulu, efe a gai fwyta yn nesaf at yr Iarll, a hi a'i carai yn fwy nag un gwr arall. A Pheredur a fwriodd y trichanwr i'r llawr, ac a eisteddodd wrth ochr yr iarll, ac ebe hi, 'Yr wyf yn diolch i Dduw fy mod wedi cael llanc cyn deced a cyn ddewred a thi, gan na chefais y gwr a garwn fwyaf.' 'Pwy oedd y gwr a gerit fwyaf?' ebe Peredur. 'Myn fy nghred, Etlym Gleddyf Coch oedd y gwr a garwn fwyaf, er nas gwelais ef erioed.' 'Diau,' ebe yntau, 'fy nghydymaith yw Etlym, dyna fe, ac er ei fwyn ef y daethum i yma i ymdaflu hefo'th deulu di. A gallasai ef wneud y gwaith hwnw yn well na myfi, pe mynasai; a mi a'th roddaf di iddo ef.' 'Duw a dalo iti,' ebe hi, 'wr ieuanc teg; minau a gymeraf y gwr a garaf fwyaf.' A'r nos hono, Etlym a'r iarll a hunasant yn nghyd.

Dranoeth, Peredur a gychwynodd tua'r Crug Galarus. 'Myn dy law di, arglwydd,' ebe Etlym, 'mi a ddenaf gyda thi.' A hwy a ddaethant hyd yn ngolwg y Crug a'r pebyll. 'Dos,' ebe Peredur wrth Etlym, 'a phâr iddynt ddyfod ac ymostwng i mi.' Etlym a ddaeth atynt, ac a ddywedodd wrthynt, 'Deuwch, ac ymostyngwch i'm harglwydd i.' 'Pwy yw dy arglwydd di?' ebynt hwythau. 'Peredur Baladr Hir yw fy arglwydd i,' ebe Etlym. 'Pe byddai'n weddus i ni ladd cenadwr, nid aet ti drachefn yn fyw at dy arglwydd am ofyn

peth mor drahaus i Frenhinoedd, a Ieill, a Barwniaid, a dyfod i ymostwng i'th arglwydd di.' Peredur a barodd iddo fyned drachefn atynt, a rhoddi eu dewis iddynt—ai ymostwng iddo neu ymladd âg ef. Hwytthau a ddewisasant ymladd. A Pheredur a fwriodd berchenogion cant o'r pebyll i'r llawr y diwrnod hwnw; a thranoeth efe a fwriodd berchenogion cant eraill i'r llawr. A'r trydydd dydd, y cant gweddill, wedi ymgynghori, a benderfynasant ymostwng i Peredur. Ac efe a ofynodd iddynt beth a wnaent yno. Hwytthau a ddywedasant, 'Gwarchod y Pryf hyd oni byddo farw; ac yna ymladd a wnaem minau am y maen, a'r hwn a fyddai drechaf ohonon a'i caffai.' 'Arosweh chwí yma,' ebe Peredur, 'minau a af i ymweled â'r Pryf.' 'Nage, arglwydd,' ebynt hwy, 'awn minau gyda thi i ymweled âg ef.' 'Ie,' ebe Peredur, 'ni fynaf i hyny; pe lleddid ef, ni chawn i fwy o glod nag un ohonoch chwithau.' A myned a wnaeth efe i'r lle yr oedd y Pryf, a'i ladd, a dyfod atynt hwytthau, a dywedyd, 'Cyfrifweh eich traul er pan y daethoch yma, ac mi a'i talaf yn llawn.' Ac efe a dalodd i bob un yr hyn a ddywedai oedd yn ddyledus. Ac ni ofynodd ganddynt ond yn unig iddynt addef eu bod yn wyr iddo ef. Wrth Etlym y dywedodd, 'Dos di at y wraig a geni fwyaf; minau a af rhagof. Ac mi a dalaf iti am dy wasanaeth.' Ac efe a roddes y maen i Etlym. Ebe Etlym, 'Duw a dalo i ti â phob rhwydd-deb.'

Peredur a ymdeithiodd rhagddo; ac a ddaeth i'r dyffryn tecaf a welsai erioed, ac a fon ar ei waelod. A llawer o bebyll amryliw a welai efe yno; ond yr hyn a'i synai fwyaf oedd gweled cynifer ag a welai o felinau dwfr a melinau gwynt. Ac yn cydymdaith âg ef yr oedd gwr gwinau, mawr, a golwg tebyg i saer arno. A Pheredur a ofynodd iddo pwy ydoedd. 'Myfi yw pen melinydd y melinau acw,' eb efe. 'A gaf i letty genyt ti?' ebe Peredur. 'Cei,' ebe yntau, 'yn llawen.' Ac efe a ddaeth i dŷ y melinydd, a thŷ hoff a theg ydoedd. Ac efe a fenthyciodd arian gan y melinydd i brynu bwyd a diod iddo ei hun ac i dylwyth y tŷ, gan addaw eu talu cyn myned oddiyno. Ac efe a ofynodd i'r melinydd beth oedd yr holl bobl a'r cynhwrf oedd yn y lle. Y melinydd a'i hatebodd, 'Naill ai gwr o bell wyt ti neu yr wyt yn ynyd. Yma y mae'r ymherodres Cristinobyl Fawr; ac ni fyn hi ond y gwr dewraf, gan na raid iddi wrth gyfoeth. Ni ellid dwyn bwyd i'r holl filoedd sydd yma, ac o achos hyny y mae yr holl felinau hyn.' A'r nos hono, hwy a gymerasant eu hesmwythder. Dranoeth, Peredur a gyfododd ac a wisgodd am dano ac am ei farch i fyned i'r twrnament. Ac efe a welai yn mhlith y pebyll eraill y babell decaf a welsai erioed, a morwyn brydferth a welai yn estyn ei phen trwy ffenestr ar y babell; ac ni welsai erioed forwyn brydferthach. Eurwisg o bali [sidan] oedd am dani. Ac edrych a wnaeth ar y forwyn yn graff, ac enynodd ei chariad ynddo yn fawr; ac felly, yn edrych ar y forwyn y bu o'r bore hyd haner dydd ac o haner dydd

hyd onid oedd yn brydnawn. Yna y daeth i'w letty, ac a dynodd ei arfau oddiam dano, ac a fenthyciodd arian gan y melinydd; a dig oedd gwraig y melinydd wrth Peredur; er hyny, y melinydd a roddasai eisoes yr arian iddo. Tranoeth gwnaeth yr un modd ag a wnaethai y diwrnod cynt; a'r nos hono y daeth i'w letty ac y benthyciodd arian drachefn gan y melinydd. A'r trydydd dydd, pan oedd efe yn yr un lle, yn parhau i syllu ar y forwyn, efe a glywai ddyrnod mawr rhwng ei wddf a'i ysgwýdd hefo gwegil bwyall. A phan edrychodd efe drach ei gefn, gwelai'r melinydd, yr hwn a ddywedodd wrtho, 'Naill ai tro dy olwg o'r man yr edrychi neu dos i'r twrnament,' A gwenu a wnaeth Peredur ar y melinydd, a myned i'r twrnament. A phawb a gyfarfu âg ef y dydd hwnw efe a'u bwriodd oll i'r llawr; a'r sawl a fwriodd, efe a ddanfonodd y gwyr yn anrheg i'r Ymherodres, a'r meirch a'r arfau yn anrheg i wraig y melinydd, yn dâl am fenthyg yr arian. A Pheredur a ddilynodd y twrnament nes y bwriodd bawb i'r llawr; ac anfon y gwyr a wna'i i garchar yr Ymherodres, a'r meirch a'r arfau i wraig y melinydd, yn dâl am fenthyg yr arian. Yna yr Ymherodres a ddanfonodd at Farchog y Felin yn peri iddo ddyfod i ymweled â hi; a gwrthod a wnaeth Peredur i'r genad gyntaf a'r ail a aeth ato. Hithau, y drydedd waith, a ddanfonodd gant o farchogion tan orchymyn i'w ddwyn o'i anfodd. Hwythau a ddaethant ato, ac a ddywedasant eu cenadwri oddiwrth yr Ymherodres. Yna efe a ymornestodd â hwynt yn dda, ac a barodd eu rhwymol fel y rhwymid iwreth (*stag*) a'u bwrw i lyn y felin. A'r Ymherodres a ofynodd gynghor gwr doeth oedd yn ei chyngor, a hwnw a'i hatebodd, 'Trwy dy genad, mi a af ato.' Felly efe a ddaeth ato, ac a gyfarchodd well iddo, ac a ddeisyfodd arno er mwyn yr un a garai, ddyfod i ymweled â'r Ymherodres. Ac yntau a aeth, a'r melinydd gydag ef. A chynted ag y daeth i'r neuadd, efe a eisteddodd, a hithau a ddaeth ac a eisteddodd yn ei ochr; a byr fu yr ymddyddan rhyngddynt, a chymeryd ei genad a wnaeth Peredur, a myned i'w letty.

Tranoeth, efe a aeth i ymweled â hi drachefn; ac yr oedd pob ystafell wedi eu haddurno fel eu gilydd; ac ni wyddent pa le yr eisteddai ef. Yntau a eisteddodd ar y naill law i'r ymherodres, ac a ymddyddanodd yn garedig â hi. A phan oeddynt hwy felly, wele ddyn du, a chwpan aur llawn o win yn ei law, yn dyfod i mewn; ac efe a benliniodd gerbron yr ymherodres, gan erchi iddi beidio rhoddi y gwpan ond i'r neb a ddeuai i ymladd âg ef am dani. Hithau a edrychodd ar Peredur. 'Arglwyddes,' eb efe, 'moes i mi y gwpan;' ac efe a yfodd y gwin ac a roddes y gwpan i wraig y melinydd. A phan oeddynt hwy felly, wele ddyn du arall, mwy o faint na'r llall, yn dyfod i mewn, ac yn ei law gwpan wedi ei gwneud o ewin pryf, a'i llonaid o win, yr hon a roddes

efe i'r ymherodres, gan ddeisyf arni nas rhoddai y gwpan ond i'r neb a ymladdai âg ef. 'Arglwyddes,' ebe Peredur, 'dyro hi i mi.' A'r gwin a yfodd efe, a'r gwpan a roddes i wraig y melinydd, A phan oeddynt hwy felly, wele dlyn pengrych, garw ei wedd, mwy nag un o'r gwyr eraill, yn dyfod i mewn, a chawg yn ei law a'i llonaid o win. Yntau hefyd a ostyngodd ar ben ei lin, ac a roddes y cawg yn llaw yr ymherodres, gan erchi arni nas rhoddai i neb ond a ymladdai âg ef am dani. A'i rhoddi a wnaeth hithau i Peredur, ac yntau a'i rhoddes i wraig y melinydd. Y nos hono, aeth Peredur i'w letty; a'r bore, gwisgo am dano ac am ei farch, a myned i'r weirglodd a wnaeth, a lladd y tri dyn hyny. Wedi hyny, daeth i'r babell, a'r ymherodres a ddywedodd wrtho, 'Peredur deg, cofa y llw a wnaethost imi, pan roddais y maen i ti pan leddaist yr Addanc.' 'Arglwyddes,' eb efe, 'gwir a ddywedi; mi a'i cofiaf.' A Pheredur a wladychodd gyda'r ymherodres bedair blynedd ar ddeg, megys y dywed yr ystoriau.

Ac Arthur oedd yn Nghaerlleon ar Wysg, ei brif lys; ac ar ganol llawr ei neuadd yr oedd pedwar o wyr yn eistedd ar len o sidan, sef oeddynt Owain ab Urien, a Gwalchmai ab Gwyar, a Hywel ab Emyr Llydaw¹, a Pheredur Baladr Hir. Ar hyny hwy a welent yn dyfod i mewn forwyn a chanddi wallt du crych; ar gefn mul melyn yr ydoedd, ac yn ei llaw gareiaeu girwon er gyru y mul; a golwg garw angharuaidd oedd arni. Duach oedd ei gwyneb a'i dwylaw na'r haiarn duaf wedi ei bygu (*pitched*). Ac yr oedd ei llun yn fwy hagr na'i lliw:—Gruddiau uchel; gwyneb hir ar i waered; trwyn byr, ffoen-llydan; y naill lygad yn frithlas greulawn, a'r llall yn ddu fel y muchud (*jet*), a'r ddau wedi suddo yn ddwfn yn ei phen; danedd hirion, melynion—melynach na blodeu y banadl (*broom*); ei gwisg yn dechreu yn asgwrn ei dwyfron ac yn cyrhaedd hyd ei gën; a'i chefn ar lun bwa; ei dwy glun yn fwaog ac esgyrniog; a chulfain a theneu ydoedd oll oddieithr ei thraed a'i gluniau, y rhai oeddynt o faintioli anferth. A hi a gyfarchodd well i Arthur a'r teulu oll oddigerth Peredur, ac wrtho ef y dywedodd hi eiriau dig a chwerwon. 'Peredur,' ebe hi, 'ni chyfarchaf well i ti; gan nad wyt yn haeddu hyny. Dall fu tynghedfen pan roes i ti

¹ *Hywel ab Emyr Llydaw*.—'Tri Marchawg Bronhinawl Llys Arthur: Morgan Mwynfawr ab Andras; a Medrawd ab Llew ab Cynfarch; a Hywel ab Emyr Llydaw; cyneddf iddynt oedd, eu bod mor hynaws a llaryaidd, ac addwyn eu hymadroddion, ag y byddei anhawdd gan unlyn o'r byd ommedd a nacau iddynt a geisynt.'—*Tri* 118. Yr oedd Hywel yn un o gallywyddion Arthur, a phan alwyd y brenin adref o ganol ei ryfeigyrech ar y Cyfandir, i ddarostwng gwrthryfel Medrod, gadawodd adran o'i fyddin tan ofal Hywel yn Ffrainc. Dywed y *Cambrian Biography* fod bedd Hywel ab Emyr Llydaw yn Llan Iltyd Fawr, sir Forganwg.

ddawn a chlod. Pan ddaethost i Lys y Brenin Cloff, a phan welaist yno y gwas yn dwyn y waewffon ddyferol, ac o flaen y waewffon ddafnau o waed yn rhedeg yn afon i ddwrn y gwas: a llawer o ryfeddodau eraill a welaist yno, ac ni ofynaist eu hystyr na'n hachos. Pe gofynasit, iechyd a gawsai y brenin, a'i gyfoeth mewn heddwch; bellach ni chaiff ond brwydrau ac ymladdau, a cholli ei farchogion, a gadael gwragedd yn weddwon, a'i rianod yn ddigynysgaeth; a hyny oll o'th achos di.' Ac ebe hi wrth Arthur, 'Trwy dy genad, arglwydd, y mae fy lletty i yn mhell oddiyma, sef yn Nghastell Syberw, rhaid dy fod wedi clywed am dano; ac yn hwnw, y mae pum' cant a thriugain a chwech o farchogion urddawl, a'r wraig a gâr ef fwyaf gyda phob un ohonynt. A phwy bynag a fyn enill clod o arfau, o ornest, ac o ymladd, a gaiff hyny os myn; ac a fyno enill arbenigrwydd clod ac edmygedd, mi a wn lle y ceir hwynt. Y mae castell yno ar fynydd uchel, a morwyn sydd yno yn ngharchar; a phwy bynag a ail ei rhyddhau, efe a gaiff enwogrwydd penaf y byd.' Ar hyny hi a gychwynodd ymaith.

Ebe Gwalchmai, 'Myn fy nghred! ni chysgaf i hun lonydd nes ceisio rhyddhau y forwyn hono.' A llawer o deulu Arthur a ddywedasant yr un modd. A Pheredur a ddywedodd, 'Myn fy nghred! ni chysgaf inau hun lonydd nes gwybod yr holl chwedl ac ystyr y waewffon y dywedodd y forwyn ddu am danynt.' A phan oedd pawb yn ymwisgo eu harfau am danynt, wele farchog yn dyfod i'r porth. A maint a nerth milwr oedd arno, ac yr oedd wedi ei gyflawn arfogi o ddillad ac arfau. Ac efe a aeth rhagddo, ac a gyfarchodd well i Arthur a'r teulu oll, oddieithr Gwalchmai. Ac ar ysgwydd y marchog yr oedd tarian, â gwaith aur arni, a thrawst (*fesse*) o las cryf ynddi; a'r un lliw ydoedd yr arfau eraill oll. Ac ef a ddywedodd wrth Walchmai, 'Ti a leddaist fy arglwydd, trwy dwyll a brad, yr hyn a brofai i ti.' A Gwalchmai a gyfododd i fynu, 'Dyma,' eb efe, 'fy ngwystl i'th erbyn, y profaf iti yma, neu yn y lle a fyndi, nad wyf i na thwyllwr na bradwr.' Ebe'r marchog, 'Gerbron y brenin yr wyf yn ei wasanaethu y dewisaf i ymladd â thi.' 'Yn llawen,' ebe Gwalchmai, 'dos rhagot, a mi a'th ddilynaf.' A'r marchog a aeth rhagddo, a Gwalchmai a ymarfogodd; a llawer o arfau a gynygiwyd iddo, eithr efe nis mynai ond yr eiddo ei hun. Wedi i Walchmai a Pheredur ymarfogi, hwy a gerddasant yn ei ol o achos eu cydymdeithas a chymaint yr hoffent y naill y llall. Eithr nid ymdeithiasant yn nghyd, ond pob un a gerddai yn mlaen ar ei gyfer.

A Gwalchmai, yn ieuentyd y dydd, a ddaeth i ddyffryn; ac yn y dyffryn gwelai gaer, a llys mawr yn y gaer, a thyrau uchelfalch o'i chylech. Ac efe a welai farchog yn dyfod allan i hela ar ferlyn glewddu, ffroenfol, tithiol, cigog, gwastadfalch, esgudlym a didramgwydd; a'r marchog hwnw oedd perchenog y

llys. A Gwalchmai a gyfarchodd well iddo. 'Duw a roddo dda iti unben,' ebe yntau, 'o ba le y daethost di?' 'Mi a ddaethum o Lys Arthur,' ebe Gwalchmai. 'Ai gwr i Arthur wyt ti?' ebe'r marchog. 'Ie, myn fy nghred,' ebe Gwalchmai. 'Mi a roddaf gynghor da iti,' ebe'r marchog, 'blin a lluddedig ydwyd. Dos i'r llys; ac os da genyt, trig yno heno.' 'Da, arglwydd,' ebe yntau, 'a Duw a dalo iti.' 'Hwde y fodrwy hon yn arwydd at y porthor, a dos rhagot i'r tŵr acw; chwaer i mi sydd yno.' A Gwalchmai a ddaeth i'r porth, a ddangosodd y fodrwy, ac a aeth i'r tŵr. Ac wedi myned i mewn. efe a welai dân mawr yn llosgi, a fflam uchel, oleu, ddi fwg, yn dyfod ohono; a morwyn fawreddog hardd yn eistedd mewn cadair wrth y tân. A'r forwyn a gyfododd i'w dderbyn, a fu lawen wrtho, ac a'i croesawodd. Yntau a aeth i eistedd yn ymyl y forwyn; ac wedi cymeryd eu ciniaw, ymddyddan yn hyfryd a wnaethant. A phan oeddynt felly, wele wr gwynllwyd, hardd, yn dyfod i mewn atynt. 'Ha! eneth ddrwg,' eb efe, 'pe gwybyddit gyda phwy yr wyt yn eistedd ac yn chwareu, nid eisteddit ac ni chwareuit âg ef;' ac efe a dynodd ei ben allan, ac a aeth ymaith. 'Ha! unben,' ebe'r forwyn, 'pe gwnelit fy nghynghor i, ti a gaut y drws, rhag ofn fod ganddo rhyw lid yn dy erbyn.' Gwalchmai a gododd i wneud hyny; a phan ddaeth at y drws, yr oedd gwr ar y grisiau, a gwelai nifer o wyr arfog yn cyrchu at y tŵr. A Gwalchmai a gadwodd y drws rhagddynt hefo clawr gwyddbwyll (*chessboard*) hyd oni ddeuai yr iarll o hela. A phan ddaeth, 'Beth yw hyn?' eb efe. 'Peth hagr,' ebe'r gwr gwynllwyd, 'fod yr eneth acw yn eistedd ac yu bwyta gyda'r gwr a laddodd eich tad chwi. Gwalchmai ab Gwyar yw efe.' 'Peidiweh bellach,' ebe'r iarll, 'myfi a af i mewn;' a'r iarll a fu lawen wrth Walchmai. 'Ha! unben,' eb efe, 'cam oedd iti ddyfod i'r llys hwn, gan iti ladd ein tad ni, ac er nad allwn ni ei ddial, Duw a'i dial arnat.' 'Enaid,' ebe Gwalchmai, 'dyma fel y mae am hyny. Ni ddaethum i yma i addef fy fod wedi lladd eich tad chwi, ac ni ddaethum i wadu ychwaith. Ar neges yr wyf i dros Arthur, a throswyf fy hun. Yn mhen y flwyddyn, mi a ddeuaf o'm neges; ac yna, ar fy nghred, deuaf yma ac a wnaf un o ddau beth—naill ai addef y cyhuddiad neu ei wadu.' A chaniatawyd iddo yr oediad yn llawen; ac yno y bu y noson hono; a thranoeth, efe a gychwynodd ymaith. Ac ni ddywed yr ystori fwy na hyny am Walchmai yn y cyfeiriad hwn.

A Pheredur a gerddodd rhagddo; gan grwydro ar hyd yr Ynys i geisio rhyw hanes am y forwyn ddu, ac nis cafodd. Ac efe a ddaeth i dir nis adwaenai mewn dyffryn, âg afon ar ei waelod; ac fel yr oedd yn cerdded y dyffryn, gwelai farchog yn dyfod i'w gyfarfod, â golwg offeiriadol arno; ac efe a ddeisyfodd ei fendith. 'Och! y truan,' eb efe, 'ni ddylit gael bendith, ac ni

ffrwythai iti pe caet ef, am wisgo ohonot arfau ar y fath ddydd a heddyw.' 'A pha ddydd yw heddyw?' ebe Peredur. 'Dydd Gwener y Croglith,' ebe'r marchog. 'Na cherydda fi; ni wyddwn i hyny; blwyddyn i heddyw y cychwynais o'm gwlad.' Yna efe a ddisgynodd i'r llawr, ac a arweiodd ei farch yn ei law. Ac wedi hyny, heb fod nepell ar y brif-ffordd, efe a ddaeth i groesffordd yr hon oedd yn myned trwy goed; a'r ochr arall i'r coed, gwelai gaer foel, anarfog, ac arwydd ei bod yn drigfan dyn. Dynesodd ati, ac yu y porth cyfarfu âg ef y marchog offeiriadol a welsai cyn hyny, ac efe a ddeisyfodd ei fendith. 'Bendith Duw iti,' eb efe, 'mwy gweddus yw i ti ymdeithio nag fel yr ymdeithit o'r blaen; a chyda mi y byddi heno.' Ac yno yr arosodd Peredur y nos hono.

Tranoeth, efe a geisiodd fyned ymaith. 'Nid yw heddyw yn ddydd i neb gerdded; ti a arosi gyda mi heddyw, ac yforu, a threnydd; ac mi a roddaf i ti y cyfarwyddyd goreu a allaf am yr hyn yr ydwyt yn ei geisio. A'r pedwerydd dydd, Peredur a barotodd i fyned ymaith; ac a atolygodd ar y marchog ei gyfarwyddo i Gaer y Rhyfeddodau. 'Cymaint ag a wn i, mi a'i dywedaf iti,' ebe'r marchog; 'dos dros y mynydd acw. A thu hwnt i'r mynydd, y mae afon; ac yn nyffryn yr afon, y mae llys brenin. Yno y bu y brenin yn treulio y Pasg; ac os ceffi di yu rhywle hysbysrwydd am Gaer y Rhyfeddodau ti a'i cei yno.'

A Pheredur a aeth rhagddo, ac a ddaeth i'r dyffryn lle yr oedd afon, ac y cyfarfu â nifer o wyr yn myned i hela; ac yn eu plith, efe a welai un gwr mwy urddasol na'r lleill, ac a gyfarchodd well iddo. Ebe yntau, 'Cymer dy ddewis, unben, ai dyfod gyda mi i hela ynte myned i'r Llys, ac i minau yru un o'r teulu i'th gyflwyno i'm merch y sydd yno, ac i gymeryd bwyd a diod hyd oni ddelwyf yn ol o hela; a pha beth bynag fyddo dy neges, os gallaf i ei rhoddi i ti, mi a'i rhoddaf. A'r brenin a yrodd was byr, melyn, i gyfarwyddo Peredur. A phan ddaethant hwy i'r llys, yr oedd y bendefiges wedi cyfodi a myned i ymolchi. Yntau a aeth yn mlaen, a hi a'i croesawodd yn llawen, ac a'i gwahoddodd i eistedd yn ei hymyl. A chymeryd eu ciniaw a wnaethant, a pha beth bynag a ddywedai Peredur wrthi, hi a chwarddai yn uchel nes y clywai pawb yn y llys. A'r gwas byr, melyn, a ddywedodd wrthi, 'Myn fy nghred, os bu wr i ti erioed, y llanc hwn ydyw; ac oni bu'n wr i ti, y mae dy fryd a'th feddwl arno.' Efe a aeth hefyd tuag at y brenin, gan ddywedyd, 'Fod yn debyg mai gwr i'w ferch oedd y llanc a ddaethai i'w gyfarfod; ac os nad gwr eisoes, buan y byddai felly os nad ymogelai rhagddo.' 'Dyro imi dy gynghor, was,' ebe'r brenhin. 'Fy nghynghor i ydyw,' ebe'r gwas, 'ar i ti osod gwyr dewr i'w ddal, nes i ti gael gwybod a oes gwir yn y peth ai peidio.' Yntau a beris i wyr dewrion ddyfod

am ben Peredur, a'i ddal, a'i ddodi yn ngharchar. A'r forwyn a ddaeth at ei thad, ac a ofynodd am ba achos y rhoddasai yn ngharchar y llanc o Lys Arthur. 'Diau,' ebe yntau, 'ni bydd efe yn rhydd heno, nac yforu, na threnydd; ac ni ddaw o'r lle y mae.' Hithau ni wrthatebodd yr hyn a ddywedodd y brenin; ac a ddaeth at Peredur, ac a ddywedodd, 'Ai drwg genyt ti fod yma?' 'Ni fuasai yn waeth genyf,' ebe ef, 'pe na buaswn.' 'Ni bydd gwaeth dy wely a'th gyflwr nag un y brenin,' ebe hi, 'a'r croesaw goreu yn y llys ti a'i ceffi ond ei ofyn. A phe byddai'n ddyddanach genyt fod fy ngwely i yma, fel y gallwyf ymddyddan â thi, ti a gei hyny yn llawen.' 'Ni wrthwynebaf i hyny,' ebe Peredur. Ac yn y carchar y bu efe y nos hono. A'r forwyn a gyflawnodd yr hyn a addawsai iddo.

Tranoeth, efe a glywai gynhwrf yn y ddinas. 'Ha! forwyn deg,' ebe Peredur, 'pa gynhwrf yw hwn?' 'Y brenin a'i holl lu sydd yn dyfod i'r ddinas heddyw,' ebe hi. 'Beth a geisiant hwy yma?' eb efe. 'Yn agos yma, y mae iarll a chanddo ddwy iarllaeth. a chyn gadarned yw a brenin; ac ymryson sydd i fod rhyngddynt heddyw.' 'Yr wyf yn atolwg,' ebe Peredur, 'ar i ti beri i mi gael march ac arfau fel y gallwyf fyned a gwyllo yr ymryson; a rhoddaf fy ngair y bydd imi ddyfod i'r carchar drachefn.' Ebe hithau, 'Yn llawen mi a baraf iti farch ac arfau.' A hi a roddes iddo farch ac arfau, a chwmsallt (*cloak*) fflamgoch trosto, a tharian felen ar ei ysgwydd. Ac efe a ddaeth i'r ymrysonfa; a phob un o wyr yr iarll a gyfarfu âg ef y dydd hwnw, a fwriodd efe i'r llawr; a daeth drachefn i'r carchar. A'r forwyn a ofynodd i Peredur am yr hanes, ac ni ddywedodd yr un gair wrthi. Hithau a ofynodd i'w thad pwy a fuasai y goreu o'i wyr. Yntau a atebodd nas gwyddai, ond mai gwr â chwmsallt coch trosto ydoedd, a tharian felen ar ei ysgwydd. Hithau a wenodd ac a ddaeth i'r lle yr oedd Peredur. A da fu ei barch y nos hono. Am dridiau y bu efe yn lladd gwyr yr iarll; a chyn i neb wybod pwy fyddai, dychwelai i'r carchar drachefn. A'r pedwerydd dydd, efe a laddodd yr iarll ei hunan; a'r forwyn a ddaeth at ei thad, gan ofyn iddo am yr hanes. 'Hanes da,' ebe yntau, 'y mae'r iarll wedi ei ladd, a minau a biau y ddwy iarllaeth.' 'A wyddost ti, arglwydd,' ebe hi 'pwy a'i lladdodd ef?' 'Gwn,' ebe'r brenin, 'marchog y cwmsallt coch a'r darian felen,' 'Arglwydd,' ebe hi, 'mi a wn pwy yw hwnw.' 'Er Duw,' eb efe, 'pwy yw ef?' 'Y marchog sydd yn ngharchar genyt ydyw,' ebe hi. A'r brenin a ddaeth i'r lle yr oedd Peredur, gan ddywedyd wrtho y gwasanaeth a wnaeth, ac y talai iddo yr hyn oll a ofynai. A phan aethpwyd i fwyta, Peredur a roddwyd i eistedd yn ochr y brenin, a'r forwyn ar yr ochr arall iddo. 'Mi a roddaf iti,' ebe'r brenin, 'fy merch yn briod, a haner fy mrenhiniaeth gyda hi, a'r ddwy iarllaeth a roddaf i ti yn anheg.' 'Arglwydd,' ebe Peredur, 'Duw a dalo i ti, ni ddaethum i yma er gwreica.' 'Beth a fyni di ynte, unben?'

'Ceisio hanes Caer y Rhyfeddodau yr ydwyf,' ebe Peredur. 'Mwy yw dy feddwl, unben, na'r hyn a geisi,' ebe'r forwyn; 'ti a gei hanes y Gaer, ac un i'th hebrwng trwy gyfoeth fy nhad, a digon o luniaeth i'th ymdaith; a thydi, unben, a garaf i yn fwy nag un dyn.' Yna hi a'i cyfarwyddodd, 'Dos tros y mynydd acw, a thi a weli llyn, a chaer yn nghanol y llyn, a hono a elwir yn Gaer y Rhyfeddodau; ac er na wyddom ni ddim am ei rhyfeddodau, felly y gelwir hi.'

A Pheredur a ddaeth at y gaer, a'r porth oedd yn agored; a phan ddaeth at y neuadd, y drws oedd yn agored. Wedi myned i mewn, efe a welai wyddbwyll (*chessboard*) yn y neuadd, a phob un o'r ddwy werin (*chessmen*) yn chwareu yn erbyn eu gilydd (¹); a'r ochr a bleidiai ef hono a gollai, yna yr ochr arall a floeddient fel pe buasent yn fyw. Yntau a ddiogodd, ac a gymerodd y werin yn ei arffed, ac a dasfodd y clawr i'r llyn. Ar hyny, wele forwyn ddu yn dyfed i mewn, ac yn dywedyd wrth Peredur, 'Na foed croesaw Duw i ti. Mynychach y gwnei di ddrwg na da.' 'Paham, forwyn?' eb efe. 'Am golledu ohonot yr ymherodres o'i chlawr; ac ni fynai hi yr ymherodraeth am dano. Ac os byni adfeddianu y clawr, rhaid i ti fyned i Gaer Ysbidinongyl, lle y mae gwr du yr hwn sydd yn dyfetha llawer o gyfoeth yr ymherodres, a lladd hwnw, yna ti a gei y clawr; ond os â'i, ni ddeui di oddiyno yn fyw.' 'A gyfarwyddi di fi yno?' ebe Peredur. 'Mi a fynegaf y ffordd i ti yno,' ebe hi. Yntau a ddaeth hyd i Gaer Ysbidinongyl, ac a ymladdodd â'r gwr du. A'r gwr du a ddeisyfodd ei nawdd. 'Mi a roddaf nawdd i ti,' ebe Peredur, 'os peri di fod y clawr yn yr un lle ag yr ydoedd pan ddaethum i gyntaf i'r neuadd.' Yna y daeth y forwyn ato, ac a ddywedodd, 'Mellidith Duw i ti am dy lafur—yn gadael yr ormes yn fyw sydd yn dyfetha cyfoeth yr ymherodres.' 'Mi a adewais ei enaid iddo er mwyn adfeddianu y clawr.' 'Nid yw y clawr eto yn y lle y cefaist ef gyntaf; dos drachefn a lladd ef.' Yntau a aeth, ac a laddodd y gwr du. A phan ddaeth ef yn ol i'r llys, yr oedd y forwyn ddu yno. 'Ha! forwyn,' eb efe, 'pa le y mae yr ymherodres?' 'Rhyngof i a Duw,' ebe hi, 'ni chei di ei gweled yn awr, hyd oni leddi yr ormes sydd yn y fforest acw.' 'Pa ormes yw hono?' eb efe. 'Carw ydyw,' ebe hi, 'a chyn gyflymed ydyw a'r aderyn cyflymaf. Corn sydd yn ei dalcen cyhyd a llafn gwaewffon, ac mor flaenllym a'r dim blaenllymaf; a thori y mae âg ef frigau y coed goreu yn y fforest; a lladd pob anifail y mae a gyferfydd âg ef ynddi, a'r rhai nis lladdo marw fyddant o newyn. A gwaeth na hyny, y mae yn dyfod bob nos ac yn yfed y pysgodlyn yn ddiold, gan adael y pysgod yn noeth, a meirw a fyddant gan mwyaf cyn y daw y dwfr

¹ Yr oedd Gwyddbwyll Gwenddolen hefyd, yn ol 'Tri Thlws ar Ddeg Ynys Prydain,' yn meddu yr un cyneddfau: 'o gosodid y werin, hwynt a chwareuynt i hunain; aur oedd y clawr ac arian oedd y gwyr.'

drachefn.' 'Ha! forwyn,' ebe Peredur, 'a ddeui di i ddangos yr anifail hwnw i mi?' 'Na ddeuaf,' ebe hi, 'ni feiddiodd undyn fyned i'r fforest er's blwyddyn. Ond y mae yma genaw ci yn perthyn i'r ymherodres; hwnw a gyfyd y carw, a daw âg ef atat, a'r carw a ruthra arnat.' A'r ci a gyfarwyddodd Peredur, ac a gododd y carw, ac a ddaeth âg ef tua'r fan yr oedd Peredur. A'r carw a ruthrodd ar Peredur, yntau a giliodd ac a'i tarawodd â chleddyf fel yr elai heibio nes oedd ei ben oddiar ei gorph. A phan oedd yn edrych ar ben y carw, gwelai farchoges yn dyfod ato. A hi a gymerodd y ci yn llawes ei chap, a phen y carw oedd yn gorwedd rhyngddi a'r corph. A thorch o aur rhudd oedd am ei wddf. 'Ha! unben,' ebe hi, 'ansyber ydoedd i ti ladd y tlws tecaf yn fy nghyfoeth.' 'Cefais orchymyn i wneud hyny,' eb efe, 'ac a oes modd imi enill dy gyfeillgarwch?' 'Oes,' ebe hi, 'dos i lechwedd y mynydd acw, ac yno ti a weli lwyn o goed, ac yn ngodrau y llwyn y mae cromlech; ac yno heria ddyn deirgwaith i ddyfod i ymladd â thi; a chei felly fy nghyfeillgarwch.'

Peredur a gerddodd rhagddo, ac a ddaeth i myl y llwyn, ac a alwodd ar y gwr i ymladd. Ac o dan y gromlech, cyfododd gwr du, a march esgryniog o tano, ac arfau rhydlyd mawr am dano, ac am dan ei farch, ac ymladd a wnaethant. Ac fel y bwriai Peredur y gwr du i'r llawr, efe a neidiai i'r cyfrwy drachefn. Yna Peredur a ddisgynodd ac a dynodd ei gleddyf; ac ar hyny, y gwr du a ddiflanodd, a march Peredur ganddo yn nghyda'i farch ei hun; ac ni welodd efe ail olwg arnynt. Ac efe a gerddodd ar hyd y mynydd, a'r ochr arall i'r mynydd efe a welai gaer yn nyffryn afon; a thua'r gaer yr aeth. Ac fel y deuai at y gaer, gwelai y drws yn agored; ac wedi myned i mewn, gwelai wr llwyd yn eistedd ar y naill law, a'r march a ddygasai y gwr du a welai yn yr un preseb a march Gwalchmai. A llawen a fuant wrth Peredur. Ac efe a eisteddodd yn ochr y gwr llwyd. Ar hyny, wele was melyn yn disgyn ar ben ei lin gerbron Peredur, ac yn deisyf ei gyfeillgarwch. 'Arglwydd,' ebe y gwas, 'mi a ddeuthum yn rhith y forwyn ddu i Lys Arthur; a phan fwriaist y clawr, a phan leddaist y gwr du o Ysbidinongyl, a phan leddaist y carw, a phan fuost yn ymladd â'r gwr o'r gromlech. Ac mi a ddaethum â'r pen gwaedlyd ar y ddysgl, ac â'r waewffon yr oedd y ffrwd waed o'r pen hyd y dwrn ac hyd y paladr; a'th gefnder oedd piau y pen, a Gwiddonod Caerloyw a'i lladdasant, a hwyntwy a gloffasant dy ewythr—dy gefnder wyf i—ac y mae darogan y bydd i ti ddial hyny.' Yna Peredur a Gwalchmai a gymerasant gynghor; ac anfon at Arthur a'i deulu a wnaethant yn deisyf arno ddyfod am ben y Gwiddonod. A dechreu ymladd a wnaethant â'r Gwiddonod; ac un ohonynt a laddes wr i Arthur gerbron Peredur, ac yntau a'i gwaharddodd; a'r ail waith lladd gwr a wnaeth y Widdon, a Pheredur a'i gwaharddodd eilwaith; a'r drydedd waith

lladd gwr a wnaeth y Widdon gerbron Peredur ; ac yntau a dynodd ei gleddyf ac a'i tarawodd ar ben ei helm nes yr holltodd yr helm, a'r arfau oll, a'r pen yn ddau haner. A hi a roddes waedd, ac a archodd i'r gwiddonod eraill ffoi, gan ddywedyd mai Peredur oedd y gwr, yr hwn a fuasai gynt yn dysgu marchogwriaeth (*chivalry*) gyda hwynt, ac mai ei dynged ef ydoedd eu lladd hwy. Yna Arthur a'i deulu a syrthiasant am ben y Gwiddonod, ac a laddasant Widdonod Caerloyw oll. Ac felly y traethir am Gaer y Rhyfeddodau.



IARLLES Y FFYNON.

[FEL PEREDUR AB EFROG, y mae IARLLES Y FFYNON hefyd wedi ei chyfieithu i amryw ieithoedd eraill. Gelwir hi yn Saesneg *Ywayne and Gawin*, a chafodd ei chyhoeddi gan Ritson yn y gyfrol gyntaf o'r *Metrical Romances*, a thybia ef ei bod cyn hyned a theyrnasiad Risiart II., brenin Lloegr. Y mae'r llawysgrif ohoni yn nghadw yn y *British Museum*. Yn yr iaith Ffrongig, gelwir hi *Le Chevalier au Lion*, a thybir mai ei chyfieithydd oedd Chrestien de Troyes, bardd enwog yn y 12fed ganrif. Tua'r ganrif hono hefyd, cyfieithwyd hi o'r Ffrancaeg i'r Germanaeg gan un o'r enw Hartmann Von der Aue. Y mae amrai gofiau ohoni mewn ysgrifen ar gael yma ac acw, ond bernir mai yr hynaf ohonynt ydyw yr un sydd yn y Vatican yn Rhufain. Argraffwyd hi hefyd dair neu bedair o weithiau o 1784 hyd yn bresenol. Ar gais y brenin Hakon Hakonson, o Iceland, cyfieithwyd hi i iaith y wlad hono, gan Robert y Mynach, yn 1226; ac y mae i'w chael hefyd yn ieithoedd Denmark a Sweden, er nad argraffwyd hi hyd yn hyn yn un o'r tair iaith olaf.]

Yr Ymherawdwr Arthur oedd yn Nghaerlleon-ar-Wysg; ac un diwrnod, eistedd yr ydoedd yn ei ystafell; a chydag ef, Owain ab Urien¹, a Chynon ab Clydno²,

¹ *Owain ab Urien*.—Mab ydoedd i Urien Rheged, ac un o Farchogion mwyaf clodfawr Llys Arthur. Tywysog ar ran o Cumberland, yn Ngogledd Lloegr, oedd ei dad am rhyw ysbaid o'i fywyd; ond yn ol *Achau'r Saint*, dywedir iddo dreulio prydawn ei oes yn Nehenidir Cymru—tua Bro Gwyr, yn Morganwg. Yr oedd Urien yntau yn filwr enwog; ac fel y cyfryw cyfeiria Taliesin Ben Beirdd ato yn eu ganeuon i Gadan Gwenystrad ac Argoed Llwyfain, &c. Yn un o'r *Trioddol*, dywedir mai mam Owain ydoedd Modron ferch Afallach; ac mai efaill-ehwaer iddo ydoedd Merwydd, neu Morfydd, cariadferch Cynon ab Clydno. Dywed *Tri* arall:—'Tri chat farchawc oedd yn Llys Arthur: nid amgen Cadwr iarll Kernyw, a Llawnslot dy Lac, ac Ywain ab Urien Rheged. Kyneddfaw y rhai hyn oedd, ni chilynt nag er gwayw nag er saeth nag er kleddyf, ac ni chafas Arthur gywilydd mewn brwydyr y dydd y caffat ef weled eu hwyneben ac am hynny i gelwit hwynt Katvarchogion.' Rhestrir ef mewn *Tri* arall, gyda Rhun ab Maelgwyn a Rhuawn Befi, tan y penawd, 'Gwyndeyrn Ynys Prydain.' Cyfeiria beirdd yr oesau yn fynych at 'frain duon' a 'llew gwyn' Owain ab Urien, yn enwedig Lewis Glyn Cothi yn ei awdl i Gruffydd ab Nicholas. Yr oedd y Gruffydd hwnw, cyfaill a chynorthwywr Harri Tudur i orsedd Prydain, yn hanu o Owain; ac felly y mae teulu presenol Castell Dynefwr, yn sir Gaerfyrddin, yn disgyn mewn llinell unionsyth ohono. Cynwysa arfbais Dynefwr lew a brain. Yn ol englynion y *Gorugau*, Owain a adeiladodd eglwys a Chastell Aberllychwr. Cauwyd ei farwad gan Taliesin, mewn awdl benigamp; ac yn ol *Englynion y Beddau*, claddwyd ef yn Llan Morfael, eithr ni wyddis bellach pa le y mae y Llan hwnw.

² *Cynon ab Clydno*.—Dywed y *Trioddol*:—'Tri clynghorial farchawg oedd yn Llys Arthur: nid amgen Kynon ab Clydno Eiddun, ac Aron ab Cynfarch ab Meirchion gul, a Llywarch hen ab Elidir Lydanwyn; ar tri marchawg hynny a oeddynt yngghorwyr i Arthur, pa ryw ryfel bynnag na bygwth a vae arno, hwynt ac kynghorynt hyd na chae neb y gorvod ar Arthur, ac am hynny i gorfu ef ar bob kenedloedd drwy dri pheth a oedd yn ei ganlyn, nid amgen gobeith da ac arfeu kyssegredig y rhai a ddanfones Iesu Grist iddaw, a rhinwedd ei filwyr; ac am hynny i gwisgodd ef ddeuddeg coron am ei ben, ac i bu ef amherawdwr yn Rhufain.' *Tri* arall a ddywed:—'Ac ni chaid amgen na llwydd i bob Cynghor o'u heiddaw a wnaed, ac atllwydd a gaid lle bynag nas gwneid yn ol eu cynghoreu.' Cyfeiria *Tri* arall at ei

a Chai ab Cyner¹; a Gwenhwyfar² a'i llawforwynion yn gwnio wrth y ffenestr. Ac os dywedir fod porthor ar Lys Arthur, nid oedd yr un. Glewlwyd Gafaelfawr³ oedd yno er hyny, fel porthor i groesawu gwestion a dyeithriaid, ac i ddechreu eu hanrhydeddu, ac i fynegi moes a defod y Llys iddynt; a chyfarwyddo y sawl oeddynt i fyned i'r Neuadd neu i'r ystafell, neu a ddeuent yno am letty.

Eisteddai yr Ymherawdwr Arthur yn nghanol yr ystafell ar deml [mainc] o irfrwyn⁴; a llen o sidan melyngoch o tano, a gobenydd ac iddo orchudd o sidan coch, o tan ei benclin.

Ar hyny, ebe Arthur, 'Ha! wyr, pe gwyddwn na'm goganech, mi a gysgwn i aros fy mwyd; traethu chwedlau a ellwch chwithau, a chymeryd ystenaidd o fêdd a golwythion o gig gan Cai.' A chysgu a wnaeth yr ymherawdwr. A Chynon ab Clydno a ofynodd i Gai am chwedl, fel yr addawsai Arthur. 'Minau a fynaf y chwedl a addawyd i minau,' ebe Cai. 'Ha! wr,' ebe Cynon, 'tecaf yw i ti gyflawni addewid Arthur yn ngyntaf; ac yna y chwedl oreu a wyddom ninau, ni a'i dywedwn i ti.' Yna aeth Cai i'r gegin, ac i gell y mêdd, ac a ddychwelodd âg ystenaidd o fêdd ganddo mewn gorflwch aur, a llonaid ei ddwrn o ferrau (*skepers*) a golwythion arnynt. A chymeryd y golwythion a wnaethant, a dechreu yfed y mêdd. 'Yn awr,' ebe Cai, 'telwch chwithau i minau fy chwedl.' 'Cynon,' ebe Owain, 'tâl ei chwedl i Gai.' 'Diau,' ebe Cynon, 'hŷn gwr a gwell chwedleuwr wyt ti na mi, a mwy a welaist o bethau godidog; tâl di fy chwedl i Gai.' 'Dechreu di,' ebe Owain, 'gyda'r chwedl odidocaf a wpech.' 'Mi a wnaaf,' ebe Cynon:—

garwriaeth hefo Morfydd ferch Urien. Yn ol Aneuryn, yr oedd Cynon yn un, heblaw ef ei hun, a ddiangasant â'u hoedl ganddynt o frwydr Cattraeth. Cyfeirir ato yn Englynion *Boddau'r Milwyr*:—

Pian y bet y dan y beinn	Pwy biau'r beidd dan y bryn?
B t gwr gwr yng Kiuiscin	Be lli gwr dawr am oresgyn—
Bet Kionn mab Clydno Idin	Bedd Cynon ab Clydno Eiddyn.

Sonir yn fynych am dano gun yr Hen Feirdd Cymreig.

¹ Cai.—Gwel t.d. 24. : *Gwenhwyfar*.—Gwel t.d. 24.

² *Glewlwyd Gafaelfawr*.—Un o gewri cynhanes, am yr hwn ni ddywed hyd yn nod traddodiad ond ychydig. Y mae ei enw, modd bynag, yn awgrymiadol ddigon. Dywed *Tri* 83 ei fod yn un o'r ychydig a ddiangasant o Gamlan:—'Tri wyr dianc o Gad Gamlan a fu: Morfran ab Tegid rhag ei haecred sef y tybisi bawb mai Cythraul o Uffern ydoedd, ac a floynt rhagddaw; Sandde Bryd Angel gan ei bardded, ei laned, a'i deuced, ni chodai neb law yn ei erbyn gan dybied mai Angel or nef ydoedd; a Glewlwyd Gafaelfawr rhag ei faint a'i gryfder, nid oedd a safai o'i flaen, a phawb a floynt rhagddaw.' Gwelir oddiwyth y dyfyniad hwn, fod y *Triodd* ac Aneuryn yn gwahaniaethu parth y gwyr a ddiangasant o Gamlan; gweler y nodion blaenorol ar 'Cynon.' Dylid cofio, modd bynag, nad yw y *Triodd* bob amser i'w cymeryd yn llythrenol. Dull bylaw i drysori digwyddiadau hanesyddol yn y cof ydoedd eu rhestru yn driodd.

⁴ *Teml o irfrwyn*.—Yn mysg yr Hen Gymry, yr oedd y frwynen nid yn unig yn rhoi goleuni yn eu tai, ond hefyd yn addurniadol. Brwyn oedd yn gorchuddio llawr y bwthny er oadw lleithder draw; a brwyn wedi eu cyfrododdu'n amryliw a phrydferth ydoedd clustogau tywysogion. Prin y mae yr arferiad o hulo llawr y gegin hefo brwyn wedi diflanu eto o ambell drigfa fynyddig; ond y mae carpedau &c., wedi eu hymlid o'r palas er's llawer oes.

‘Unig fab fy mam a fy nhad oeddwn; hoff oeddwn o bleser, a mawr oedd fy rhyfyg. Ac ni thebygwn fod camwri yn y byd nas gorfyddwn; ac wedi gorfod ar bob camwri yn yr un wlad a mi, ymgyweirio a wnaethum, a cherdded eithafoedd byd a diffaethwch. Yn y diwedd, damweiniais ddyfod i'r glyn tecaf yn y byd, a choed gogyfuwch ynddo, ac afon redegog oedd ar hyd y glyn, a ffordd yn ochr yr afon. A cherdded y ffordd a wnaethum hyd haner dydd, a'r parth arall ohoni a gerddais hyd y prydawn. Ac yna daethum i faes mawr; ac yn mhen y maes, yr oedd caer fawr ddisglaer, a rhaiadr yn gyfagos. A thua'r Gaer yr aethum; a gwelwn ddau was⁽¹⁾ pengrych felyn, a rhagtal (*frontiet*) aur am ben pob un ohonynt, a phais o sidan melyn am bob un, a byclau aur yn cau eu hesgidiau; ac yn eu llaw fwa o asgwrn eliphant, llinynau y rhai oedd o giau hydd, a'r saethau a'r pelydr o asgwrn morfil, wedi eu hasgellu hefo plu y pawin (*peacock*), a phenau aur ar y pelydr; a chyllill â llafnau aur iddynt, a'u carnau o asgwrn amryliw morfil. Ac yr oeddynt yn saethu eu cyllill.

Ac ychydig oddiwrthynt, gwelwn wr pengrych, melyn, llawn oedran, a'i farf newydd ei heillio; a phais a mantell o sidan melyn am dano, ac ysnoden o eurllin yn mhen ei fantell. Am ei draed yr oedd esgidiau o ledr brith, a chnap o aur yn eu cau. A phan y gwelais ef, mi a ddynesais ato, ac a gyferchais well iddo; ac mor foesgar ydoedd, fel y cyfarchodd yntau well i minau cyn i mi gyfarch gwell iddo ef. Ac efe a ddaeth gyda mi tua'r Gaer; ac yn y Gaer nid oedd neb yn byw ond mewn un neuadd. Yno yr oedd pedair morwyn ar hugain yn gwnio sidan wrth ffenestr. A hyn a ddywedaf wrthynt, Cai, fod yr hacraf ohonynt yn decach na'r forwyn decaf a welaist ti erioed yn Ynys Prydain; a'r anharddaf ohonynt, harddach oedd na Gwenhwyfar⁽²⁾, gwraig Arthur, pan fu hi harddaf erioed wrth offeren ar Ddydd Nadolig neu Ddydd y Pasg. A chyfodi a wnaethant i'm derbyn; a chwech ohonynt a gymerasant fy march,⁽³⁾ ac a ddyosgasant fy arfau inau. A chwech eraill ohonynt a gymerasant fy arfau, ac a'u golchasant mewn llestr onid oeddynt cyn wyned a'r dim gwynaf. A'r trydydd chwech ohonynt a ddodasant y lleiniau ar y byrddau, ac a arlwyasant fwyd. A'r pedwerydd chwech a ddyosgasant fy lluddedwrig, ac a ddodasant wigr arall am danaf; nid amgen, crys a llofrau o liain, a phais a surcot, a mantell o sidan melyn a hwd ar y fantell. A dodasant aml i obenydd, mewn gorchudd o liain

¹ *Gwas*.—Yn arwyldo llanciau ieuainc; nid gwas yn ystyr bresenol y gair.

² Dringeb uwchaf dysgrifiad o degwch benywaidd ydoedd ei gydmaru i Gwenhwyfar; a'r olwg harddaf arni bithau, rhian decaf ei hoed, ydoedd ei gweled yn crefyddu ar un o ddwy brif wyl ei heglwys. Ai dyna ydyw sancteiddio prydforthwch?

³ Yn nyddiau Marchogwriaeth, nid peth anghyffredin ydoedd i ferched weini yn y modd hwn ar farchogion urddawl.

coch, o'm cylch. Yna eisteddasom. A'r chwech hyny a gymerasant fy ngheffyl i'w ystabl a wnaethant hyny cystal a phe buasant yr ysweiniaid goreu yn Ynys Prydain. Ac yna dygwyd cawgiau arian, a dwfr i ymolchi ynddynt, a thywelau o liain gwyrdd a rhai gwynion. A mi a ymolchais. A daeth y gwr a welswn gyneu ac a eisteddodd wrth y bwrdd, a minau yn nesaf ato, a'r gwragedd oll is fy llaw oddieithr y rhai oeddynt yn gwasanaethu. Ac arian oedd y bwrdd, a lliain oedd y lleni ar y bwrdd; ac nid oedd un llestr yn gwasanaethu yno ond o aur, neu arian, neu (¹)fuelin (*buffalo horn*). A daeth y bwyd ini; a diau i ti, Cai, ni welais i erioed na bwyd na diod nad oedd yno ei gyffelyb; eithr fod y bwyd a'r ddiod a welais yno yn well nag a welais yn un lle arall erioed.

'Nyni a fwytasom hyd at haner y pryd; ac ni ddywedodd y gwr nac un o'r morwynion yr ua gair wrthyf hyd hyny. A phan debygodd y gwr fod yn well genyf ymddyddan na bwyta, efe a ofynodd i mi pwy oeddwn; minau a ddywedais fod yn dda genyf gael un a ymddyddanai â mi, a deall uad oedd llefaru yn drosedd yn y llys hwnw. 'Ha! unben,' ebe yntau, 'ni a ymddyddanasem â thi oni buasai ofn llestair ar dy fwyd, ond yn awr ni a ymddyddanwn â thi.' Yna mi a fynegais i'r gwr pwy oeddwn, ac amcan fy ngherdded, a dywedais fy mod yn ceisio a allai fy ngorfod, neu ynte a allwn i orfod pawb. Edrych a wnaeth y dyn arnaf a dywedyd, 'Pe na thebyg'swn y deuai gormod gofid it', mi a fynegwn iti yr hyn yr ydwynt yn ei geisio.' Hyn a barodd imi deimlo'n ofidus a thrist, a'r gwr a adnabu hyny arnaf. 'Os gwell genyt ti imi fynegi'th afes na'th les, mi a'i mynegaf it'. Cwsg yma heno,' eb efe, 'a chyfod yn fore i fynu, a chymer y ffordd y daethost ar hyd y dyffryn, oni ddelych i'r coed y daethost trwyddo. Ac encyd yn y coed, fe gyferfydd gwahanffordd â thi. ar y tu dehau; a cherdda hyd hono hyd oni ddelych i lanerch fawr o faes, a gorsedd ar ganol y maes. A thi a weli wr du mawr ar ben yr orsedd nad ydyw ddim llai na dau o wyr y byd hwn. Un troed sydd iddo, ac un llygad, a hwnw yn nghanol ei dalcen. A ffon sydd iddo o haiarn, a diau nad oes deu-wr yn y byd na chaffent eu baich yn y ffon hono. Ac nid gwr hawddgar ydyw, eithr tra anhawddgar; ac wtwart (*woodward*) yw ar y coed hwnw. A thi a weli fil o anifeiliaid gwylltion yn pori o'i gylch. Gofyn dithau y ffordd iddo i fyned

¹ O gorn yr ych gwyllt yr yfid fynychaf y medd a'r owrwn yn yr hen wleddoedd Cymreig. Y mae awdl Owain Cyfeiliog, tywysog Powys, i'r Corn Hirlas, yn un o gynyrchion hynotaf yr awen Gymreig. Yn un rhan o'r awdl, dychymyga'r bardd-dywysog ei fod yn rhoi gwledd i'w benaethiaid a'i filwyr; ac yn nghanol y wledd, gorchymyna i'r Corn Hirlas gael ei lanw â'r ddiod oren, a'i ddwyn at Tudur a Moreiddig, y rhai a nodir ganddo fel dewrion pybyr a diwrthgil teilwng o bob clod. Ond yn nghanol ei araith, try atynt megis i'w hanerch yn bersonol, pan y gwel fod eu lle yn wag; a daw i'w gof ar unwaith eu bod ill dau wedi cwmpo yn un o'r brwydrau gwaedlyd diweddf. Yna rhuthra cefnllif o alar ac wylofain tros ei wefusau am danynt nad oes odid yn yr iaith Gymraeg eu grymusach na'u chwerwach.

o'r llanerch, ac efe a rydd ateb iti, ac a ddengys ffordd fel y cei yr hyn a geisi.'

A hir oedd genyf y nos hono. A bore dranoeth, cyfodi a wnaethum a gwisgo am danaf, ac esgyn ar fy march, a cherdded rhagof ar hyd y dyffryn i'r coed; ac mi a ddaethum i'r wahanffordd y dywedodd y dyn wrthyf am dani, a chyrhaeddais y llanerch. A phan ddaethum yno, yr oedd yn dair gwaith rhyfeddach genyf am yr anifeiliaid gwylltion oedd yno nag y dywedodd y gwr wrthyf. A'r gwr du oedd yno yn eistedd yn mhen yr orsedd. Dywedodd y gwr wrthyf ei fod yn fawr, mwy o lawer oedd ef na hyny. A'r ffon haiarn y dywedodd y gwr wrthyf ei bod yn llwyth deuwr, hysbys oedd genyf fi, Cai, fod llwyth pedwar milwr ynndi. A hono oedd yn llaw y gwr du. Ac ni ddywedai efe air wrthyf namyn a ofynwn iddo. Ac mi a ofynais iddo pa awdurdod oedd ganddo ar yr anifeiliaid hyny. 'Mi a ddangosaf i ti, ddyn bychan,' eb efe; a chymeryd ei ffon yn ei law a tharo carw â hi ddyrnod mawr, oni roddodd efe frefiad dolefus, ac wrth ei frefiad ef y daeth yno o anifeiliaid gyn amled â'r ser yn yr awyr, ac hyd nes oedd yn anhawdd i mi gael lle i sefyll yn y llanerch gyda hwynt—yn seirph a gwiberod ac amryfal anifeiliaid. Ac efe a edrychodd arnynt hwy, ac archodd iddynt fyned i bori; a gostwng eu penau a wnaethant hwythau iddo, a thalu gwargaeth iddo, fel y gwna gwas i'w arglwydd.

Yna y dywed y gwr du wrthyf, 'A weli di, ddyn bychan, yr awdurdod sydd imi ar yr anifeiliaid hyn?' A gofyn y ffordd iddo a wnaethum; a garw a fu yntau, a gofyn imi pa le y mynwn fyned. Minau a ddywedais pa ryw wr oeddwn, a pha beth a geisiwn. A mynegi a wnaeth yntau i mi, 'Cymer,' eb efe, 'y ffordd tua phen uwchaf y llanerch, a cherdda yn erbyn yr allt o goed uchod oni ddelych i'w phen; ac oddiyno ti a weli ystrad megys dyffryn mawr, ac yn nghanol yr ystrad ti a weli bren mawr, a glasach yw ei frig na'r ffynidwydd glasaf. Ac o dan y pren hwnw y mae ffynon, ac yn ymyl y ffynon y mae llech farmor, ac ar y llech y mae cawg arian wrth gadwyn arian, fel nad ellir eu gwahanu. A chymer dithau y cawg, a bwrw gawgaid o'r dwfr am ben y llech; yna ti a glywi dwrf mawr, nes y tebygi fod y nef a'r ddaear yn ergrynu gan y twrf. Ar ol y twrf y daw cawod mor ffyrnig fel y bydd yn anhawdd i ti ei goddef a byw. Cenllysg fydd y gawod, ac wedi yr el heibio, hindda a fydd, eithr ni edy hi yr un ddeilen ar y pren heb ei dwyn. Yna y daw cawod o adar, a disgyn ar y pren a wnant; ac ni chlywaist ti erioed yn dy wlad dy hun gerdd cystal ag a ganant. A phan fo digrifaf genyt gerdd yr adar, ti a glywi duchan a chwynfan yn dyfod ar hyd y dyffryn tuag atat. Ar hyny ti a weli farchog ar farch du pur, a gwisg o sidan du pur am dano, ac ystondard (*pennon*) o liain du ar ei waewffon; ac efe a ymosoda arnat cyn gynted ag y gallo. O ffoi di rhagddo, efe a'th orddiwes; ac os arhosi di yno, a thi ar farch, efe a'th edy ar draed;

ac oni chei di ofid yno, ni raid iti ymofyn gofid tra fyddi byw.'

'Ac mi a gymerais y ffordd hyd oni ddaethum i ben yr allt, ac oddiyno gwelwn fel y mynegasai y gwr du wrthyf, ac i ymyl y pren y daethum, a ffynon a welwn dan y pren, a'r llech farmor yn ei hymyl, a'r cawg arian wrth y gadwyn. A chymeryd y cawg a wnaethum, a bwrw cawgaid o'r dwfr am ben y llech; ac ar hyny, dyma'r twrf yn dyfod yn llawer mwy nag y dywedasai y gwr du imi; ac ar ol y twrf, y gawod; a diau oedd genyf fi, Cai, na ddiangai na dyn na llwdn yn fyw ar a oddiweddai y gawod allan; canys ni safai yr un genllysgen ohoni yn y croen nac yn y cig, hyd oni chyrhaeddai yr asgwrn. Ac mi a droais bedrain (*flank*) fy march tuag ati; a doddi swch fy nharian ar ben fy march a'i fwng, a doddi y rhan uwchaf ohoni uwch fy nhen fy hun. Ac felly y sefais y gawod. A phan edrychais ar y pren, nid oedd un ddeilen arno. Yna y daeth hindda; ac ar hyny, wele yr adar yn disgyn ar y pren ac yn canu; a hysbys yw genyf fi, Cai, na chlywais i gerdd cystal a hono na chynt na chwedi. A phan oedd ddigrifaf genyf wrando yr adar, dyma duchan yn dyfod ar hyd y dyffryn tuag ataf, ac yn dywedyd, 'Ha! farchog,' eb efe, 'beth ddaeth a ti yma? pa ddrwg a wnaethum i ti pan wnelit y fath niwaid i mi? Oni wyddost ti na adawodd y gawod heddyw na dyn na llwdn yn fyw trwy fy holl gyfoeth ar a gafodd allan?' Ar hyny, wele farchog ar farch du pur, a gwisg o sidan du pur am dano, ac amwisg (*tabard*) o liain du pur o'i gylch. Ac ymladd a wnaethom, ac mor ffyrnig yr ymladdem, fel mai buan y bwriwyd fi i'r llawr. Yna'r marchog a ddodes ei waywffon o fewn ffrwyn fy march, ac ymdaith ymaith a'r ddau farch ganddo, a'm gadael inau yno. Ni wnaeth ef gymaint o fawredd i mi a'm carcharu, ac nid ysbeilliodd fi o'm harfau. Felly mi a ddychwelais ar hyd y ffordd y daethum. A phan ddaethum i'r llanerch yr oedd y gwr du ynnddi, fy nghyffes a roddaf i ti, Cai, mae'n rhyfedd na thoddaswn yn llymaid rhag cywilydd gan y gwatwar a gefais gan y gwr du. Ac i'r Gaer y buaswn y nos gynt y daethum y nos hono. A llawenach fuwyd wrthyf y nos hon na'r nos gynt, a gwell i'm porthed; a'r chwedlau a ddymunwn gan wyr a chan wragedd a gawn, ac ni chrybwyllai neb ddim wrthyf am fy ymgyrch i'r Ffynon, ac ni chrybwyllwn inau wrth neb. Ac yno y bu'm y nos hono. A phan godais bore dranoeth, gwelwn farch (*palfrey*) gwineu-ddu, a ffroenau gan goched a'r ysgarlad, yn barod wedi ei harneisio. Ac wedi gwisgo ohonwyf fy arfau, a gadael yno fy mendith, mi a ddychwelais i'm llys fy hun. A'r march hwnw, y mae genyf eto yn yr ystabl acw, ac ni newidiwn ef am y march goreu yn Ynys Prydain.

A Duw a wyr, Cai, ni chyffesodd dyn erioed ymgyrch mor fethedig iddo ei hun a hon. A rhyfedd na chlywais i byth, na chynt na chwedi am un gwr ond

fy hunan a wyr ddim am yr ymgyrch, ac i hyn gymeryd lle o fewn cyfoeth yr Ymherawdwr Arthur heb i neb arall ei wybod.

‘Ha! unben,’ ebe Owain, ‘onid da fyddai cael hyd i’r lle hwnw?’

‘Myn llaw fy nghyfaill,’ ebe Cai, ‘mynych y dywedi di ar dy dafod yr yr hyn nis gwneli ar dy weithred.’

‘Diau, Cai,’ ebe Gwenhwyfar, ‘gwell fyddai dy grogi di na dywedyd ohonot ymadrodd mor warthedig wrth wr fel Owain.’

‘Myn llaw fy nghyfaill, wreigdda,’ ebe Cai, ‘nid mwy dy barch di i Owain na minau.’

Ar hyny, deffro a wnaeth Arthur, a gofyn a gysgodd efe yn hir.

‘Do, dalm o amser,’ ebe Owain.

‘Ai amser i ni fyned at y byrddau?’

‘Amser, arglwydd,’ ebe Owain.

Yna canu corn ymolchi a wnaethpwyd, a myned a wnaeth yr ymherawdwr Arthur a’i deulu oll i fwya. Ac wedi darfod bwyta, Owain a giliodd ymaith; a dyfod i’w letty a pharatoi ei farch a’i arfau.

A phan welodd ef y dydd dranoeth, gwisgo ei arfau a wnaeth, ac esgyn ar ei farch, a cherdded rhagddo hyd eithafoedd byd a diffaeth fynyddoedd. Yn y diwedd, efe a adwaenodd y glyn y mynegasai Cynon am dano; ac a gerddodd hyd y glyn ar ystlys yr afon, hyd oni ddaeth i’r dyffryn, a’r dyffryn a gerddodd oni welai y Gaer. A thua’r Gaer yr aeth efe, a gwelai y gweision yn saethu eu cyllill fel y gwelsai Cynon hwynt, a’r gwr melyn a biau y Gaer yn sefyll gerllaw. Ac mor fuan ag y cyfarchodd Owain well i’r gwr melyn, y cyfarchodd y gwr melyn well iddo yntau.

Ac yn mlaen yr aeth efe at y Gaer; ac efe a welai ystafell, a phan ddaeth i’r ystafell, efe a welai y morwynion yn gwnio sidan mewn cadeiriau euraidd. A hoffach o lawer oedd gan Owain eu teced a’u hardded nag y dywedodd Cynon iddo. A chyfodi a wnaethant i wasanaethu Owain fel y gwasanaethasant Cynon. A hoffach fu gan Owain ei borthiant na chan Gynon. Ac ar haner y bwyta, ymofynodd y gwr melyn gan Owain pa gerdded oedd arno. Ac Owain a ddywedodd iddo y cwbl—‘Ceisio y marchog sydd yn gwarchod y ffynon yr ydwyf.’ A gwenu a wnaeth y gwr melyn, a dweyd fod yn anhawdd ganddo fynegi i Owain yr hanes hwnw, fel y bu anhawdd ganddo ei fynegi i Cynon. Er hyny, efe a fynegodd y cwbl. Ac i gysgu yr aethant.

A bore dranoeth yr oedd y morwynion wedi gwneuthur march Owain yn barod, ac efe a gerddodd rhagddo oni ddaeth i’r llanerch yr oedd y gwr du ynddi. A rhyfeddach fu gan Owain faint y gwr du na chan Gynon. A gofyn y ffordd a wnaeth Owain i’r gwr du. Yntau a’i mynegia. Ac Owain a gerdd-

odd y ffordd fel Cynon oni ddaeth i ymyl y pren glas. Ac efe a welai y Ffynon a'r llech yn ymyl y Ffynon, a'r cawg arni, ac efe a gymerodd y cawg, ac a fwriodd gawgiad o'r dwfr ar y llech. Ar hyny, dyna'r twrf; ac ar ol y twrf y gawod. Mwy o lawer nag y dywedasai Cynon oeddynt. Ac wedi y gawod yr awyr a oleuodd, a phan edrychodd Owain ar y pren, nid oedd yr un ddeilen arno. Ac ar hyny wele'r adar yn disgyn ar y pren, ac yn canu. A phan oedd ddigrifaf gan Owain gerdd yr adar, ef a welai farchog yn dyfod ar hyd y dyffryn, ac a baratodd i'w erbyn. Ac ymladd yn ffyrnig a wnaethant. Ac wedi tori dwy waewffon, diweinio cleddyfau, ac ymladd gledd yn ngledd. Yna Owain a darawodd y marchog trwy ei helm, a'i benwisg, a'r penguwch pwrcwin (*visor*), a a thrwy y croen, a'r cig, a'r asgwrn, oni chlwyfodd efe ei ymenydd. Yna adnabu y marchog du iddo gael dymod angeuol; a throï pen ei farch a wnaeth, a ffoi. Ac Owain a'i hymlidiodd er nad yn ddigon agos i'w gyrhaedd â'r cleddyf. Ar hyny, Owain a welai Gaer fawr ddisglaer; ac i borth y Gaer y daethant, a gollyngwyd y marchog du i mewn, a gollyngwyd y ddôr-ddyrchafael (*portcullis*) ar Owain; yr hwn a darawodd ei farch tu cefn i'r cyfrwy, ac a'i torodd yn ddau haner trwyddo. A'r ddôr a ddaeth hyd y llawr, a throellau yr yspardynau a darn o'r march oedd oddiallan, ac Owain a'r rhan arall o'r march oedd rhwng y ddau ddôr. A'r ddôr arall oedd gauedig hefyd, fel nad allai Owain fyned oddi-yno, ac mewn cyfyng-gyngor yr ydoedd. Ac fel yr oedd Owain felly, efe a welai trwy gyswllt y ddôr heol gyferbyn âg ef, ac ystryd o dai o bob tu i'r heol, ac efe a welai forwyn bengrych-melyn, a rhagtal (*frontlet*) aur am ei phen, a gwisg o sidan melyn am dani, a dwy wintas [esgid] o gordwal brith am ei thraed, a dyfod i'r porth yr ydoedd. A hi archodd agoryd y porth. 'Duw a wyr, unbenes,' ebe Owain, 'nid ellir agor i ti oddiyma, mwy nag y gelli dithau agor i minau oddiyma.' 'Duw a wyr,' ebe'r forwyn, 'gresyn nad ellid dy wared di; a phob gwraig a ddylai dy wared; os gwr, goreu gwr a fyddit; os cariad, goreu cariad. Gan hyny,' ebe hi, 'yr hyn a allaf fi a wnaf i'th ryddhau. Hwde di y fodrwy hon, a dod ar dy fys, a dod y maen hwn o fewn dy law, a chau dy ddwrn am y maen, a cyhyd ag y cuddi di ef, ef a'th guddia dithau. Wedi iddynt ymgynghori, hwy a ddeuant i'th gymeryd a'th ddiennyddio; a phan na'th welant, drwg fydd ganddynt. A minau a fyddaf ar yr esgynfaen acw i'th aros di; a thydi a'm gweli i, er na welaf i dydi; tyred dithau a dod dy law ar ben fy ysgwydd, ac yna gwybyddaf dy ddyfod ataf. A'r ffordd y delwyf fi oddiyno, tyred dithau gyda myfi¹.

Yna y forwyn a adawodd Owain, ac yntau a wnaeth yr hyn oll a erchis

¹ *Maen cudd.*—Y mae crybwylliad am faen yn meddu cyneddf a rhinwedd cyffelyb i hwn yn Mabinogi *Peredur ab Efrog*. Gweler t.d. 42.

hi iddo. Ar hyny y daeth y gwyr o'r llys i'w geisio i'w ddiennyddio; a phan ddaethant ni welent ddim ond haner y march. A drwg oedd ganddynt hyny. A diflanu a wnaeth Owain o'u plith, a dyfod at y forwyn, a doddi ei law ar ei hysgwydd, a chychwyn a wnaeth hithau rhagddi, ac Owain gyda hi, oni ddaethant i ddrws llofft fawr odidog. A'r forwyn a agorodd y llofft, a myned i mewn, a chau drws y llofft a wnaethant; ac Owain a edrychodd ar hyd y llofft, ac nid oedd yn y llofft un hoel heb ei lliwio â lliw gwerthfawr. Ac nid oedd un ystyllen heb ddelw euraidd amryfal arni.

A'r forwyn a gyueuodd dân glo; ac a gymerodd gawg arian a dwfr ynddo, a thywel o lian gwyn ar ei hysgwydd, a rhoddi dwfr i ymolchi a wnaeth hi i Owain. A doddi bwrdd arian goreuraidd ger ei fron, a lliain melyn yn llen arno; a dyfod a'i giniaw iddo; a diau oedd gan Owain na welsai erioed fwyd na welai yno ddigon ohono, eithr ei fod yn well yno nag y gwelsai yn un man arall erioed. Ac ni welsai erioed yn un man gymaint o fwyd a diod ag oedd yno. Ac nid oedd un llestr yn gwasanaethu arno namyn llestri arian neu aur. Ac Owain a fwytaodd ac a yfodd onid oedd yn hwyr brydnawn. Ac ar hyny, hwy a glywent ddolefain mawr yn y Gaer. Ac efe a ofynes i'r forwyn, 'Pa waeddi yw hwn?' 'Dodi olew ar y gwr da biau y Gaer y maent,' ebe'r forwyn. Ac i gysgu yr aeth Owain.

Ac yr oedd y gwely a ddarparaisid iddo gan y forwyn yn deilwng i Arthur—o ysgarlad a gra (*fur*), a sidan, a syndal, a lian. Ac am haner nos hwy a glywent ddiaspedain chwerw, 'Pa sŵn yw hwn, weithion?' ebe Owain. 'Y gwr da biau y Gaer y sydd farw yr awrhon,' ebai'r forwyn. A chyda thoriad y dydd, clywent ddiaspad a gweiddi anfeidrol eu maint, ac Owain a ofynodd i'r forwyn, 'Pa ystyr sydd i'r gweiddi hwn?' Myned a chorph y gwr da biau y Gaer i'r Llan y maent.' Ac Owain a gyfododd i fynu, a gwisgo am dano, ac agor ffenestr ei lofft, ac edrych tua'r Gaer; ac ni welai nac ymyl nac eithaf i'r lluoedd oeddynt yn llenwi yr heolydd, a hyny yn llawn arfog, a gwagedd lawer gyda hwynt ar feirch ac ar draed, a chrefyddwyr y ddinas oll yn canu¹. A thebygai Owain fod yr awyr yn diaspedain gan y gweiddi a'r udgyrn a'r crefyddwyr yn canu. Ac yn nghanol a llu hwnw gwelai yr elor, a llen o liain gwyn arni, a chanwyllau cwyr yn llosgi yn aml o'i chylch, ac nid oedd undyn tan yr elor yn llai na barwn cyfoethog. Diau oedd gan Owain na welsai erioed gynulleidfa gyn hardded a hono wedi ei gwisgo mewn pali, a seric (*silk*) a syndal.

¹ *Crefyddwyr y ddinas oll yn canu.*—Gwelir oddiwrth hyn fod yr arferiad swynol o ganu mewn angladdau Cymreig yn hen iawn, a gobeithio fod oes faith o'i blaen eto, canys anhawdd fyddai hebrwng y marw i'w fedd mewn dull mwy parchus a gweddus nag yn nghanol acenion pruddglwyfus ei gymydogion a'i anwyliaid.

Ac ar ol y llu hwnw, y gwelai efe wraig felen, ei gwallt dros ei dwy ysgwydd, ac wedi ei liwio â gwaed, a gwisg o sidan melyn am dau wedi ei rhwygo, a dwy esgid o gordwal brith am ei thraed. A rhyfedd oedd na buasai ysig benau ei bysedd gan fel y maeddai ei dwylaw yn nghyd. A hysbys oedd gan Owain na welsai ef erioed wraig gan deced, ped fuasai hi ar ei ffurf iawn. Ac uwch oedd ei diaspad na llais un dyn na chorn yn y llu. A phan weles efe y wraig, enynu a wnaeth o'i chariad.

Yna y gofynodd Owain i'r forwyn pwy oedd y wraig. 'Duw a wyr,' ebe'r forwyn, 'gwraig y gellir dywedyd ei bod y decaf o'r gwragedd, a'r ddini-weidiaf, a'r haelaf, a'r ddoethaf, a'r foneddigeiddiaf; fy arglwyddes i yw hon acw, a IARLLES Y FFYNON y gelwir hi; gwraig yw i'r gwr a leddaist ti ddoe.' 'Duw a wyr,' ebe Owain, 'mai y wraig a garaf i fwyaf o bawb ydyw.' 'Duw a wyr,' ebe'r forwyn, 'ni châr hi dydi nac ychydig na dim.'

Ar hyny, codi a wnaeth y forwyn, a chyneu tân glo, a llanw crochan â dwfr a'i ddodi i dwymno, a chymeryd twel o liain gwyn a'i ddodi am wddf Owain, a chymeryd gorflwch o asgwrn eliphant a chawg arian, a'i lanw o'r dwfr twymn, a golchi pen Owain¹. Yna hi a agorodd brenfol (*wooden casket*), ac a gymerth ellyn (*razor*) a'i charn o asgwrn eliphant, a dau ganawl, (*rivets*) o aur ar yr ellyn; a hi a eilliodd ei farf ef, a sychu ei ben a'i wddf â'r twel. Yna codi a wnaeth oddi gerbron Owain, a dyfod a'i giniaw iddo; a diau oedd gan Owain na chafodd efe erioed giniaw cystal a hwnw, na'i wasanaethu cystal. Ac wedi darfydd ohono ei giniaw, y forwyn a gyweiriodd ei wely. 'Dos yma,' ebe hi, 'i gysgu, a minau a âf i garu trosot.' Ac Owain a aeth i gysgu; a chau drws y llofft a wnaeth y forwyn, a myned tua'r Gaer. A phan y daeth, nid oedd yno namyn tristyd a gofal; a'r Iarles ei hun yn yr ystafell, heb oddef, oherwydd tristwch, gweled dyn. A² Luned a ddaeth ati gan gyfarch gwell iddi. Eithr nid atebodd yr Iarles iddi. A'r forwyn a blygodd ger ei bron; ac a ddywedodd, 'Paham nad atebych i mi heddyw?' 'Luned,' ebe'r Iarles, 'pa wyneb y sydd arnat ti, gan na ymwelaist â mi yn fy ngofid? a minau a'th wnaethum di yn gyfoethog; yr oedd yn gam arnat na buaset yn dyfod; hyny fu yn gam

¹ *Golchi pen*.—Er mor chwith yr ymddengys hyny i ni yn yr oes hon, peth cyffredin yn y dyddiau cynt ydoedd gweled merched uchelradd yn gweini ar, ac yn ymgeleddu, Marchogion.

² *Luned*.—Cyfeiria beirdd y Canol Oesau, megis Gruffydd ab Meredydd, Dafydd ab Gwilym, ac eraill, yn fynych at degwch Luned. Gelwir hi yn yr hen Ramantau Ffrengig yn *Lunette*. Yn ol y *Metrical Romances* Seisnig, yr oedd hen gydnabyddiaeth rhyngddi âg Owain, yr hyn sydd yn cyfrif am yr ymdrech a wna i'w waredu, ac am ei chydabyddiaeth â'i hanes. Yn ol un darlleniad o 'Dri Thlws ar Ddeg Ynys Prydain,' yr oedd Maen Modrwy Eluned yn un obonynt, yr hwn a 'dynnodd Owain ab Urien rhwng yr og a'r mur; pwy bynag a guddiai y maen, fe ai cuddiai y maen ynteu.'

ynot.' 'Diau,' ebe Luned, 'ni thebygais i na buasai well dy synwyr di nag y mae; ai da i ti alaru am y gwr da hwnw, neu unpeth arall, nas gellych byth ei ei gael?' 'Rhyngof fi â Duw,' ebe'r Iarllles, 'ni allwn i byth enill fy arglwydd i o ddyn arall yn y byd.' 'Gallet,' ebe Luned, 'gael gwr hagr a f'ai cystal neu well nag ef.' 'Rhyngof i â Duw,' ebe'r Iarllles, 'pe na b'ai wrthun genyf beri dienyddio un a fegais, mi a barwn dy ddienyddio di am gyffelybu wrthyf beth mor annghywir a hyny; eithr dy ddeol di a wna.' 'Da yw genyf,' ebe Luned, 'nad oes genyt well rheswm tros wneud hyny nag am fynegi ohonof iti dy les lle nis medrit dy hun; a mefi iddi ohonom ein dwy a ymgais gyntaf am heddwch, neu a wahoddo gyntaf y llall ati.'

Ar hyny, Luned a aeth ymaith; a chyfodi a wnaeth yr iarllles a'i dilyn at ddrws yr ystafell, a phesyachu yn uchel. A Luned a edrychodd drach ei chefn, a'r Iarllles a amneidiodd ar Luned, a daeth Luned drachefn at yr Iarllles. 'Rhyngof fi a Duw,' ebe'r Iarllles wrth Luned, 'drwg yw dy anian; a chan mai fy lles i oedditi ti yn ei fynegi, dywed pa ffordd f'ai hyuy.' 'Mi a'i mynegaf,' ebe hi, 'ti a wyddost nad ellir cynal dy gyfoeth di namyn o filwriaeth ac arfau, ac am hyny cais yn ebrwydd a'u cynhalio.' 'Pa ffordd y gallaf fi hyny?' ebe'r Iarllles. 'Mynegaf,' ebe Luned, 'oni elli di gynal y Ffynon, ni elli gynal dy gyfoeth; ni all neb gynal y Ffynon namyn un o deulu Arthur; a minau a âf hyd i Lys Arthur, a mefi imi,' ebe hi, 'o deuaif oddiyno heb filwr a gadwo y Ffynon yn gystal neu yn well na'r gwr a'i cedwis gynt.' 'Anhawdd yw hyny,' ebe'r Iarllles, 'eithr dos i brofi yr hyn a ddywedi.'

Cychwyn a wnaeth Luned tan yr esgus o fyned i Lys Arthur, a daeth i'r llofft at Owain. Ac yno y bu hi gydag Owain onid oedd yn amser iddi ddyfod o Lys Arthur. Yna gwisgo am dani a wnaeth, a dyfod i ymweled â'r Iarllles. A llawen fu y Iarllles o'i gweled. 'Chwedlau o Lys Arthur genyt?' ebe'r Iarllles. 'Goreu chwedl genyf, arglwyddes,' ebe hi, 'caffael ohonof fy neges. A pha bryd y myni di weled yr unben a ddaeth gyda mi?' 'Tyred di âg ef am haner dydd yforu i ymweled â mi, a minau a baraf gynull y dref yn nghyd y pryd hwnw¹.'

Luned a ddychwelodd adref. Am haner dydd dranoeth, Owain a wisges am dano bais a swrcot (*surcoat*) a mantell o sidan melyn, ac orffreis (*band*) lydan o eurlliw oedd ar ei fantell, a dwy esgid o gordwal brith am ei draed, a llun llew o aur ar eu claspiâu. A dyfod a wnaethant hyd yn ystafell yr Iarllles.

A llawen fu yr Iarllles wrthynt; a hi a edrychodd yn graff ar Owain.

¹ *Cynal cyfoeth.*—Cynelid cyfoeth yn benaf trwy gadernid braich ac arfau; ac os mynai gweddw gyfoethog gadw ei heiddo, y ffordd oreu, os nad yr unig ffordd, iddi ydoedd priodi marchog dewr. A pha le yr oedd dewrach marchogion nag yn Llys Arthur?

'Luned,' ebe hi, 'nid oes golwg teithiwr ar y gwr hwn.' 'Pa ddrwg yw hyny, arglwyddes?' ebe Luned. 'Rhyngof fi â Duw,' ebe'r Iarles, 'ni ddrwg un gwr enaid fy arglwydd i o'i gorff namyn y gwr hwn.' 'Goreu oll i ti, arglwyddes, canys pe na buasai ef drech na'th arglwydd, ni ddygasai ef ei enaid. Nid ellir dim wrth hyny a aeth heibio, poed a fo.' 'Ewch chwi drachefn adref,' ebe'r Iarles, 'a minau a gymeraf gynghor.'

A thranoeth, hi a barodd gynull ei deiliaid oll i'r un lle. Yna hi a fynegodd iddynt fod yr iarllaeth yn weddw, ac nad ellid ei chynnal onid o rym march, ac arfau, a milwriaeth. 'Minau a roddaf i chwi eich dewis ai un ohonoch chwi a'm cymero i, ai caniatâu a wnewch i mi gymeryd gwr a gynhalio fy nghyfoeth o le arall.' A hwyntwy a gawsant yn eu cynghor ganiatâu iddi gymeryd gwr o le arall. Yna y dug hithau Esgobion ac Archesgobion i wneud ei phriodas âg Owain. A gwyr yr iarllaeth a roddasant warogaeth iddo.

Ac Owain a gedwis y Ffynon trwy nerth cledd a gwaewffon. Ac fel hyn y cedwis efe hi: O deuai yno farchog, Owain a'i dymchwelai, ac a'i gwerthai er ei lawn werth. A'r da hwnw a ranai efe i'w farwniaid a'i farchogion, hyd nad oedd wr yn y byd gymaint ei gariad o fewn ei gyfoeth. A thair blynedd y bu efe felly.

Ac fel yr oedd Gwalchmai¹ un diwrnod yn gorymdaith gyda'r ymherawdwr Arthur, edrych a wnaeth efe ar Arthur a'i weled yn drist gystuddedig, yr hyn a ddoluriai Gwalchmai yn fawr—gweled Arthur yn y drych hwnw; ac efe a ddywedodd wrtho, 'Arglwydd, pa beth a'th dristaodd di?' Ebe Arthur, 'Hiraeth y sydd arnaf am Owain, yr hwn a golles er's tair blynedd; ac o byddaf y bedwaredd flwyddyn heb ei weled, ni bydd fy enaid yn fy nghorff. Ac mi a wn mai trwy chwedl Cynon fab Clyduo y collwyd Owain genym.' 'Ni raid i ti,' ebe Gwalchmai, 'gasglu dy luoedd yn nghyd er hyny, canys tydi a gwyr dy dŷ a ellwch ddial Owain, os lladdwyd ef; neu ei ryddhau od ydyw yn ngharchar; ac os byw ydyw, ei ddwyn gyda thi.' A chymeryd cynghor Gwalchmai a wnaed.

Yna Arthur, a gwyr ei dŷ gydag ef, a barotoisant i fyned i ymofyn Owain. A'u rhif oedd tair mil, heblaw gwasanaethyddion. A Chynon ab Clydno oedd gyfarwyddwr iddynt. Ac Arthur a ddaeth hyd y Gaer y buasai Cynon ynddi. A phan ddaethant yno, yr oedd y gweision yn saethu yn yr un lle, a'r gwr melyn gerllaw. A phan weles y gwr melyn Arthur, cyfarch gwell a'i wahodd a wnaeth, yntau a gymerth ei wahodd, ac i'r Gaer yr aethant; ac er cynifer oeddynt, ni wyddid dim oddiwrtlynt yn y Gaer gan mor fawr ydoedd. A'r

¹ *Gwalchmai*—Gwel t.d. 21.

morwynion a godasant i'w gwasanaethu; a bai a welsant ar bob gwasanaeth erioed oddieithr gwasanaeth y gwragedd hyn. Ac nid oedd waeth gwasanaeth gweision y meirch y nos hono nag a fyddai ar Arthur yn ei lys ei hun.

Bore dranoeth, Arthur a gychwynes oddiyno, a Chynon yn gyfarwyddwr iddo; a hwy a ddaethant i'r lle yr oedd y gwr du. A rhyfeddach oedd maint y gwr du gan Arthur nag y tybiasai ei fod, ac nag y dywedasad wrtho ef. Hyd i ben yr allt y daethant, ac i'r dyffryn hyd y pren glas; ac yno y gwelsant y Ffynon, a'r cawg, a'r llech. Yna y daeth Cai at Arthur ac a ddywedodd wrtho, 'Arglwydd, mi a wn achos y cerdded hwn oll; ac erfyniaf arnat adael i mi fwrw y dwfr ar y llech a derbyn y gofid cyntaf a ddel.' Ac Arthur a ganiataodd iddo.

Yna Cai a fwriodd gawgaid o ddwfr ar y llech, a daeth twrf; ac ar ol y twrf, gawod; ac ni chlywsant erioed dwrf a chawod o fath y rhai hyny. Ac wedi peidio o'r gawod, yr awyr a oleuodd; a phan edrychasant ar y pren nid oedd yr un ddeilen arno. Yna adar a ddisgynasant ar y pren; a diau oedd ganddynt na chlywsant erioed gerdd cystal a chan yr adar hyny. Ar hyny, gwelent farchog ar farch purddu, a gwisg o sidan purddu am dano; a Chai a gerddodd i'w gyfarfod, ac a barotodd i'w dderbyn. Yna gornestu; ac ni bu hir yr ornest na fwriwyd Cai. A'r marchog a babelodd, ac Arthur a'i lu a babellasant, y nos hono.

A bore dranoeth, pan gyfodasant, gwelent arwydd i ornestu ar waewffon y marchog, a daeth Cai at Arthur, ac a ddywedodd wrtho, 'Arglwydd,' ebe efe, 'trwy gam y'm bwriwyd i ddoe; ac a fydd da yn dy olwg adael i mi fyned heddyw eto a gornestu â'r marchog?' 'Gadawaf,' ebe Arthur. A Chai a gyfaryddodd y marchog. Ac yn y lle, Cai a fwriwyd, a'r marchog a'i tarawodd ef gyda phen ei waewffon yn ei dalcen, nes y torodd efe ei helm, a'i benffestin (*headpiece*), a'r croen, a'r cig hyd yr asgwrn—cyfled a phen y paladr. A Chai a ddychwelodd drachefn at ei gymdeithion.

Wedi hyn, holl lu Arthur a aethant allan y naill ar ol y llall i ornestu â'r marchog hyd nad oedd neb ohonynt heb eu taflu ganddo oddieithr Arthur a Gwalchmai. Ac Arthur a ymbarotodd i'r ornest. 'Och! arglwydd,' ebe Gwalchmai, 'gad i mi fyned i ymladd â'r marchog yn nghyntaf.' Arthur a ganiataodd iddo, ac i ymladd â'r marchog yr aeth. A chwysallt o sidan oedd trosto ef a'i farch, yr hwn a ddanfonasid iddo gan ferch Iarll Rhangyw¹; ac wrth hyny, nid adwaenid ef gan neb o'r llu. Ac ymgyrchu a wnaethant; a

¹ *Rhangyw*.—Anjou, yn Ffrainc. Yn ol y *Brutiau*, perthynai yr iarllaeth hon i Arthur; ac yntau a'i rhoddes i Cai.

gornestu y dydd hwnw hyd yr hwyr; ac ni bu agos i'r un ohonynt fwrw y llall i'r llawr.

A thranoeth yr ymladdasant â gwaewffyn cryfion ganddynt. Ac ni orfu yr un ohonynt ar y llall.

A'r trydydd dydd, gornestu a wnaethant, a gwaewffon gadarnfras, gref, gan bob un; ac enynu o lid a wnaethant, ac ymladd yn galed hyd haner dydd. Yna hwrdd a roddes pob un ohonynt i'w gilydd oni thores holl genglau'r meirch, ac oni syrthiodd y ddau tros grwper ei farch i'r llawr. A chodi i fynu a wnaethant yn gyflym, a thynu cleddyfau, ac ail ddechreu ymffust. A diau oedd gan y nifer a'u gwelent felly na welsant erioed ddau wr cyn wyched a'r rhai hyny, na chyn gryfed. Pe buasai yn nos dywell, hi a fyddai yn oleu ddydd gan y tân o'u harfau. Ar hyny, dyrnod a roes y marchog i Walehmai, hyd oni throes yr helm oddiar ei wyneb, fel yr aduabu y marchog mai Gwalchmai oedd efe. Yna y dywedodd Owain, 'Arglwydd Gwalchmai, nid adwaenwn i dydi, oherwydd dy gwnsallt: a'm cefnder wyt—hwde i ti fy nghleddyf a'm harfau.' 'Tydi, Owain, y sydd arglwydd, a thydi a orfu; cymer di fy nghleddyf i,' ebe Gwalchmai. Ar hyny, Arthur a'u canfu, ac a nesaodd atynt. 'Arglwydd Arthur,' ebe Gwalchmai, 'dyma Owain: gorfu arnaf, ac ni chymer fy arfau.' 'Arglwydd,' ebe Owain, 'efe a orfu arnaf i, ac ni chymer efe fy nghleddyf.' 'Moeswech i mi eich cleddyfau,' ebe Arthur, 'ni orfu yr un ohonoeh ar eich gilydd.' Ac Owain a ddododd ei ddwyllaw am wddf Arthur, ac ymgoffeidio a wnaethant. A'r holl lu a ddaethant i weled Owain, ac i'w goffeidio. Ac fe fu agos a bod celanedd yn yr ymsang hwnw.

Ar nos hono yr aethant oll i'w pabellau; a thranoeth Arthur a barotodd i ddychwelyd. 'Arglwydd,' ebe Owain, 'nid felly y mae'n iawn i ti. Tair blynedd i'r amser hwn y daethum i oddiwrthyt ti, arglwydd; a'r lle hwn myfi a'i piau; ac er hyny hyd heddyw yr ydwyf yn darpar gwledd i ti, gan y gwyddwn y deuet i'm ceisio. A thi a ddeui gyda mi i fwrw dy ludded, tydi a'th wyr; a chwi a gewch enaint.'

A hwy oll a ddaethant hyd i Gaer IARLLES Y FFYNON; a'r wledd y buwyd dair blynedd yn ei darparu a dreuliwyd mewn tri mis. Ac ni bu esmwythach iddynt wledd erioed, na gwell, hono. Ac Arthur a ddarparodd i ymadael, ac a ddanfonodd genadau at yr Iarles yn erfyn arni ollwng Owain i dd'od gydag ef am dri mis, fel y dangosai ef i bendefigesau Ynys Prydain. A'r Iarles a ganiataodd, er mai anhawdd fu hyny gauddi. A daeth Owain gydag Arthur i Ynys Prydain. Ac wedi ei ddyfod i blith ei genedl a'i gyfeillion, efe a arosodd am dair blynedd yn lle tri mis.

Ac fel yr oedd Owain, un diwrnod yn bwyta ar y bwrdd yn Nghaerlleon

ar Wysg, wele forwyn yn dyfod ar farch gwineu, mwng-grych, wedi ei orchuddio â ffroth; a'i gwisg oedd o sidan melyn. A'r ffrwyn, a'r hyn a welid o'r cyfrwy, aur oedd oll. A hi a ddaeth hyd at Owain, ac a gymerth y fodrwy oddiam ei law. 'Fel hyn,' ebe hi, 'y gwneir i'r twyllwr, y bradwr annglywir; a mefl ar dy farf.' Yna hi a drodd ben ei march ac a aeth ymaith.

A daeth i gof Owain ei ymgyrch, a thrithau a wnaeth. Ac wedi darfod bwyta, efe a ddaeth i'w letty, ac mewn pryder y bu efe y nos hono. Tranoeth, efe a gyfodes; ac nid i'r llys y cyrchodd efe, namyn i eithafoedd byd a diffaeth fynyddoedd. Ac felly y bu hyd oni ddarfu ei ddillad oll, a hyd oni ddarfu ei gnawd o'r braidd, ac hyd oni thyfodd blew hirion trwyddo. Cydgerdded a wnai â bwystfilod, a chyd-ymborthi â hwynt, onid oeddnt gynefin âg ef; nes o'r diwedd y gwanychodd fel nad allai gydymdaith â hwynt. Yna daeth o'r mynydd i ddyffryn, ac at y parc tecaf yn y byd, ac iarles weddw oedd piau y parc

Ac un diwrnod, aeth yr Iarles a'i llawforwynion allan i orymdaith ger ystlys llyn oedd yn nghanol y parc, a gwelent yno eilun dyn a'i ddelw, a'i ofni a wnaethant. Er hyny, aethant ato, a'i deimlo, a'i edrych. Gwelent fod bywyd ynddo, er ei fod yn gwywo gan wres yr haul. A dychwelodd yr Iarles i'r Castell, a chymerodd lonaid gorffwch o iraid gwerthfawr, ac a'i rhoddes i un o'i llawforwynion. 'Dos,' ebe hi, 'a hwn genyt, a dwg y march acw a'r dillad genyt, a dod hwynt gerllaw y gwr a welsom gyneu. Ac ir ef â'r iraid hwn ar gyfer ei galon; ac o bydd enaid ynddo, efe a gyfyd gan yr iraid hwn; a gwylia beth a wnel efe.'

A'r forwyn a ddaeth rhagldi, ac a roddes y cwbl o'r iraid arno, a gadawodd y march a'r dillad wrth ei myl, ac a ymguddies er ei wyllo. Ac yn mhen ysbaid, hi a'i gwelai yn cosi ei freichiau, ac yn codi i fynu, ac yn edrych ar ei gnawd, a chywilyddio a wnaeth gan mor hagr oedd y ddelw oedd arno. Yna efe a ganfyddodd y march a'r dillad, ac ymlusgo tuag atynt a wnaeth, oni allodd dynu y dillad ato o'r cyfrwy a'u gwisgo. A thrwy boen efe a esgynodd ar ei farch. Yna y forwyn a ddatguddiodd ei hun iddo, ac a gyfarchodd well iddo, ac yntau fu lawen o'i gweled. Ac efe a ofynodd iddi pa dir a pha le oedd hwnw. Hithau a ddywedodd, 'Iarles weddw a biau y Castell acw, a phan fu farw ei gwr, efe adewis iddi ddwy iarllaeth, a heddyw nid oes ar ei helw namyn yr un tŷ hwn ar nas dycodd iarll ieuanc ag sydd yn gymydog iddi am nad elai yn wraig iddo.' 'Gresyn yw hyny,' ebe Owain; a'r forwyn ac Owain a ddaethant i'r Castell. A disgyn a wnaeth Owain yn y Castell, a'r forwyn a'i dyg ef i ystafell esmwyth, ac a gyneuodd dân iddo, ac a'i gadawodd yno.

A'r forwyn a ddaeth at yr Iarles, ac a roddodd iddi y gorffwch. 'Ha!

forwyn,' ebe'r Iarll, 'pa le y mae'r enaint oll?' 'Mi a'i defnyddiais oll,' ebe'r forwyn. 'Ha! forwyn,' ebe'r Iarll, 'nid hawdd genyf faddeu hyn i ti: diriaid oedd i mi dreulio gweith saith ugain punt o iraid gwerthfawr ar ddyn heb wybod pwy ydyw. Eithr gwasanaetha di arno oni adfero efe yn gwbl oll.'

A'r forwyn a wnaeth hyny, gyda bwyd a diod, a thân, a gwely, ac enaint, onid oedd efe yn iach. Bu hyny yn mhen tri mis, a'r blew a aethant oddiar Owain, a gwynach oedd ei gnawd nag y buasai gynt.

Un diwrnod clywai Owain gynhwrf yn y Castell, a swm dwyn arfau i mewn, a gofynodd i'r forwyn pa gynhwrf oedd hyny. 'Yr iarll,' 'ebe hi, y dywedais i ti, sydd yn dyfod wrth y Castell i geisio difa y wraig hon, a llu mawr ganddo.' A gofyn a wnaeth Owain os oedd march ac arfau yn y Castell. 'Oes,' ebe'r forwyn, 'y rhai goreu yn y byd.' 'A ai di,' ebe Owain, 'i erchi benthyg march ac arfau, fel y gallwyf fi fyned ac edrych ar y llu?' 'Af,' ebe'r forwyn.

A hi a ddaeth at yr Iarll ac a'i hysbysodd o'r hyn a ddywedasai Owain. A'r Iarll a chwarddodd, 'Rhyngof i a Duw,' ebe hi, 'dyro iddo y march a'r arfau am byth; ni bu ar fy helw eioed farch ac arfau cystal a hwynt; a da genyf iddo eu cymeryd rhag i'm gelynion eu cael yforu o'm hanfodd. Eithr ni wn i beth a fyn efe â hwynt.'

A daethpwyd a march du godidog, a chyfrwy o flawydd arno, a digon o arfau gwr a march, i Owain. Yntau a wisgodd am dano, ac a esgynodd ar ei farch. Yna efe a aeth ymaith a dau was gydag ef, ac iddynt geffylau ac arfau. A phan ddaethant i olwg llu yr Iarll, ni welent nac ol nac eithaf iddo. Ac Owain a ofynodd i'r gweision pa fyddin yr oedd yr Iarll ynnddi. 'Y fyddin y mae y pedwar ystondard melynion acw ynnddi,' ebe'r gweision, 'dwy y sydd o'i flaen, a dwy o'i ol.' 'Ie,' ebe Owain, 'cweh chwi yn ol, ac arhoswch fi wrth borth y Castell.' A hwy a ddychwelasant; yntau a gerddodd rhagddo ar ei gyfer at yr Iarll. Ac Owain a'i tynodd ef oddiar y cyfrwy, fel pe buasai gorsen ysig, ac a drodd ben ei geffyl tua'r Castell; a thrwy ychydig o drafferth, dygodd ef at y porth lle yr oedd y ddau was. Ac i mewn yr aethant, ac Owain a wnaeth anrheg ohono i'r Iarll, ac a ddywedodd, 'Wele dâl i ti am yr iraid bendigaidd.'

A'r llu a babellasant o amgylch y castell, a'r Iarll a ddychwelodd i'r Iarll ei dwy iarllaeth drachefn, fel yr arbedid ei fywyd. Ac am ei ryddhad, efe a dalodd iddi haner ei gyfoeth ei hun, a'r cwbl o'i aur, a'i arian, a'i dlysau, a gorfu roddi gwystlon heblaw hyny.

Ac ymaith y daeth Owain, er i'r Iarll a'i holl ddeiliaid ei wahodd i aros; er hyny, efe a chwenychai yn hytrach gerdded rhagddo eithafoedd byd a diffaethwch.

Ac fel yr oedd yn cerdded, efe a glywai ysgrech fawr mewn coed. Ac a'i clywai ddwy waith a thair gwaith. Ac efe a ddaeth tua'r fan; a phan ddaeth, efe a welai glogwyn mawr yn nghanol y coed, a chraig lwyd oedd yn ystlys y clogwyn, a hollt oedd yn y graig, a sarph oedd yn yr hollt. A llew du pur oedd yn ymyl y graig. A phan geisiai y llew fyned oddiyno, y sarph a neidiai ato i'w frathu. Ac Owain a ddadweiniodd ei gleddyf, ac a nesdaodd at y graig; ac fel yr oedd y sarph yn dyfod o'r graig, Owain a'i tarawodd â'r cleddyf onid oedd yn ddau haner. Ac efe a sychodd ei gleddyf, ac a ddaeth i'w ffordd fel o'r blaen. Ac efe a welai y llew yn ei ganlyn, ac yn chwarcu o'i gylch fel milgi a fagasai ef ei hun. A cherdded a wnaethant yn nghyd hyd hwyr y dydd. A phan fu amser i Owain orphwys, efe a ddisgynodd oddiar ei farch, ac a'i gollyngodd i ddol goediog wastad; ac a gyneuodd dân. Ac erbyn iddo orphen cyneu y tân, yr oedd y llew wedi casglu digon o danwydd iddo am deimos. A diflanu a wnaeth y llew oddiwrtho. Yn mhen ysbaid, dyma fe yn dychwelyd ac iwrech mawr godidog ganddo, ac a'i bwriodd gerbron Owain, ac a aeth am y tân ag ef.

Ac Owain a ftingodd yr iwrech, ac a ddododd olwythion ohono ar ferau o gylch y tân. Y gweddill a roddodd efe i'r llew. Ac fel yr oedd Owain felly, efe a glywai och fawr eifwaith a thrydedd waith yn gyfagos iddo, ac efe a ofynodd os och dyn o'r byd oedd yr och a glywai. 'Ie,' ebe'r llais. 'Pwy wyt ti?' ebe Owain. 'Diau,' ebe hi, 'Luned wyf fi, llawforwyn IARLLES Y FFYNON.' 'Beth a wnei di yna?' ebe Owain. 'Fy ngharcharu,' ebe hi, 'yr ydys o achos marchog a ddaeth o Lys Arthur i fynnu yr Iarlles yn briod; ac efe a fu ysbaid gyda hi, ac a ddaeth ar ymweliad â Llys Arthur, ac ni ddychwelodd byth drachefn. A chyfaill imi mwyaf a garwn yn y byd oedd efe. A'i oganu a wnaeth dau o weision ystafell yr Iarlles a'i alw yn dwyllwr; minau a'u hatebais nad allai eu deugorff hwy ymryson â'i uncorff ef. Ac am hyny carcharwyd fi yn y llestr maen hwn; a dywedwyd wrthyf na byddai fy enaid yn fy nghorff oni ddeuai ef i'm gwared cyn pen dydd penodol, ac nid pellach y dydd hwnw na threnydd. Ac nîd oes imi neb a'i cais ef. Ei enw yw Owain ab Urien.' 'Ai sier genyt pe gwypai y marchog hwnw, y deuai i'th amddiffyn?' 'Deuai, rhyngof i a Duw,' ebe hi.

A phan oedd y golwythion yn barod, Owain a'i rhanodd rhyngddo ef a'r forwyn. A bwyta a wnaethant; ac wedi hyny ymddyddan onid oedd hi yn ddydd dranoeth. Tranoeth, Owain a ofynes i'r forwyn os oedd lle y gallai gael bwyd a llawenydd y nos hono. 'Oes, arglwydd,' ebe hi, 'dos yna drwodd, a cherdda y ffordd ger ystlys yr afon, ac yn mhen ysbaid ti a weli Gaer fawr, a thyrau aml arni, a'r iarll a biau y gaer hono goreu gwr am fwyd ydyw yn y byd. Ac yno y gelli di fod heno.

Ac ni wylies gwyliwr ei arglwydd erioed yn gystal ag y gwyliai y llew ar Owain y nos hono.

Yna Owain a gyweiriodd ei farch, ac a gerddodd rhagddo trwy y rhyd, oni weles y Gaer. Ac efe a aeth i mewn, a derbyniodd anrhydeddus a gafodd. Gofalwyd am ei farch, a dodwyd dogn dda o fwyd ger ei fron. A myned a wnaeth y llew i breseb y march i orwedd, hyd na lyfasai neb o'r Gaer fyned ar gyful y march. A diau oedd gan Owain nas gwelsai erioed wasanaeth cystal ag a gawsai yno, er fod pawb cyn dristed a phe buasai angau yn mhob un ohonynt. A myned i fwyta a wnaethant; a'r iarll a eisteddai ar y naill law i Owain, a'i unig ferch ar y llaw arall iddo. A diau oedd gan Owain na welsai erioed forwyn harddach na hono. A'r llew a ddaeth ac a orweddodd rhwng deudroed Owain tan y ford; ac Owain a'i porthes â phob bwyd ag oedd ganddo yntau. Ac ni welodd Owain fai yno oddieithr tristwch y dynion.

Ac ar haner bwyta, yr iarll a ddechreuodd gyfarch gwell i Owain. 'Y mae yn amser i ti fod yn llawen,' ebe yntau. 'Duw a wyr,' ebe'r iarll, 'nad wrthyt ti yr ydym yn drist; namyn dyfod defnydd tristwch i'n gofal.' 'Beth yw hyny?' ebe Owain. 'Dau fab oedd im', a myned a wnaethant ddoe i'r mynydd i hela. Ac y mae anghenfil yno, a lladd dynion a wna, a'u hysu; ac efe a ddaliodd fy meibion. Ac yforu y mae'r amser iddo ddyfod yma, ac oni roddaf fi y forwyn hon iddo, efe a ladd fy meibion yn fy ngwydd. Llun dyn sydd iddo, er nad ydyw lai na chwyr.'

'Diau,' ebe Owain, 'gresyn yw hyny; a pha un a wnei di?' 'Duw a wyr,' ebe'r iarll, 'fod yn well genyf iddo ddyfetha fy meibion, a gafodd efe o'm hanfodd, na rhoddi fy merch iddo, o'm bodd, i'w llygru a'i dyfetha.' Ac ymddyddan a wnaethant am bethau eraill.

Ac yno y bu Owain y nos hono. A bore dranoeth, hwy a glywent dwrf anfeidrol ei faint; sef twrf y gwr mawr yn dyfod, a'r ddau fab ganddo. A'r iarll a fynai gadw y Gaer rhagddo, a rhyddhau ei ddau fab. Yna Owain a ymarfogodd ac a aeth allan i ymladd â'r cawr; a'r llew a'i canlynodd. A phan weles y cawr Owain yn arfog, efe a gyrchodd arno, ac ymladdodd âg ef; a gwell o lawer yr ymladdai y llew â'r gwr mawr nag Owain. Ac ebe y gwr wrth Owain, 'Ni byddai gyfyng arnaf ymladd â thi pe na byddai yr anifail yna gyda thi.' Yna Owain a fwriodd y llew i'r Gaer, ac a gauodd y porth arno; ac a ddychwelodd i ymladd â'r gwr mawr, fel o'r blaen. A'r llew, yn clywed fod Owain yn cael y gwaethaf, a roes ysgrech uchel, ac a ddringodd i fynu ar neuadd yr iarll, ac oddiar y neuadd ar y Gaer, ac oddiar y gaer efe neidiodd onid oedd efe gydag Owain. A'r llew a roddodd ddymod â'i balf i'r gwr mawr onid oedd ei balf trwy bleth y ddwy glun, fel y gwelid ei ymysgaroedd yn lithro allan.

A'r cawr a syrthiodd yn farw, ac yna Owain a roddais ei ddau fab i'r iarll.

A'r iarll a wahoddodd Owain i aros yno. Eithr nis mynai efe, namyn dyfod rhagddo i'r ddol yr oedd Luned ynddi. Ac efe a welai yno dân mawr yn cyneu; a dau was hardd, pengrych, gwineu, yn myned â'r forwyn i'w bwrw i'r tân. Yntau a ofynodd iddynt pa beth a fynent â'r forwyn. A datgan yr amod a wnaethant iddo fel y datganasai y forwyn y nos cynt. 'Owain ni's gwarddodd hi; ninau a'i llosgwn hi.' 'Diau,' ebe Owain, 'marchog da oedd hwiw; a phe gwypai am gyfyngder y forwyn, rhyfedd yw na ddeuai i'w hamddiffyn. Ond os cymerwch chwi fi yn ei le, mi a ymladdaf â chwi.' 'Gwnawn,' ebynt hwythau, 'myu y Gwr a'n gwnaeth.'

Ac ymornestu âg Owain a wnaethant, a gofid a gafodd efe gan y ddeuwas. Ar hyny, y llew a gynorthwyodd Owain, a hwy a orfuant ar y gweision. Yna y dywedasant hwythau, 'Ha! unben, nid oedd amod i ni ymladd namyn â thydi dy hun; ac anhawddach i ni ymladd â'r anifail acw nag â thydi.' Ac Owain a ddodes y llew yn y lle y buasai y forwyn yn ngharchar, ac a wnaeth fur o feini ar y drws, a myned i ymladd â'r gwyr fel cynt, eithr ni ddaethai nerth ato. Yr oedd y ddeuwas yn gorfod arno, a'r llew fyth yn ysgrechu am fod gofid ar Owain; nes o'r diwedd y rhwygodd efe y mur, ac y cafodd ei ffordd allan. Ac yn gyflym efe a laddodd y naill a'r llall o'r gweision; ac felly yr arbedwyd Luned rhag ei llogi.

Yna y daeth Owain, a Luned gydag ef, i lys Iarllles y Ffynon. A phan y daeth yno, efe a gymerth yr Iarllles gydag ef i Lys Arthur. A hi a fu ei wraig tra fu hi byw.

A hwy a gymerasant y ffordd oedd yn arwain i lys y gwr du traws. Ac Owain a ymladdodd âg ef, ac nid ymadawodd y llew âg Owain hyd oni orfu ar y du traws. A phan gyrhaeddodd efe lys y gwr du traws, efe a aeth i mewn i'r neuadd, ac yno efe a welai bedair gwraig ar hugain tlysaf a welodd neb erioed. Ac nid oedd y dillad oedd am danynt werth pedair ar hugain o arian; a chyn dristet oeddynt ag angau. Ac Owain a ofynodd iddynt ystyr eu tristwch. Hwythau a ddywedasant mai merched icirll oeddynt, 'a daethom yma bob un gyda'r gwr a garem fwyaf o'r byd. A phan ddaethom ni yma, ni a gawsom lawenydd a pharch; a'n gwneuthur yn feddw. Ac wedi ein gwneuthur yn feddw, daeth y cythraul a biau y llys hwn, ac a laddodd ein gwyr oll, a dwyn ein meirch ninau, a'n dillad, a'n haur, a'n harian. A chyrph ein gwyr ni sydd eto yn y tŷ hwn, a llawer o gelaneddau gyda hwynt. A dyna i ti, unben, ystyr ein tristwch; a drwg yw genym dy ddyfod di yma, rhag digwydd drwg i tithau.'

A thrist fu Owain am hyny, ac efe a aeth i ymdaith allan. Ac ef a welai farchog yn dyfod ato, ac yn ei gyfarch trwy lawenydd a chariad fel pe buasai yn

frawd iddo, a hwnw oedd y gwr du traws. 'Duw a wyr,' ebe Owain, 'nad i gyrchu dy lawenydd y daethum i yma.' 'Duw a wyr,' ebe yntau, 'na chei dithau ef.' Ac yn y lle ymladd a wnaethant ac ymdaraw yn ffyrnig. Ac Owain a ddifarchodd y cawr, ac a rwymodd ei ddwylaw tu ol i'w gefn; ac efe a erfyniodd nawdd gan Owain, ac fel hyn y dywedodd efe, 'Fy arglwydd Owain, yr oedd darogan y deuet ti yma i'm darostwng i; a thi a ddaethost, ac a orfuost arnaf. Ysbeiliwr a fum i yma, ac ysbeildy fu fy nhŷ; eithr os rhoddi di fy hoedl i mi, mi a af yn ysbyttywr¹, ac a gynhaliat y tŷ hwn yn ysbytty (*hospice*) i wan ac i gadarn tra byddwyf byw, er lles dy enaid di.' Ac Owain a gymerth hyny ganddo, ac yno y bu efe y nos hono.

A thranoeth, efe a cymerth y pedair gwraig ar hugain, a'u meirch, a'u dillad, a'r da a'r tlysau ag oedd ganddynt, ac a ddaeth gyda hwynt hyd yn llys Arthur. A llawen a fuasai Arthur o'i gael pan y collasai efe ef gynt, eithr llawer llawenach yn awr. Ac o'r gwragedd hyny, yr hon a fynai drigo yn Llys Arthur, hi a drigai; a'r hon a fynai fyned ymaith, elai.

Ac o hyny allan, Owain a drigodd yn Llys Arthur, fel penteulu, ac yn fawr ei barch; hyd onid aeth efe ar ei gyfoeth ei hun, sef oedd hyny tri chant o frain² a adawsai Cynferchyn iddo. Ac i'r lle y delai Owain gyda y rhai hyn, gorfod a wnai. A'r chwedl hon a elwir, CHWEDL IARLLES Y FFYNON.

¹ *Ysbyttywr*.—Cadw ysbytty, lle y rhoddid lletty a lloches i bererinion a theithwyr. Math o grefydd-dai elusenol oeddynt. Y mae eu henwau yn aros eto ar aml i bentref gwledig yn Nghymru, megis Ysbytty Ifan, Ysbytty Ystwyth, &c.

² *Brain Owain*.—Sonir hefyd am frain Owain ab Urien yn Mabinogi *Breuddwyd Rhonabwy*; gweler yn mhellach yn mlaen yn y gwaith hwn. Mae yn debyg mai tri chant o wyr oeddynt, a gafodd efe yn anrheg gan rhyw bennaeth o'r enw Cynferchyn; a bod y rhai hyny yn byw 'heb hau na medi, na chywain i ysguboriau,' yn unol âg ysbryd penrhydd yr oes hono; fel mai eithaf priodol ydoedd eu llysenwi'n frain. Neu hwyrach, mai du oedd eu gwisg ac nid eu cymeriad.



GERAINT AB ERBIN.¹

[ODDIETHR cyfieithiad ysblenydd yr Arglwyddes Charlotte Guest, nid ydym yn gwybod fod y Fabinogi ganlynol wedi ymddangos yn Saesneg o gwbl. Ond ymddangosodd yn Ffrancaeg o tan law fedrus cyfieithydd IARLLES Y FFRYSON, sef Chrestien de Troyes. A'r un un ag a gyfieithodd yr *l'arles o'r Ffrancaeg i'r Germanaeg* a wnaeth gyffelyb gymwynas & bon hefyd, sef Hartmann von der Aue. Cyhoeddwyd hono yn 1839 yn Leipsic; tan olygiad Herr Moritz Hampt. Hefyd y mae yn Llyfrgell Freninol Stockholm, gyfieithiad o *Geraint*, mewn llaw ysgrifen, yn yr *Icelandic*. Fel y gellid tybied, ni ddilynir y gwreiddiol yn llythrenol; cymer y cyfieithwyr eu dull eu hunain i gyfaddasu y golygfeydd a rhai o'r gweithrediadau at safon, chwaeth ac arferion eu pobl eu hunain.]

DEFOD Arthur ydoedd cynal ei Lys yn Nghaerlleon ar Wysg; ac efe a'i cynaliodd yno ar saith Pasg, a phum' Nadolig, a'r Sulgwyn hefyd unwaith. Canys y lle hawddaf yn ei gyfoeth i ddyfod iddo, ar fôr ac ar dir, oedd Caerlleon. A daeth ato naw brenin coronog, y rhai oeddynt ddeiliaid iddo, a chyda hwy ieirll a barwniaid; canys ei wahoddedigion i bob gwyl arbenig oeddynt y rhai hyny, oni fyddai mawr anghenion yn eu lluddias. A phan gynaliai ef ei lys yn Nghaerlleon, neillduid tair-ar-ddeg o Eglwysi at ei wasanaeth yn yr offerenau (*masses*). Un eglwys a neillduid i Arthur a'i freninoedd a'i wahoddedigion; yr ail i Wenhwyfar a'i llawforwynion; y drydedd i'r distain a'r gwahoddwyr; y bedwaredd i'r rhydd-ddeiliaid a swyddogion eraill; a'r naw eglwys eraill a fyddent i'r naw penteulu, ac i Walehmai yn benaf, canys efe, o ardderchogrwydd clod milwriaeth ac urddas bonedd, oedd y penaf o'r naw penteulu. Ac fel y dywedwyd uchod yn unig y trefnid y gwasanaethau yn yr eglwysi hyny.

Glewlyd Gafaelfawr oedd y pen porthor; eithr ni chyflawnai ef y

¹ *Geraint ab Erbin*:—Mab ydoedd i Erbin ab Cystenyn Gornou, ac felly yr oedd yn gefnder i Arthur. Rhoddir canmoliaeth uchel iddo gan Ancuryn yn y *Gododin*. Yn ol y *Triodd*, yr oedd yn un o dri prif-lyngesydd Ynys Prydain: sef oeddynt, 'Geraint mab Erbin, Gwenwynwyn mab Naf, a March ab Meirchion; a chweugain llong gan bob un o'r Llynghesogion, a chweugain llongwyr ymhob un.' Geraint a gwmpodd yn mrwydyr Llongborth, yn mlwyddyn Oed Cred 530; a chanwyd ei farwnad gan ei gyfaill a'i gydfilwr enwog Llywarch Hen. Rhestrir Garwy un o'i feibion yn *Tri* 119, gyda Gwalehmai a Chadeir, tan y penawd, 'Tri Marchog Serchogion Llys Arthur: ac nis gallai neb nacau a geissynt rhag eu serchoced, a chymaint eu serch hwy at bob dyn, fel na cheissynt amgen nog a geisiai gâr y gan a garai yn gwir.' Rhestrir Geraint hefyd gyda'r Saint Cymreig, a dywedir fod unwaith eglwys yn Nghaer Ffawydd (*Hereford*) wedi ei chyflwyno iddo. Yr oedd amryw o'i feibion yn saint, ac yn aelodau o goleg Garmon Sant.

swydd ond ar un o'r tair gwyl arbenig; saith o wyr a wasanaethent tano ac a ranent y fwyddyn rhyngddynt. Y gwyr hyny oeddynt: Gryn¹, a Phen Pigion, a Llaes Gymun, a Gogyfwlch, a Gwrddnei Lygad Cath yr hwn a welai yn y nos cystal ag yn y dydd, a Drem ab Dremhidydd, a Chlust ab Clustfeinydd. Y rhai hyn oeddynt wylwyr Arthur.

A dydd Mawrth y Sulgwyn, fel yr oedd yr Ymherawdwr yn eistedd yn y wledd, wele was tal, gwineu, yu dyfod i mewn; a phais a swrcot o sidan caerog am dano, a chleddyf eurddwrn am ei wddf, a dwy esgid isel o gordwal am ei draed; ac efe a safodd gerbron Arthur. 'Henffych well, arglwydd,' ebe efe. 'Duw a roddo dda iti,' ebe yntau, 'a chroesaw iti; a oes genyt rhyw newydd?' 'Oes, arglwydd,' ebe yntau. 'Nid adwaen i dydi,' ebe Arthur. 'Rhyfedd yw genyf na'm hadwaenost; fforestwr iti, arglwydd, wyf i, yn Fforest y Dena² (*Forest of Dean*), a Madog ab Twrcadarn yw fy enw.' 'Dywed di dy chwell,' ebe Arthur. 'Dywedaf, arglwydd,' eb efe, 'carw a welais yn y fforest, ac ni welais erioed ei gyffelyb.' 'Pa beth sydd arno?' ebe Arthur, 'gan na welaist erioed ei gyffelyb?' 'Gwyn pur ydyw, arglwydd; ac ni cherdda gydag un anifail arall gan mor ryfygus o falchder ydyw, ac mor frenhiol ei osgedd. Ac i ofyn dy gynghor am dano y daethum. Arglwydd, beth yw dy gynghor?' 'Goreu,' ebe Arthur, 'fyddai i mi fyned i'w hela yforu yn ieuencyd y dydd; a pheri rhoddi rhybudd o hyny heno i bawb yn y llys.' Ac Arryfuerys oedd pencynydd (*chief huntsman*) Arthur; ac Arelifri ei brif was. Ac felly y rhagdrefnwyd. A gollwng Madog i fyned o'u blaen a wnaethant. Yna y dywed Gwenhwyfar wrth Arthur, 'A ganiatei di i mi, arglwydd, ddyfod yforu i edrych ac i wrando ar hela y carw y soniodd y llanc am dano?' 'Caniataf yn llawen,' ebe Arthur. 'Minau a ddeuaf,' ebe hi. Ac yna y dywed Gwalchmai wrth Arthur, 'Onid iawn i ti, arglwydd, ganiatau i'r hwn y daw y carw i'w helpa, pa un bynag ai marchog ai pedestr (*pedestrian*) a fyddo, iddo gael tori pen y carw, a'i roddi i'r neb y myno—i'w gariadferch ei hun, neu i gariadferch ei gydymaith?' 'Caniataf hyny yn llawen,' ebe Arthur, 'a cherydder y Distain oni fydd pawb yn barod yforu i fyned i hela.'

¹ Nid yw yr enwau hyn ond Llysenwau yn nau ystyr y gair. Diau fod llawer o swyddogion Llys Arthur yn cael eu hadnabod wrth eu llysenwau ac nid wrth ei henwau befydd.

² *Fforest y Dena*.—Gair yn tarddu o *dén*,—swyn, hud. Yr oedd yr Hen Geltiaid yn poblogi coedwigoedd hefo bodau aunaearol, ac yn lleoli pob gweithred gyfrin ynddynt; ac am hyny galwent eu fforestydd yn fynych ar yr enw hwnw, megis Ardennes, yn Ffrainc; Arden yn swydd Warwick; Dean, yn Fforest Rockingham; Dean, yn y *New Forest*, &c. Saif Fforest y Dena, ar derfynau siroedd Mynwy a Chaerloyw. Barnai Carnhuanawc mai dyma Fferyllwg yr hen derfynau Cymreig. Y mae'r Gweithiau Haiarn mawrion sydd yn y lle bellach wedi symud y derw cedyrn ac enwog a safent yno gynt, y rhai y cafodd y *Spanish Armada* orchymyn caeth i'w dyfetha.

A threuliasant y nos mewn cerddau a dyddanweh, ac ymddyddan a difyrion; a phan ddaeth amser i bawb fyned i gysgu, hwy a aethant. A phan ddaeth y dydd dranoeth, hwy a ddeffroisant. A galwodd Arthur ar y gweision a gadwent ei wely; nid angen y pedwar gwas, sef, Cadyrnerth¹ fab Porthawr Ganddwy, ac Ambren ab Bedwor, ac Amhar ab Arthur, a Goreu² ab Cystenyn; a'r gwyr hyny a ddaethant at Arthur, ac a gyfarchasant well iddo, ac a wisgasant am dano. Ac Arthur a ryfeddai am na ddeffroes Gwenhwyfar, ac nad ymdroes yn ei gwely; a'r gwyr a fynent ei deffroi. 'Na ddeffrowch hi,' eb efe, 'cansys gwell ganddi gysgu na myned i edrych ar yr hela.'

Yna aeth Arthur rhagddo; ac efe a glywai ddau gorn yn canu, uu yn ymyl lletty y pencynydd (*chief huntsman*) a'r llall yn ymyl lletty y pen gwas; a'r holl luaws a ddaethant at Arthur, a cherddasant yn nghyd tua'r Fforest.

Ac wedi myned Arthur oddiwrth y Llys, Gwenhwyfar a ddeffroes, ac a alwodd ei morwynion ati i wisgo am dani. 'Ha! forwynion,' ebe hi, 'mi a gymerais genad neithiwr i fyned i edrych ar yr hela; ac aed un ohonoch i'r ystabl, a phared ddyfod a march y gallo gwraig ei farchogaeth. Ac un ohonynt a aeth, ac ni chafodd yn yr ystabl ond dau farch. Gwenhwyfar ac un o'r morwynion a esgynasant ar y ddau farch, a hwy a ddaethant trwy yr Wysg, ac ol traed y gwyr a'r meirch a ddilynasant. Ac fel yr oeddynt yn cerdded felly, hwy a glywent dwrf mawr angherddol; a phan edrychasant yn ol, hwy a welent farchog ar ebol helfarch cryf, a llanc ieuanc gwineu, coesnoeth, tywysogaidd yn eistedd arno, a chleddyf eurddwrn ar ei glur, a phais a swrcot o sidan am dano, a dwy esgid isel o gordwal am ei draed, a llen o borphor glas trosto ac afal aur wrth bob cwr iddi. A cherdded yn uchelfalch, sionc, ysgafudroed, gysonfyr, a wnai y march. A'r marchog a oddiweddodd Wenhwyfar, ac a gyfarchodd well iddi. 'Duw a roddo dda i ti, Geraint,' ebe hithau, 'mi a'th adnabum pan i'th welais gyntaf gyneu. Paham nad aethost gyda'th arglwydd i he'la?' 'Am na wypum pan aeth,' eb efe. 'Minau a ryfeddais,' ebe hi, 'iddo allu myned yn ddiwybod i mi.' 'Ie, arglwyddes,' eb efe. 'Cysgu a wnaethum inau, fel nas gwypum pan aeth,' ebe hi, 'a goreu cydymaith genyf i fod yn ei gymdeithas yn yr holl gyfoeth ydwyt ti. O! was ieuanc; ac efallai y caf i

¹ *Cadrynerth*.—'Tri Unben Llys Arthur: Goronwy mab Echel Vordwytwll, a Chadrieith mab Porthfawr gadw, a ffeidwr fflam mab Godo. Sef oeddynt yn Dywysogion yn Bercheunogion Gwlad a Chyfoeth, a gwell oedd genddynt no hynny aros yn Farchogion yn Llys Arthur, gan y bernid hynny yn bennaf ar bob anrhydedd a boueddigeiddrwydd, a ellid wrth a gair y Tri Chyfiawn Farchawg.'—*Tri* 114.

² *Goreu ab Cystenyn*.—Dywed un o'r *Triodd* ei fod wedi gwaredu ei gefnder Arthur o dri charchar. 'Arthur a fu deirnos yng Caer Oeth ac annoeth. A theirnos y gen Wen Bendragon a theirnos yg charchar Rudd dan y llech a chymmreint ag un gwas ae dillyngwys or tri charchar hynny. Sef oedd y gwas Goreu fab Custennin y gefnderw.'—*Tri* 1.

gymaint pleser yn yr hela ag a gant hwythau, canys ni a glywn y cyrn pan eu caner, a'r cwn pan eu gollynger, a phan y dechreuont alw.' Felly hwy a ddaethant i ystlys y Fforest, a sefyll yno a wnaethant. Ac ar hyny, twrf a glywent; a phan edrychasant tua'r fan y deuai y twrf, hwy a welent gorr (*dwarf*) yn marchogaeth march ucheldew, ffroenfol, ewynog, cadarnrud. Ac yn llaw y corr yr oedd ffrewyll. Ac yn agos i'r corr, hwy a welent wraig ar farch gwyn, prydfeth, a cherddediad gwastadfalch iddo, ac eurwisg o sidan oedd am dani. Ac yn agos iddi hithau, gwelent farchog ar gadfarch mawr tomlyd, ac arfau trymion gloywou am dano ac am ei farch, a diau oedd ganddynt na welsent erioed wr a march ac arfau mwy na'r rhai hyn. Ac yr oeddynt oll yn agos i'w gilydd.

'Geraint,' ebe Gwenhwyfar, 'a adwaenost ti y marchog mawr acw?' 'Nac adwaen,' ebe yntau, 'y mae yr arfau mawr estronol acw yn lluddias i neb weled na'i bryd na'i wedd.' 'Dos, forwyn,' ebe Gwenhwyfar, 'a gofyn i'r corr pwy yw y marchog;' a hi a aeth. Pan welodd y corr hi yn dyfod, efe a ddaeth i'w chyfarfod. 'Pwy yw y marchog hwn?' ebe hi. 'Ni ddywedaf i ti,' eb efe. 'Gan dy fod mor difoes ar nas dywedi i mi,' ebe hi, 'mi a ofynaf iddo ef ei hun.' 'Na wnei, myn fy nghred,' eb efe. 'Paham?' ebe hi. 'Am nad wyt yn ddigon anrhydeddus i ymddyddan â'm harglwydd i,' eb efe. A'r forwyn a droes ben ei march tuag at y marchog: yna'r corr a'i tarawodd â'r ffrewyll oedd yn ei law ar draws ei gwyneb a'i llygaid nes oedd ei gwaed yn llifo. A chan faint y ddyrnod, y forwyn a ddychwelodd at Wenhwyfar tan gwyno ei dolur. 'Hagr iawn,' ebe Geraint, 'y gwnaeth y corr â thi. Mi a âf i ymofyn pwy yw y marchog.' 'Dos,' ebe Gwenhwyfar. Geraint yntau a ddaeth at y corr, ac a ofynodd, 'Pwy yw y marchog acw?' Ni ddywedaf iti,' ebe'r corr. 'Mi a ofynaf i'r marchog ei hun,' ebe yntau. 'Na ofyni, myn fy nghred,' ebe'r corr, 'nid wyt ti ddigon anrhydeddus i ymddyddan â'm harglwydd i.' 'Mi a ymddyddenais,' ebe Geraint, 'â gwr sydd cystal a'th arglwydd di.' Ac efe a droes ben ei farch tuag at y marchog; ond y corr a'i goddiweddodd ac a'i tarawodd fel y tarawsai y forwyn, nes oedd y gwaed yn lliwio y llen oedd am dano. A Geraint a ddododd ei law ar ddwrn ei gleddyf, ond a ystyriodd ynddo ei hun na buasai yn ddial teilwng iddo ef ladd y corr, a'r marchog llawn arfog yn ei gael yn anarfog i ymladd âg ef. Ac efe a ddaeth drachefn hyd y lle yr oedd Gwenhwyfar.

'Doeth a phwyllog y gwnaethost,' ebe hi. 'Arglwyddes,' eb efe, 'gan dy genad, mi a af eto ar ol y marchog, ac efe a ddaw yn y diwedd i le cyfanedd lle y gallwyf i gael arfau yn fenthyg neu ar wystl, ac yna ymladdaf âg ef. 'Dos dithau,' ebe hi, 'ac nac ymladd âg ef nes y caffot arfau da; a mawr fydd fy

mhryder i am danat hyd nes clywed oddiwrthyt.' 'Os byw a fyddaf i prydawn yforu,' eb efe, 'ti a glywi oddiwrthyf.' Ac efe a gerddodd ymaith.

A'r ffordd a gerddasant oedd islaw i'r Llys yn Nghaerlleon, a thros y Rhyd ar yr afon Wysg, yna gwastatir teg ar drum uchel, hyd oni ddaethant i ddinasdref. Ac yn mhen y dref, gwelent Gaer a Chastell. Ac i ben y dref y daethant. Ac fel y cerddai y marchog drwy y dref, cyfodai tylwyth pob ty i gyfarch gwell iddo a'i roesawu. A phan ddaeth Geraint i'r dref, edrych a wnai o bob tu i geisio adnabod y rhai a welai, fel y gallai gael y gymwynas o arfau yn fenthyg neu ar wystl, ac nid adwaenai ef neb, na neb yntau. A phob ty a welai yn llawn o wyr, ac arfau, a meirch; ac yr oeddynt yn gloewi eu tarianau, ac yn hogi eu cleddyfau, yn golchi arfau, ac yn pedoli eu meirch. A'r marchog, a'r farchoges, a'r corr, a aethant i'r Castell oedd yn y dref, a llawen oedd pawb wrthynt yno; yn mylchau'r Gaer a'r pyrth yr oeddynt ar dori eu gyddfau i gyfarch gwell iddynt, ac i fod yn llawen wrthynt.

A Geraint a safodd i weled a fyddai i'r marchog aros yn y Castell; a phan fu sicr o hyny, efe a edrychodd o'i amgylch, ac a welai encyd o'r dref hen lys adfeiliedig, a neuadd dyllog ynddo. A chan nad adwaenai neb yn y dref, efe a aeth i'r hen lys; ac ni welai yno namyn llofft, a phont o faeu marmor yn dyfod o'r llofft. Ac ar y bont, efe a welai wr gwynllwyd yn eistedd, a hen ddillad adfeiliedig am dano. A Geraint a edrychodd arno yn graff ac yn hir; ac ebe'r gwr gwynllwyd wrtho, 'Ha! was ieuanc, am ba beth yr wyt ti'n synu?' 'Synu yr oeddwn,' ebe yntau, 'am na wn pa le i fyned heno.' 'A ddeui di rhagot yma, unben?' eb efe, 'a thi a gai'r goreu sydd yma.' Ac aeth Geraint rhagddo ar ol y gwr gwynllwyd, ac i'r neuadd o'i flaen; a disgyn a wnaeth yn y neuadd, a gadael yno ei farch, a myned hefo'r gwr llwyd i'r llofft. Ac yn y llofft, efe a welai hen wraig yn eistedd ar obenydd, a hen ddillad adfeiliedig o sidau am dani; a phan oedd hi yn ieuanc, tebyg oedd ganddo na welsai neb wraig cyn deced a hi. A cherllaw iddi yr oedd morwyn, a llen o liain go hen, yn dechreu adfeilio, am dani; a diau oedd ganddo na welsai erioed un forwyn gyflawnach o anlder prydferthion pryd a gwedd na hi. A'r gwr gwynllwyd a ddywedodd wrth y forwyn, 'Nid oes was i farch y llanc dyeithr hwn heno ond tydi.' 'Y gwasanaeth goreu a allaf i,' ebe hi, 'mi a'i gwnaf iddo ef ac i'w farch,' A diarfogi y llanc a wnaeth y forwyn, a diwallu ei farch hefo gwellt ac yd; ac yna dyfod yn ol drachefn i'r llofft. A'r gwr gwynllwyd a ddywedodd wrthi, 'Dos i'r dref,' eb efe, 'a phar ddyfod yma y bwyd a'r ddiod oreu elli gael.' 'Mi a wnaaf yn llawen, arglwydd,' ebe hi. Ac i'r dref y daeth y forwyn, ac ymddyddan a wnaethant hwythau tra fu y forwyn yn y dref. Ac wele! y forwyn a ddaeth yn ol, a gwas gyda hi, a chostrel ar ei gefn yn llawn o fêdd gwerthfawr, a

chwarter o eidion ieuanc; a rhwng dwylaw y forwyn yr oedd talm o fara gwyn, ac un cosyn yn y llen lliain; ac i'r llofft y daeth. 'Ni ellais i,' ebe hi, 'gael gwell lluniaeth na hwn, ac ni chawn fy nghoelio am ei well.' 'Da ddigon ydyw,' ebe Geraint. A berwi y cig a wnaethant; a phan oedd y bwyd yn barod, i eistedd yr aethant. A Geraint a eisteddai rhwng y gwr gwynllwyd a'i wraig, a'r forwyn a wasanaethai arnynt; a bwyta ac yfed a wnaethant. Wedi darfod bwyta, cynal ymddyddan â'r gwr gwynllwyd a wnaeth Geraint; a gofyn iddo ai efe oedd piau y llys yr oeddynt ynddo. 'Myfi yn wir a'i hadeiladodd,' eb efe, 'a myfi oedd biau y ddinas a'r castell a welaist ti.' 'Och!' ebe Geraint, 'pa fodd y collaist ti hwynt?' 'Mi a gollais,' ebe yntau, 'iarllaeth fawrgyda hyny; a dyma fel y collais hwynt. Nai fab brawd oedd imi, a mi a gymerais ei gyfoeth; a phan ddaeth efe yw nerth, hawliodd ei gyfoeth, a minau a'i cynheliais rhagddo. Yntau a barodd ddwyn rhyfel arnaf, ac a ddygodd oddi-arnaf yr hyn oll oedd genyf.' 'Ha! wrda,' ebe Geraint, 'a fynegi di i mi ystyr dyfodiad y marchog a ddaeth i'r dref gyneu, a'r farchoges, a'r corr? A pha beth ydyw yr holl gyweirio arfau a welais?' 'Mynegaf,' eb efe, 'darpar y maent at y chwareu sydd gan yr iarll ieuanc yforu; sef doddi dwy fforch mewn gweirglodd sydd yna, ac ar y ddwy fforch wialen arian, a doddi Llymhysten¹ (*Sparrow Hawk*) ar y wialen; ac fe fydd twrnament am y Llymhysten. A'r holl nifer a welaist ti yn y dref o wyr a meirch ac arfau a ddaw i'r twrnament, a'r wraig a gâr fwyaf gyda phob un. A'r marchog a welaist ti a gafodd y Llymhysten ddwy flynedd; ac os caiff hi y drydedd flwyddyn, ei hanfon a wneir iddo bob blwyddyn wedi hyny; ac ni ddaw ef ei hun i'w cheisio. Ac o hyn allan gelwir ef yn Farchog yn Llymhysten.' 'Ha! wrda,' ebe Geraint, 'beth yw dy gynghor di imi am y marchog hwnw parth y sarhad a gefais i gan y corr, ac a gafodd morwyn i Wenhwyfar, gwraig Arthur, hefyd?' A Geraint a roddes holl hanes y sarhad i'r gwr gwynllwyd. Ebe yntau, 'Nid hawdd dy gynghori di, gan nad oes iti na gwraig na morwyn i ymarddelwi iddi; ond y mae genyf yma arfau, ti a gei y rhai hyny; a fy march, os gwell genyt ef na'r eiddot dy hun.' 'Ha! wrda,' ebe Geraint, 'mi a gymeraf fy march fy hun, gan fy mod yn gynefn âg ef, a'th arfau dithau. Ac oni adewi di, wrda, imi arddelwi y forwyn acw sydd yn ferch i ti, ar yr amser penodedig yforu? Os diangaf i o'r twrnament, ymrwymaf i garu y forwyn tra byddaf byw; ac oni ddiangaf, cyn ddiweiried a fydd hi a chynt.' 'Myfi,' ebe'r gwr gwynllwyd, 'a wnafl hyny'n llawen. A chan dy fod wedi penderfynu ar hyn, rhaid iti pan ddelo dydd yforu fod â'th farch a'th arfau yn barod. Canys y pryd hyny y rhydd Marchog y

¹ *Llymhysten*.—Yr oedd ymryson am y Llamhysten, neu fel y gelwir yr aderyn hwnw'n bresenol, y Cudill Coch, yn gyffredin yn nyddiau Marchogwriaeth.

Llymhysten osteg, ac a bâr i'r wraig a gâr fwyaf gymeryd y Llymhysten— 'Canys goreu y gwedda i ti,' medd ef, 'a thi a'i cefaist y ddwy flynedd ddiweddaaf; ac os oes rhywun heddyw yn ei gwarafun i ti, mi a'i hamddiffynaf it' â'm cadernid.' Ac am hyny y mae'n rhaid i ti fod yno pan ddelo'n ddydd; a ninaw ein tri a fyddwn gyda thi.' Ac felly y penderfynwyd.

Y nos hwy a aethant i gysgu; a chyn y dydd codi a wnaethant a gwisgo am danynt; a phan ddaeth y dydd, yr oeddynt eill pedwar yn setyll yn y weirglodd. Yna Marchog y Llymhysten a roes osteg, ac a archodd i'w gariadferch gyrchu y Llymhysten. 'Na chyrch hi,' ebe Geraint, 'y mae yma forwyn sydd yn decach na hi, ac yn brydferthach, ac yn deilyngach, ac yn ei haeddu yn well na thi.' 'Os wyt ti yn hawlio'r Llymhysten iddi hi,' ebe'r Marchog, 'tyred rhagot i ymladd â mi.' A Geraint a aeth rhagddo i ben y weirglodd yn gwbl arfog o farch; ac arfau trymion, rhydyd, dielw ac estronol am dano. Yna ymgyrchu a wnaethant, a thori tô (*set*) o waewffyn, a thori yr ail, a'r drydedd, a hyny bob rhuthr. Eu tori yr oeddynt fel eu dygid atynt. A phan welai'r Iarll a'i gyfeillion Farchog y Llymhysten yn curo, bloeddient o lawenydd a balchder; a thristau a wnai y gwr gwynllwyd a'i wraig a'i ferch. A'r gwr gwynllwyd a ddiwallai Geraint hefo gwaewffyn fel y torid hwynt, a'r corr a ddiwallai Farchog y Llymhysten. Yna y daeth y gwr gwynllwyd at Geraint, ac a ddywed, 'Gan na thycia yn un waewffon genyt, wele yma y waewffon oedd yn fy llaw y dydd y'm hurddwyd yn farchog urddawl; ac hyd heddyw ni thorais hi, ac y mae iddi ben iawn.' Geraint a'i cymerth, gan ddiolch i'r gwr am dani. Ar hyny, wele y corr yn dyfod â gwaewffon i'w arglwydd yntau. 'Dyma i tithau,' ebe'r corr, 'waewffon nid gwaeth na'r eiddo yntau; a chofia na safodd marchog erioed o'th flaen cyhyd ag y safodd y marchog hwn.' 'Rhyngof i a Duw,' ebe Geraint, 'oni ddyg angau fi yn ebrwydd, ni bydd efe neinawr gwell o'th gymhorth di.' A Geraint a yspardynodd ei farch, ac o bell a rybuddiodd y marchog, ac a ruthrodd arno, ac a roes iddo ddyrnod tostlym, creulawn, a ffyrnig yn nghanol ei darian nes yr holltodd y darian, ac y torodd yr arfau ar gyfer yr ergyd, ac oni thorodd y cenglau, ac y syrthiodd yntau a'i gyfrwy tros bedrain ei farch i'r llawr. A Geraint a ddisgynodd yn gyflym, a lldio, a thynu ei gleddyf, ac ymosod arno yn lldioglym. A'r Marchog yntau a gyfododd ac a dynodd ei gleddyf yn erbyn Geraint. Ac ar eu traed, ymladd yr oeddynt â chleddyfau nes oedd arfau pob un gwreichioni wrth daro yn erbyn eu gilydd, ac hyd onid oedd y chwys a'r gwaed yn dwyn y goleuni o'u llygaid. A phan gurai Geraint, y llawenhai y gwr gwynllwyd, a'i wraig, a'i ferch; a phan gurai y Marchog, y llawenhai yr Iarll a'i blaid. A phan weles y gwr gwynllwyd fod Geraint wedi cael ddyrnod mawrdost, efe a brysurodd tuag ato ac a ddywed-

odd wrtho, 'Ha! unben cofio'r sarhad a gefaist gan y corr. Ac onid i ddial dy sarhad y daethost ti yma, a sarhad Gwenhwyfar, gwraig Arthur?' A'r geiriau hyn a lidiasant Geraint, ac efe a alwodd ato ei holl nerth, ac a ddyrchafodd ei gleddyf ac a darawodd y Marchog ar ei ben, nes tori holl arfau ei ben, a thori y cig oll, a'r croen, a'r iad, a chlwyfo yr asgwrn.

A'r Marchog a syrthiodd ar ei liniau, ac a fwriodd ei gleddyf o'i law, ac a ddeisyfodd drugaredd Geraint. 'Rhyhwyr yw i mi,' eb efe, 'adael fy rhyfyg a'm balchder, a deisyf dy nawdd. Ac oni chaf ysbaid i ymheddychu â Duw am fy mhechod, ac i ymddyddan âg offeiriad, ni byddaf well o'th nawdd.' 'Mi a roddaf nawdd iti, gan hyny,' ebe Geraint, 'ond rhaid i ti fyned at Wenhwyfar, gwraig Arthur, i wneuthur iawn am i'th gorr sarhau ei morwyn. Digon o ddial a wneuthum i arnat am y sarhad a gefais i gan y corr; ond na ddisgyn pan elych oddiyma nes dyfod gerbron Gwenhwyfar, a rhoddi iawn iddi fel y barnont oreu yn Llys Arthur.' 'Mi a wnaaf hyny yn llawen,' eb efe, 'a phwy wyt ti?' 'Geraint ab Erbin,' ebe yntau, 'a phwy wyt tithau?' 'Myfi yw Edeyrn fab Nudd.'¹ Ac efe a godwyd ar ei farch, ac a ddaeth rhagddo hyd i Lys Arthur, y wraig a garai fwyaf a'r corr yn wylofain o'i flaen. A dyna'r chwedl hyd yma.

Yna daeth yr Iarll bychan a'i lu at Geraint, gan gyfarch gwell iddo, a'i wahodd gydag ef i'r Castell. 'Na ddeuaf,' ebe Geraint, 'i'r lle y bum neithiwr yr âf heno.' 'Gan na fyni di dy wahodd,' ebe'r Iarll, 'rhaid i ti gymeryd dy ddiwallu genyf yn y lle y buost neithiwr. A mi a ddanfonaaf enaint iti, er bwrw dy flinder a'th ludded oddiarnat.' 'Duw a dalo iti,' ebe Geraint, 'minau a âf i'm lletty.' Ac felly y daeth Geraint, ac Ynywl Iarll, a'i wraig, a'i ferch. A phan ddaethant i'r llofft, yr oedd gweision ystafell yr Iarll ieuanc a'i weinidogion wedi cyrhaedd i'r hen lys o'u blaen, ac yn adgyweirio ystafelloedd, ac yn eu diwallu o wellt a thân. Ac mewn byr amser yr oedd yr enaint yn barod, a Geraint a aeth iddo, a golchi ei ben a wnaed. Ac ar hyny, daeth yr Iarll ieuanc yno, a chydag ef ddeugain o farchogion urddawl rhwng ei wyr ei hun a gwahoddigion i'r twrnament. A phan ddaeth Geraint o'r enaint, yr Iarll a barodd iddo fyned i'r neuadd i fwyta. 'Pa le y mae Ynywl Iarll,' ebe yntau, 'a'i wraig a'i ferch?' 'Y maent yn y llofft acw,' ebe gwas ystafell yr Iarll, 'yn gwisgo am danynt y gwisgoedd a barodd yr Iarll eu dwyn iddynt.' 'Na wisged y forwyn,' ebe yntau, 'am dani ond ei chrys a'i llen-llian, nes y daw i Lys

¹ *Edeyrn ab Nudd*.—Dywed y *Brut* fod Edeyrn wedi ei ddanfôn gan Arthur, yn ben ar bum' mil o wyr, i amddiffyn Geraint a llysgenhadon eraill, y rhai a gamdrinid yn fradwrus yn y gwersyll Rhufeinig. Yr oedd hefyd yn fardd; ac heblaw hyny, rhestrir ef yn mhlith y Saint Cymreig, ac iddo ef y cyflwynwyd Capel Bodedeyrn, yn Mon.

Arthur, ac i Wenhwyfar wisgo y wisg a fyno am dani.' Ac ni wisgodd y forwyn ond felly.

Yna y daeth pawb ohonynt i'r neuadd, ac ymolchi a wnaethant, a myned i eistedd ac i fwyta. Ac fel hyn yr eisteddasant:—Ar un ochr i Geraint, yr eisteddai yr Iarll ieuanc, ac yn nesaf ato ef Ynywl Iarll; o'r tu arall i Geraint yr oedd y forwyn a'i mam; ac wedi hyny, pob un yn ol ei anrhydedd. A hwy a fwytasant; a bwyd didlawd, ac amllder o amryfal anrhegion, a gawsant. Ac ymddyddan a wnaethant; a'r Iarll ieuanc a wahoddes Geraint i wledd dranoeth. 'Na ddeuaf, rhyngof i a Duw,' ebe yntau, 'eithr i Lys Arthur, hefo'r forwyn hon, yr âf i yforu; digon yw genyf fod Ynywl Iarll mewn gofid a thlodi, ac i geisio chwanegu ei gyfoeth yr âf i yn benaf.' 'Ha! unben,' ebe'r Iarll ieuanc, 'nid o'm camdriniaeth i y mae Ynywl heb gyfoeth.' 'Myn fy nghred, 'ebe Geraint, 'ni bydd ef heb ei gyfoeth oni ddug angau fi yn ebrwydd.' 'Ha! unben,' ebe'r Iarll, 'am yr ymrafael sydd rhyngof âg Ynywl, bydd di yn farnwr rhyngom, ac mi a safaf wrth dy cynghor.' 'Nid archaf i,' ebe Geraint, 'roddi iddo ond ei eiddo ei hun, a'r hyn a gollodd trwy golli ei gyfoeth o'r pryd hwnw hyd heddyw.' 'Minau, erot ti,' eb efe, 'a wna hyny yn llawen.' 'Ie,' ebe Geraint, 'pob gwr sydd yma yn perthyn i Ynywl, taled warogaeth iddo yn awr.' A'r gwyr oll a wnaethant hyny; ac wrth y trefniad hwnw y safwyd. A'i gastell, a'i dref, a'i gyfoeth, a ddychwelwyd i Ynywl, a'r cwbl a gollasai, hyd yn nod y tlws lleiaf a gafodd.

Yna y dywed Ynywl wrth Geraint, 'Ha! unben, wele y forwyn a arddelaist yn y twrnamant; parod yw i wneuthur dy ewyllys, a dyma hi i'th feddiant.' 'Ni fynaf,' ebe yntau, 'ond bod y forwyn fel y mae nes y delom i Lys Arthur; ac Arthur a Gwenhwyfar a gânt roddi y forwyn.' A thranoeth, hwy a gychwynasant rhagddynt i Lys Arthur. Hyd yma am Geraint.

A dyma fel yr heliodd Arthur y carw. Rhanwyd y gwyr a'r cwn yn helfâau; a gollyngwyd y cwn arno, a'r ei diweddaf a ollyngwyd arno ydoedd anwylgi Arthur, Cafall oedd ei enw. A gadael yr holl gwn eraill a wnaeth, a rhoddi tro i'r carw, ac ar yr ail dro, y daeth â'r carw i helfa Arthur. Ac Arthur a ymosodes arno; a chyn gallu o neb arall ymosod, Arthur a dores ei ben ymaith. Yna canu Corn Lladd a wnaethpwyd; a daeth pawb yn nghyd.

A Chadyriaith a ddaeth at Arthur, ac a ddywedodd wrtho, 'Arglwydd, dacw Wenhwyfar heb neb gyda hi ond un forwyn.' 'Arch dithau,' ebe Arthur, 'i Gildas fab Caw', a holl ysgolheigion y Llys, gerdded gyda Gwenhwyfar tua'r Llys.' A hyny a wnaethant hwythau.

¹ *Gildas ab Caw*.—Ydoedd fab Caw, arglwydd Cwm Cawlyd, yn Ngogledd Prydain. Oesai yn gynar yn y fed ganrif. Yn yr oes hono yr oedd gan y Cymry fân deyrnasoedd ar

Yna aeth pawb ohonynt, tan ymddyddan am ben y carw, a dadlu i bwy y rhoddid ef. Un a fynai ei roddi i'r wraig a garai ef fwyaf, arall i'r wraig a garai yntau fwyaf; a phawb o'r teulu a'r marchogion yn ymryson yn chwerv am y pen. Ac ar hyny, daethant i'r Llys. A phan glybu Arthur a Gwenhwyfar fod ymryson am y pen, Gwenhwyfar a ddywed wrth Arthur, 'Dyma fy nghynghor i am ben y carw; na rodder ef nes y delo Geraint ab Erbin yn ol o'r neges yr aeth iddi;' a hi a ddywedodd ystyr y neges hono. 'Gwneler hyny yn llawen,' ebe Arthur. Ac felly y penderfynwyd. Tranoeth, Gwenhwyfar a barodd fod disgwyliad ar y Gaer am ddyfodiad Geraint. Ac wedi haner dydd, gwelent gelach o ddyd bychan ar farch; ac ar ei ol yntau, wraig neu forwyn, debygent hwy, ar farch; ac ar ei hol hithau, farchog mawr, penisel, ac athrist, ac arfau briwedig, tlodion, am dano.

A chyn eu dyfod i ymyl y porth, un o'r disgwylwyr a aeth at Wenhwyfar, ac a ddywedodd wrthi am y dynion a welent, a'r ansawdd oedd arnynt. 'Ni wn i pwy ydynt hwy,' eb efe. 'Mi a'i gwn,' ebe Gwenhwyfar, 'dyma y marchog yr aeth Geraint ar ei ol; a thebyg yw genyf nad o'i fodd y mae yn dyfod, ond fod Geraint wedi ei orddiwes, a dial sarhad y forwyn o leiaf.' Ar hyny, wele y porthor yn dyfod at Wenhwyfar, ac yn dywedyd, 'Arglwyddes, y mae marchog yn y porth na welais i erioed â golwg mor druenus arno. Arfau briwedig, tlodion, sydd am dano, a lliw gwaed arnynt yn drech na'u lliw eu hunain.' 'A wyddost ti pwy yw ef?' ebe hi. 'Gwn,' ebe yntau, 'Edeyrn ab Nudd yw, medd et.' 'Nid adwaen i ef,' ebe Gwenhwyfar; a hi a ddaeth i'r porth i'w dderbyn.

Ac efe a ddaeth i mewn. A bu yn ofidus gan Wenhwyfar weled yr olwg a welai arno, er fod y corr gydag ef, yr hwn a fuasai cynddrwg ei ymddygiad. Yna Edeyrn a gyfarchodd Wenhwyfar. 'Duw a roddo dda iti,' ebe hithau.

dneddau yr Alban, y rhai a elwid 'Teyrnedd y Gogledd.' Yno yr oedd Deifr a Bryneich, Rheged, Argoed Llwyfain, Derwenydd, Banau Gododin, Cwm Cawlyd, &c. Brodorion o'r parthau hyny oedd amryw o'r Cynfeirdd, megys Aneuryn Gwawdrydd a Llywarch Hen. Dygwyd tiriogaeth Caw oddiaro gan y Gwyddyl Ffichti, a ffodd yntau i Gymru. Fel tywysog, yr oedd ei barch gan yr uchelradd Cymreig, a noddid ef gan Arthur yn y Dehau, a chan Faelgwyn Gwynedd yn y Gogledd, a bu yn trigianu am ysbaid yn y Twr Celyn, yn Mon. Mae llawer o'i blant yn mhlith y saint Cymreig. Barnai Dr. Owen Pughe ac Iolo Morganwg mai yr un oedd Gildas, y sant a'r ysgolhaig dysgedig, ac Aneuryn, y priif-fardd gorchestol. Mae yn sicr mai meibion Caw oedd y ddau; ac y mae rhyw bethau yn awgrymu eu bod yn nes at eu gilydd na dau frawd; canys mae yr hen gofrestrau o feibion Caw, os enwant un, yn esgeuluso y llall. Nid yw Aneuryn a Gildas byth yn yr un gofrestr. Hefyd, mae'r ddau enw yn gyfystyr. Mae Aur yn y ddau 'Gilda, Gildas y Coed Aur, Aur y Coed Aur, ac Aneuryn y Coed Aur,' ydynt enwau cyfystyr. Gelwir Cenydd yn fab Gildas ab Caw, a gelwir Ufelwyn yn fab Cenydd ab Aneuryn y Coed Aur. Heblaw hyny, y mae bywgraffwyr monachaidd Gildas yn ei alw yn fab Caw, brenin o'r Gogledd. Ond y mae anianawd a chymeriad y ddau ddyd yn eu harddangos yn fodau gwahanol i'w gilydd. Yr oedd Aneuryn yn llawn o wladgarwch cenedlaethol; ond Gildas o'r tu arall yn beio ar y genedi, ac yn ei diraddio. Heblaw hyny, bu farw Gildas yn Ynys Afallon, a lladdwyd Aneuryn yn Llangarfan.

'Arglwyddes.' eb efe, 'dy anerech y mae Geraint ab Erbin, y gwas goreu a dewraf.' 'A ymwelodd ef â thi?' ebe hi. 'Do,' eb efe, "ac nid er lles i mi; nid arno ef yr oedd y bai am hyny, ond arnaf i, arglwyddes. Dy anerech y mae Geraint; a chan dy anerech, gorfododd fi i ddyfod yma i wneuthur dy ewylllys am y sarhad a gafodd y forwyn gan y corr. Efe a faddeuodd y sarhad arno ei hun, gan y tybiai iddo fy rhoddi i mewn enbydrwydd am fy einioes. Ac efe a roes ofodaeth gadarn, wrol, a milwraidd, arnaf i ddyfod yma a gwneuthur iawn i ti, arglwyddes.' 'O! ie,' ebe hi, 'pa le y goddiweddodd ef dydi?' 'Yn y lle yr oeddwn yn chwaraeu ac yn ymyson am y Llymhysten, yn y dref a elwir Caerdyf,¹ ac nid oedd gydag ef ond tri dyn tlawd ac adfeiliedig eu hansawdd; sef, gwr gwynllwyd a hen, a gwraig oedranus, a morwyn ieuanc brydfferth, a hen ddillad adfeiliedig am danynt. A chan aiddelwi caru y forwyn yr ymyrodd ef yn y twrnament am y Llymhysten, a dywedyd mai gwell yr haeddai y forwyn hono y Llymhysten na'r forwyn yma oedd gyda mi. Ac am hyny ymladd a wnaethom; ac fel y gweli di, arglwyddes, y gadawodd efe fi.' 'Ha! wr,' ebe hi, 'pa bryd, debygi di. y daw Geraint yma?' 'Yforu, arglwyddes, debygaf i, y daw ef a'r forwyn.'

Yna y daeth Arthur ato, ac efe a gyfarchodd well i Arthur, ac Arthur a edrychodd yn hir arno, ac yr oedd yn aruthr ganddo ei weled felly. A chan dybied ei fod yn ei adnabod, efe a ofynodd iddo, 'Ai Edeyrn fab Nudd wyt ti?' 'Ie, arglwydd,' eb efe, 'wedi cyfarfod â dirfawr ofid ac archollion annydoddefol;' ac efe a fynegodd i Arthur y cwbl o'i hares. 'Ie,' ebe Arthur, 'iawn yw i Wenhwyfar fod yn drugarog wrthyt, wrth a glywaf i.' 'Y drugaredd a fynech di, arglwydd,' ebe hi, 'mi a'i gwnaf âg ef; gan fod pob sarhad a rodder i mi yn sarhad a rodder i ti.' 'Dyma y sydd iawnaf ei wneuthur,' ebe Arthur, 'rhodder pob meddyginiaeth i'r gwr hyd oni wyddom a fydd efe byw; ac os byw fydd, gwnaed iawn fel y barno gwyr y Llys yn oreu; a chymer di feichiau ganddo am hyny. Os marw a fydd, gormod fyddai angau gwas cystal ag Edeyrn yn iawn am sarhad y forwyn.' 'Da yw genyf i hyny,' ebe Gwenhwyfar. Yna yr aeth Arthur, a Charadog ab Llyr², a Gwallawg ab Llenawg³,

¹ *Caerdyf*.—Caerdydd neu *Cardiff*. Bu Castell Caerdydd yn faes aml i frwydr waedlyd, ac y mae gan hanes a thraddodiad lawer i'w ddwyd am dano. Syrthiodd holl Forganwg i ddwylaw'r Normaniaid mor gynar a'r 11eg genrif; a'r Castell hwn oedd eu prif gadlys yn y wlad hono. Llosgwyd ac anrheithiwyd ef gan Owen Glyndwr yn 1404.

² *Caradawg ab Llyr*.—Gelwir ef hefyd Caradawg Freichfras. Mab ydoedd i Llyr Merini, tywysog Cernyw. Crybwyllir am dano yn fynych yn y *Trioeidd*, a diwedda yr unig englyn a briodolir i Arthur, 'Colofn Cymru—Caradawg.' Ei fam oedd Gwen, o hil Brychan Brycheiniog; a'i wraig Tegau Eurfron, un o 'Dair Gwenrian Llys Arthur,' ac un o 'Dair Diweirferch Ynys Prydain.' Mawr ganmolir ef yn y *Gododin* am ei bybyrwech ar faes trychinebus Cattraeth.

³ *Gwallawg ab Llenawg*.—Fel rhyfelwr medrus, cysylltir ef yn y *Trioeidd* gyda Dunawd a Chynfelyn, tan y penawd 'Tri Phost Cad Ynys Prydain.' Sef y medrynt Dosbarth ar Gad a

ac Owain ab Nudd, a Gwalehmai, a Digawa, yn feichiafon drosto, Ac Arthur a barodd alw ato Morgan Tud, y prif feddyg, ac a ddywed, 'Cymer atat Edeyrn fab Nudd, a phâr ddarpar ystafell iddo, a meddyginiaeth cystal ag y perit i mi pe bawn archolledig; ac na âd i neb fyned i'r ystafell i aflonyddu arno, oddieithr ti â'th ddysgyblion i'w feddyginiaethu.' 'Mi a wnaf hyny yn llawen, arglwydd,' ebe Morgan Tud. Yna y dywed y distain, 'Pa le y mae'n iawn, arglwydd, gorchymyn y forwyn?' 'I Wenhwyfar a'i llawforwynion,' ebe yntau. Ac felly y gorchymynodd y distain. A dyna eu chwedl hwynt hyd yma.

Tranoeth, y daeth Geraint i'r Llys; ac yr oedd gan Wenhwyfar ddisgwyliad ar y gaer, rhag ei ddyfod yn ddirybudd. A'r disgwyliwr a ddaeth at Wenhwyfar, ac a ddywed, 'Arglwyddes, mi a debygaf fy mod yn gweled Geraint, a'r forwyn gydag ef. Ac ar farch y mae, a gwisg cerddedwr sydd am dano; a gwisg wen sydd am y forwyn tebyg i wisg o liain.' 'Yngyweiried yr holl wragedd,' ebe hi, 'a deuwech i dderbyn Geraint a'i groesawu, ac i fod yn llawen wrtho.' A Gwenhwyfar a ddaeth i dderbyn Geraint a'r forwyn. A Geraint a gyfarchodd well iddi. 'Duw a roddo dda iti,' ebe hi, 'a chroesaw i ti; a hynt ffrwythlawn, ddoniol, hyrwydd, a chlodfawr a gefaist; a Duw a dalo iti am beri i mi gael iawn cyn gystal ag y peraist.' 'Arglwyddes,' eb efe, 'mi a geisiais gael iawn i ti yn ol dy ewyllys, a dyma y forwyn trwy yr hon y cefais i dy iawn.' 'Ie,' ebe Gwenhwyfar, 'croesaw Duw iddi, ac nid cam bod yn llawen wrthi.' A hwy a ddaethant i mewn, a Geraint a ddisgynodd, ac a aeth hyd i'r lle yr oedd Arthur, ac a gyfarchodd well iddo. 'Duw a roddo dda iti,' ebe Arthur, 'a chroesaw Duw wrthyt; a chan fod Edeyrn ab Nudd wedi derbyn ei ofid a'i glwyfau genyt, rhaid dy fod wedi cael hynt lwyddianus.' 'Nid arnaf i y bu y bai am hyny,' ebe Geraint, 'eithr ar ryfyg Edeyrn ab Nudd ei hun nad ymheddychai. Nis gadawn i ef nes gwybod pwy ydoedd, ac nes goryfyddai un ohonom ar y llall.' 'Yn awr,' ebe Arthur, 'pa le y mae'r forwyn y clywais i ti ei harddelwi?' 'Y mae gwedi myned gyda Gwenhwyfar i'w hystafell.' Yna y daeth Arthur i weled y forwyn, a llawen a fu ef a'i gyfeillion a phawb o'r Llys wrthi; a sier oedd gan bawb ohonynt pe cawsai y forwyn

Chatteyrnedl yn oreuon ar bawb oll a fuant erioed.' Mewn Tri arall, rhestrir ef gyda Selyf ac Afaon ab Taliesin, fel 'Tri Aerfeddawg Ynys Prvdain. Sef achaws y gelwyd hwynt yn Aerfedd-ogion, am ddarfod dial eu cam oc en beddau.' Dywed Dr. Pughe mai tywysog ar Ddyffryn yr Hafren, yn ardal Amwythig, ydoedd. Crybwylla Llywarch Hen am dano yn ei Farwnad i Urien Rheged; a chyflwynir amrai o gynrychion awenyddol y Cynfeirdd iddo. Dywed Brut Gruttydd ab Arthur ei fod yn bresenol yn Nghoroniad Arthur; ac wrth ymladd tan yr arwr hwnw yn erbyn Gwyr Rhufain y lladdwyd ef. Yn ol 'Englynion y Beddau,' claddwyd ef yn Carawc.

wisg gyfartal â'i phryd na welsent erioed forwyn dlysach na hi. Ac Arthur a roddes y forwyn i Geraint; a'r rhwymyn a wneir rhwng deuddyn a wnaethpwyd rhwng Geraint a'r forwyn. A'i dewis o holl wisgoedd Gwenhwyfar a roddwyd iddi; a'r neb a'i gwelai yn y wisg hono, a welai olwg weddaidd, lwys, a phrydferth arni. A'r dydd hwnw a'r nos hono a dreuliasant mewn digon o gerddoriaeth ac amllder anrhegion o wirodau, a lluosogrwydd o chwareuon. A phan ddaeth yn amser ganddynt fyned i gysgu, i gysgu yr aethant. Ac yn yr un ystafell ag yr oedd gwely Arthur a Gwenhwyfar, y gwnaed gwely i Geraint ac Enid. A'r nos hono y cysgasant gyntaf yn nghyd. A thranoeth, Arthur tros Geraint a dderbyniodd gan yr eirchiaid¹ lawer o ddiawl roddion. A'r forwyn a gynefinodd â'r llys, ac a enillodd gyfeillion yn wragedd ac yn wyr, hyd nad oedd un forwyn yn Ynys Prydain mor glodfawr a hi.

Yna y dywed Gwenhwyfar, 'Iawn y bernais i am ben y carw, na ddylesid ei roddi i neb nes y delai Geraint; a dyma le iawn yn awr i'w roddi i Enid ferch Ynywl,² y forwyn glodfawrusaf. Ac ni thebygaf i fod neb a'i gwarafun iddi, nid oes rhyngddi â neb yma ond cariad a chyfeillgarwch.' A chanmoladwy a fu hyn gan bawb, a chan Arthur hefyd; a phen y carw a roddwyd i Enid, a lluosogodd ei chlod a'i chyfeillion o'r herwydd yn fwy na chynt. A Geraint o hyn allan a hoffodd y carw, a'r twrnameint, a gornestau celyd, a buddugol y deuai o bob un. A blwyddyn, a dwy, a thair, y bu ef felly, nes oedd ei glod yn ehedeg tros wyneb y deyrnas.

Ac un tro, yr oedd Arthur yn cynal ei Lys yn Nghaerlleon ar Wysg ar y Sulgwyn; ac wele daeth ato genhadau doethbryd, dysgedig, a dawnus o ymadrodd, ac a gyfarchasant well iddo. 'Duw a roddo dda i chwi,' ebe Arthur, 'a chroesaw i chwi; ac o ba le y daethoch chwi?' 'O Gernyw y daethom ni, arglwydd,' ebynt hwy, 'a chenhadau ydym oddiwrth Erbin ab Cystenyn, dy ewythr, a'n cenadwri sydd atat ti. Dy anerch y mae efe fel y dylai ewythr anerch ei nai, ac fel y dylai gwr anerch ei arglwydd; a mynegi i ti y mae ei fod yn myned yn drwm ac yn llesg ac yn dynesu at henaint. A'i gymydogion yn gwybod hyn, sydd yn camderfynu arno, ac yn chwenych ei dir a'i gyfoeth. Ac atolygu y mae efe, arglwydd, ar iti adael i'w fab Geraint ddyfod ato i gadw ei gyfoeth ac i wybod ei derfynau. A mynegi y mae i Geraint fod yn well iddo dreulio blodeu

¹ *Eirchiaid*.—Cyfeillion y priodfab a dderbynient y rhoddion priodas, neu'r Pwyddion. Yr oedd gwr o urddau Arthur wrth ymostwug i gyflawni y gwasanaeth hwn tros Geraint yn dangos ei fawr serch tuag ato.

² *Enid*.—Yr oedd yn un o 'Dair Gwenrian Llys Arthur.' Nid oes gan Ramant yn ei holl greadigaeth yr un cymeriad mwy swynol na'r rhian ardderchog hon. Y mae ei symlwydd, ei lledneisrwydd, a'i fyddlondeb, yn addurniadau prydfferth i'w swynion personol. Cyfeirir yn fynych at ei thegwch gan feirdd y Canol Oesau; ac nis gallai Dafydd ab Gwilym erddygan clodydd ei Forfydd yn uwch na thrwy ei galw yn 'Ail Enid.'

ei ieuencyd a'i ddewrder yn cynal ei derfynau ei hun nac mewn twrnameint diffwrth, er ei fod yn cael clod o hyny.¹

'Ie,' ebe Arthur, 'ewch chwi i ddiog eich arfwisgoedd, a chymerwch eich bwyd, a bwriwch eich blinder oddiarnoeh; a chyn eich myned ymaith, chwi a gewch ateb.' Ac i fwyta yr aethant. A meddwl a wnaeth Arthur nad hawdd fuasai ganddo ollwng Geraint oddiwrtho nac o'i lys; ac ni farnai ychwaith yn deg rhwystro ei gefnder i fyned i warchod ei gyfoeth a'i derfynau, gan nad allai ei dad ei cynal. Ac nid llai oedd gofal a gofid Gwenhwyfar a'r holl wragedd a morwynion, rhag ofn myned o'r forwyn oddiwrthynt. A'r dydd hwnw a'r nos hono a dreuliasant mewn digonedd o bob peth; ac Arthur a fynegodd i Geraint ystyr y genadwri a ddygodd y cenhadon o Gernyw ato. 'Ie,' ebe Geraint, 'Mi a wnaaf dy gynghor di, arglwydd, parth y genad, pa un bynag ai lles ai afles a ddaw o hyny.' 'Dyma fy nghyngor i,' ebe Arthur, 'er fod yn ddrwg genyf dy golli, dos di er hyny i gyfaneddu yn dy gyfoeth ac i gadw dy derfynau, a chymer y nifer a fynot gyda thi o'm ffyddloniaid i a'th gydfarohogion dithau, y rhai a'th garant di ac a gerir genyt.' 'Duw a dalo iti,' ebe Geraint, 'mi a wnaaf hyny.' Ebe Gwenhwyfar, 'Pa siarad a glywaf i genych chwi? ai am hebrwng Geraint tua'i wlad?' 'Ie,' ebe Arthur. 'Rhaid i minau feddwl,' ebe hi, 'am rai i hebrwng, ac am roddion i'r unbenes sydd gyda minau.' 'Iawn y gwnai,' ebe Arthur.

Y nos hono, i gysgu yr aethant; a thranoeth, gollyngwyd y cenhadau i ymdaith, gan ddywedyd wrthynt y deuai Geraint ar eu hol, A'r trydydd dydd wedi hyny, y cychwynodd Geraint; a'r sawl aethant gydag ef oeddynt, Gwalchmai ab Gwyar, a Rhiogoned fab brenin Iwerddon, ac Ondiaw mab Duc Bwrgwin (*Burgundy*), Gwilym mab brenin Ffrainc, Howel fab Emyr Llydaw, Elifri a naw cerddor, Gwyn ab Tringad, Goreu fab Cystenyn, Gweir Gwrhyd Fawr, Garanaw fab Golithmer, Peredur ab Efracw, Gwynllogell, Gwyr ynad yn Llys Arthur, Dyfyr fab Alun Dyfed, Gwrei Gwalstawd Ieithoedd¹, Bedwyr fab Bedrawd², Hadwry fab Gwryon, Cai ab Cynyr, Odyar o Ffrainc ystiwart Llys Arthur, ac Edeyrn ab Nudd. Ebe Geraint, 'Bydd genyf ddigon o farchogion gyda mi.'

¹ *Gwrei Gwalstawd Ieithoedd* — Nid ymddengys fod Melldith Babel wedi effeithio fawr ar y brawd hwn, canys nid oedd iaith ar nas gwyddai, hyd yn nod yr eiddo anifeiliaid y maes, ebediaid yr awyr, a physg y môr.

² *Bedwyr ab Bedrawd*. — Efe oedd prif ddistain Llys Arthur. Efe a Chai a ddewiswyd gan Arthur i fyned gydag ef i Fryn Mihangel i ddial gwaed Helen, nith Hywel ab Emyr Llydaw. Dywed y *Trioedd*: — 'Tri Thaleithiog Cad Ynys Prydein: Trystan mab Tallwch; Huail mab Caw o Brydyn, arglwydd Cwm Cawlwyd, a Chai mab Cynyr Ceinfarfawc; ac un gwr yn Daleithawc y arnynt eill Tri, sef oedd hwnw Bedwyr mab Pedrawc.' Yn ol englynon *Beddau'r Mihwyr*, dywedir fod ei fedd yn Ngallt Tryfan; ond pa un ai yn ardal Moel Tryfan, yn Arfon, yr oedd hwnw, ynte tua Dindryfan (*Dunraven Castle*), yn Morganwg, nis gwyddia.

'Ie,' ebe Arthur, 'ni wedda i ti ddwyn Edeyrn gyda thi, er ei fod yn iach, hyd oni wneler tangnefedd rhyngddo â Gwenhwyfar.' 'Fe all Gwenhwyfar ganiatau iddo ddyfod gyda ni ar feichiafon.' 'Caniataed hyny heb feichiafon, canys digon o boenau a gofidiau a gafodd efe am y sarhad ar y forwyn, gan y corr.' 'Ie,' ebe Gwenhwyfar, 'yr hyn a welwch chwi yn iawn, ti a Geraint, mi a'i gwnaf yn llawen, arglwydd.' A hi a ganiataodd i Edeyrn fyned. A lluaws heblaw hyny a aethant i hebrwng Geraint, a chychwyn a wnaethant; a cherdded, yn harddaf nifer a welodd neb erioed yn ymdaith, tua'r Hafren. A thu draw i Hafren, yr oedd goreugwyr Erbin fab Cystenin, a'i dadmaeth o'u blaen, yn croesawu Geraint yn llawen; a llawer o wragedd y llys, a'i fam yntau, yn derbyn Enid ferch Ynywl, ei wraig. A dirfawr orfoledd a llawenydd a gymerth pawb o'r llys ac o'r holl gyfoeth wrth dderbyn Geraint, gan faint y carent ef, a chan faint y clod a enillasai yntau er pan aethai oddiwrthynt, ac am ei ddyfod i feddianu ei gyfoeth ei hun, ac i gadw ei derfynau. Ac i'r llys y daethant, ac yr oedd yn y llys iddynt helaethrwydd diwall o amryfal anrhegion, ac amllder o wiroadu, a gwasanaeth didlawd, ac amrywiaeth o gerddau a chwareuon. Ac er anrhydedd i Geraint, gwahoddwyd holl brif wyr y wlad i ymweled âg ef y nos hono; a hwy a dreuliasant yr amser mewn cymedroldeb mwyniant. Ac yn ieuencyd y dydd dranoeth, Erbin a gyfododd ac a alwodd Geraint, a'r goreugwyr a ddaethant i'w hebrwng, atô, ac a ddywedodd wrth Geraint, 'Gwr oedranus a thrwm wyf i, a thra gellais gynal y cyfoeth i ti ac i minau mi a'i cynheliais; a thithau gwr ieuanc ydwyt yn mlodeu dy ddewrder a'th ieuencyd. Bellach, cynal di y cyfoeth.' 'Ie,' ebe Geraint, 'o'm bodd i, ni roddit feddiant dy gyfoeth yn fy llaw yr awrhon, ac ni'm dygit eto o Lys Arthur.' 'I'th law di y rhoddaf hwynt,' ebe Erbin, 'a chymer hefyd warogaeth dy wyr.'

Ac ebe Gwalchmai, 'Iawnaf a fyddai i ti heddyw foddloni y rhai sydd yn gofyn rhoddion, a derbyn gwarogaeth dy wyr yforu.' Yna galwyd y gofynwyr i un lle; a Chadyrieith a ddaeth atynt i wybod eu harferion ac i ofyn i bawb beth a fynynt. A theulu Arthur a ddechreusant gyfranu rhoddion, a daeth gwyr Cernyw i'r lle, a chyfranasant hwythau; ac nid hir y buant yn rhoddi gan faint oedd brys pawb i hyny, ac ni ddaeth neb i ofyn yno na ddychwelodd â'i rodd ganddo. A'r dydd hwnw a'r nos hono a dreuliasant mewn cymedrollder ac esmwythdra.

A thranoeth yn ieuencyd y dydd, Erbin a barodd i Geraint ddanfôn cenadau at y gwyr yn gofyn os oedd gwrthwynebiad ganddynt iddo ef ddyfod a chymeryd eu gwarogaeth, ac a oedd ganddynt rhyw gwyn neu gam yn ei erbyn. A gyrodd Geraint genadau at wyr Cernyw i ofyn iddynt hyny; a dywedasant hwythau nad oedd ond cyflawnder o lawenydd a gogoniant gan

bawb ohonynt hwy am ei ddyfod i dderbyn eu gwarogaeth. Ac efe a gymerth warogaeth pawb oedd yno; ac yno y buant yn nghyd y drydedd nos. Dranoeth, gwyr Arthur a chwenychent fyned ymaith. 'Rhy fuan yw i chwi fyned ymaith eto,' eb efe, 'aroswch hyd oni chymeraf warogaeth fy ngoreu-gwyr a fynant ddyfod ataf i hyny.' A hwy a arosasant nes y gwnaeth efe hyny. Yna hwy a gychwynasant tua Llys Arthur; a Geraint ac Enid a aethant i'w hebrwng hyd yn Dighanwy¹, lle y gwahanasant. Ac Ondyaw mab duc Bwrgwin (*Burgundy*) a ddywedodd wrth Geraint, 'Cerdda eithafoedd dy gyfoeth yn nghyntaf, ac edrych yn llwyrgraff ar ol terfynau dy gyfoeth; ac os daw gofid a gorthrwm arnat, danfon at dy gydymdeithion.' 'Duw a dalo iti,' eb efe, 'a minau a wnaf hyny.' A Geraint a gerddodd eithafoedd ei gyfoeth, a gwyr cyfarwydd o oreugwyr ei gyfoeth gydag ef; a'r llinell bellaf a ddangoswyd iddo ynddynt a gadwodd efe.

Ac fel y gwnai yn Llys Arthur, efe eto a gyrciai y twrnameint, a daeth, i adnabod y gwyr dewraf a chadarnaf, nes ydoedd mor glodfawr yno ac y buasai mewn manau eraill cyn hyny; ac hyd oni chyfoethogodd ef ei lys, a'i gydymdeithion, a'i wyrda, hefo'r meirch goreu, a'r arfau goreu, a'r aurdlysau arbenicaf a goreu; ac ni orphwysodd hyd nes yr ehedodd ei glod dros wyneb y deyrnas. A phan wybu efe hyny, efe a ddechreuodd garu esmwythder ac ysgafurwydd, gan nad oedd neb gwerth ganddo fyned yn ei erbyn. Ac aros yn ei lys a wnai yn wastadol, yn caru ei wraig ac yn ymhyfrydu mewn cerddau a dyddanwech. Ac felly y cartrefodd efe dalm o amser. Ymhoffai mewn llonyddwch, ymneillduai i ystafell y wraig, ac nid oedd hoff ganddo ddim ond hyny; nes y colodd serch ei bendefigion, a phob pleser mewn hela a difyrion eraill; ac hyd nes oedd calonau holl deulu y llys wedi ymbellhau oddiwrtho, a hwythau yn grwgnach ac yn ei oganu, ac yn edliw ei fod yn esgeuluso eu cymdeithas hwy cyn llwyred a hyny o gariad gwraig. A'r ewynion hyn a ddaethant hyd at Erbin, ac efe a'u dywedodd i Enid, gan ofyn iddi os hyhi oedd yn peri hyny i Geraint, ac yn ei anog i ymadael â'i lwyth ac â'i bobl. 'Nage, myn fy nghyffes i Dduw,' ebe hi, 'ac nid oes dim gasach genyf i na hyny.' Ac ni wyddai hi beth a wnai, gan nad oedd yn hawdd ganddi addef hyny wrth Geraint; nid oedd hawdd ganddi ychwaith wrando yr hyn a glywai heb ei rybuddio. A gofidus a thrist iawn ydoedd.

Ac un bore o haf, yr oeddynt yn eu gwely, ac yntau wrth yr erchwyn, ac Enid oedd heb gysgu. Gwydr oedd ar yr ystafell, a'r haul yn tywynu ar y gwely; a'r dillad wedi lithro oddiar ei ddwyfron ef a'i ddwyfraich, ac yntau

¹ *Dighanwy*.—Dichon mai Trefynwy (*Monmouth*) a feddylir.

yn cysgu. A hi a edrychodd ard egwch rhyfeddol yr olwg a welai arno, ac a ddywedodd, 'Gwae fi! os o'm hachos i y mae y breichiau a'r ddwyfron hyn yn colli y clod a'r gogoniant a berthynai iddynt.' A hi a ollyngodd ei dagrau yn hidl, y rhai a ddisgynasant ar ei ddwyfron. A'r dagrau a dywalltodd, a'r geiriau lefarodd, a'i deffroisiant ef; a meddwl arall a'i cyffrodd, sef y tybiai mai nid am dano ef yr ydoedd yn son pan y dywedasai hyny, ond fod ei serch wedi ei ddodi ar rhyw wr arall, a'i bod yn dymuno cymdeithas un arall yn hytrach na'r eiddo ef. Ac yr oedd ei feddwl wedi ei gyffroi yn fawr; ac efe a alwodd ei ysgwier ato, ac a ddywedodd wrtho, 'Pâr yn gyflym gyweirio fy march a'm harfau, ac eu bod yn barod. A chyfod dithau,' eb efe wrth Enid, 'a gwisg am danat, a phâr gyweirio dy farch, a gwisg y wisg waethaf sydd genyt ar dy helw wrth farchogaeth; a mefi i mi os dychweli di yma nes gwybod a gollais i fy nerth cyn llwyred ag y dywedi di. Ac os collais, hawdd fydd i ti geisio cymdeithas yr hwn y meddyliet am dano.' A hi a gyfododd ac a wisgodd wisg esgeulusedig am dani. 'Ni wn i, arglwydd, 'ebe hi, 'pa beth yw dy feddwl di.' 'Ni chai di wybod yr awrhon,' ebe yntau.

Yna Geraint a ddaeth i ymweled âg Erbin. 'Ha! wrda,' eb efe, 'yr wyf i yn myned ar neges, ac nis gwn pa bryd y deuaif drachefn, a gofala di am dy gyfoeth hyd oni ddychwelwyf.' 'Mi a wnaf,' eb efe, 'rhyfedd genyf mor ddisyfyd yr wyt yn myned. Pwy sydd yn myned gyda thi, gan nad iawn i wr fel tydi deithio tir Lloegr yn unig?' 'Ni ddaw gyda mi,' ebe yntau, 'ond un dyn¹ arall.' 'Duw a'th gyfarwyddo, fy mab,' ebe Erbin, 'a llawer dyn a ymuno â thi yn Lloegr.' A Geraint a ddaeth i'r lle yr oedd y march; ac a'i cafodd yn gyflawn o arfau trymion, estronol, gloywon. Ac efe a barodd i Enid esgyn ar ei march, a cherdded o'r blaen, a chymeryd rhagor² mawr. 'A pha beth bynag a weli, neu a glywi am danaf i,' eb efe, 'nac ymchwel di yn ol. Ac oni siaradaf i, na siarad dithau.' A hwy a gerddasant rhagddynt. Ac nid y ffordd difyraf, lle yr oedd mwyaf o deithio arni, a barodd ef iddi ei cherdded, eithr y ffordd ddiffeithiaf, a thebycaf fod lladron ynddi, a herwyr (*footpads*), a bwystfild gwenwynig. A hwy a ddaethant i'r brif-ffordd, ac a'i canlynasant, a choedwig fawr a welent, a thua'r goedwig y daethant. Ac yn dyfod allan o'r coed gwelent bedwar marchog arfog, y rhai a edrychasant arnynt, ac un o honynt a ddywedodd, 'Dyma le da ini gymeryd y ddau farch acw, a'r arfau, a'r wraig hefyd; a hyny a gawn yn ddiraffferth er yr un llibin marchog pendrwm ac

¹ *Dyn*.—Ni ddarfyddodd yr arferiad yn mysg llenorion Cymreig o alw *dyn* ar y ddau ryw ond prin gyda'r ganrif ddiweddaf. Yr oedd Lewis Morris a Goronwy Owen yn ei arfer, ac hyd yn nod Dafydd Ddu Eryri yn mhell yn y ganrif bresenol.

² *Rhagor*.—Arferir y gair hwn yn yr ystyr sydd iddo yma mewn llawer parth o'r wlad eto.

athrist acw.' Ac Enid a glybu yr ymddyddan hwnw, ac ni wyddai beth a wnai rhag ofn Geraint—au dywedyd ai teui. 'Dial Duw arnaf,' ebe hi, 'onid dewisach genyf fy angau o'i law ef nag o law neb arall; a phe lladdai efe fi, mi a'i dywedaf yn hytrach nag edrych ar ei ddiolfryd.' Ac aros am Geraint a wnaeth, hyd nes daeth yn agos iddi. 'Arglwydd,' ebe hi, 'a glywi di eiriau y gwyr hyn am danat.' Yntau a ddyrchafodd ei wyneb, ac a edrychodd yn lliidiog ami. 'Nid oedd raid i ti,' ebe efe, 'ond cadw y gorchymyn a roddais i ti, sef teui. Cymwynas a fyddai genyf i ti dewi, ac nid fy rhybuddio; a chan y myni weled fy angau i a'm dyfetha gau y gwyr acw, nid oes imi neb a'm cysuro.' Ar hyny, un ohonynt a ostyngodd ei waewffon ac a ymosododd ar Geraint, yntau a'i herbyniodd ef—nid fel gwr llesg. Ysgodd yr ergyd, a tharawodd y marchog ar dewder ei darian, oni holltodd y darian, y torodd yr arfwisg, ac onid oedd llawer o'r paladr yn ei gnawd, ac yntau hyd gwaewffon Geraint tros bedrain ei farch i'r llawr. Ac yna yr ail farchog a ymosododd arno yn lliidiog, am ladd ei gydymaith; ac hefo un ergyd efe a fwriodd hwnw, ac a'i lladdodd fel y llall. A'r trydydd a ymosododd arno, ac felly y lladdwyd hwnw, ac felly y lladdwyd y pedwerydd. Trist a gofidus oedd y forwyn wrth edrych ar hyn. A Geraint a ddisgynodd ac a ddiogodd arfwisgoedd y gwyr lladdedig, ac a'u dododd yn y cyfrwyau, ac a gylmodd ffrwynau y meirch. Yna esgynodd ar ei farch. 'Dyma yr hyn a wnei di,' eb efe, 'cymer y pedwar march hyn, a gyr o'th flaen fel y perais iti gyneu, ac na ddywed yr un gair wrthyf i oni ddywedwyf i yn nghyntaf wrthyf ti. Fy nghyffes i Dduw,' eb efe, 'oni wnei di hyny, ni byddi di ddiboen.' 'Mi a wna dy gynghor di, arglwydd, yn ol fy ngallu,' ebe hi. A hwy a gerddasant rhagddynt i goed; ac wedi gadael y coed, daethant i wastatir mawr, ac yn nghanol y gwastatir yr oedd coed byrion, pendew, dyrys. Ac wrth y coed hyny, gwelent dri marchog yn dyfod atynt; a'u meirch a hwythau wedi eu harfwisgo yn gyflawn hyd y llawr. A'r forwyn a edrychodd yn graff arnynt; a phan ddaethant yn agos, hi a'i clywai yn ymddyddan, 'Dyma ddigwyddiad da ini, yn ddilafur—pedwar march a phedair o arfwisgoedd; ac er y marchog llipa acw, ni a'u cawn yn rhad, a'r forwyn hefyd gyda hwynt.' 'Gwir yw hyny,' ebe hi wrthi ei hun, 'canys bliu yw fy ngwr wedi bod yn ymladd hefo'r marchogion gyneu; ond dial Duw arnaf onis rhybuddiaf ef.' A hi arosodd am Geraint nes y daeth yn agos iddi. 'Arglwydd,' ebe hi, 'oni chlywi di ymddyddan y gwyr acw am danat?' 'Beth yw hyny?' eb efe. 'Dywedyd rhyngddynt eu hunain y maent y cant hyn o yspail yn rhad.' 'Rhyngof i a Duw,' eb efe, 'trymach genyf yw nad wyt ti yn gwneud yn ol fy nghynghor na'u bygythion hwynt.' 'Arglwydd,' ebe hi, 'ofn iddynt dy gael yn ddiarwybod sydd arnaf i.' 'Taw bellach,' eb efe, 'nid wyf yn gofyn ond hyny o gymwynas genyt.' Yna

gostwng ei waewffon a wnaeth un o'r marchogion a rhuthro ar Geraint, a rhoddi iddo ergyd effeithiol debygai ef; ond Geraint a gymerth yr ergyd yn esgeulus, ac a'i trodd heibio, ac a darawodd y marchog yn ei berfedd; a chan hyrddiad y gwr a'r march, ni thyciodd nifer ei arfau nes oedd pen a llawer o lasn y waewffon allan trwyddo, ac yntau hyd braich a gwaewffon tros bedrain ei farch ar lawr. Yna y ddau farchog arall a ddaethant bob yn ail, ac nid gwell fu eu tynged hwythau na'r llall. A'r forwyn oedd yn sefyll yn ymyl ac yn edrych arnynt; ac ar y naill law, pryderus ydoedd rhag ofn yr archollid Geraint; ac ar y llaw arall, llawen wrth ei weled yn gorfod arnynt. Yna Geraint a ddisgynodd ac a rwymodd y tair arwisg yn y tri chyfrwy, ac a ffrwynglymodd y meirch yn nghyd, onid oedd yno saith march i gyd ganddo. Ac efe a esgynodd ar ei farch ei hun, ac a orchymynodd i'r forwyn yru y meirch o'i blaen. 'Ac ni waeth i mi dewi,' eb efe, 'na dywedyd wrthyf, gan na wnai yn ol fy nghyngor.' 'Gwnaf, arglwydd,' ebe hi, 'hyd y gallwyf; eithr ni allaf gelu rhagot-y geiriau bygythiol a chwerwon a glywyf am danat gan giwdodau estronol fel y rhai yna sydd yn cerdded y diffaethwch.' 'Rhyngof i a Duw,' eb efe, 'yr unig gymwynas a ofynaf genyt ydyw bod yn ddystaw. A thaw bellach.' 'Mi a wnaf, arglwydd,' ebe hi, 'hyd y gallwyf.' A'r forwyn a gerddodd rhyngthi â'r meirch oedd o'i blaen; a hi a gadwodd y rhagor; ac o'r prysg-goed crybwylledig, tir uchel, agored, gwastadlwys, hirfaith, a gerddasant. Ac yn mhell oddiwrthynt, gwelent goed; ac oddieithr yr ymyl nesaf atynt, ni welent nac ymyl nac eithaf i'r coed hyny. A thua'r coed y daethant, ac yn dyfod o'r coed hwy a welent bum' marchog chwenychgar, cadarnffurf, ar gadfeirch cadarn dew, esgyrnbraff, uchelwaed, ffroenfalch, a digonedd o arfau am y gwyr a'u meirch. A phan y daethant yn agos, Enid a'u clybu yn ymddyddan, 'Wele! dyma rodd dda yn rhad a dilafur; yr holl feirch hyn, a'r arfau, a'r wraig a gawa hefyd, gan nas gall y marchog llibindrwin, athrist, acw ein luddias.'

A gofidio'n fawr a wnaeth y forwyn wrth glywed yr ymadroddion hyn, gan nas gwyddai pa beth a wnai; ac yn y diwedd, hi a benderfynodd rybuddio Geraint. 'Arglwydd,' ebe hi, 'pe clywsit ti siarad y marchogion acw fel y clywais i, mwy fyddai dy ofal nag ydyw.' Glas chwerthin yn ddigofus a chwerw a wnaeth yntau, a dywedyd, 'Mi a'th glywaf yn tori pob gorchymyn a roddaf iti. Ac efallai y bydd yn edifar genyt ti hyny eto.' Ac yn y lle wele y gwyr yn cyfarfod â hwynt; a Geraint a orfu ar y pump yn llwyddianus a hwylus. A'r pum' arfau a roddes efe yn y pum' cyfiwy, a ffrwynglymu y deuddeg march yn nghyd, a'u doddi yn ngofal Enid. 'Ni wn i,' eb efe, 'pa dda ydyw i mi dy orchymyn di; ond mi a'th orchymynaf unwaith eto, gan roddi iti fraint rhybudd.' A cherdded rhagddi tua'r coed a wnaeth y forwyn, gan gadw y rhagor, fel yr

erchis Geraint; ac yr oedd ef mor drallodus ag y caniatu ei lid iddo wrth weled morwyn cystal a hi mewu cymaint trafferth hefo'r meirch. Ac i'r goedwig y daethant, ac yr oedd yn fawr a dwfn, a'r nos a ddaeth arnynt yn y coed. 'Ha forwyn,' eb efe, 'nis gallaf i fyned yn mhellach.' 'Ie,' arglwydd,' ebe hi, 'a fynych di, ni a'i gwnawn.' 'Goreu yw i ni,' eb efe, 'fyddai troi i'r coed i orphwys, ac aros y dydd i fyned yn mhellach.' 'Hyny a wnawn yn llawen,' ebe hi; a hyny a wnaethant. Yntau a ddaeth oddiar ei farch, ac a'i disgynodd hithau i lawr. 'Ni allaf i er dim,' eb efe, 'beidio a chysgu; a gwylia dithau y meirch, ac na chwsg.' 'Mi a wnaaf, arglwydd,' ebe hi; ac efe a gysgodd ar hyd y nos, yr hon nid oedd yn hir yr amser hwnw. A phan welodd hi wawrddydd yn goleuo, hi a edrychodd a oedd efe yn deffro; ac ar hyny, yntau a ddeffrodd. 'Arglwydd,' ebe hi, 'mi a fynaswn dy ddihuno er's meityn.' Tewi a wnaeth yntau, o flinder ati, am na archasai iddi siarad. Ac wedi cyfodi, efe a ddywedodd wrthi, 'Cymer y meirch, a cherdda rhagot, a chadw o'r blaen fel y cedwaist ddoe.' Ac yn gynar y dydd, hwy a adawsant y coed, ac a ddaethant i faestir noeth, a gweirgloddiau oedd o bob tu iddynt, a phladurwyr yn lladd y gweirgloddiau. Ac yn mlaen y daethant at afon, a phlygodd y meirch i yfed o'r afon. O'r afon dringasant riw uchel, lle y cyfarfu â hwynt hoglane main, a thywel am ei wddf, a rhyw swm yn y tywel na wyddent hwy beth ydoedd. A phiser glas bychan yn ei law, a phiol ar wyneb y piser. A'r gwas a gyfarchodd well i Geraint. 'Duw a roddo dda iti,' ebe Geraint, 'ac o ba le y deui di?' 'Mi a ddeuaf,' ebe yntau. 'o'r ddinas sydd yna o'th flaen.' 'Arglwydd, ai drwg genyt i minau ofyn o ba le y deui dithau?' 'Nid drwg,' ebe yntau, 'drwy y coed acw.' 'Nid heddyw y daethost ti drwy y coed,' ebe'r llanc. 'Nage,' ebe yntau, 'yn y coed y bu'm neithiwr.' 'Mi a debygaf,' ebe'r llanc, 'na fu da dy gyflwr yno neithiwr, ac na chefaist na bwyd na diod.' 'Naddo, rhyngof i a Duw,' ebe yntau. 'A wnei di fy nghynghor i,' ebe'r llanc, 'cymeryd genyf i dy giniaw?' 'Pa fath giniaw sydd genyt?' ebe yntau. 'Boreufwyd ydyw,' ebe'r llanc, 'i'r pladurwyr acw; nid amgen na bara, a chig, a gwin. Ac os myni di, wrda, ni chant hwy ddim.' 'Mynaf,' eb efe, 'a Duw a dalo iti.'

A Geraint a ddisgynodd, a'r llanc a helpodd y forwyn i lawr. Ac ymolchi a wnaethant, a chymeryd eu ciniaw; a'r gwas a dafellodd y bara, ac a roddes ddiod iddynt, ac a'i gwasanaethai o gwbl. Ac wedi iddynt ddarfod hyny, y gwas a gyfododd ac a ddywedodd wrth Geraint. 'Trwy dy genad, arglwydd, mi a âf i gyrchu bwyd i'r pladurwyr.' 'Dos i'r dref,' ebe Geraint, 'yn gyntaf, a chymer letty i mi yn y lle goreu a wyddost, a'r lle helaethaf i'r meirch; a chymer dithau yr un a fynot o'r meirch, ac aifau gydag ef, yn dâl am dy wasanaeth a'th anrheg.' 'Duw a dalo iti, arglwydd,' ebe'r llanc, 'digon a

fyddai hyny yn dâl am wasanaeth llawer mwy na'r un a wnaethum i ti.' Ac aeth y llanc i'r dref, ac a gymerth y lletty goreu ac esmwythaf y gwyddai yn y dref am dano. Wedi hyny, efe a aeth i'r llys, a'i farch a'i arfau ganddo; ac a ddaeth i'r lle yr oedd yr Iarll, ac a ddywedodd iddo yr holl hanes. 'A myfi a âf, arglwydd, i gyfarfod y gwr ieuanc, i ddywedyd wrtho am ei letty.' 'Dos dithau,' eb efe, 'ac efe a gaiff groesaw yma, os myn, yn llawen.' A'r gwas a ddaeth i gyfarfod Geraint, ac a ddywedodd wrtho y cai groesaw a llaweuidd gan yr Iarll yn ei lys ei hun. A Geraint ni fynai hyny, eithr a ddewisai fyned i'w letty ei hun. Ac efe a gafodd ystafell esmwyth, a digon o wellt a dillad ynnddi; a lle eang esmwyth a gafodd ei feirch, a'r gwas a beris roddi digonedd o fwyd iddynt. Ac wedi ymddiosg ohonynt, Geraint a ddywedodd wrth Enid, 'Dos di i'r tu arall i'r ystafell, ac na thyred i'r ochr hon, a galw atat wraig y ty os myni.' 'Mi a wnaif arglwydd,' ebe hi, 'fel y dywedi di.' Ar hyny daeth gwr y ty at Geraint, ac a'i croesawodd. 'Ha! unben,' eb efe, 'a fwyteaist ti dy giniaw?' 'Do,' eb efe. Yna y dywed y gwas wrtho, 'A fynni di ddiod neu ddim arall cyn dy fyned i ymweled â'r Iarll?' 'Mynaf, yn wir,' ebe yntau. Yna yr aeth y gwas i'r dref, ac a ddaeth a diod iddynt, ac yfed a wnaethant. 'Nis gallaf i beidio cysgu,' ebe Geraint. 'Ie,' ebe'r gwas, 'tra byddi di yn cysgu minau a âf at yr Iarll.' 'Dos yn llawen,' ebe yntau, 'a thyred yma drachefn pan archaf i ti.' A Geraint a gysgodd, a chysgu a wnaeth Enid.

A'r gwas a ddaeth i'r lle yr oedd yr Iarll; a'r Iarll a ofynodd iddo pa le yr oedd lletty y marchog; yntau a ddywedodd, 'Rhaid i mi fyned i wasanaethu arno yn yr hwyr.' 'Dcs,' eb efe, 'ac anerch fi ato, a dywed y deuaif i ymweled âg ef yn yr hwyr.' 'Mi a wnaif,' ebe'r gwas. A'r gwas a ddaeth pan oedd yn amser iddynt ddeffroi. A chyfodi a wnaethant, a cherdded allan. A phan fu amser iddynt gymeryd eu bwyd, hwy a'u cymerasant, a'r gwas yn gwasanaethu arnynt. A Geraint a ofynodd i wr y ty os oedd ganddo gyfeillion y dymunai eu gwahodd atynt. 'Oes,' ebe yntau. 'Dwg hwynt yma,' eb efe, 'i gael croesaw ar fy nghost i o'r hyn goreu a geir ar werth yn y dref.'

A chyfeillion goreu gwr y ty a ddyg efe yno i gymeryd croesaw ar gost Geraint. Ar hyny, wele yr Iarll yn dyfod i ymweled â Geraint, a'i ddeuddeg marchog urddawl gydag ef. A Geraint a gyfododd i'w groesawu. 'Duw a roddo dda iti,' ebe'r Iarll. Ac cistedd a wnaeth pawb yn ol graddau eu hanrhydedd; ac ymddyddan a wnaeth yr Iarll â Geraint, a gofyn iddo pa ryw gerdded oedd arno. 'Nid oes genyf i,' eb efe, 'unrhyw amcan ond gweled y byd, a gwneud rhyw negesau a fo da genyf.' Yna yr Iarll a cdrychodd yn syth ac yn graff ar Enid; a diau oedd ganddo na welsai erioed forwyn decach na phrydferthach, ac efe a roddes ei fryd a'i feddwl arni, ac a ofynodd i Geraint,

'A gaf i genyt ti genad i fyned at y forwyn acw i ymddyddan â hi, gan y gwelaf ei bod hi wedi ei didoli oddiwrthyt?' 'Cei yn llawen,' ebe Geraint. Ac efe a ddaeth i'r lle yr oedd Enid, ac a ddywedodd, 'Ha! forwyn, nid difyr i ti ydyw y cerdded hwn gyda'r gwr acw.' 'Nid annifyr genyf i gerdded y ffordd a gerddo yntau,' ebe hi. 'Nid oes genyt,' ebe yntau, 'na gweision na morwynion i'th wasanaethu.' 'Ie,' ebe hithau, 'gwell yw genyf i ganlyn y gwr acw na phe cawn weision a morwynion.' 'Mi a roddaf gynghor da i ti,' ebe yntau, 'mi a roddaf fy iarllaeth yn feddiant i ti, a thrig gyda mi.' 'Na fynaf, rhyngof i a Duw,' ebe hithau, 'â'r gwr acw yr ymgredais i gyntaf erioed, ac a anwadaf i oddiwrtho!' 'Yr wyt ar fai,' ebe yntau, 'os lladdaf i y gwr acw, mi a'th gaf hyd y mynwyf, ac wedi hyny mi a'th droaf ymaith. Ond os o'th fodd y gwnei dithau a ofynaf, cysondeb tragywydd a fydd rhyngom tra y byddom byw.' Hithau a feddylodd am yr hyn a ddywedai ef, ac wedi meddwl, hi a benderfynodd roddi cefnogaeth iddo yn ei ryfyg. 'Dyma fyddai oreu i ti, unben,' ebe hi, 'rhag iddynt fy nghyhuddo i o anffyddlondeb: tyred yma yforu, a chymer fi ymaith fel pe na wyddwn i ddim am hyny.' 'Minau a wnaf hyny,' eb efe; ac efe a gyfododd ac a aeth ymaith ef a'i wyr. Ac ni ddywedodd hi ddim wrth Geraint o ymddyddan y gwr â hi, rhag peri gofal iddo ac aflonyddwch.

Ac yn yr amser, hwy a aethant i gysgu. Ac yn nechreu y nos, cysgu ychydig a wnaeth hi; ac am haner nos hi a ddeffrodd, ac a roddes arfau Geraint yn nghyd fel y byddent yn barod i'w gwisgo. Ac yn ofnus a chrynedig, hi a ddaeth i ymyl gwely Geraint, ac a ddywedodd yn dawel ac yn araf wrtho, 'Arglwydd, deffro a gwisg am danat. Dyma ymddyddan yr Iarll â mi, arglwydd, a'i feddwl am danat,' a hi a ddywedodd wrth Geraint yr holl ymddyddan a fuasai rhyngddi â'r Iarll. Ac er mor lidiog wrthi ydoedd, efe a gynertli ei rybuddio, ac a wisgodd am dano; a hi a oleuasai ganwyll fel y gallasai weled i ymwisgo. 'Gad yna y ganwyll, a phar i wr y ty ddyfod yma.' Hithau a aeth, a gwr y ty a ddaeth ato. A Geraint a ofynodd iddo, 'A wyddost ti amcan beth yw fy nyled i ti?' 'Ychydig, debygaf i, wrda,' eb efe, 'sydd o ddyled arnat i mi.' 'Beth bynag yw'r ddyled,' ebe Geraint, 'cymer yr un-ar-ddeg march a'r arfau hyn yn ei le.' 'Duw a dalo iti, arglwydd,' eb efe, 'ond ni threuliais i arnat ti werth un o'r arfau.' 'Pa waeth,' ebe Geraint, 'ti a fyddi gyfoethocach o gymaint a hyny. Ha! wr. a ddeui di i'm cyfarwyddo allan o'r dref?' 'Deuaf, yn llawen,' ebe yntau, 'a pha ffordd yr wyt ti yn bwriadu myned?' 'Ffordd wahanol i'r un y daethum i'r dref y dymunwn fyned.' A gwr y lletty a'i hebryngodd ef gan belled ag y mynai. Yna Geraint a barodd i'r forwyn gymeryd y rhagor o'i flaen; a hithau a'i cymerth, ac a aeth rhagddi.

A gwr y ty a ddychwelodd adref; a chydag iddo gyrhaedd y ty, dyma y

twrw mwyaf a glywsai erioed yn dyfod am ben y ty. A phan edrychodd allan, efe a welai bedwar ugain marchog yn llawn arfog o amgylch y ty. a'r Iarll Dwrn yn eu harwain. 'Pa le y mae'r marchog sydd yma?' ebe'r Iarll. 'Myn dy law di,' ebe'r gwr, 'efe a aeth oddiyma er's meityn.' 'Paham, filain,' eb efe, 'y gadewaist iddo fyned heb fynegi i mi?' 'Arglwydd,' ebe yntau, 'ni orchymynaist di hyny; onide, nis gadawswn iddo.' 'Pa ffordd, debygi di, yr aeth ef?' 'Nis gwn,' ebe yntau, 'ond iddo gymeryd yr heol fawr.' Yna troi penau eu meirch a wnaethant hwythau i'r heol fawr, a gweled a chanlyn ol traed y meirch nes y daethant i'r brif-ffordd. A phan welodd y forwyn oleuni dydd, hi a edrychodd yn ol ac a welai darth a niwl mawr yn nesu tuag atynt. A phryderus ydoedd am hyny, gan dybied fod yr Iarll a'i lu yn dyfod ar eu hol. A hi a welai farchog yn ymddangos o'r niwl. 'Myn fy nghred,' ebe hi, 'pe lladdai ef fyfi, gwell yw genyf fy angau o'i law ef, na gweled ei ladd ef heb ei rybuddio. 'Arglwydd,' ebe hi, 'oni weli di y gwr acw yn dy ymlid, a llawer o wyr eraill gydag ef?' 'Gwelaf,' ebe ef, 'ac er amled y perais iti dewi, ni thewi di.' Yna efe a droes ar y marchog; ac yn yr ymosodiad cyntaf, efe a'i bwriodd i'r llawr o tan draed ei farch. A thra parhaodd yr un o'r pedwar ugain marchog, efe a fwriodd bob un ohonynt i'r llawr ar yr ymosodiad cyntaf. Ac o oreu i oreu y deuent ato oddi-eithr yr Iarll; ac yn ddiweddaff oll y daeth yr Iarll ato. A thori gwaewffon a wnaethant, a thori yr ail. Yna Geraint a droes arno, ac a'i tarawodd â'i waewffon yn nhewder ei darian, nes yr holltodd y darian, ac y torodd yr holl arfau ar gyfer yr ergyd, ac nes oedd yntau tros bedrain ei farch i'r llawr, ac mewn perygl am ei fywyd. A Geraint a neshiodd ato, a chan dwrf traed ei farch, yr Iarll a ddadlewygodd. 'Arglwydd,' eb efe, dyro dy nawdd.' A Geraint a roes nawdd iddo. A chan mor galed oedd y ddaear lle y syrthiasant, a thosted yr ergydion a gawsant, ni ddiangodd yr un o'r gwyr heb gwymmp briwedig, chwerwdost, ac angeuol gan Geraint.

A Geraint a gerddodd rhagddo ar y brif-ffordd yr oedd arni; a'r forwyn yn cadw ei rhagor. Ac yn agos iddynt, hwy a welent y dyffryn tecaf a welsai neb erioed, ac afon fawr yn y dyffryn, a phont a welent ar yr afon, a'r brif-ffordd oedd yn myned dros y bont. Ac uwchlaw y bont, a thu draw i'r afon, gwelent dref gastellog decaf a welsai neb erioed. Ac wrth neshau at y bont, Geraint a welai wr yn dytod ato trwy fyrgoed bychain a thewion, ar farch mawr, uchel, ymdaithwastad a hywedfalch. 'Ha! farchog,' ebe Geraint, 'o ba le y deui di?' 'Mi a ddeuaf o'r dyffryn isod,' ebe yntau. 'Ha! wr,' ebe Geraint, 'a ddywedi di i mi pwy biau y dyffryn teg hwn a'r dref gastellog acw?' 'Dywedaf yn llawen,' ebe yntau, 'Gwiffert Petit y gelwir ef gan y Ffrancod, a'r Brenin Bychan gan y Cymry.' 'I'r bont acw yr af i,' ebe Geraint, 'ac i'r brif-ffordd o dan y dref.'

'Na ddos,' ebe'r marchog, 'ar ei dir ef y tu draw i'r bont; canys y mae'n rheol ganddo na ddaw marchog ar ei dir os na fyn ymladd âg ef.' 'Rhyngof i a Duw.' ebe Geraint, 'mi a gerddaf fy ffordd fy hui er hyny.' 'Tebycaf yw genyf i,' ebe'r marchog. 'os felly y gwnei, y cei gywilydd a gwarth yn dâl am dy ryfyg.' A Geraint a gerddodd y ffordd y bwriadai cyn hyny, ac nid y ffordd oedd yn arwain i'r dref o'r bont a gerddodd, eithr y ffordd oedd yn arwain i dir caled, garw, uchel ac amlwg. Ac fel yr oedd ef yn cerdded felly, gwelai farchog yn dyfod ar ei ol ar gadfarch cadarn dew, balch ei gerddediad, carnlydan, bron-eang, ac ni welsai erioed wr llai nag ef ar farch. A chyflawnder o arfau oedd ar ei farch ac yntau. Ac wedi goddiweddyd Geraint, ef a ddywedodd wrtho, 'Dywed unben, ai mewn anwybodaeth ynte o ryfyg y ceisi di ddwyn fy mraint oddiarnaf a thori fy rheol?' 'Ni wyddwn i,' ebe Geraint, 'fod y ffordd hon yn gauedig i neb.' 'Gwyddet,' ebe yntau, 'a thyred gyda mi i'r llys i wneuthur iawn i mi.' 'Na ddeuaf, myn fy nghred,' ebe Geraint, 'nid awn i lys dy arglwydd, os nad Arthur yw dy arglwydd.' 'Myn llaw Arthur,' eb efe, 'mi a fynaf iawn genyt, neu fy ngorchfygu.'

Ac yn y fan a'r lle ymladd a wnaethant. Ac yswain iddo a ddaeth i'w wasanaethu ef hefo'r gwaewffyn fel y torai hwynt. A dyrnodiau celyd, tost, a roddai y naill i'r llall, nes y collodd y tarianau eu holl liw.¹ Ac annheg oedd i Geraint ymladd âg ef gan mor fychan ydoedd, ac mor anhawdd cael craff arno, a chaleted y dyrnodiau a roddai yntau. Ac ni ddiffygiasant hwy er hyny, nes y dygwyd y meirch ar eu gliniau; ac yu y diwedd, Geraint a'i bwriodd ef ar ei ben i'r llawr. Yna ymfustio a wnaethant ar eu traed, a dyrnodiau cyflym, tost-ddrud, cadarnchwerw, a roddai y naill i'r llall, nes tyllu eu helmau, a malurio eu paeledau (*skullcaps*) a chwilfriwio eu harfau, ac nes oedd eu llygaid yn colli eu goleuni gan chwys a gwaed. Ac o'r diwedd, Geraint a lidiodd, ac a alwodd ei holl nerth ato, ac a ddyrchafodd ei gleddyf yn gyflym, chwyrn, a digotus, ac a'i tarawodd ar ei ben ddyrnod tost, angeuol, llym-wenwynig, garw, chwèrwr, nes y torodd holl arfau y pen, a'r croen, a'r cig, ac onid archollwyd yr asgwrn, ac hyd nes oedd cleddyf y Brenin Bychan yn mhen eithaf y maes oddiwrtho. Ac yna efe a ddeisyfodd, er Duw, am nawdd Geraint a'i drugaredd. 'Ti a gei nawdd,' ebe Geraint, 'er na buost na theg na moesgar i mi; ond rhaid i ti fod yn bleidiwr i mi, a pheidio dyfod i'm herbyn eilwaith; a dyfod i'm cynorthwyo, os clywi fod taro arnaf.' 'Mi a wna hyny'n llawen,' eb efe; a rhoddes ei lw ar hyny. 'Tithau, arglwydd, a ddeui di gyda mi i'r llys acw. i fwrw dy ludded

¹ *Llucio Tarianau.*—Yr oedd yn arferiad gan Farchogion Urddol liwio eu tarianau, a doddi arnynt luniau gwahanol greaduriaid ac adar, a'u goreuro yn gywrair ac ysplenydd. A dygai ambell un ddarlun o'i giadiferch ar wyneb ei darian.

a'th flinder oddiarnat. 'Na ddeuaf, rhyngof i a Duw,' eb efe.

Yna Gwiffert Petit a sylwodd ar Enid, a gofidus oedd ganddo weled un cyn foneddigeiddied a hi yn y fath drallod. Ac efe a ddywedodd wrth Geraint, 'Arglwyd d yr wyt ar fai na chymerit ychydig orphwys ac esmwythder; canys, os cyfarfyddi â chaledi yn y cyflwr yma, ni bydd yn hawdd i ti ei orfod.' Eithr Geraint ni fynai ond cerdded rhagddo, ac a esgynodd ar ei farch yn boenus a gwaedlyd, a'r forwyn yn cadw y rhagor o'i flaen.

A hwy a gerddasant tua choed a weleut heb fod yn nepell oddiwrthynt; a'r gwres oedd yn fawr, ac arfwisg Geraint, oherwydd y chwys a'r gwaed, oedd yn glynu wrth ei gnawd. Ac wedi dyfod i'r coed, efe a safodd o dan bren er gochel y gwres, a mwy poenus oedd ei ddoluriau yn awr na phan y cafodd hwynt. A'r forwyn a safai o tan bren arall. Ac ar hyny, hwy a glywent udgyrn a chynhwrf; sef oedd hyny, Arthur a'i lu wedi dyfod i lawr i'r coed. A phan oedd ef yn meddwl pa ffordd yr elai er eu gochel hwynt, canfuwyd ef gan bedestyr (*pedestrian*), a gwas y Distain (*steward*) ydoedd. Ac efe a ddaeth at y Distain, ac a ddywedodd wrtho iddo weled y cyfryw ddyd ag a welsai yn y coed. Yna'r Distain a barodd gyfrwyo ei farch, ac a gymerodd ei waewffon a'i darian, ac a ddaeth i'r fan yr oedd Geraint. 'Ha! farchog,' eb efe, 'beth a wnei di yma?' 'Setyll o dan y pren oer,' ebe yntau, 'er gochel y brwdaniaeth a'r gwres.' 'Beth yw dyben dy daith, a phwy wyt ti?' 'Gweled y byd, a myned y ffordd y mynwyf.' 'Ie,' ebe Cai, 'tyred gyda mi i ymweled âg Arthur, yr hwn sydd yn agos yma.' 'Na ddeuaf, rhyngof i a Duw,' ebe yntau Geraint. 'Rhaid iti ddyfod,' ebe Cai. A Geraint a adwaenai Cai, er na adwaenai Cai mo Geraint. A Chai a ymosododd arno goreu y gallai ef. A Geraint a ddigiodd, ac a'i tarawodd â chleddr ei waewffon, ond ni fynai wneuthur dim gwaeth iddo na hyny.

A Chai a gyfododd yn wyllt ac ofnus, ac a esgynodd ar ei farch, ac a ddaeth i'w letty. Oddiyno efe a aeth i babel Gwalchmai. 'Ha! wr,' eb efe wrth Gwalchmai, 'mi a glywais gan un o'r gweision ei fod wedi gweled yn y coed uchod farchog archolledig, ac arfau briwedig am dano. Ac os gwnai di yn iawn, ti a âi i edrych a'i gwir hyny.' 'Nis gwaeth genyf i pe'r awn,' ebe Gwalchmai. 'Cymer, gan hyny, dy farch,' ebe Cai, 'a pheth o'th arfau, canys mi a glywais nad yw ef addfwyn iawn wrth y neb a ddel ato.' Gwalchmai a gymerth ei waewffon a'i darian, ac a esgynodd ar ei farch, ac a ddaeth hyd i'r lle yr oedd Geraint. 'Ha! farchog,' eb efe, 'pa beth ydyw'r cerdded sydd arnat?' 'Cerdded wrth fy mhleser, er mwyn gweled y byd.' 'A ddywedi di imi pwy ydwyf, neu a ddeui di i ymweled âg Arthur, yr hwn sydd yn agos yma?' 'Ni chyfeillachaf â thi, ac nid af i ymweled âg Arthur.' Ac efe a adwaenai Gwalchmai, ond Gwalchmai nis adwaenai ef. 'Ni bydd imi dy adael,'

ebe Gwalchmai, 'nes gwybod pwy ydwyf;' ac efe a ymosododd arno, ac a'i tarawodd â'i waewffon yn ei darian nes oedd y llafn yn chwilfriw, a'r ddau farch ben yn mhen. Yna Gwalchmai a edrychodd yn graff arno, ac a'i hadnabu. 'Och! Geraint,' eb efe, 'ai tydi sydd yma?' 'Nid Geraint wyf i,' ebe yntau. 'Geraint—rhyngof i a Duw,' ebe Gwalchmai, a thaith ynfyd a thruenus ydyw hon genyt.' Ac efe a edrychodd o'i gylch, ac a ganfu Enid; ac a fu groesawgar a llawen wrthi. 'Geraint,' ebe Gwalchmai, 'tyred i ymweled âg Arthur, dy arglwydd a'th gefnder.' 'Na ddeuaf,' ebe yntau, 'nid wyf i'n gymhwys i ymweled â neb.' Ar hyny, wele un o'r gweision yn dyfod ar ol Gwalchmai i siarad âg ef. Ac yn ddiarwybod i Geraint, efe a sisialodd wrth y gwas ac a'i gyrodd i fynegu i Arthur fod Geraint yno'n archolledig, a bod golwg druanaid arno, ac na ddeuai i ymweled âg Arthur. 'Deisyf ar Arthur,' eb efe, 'neshau ei babell i'r ffordd, gan na ddaw efe i ymweled âg ef o'i fodd; ac nad hawdd ydyw ei orfodi yn y sefyllfa y mae ynddi.' A'r gwas a ddaeth at Arthur, ac a ddywedodd hyny wrtho. Yntau a symudodd ei babell i ymyl y ffordd. A'r forwyn a lawenychodd yn ei chalon am hyn. A Gwalchmai a ddaeth at Geraint ar hyd y ffordd lle yr oedd Arthur yn pabellu a'i woision yn codi eu pebyll yn ystlys y ffordd. 'Arglwydd,' ebe Geraint, 'henffych well.' 'Duw a roddo dda iti,' ebe Arthur, 'a phwy wyt ti?' 'Geraint,' ebe Gwalchmai, 'yw hwn ac o'i fodd nid ymwelsai ef â thi.' 'Ie,' ebe Arthur, 'wedi dyrysu y mae.' Ar hyny, Enid a ddaeth i'r lle yr oedd Arthur, ac a gyfarchodd well iddo. 'Duw roddo dda iti,' ebe Arthur, 'disgyned un o'r gweision hi i lawr;' ac un ohonynt a wnaethant hyny. 'Och! Enid,' ebe Arthur, 'pa gerdded yw hwn?' 'Nis gwn i, arglwydd,' ebe hi, 'ond mai gweddus ydyw i ni gerdded y ffordd y cerddo yntau.' 'Arglwydd,' ebe Geraint, 'trwy dy genad, ni a awn ymaith.' 'I ba le yr ewch chwi?' ebe Arthur, 'ni eili di fyned yn awr, os nad âi i orphen dy angau.' 'Ni âd ef i mi ei wahodd,' ebe Gwalchmai. 'Efe a âd i mi,' ebe Arthur, 'ac heblaw hyny, nid â ef oddiyma nes y bo iach.' 'Goreu fyddai genyf i,' ebe Geraint, 'pe gadewit i ni fyned ymaith.' 'Na adawaf, rhyngof i a Duw,' ebe Arthur. Yna efe a barodd alw morwyn i gymeryd Enid a'i dwyn i ystafell Gwenhwyfar. A llawen a fu Gwenhwyfar wrthi, a'r gwragedd oll, a diosg ei marchogwisg, a rhoddi gwisg arall am dani. Ac Arthur a alwodd ar Cadyrieith, ac a archodd iddo godi pabell i Geraint a'r meddygon, a darpar digon o bobpeth fel y gofynid iddo. A Chadyrieith a wnaeth yn ol yr archiad; ac a ddygodd Morgan Tud a'i ddysgyblion at Geraint.

Ac yno y bu Arthur a'i lu agos i fis yn meddyginiaethu Geraint. Ac wedi cryfhau a gwella, Geraint a ddaeth at Arthur, ac a ofynodd genad i fyned ymaith. 'Nis gwn i a wyt ti'n iach eto,' ebe Arthur. 'Ydwyf yn wir, arglwydd,'

ebe yntau. 'Ni chredaf dydi am hyny nes gweled y meddygon a fu gyda thi.' Ac efe a ddanfonodd am y meddygon ato, ac a ofynodd a oedd hyny yn wir. 'Gwir, arglwydd,' ebe Morgan Tud. A thranoeth, Arthur a ganiataodd iddo fyned ymaith; ac yntau a aeth i orphen ei daith. A'r dydd hwnw, Arthur a symudodd oddiyno. A Geraint a barodd i Enid gerdded o'r blaen, a chadw ei rhagor fel y gwnai cyn hyny; a lithau a gerddodd, ac a ddilynodd y brif-ffordd. Ac fel yr oeddynt yn ymdaith felly, clywent y waedd fwyaf croch yn agos iddynt. 'Saf di yma,' eb efe, 'minau a âf i edrych ystyr y waedd hon.' 'Mi a wnaf,' ebe hi. A myned a wnaeth yntau, a dyfod i lanerch yn agos i'r ffordd, ac ar y llanerch, efe a welai ddau farch, un â chyfrwy gwr, a'r llall â chyfrwy gwraig arno, a marchog a'i arfau am dano yn farw ar lawr; ac uwch ei ben, gwelai forwynwraig ieuanc, a gwisg farchogol am dani, ac yn llefain. 'Ha! unbenes,' ebe Geraint, 'beth a ddigwyddodd i ti?' 'Cerdded yma yr oeddynt,' ebe hi, 'myfi a'r gwr a garwn fwyaf; ac wele! daeth tri chawr o gewri atom, ac yn gwbl ddiachos, ac heb un math o degwch, hwy a'i lladdasant ef.' 'Pa ffordd yr aethant hwy?' ebe Geraint. 'Ar hyd y ffordd fawr yna,' ebe hi. Yntau a ddaeth at Enid. 'Dos,' eb efe, 'at yr unbenes sydd i lawr yna, ac aros fi yna nes y dychwelaf.' 'Trist oedd ganddi iddo beri hyny; ond hi a aeth at y forwyn, a chalonrwygol oedd gwrando ar ei gwylofain; ac yr oedd yn sicr na ddeuai Geraint byth yn ol. Ac ar ol y cewri yr aeth yntau, a'u goddiweddyd; a mwy oedd pob un ohonynt na thri o wyr; a chlwppa (*club*) mawr oedd ar ysgwydd pob un. Yntau a ruthrodd ar un ohonynt, ac a'i gwanodd â'i waewffon trwy ei berfedd; ac efe a dynodd ei waewffon o hwnw, ac a wanodd un arall trwyddo hefyd. Ond y trydydd a droes arno, ac a'i tarawodd â'i glwppa nes hollti ei darian, ac ysigo ei ysgwydd, ac ail agor ei hen friwiau nes oedd ei waed yn colli oll. Beth a wnaeth yntau, ond tynu ei gleddyf a rhuthro arno a'i daro â dyrnod tostlym, didrugaredd, angerddoldrud, yn ngwarthaf ei ben, nes yr holltodd ei ben a'i wddf hyd y ddwy ysgwydd, ac y lladdwyd yntau. A'u gadael yn farw felly a wnaeth, a dyfod hyd i'r lle yr oedd Enid. A phan welodd efe Enid, syrthiodd yn farw i'r llawr oddiar ei farch. Torcalonus, uchel, ac arswydus, oedd y waedd a roddes Enid. A hi a safodd uwch ei ben yn y man y cwmpasai. Ac ar hyny, wele Iarll Lumwris, a'i lu, yr hwn a glybu y waedd o'r ffordd fawr gerllaw, yn dyfod i'r lle. A'r Iarll a ofynodd i Enid, 'Ha! unbenes, pa beth a ddigwyddodd i ti?' 'Och! wrda,' ebe hithau, 'lladdwyd yr unig ddyn a gerais erioed, neu a garaf byth.' 'Pa beth a ddartu i 'tithau eb efe wrth y llall. 'Lladdwyd y gwr a garwn,' ebe hithau hefyd. 'Pa beth a'u lladdodd hwynt?' eb efe. 'Cewri,' ebe hono, 'a laddodd y gwr a garwn i fwyaf. A'r marchog arall a aeth ar eu hol, ac fel y gweli di y daeth efe

oddiwrthynt, a'i waed yn colli yn ddifesur; a thebyg yw genyf,' ebe hi. 'na ddaeth yntau oddiwrthynt hwy heb ladd rhai neu'r cwbl ohonynt.' A'r iarll a beris gladdu y marchog a adewsid yn farw. Eithr efe a dybiai fod peth bywyd yn Geraint eto; ac a barodd ei dwyn gydag ef yn mhlyg ei darian ac ar elor, er gweled a fyddai ef byw. A'r ddwy forwyn a ddaethant i'r llys. Ac wedi eu dyfod i'r llys, dodwyd Geraint ar elor wely gerllaw bwrdd uchel oedd yn y neuadd. A diosg gwisgoedd teithio a wnaeth pawb ond Enid; a'r iarll a ddeisyfodd arni hithau wneud hyny. 'Na wna, rhyngof i a Duw,' ebe hi. 'Ha! unbeneb,' ebe yntau, 'na fydd mor drist.' 'Anhawdd yw fy nghyngori i hyny,' ebe hi. 'Mi a ymddygaf tuag atat fel na bo achos i ti fod yn drist, pa un bynag ai byw ai marw a fydd y marchog acw. Y mae yma iarllaeth dda, a thi a gei hono i'th feddiant; a minau gyda hi. A bydd di lawen a hyfryd bellach.' 'Fy nghyffes i Dduw, na byddaf lawen tra byddwyf byw mwyach,' ebe hi. 'Tyred i fwyta,' eb efe. 'Na ddeuaf rhyngof i a Duw,' ebe hi. 'Deui, rhyngof inau a Duw,' ebe yntau; ac efe a'i tynodd o'i hanfodd gydag ef at y bwrdd, ac a archodd lawer gwaith iddi fwyta. 'Fy nghyffes i Dduw,' ebe hi, 'na fwytaf oni fwytao y gwr sydd ar yr elor acw.' 'Ni elli di gyflawni hyny ysywaeth,' ebe'r iarll. 'y mae'r gwr acw yn farw eisioes.' 'Mi a brofaf ei allu,' ebe hi. Yna efe a gynygiodd gwpanaid o ddiod iddi, ac a ddywedodd, 'Yf y gwpanaid hon, ac fe fydd gwell dy synwyr.' 'Mefl imi,' ebe hi, 'os yfaf i ddiod nes yr yfo yntau.' 'Ie,' ebe'r iarll, 'waeth imi fod yn hagr wrthyt nag yn anhagr; ac efe a roddes fonclust iddi. Hithau a gododd waedd fawr, aruchel, a thost, nes yr oedd ei gwylofain yn uwch yn awr nag o'r blaen; a meddwl yr ydoedd pe buasai Geraint yn fyw na chawsai hi ei bonclustio felly. Ac wrth ei gwaedd, dadebrodd Geraint o'i lewyg. ac a gyfododd yn ei eistedd, ac a gafodd o hyd i'w gleddyf yn mhlyg y darian; ac efe a ruthrodd i'r lle yr oedd yr Iarll, ac a roes iddo ergyd eiddiglym, tostwenwynig, a chadarnffurf. ar warthaf ei ben nes yr holltodd ei ben, a'r bwrdd a ataliodd ei gleddyf. A hwy oll, gan adael y byddau, a ffoisant allan. Ac nid ofn y gwr byw oedd fwyaf arnynt; ond gweled dyn marw yn cyfodi i'w lladd.

Yna Geraint a edrychodd ar Enid, a daeth dau ofid arno; un ydoedd ei gweled wedi colli ei lliw a'i gwedd; a'r llall, gwybod ei bod hi ar yr iawn. 'Arglwyddes,' eb efe, 'a wyddost ti pa le y mae ein meirch ni?' 'Gwn, arglwydd,' ebe hi 'pa le yr aeth dy farch di, nis gwn pa le yr aeth y llall. I'r ty acw yr aeth dy farch di.' Yntau a aeth i'r ty, ac a ddygodd ei farch allan. Yna efe a esgynodd ar ei farch, ac a gododd Enid oddiar y llawr ato, ac a gerddodd ymaith rhagddo. Ac ymdaith yr oeddynt rhwng dau wrych; a'r nos oedd yn gorfod ar y dydd. Ac wele! rhyngddynt a'r awyr ar eu hol, gwelent beledyr gwaewffyn,

a chlywent dwrf meirch a swm llun yn dyfod. 'Mi a glywaf rai yn dyfod ar ein hol,' eb efe, 'a mi a'th roddaf di dros y gwrych.' Ac felly y darfu. Ar hyny, wele farchog yn cyrchu ato, ac yn gostwng ei waewffon. Pan welodd Enid hyny, hi a lefodd, 'O! unben, pwy bynag ydwyf, pa glod a gei di am ladd dyn marw?' 'Och! Dduw,' ebe yntau, 'ai Geraint yw ef?' 'Ie, rhyngof i a Duw,' ebe hi, 'a phwy wyt tithau?' 'Myfi yw y Brenin Bychan,' ebe yntau, 'yn dyfod i'th gynorthwyo, canys mi a glywais dy fod mewn helbul. A phe gwneisit fy nghyngor i, ni fuasit wedi cyfarfod â'th ofid.' 'Ni ellir dim,' ebe Geraint, 'wrth yr hyn a fynd Duw; er y daw llawer o dda o gynghor.' 'Ie,' ebe'r Brenin Bychan, 'mi a roddaf gynghor da i ti eto. Tyred gyda mi i lys daw [mab-yn-nghyfraith] fy chwaer sydd yn agos yma, i gael dy feddyginiaethu â'r cyffyniau goreu yn y deyrnas.' 'Awn yn llawen,' ebe Geraint. A march un o ysweiniaid y Brenin Bychan a roddwyd i Enid. Dyfod rhagddynt a wnaethant i lys y Barwn, a llawen a fuwyd wrthynt, ac ymgeledd a gawsant a chroesaw. Dranoeth y bore, aed i ymotyn meddygon; a hwy a ddaethant mewn byr amser. A Geraint a feddyginiaethwyd, nes ydoedd yn holliach. A thra buwyd yn ei feddyginiaethu, y Brenin Bychan a barodd gyweirio arfau Geraint, onid oeddynt cystal ag y buont erioed. A phythefnos a mis y buont yno.

Yna y dywed y Brenin Bychan wrth Geraint, 'Ni a awn tua'm llys inau yn awr, i orphwys ac i gymeryd esmwythdra.' 'Pe da genyt ti,' ebe Geraint, 'ni a deithiwn un diwrnod eto, ac a ddychwelwn drachefn.' 'Yn llawen,' ebe'r Brenin Bychan, 'cerdda dithau.' Ac yn ieuencyd y dydd, hwy a gychwynasant. A hyfrytach a llawenach y teithiodd Enid gyda hwy y dydd hwnw nag erioed. A hwy a ddaethant i'r ffordd fawr; ac i le yr ydoedd yn gwahanu yn ddwy. Ac ar hyd un ohonynt, gwelent wr ar draed yn dyfod tuag atynt, A Gwiffert a ofynodd iddo o ba le y deuai.' 'Dyfod, yr ydwyf,' ebe yntau, 'o negesau yn y wlad.' 'Dywed,' ebe Geraint, 'pa ffordd yw yr oreu o'r ddwy hyn imi ei chymeryd?' 'Goreu i ti gymeryd hon,' ebe yntau, 'os cymeri y llall, ni ddeui di byth yn ol. Isod y mae gwrych o niwl, ac yn hwnw y mae chwareuon lledrithiol (*enchanted games*). a pha ddyn bynag a aeth yno, ni ddaeth byth yn ol drachefn. A llys Owain Iarll sydd yno. Ac ni chaiff neb lettya yn y dref; rhaid iddynt fyned ato ef i'r llys.' 'Rhyngof i a Duw,' ebe Geraint, 'ar hyd y ffordd isod yr awn ni.' A hono a gerddasant, nes y daethant i'r dref. Ac yn y lle hoffaf a thecaf ganddynt yn y dref y cymerasant letty. Ac fel yr oeddynt felly, wele was ieuane yn dyfod atynt ac yn cyfarch gwell iddynt. 'Duw a roddo dda iti,' ebynt hwythau.' 'Ha! wyrda,' eb efe, 'pa ddarpar a wnewch chwi yma?' 'Darpar lletty,' ebynt hwythau, 'i lettya heno.' 'Nid yw yn ddefod gan y gwr a biau y dref adael i foneddigion a ddelont yma lettya ond

yn ei lys ef ei hun. A dowch chwithau i'r llys.' 'Awn yn llawen,' ebe Geraint. A hwy a aethant gyda'r gwas, a chroesawgar a fuwyd wrthynt yn y llys. A'r Iarll a ddaeth i'r neuadd i'w derbyn, ac a barodd hulo y byrddau. Ac ymolchi a wnaethant, a myned i eistedd. Ac fel hyn yr eisteddent: Geraint ar un ochr i'r Iarll, ac Enid ar yr ochr arall; ac yn nesaf i Enid y Brenin Bychan, a'r Iarlles yn nesaf i Geraint; a phawb wedi hyny yn ol ei anrhydedd. Yna Geraint a feddylodd am y chwareu, a thybiodd na chai ef fyned i'r chwareu; ac o achos hyny, efe a beidiodd a bwyta. Yna'r Iarll a sylwodd ar Geraint ac a debygai mai rhag ofn myned i'r chwareu yr oedd Geraint yn peidio bwyta; ac yr oedd yn ddrwg ganddo ei fod wedi gwneuthur y chwareuon hyny erioed, pe na buasai ond rhag ofu colli gwas cystal a Geraint. A phe gofynasai Geraint am ddileu y chwareu am byth, efe a wnaethai hyny yn llawen. Yna y dywedodd yr Iarll wrth Geraint, 'Paham yr wyt ti mor ddystaw, unben, ac yn peidio bwyta? Os petruso yr ydwynt yn nghylch myned i'r chwareu, ti a gai nad elych, ac nad el dyn o'th anrhydedd di byth iddynt.' 'Duw a dalo iti,' ebe Geraint, 'ond ni fynaf i ond myned i'r chwareuon, a chael fy nghyfarwyddo pa ffordd i fyned iddynt.' 'Os goreu genyt ti hyny, ti a'i cei yn llawen,' ebe'r Iarll. 'Goreu yn wir,' ebe yntau. A bwyta wnaethant; a digonedd o wasanaeth, ac amllder o anrhegion, a lluosogrwydd o wirodau, a gawsant. Ac wedi darfoed bwyta, cyfodi a wnaethant; a Geraint a alwodd am ei farch a'i arfau, ac a wisgodd am dano ac am ei farch a'r holl nifer a ddaethant gydag ef nes dyfod i ymyl y gwrych. Ac nid oedd is y gwrych a welynt na'r fan uwchaf a welynt yn yr awyr; ac ar bob pawl oddieithr dau, a welynt yn y gwrych, yr oedd pen gwr. Ac aml iawn oedd y polion yn y gwrych a thrwyddo. Yna y dywed y Brenin Bychan, 'A gaiff neb fyned gyda'r unben, namyn ef ei hun?' 'Na chaiiff,' ebe Owain. 'Pa gyfeiriad,' ebe Geraint, 'y deuir iddo?' 'Nis gwn i,' ebe Owain, 'namyn y cyfeiriad a fynd, a hawsaf genyt fyned.'

Ac yn eofn a dibetrus, Geraint a aeth rhagddo i'r niwl. Ac wedi gadael y niwl, efe a ddaeth i berllan fawr, a llanerch a welai yn y berllan. A phabell o sidan coch a welai yn y llanerch, a drws y babell a welai yn agored, ac a fallen oedd ar gyfer drws y babell. Ac ar gw'r o'r a fallen, yr oedd corn canu mawr; ac efe a ddisgynodd yno, ac a aeth i mewn i'r babell. Ac nid oedd yn y babell ond un forwyn, ac eistedd yr ydoedd mewn cadair euraidd; a chadair arall gyferbyn â hi yn wag. A Geraint a eisteddodd yn y gadair wag. 'Ha! unben,' ebe'r forwyn, 'ni chynghoraf i dydi i eistedd yn y gadair yna.' 'Paham?' eb efe. 'Ni oddefodd y gwr a biau y gadair yna i neb erioed eistedd ynddi,' ebe hi. 'Pa waeth genyf i,' ebe Geraint, 'ei fod yn anfoddlawn i neb eistedd yn ei gadair.' Ar hyny, hwy a glywent dwrf mawr o gylch y babell. A Geraint

a edrychodd beth oedd yn peri y twrf. Ac oddiallan efe a welai farchog ar gadfarch ffoenlydan, awyddfawr, esgyrbraff, a chwmsallt (*robe*) dau haner am dano ac am ei farch, a digonedd o arfau o dan hyny. 'Dywed, unben,' eb efe with Geraint, 'pwy a archodd i ti eistedd yna.' 'Myfi fy hun,' ebe yntau. 'Cam oedd i ti fy nghywilyddio a'm gwarthruddo gymaint a hyn,' eb efe; 'a chyfod di oddiyna i wneuthur iawn imi am dy anghymendod.' A Geraint a gyfododd. Ac yn y fan a'r lle, ymladd a wnaethant; a thori to o waewffyn, a thori yr ail do, a thori y drydedd do; a dyrnodiau caledchwerw, cyflym-drud, a roddai y naill i'r llall. Ac yn y diwedd, Geraint a lidiodd, ac a yspardynodd ei farch. ac a ruthrodd arno, ac a'i tarawodd yn nghadernid ei darian, nes yr holltodd hi, ac yr aeth pen ei waewffon yntau i arfwisg ei wrthwynebydd; ac oni thorodd yr holl genglau, ac onid oedd yntau yn ngwysg ei ben tros bedrain ei farch ar lawr, bellder o hyd gwaewffon Geraint a'i fraich. 'Och! arglwydd,' eb efe, 'dyro imi dy nawdd, a thi a gei y peth a fyny.' 'Ni fynaf i,' ebe Geraint, 'ond na bo yma byth y chwareu hwn eto, na'r gwrych niwl, na'r hud a lledrith.' 'Ti a gei hyny yn llawen, arglwydd,' eb efe. 'Pâr dithau,' ebe Geraint, 'i'r niwl fyned ymaith o'r lle.' 'Cân di y corn acw,' ebe yntau, 'a'r awr y ceni di ef, aiff y niwl ymaith o'r lle. Ac oni chenir ef gan y marchog a'm bwriodd i, nid aiff y niwl byth oddiyma.' A thrist a gofidus oedd Enid yn y lle yr ydoedd gan ei gofal am Geraint. Yna Geraint a ddaeth, ac a ganodd y corn. A'r awr y rhoddes ef y sain gyntaf ynddo, y niwl a aeth ymaith. Yna y daeth y cwmni yn nghyd, a thangnefeddwyd pob un ohonynt â'u gilydd. A'r nos hono, yr Iarll a wahoddodd Geraint a'r Brenin Bychan i aros gydag ef; a bore dranoeth ymwahanasant. A Geraint a ddaeth i'w gyfoeth ei hun, ac a wladychodd yno ar ol hyny yn llwyddianus; a'i filwriaeth a'i wychder yn dwyn clod ac edmygedd i Enid ac yntau o hyny allan.



YSTORI CILHWCH AC OLWEN;

NEU,

HANES Y TWRCH TRWYTH.

[Nid oes un amheuaeth nad aralleg, neu alegori, ydyw y Fabinogi gynhyrfus a hynod hon o'r Bardd yn ymhwedd â Natur. Y blaenaf yn cael ei gynrychioli gan Cilhwch, a'r olaf gan Olwen. Y mae enwau y prif gymeriadau ynddi yn anhysbys i hanesyddiaeth, ac yn fwy gweddus i ddynodi rhyw egwyddor neu ddrychfeddwl neillduol nag yn enwau neu gyfeuwau ar bersonau unigol. Sonia tua digon am wyr enwog mewn hanesyddiaeth fel ag i roddi i'r rhamant synfawr y posiblwydd ei bod yn ddilya. Bernir fod CILHWCH AC OLWEN yn un o'r rhai hynaf, os nid yr hynaf oll, o'r MABINOGION, ac y mae mor wreiddiol, fel nad oes mewn un iaith arall hyd y gwyaithis ddim cyffelyb iddi].

CILYDD fab Celyddon Wledig¹ a fynai wraig gymhwys; a'r wraig a fynodd oedd Goleuddydd ferch i Anlawdd² Wledig. Ac wedi i'r wlad gael ei gwledd, hi a weddiodd ar iddynt gael etifedd; a mab a gawsant trwy weddi y wlad. Ac o'r awr y beichiogodd Goleuddydd, hi a aeth yn wyllt, ac nid arosai mewn ty anedd. Eithr pan ddaeth awr ei thymp ati, daeth ati hefyd ei hiawn bwyll. Yna hi a aeth i'r mynydd lle yr oedd meichiad (*swineherd*) yn cadw ceufaint o foch. A chan ofu y moch y cafodd hi ei thymp. A'r meichiad a ddygodd y mab i'r Llys, a galwyd ef CILHWCH, am ei gael mewn gwâl hwch. Er hyny, boneddigaidd oedd y mab, a chefnider i Arthur ydoedd; ac efe a roddwyd allan i'w fagu.

Wedi hyny, clafychu a wnaeth mam y mab, sef Goleuddydd ferch Anlawdd Wledig, a galw ei gwr ati, a dywedyd wrtho, 'Marw a fyddaf i o'r clefyd hwn, a gwraig arall a fyni dithau. Ac yn awr, rhodd Duw ydyw gwraig; ond drwg fyddai i ti, er hyny, wneud cam â dy fab. Gan hyny, archaf i ti na chymerot wraig nes gweli fieren a dau flodeuyn arni yn tyfu ar fy medd.' Ac

¹ *Guledig*.—Brenin, tywysog, neu wr yn llywodraethu gwlad.

² *Anlawdd*.—Dywedir yn y *Brutiau* mai merch i Anlawdd oedd Eigr, mam Arthur. Fel hyn yr oedd perthynas rhwng Cilhwch ac Arthur.

addaw a wnaeth yntau. Yna hi a barodd iddo drwsio y bedd bob blwyddyn fel na thyfai dim arno. A bu farw y frenhines. A gyru'r gwas bob bore a wnai'r brenin i edrych a dyfai dim ar y bedd. Ac yn mhen saith mlynedd, efe a anghofiodd yr llyn a addawsai i'r frenhines.

Ac un diwrnod, yr oedd y brenin yn hela, ac efe a ddaeth at y gorddlan¹, er gweled y bedd a gwybod os gallai ef wreica; a mieren a welai ar y bedd. A phan ei gwelodd, efe a gymerodd gynghor pa le y cai wraig. Ebe un o'r cynghorwyr, 'Mi a wn am wraig dda a chymhwys i ti, sef yw hono gwraig Doged Frenin.² A phenderfynasant ei chyrchu; a lladd y brenin a wnaethant, a gorgesgyn ei dir; a dwyn ei wraig, a'r unig ferch oedd iddi, gyda hwynt.

Ac un diwrnod, aeth y wraig allan i rodio, ac a ddaeth i dŷ hen wrach oedd yn y dref, heb ddant yn ei phen; ac a ddywedodd wrthi, 'Ha! wrach, a ddywedi di, er mwyn Duw, y peth a ofynaf iti? Pa le y mae plant y gwr a'm lladrataodd i trwy drais?' Ebe'r wrach, 'Nid oes plant iddo.' Ebe'r frenhines, 'Gwae finau, fy nyfod at wr diblant.' 'Ni raid iti hyny,' ebe'r wrach, 'y mae darogan y caiff ef etifedd ohonot ti, ac nid o arall. Hefyd, na fydd drist, canys y mae iddo un mab.'

A'r wraig a ddychwelodd adref yn llawen, ac a ddywedodd wrth ei chymhar, 'Paham yr wyt ti yn celu dy blant rhagof i?' Ebe'r brenin, 'Nis gwnaf hyny yn hwy.' Ac efe a ddanfonodd genhadau at y mab i'w ddwyn i'r llys. A'i lysfam a ddywedodd wrtho, 'Da a fyddai iti gael gwraig, a merch sydd i mi deilwng o'r gwr goreu yn y byd.' A'r mab a ddywedodd nad oedd efe mewn oedran gwreica eto. 'Mi a dyngaf dyged i ti,' ebe hi, 'na bydd i ti orwedd wrth ystlys gwraig hyd nes cei Olwen ferch Yspaddaden Pencawr.' A gwrido a wnaeth y mab, ac aeth serch at y forwyn i bob aelod o hono, er nas gwelsai hi erioed. A'i dad a ofynodd iddo, 'Ha! fab, pa ddrwg sydd arnat ti, pa beth a ddarfu i ti?' 'Fy llysfam,' ebe yntau, 'a dyngodd imi na chaf wraig byth hyd oni chaf Olwen ferch Yspaddeden Pencawr.' 'Hawdd iti gael hyny,' ebe'i dad, 'Arthur sydd gefnder i ti. Dos at Arthur, i gael tori dy wallt,' a gofyn gyfarwyddyd ganddo.'

A'r mab a gychwynodd ar farch, penllwyd, gaffgyfyng, carngragen, pedwar gauaf oed. A ffrwyn o aur dolenog oedd ganddo yn mhen y march, a chyfrwy o aur gwerthfawr arno. Yn ei law yr oedd dwy waewffon arian

¹ *Corddlan*.—Yr hen air Cymraeg am fywent. Dicheon mai llygriad ydyw o *corphlan*.

² *Doged*.—Rhestrir yr anffodus Doged gyda'r Saint Cymreig, a dywedir mai efe a sefydlodd Llanddoged, yn Nyffryn Conwy. Mab ydoedd i Cedig ab Ceredig, ac oddiwrth yr olaf y gelwid air Aberteifi gynt yn Ceredigion. Blodeuau yn y 6od ganrif.

³ *Tori dy Wallt*.—Arwydd o berthynas a chyfeillgarwch.

miniog a thryloewon. Yn y llaw arall, gleif¹ wedi ei flaenllymu â dur, digon o faich i ddy—digon miniog i dynu gwaed o'r gwynt, ac mor chwim ei ddisgyniad a'r gwlithyn cyntaf a syrthiai oddiar y glaswelltyn pan fyddai fwyaf y gwlith fis Mehefin. Cleddyf eurddwrn oedd ar ei glun, a llafn aur iddo, a llun croes oedd ar y llafn wedi ei gwneud o liwiau'r fellten. Ei udgorn oedd o ifori. A dau filgi brychion, bronwynion, a chwareuent o'i amgylch, a thorch o ruddem (*ruby*) yn cyrhaedd o'r glust i'r ysgwydd am wddf pob un. Yr hwn a fyddai ar yr ochr aswy a neidiai i'r ochr ddeheu, a'r hwn fyddai ar yr ochr ddeheu i'r ochr aswy; ac yr oeddynt fel môr wenoliaid yn chwareu o'i ddeutu. Pedair tywarchen a dorai pedwar cam ei farch, gan eu lluchio fel gwenoliaid i'r awyr—weithiau uchod ac weithiau isod. Llen o borphor pedair ongl oedd am dano, ac afal aur wrth bob congl iddi. Gwerth tri chan' mu² o aur gwerthfawr oedd ar ei esgidiau a'i wrthafleu o ben ei glun i flaen ei droed. Ac ni chrymai blaen y gwelltyn dano gan ysgafned ydoedd tith ei farch wrth ddynesu at borth Llys Arthur.

Yno y dywed y llanc, 'A oes borthor?' 'Oes; a thithau oni thaw dy ben, byr fydd dy gyfarchiad. Myfi ydyw porthor Arthur bob Dydd Calan Ionawr, a'r porthorion y gweddill o'r flwyddyn ydynt Huandaw, a Gogiewc, a Llaescenyn, a Phenpingyon yr hwn a gerdda ar ei ben er mwyn arbed ei draed, nid tua'r nef ac nid tua'r ddaear, ond fel maen yn treiglo ar lawr llys.' 'Agor y porth.' 'Nac agoraf.' 'Paham nad agori?' 'Y mae'r gyllell yn y bwyd, a'r ddiodyd yn y corn, ac ni sanga neb neuadd Arthur yn awr ond mab brenin gwlad waraidd, neu gerddor yn dwyn ei gerdd, ac ni adewir ond y cyfryw i fyned i mewn; ond ti a gei fwyd i'th gŵn ac i'th feirch, a golwythion pebraidd' (*peppered*) i tithau, a gwin hidlaidd a dyddan gerddau. Bwyd dengwr a deugain a ddygir atat i'r ysbytty; yuo y bwyty dyeithriaid a meibion gwledydd eraill nad ydynt yn perthyn i gylch Llys Arthur. Ac ni bydd gwaeth dy le yno na chydag Arthur yn y Llys. Gwraig a gyweiria dy wely ac a'th sua i gysgu hefo dyddan gerddau; a chanol dydd y foru, pan agorer y porth i'r nifer a ddaeth yma heddyw, agorir ef i ti yn nghyntaf, a chaniateir i ti eistedd yn y lle y myni yn neuadd Arthur, o'r naill ben i'r llall ohoni.' 'Ni wnaf i ddim o hyny,' ebe Cilhwhch, 'os agori i mi, da; os nad agori, mi a ddygaf anghlod i'th arglwydd a drygair i tithau. Ac mi a ddodaf dair gwaedd wrth y porth hwn na bu erioed

¹ Gleif.—Math o gleddyf cam.

² Can' mu.—Bu ydyw gwreiddyn y lluaws geiriau sydd yn dal cysylltiad â gwartheg; megys buwel, bustach, bual—ych gwyllt, buarth—garth y bu, buches, buchio—brefu, budy, buddai—llestr corddi, Buallt—gallt y bu, bugail, bugunad—brefiad, burwg a buddal—amdorch, &c., &c. Felly, er fod y gair ei hun wedi marw, y mae iddo deulu lluosog yn fyw. Yr un ystyr sydd i'r gair yn yr holl ganghenieithoedd Celtaidd, ac yn y Sanscrit, a rhai o brif ieithoedd eraill y byd. 'Canys a gwartheg y telid pob tal gynt.'—*Cyfreithiau Hywel Dda*.

rai mor angeuol o ben Pengwaedd¹ yn Nghernyw hyd i waelod Dinsol yn y Gogledd ac Esgair Oerfel yn Iwerddon. A phob gwraig feichiog yn y Llys hwn a gyll ei beichiogiad; a'r sawl ohonynt nad ydynt feichiog, eu calonau a droir yn heintus arnynt fel na byddont feichiog byth o heddyw allan.' Ebe Glewlwyd Gafaelfawr, 'Er maint dy rwgnach yn erbyn cyfreithiau Llys Arthur, ni ollyngir di i mewn nes y dywedwyf i Arthur yn nghyntaf.'

Yna y daeth Glewlwyd i'r neuadd, ac y dywedodd Arthur wrtho, 'A oes rhyw newydd o'r porth?' Yntau a atebodd, 'Deuparth fy oes i a dy oes dithau a aeth heibio. Mi a fum gynt yn Nghaer Se ac Asse, Sach a Salach, yn Lotor a Ffotor; mi a fum gynt yn yr India fawr a'r India Fechan. Yr oeddwn i yn mrwydr Dau Ynyr, pan ddygwyd y deuddeg gwystl o Lychlyn. Mi a fum hefyd yn Ewrob, ac yn Affric, ac yn Ynys Corsica, ac yn Nghaer Brythwech, a Brythach, a Ferthach. A phan leddaist ti Clis ab Merin, yr oeddwn i yno, a phan leddaist y Mil Du ab Ducum, a phan oresgynaist Wlad Groeg yn y Dwyrain. Ac mi a fum gynt yn Nghaer Oeth ac Anoeth, ac yn Nghaer Nef-enhyr, naw brenhin noddawl, dynion heirdd a welsom yno, eithr ni welais i erioed ddyn mor urddawl a'r hwn sydd wrth ddrws y porth yr awrhon.' Yna y dywed Arthur, 'Os tan gerdded y daethost, dos yn ol tan redeg. A'r sawl a welant oleuni, ac a agorant ac a geuant eu llygaid, dangosant barch iddo, a gwasanaethant arno—rhai o yfgyrn goreuraidd, eraill hefo golwythion (*collops*) poeth a phypuraidd, hyd nes byddo'r bwyd a'r ddiod yn barod iddo. Anwedus o beth gadael y cyfryw ddyn ag a ddywedi di yn y gwynt a'r gwlaw.' 'Myn llaw fy nghyfaill,' ebe Cai, 'pe gwnelit fy nghynghor i, ni thorit gyfreithiau y Llys hwn er ei fwyn.' 'Na, yn wir, Cai, anrhydedd i ni ydyw i'r cyfryw ddynion gyrchu atom; a pho mwyaf o barch a roddwn iddynt, mwy fydd ein parch ninau a'n clod a'n anrhydedd.'

A Glewlwyd a ddaeth yn ol at y porth, ac a'i hagarodd ar frys. A thra y disgynai pawb ar yr esgynfaen wrth y porth, Cilhwech a aeth i mewn ar ei farch, ac a ddywedodd wrth Arthur, 'Henffych well, Penteyrn yr Ynys hon, a henffych i'r isaf fel yr uchaf—boed cystal i'th westeion, a'th ryfelwyr, a'th gadfridogion, na foed waeth gyfarchiad i'r un ohonynt nag i ti. A boed gyflawn dy ras dithau, a'th glod, a'th ogoniant, trwy yr holl Ynys hon.' 'Henffych well i tithau,' ebe Arthur, 'eistedd rhwng dau o'm milwyr, a thi a gai ddyddan gerddau ger dy fron, a braint brenin, pa hyd bynag y byddyeh yma. A phan ranwyf fy na i westeion a dyeithriaid, i ti y rhanaf yn nghyntaf.' Ebe y mab,

¹ *Pengwaedd*—Land's End, pen deheuol yr Ynys. Dywedir yn y *Triodd* ei fod naw ca'n milldir o Penrhyn Blathaon (*Caithness*, fel y tybir), yn Ngogledd Ysgotland.

'Ni ddaethum i yma i fwyta ac yfed. eithr o caf i yr hyn a geisiaf, ei ad-dalu a wnaf, a'th foli dithau; oni chaf, dwyn dy anghlod a wnaf i'r lle pellaf yn y byd y bu dy glod ynddo.' Yna ebe Arthur, 'Gan nad arosi di yma, unben, ti a gei y gymwynas bynag a nodo dy ben a'th dafod, hyd y sych gwynt, hyd y gwlych gwlaw. hyd y treigl haul, hyd amgyffred môr, ac y cyrhaedd y ddaear—oddieithr fy llong, a'm mantell, a Chaledfwlch fy nghleddyf, a Rhongomyant fy ngwaewffon, ac Wyneb-gwrthucher fy nharian, a Charnwenan fy nghyllell, a Gwenhwyfar fy ngwraig. Gwir Duw ar hyny, enwa yr hyn a fyndi, a thi a'i cei yn llawen.' Ebe y llanc, 'Mi a fynaf i ti ddiwyn¹ fy ngwallt.' 'Mi a wnaf hyny,' ebe Arthur.

Ac Arthur a gymerodd grib aur, a gwellaif a dolen arian iddo, a chribo ei ben a wnaeth, a gofyn i'r mab pwy ydoedd. 'Mae fy nghalon i yn tirioni wrthyt,' eb efe, 'mi a wn dy fod yn hannu o'm gwaed; dywed imi pwy ydwyf.' 'Dywedaf,' ebe'r llanc, 'Cilhwch ab Cilydd ab Celyddon Wledig, o Oleuddydd ferch Anlawdd Wledig, fy mam.' 'Gwir yw hyny,' ebe Arthur, 'cefnder wyt ti i mi. Gofyn y gymwynas a fyndi, a thi a gei yr hyn a nodo dy ben a'th dafod.' 'Gwiria hyny imi, yn enw Duw a'th deyrnas.' 'Gwnaf yn llawen,' ebe Arthur. 'Gofynaf iti gael imi Olwen,² merch Yspadaden Pencawr, yn wraig; ac yr wyf yn gofyn hyn hefyd gan dy filwyr.'

Ac efe a ofynodd y gymwynas gan Cai, a Bedwyr, a Greidiawl Galldonwyd,³ a Gwythyr⁴ ab Greidiawl, a Greid mab Eri, Chynddelig Gyfarwydd, a Thathal Twyll Goleu, a Maelwys ab Baeddan, a Chrychwr ab Nes, a Chubert ab Dacre, a Phercos ab Poch, a Lluber Beuthach, a Chorfil Berfach, a Gwyn ab

¹ *Diwyn fy ngwallt.*—Yr oedd tori gwallt boneddwr ieuanc am y tro cyntaf yn cael ei gyflawni gan y penteulu, neu batriarch y llwyth, yr hwn ar y pryd a roddai iddo anrheg werthfawr, neu a ganiatai rhyw ddymuniaid pwysig.

² *Olwen.*—Gan mai alegori ydyw'r Fabinogi hon, afreidiol fyddai disgwyl dim o hanes na thras y prif gymeriadau. Ni ddywedir dim am Olwen na'i thad Yspadaden Pencawr mewn hanesyddiaeth Gymreig, nac hyd yn nod yn yr hen goelion traddodiadol. Ond cyfeiria beirdd y Canol Oesau yn fyrych at ei phrydferthwch. Dafydd ab Gwilym yn un man a eilw ei gariadferch yn "nith Olwen," ac mewn lle arall dywed,

'F'anwylyd drwy wynfyd draw
Fain Olwen, rhwng fy nwyllaw.'

Y mae Sion Brwynog hefyd yn galw un o'i gariadon yntau yn 'Olwen gulael lân galon.'

³ *Greidiawl Galldonwyd.*—Cyfeirir ato yn Tri 32, gydag Enfael a Thyrstan, tan y penawd Tri Gal (ofydd (*architects*) Ynys Prydain; 'a braint iddynt nis gellid a elai yn eu herbyn lle bynag y mynynt yn Ynys Prydain, hyd nas elynt yn ammrawd.'

⁴ *Gwythyr.*—Yr oedd efe yn dad i Wenhwyfar, gwraig Arthur. Dywedir yn y Fabinogi hon yn mhellach yn mlaen ei fod yn ymladd bob nos Calanmai hyd ddydd brawd heso Gwyn ab Nudd am law Creiddylad, neu Cordelia deg. Dywedir yn 'Englynion y Beddau' ei fod wedi ei gladdu yn yr un bedd a March ab Meirchion.

Nudd,¹ ac Edeyrn ab Nudd, Gadwy² ab Geraint, a Fflewddwr Fflam³ Wledig, a Rhuawn Pebyr⁴ ab Dorath, a Bradwen ab Moren Mynawg, a Moren Mynawg ei hun, a Dalldaf mab Cimim Cof a mab Alun Dyfed, a mab Saidi, a mab Gwryon, ac Uchdrud Ardywad Cad, a Chynwas Eurfagl, a Gwrhir Gwarthegfras, ac Isperyr⁵ Ewin Cath, a Gallcoyt Gofyniad; a Duach, a Grathach, a Nerthach, meibion Gwawrddur Cyrfach (o derfynau Uffern yr hanodd y gwyr hyn), a Chilydd Canhastyr, a Chanhastyr Canllaw, a Chors Cant Ewin, ac Esgeir Gulhwch Gofyncawn, a Drustwrn Haiarn, a Glewlwyd Gafaelfawr, a Lloch Llawyniawg, ac Anwas Adeiniawg, a Sinnoch ab Seithfed, a Gwenwynwyn ab Naw, a Bedyw ab Seithfed, a Gobrwy ab Echel Forddwydtwll, ac Echel Forddwydtwll ei hun, a Mael ab Rhoicol, a Datweir Dallpen,⁶ a Garwyli mab Gwythawg

¹ *Gwyn ab Nudd*.—Rhestrir ef yn Tri 89, gydag Idris Gawr a Gwydion ab Don, tan y penawd Tri Gwyn Serenyddion Ynys Prydain; 'a chan faint eu gwybodeu am y ser a'u hanianneu a'u hansoddeu y darogenynt a chwenychid ei wybod hyd yn nydd brawd.' Yn y *Myv. Arch.*, y mae cathl rhyngddo a Gwyddno Garanhir, lle y gosdir ef allan fel milwr buddugoliaethus; ac y mae yntau ei hun yn arddelwi ei serch at Creiddylad ferch Lludd, ac yn crybwyll enw ei farch Carngrwn. Yn ol coel a llafar gwlad, nid oes dadl nad efe oedd brenin y Tylwyth Teg; ac fel y cyfryw y sonir am dano gan Dafydd ab Gwilym mewn amryw fanau. Yn ei ymrysonfa farddol a Gryllydd Grug, ymdyngleda y bardd i Wyn ab Nudd. Mewn lle arall, dywed am y pwll mawn, 'Pysgodlyn i Wyn yw ef, Ab Nuad, a bu'n ei oddef.' Mewn man arall dywed am y Ddallhuan, 'Edn Gwyn ab Nudd ydyw.' Y mae chwedl ddoniol am dano fel Brenin y Tylwyth Teg wedi ei hargraffu yn *Greal* Llundain, lle y mae dwfr graslawu Collen Sant yn offerynol i ddyddimu ad-eiladaeth orwech a gynyrchodd swyngyfaredd Gwyn ab Nudd. Gweler grybwylliad am ei frawd, Edeyrn, t.d. 81.

² *Gadwy*.—'Tri dyn goreu wrth osp a phellenigion: Gwalchmai fab Gwyar, Gadwy fab Gereint, a Chadyrieith Seidi.'—Tri xc.

³ *Fflewddwr Fflam*.—Yn Tri 114, gelwir ef yn un o dri Unben Llys Arthur. 'Sef oeddent yn dywysogion yn berchenogion gwlad a chyfoeth, a gwell oedd ganddynt no hynny aros yn Farchogion yn Llys Arthur, gan y bernid hynny yn beunaf ar bob anrhydedd a bonheddigeiddrwydd, a ellid wrth a gair y Tri Chyfiawn Farchawg.'

⁴ *Rhuawn Pebyr*.—Telir teyrnged uchel i'w wroldeb yn Mrwydr Cattrath, gan Aneuryn. Yn Tri 25, gelwir ef yn un o 'Dri Gwyndeyrn Ynys Prydain;' ac yn Tri 77, yn un o 'Dri Eurgelain Ynys Prydain,—sef achaws yu gelwyd felly am ddodi eu pwys yn aur am danynt o ddwyllaw au lladdes.' Yn yr olaf, dywedir mai mab ydoedd i Gwyddno Garanhir.

⁵ *Isperyr Ewin Cath*.—Yn Englynion y Clywed, dywedir,

A gylwastl a gant Esperir
Ymddyddan a Meni hir
Car cywir yn ing y gwelir.'

⁶ *Dadweir Dallpen*.—Yn Tri 101, ceir hanes hynod, llawn o syniadau Derwyddol a chyfrinol, am Hwch Dadweir, yr hon a gedwid gan Coll ab Collfrewi, un o dri gwrddfeichiad Ynys Prydain. 'Ail: Coll ab Collfrewi a getwis Hwch Dallwaran Dalpen, a ddaeth yn ngorddodwy hyd ym Mhenrhyn Penwedic yng Ngherniw; a Choll mab Collfrewi ai law yn y gwrych ffordd bynac ydd elei ai ar for ai ar dir; ac ym maes Gwenith yng Ngwent y dodwes dri Gwenithyn a thair gwenhynen; ac er hyny y mae goreu Gwenith a Mel yn Ngwent; ac o Went y cerdda hyd yn Nyfed, ac y dodwes ar Heiddyn a Phorchellan; ac er hyny y goreu haidd a Moch yn Nyfed; ac yn Llonuo Llonnwen y dodwes y rhain. Gwedi hyny y cerddwys hyd yn Arfon, ac yn Llyn y dodwes ar y gronyn Rhyg; ac er hyny goreu Rhyg yn Lleyu ac Eifionydd; ac ar ystlys Rhiwgferthwch y dodwes ar Genau'r Blaidd a Chyw'r Eryr; a rhoddi'r Eryr a wnaeth efe i Frynach Wyddel o Ddinas Affaraon, a'r Blaidd y rhoddes efe i Fenwaed arglwydd Arllechwedd; a llawer o son y sydd am Flaidd Brynach ac Eryr Menwaed; ac oddiyna myned hyd y Maen Du yn Arfon, lle y dodwes ar genau Cath; a Choll mab Collfrewi ai tefis ym Menai, a honno oedd y Gath Balwg a fu'n Ormes Ynys Mon wedi hyny.'

Gwyr, a Gwythawg Gwyr ei hun, a Gormant ab Ricca, a Menw ab Teirgwaedd,¹ a Digon ab Alar, a Selyf ab Smoit, a Gusg ab Athen, a Nerth ab Cedarn, a Drutwas ab Tryffin,² a Thwrch ab Peryf, a Thwrch ab Anwas, a Iona brenin Ffrainc, a Sel ab Selgi. a Theregud ab Iaen, a Sulien ab Iaen, a Bradwen ab Iaen, a Moren ab Iaen, a Siawn ab Iaen, a Chradawg ab Iaen (gwyr o Gaer Dathal oeddynt hwy, a pherthynasau i Arthur o du ei dad), Dirmyg ab Caw, a Justic ab Caw, ac Edmyg ab Caw, ac Angawdd ab Caw, ac Ofan ab Caw, a Chelin ab Caw, a Chonyn ab Caw, a Mabsant ab Caw, a Gwyngad ab Caw, a Llwybr ab Caw, a Choth ab Caw, a Mœilic ab Caw, a Chynwas ab Caw, ac Ardwyad ab Caw, ac Ergryad ab Caw, a Neb ab Caw, a Gilda ab Caw, a Calcas ab Caw, a Huail³ ab Caw (ni ofynodd ef erioed ddim oddiar law arglwydd). A Samson Finsych, a Thaliesin Penbeirdd, a Manawyddan ab Llyr, a Llary ab Casnar Wledig, ac Ysperni ab Fflergant brenin Llydaw, Saranhon ab Glythwyr, a Llawr

¹ *Menw ab Teirgwaedd* neu *Menw Hen*.—Dywed Taliesin ab Iolo, yn ei draithawd ar Goelbren y Beirdd, mai Menw a ddarganfyddodd y wyddon hono. Ymae cyfelyb gymeriad iddo yn chwedloniaeth yr Hindwaid o'r enw Menu. Diau mai dyn dysgedig iawn ydoedd, a'r wlad o'r herwydd yn credu ei fod yn deall holl gyfrinon hud a lledrith. Yn y cymeriad hwnw y sonia'r Trioedd am dano. Cysylltir ef gyda Math ab Mathonwy a Rhuddlwm Gawr tan y penawd 'tri wyr Hud a Lledrith,' 'ac efe a ddysges ei hud i Uthr Bendragon,' tad Arthur. Mewn Tri arall, cysylltir ef â Coll a Collfrewi a Drych eil Cibddar fel y 'lledrithawg.'

² *Drudwas*.—Drudwas ab Tryffin, yn ol y *Trioedd*, un o dri 'Marchogion aurdafodogion llys Arthur, a doethaf o bob doethion o'u hamser oeddynt, ac mor deg a llaryeidd eu hymddwyn, ac mor hyawdl a hynaws eu holl ymadroddion, fel nas gallai neb ball arnynt ar a geisiant.' Mewn Llythyr o eiddo yr hynafiaethydd enwog Vaughan o Hengwrt, a argraffwyd yn y *Cambrian Register* iii. 311, ceir y traddodiad canlynol am ddau aderyn a berthynent i Drudwas:—'Yr adar hyn oeddynt ddau griffin, a ddysgasai Drudwas i ymosod ar y dyn cyntaf a ddeuai i faes neillduol a'i ladd; a digwyddodd iddo nodi y maes hwnw i ymladd gornest â'r brenin Arthur. Drudwas a arosodd yn hir heb ddyfod i'r maes, gan ddisgwyl y cyrhaeddasai ei wrthwynebydd yno o'i faen, ac y syrthiasai dan ddialedd yr adar ysglyfaethus; ond siomwyd ef; a'r ddau aderyn a ymosodasant arno ef ei hun, ac a'i lladdasant yn gelain. Pan welsant mai eu meist'r a syrthiasai i'r trychineb, codasant ysgrechadau dolefus ar ei ol am hir amser. Y mae chwareueg cyhoeddus mewn arferiad, yr hwn y gwelais ei weithredu yn fynych, a wnaed y pryd hwnw, ac a elwid 'Caniad Adar y Lluch Gwin;' ac y mae englyn Cymraeg ar gael yn rhywle yn gwirio y traddodiad hwn.

³ *Huail ab Caw*.—Yn t.d. 82, rhoddasom ychydig o hanes Caw a'i fab Gildas. Yr oedd i Caw luaws o feibion, bron oll yn wyr clodfawr. Dichon mai y mwyaf afnodus ohonynt oedd yr Huail hwn. Rhydd Jones, yn ei *Relicks of the Welsh Bards*, y traddodiad canlynol am dano:—Digwyddodd i Huail wisgerchu âg un o gariadon Arthur. Aeth y brenin yn ddrwglybus ac eiddig ohono, a chan wisgo ei arfau, gwyliodd ef yn myned i dy y rhian, a bu cweryl ac ymladd rhyngddynt. Ond Huail a fu drechaf y tro hwn, gan archolli Arthur yn drwm yn ei forddwyd; yna ynbeddychwyd ar y telerau nad oedd Huail byth i son am y peth dan boen o golli ei ben. Ac Arthur a ddychwelodd i'w balas gerllaw Caerwys, i ymwella o'r archoll; ond er gwella, bu yn ddisgloff o hyn allan. Yn fuan wedi hyny syrthiodd Arthur mewn cariad â boneddiges yn Rhuthyn, ac er mwynhau ei chwmmi yn fynychach, ymddyethriai yn ngwisg menyw. Ac un diwrnod, yr oedd yn dawnsio gyda'r rhian hon a'i chyfeillesau, a phwy a ddigwyddodd ei weled ond Huail, yr hwn a'i hadnabu oherwydd ei gloffi. Eb efe, 'Da yw y dawns, onibai y forddwyd.' Arthur a glybu y sylw, ac a alwodd Huail ato o'r neilldu gan ei geryddu yn dost am ei dor-adduned a'i anudoniaeth, a pheri ei ddiennyddio. A'r lle y torwyd ei ben ydoedd yn Mhen y Dref ar faen mawr a ddangosir hyd yr awrhon ac a elwir Maen Huail. Gelwir ef a Thyrstan a Chai yn y *Trioedd* yn 'dri Thaleithawg Cad;' ac yn *Englynion* y *Clywed* priodolir iddo y dywediad, 'Mynych y syrth melf o gesail.'

Eilerw, ac Anianawc ab Menw ab Teirgwaedd, a Gwyn ab Nwyfre, a Fflam ab Nwyfre, a Geraint ab Erbin, ac Ermid ab Erbin, a Dyfel ab Erbin, a Gwyn ab Ermid, a Chyndrwyn ab Ermid, a Hyfeidd Unllenn, ac Eiddon Mawrfrydig, a Rheidwn Arwy, a Gormant ab Ricca (brawd i Arthur o du ei fam, a Hynef Cernyw oedd ei dad), a Llawnrodded Farfawg,¹ a Nodawl Farf Trwch, a Berth ab Cado, a Rheidwn ab Beli, ac Iscofan Hael, ac Iscawin ab Panon, a Morfran ab Tegid² (ni roddes undyn ei arf ynddo ef yn Nghad Camlan gan ei fod mor hyll; pawb a dybygent mai cythraul cynorthwyol ydoedd; blew oedd arno fel blew carw); a Sandde Bryd Angel (ni ddodes neb ei waewffon ynddo ef yn Nghad Gamlan gan mor hardd ydoedd, pawb a dybient mai angel cynorthwyol ydoedd); a Chynwyl Sant (y trydydd gwr a ddiangodd o Gad Gamlan; efe oedd y diweddaf i ymadael âg Arthur ar Hengroen ei farch). Ac Uchtryd Eus, Henwas Adeiniog, Henbedestyr, a Sgilti Ysgawndroed, meibion Erim (ac i dri ohonynt yr oedd y tair cyneddf hyn:—Nis gallodd dyn erioed gydredeg hefo Henbedestyr, nac ar draed nac ar farch; nis gallodd mil pedwar troed erioed ganlyn Henwas Adeiniawg hyd un erw, chwaithach yn mhellach na hyny; a Sgilti Ysgawndroed, pan fyddai hwyl cerdded arno, wrth fyned ar neges i'w arglwydd, ni cheisiodd ffordd erioed am y gwyddai pa le yr elai; eithr tra byddai mewn coedwig, ar frigau y coed y cerddai, ac ar hyd ei oes ni phlygodd gwelltyn tano chwaithach tori, gan mor ysgafn ydoedd. Teithi Hen ab Gwynhan (y môr a orchuddiodd ei gyfoeth ef, ac o'r braidd y diangodd yntau, ac efe a ddaeth at Arthur; ac yr oedd hynodrwydd ar ei gyllell er pan y daeth yma—nid arosai carn byth wrth ei llafn, ac oherwydd hyny tyfodd haint ynddo a nychdod tra y bu byw, ac o hyny y bu farw). A Charnedyr ab Gofynion Hen, a Gwenwynwyn ab Naf Gysefin (pen campwr Arthur), a Llysgadrud Emys, a Gwrbothu Hen (ewythrod oeddynt i Arthur frodyr ei fam). Culfanawyd

¹ *Llawnrodded Farfawg*.—Rhestrir ef yn y *Trioedd*, gyda Bennren Fwelydd a Gwydion ab Don fel 'tri Buelydd (*herdsmen*) Gosgordd Ynys Prydain.' 'Trydydd, Llawfrodedd Farfawc a faelis wartheg Nudd Hael fab Senyllt, ac yn y Fael hono ugain mil ac un yn Wartheg Blithion.' Gelwid ei fuchef ef ei hun—un o dair prif fuchod yr Ynys—Cornillo. Yr oedd ei Gyllell, yr hon a wasanaethai i bedwar gwr ar hugain ar unwaith, yn un o Dri Thlws ar Ddeg Ynys Prydain.

² *Morfran ab Tegid*.—Yn yr 'Hanes Taliesin,' a welir yn y gwaith hwn, dywedir mai mab i Tegid Foel a Cheridwen oedd Morfran, ac ar ei haerwch ef y sylfaenir y chwedl hono. Yn ol Tri 83, yr oedd Morfran yn un o'r tri a ddiangasant a'n bywyd ganddynt o Gad Gamlan:—'Morfran ab Tegid rhag ei hacered, sef y tybiei bawb mai cythraul o Ufarn ydoedd, ac a ffoynt rhagldaw; Sandde Bryd Angel gan ei hardded, a'i laned a'i decced, ni chodai neb law yn ei erbyn, gan dybied mai angel o'r nef ydoedd; a Glewlwyd Gafaelfawr rhag ei faint a'i gryfder, nid oedd a safai o'i flaen, a phawb a ffoynt rhagddaw: sef namyn y Triwyr hynny ni ddiengis neb o'r Gad Gamlan.' Gwelir fod y *Trioedd* yn doddi Glewlwyd yn lle Cynwyl Sant.

ab Goryon, a Llenlleawg Wyddel¹ o flaen tir Ganion, a Dyfnwal Moel,² a Dunart brenin y Gogledd, Teirnon³ Twryf Bliant, a Thegfan Gloff, a Thegyr Talgellawg, Gwrđinal ab Ebrei, a Morgant Hael, Gwystl ab Rhun ab Nwython, a Llwydneu ab Nwython, a Gwydre ab Llwydneu (Gwenabwy oedd merch ei fam; Huail, ei ewythr, a'i gwanodd, a bu gasineb rhwng Huail ac Arthur am yr archoll). Drem ab Dremhidydd⁴ (gallai ef weled o'r Gelli Wig,⁵ yn Nghernyw, wybedyn yn codi yn y bore gyda'r haul yn Mhen Blathaon, Gogledd Prydain). Ac Eidiol ab Ner, a Glwydyn Saer (efe a wnaeth Ehangwen, neuadd Arthur). Cynyr Ceinfarfawg, pan ddywedwyd fod mab wedi ei eni iddo, efe a ddywedodd wrth ei wraig, 'Os yw dy blentyn di, forwyn, yn fab i mi, oer fydd ei galon bob amser, ac ni bydd gwres yn ei ddwy law; a hynodrwydd arall a fydd arno, os mab imi ydyw, cyndyn a fydd; a hynodrwydd arall a fydd iddo, pan yn dwyn baich mawr neu fychan, ni welir ef nac o'i ol nac o'i flaen; a hynodrwydd arall a fydd iddo, ni bydd neb a all wrthsefyll tân neu ddwfr cystal ag ef; a hynodrwydd arall a fydd arno, ni bydd gwasanaethwr neu swyddog cyffelyb i'w bobol). Henwas a Henwyneb (hen gydymdeithion i Arthur). Gwallgoye (un arall: os denai ef i dref ac eisiau dim arno, er y byddai tri chant o dai ynnddi, ni adawai i gwsg ddyfod ar lygad neb tra fyddai ef yn y dref). Berwyn ab Gerenhir, a Paris brenin Ffrainc, ac Osla Gyllellfawr (yr hwn a gludai ddagr fer, lydan; pan ddalai Arthur a'i luoedd o flaen llifddwr, hwy a geisient le cul ar y dwfr, yna dodid y gyllell yn ei gwain ar draws y llifddwr, a byddai hyny yn ddigon o bont i lu tair Ynys Prydain, a'i thair Rhagynys,⁶ a'u hanrhaith, fyned trosti). Gwydawg ab Menestyr (yr hwn a laddodd Cai, ac Arthur a'i lladdodd yntau a'i frodyr er dial Cai). Garanwyn ab Cai, ac Amren ab Bedwyr, ac Ely Emyr, a Rheu Rhwyd Dyrus, a Rhun Rhudwern; ac Eli, a Thrachmyr (prif helwyr Arthur). A Llwydneu ab Celcoed, a Hunabwy ab Gwryon, a Gwyn Goed y Fron, a Gweir

¹ *Lenlleawg Wyddel*.—Priodolir iddo ef yn *Englynion y Clywed y dywediad*, 'Gwell hedd na buchedd augenog.'

² *Dyfnwal Moelmaud*.—Hen ddeddfrodwr enwog y Cymry. Gweler erthygl fanwl arno yn *Enwogion Cymru*, o waith y diweddar Cynddelw.

³ *Teirnon*.—Chweryr yr arwr hwn ran bwysig yn Mabinogi 'Pwyll Pendefig Dyfed,' a welir yn mhellach yn mlaen.

⁴ *Drem ab Dremhidydd*.—Crybwyllir am y gwr llygadgraff hwn yn Mabinogi Geraint ab ab Erbin, a phriodolir dywediad iddo yn *Englynion y Clywed*, 'Gwell nâg nag addaw ni wneir.'

⁵ *Gelliwig*.—Safai un o dri prif Balas Arthur yn Gelliwig, yn Nghernyw (*Cornwall*); a Bedwini oedd yr archesgob yno, a Caradawg Freichfras y prif gynghorwr. Tybir mai Callington (Kellington neu Killiwick) ydyw enw presenol y fan.

⁶ *Tair Rhagynys Gysefin Ynys Prydain*: Orc [Orkney], Manaw [Isle of Wight]; ac wedi hynny y torres y môr y tir ond aeth Môn yn Ynys; ac yn unwedd ynys Iorc a dorred onid aeth yno liaws o ynysoedd, a myned yn ynysoedd a wnaeth manau eraill o'r Alban a Thir Cymru.—*Tri 67*.

Datharwenniddawg, a Gweir ab Cadell ab Talariant, a Gweir Gwrhyd Ennwir, a Gweir Baladr Hir (ewythrod i Arthur frodyr i'w fam). Meibion Llŵch Llawyniawg (o'r tu hwnt i'r môr terwyn), Llenlleawg Wyddel, ac Ardderchawg Prydain, Cas ab Saidi, Gwrfan Gwallt Afwyn, a Gwillenhir brenin Ffrainc, a Gwiltart ab Oedd brenin Iwerddon, Garselit Wyddel; Panawr Pen Bagad, a Ffleudor ab Naf, Gwenhwyfar maer Cernyw a Dyfneint (efe oedd y nawfed a oroesodd Gad Gamlan). Celi, a Chueli, a Gelli Coes Hydd (gallai neidio tros dri chan' erw ar un naid; efe oedd prif neidiwr Iwerddon). Sol, a Gwadn Ossol, a Gwadn Oddaith. (Sol a allai sefyll am ddiwrnod ar ei untroed. Gwadn Ossol, pe safai ar ben y mynydd uchaf yn y byd, ef a fyddai yn wastattir tan ei draed. Gwreichionai tân dysglaer o wadnau traed Gwadn Oddaith pan gyffyrddent â rhywbeth caled, fel oddiar haiarn poeth pan yn cael ei guro mewn efail; efe a arlloesai y ffordd o flaen Arthur). Hirerwim a Hirartrwm (pan elent hwy ar ymweliad, tri chantref a arbedid ar eu cyfer; bwyta hyd ganol dydd a wnaent, diota hyd y nos, ac yna cysgu. Yna gan newyn penau pryfaid a fwytaent, fel pe na chawsent fwyd erioed cyn hyny. Pan elent hwy ar ymweliad, ni adawent na thew na theneu, na thwym nac oer, na sur na chroew, nac ir na hallt, berwedig na diferw). Huarwar ab Aflawn (yr hwn a ofynodd am ei wala gan Arthur; ac oherwydd iddo gael y gwala hwnw y bu y trydydd newyn yn Nghernyw; ni cheid gwên ar ei wyneb ond wedi iddo ymddigoni). Gware Gwallt Euryn.² Dau genaw gast Rhymi, Gwydrudd, a Gwydneu Astrus. Sugn ab Sugnedydd (sugnai ef y môr ðigon o faint i nofio tri chan' llong hyd nas byddai ond traeth sych. Bron lydan oedd ganddo). Rhacamwri gwas Arthur (dangosid unrhyw ysgubor iddo, pe byddai cynyrch deg aradr ar hugain ynddi, efe a'i tarawai o'i eistedd â ffust haiarn hyd na byddai frasach yr ystyllod a'r trawstiau a'r tylathau na'r mân geirch yn ngwaelod yr ysgubor). Dygyflwng, ac Annoeth Feiddawg. Hir Eiddyl, a Hir Amreu (dau was i Arthur.) A Gweff ab Gwestad (y dydd y byddai ef drist, gollyngai ei weff isaf i lawr hyd ei fogail, a'r llall fyddai yn benguwch am ei ben). Uchtryd Farf Draws (a fwriai y farf goch, ddidrefu, oedd ganddo tros yr wyth trawst a deugain oedd yn Neuadd Arthur). Elidyr Gyfarwydd, Yscyrdaf, ac Yscudydd (dau was i Gwenhwyfar oeddynt. Cyn gyflymed a'u meddyliau oedd eu traed pan yn myned i neges). Brys ab Brysethach o Dalrhedynawg Du yn Ngogledd Prydain. A Grudlwyn Gorr. Bwlch, a Cyfwlch, a Sefwlch, meibion Cleddyf Cyfwlch, ac wyrion

¹ *Garselit Wyddel.*—Yn Englynion y Clywed, priodolir iddo ef y dyweddiad, 'Drwg pechod o'i hir erlit,' neu ymlid.

² *Gware Gwallt Euryn.*—Mab Pwyll Pen Dyfed a Rhiannon. Gweler Mabinogi Pwyll.

Cleddyf Difwlch, gorwynion o wyn eu tair tarian, blaenllymion a gwânawl eu tair gwaywffon, rhwygwyr archollion eu tri chleddyf. Glas, Glessig, a Gleisad; eu tri ci, Call, Cuall, a Cafall; eu tri march, Hwyrdyddwd, a Drwgdyddwd, a Llwyrdyddwg; eu tair gwraig, Och, a Garym, a Diaspad; eu tri wyrion, Lluched, a Nefed, ac Eissiwed; eu tair merch, Drwg, a Gwaeth, a Gwaethaf Oll; eu tair morwyn, Eheubryd merch Cyfwlch, Gorascwrn merch Nerth, Ewaedan merch Cynfelyn Ceudawd Pwyll¹ (yr haner dyn). Dwnn Diessic Unben, Eiladyr mab Pen Llarcau, Cyfedyr Wyllt mab Hettwn Talaryant, Sawyl Ben Uchel, Gwalchmai ab Gwyar, Gwalhafet ab Gwyar, Gwrhwr Gwastawt Ieithoedd (a wyddai bob iaith), a Cethcwrn Offeiriad. Clust ab Clustfeiniad (pe claddesid ef naw cufydd yn y ddaear, gallai glywed gwybedyn ddeng milldir o ffordd yn codi oddiar ei lwth yn y bore). Medyr ab Methredydd o'r Gelli Wig (gallai, mewn amrantiad saethu y dryw rhwng ei ddwygoes yn Esgair Oerfel yn Iwerddon). Gwiawn Lygad Cath (yr hwn a allai dori pilen oddiar lygad gwybedyn heb iddo ei glywed). Ol mab Olwydd (saith mlynedd cyn ei eni ef, lladratawyd moch ei dad; a phan dyfodd yn ddyn, efe a olrheiniodd y moch, ac a'u dygodd yn ol yn saith cenfaint). Bedwini Esgob² (yr hwn a fendigai fwyd a diod Arthur).

Er mwyn merched aurdorchog (*golden chained*) yr Ynys hon. Er mwyn Gwenhwyfar prif rian; a Gwenhwyach ei chwaer, a Rathtyeu unig ferch Clemenhyll, Rhelemon merch Cai, a Tannwen merch Gweir Datharweniddawg. Gwenn Alarch merch Cynwyl Canbwch. Eurneid merch Clydno Eiddin. Eneuawc merch Bedwyr. Enrydeg merch Tudfathar. Gwenwledyr merch Gwaledyr Cyrfach. Erdudint merch Tryffin. Eurolwen merch Gwdolwyn Gorr. Teleri merch Peul. Indeg³ merch Garwy Hir. Morfudd⁴ merch Urien Rheged. Gwen-

¹ *Cynfelyn Ceudawd Pwyll*.—Y mae 'Damheg Arthur a'r Haner Dyn,' yn hen draddodiad yn mhllith y Cymry. Cyferfydd corach bychan un diwrnod a'r brenhin gan ei herio i ymaflyd codwm ag ef. Gwrthoda Arthur gyda dirmyg, gan feddwl na byddai'n un clod iddo ef dafu gwenhidwy felly. Ond y mae'r Haner Dyn (Arferiad) yn cynyddu; a phan ddaeth yn ddigon cryf fel nas gallai Arthur mwyach ei ddirmygu, cafodd waith caled i'w orchfygu.

² *Bedwini*.—Efe oedd esgob Gelliwig, yn Nghernyw, yn ol tystiolaeth Tri 64. Yn Englynion y Clywed, priodolir iddo y ddiareb, 'Racreitha dy eir kyn noi dodi,' neu 'Rhagfeddwl am dy air cyn ei ddywedyd.'

³ *Indeg*.—'Y deg lân Indeg loywnwyf,' ebe Dafydd ab Gwilym. Yn ol Tri 110, 'tair prif gariadwraig Arthur' oeddynt Garwen, Gwyl, ac 'Indeg ferch Afarwy Hir o Faelliennydd.'

⁴ *Morfudd*.—Un o rianod harddaf ei hoes. Ei mam ydoedd Modron merch Afallach, a gefeill-frawd iddi oedd Owain ab Urien, arwr y Fabinogi Iarlls y Ffynon. Hyhi oedd anwylyd Cynon ab Clydno. Oberwydd mawr enwogrwydd ei thegwch hi, galwodd Dafydd ab Gwilym wrthddrych ei serch—merch i Fadog Lawgam o Fon, yn Forfudd; a chanodd 'Saith cywydd i Forfudd fain, seth, hoywgorph, a saith ugain.'

llian Deg. y forwyn fawrfrydig. Creiddylad¹ merch Lludd Llaw Eiraint. Hi oedd y forwyn fwyaf ei mawredd a fu yn nhair Ynys y Cedyrn a'u tair ragynys; ac am dani hi y mae Gwythyr ab Greidiawl a Gwyn ab Nudd yn ymladd bob dydd Calamai hyd ddydd brawd. Ellylw merch Neol Cyn-crog (yr hon a fu byw am dair oes). Essyllt Finwen² ac Essyllt Fingul. A'r rhai hyn oll a dyngedodd Cilhwch ab Cilydd er cael ei ddymuniad.

Yna Arthur a ddywed, 'Ha! unben, ni chlywais i erioed am y forwyn y soni di am dani, na'i rhieni. Ond mi a ddanfonaf yn llawen genhadau i'w cheisio. Dyro amser imi i'w cheisio.' 'Rhoddaf yn llawen,' ebe'r mab, 'o'r nos heno hyd yn mhen blwyddyn i heno.' Yna Arthur a ddanfonodd genhadon i bob tir yn ei derfynau i chwilio am dani; ac yn mhen y flwyddyn, dychwelasant at Arthur heb gael na chwedl na chyfarwyddyd am Olwen mwy na'r dydd cyntaf. Yna y dywedodd Cilhwch, 'Pawb a gafodd yr hyn a ofynai ond myfi. Ymaith yr âf, a'th annglod a ddygaf gyda mi.' A Chai a atebodd, 'Ha! unben, a warthruddi di Arthur? Tyred gyda ni, ac nid ymadawn â thi hyd oni ddywedi nad ydyw y forwyn hono yn y byd, neu y caffom hi.' A Chai a gyfododd. Ac yr oedd y neillduolrwydd hwn yn perthyn i Cai: Gallai ddal ei anadl am naw nos a naw niwrnod dan ddwfr; a bod am naw nos a naw niwrnod heb gysgu. Nis gallai meddyg wella archoll o gleddyf Cai. Medrus oedd Cai. Pan ewyllysiai hyny, gallai wneud ei hun cyhyd a'r pren uwchaf yn y goedwig. Hynodrwydd arall oedd iddo—yr oedd mor wresog, fel pan fyddai fwyaf y gwlaw, dyrnfedd uwchlaw a dyrnfedd islaw iddo a fyddai yn sych; a phan fyddai fwyaf anwyd ei gydymdeithion, diangenrhaid y gwnai ef iddynt gyneu tân.

Ac Arthur a alwodd ar Bedwyr, yr hwn nid arswydodd erioed fyned gyda Chai ar neges. Nid oedd neb cyn gyflymed ag ef yn yr Ynys, ond Arthur a Drych eil Cibddar.³ Ac er mai un llaw oedd ganddo, ni thywalltai tri o wyr arfôg gymaint o waed ag ef mewn brwydr. Hynodrwydd arall oedd iddo: Un archoll a wnai ei waywffon, a naw gwrtharcholl.

¹ *Creiddylad*.—Merch Lludd neu Llyr. Dyma *Cordelia* Shakespeare. Am dani hi y mae Gwyn ab Nudd a Gwythyr ab Greidiawl yn ymladd bob Nos Galamai hyd Ddydd Brawd, a phwy bynag fydd fuddugol y pryd hwnw a'i caiff byth. Yn Englynion y Clywed, priodolir iddi y dywediad, 'Digaun da diwyd gennad,' neu 'Llawer o dda a ddichon cenad fyddlawn.'

² *Essyllt Finwen* ac *Essyllt Fingul*.—Rhanod nodedig am degwch eu pryd a'u gwedd; a gair cyffredin yr hen feirdd am eu cariadon ydyw, 'ail Essyllt.' Gwraig oedd y gyntaf i Farch ab Meirchion, ond ymddengys i Trystan ab Tallwch, nai ei gwr, ei hudo oddiar lwybr ei llw priodas; ac am hyny gelwir hi yn y Trioedd yn un o 'dair anniweirwraig Ynys Prydain.' Pa fodd bynag, Trystan ar ol hyny a'i gadawodd hi, ac a briododd Essyllt Fingul am iddi hi wella archoll saeth wenwynig arno.

³ *Drych eil Cibddar*.—Rhestrir ef yn y Trioedd, gyda Coll ab Collfrewi a Menw ab Teirgwaedd, tan y penawd 'Tri Prif Lledrithiawc Ynys Prydain.'

Ac Arthur a alwodd ar Gynddelig Gyfarwydd, 'Dos di i'r neges hon gyda'r Unben.' Yr oedd ef mor gyfarwydd mewn gwlad nas gwelsai erioed o'r blaen ag yn ei wlad ei hun.

Efe a alwodd Gwrhwr Gwastawt Ieithoedd, gan y gwyddai ef bob iaith.

Efe a alwodd Gwalchmai ab Gwyar. Ni ddaeth efe adref erioed heb y neges yr aethai i'w cheisio. Goreu cerddwr a goreu marchog ydoedd. Nai i Arthur, fab ei chwaer, a'i gefnder oedd.

Ac Arthur a alwodd ar Fenw ab Teirgwaedd. Canys os elent i wlad anwar, gallai ef dafu hud a lledrith drostynt, fel nas gwelai neb hwynt, a hwythau yn gweled pawb.

A hwy a deithiasant yn mlaen nes dyfod i wastadedd mawr; ac yno gwelent gaer fawr, decaf o holl gaerau y byd. A cherddasant y dydd hwnw hyd yr hwyr; ac er y tybient eu bod yn agos i'r gaer, nid oeddynt yn agosach iddi nag yn y bore. A'r ail a'r trydydd dydd y cerddasant; ac yna o'r braidd y daethant hyd ati. A phan ddaethant gerbron y gaer, gwelent ddeadell fawr o ddefaid, heb derfyn nac eithaf iddi. Ac ar ben twyn gerllaw, yr oedd bugail a gadwai y defaid, a gwisg o grwyn am dano; ac wrth ei ochr yr oedd gafaelgi (*mastiff*) hirflewog, mwy na march naw gauaf oed. Yr oedd yn ddyweddiad ganddo na cholodd oen erioed, chwithach llwdn mawr. Nid aeth ymdeithydd heibio iddo erioed heb anaf neu ofid ganddo. Pob pren mawr a thwmpath a fyddai ar y maes a losgai ef hyd y pridd â'i anadl.

Yna y dywed Cai, 'Gwrhwr Gwastawt Ieithoedd, dos i gyfarch y gwr acw.' 'Cai,' ebe yntau, 'nid addewais i fyned gam pellach na thithau.' 'Yna awn oll yn nghyd,' ebe Cai. Ebe Menw ab Teirgwaedd, 'Na fydded ofn arnoch fyned; mi a dafaf ledrith dros y ci, fel na wnel niwaid i neb.' A hwy a aethant i fynu at y bugail, ac a ddywedasant wrtho, 'Hardd wyt, O, fugail!' 'Na bo chwi byth harddach nag wyf i.' 'Er mwyn Duw, ai tydi ydyw'r penaeth?' 'Nid wyf i yn benaeth ond ar fy mhriod.' 'Pwy biau'r defaid a gedwi di, a'r gaer acw?' 'Meredic awyr uwch!¹ gwyr pawb tros yr holl fyd mai eiddo Yspaddaden Pencawr ydynt.' 'Pwy wyt tithau?' 'Custenyn ab Dyfnedig y'm gelwir; â'm priod yr ymlygres fy mrawd, Yspaddaden Pencawr. A phwy ydych chwithau?' 'Cenhadau Arthur y sydd yma, yn erchi Olwen merch Yspaddaden Pencawr.' 'Ha! wyr, nawdd Duw arnoch; er y byd, na wnewch hyny. Ni ddaeth neb erioed i erchi yr arch hono, ac a aeth oddiyma yn fyw.' A'r bugail a gyfododd i fynu, a Chilhwch a roes fodrwy aur iddo; yntau a geisiodd ddodi y fodrwy am ei fys, ond gan ei bod yn rhy fechan, dododd hi yn mys ei faneg. Ac efe a gerddodd adref, ac a roes y faneg i'w gymhares i'w chadw. Hithau a gy-

¹ *Meredic awyr uwch.*—Geiriau o ddiystyrwch at anwybodaeth.—E. LLWYD.

merth y fodrwy o'r faneg, ac ebe hi, 'Pwy a roddes hon i ti? nid mynych byddi di yn cael anrhegion.' 'Mi a aethum,' ebe yntau, 'i'r môr, i geisio morfwyd [pysgod], a gwelwn gelain yn cael ei dwyn gan y tonau, ac ni welais erioed gelain decach na hi, ac ar fys hono y cefais y fodrwy.' 'Ha! wr, a ydyw'r môr yn gadael i'w feirwon wisgo tlysau? Dangos i mi y gelain hono.' 'Ha! wraig, y sawl piau y gelain, ti a'i gweli yma heno.' 'Pwy ydyw hwnw?' ebe'r wraig. 'Cilhwch ab Cilydd ab Celyddon Wledig, o Oleuddydd ferch Anlawdd Wledig ei fam, yr hwn a ddaeth i erchi Olwen yn wraig.' A chymysgedig oedd ei theimladau hi pan glybu hyn—llawen ydoedd am fod ei nhai tab ei chwaer yn dyfod ati, a thrist am nas gwelsai neb erioed yn dyfod ar y neges hono ac yn dychwelyd â'i hoedl ganddo.

A chyrchu a wnaethant at borth llys Custenyn y bugail; a phan glybu hi eu trwst hwy yn dyfod, hi a redodd i'w cyfarfod o lawenydd. A Chai a gipiodd ddarn o bren o'r pentwr. A phan ddaeth hi i'w cyfarfod, hi a geisiodd ddodi ei dwylaw am eu gyddfau. A Chai a ddodes y darn preu rhwng ei ddwyllaw, a hi a'i gwasgodd fel wden ddirerth. 'Ha! wraig,' eb efe, 'pe gwasgesit ti fi fel yna ni fuasai raid i neb arall ddodi ei serch arnaf. Drygserch a fuasai hyny.' Yna hwy a aethant i'r tŷ, a gwasanaethwyd arnynt; ac wedi hyny, aethant allan i chwareu. A'r wraig a agorodd gist gareg oedd ar y pentan, a chododd llanc pen felyn crych ohoni. Ebe Gwrhwr, 'Gresyn cuddio llanc fel hwn. Gwn nad am ei ddrwg ei hun y dielir arno.' Ebe'r wraig, 'Nid yw hwn ond y gweddill; tri mab ar hugain i mi a laddodd Yspaddaden Pencawr, ac nid yw fy ofn am hwn yn llai nag am y lleill.' Ac ebe Cai, 'Deued yn gydymaith i mi, ac ni'n lleddir ond yn nghyd.' Yna hwy a fwytasant. A'r wraig a ofynodd, 'Ar ba neges y daethoch chwi yma?' 'Ni a ddaethom i erchi Olwen yn wraig i'r llanc hwn.' Ebe'r wraig, 'Er Duw, gan nas gwelodd neb chwi eto o'r gaer, ewch ymaith drachefn.' 'Duw a wyr nad awn ni ymaith nes gweled y forwyn.' Ebe Cai, 'A ddaw hi yma, fel y gwelom hi?' 'Hi a ddaw yma,' ebe'r wraig, 'bob dydd Sadwrn i olchi ei phen; ac yn y llestr yr ymolcha, hi a edy ei holl fodrwyau, ac ni ddaw hi, na chenad oddiwrthi, byth i ymofyn am danynt drachefn.' 'A rodidi genad i ni ddanfôn am dani?' 'Duw a wyr na laddaf i fy hoedl, ac na thwyllaf y sawl a'm creto; os rhoddwch chwi lw na wnewch gam â hi mi a'i caniataf.' 'Rhoddwn,' ebynt hwythau. Ac yna, danfonwyd i gyrchu y forwyn, a hithau a ddaeth.

Gwisg o sidan fflamgoch oedd am dani, a chadwen o ruddaur a pherlau emerald oedd am ei gwddf. Melynach oedd ei phen na blodeu y banadl. Gwynach oedd ei chroen nag ewyn y dôn. Tecach oedd ei dwylaw a'i bysedd na blodeu yr anemoni yn ewyn ffynon gweirglodd. Disgleiriach ei llygaid na golwg

y gwalch a'r hebog. Gwynuach oedd ei dwyfron na bron yr alarch gwyn. Coch-ach oedd ei dwyrudd na'r claret cochaf. Y sawl a'i gwelai, cyflawn a fyddai o'i serch. Pedair o feillion gwynion a dyfent yn ôl ei throed pa le bynag y cerddai, ac am hyny y gelwid hi, OLWEN.

A hi a ddaeth i'r ty ac a eisteddodd yn ochr Cilhwch yn mhen y fainc; a chyn gynted ag y gwelodd hi, efe a'i hadnabu. 'Ha! forwyn,' ebe Cilhwch, 'tydi a gerais; tyred gyda fi ymaith, rhag iddynt ddywedyd drygair am danom. Er's llawer dydd y'th gerais.' 'Nis gallaf i wneud hyny, canys fy llw a roddais i'm tad nas gadawn ef heb ei genad, gan na bydd efe byw ond hyd fy mhriodas i. Y sydd, y sydd. Ond mi a roddaf gynghor iti, os gwnei ef. Dos at fy nhad a gofyn fi ganddo; a pha beth bynag a ofyno genyt, dyro iddo, a thi a'm cei iuau; ond os gwrthodi ddim iddo, myfi nis cei, a da iti os diengi â'th fywyd genyt.' 'Mi a wna hyn oll,' eb efe, 'ac a'th fynaf dithau.'

Yna hi a gerddodd i'w hystafell. Hwythau a gyfodasant ac a aethant ar ei hol i'r gaer, gan ladd y naw porthor oedd ar y naw porth heb i un godi gwaedd; a'r naw gafaelgi (*mastiff*) heb i un wichian. A hwy a ddaethant rhag-ddynt i'r neuadd.

'Henffych well, o Dduw ac o ddyn!' ebynt hwy, 'Yspaddaden Pencawr.' 'A chwithau, o ba le y daethoch?' 'Ni a ddaethom i erchi Olwen dy ferch i Gilhwch ab Cilydd ab Celyddon Wledig.' 'Pa le y mae fy mhorthorion anffyddlon? Dyrchefwch y ffyrch o dan fy nwy ael, y rhai sydd wedi diagyn ar fy llygaid, fel y gallwyf weled defnydd fy mab-yn-nghyfraith.' Hyny a wnaethpwyd. 'Dowch yma yforu, a chwi a gewch ateb.' eb efe.

A hwy a gyfodasant i fyned ymaith; a gafaelodd Yspaddaden Pencawr yn un o'r tair saeth wenwynig oedd yn nghudd gerllaw iddo, ac a'i lluchiodd ar eu hol. Daliodd Bedwyr hi, ac a'i lluchiodd ato yntau, a gwanodd Yspaddaden Pencawr yn afal pen ei lin yn ddychrynlyd â hi. Yna eb efe, 'Melldith ar fy mab-yn-nghyfraith anwar. Gwaeth byth yr ymdeithiaf oherwydd yr archoll. Fel brath cleren (*gadfly*) ydyw gwaniad yr haiarn gwenwynig hwn. Boed felldigedig y gôf a'i gwnaeth, a'r eingion y gwnaed ef arni, gan mor ddolurus ydyw!'

Y nos hono hefyd, llettyasant yn nhŷ Custenyn y bugail. A'r ail ddydd, gyda'r wawr, wedi ymdrwsio ar frys, y daethant i'r gaer, ac i mewn i'r neuadd, ac a ddywedasant, 'Yspaddaden Pencawr, dyro ini dy ferch, ninau a roddwn ei chynysgaeth a'i hamwobr¹ i tithau a'i dwy gares. Ac onis rhoddi, dy angau a

¹ *Amwobr*.—Dirwy a delid gynt i'r meistir tir am briodas un o ferched ei ddeiliaid. Gelwid yr arferiad weithiau yn Gwobr Merch. Tybia rhai fod y meistir tir, cyn amser Cred a Bedydd, yn hawlio morwyndod merched ei ddeiliaid. Barnai Dr. Davies, Fallwyd, fod yr arian hyn i'w talu i dad y ferch, os yn fyw, neu i'r arglwydd os marw'r tad. Dyma y rheswm paham y gelwid morwyn yn Ddifaeth Brenin.

gai am hyny.' Yntau a atebodd, 'Y mae ei phedair gorhennain a'i phedwar gorhendaidd eto yn fyw; a rhaid imi ymgynghori â hwynt.' 'Gwna dithau hyny,' ebynt hwy, 'ninau awn at ein bwyd.' Ac fel y cyfodent i fyned ymaith, efe a gymerth yr ail saeth oedd yn nghudd ger ei law, ac a'i lluchiodd ar eu hol, a Menw ab Gwaedd a'i daliodd ac a'i lluchiodd ato yntau, gan ei wanu yn nghanol ei ddwyfron nes y daeth allan trwy ei feingefn. 'O! fab-yn-nghyfraith anwar,' eb efe, 'fel brathiad gele bendoll (*horse-leech*) yr anafodd yr haiarn dur fyfi. Boed felldigedig y ffwrnais e'i poethwyd, a'r gôf a'i lluniodd, gan mor dost ydyw! O hyn allan, pan elwyf i fyny gallt, caethder fydd i'm hanadl, a dolur i'm cylla, a chashau cynwys fy nghylla a wnafl.' Yna hwy a aethant at eu bwyd.

A phan ddaethant i'r llys y trydydd dydd, ebe Yspaddaden Pencawr, 'Na saetha ataf i eto, os na ddeisyfi dy angau. Pa le y mae fy ngweision? Dyrch-efwch y ffyrch, fy aeliau a syrthiodd ar afalau fy llygaid; fel y gallwyf edrych ar ddefnydd fy mab-yn-nghyfraith.' Hwythau a gyfodasant; ac fel y cyfodent, Yspaddaden Pencawr a gymerth y drydedd saeth wenwynig, ac a'i lluchiodd atynt, a Cilhwch a'i daliodd ac a'i hyrddiodd yn ol ato yntau, a'i wanu yn afal ei lygad nes yr aeth y saeth allan trwy ei wegil. 'Felldigedig ac anwar fab-yn-nghyfraith,' eb efe, 'hyd tra y byddwyf byw, gwaeth a fydd golwg fy llygad pan elwyf yn erbyn y gwynt; llosgi a wnant, a rhyfedd os na chaf y bendro ar flaen pob lloer. Boed felldigedig y ffwrnais lle y poethwyd yr haiarn gwenwynig; y mae'r gwayw fel brathiad ci cynddeiriog.' Yna aethant at eu bwyd.

A thranoeth drachefn y daethant i'r llys, ac a dywedasant, 'Na saetha atom yn mhellach, oni chwenychi ragor o arteithiau a phoenau, ac hyd yn nod dy angau. Dyro ini dy ferch, onide ni a fynwn dy einioes.' 'Pa le y mae'r hwn sydd yn ceisio fy merch? Tyred yma fel gwelwyt dydi.' A chadair a roddwyd i Cilhwch i eistedd wyneb yn wyneb âg ef.

Yna y dywed Yspaddaden Pencawr, 'Ai tydi sydd yn ceisio fy merch i?' 'Ie, myfi,' ebe Cilhwch. 'Rhaid imi gael llw genyt yr ymddygi yn deg tuag ataf; a phan gaffwyf yr hyn a ddeisyfaff genyt, tithau a gai fy merch.' 'Addawaf hyny yn llawen,' ebe Cilhwch, 'gofyn yr hyn a fyni.' 'Gofynaf,' ebe yntau, 'a weli di y garth mawr acw?' 'Gwelaf.' 'Diwreiddio hwn acw o'r ddaear a fynaf, a'i losgi ar wyneb y tir nes y byddo yn wrtaith, a'i aredig a'i hau mewn un dydd, ac mewn un dydd rhaid iddo addfedu. Ac o'r gwenith hwnw y mynaf i wneuthur bwyd a diod gweddus i'th neithior di a fy merch. A hyn oll a fynaf ei wneuthur mewn un dydd.'

'Hawdd fydd imi wneud hyny, er i ti ei dybied yn anhawdd.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi. Mor wyllt ydyw y tir hwnw, fel nad

oes amaethwr all ei amaethu oddieithr Amaethon ab Don.¹ Ni ddaw ef o'i fodd, ac nis gelli dithau ei orfodi.'

'Hawdd y caf hyny, er iti ei dybied yn anhawdd.'

'Er iti gael hyny, y mae nas ceffi:—Gofannon ab Don i ddyfod i ben y tir i finio yr haiarn. Ni wna efe waith o'i fodd ond i frenin ar daith, ac nis gelli dithau ei orfodi.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er iti gael hyn, y mae nas ceffi:—Dau ych gwineu Gwlwlyd² wedi eu cydieuo wrth yr un pren, i aredig y tir acw yn wych. O'i fodd ni rydd efe hwynt, o'i anfodd nis gelli dithau eu cymeryd.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er iti gael hyny, y mae nas ceffi:—Yr ych melyn, gwanwyn, a'r ych brych, a fynaf wedi eu cydieuo.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er iti gael hyny, y mae nas ceffi:—Cydieuo y ddau ych banog [tâl, uchel, nodedig], y naill sydd yr ochr yma, a'r llall yr ochr draw i'r mynydd uchel, a'u doddi wrth yr un aradr. Sef yw y rhai hyny, Nynniaw a Pheibiaw,³ y rhai a drawsffurfiodd Duw yn ychain am eu pechod.'

'Hawdd y caf hyny.'

¹ *Amaethon*.—Sylwasom eisoes yn t.d. 4 ar Deulu Don. Fel y gweddill o'r teulu, ymddengys ei fod yntau yn gallu trin cyfrinion hyd a lledrith. Dywed traddodiad mai efe a fu'n achlysur Cad Godden, yr hon yn y Trioedd, a elwir yn un o'r 'tair ofergad,' ac yn yr hon y collwyd 71ain mil o fywydau. Canodd Taliesin englyuion i'r frwydr hono, y rhai a welir yn y *Myv. Arch.* Fel rhagymadrodd i'r cyfansoddiad hwnw, dywedir, 'Val dyma yr Englynon a ganwyd pan cad godden, eraill a'i geilw cad Achren, ac o achos iwrech gwyn a chenus y bu, ac o anwn yr hanoedd hwynt, ac Amathaon ap Don ai daliodd. Ac am hyny yr ymladdodd Amathaon ap Don ac Arawn vrenin anwn, a gwr oedd yn y gad oni wyped i henw ni orfyddit arno; a gwraic oedd yn y tu arall a elwid Achren, ac oni wyped y henw ni orfyddit arnynt. A Gwidion ap Don a ddychymygodd henw y gwr ac a ganodd y ddau englyn.' Yna dyfynir y ddau englyn, ond y mae yn anhawdd gwneud dim ohonynt gan mor hynafol ydynt.

² *Ychen Gulwlyd*.—'Tri prif ychen Ynys Prydain. Melyn, gwanwyn a gwinau ych Gwlwlyd, a'r ych brych bras o beirhew.'—*Tri y Meirch*, x.

³ *Nynniaw a Pheibiaw*.—Dywed yr hen Chwedlau mai dau frenin oedd y rhai hyn ar y cyntaf, ac iddynt gael eu trawsffurfio yn ychain am eu hanwiredd. Dichon mai yr amhwyllledd canlynol, a gofnodir yn yr *Iolo MSS.*, a achlysurodd eu trawsffurfiad felly:—'Dau frenhin a fu gynt yn Ynys Prydain, sef oedd eu henwau Nynniaw a Pheibiaw; a'r ddau hyn yn rhodio'r maesydd ar un noswaith oleu, serenog, ebe *Nynniaw*, 'Gwel pa ryw faes helaeth a theg sydd genyf fi.' *Peibiaw*—'Yn mh'le y mae?' *N.*—'Yr holl wybren.' *P.*—'Gwel dithau y maint o dda a defaid sydd genyf fi yn pori yn dy faes di.' *N.*—'Yn mh'le y maent?' *P.*—'Yr holl aer a weli di, yn aur tanlliw bob un o honynt, a'r lleud yn fugail arnynt, ac yn eu harail.' *N.*—'Ni chant ddim aros yn fy maes i.' *P.*—'Hwy a gânt.' 'Na chant,' ebai y llall, wers-tra-gwers, oiid aeth hi yn gynhen gwyllt a therfysg rhyngddynt; ac yn y diwedd, o ymryson, myned i ryfel ffyrnig, oni laddwyd gosgordd a gwlad y naill a'r llall yn agos oll yn yr ymladdau.'

'Er iti gael hyny, y mae nas ceffi:—A weli di y tir coch sydd wedi ei geibio draw?'

'Gwelaf.'

'Pan gyfarfum i gyntaf â mam y forwyn hon, yr heuwyd ynddo naw llestriaid o lin, ac ni thyfodd na du na gwyn ohono, ac y mae ei fesur genyf eto. Rhaid ini gael y llin hwnw i'w hau yn y tir newydd acw, fel y gwneler lliain gwyn ohono i'w ddodi am ben fy merch ar dy neithior di.'

'Hawdd y caf hyny, er iti ei dybied yn anhawdd.'

'Er iti gael hyny, y mae nas ceffi.—Mêl a fo naw melysach na'r dil mêl, heb frychau ac heb wenyn ynddo, a fynaf i wneud bragod i'r wledd.'

'Hawdd y caf hyny, er i ti ei dybied yn anhawdd.'

'Llestr Llwyrr ab Llwyrryôn, yr hwn sydd yn dra gwerthfawr. Nid oes lestr yn y byd all ddal y ddiod gadarn yma ond hwnw. Ni rydd efe y llestr o'i fodd, ac nis gelli dithau ei gymeryd o'i anfodd.'

'Hawdd y caf hyny, er i ti ei dybied yn anhawdd.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Mwys (*basket*) Gwyddno Garanhir; pe deuai yr holl fyd yn nghyd, pob tri naw o wyr a gaent ynddi ar yr un pryd y bwyd a chwenychent. Mi a fynaf fwyta ohono y noson y cysga fy merch gyda thi. Ni rydd efe hi o'i fodd i neb, nis gelli dithau ei orfodi ef.'

'Hawdd y caf hyny, er i ti ei dybied yn anhawdd.'

¹ *Mwys Gwyddno*.—Yr oedd hon yn un o 'DRI THLWS AR DDEG VNYS PRYD-AIN.' Dyma restr ohonynt:—

1.—*Dyrnwyn gleddyf Rhydderch Hael*: os tynai ddyn namyn ef ai hun, ef a ennynai yn fflam oi Groes hyd ei flaen, a phawb ar ei harchai ef ai cai, ac oblegyd y gyneddf hono hwy ai gwrthodynt; ac am hyny y gelwid ef Rhydderch Hael.

2.—*Mwys (basket) Gwyddno Garanhir*: bwyd i un gwr a roid ynddo, a bwyd i ganwr a geid ynddo pen egorid.

3.—*Corn Bran Galed*: y ddiod a ddamnid ei bod ynddo a geid ynddo.

4.—*Câr Morgan Mwynfawr*: od ai ddyn ynddo, damunai ei fod lle y mynai, ac ef a fyddai yn ebrwydd.

5.—*Cebystr (halter) Clydno Eiddin*, a oedd mewn ystwyffwl is traed ei wely: eiddunai y march a fynuai yno, ac ef ai cai.

6.—*Cylllell Llaufrodded Farchawg*: yr hon a wasanaethai i bedwar gwr ar hugain i fwyta gyda'u gilydd.

7.—*Pair Tyrnog*: pe rhoid ynddo gig i wr llwfr i ferwi ni ferwai fyth; o rhoid ynddo gig i wr dewr, berwi a wnaï yn ebrwydd.

8.—*Hôgalen (whetstone) Tudwal Tudgilyd*: o hogai wr dewr ei gleddyf arni, ac enwadu ar wr, marw fyddai; ac os hogai wr llwfr, ni byddai waeth.

9.—*Pais Padarn Besrydd*: os gwisgai wr boneddig, cymesur a fyddai iddo; ac os iangwr, nid ai am dano.

10, 11.—*Gren (pan) a Dysgl Rhegynydd Ysgolhaig*: eiddunid ynddynt y bwyd a fynid, ef a'i caid.

12.—*Gwyddbwyll (chessboard) Gwendolen*: o gosodid y werin, hwynt a chwariant eu hunain. Aur oedd y clawr ac arian oedd y gwyr.

13.—*Llen Arthur*: a fai dani, nis gwelai neb ef, ac ef a welai bawb.

Yn ol rhai ysgrifau yr oedd Mantell Tegau Eurfron a Modrwy Eluned yn mhlith y tlysau hyn.

‘Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Corn Gwlgawd Gododin, imi yfed o hono y noson hono. Ni rydd efe ef o'i fodd, ac nis gelli dithau ei orfodi.’

‘Hawdd y caf hyny, er i ti ei dybied yn anhawdd.’

‘Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Telyn Teirtu, i'm dyddanu y noson hono. Pan chwenycho dyn, canu a wna ei hunan; pan fyner iddi dewi, hi a dawa. Ni rydd efe hi o'i fodd, nis gelli dithau ei chymeryd trwy drais.’

‘Hawdd y caf hyny, er i ti ei dybied yn anhawdd.’

‘Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Pair Diwrnach Wyddel, maer Odgar ab Aedd, brenin Iwerddon, i ferwi y bwyd at dy neithior.’

‘Hawdd y caf hyny, er i ti ei dybied yn anhawdd.’

‘Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Rhaid imi olchi fy mhen, ac eillio fy marf, ac ysgythr-ddant Ysgythrwyn Benbaedd a fynaf i'm heillio, ac ni bydd y dant o ddim lles oni thynir ef o'i ben ac yntau yn fyw.’

‘Hawdd y caf hyny, er i ti ei dybied yn anhawdd.’

‘Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Nid oes neb yn y byd a all dynu y dant o'i ben ond Odgar ab Aedd, brenin Iwerddon.’

‘Hawdd y caf hyny.’

‘Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Nid ymddiriedaf neb i gadw yr ysgythrddant, ond Gado o Ogledd Prydain. Arglwydd yw ef ar dri ugain cantref yn Ngogledd Prydain; ac ni ddaw ef o'i deyrnas o'i fodd, ac nis gelli dithau ei ddwyn o'i anfodd.’

‘Hawdd y caf hyny, er i ti ei dybied yn anhawdd.’

‘Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi—Rhaid i mae gael estyn fy marf cyn ei heillio; ac nid estyna byth, oni cheir gwaed y Widdon Orddu, merch y Widdon Orwen, o Bennant Gofid, ar gyffiniau Uffern.’

‘Hawdd y caf hyny. er i ti ei dybied yn anhawdd.’

‘Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi—Ni fynaf y gwaed ond yn dwym; ac nid oes lestr yn y byd a'i ceidw yn dwym ond Costrelau Gwyddolwyn Gorr, y rhai a gadwant y gwres, pe rhoddid yr hylif ynddynt yn y Dwyrain, hyd oni ddygid ef i'r Gorllewin. Ni rydd efe hwynt o'i fodd, ac nis gelli dithau eu cymeryd o'i anfodd.’

‘Hawdd y caf hyny.’

‘Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Llefrith a chwenych rhai, ac nis gellir llefrith i bawb os na cheir costrelau Rhinnon Rhin Barnawd; ni sura diod byth ynddynt hwy. Ni rydd efe hwynt o'i todd, ac nis gelli dithau eu cymeryd o'i anfodd.’

‘Hawdd y caf hyny.’

‘Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi—Nid oes yn y byd grib a gwellaif y

gallaf drin fy ngwallt â hwynt, gan mor ddyrlyd ydyw, ond y crib a'r gwellaif sydd rhwng dwy glust y Twrch Trwyth,¹ mab Tared Wledig. Ni rydd ete hwynt o'i fodd, ac nis gelli dithau eu cymeryd o'i anfodd.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Nis gellir hela y Twrch Trwyth oni cheir Drutwyn, cenaw Greid ab Eri.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi—Nid oes yn y byd gynllyfan (*leash*) a ddeil y Twrch Trwyth ond cynllyfan Cwrs Cant Ewin.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Nid oes torch yn y byd a ddeil y gynllyfan ond torch Canhastyr Canllaw.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi—Cadwen Cilydd Canhastyr i ddal y dorch gyda'r gynllyfan.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Nid oes heliwr yn y byd a all hela gyda'r ei hwnw ond Mabon ab Modron², yr hwn a gymeryd pan yn deirnos oed oddiwrth ei fam; ac nis gwyddis pa le y mae, na pha un ai byw ai marw ydyw.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Gwyn Mygdwn, march Gweddw, yr hwn sydd cyn gyflymed a'r dôn, i gludo Mabon ab Modron i hela y Twrch Trwyth. Ni rydd efe ef o'i fodd, ac nis gelli dithau ei gymeryd o'i anfodd.'

'Hawdd y caf hyny.'

¹ *Twrch Trwyth*.—Barna rhai mai herwr (*outlaw*) dilywodraeth ac anystywallt o ddyw oedd hwn, yn myned tan yr enw Twrch Trwyth, neu fochyn gwylt; ac eraill mai rhyw heresi neu gyfeiliornad dinystriol a ddyg Tared Wledig i'r wlad hon ydoedd. Dangosir careg ar ben mynydd yn agos i Lanfair yn Muallt, a thwll yn y gareg ar lun troed ci, a'r enw a roddir ar y pentwr ceryg y mae hi yn ben arnynt ydyw Carn Cabal. Dywedir yn mbellach, mewn llawysgrif o'r 10fed ganrif a geir yn y Lyfrgell Harleian, mai Cabal, ci Arthur, a wnaeth y twll hwnw wrth hela y Twrch Trwyth. Yr oedd anifeiliaid Arthur yn gadael eu hargraff yn fynych ar geryg. Y mae ol troed ei farch i'w weled y dydd hwn ar gareg heb fod nepell o'r Wyddgrug, yr hon a elwir Careg March Arthur.

² *Mabon ab Modron*.—'Tri Theulu Teyrnedd yng ngharchar o'r gorbendaid i'r gorwyrion, heb adu yn nianc un o honynt: Cyntaf, Teulu Llyr Llediaith, a ddyged yng ngharchar hyd yn Rhufein y gan y Caisariaid; Ail, Teulu Madog ab Medron a fuant yng ngharchar y gan y Gwyddyl Ffichti yn yr Alban; Trydydd, Teulu Gair ab Geirion, arglwydd Geirionydd, y gan Raith Gwlad a Chenedl yng ngharchar Oeth ac Anoeth; ac o'r rhai hyny nag un nag arall o honynt yn nianc; a llwyraf carcharu a wybuwyd erioed a fu ar y Teuluocedd hyny.'—*Tri* 61. Yn ol Englynion y Beddeu:—

Y Bed yngorthir Nanllau
Ny uyr neb y gyuneddfau
Mabon vab Madron glau.

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Ni cheir Mabon byth, gan nas gwyddis pa le y mae, nes cael Eidiol ab Aer, ei gefnder a'i gâr cysefin; canys difudd a fydd chwilio am dano.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Garselit Wyddel, prif heliwr yr Twerddon. Nis gellir byth hela y Twrch Trwyth hebddo ef.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Cynllyfan o Farf Dillus Farfawg, canys dyna yn unig a ddeil y ddau genaw hyny; ac ni bydd hithau o ddim gwerth oni thynir ei farf ac yntau yn fyw. a'i gneifio hefyd â chyllell bren. Tra y byddo byw, ni oddef wneuthur hyny iddo, a brau a diles a fydd y gynllyfan os marw fydd efe.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Nid oes heliwr yn y byd a ddeil y ddau genaw hyny ond Cenedyr Wyllt, mab Hettwm Glafyrawg, a naw gwyllt-ach yw ef na'r bwystfil gwylltaf ar y mynydd. Ni chai di ef byth, a'm merch inau nis cai.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Nis gellir hela y Twrch Trwyth nes cael Gwyn ab Nudd, yr hwn a ddodes Duw i reoli Diefl Annwn, rhag iddynt ddyfetha y genedlaeth bresenol. Ni hebgorir ef oddiyno.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Nid oes march yn y byd a all gludo Gwyn i hela y Twrch Trwyth ond Du, march Môr o Oerfeddawg.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Hyd nes y daw Cilhennin, brenin Ffrainc, nis gellir hela y Twrch Trwyth. Anweddus a fyddai iddo ef adael ei deyrnae er dy fwyn di, ac ni ddaw ef yma.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Nis gellir hela y Twrch Trwyth byth heb gael mab Alun Dyfed; medrus yw ef i ollwng y cŵn.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Nis gellir hela y Twrch Trwyth byth heb Aned ac Aethlem. Y maent hwy cyn gyflymed a'r gwynt, ac nis gollyngwyd hwy erioed ar unrhyw fwystfil ar nis lladdent.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Arthur a'i gydymdeithion, i hela y

Twrch Trwyth. Gwr o gyfoeth yw efe; ni ddaw ef er dy fwyn di, ac nis gelli dithau ei orfodi.'

'Hawdd y caf hyny.'

'Er i ti gael hyny, y mae nas ceffi:—Nis gellir hela y Twrch Trwyth byth nes cael Bwlch a Chyfwlch [a Sefwlch]. Gorwynion o wyn eu tair tarian; blaenllymion a gwânawl eu tair gwaywffon; rhwygwyr archollion eu tri chleddyf, Glas, Glessig a Clersag; eu tri ci, Call, Cuall a Cafall; eu tri march, Hwyrddyddwg, Drwgdyddwg a Llwyrdyddwg; eu tair gwraig, Och, Garam a Diaspad; eu hwyrion, Lluched, Fynet ac Eissiwed; eu tair merch, Drwg, Gwaeth a Gwaethaf Oll; eu tair morwyn [Eheubryd ferch Cyfwlch, Gorasgwrn ferch Nerth, Ewaedan ferch Cynfelyn]. Y tri wyr hyny a ganant eu cyrn, a'r lleill a floeddiant, nes y tybia pawb fod y nefoedd yn syrthio i'r ddaear.'

'Hawdd y caf hyny, er iti ei dybied yn anhawdd.'

'Er iti gael hyny, y mae nas ceffi:—Cleddyf Gwrnach Gawr, gan nas gellir lladd y Twrch ond â'r cleddyf hwnw. Nis rhydd efe ef o'i fodd, ar werth, nac yn rhodd, ac nis gelli dithau ei gymeryd o'i anfodd.'

'Hawdd y caf hyny, er iti ei dybied yn anhawdd.'

'Ti a gei anhunedd heb gysgu'r nos yn ceisio y pethau hyn, ac nis cai hwynt, a'm merch inau nis ceffi.'

'Meirch a marchogion a'r cyfan a gâf gan fy nghâr a'm harglwydd Arthur, a'th ferch hefyd a gaf, a'th einioes a gollu dithau.'

'Dos rhagot. Ni raid iti dalu am na dillad na bwyd i'm merch tra y byddi yn ceisio y pethau hyn; a phan orfyddi ar yr holl anhawsderau hyn, ti a gai fy merch yn wraig.'

A cherdded a wnaethant y dydd hwnw hyd yr hwyr, ac yna caer fawr a welent, y fwyaf yn y byd. Ac wele wr du mwy na thri o wyr y byd hwn yn dyfod o'r gaer, a hwy a ddywedasant wrtho, 'O ba le y deui di, wr?' 'O'r gaer a welwch chwi acw.' 'Pwy biau y gaer?' ebynt hwy. 'Mor ddiwybod, Ha! wyr, ydych chwi! nid oes neb yn y byd heb wybod pwy biau y gaer hon—Gwrnach Gawr a'i piau hi.' 'Pa groesaw sydd i ymwelwyr a dycithriaid a ddisgynont yn y gaer hon?' 'Ha! unben, Duw a'ch noddo, nid aeth ymwelwr erioed ohoni â'i fywyd ganddo.'

Yna hwy a gyrchasant at y porth, ac ebe Gwrhyr Gwalstawd Ieithoedd, 'A oes borthor yma?' 'Oes; a thithau, onibai rhag fod dy dafod yn fud yn dy ben, paham yr ymholi?' 'Agor y porth.' 'Nid agoraf.' 'Paham nad agori.' 'Y mae'r gyllell yn y bwyd, a'r ddiod yn y corn, ac ni faidd neb sangu neuadd

Gwrnach Gawr, ac nid agorir heno bellach ond i un celfydd yn dwyn ei gelf.' Yna ebe Cai, 'Y porthor, y mae celf genyf i.' 'Pa gelf sydd genyt ti?' 'Y goreu yn y byd ydwyf am loewi cleddyfau.' 'Mi a af i ddywedyd hyny wrth Gwrnach Gawr, ac a ddygaf ateb iti.'

A'r porthor a aeth i mewn. ac ebe Gwrnach wrtho, 'Pa newydd sydd genyt o'r porth?' 'Dynion sydd yn nrws y porth yn deisyf cael dyfod i mewn.' 'A ofynaist ti os oedd celf ganddynt?' 'Gofynais,' eb efe, 'ac un ohonynt a ddywed y gall efe loewi cleddyfau yn dda.' 'Y mae rhaid ini wrth hwnw. Er's talm yr wyf yn ceisio un a allai loewi fy nghleddyf, ac nis cefais. Gad i hwnw ddyfod i mewn, gan fod celf ganddo.'

A'r porthor a ddaeth ac a agorodd y porth, ac aeth Cai i mewn ei hun, a Gwrnach Gawr a gyfarchodd well iddo. Cadair a ddodwyd iddo i eistedd gerbron Gwrnach, ac eb efe wrtho, 'Ha! wr, ai gwir a ddywedir am danat y gyddost pa fodd i loewi cleddyfau?' 'Mi a wn hyny yn dda,' ebe Cai. Yna dygwyd cleddyf Gwrnach ato, ac efe a gymerth y galen las o dan ei gesail ac a ofynodd pa un oedd oreu o'r ddau ganddo ai glas ynte gwyn. 'Gwna fel y mynot, ac fel pe gwnaethit pe buasai'n eiddo i ti dy hun.' A Cai a loewodd haner y llafn, ac a'i dodes yn ei law, gan ofyn, 'Ai da hyn yn dy olwg?' 'Gwell fyddai genyf na'm holl gyfoeth pe byddai'r holl ohono fel hyn. Rhyfedd o beth fod gwr cystal a thi heb yr un cydymaith.' 'Ha! wrda, y mae imi gydymaith, er nad yw yn fedrus yn y gelf hon.' 'Pwy yw hwnw?' 'Aed y porthor allan, a mi a nodaf iddo ei neillduolion:—Pen ei waywffon a ddaw oddiar y paladr, ac a dyn waed o'r gwynt, ac a ddisgyn ar y paladr eilwaith.' Yna agorwyd y porth, ac aeth Bedwyr i mewn, ac ebe Cai, 'Medrus yw Bedwyr, er nad yn dwyn y gelf hon.'

A dadleu mawr a fu yn mysg y gwyr oddiallan am fyned Cai a Bedwyr i mewn. Ac aeth y llanc ieuanc oedd gyda hwynt yntau hefyd i mewn, sef unig fab Custenyn y Bugail; gan beri i'w gydymdeithion lynu wrtho nes dyfod trwy dri chadlys, nes ydoedd oddifewn i'r gaer. A'i gydymdeithion a ddywedasant wrth fab Custenyn, 'Ti a wnaethost hyn; a goreu dyn ydwyf.' Ac o hyny allan, galwyd ef yn Goreu ab Custenyn. A gwasgaru a wnaethant hwy i'w lletyau fel y gallent ladd eu lletywyr yn ddjarwybod i'r Cawr.

Yr oedd y cleddyf yn awr wedi ei loewi, a Chai a'i rhoddes yn llaw (Gwrnach Gawr er gwybod a oedd y gwaith yn rhyngu ei fodd. Ac ebe'r Cawr, 'Da yw'r gwaith, ac y mae wrth fy modd.' Ebe Cai, 'Dy wain di a rydodd y cleddyf; moes ef i mi fel y tynwyf ymaith ei ystlysau coed, ac y rhoddwyf rhai newyddion yn eu lle.' Ac efe a gymerodd y wain ganddo, a'r cleddyf yn y llaw arall. Yna efe a ddaeth uwchben y Cawr fel pe buasai ar fedr doddi y cleddyf yn y

wain; a tharawodd y Cawr yn ei ben âg ef, ac a'i torodd ymaith âg un ergyd. Yna hwy a anrheithiasant y gaer, gan ddwyn ymaith yr hyn a fynent o'r da a'r tlysau. A thrachefn ar yr un dydd yn mhen y flwyddyn y daethant i Lys Arthur, a chleddyf Gwrnach Gawr ganddynt.

Dywedasant wrth Arthur y modd y darfu iddynt; ac yntau a ddywed, 'Pa un o'r hynodion hyn y sydd iawnaf ei geisio gyntaf?' 'Iawnaf yw,' ebynt hwythau, 'ceisio Mabon ab Modron, ac nis gellir ei gael ef nes cael Eidoel ab Aer, ei gâr, yn nghyntaf.' A chyfododd Arthur, a milwyr Ynys Prydain gydag ef, i geisio Eidoel; a dyfod a wnaethant hyd at Gastell Glifi, lle yr oedd Eidoel yn ngharchar. Glifi a safai ar ben y gaer, ac eb efe, 'Arthur, pa beth a fyndi di? gan nad oes wedi ei adael i mi yn y lle hwn na da na digrifwch, na gwenith na cheirch; gan hyny, na wna gam â mi.' Arthur a ddywed, 'Nid er drwg iti y daethum i yma, eithr i geisio y carcharor sydd genyt.' 'Mi a roddaf y carcharor iti, er na fwriadwn ei roddi i neb; a chyda hyny, fy nerth a'm cymborth a geffi.'

Yna y dywedodd gwyr Arthur wrtho, 'Arglwydd, dos di adref; ni elli di fyned gyda'th lu i geisio pethau mor fân a'r rhai hyn.' Ac Arthur a ddywedodd, 'Gwrhwr Gwalstawt Ieithoedd, iawn yw iti fyned i'r neges hon, gan dy fod yn gwybod pob iaith ac yn deall iaith yr adar a'r anifeiliaid. Eidoel, iawn yw i tithau fyned gyda'm gwyr i, i geisio dy gefnder. Cai a Bedwyr, yr wyf yn credu y cewch chwi bob neges a geisioch. Ceisiwch imi y neges hon.'

A cherdded a wnaethant rhagddynt hyd at Fwyalch Cilgwri¹; a Gwrhwr a ofynodd iddi, 'Er Duw, a wyddost ti ddim am Fabon ab Modron, a gymerwyd pan yn deirnos oed oddirhwng ei fam a'r pared?' Y Fwyalch a atebodd, 'Pan ddaethum i yma gyntaf, eingingion gôf oedd yma, ac aderyn ieuanc oeddwn inau. Ac ni bu ddim traul arni ond fy mod i yn rhwbio fy mhig ynnddi bob cyfnos, ac erbyn heddyw nid oes gymaint a chneuen ohoni heb dreulio; er hyny, dial Duw arnaf os clywais i erioed am y gwr y gofynwch chwi. Ond yr hyn sydd iawn a dyledus imi ei wneuthur i genhadau Arthur, mi a'i gwnaf. Y mae cenedlaeth o anifeiliaid a luniodd Duw o'm blaen i; ac mi a fyddaf yn arweinydd i chwi stynt hwy.'

A hwy a ddaethant i'r lle yr oedd Carw Rhedynfre. 'Carw Rhedynfre,' ebynt hwy, 'ni a ddaethom atat yn genhadau oddiwrth Arthur, gan nas gwyddom am anifail hyn na thi. Dywed, a wyddost ti ddim am Fabon ab Modron, yr hwn a gymerwyd oddiwrth ei fam pan yn deirnos oed?' Y Carw a atebodd, 'Pan ddaethum i yma gyntaf, nid oedd ond gwastadedd o'm deutu; ac nid oedd yma

¹ *Cilgwri*.—Barna rhai mai y rhan ogleddol o sir Gaerlleon, a elwir yn awr *Wirral*, ydoedd Cilgwri.

goed oddieithr un gollen derwen, yr hon a dyfodd yn bren can' cainc; wedi hyny, y dderwen hono a syrthiodd; a heddyw, nid oes ond boncyff coch ohoni. Er y pryd hwnw, yr ydwyf i yma, ac ni chlywais i ddim erioed am y gwr yr ydych chwi yn ymofyn am dano. Er hyny, mi a fyddaf yn arweinydd i chwi, canys cenhadau Arthur ydych, hyd i'r lle y mae anifail arall a luniodd Duw o'm blaen i.'

'A daethant i'r lle yr oedd Dallhuan Cwm Cawlwyd.¹ 'Dallhuan Cwm Cawlwyd, yma y mae cenhadau Arthur; a wyddost ti rywbeth am Fabon ab Modron, a gymerwyd oddiwrth ei fam pan yn deirnos oed?' 'Pe gwyddwn, mi a ddywedwn. Pan ddaethum i yma gyntat, y cwm mawr a welwch, glyn coediog ydoedd. A daeth cenedlaeth iddo, ac a'i difaodd, a thyfodd ail goed ynddo, a'r trydydd goed yw y rhai hyn. A minau, onid yw fy esgyll yn fonau crinion? Ac o hyny hyd heddyw, ni chlywais i ddim am y gwr y gofynwch. Er hyny, mi a gyfarwyddaf genhadau Arthur oni ddeloch hyd y lle y mae yr anifail hynaf yn y byd hwn, a'r un a deithiodd fwyaf, sef Eryr Gwern Abwy.'

Ac ebe Gwrhwr, 'Eryr Gwern Abwy, ni a ddaethom yn genhadau oddiwrth Arthur atat, i ofyn os gwyddost ti ddim am Fabon ab Modron, yr hwn a gymerwyd oddiwrth ei fam pan yn deirnos oed?' Yr Eryr a atebodd, 'Mi a ddaethum i'r lle hwn er's hir amser; a phan y daethum yma gyntaf, yr oedd yma faen mawr oddiar ben yr hwn bob min nos y byddwn i yn pigo y ser; ac yn awr nid yw ond dyrnfedd o uchder. Ac er hyny hyd heddyw, ni chlywais i ddim am y gwr y gofynwch chwi, ond un waith pan yr aethum i geisio fy mwyd hyd yn Llyn Llyw. Yno dodais fy nghrafangau mewn eog, gan debygu y cawn fwyd ynddo ef am hir amser. Yntau am tynodd i'r dyfnder, ac o'r braidd y gellais ddianc oddiwrtho. Yna mi a gynullais ty holl geraint i ymosod arno a cheisio ei ddyfetha; yntau a yrodd genhadau i gymodi â mi, ac a ddaeth ataf i dynu deg tryfer a deugain o'i gefn. Onid w'yr efe am yr hwn yr ydych yn ei geisio, ni wn i am neb a'i g'wyr.'

Dyfod a wnaethant i'r lle yr ydoedd yntau; ac ebai'r Eryr, 'Eog Llyn Llyw, mi a ddaethum atat gyda chenhadau Arthur i ofyn a wyddost ti ddim am

¹ *Cwm Cawlwyd*.—Mae yn debyg mai hen randir Caw, yn Ngogledd Prydain, oedd y lle hwn, ac nid y cwm ar yr enw hwnw sydd yn Nyffryn Couwy. Cyhoeddwyd y rhan hon o'r Fab-inogi gan Lewys Morys Mon yn *Thysau yr Hen Oesoedd* dan y penawd 'Hynafiaid y Byd.' Sonir am yr Hynafiaid hefyd gan Dafydd ab Gwilym yn ei gywydd 'Yr Oed':—

Mil a'm dyfalant, a mwy,
 I'r neb a fu'n Ngwernabwy;
 Yn wir ni byddwn Eryr,
 Ond aros Gwen dair oes gwyr;
 Cywir fal y Carw wyl fi
 Am garlad yn Nghilgwri,
 Un dall a'm deall yn llwyd,
 Am cywely y 'Nghwm Cawlwyd.

Fabon ab Modron a ddygwyd yn deirnos oed oddiwrth ei fam? 'Cymaint a wn, mi a'i dywedaf. Gyda phob llanw yr af i fynu'r afon uchod hyd nes y deuaaf at furiau Caerloyw (*Gloucester*), ac yno y gwelais na chefais erioed gymaint o ddrygioni; ac fel y credoch, deued un ohonoch yma ar bob un o'm dwy ysgwydd.' Ac aeth Cai a Gwrhwr Gwalstawt Ieithoedd ar ddwy ysgwydd yr Eog, ac felly yr aethant nes dyfod am y mur a'r carcharor, a'i glywed yn cwynfan ac yn gruddfan. Gwrhwr a ddywed, 'Pa ddyn sydd yn cwyno yn y maendy hwn?' 'Och! y mae gan y neb sydd yma le i gwyno. Mabon ab Modron y sydd yma yn ngharchar; ac ni charcharwyd neb cyn doted. Tostach yw na charchariad Lludd llaw Ereint neu Greid ab Eri.' 'A oes gobaith genyt gael dy ollwng yn rhydd er aur, neu arian, neu olud presenol, ynte er brwydrau ac ymladd?' 'Yr hyn a geir ohonof a geir trwy ymladd.'

Yna hwy a ddychwelasant oddiyno, gan ddyfod i'r lle yr oedd Arthur, a dywedyd wrtho pa le yr oedd Mabon ab Modron yn ngharchar. Ac Arthur a wysiodd filwyr yr Ynys hon, ac a aeth hyd yn Nghaerloyw, lle yr oedd Mabon yn ngharchar. Myned a wnaeth Cai a Bedwyr ar ddwy ysgwydd y pysgodyn, tra yr ydoedd milwyr Arthur yn ymladd â'r gaer. A Chai a dorodd trwy y mur, ac a gymerodd y carcharor ymaith ar ei gefn, tra yr oedd y milwyr yn dal i ymladd, Ac Arthur a aeth adref, a Mabon gydag ef yn rhydd.

Ebe Arthur, 'Pa un iawnaf ei geisio yn gyntaf o'r hynodion hyn?' 'Iawnaf yw ceisio dau genaw Gast Rhyrhi.' 'A w'yr rhywun,' ebe Arthur, 'pa le y mae hi?' 'Y mae,' ebe un, 'yn Aberdaugleddyf.' Ac Arthur a ddaeth hyd i dŷ Tringad yn Aber Cleddyf, gan ymfyn os clywsai y gwr hwnw am dani. 'Yn mha rith y mae hi?' 'Yn rhith bleiddast,' ebe yntau, 'a'i dau genaw gyda hi yn ymdaith.' 'Hi a laddodd fy anifeiliaid i yn fynych, ac y mae hi isod yn Aber Cleddyf, mewn ogot.'

Yna Arthur a aeth yn ei long *Prydwen* ar hyd y môr, ac eraill ar hyd y tir. i hela yr ast. A'i chylchynu hi a'i dau genaw a wnaethant; a Duw, er mwyn Arthur, a'u trawsfurfiodd i'w rhith eu hunain. A gwasgarodd llu Arthur bob yn un ac yn ddau.

Ac fel yr oedd Gwythyr ab Greidiawl un diwrnod yn cerdded tros fynydd, efe a glywai lefain a gruddfan arswydus, a morgrug oedd yn gwneud y swn hwnw. Yntau a aeth tuag yno; a phan ddaeth, efe a dynodd ei gleddyf, ac a dorodd dwmpath y morgrug ymaith wrth y ddaear, fel yr achubwyd ef rhag cael ei ddifa

gan dân A'r morgrug a ddywedasant wrtho, 'Derbyn fendith Duw genym, a'r hyn ni all dyn ei roddi iti, ni a'i rhoddwn.' Yna hwy a gyrchasant iddo y naw llestriaid o hâd llin a archodd Yspaddaden Pencawr gan Cilhwch, yn fesuredig oll, heb ddim yn eisiau ohonynt oddieithr un hedyn, a'r morgrugyn cloff a ddaeth â hwnw cyn y nos.

Pan oedd Cai a Bedwyr yn eistedd ar garn o geryg llyfnion ar ben Pumlymon, ar y gwynt mwyaf yn y byd; edrych a wnaethant o'u hamgylch, a gwelent fwg mawr tua'r deheu, yn mhell oddiwrthynt, heb gael ei drosi gan y gwynt. Yna Cai a ddywedodd, 'Myn llaw fy nghyfaill, dacw dân lleidr.' A hwy a brysurasant tuag at y mwg; ac wedi dyfod yn agos ato, ei wylled yn ofalus a wnaethant, hyd oni welent Ddillus Farfawg yn deifio baedd coed. 'Dacw,' ebe Cai, 'y lleidr penaf a ddiangodd rhag Arthur erioed.' 'A adwaenost ti ef?' ebe Bedwyr. 'Adwaenwn,' ebe Cai, 'dacw Dillus Farfawg; nid oes yn y byd gynllyfan a ddeil Drutwyn, cenaw Greid ab Eri, ond cynllyfan o farf y gwr acw; ac ni bydd o un lles oni thynir hi â gefail bren ac yntau yn fyw, canys brau a fydd y farf, os marw a fydd efe.' 'Pwy a'n cynghora pa fodd i gael hyny?' ebe Bedwyr. 'Gadawn iddo,' ebe Cai, 'fwyta ei wala o'r cig, ac wedi hyny efe a gysga.' A thra yr oedd efe yn gwneud hyny, yr oeddynt hwythau yn gwneud y y gefeilion prenan. Pan wybu Cai yn sicr ei fod yn cysgu, efe a wnaeth y pwll mwyaf yn y byd o dan ei draed ef, ac a roddes iddo ddyrnod anfeidrol ei faint, ac a'i gwthiodd i'r pwll, ac yna cneifio ei farf yn llwyr â'r gefeilion prenan, ac wedi hyny ei ladd.

Oddiyno aethant eill dau hyd Gelli Wig, yn Nghernyw, a chynllyfan o farf Dillus Farfawg ganddynt; a Chai a'i rhoddes yn llaw Arthur, pan y canodd Arthur yr englyn hwn :—

Cynllyfan a orug Cai
O farf Dillus fab Eri
Pe iach dy angau fyddai.

Am hyny y sorodd Cai, fel mai o'r braidd y gallodd milwyr yr Ynys hon gadw heddwch rhwng Cai ac Arthur. Ac o hyny allan, er pob anghaffael a fu ar Arthur, ac er lladd ei wyr, nid ymyrodd Cai mwyach âg ef.

Yna ebe Arthur, 'Beth iawnaf ei geisio o'r hynodion eto?' 'Iawnaf yw ceisio Drudwyn, cenaw Greid ab Eri.'

Ychydig cyn hyny, dyweddiwyd Creiddylad, merch Lludd Llaw Eraint, a Gwythyr ab Greidiawl; ond cyn iddo gysgu gyda hi, daeth Gwyn ab Nudd, ac a'i dygodd hi trwy drais. Yna Gwythyr ab Greidiawl a gynullodd lu, ac a aeth i ymladd â Gwyn ab Nudd; ond Gwyn a'i gorchfygodd, ac a ddaliodd Greid ab

Eri, a Glinneu eil Taran, a Gwrgwst Ledlwm, a Dynfarth ei fab. Ac a ddaliodd hefyd Penn ab Nethawg, a Nwython, a Cheledyr Wyllt ei fab. Ac efe a laddodd Nwython, ac a dynodd ei galon allan, gan orfodi Celedyr i fwyta calon ei dad; ac am hyny yr aeth Celedyr yn wyllt. Pan glybu Arthur am hyn, efe a aeth i'r Gogledd, ac a wysiodd Gwyn ab Nudd ato, ac a ollyngodd ei garcharorion yn rhydd, ac a wnaeth dangnefedd rhwng Gwyn ab Nudd a Gwythyr ab Greidiawl. Dyma yr heddwch a wnaed:—Gadael y forwyn yn nhŷ ei thad, heb fantais i'r naill na'r llall, ac i Gwyn a Gwythyr ymladd am dani bob Nos Galanmai o hyny allan hyd ddydd brawd; a'r hwn a orfyddai ohonynt ddydd brawd, oedd i gael y forwyn.

Ac wedi cymodi y pendeffigion hyn felly, Arthur a gafodd Mygdwn march Gweddw a chynllyfan Cwrs Cant Ewin.

Ar ol hyny, yr aeth Arthur i Lydaw, a chydag ef Mabon ab Mellt a Gware Gwallt Euryn, i geisio dau gi Glythmyr Ledewig. Ac wedi eu cael hwynt, efe a aeth i Orllewin Iwerddon i geisio Gwrgi Seferi; ac Odgar ab Aedd, brenin yr Iwerddon, gydag ef. Oddiyno aeth Arthur i'r Gogledd, ac a ddaliodd Celedyr Wyllt. Yna aeth ar ol Ysgythrwyn Benbaedd; a chydag ef yr oedd Mabon ab Mellt, a dau gi Glythmyr Ledewig yn ei law, a Drudwyn cenaw Greid ab Eri. Ac aeth Arthur ei hun i'r helfa; a Chafall, ei gi, yn ei law. Caw o Ogledd Prydain a farchogai Llamrei, caseg Arthur, ac efe oedd y cyntaf yn yr ymgyrch. Ac yn llaw Caw yr oedd bwyall; ac yn feiddgar a gwych, efe a aeth at y Baedd, ac a roddes iddo ddyrnod nes yr holltodd ei ben yn ddau haner. Yna efe a gymerodd yr ysgythrddant. Nid y cŵn a nodasai Yspaddaden wrth Cilhwhch a laddodd y baedd, eithr Cafall, ei Arthur ei hun.

Ac wedi lladd Ysgythrwyn Benbaedd, yr aeth Arthur a'i lu hyd i'r Gelli Wig yn Nghernyw. Oddiyno efe a ddanfonodd Menw ab Teirgwaedd i edrych os oedd y tlysau rhwng dwy glust y Twrch Trwyth, gan mai oferedd oedd ei ymlid os nad oedd y tlysau ganddo. Diau oedd ganddynt ei fod ef yno, gan ei fod wedi diffeithio trydedd ran yr Iwerddon. A Menw a aeth i'w geisio, ac a'i cafodd yn Esgair Oerfel, yn Iwerddon. A Menw a ymrithiodd yn rhith aderyn, ac a ddisgynodd uwchben gwâl y Twrch, gan geisio dwyn y tlysau oddiarno, ond ni chafodd efe ond un o'i wrych. A'r Baedd a gododd i fynu yn ddigllawn, ac a ysgydodd ei hun nes y sythiodd peth o'i wenwyn ar Menw, ac ni bu ef yn iach o hyny allan.

Ar ol hyny, Arthur a yrodd genhadon at Odgar ab Aedd, brenin Iwerddon, i ofyn am Bair Diwrnach Wyddel, ei faer. Ac Odgar a barodd ei rhoddi iddo, Diwrnach a atebodd, 'Duw a ŵyr, pe byddai ef well o weled un golwg arno, nis cai efe hyny.' A'r cenhadon a ddychwelasant a'r naccâd hwnw ganddynt.

Yna Arthur a gychwynodd, ac ychydig nifer gydag ef, ac a aeth i'w long *Prydwen*, ac a ddaeth i'r Iwerddon, a chyrchu tŷ Diwrnach Wyddel a wnaethant. A gwyr Odgar a welsant eu nifer; ac wedi bwyta ohonynt ac yfed eu digon, Arthur a archodd y pair. A Diwrnach a atebodd, 'Pe'i rhodda i neb, y rhodda i ef ar air Odgar, brenin Iwerddon.'

Wedi iddo eu naccau fel hyn, Bedwyr a gyfododd, ac a afaelodd yn y pair, ac a'i dododd ar gefn Hygwyd, gwas Arthur, yr hwn oedd yn frawd unfam i Gachamwri, gwas Arthur. A'i swydd ef yn wastad ydoedd dwyn pair Arthur, a doddi tân o tano. A Llenlleawg Wyddel a ymaflodd yn Caledfwlch ac a'i goll-yngodd ar ei rod, ac a laddodd Diwrnach Wyddel, a'i wyr. Yna y daeth lluoedd Iwerddon i ymladd â hwynt; ac wedi eu gyru ar ffo, Arthur a'i wyr a aethant i'w llong, a'r pair yn llawn o arian Iwerddon ganddynt. A hwy a diriasant yn nhŷ Llwyddeu, mab Celcoed, yn mhorth' Cerddin, yn Nyfed. Ac yno y mae mesur y pair.

Yna y cynullodd Arthur holl filwyr tair Ynys Prydain, a'i thair rhag-ynys, a'r rhai oedd yn Ffrainc, a Llydaw, a Normandi, a Gwlad yr Haf,¹ a phob gwr traed medrus, a marchog clodfawr. A chyda'r llu hwn, yr aeth efe i'r Iwerddon, lle y bu ofn mawr rhagddo. Ac wedi iddo lanio, daeth saint Iwerddon ato gan ofyn ei nawdd; yntau a roddes nawdd iddynt, a hwythau a roddasant eu bendith iddo yntau. A daeth gwyr yr Iwerddon â bwyd i Arthur. Yna efe a aeth hyd i Esgair Oerfel, yn Iwerddon, lle yr oedd y Twrch Trwyth a'i saith porchell gydag ef. A gollyngwyd y cŵn arno o bob tu; a'r dydd hwnw hyd yr hwyr yr ymladdodd y Gwyddelod âg ef; ac er hyny, pumed ran Iwerddon a wnaeth yn ddiffaeth. Dranoeth, yr ymladdodd gwyr Arthur âg ef; ac er cymaint o ddrwg a gawsant ganddo, ni chawsant ddim da. Y trydydd dydd, yr ymosododd Arthur ei hun arno, ac ymladdodd âg ef am naw nos a naw niwrnod; ac ni laddodd ond un porchell o'i foch. A milwyr Arthur a ofynasant iddo beth oedd dechreuad y Twrch Trwyth. Yntau a ddywedodd, 'Mai brenin ydoedd unwaith, ac i Dduw ei drawsffurfio yn hwch oblegyd ei bechodau.'

Yna Arthur a ddanfonodd Gwrhwr Gwalstawd Ieithoedd i geisio siarad ag ef. A myned a wnaeth Gwrhwr yn rhith aderyn, a disgyn uwchben y wâl lle yr oedd ef a'i saith porchell, a gofyn iddo, 'Er y Gwr a'th wnaeth ar y ddelw hon, os gellwch lefaru, archaf i un ohonoch ddyfod i ymddyddan âg Arthur. A Grugyn Gwrych Ereint (gwrych yr hwn oeddynt fel edafedd arian; a pha un bynag ai ar faes ynte trwy goed y cerddai, gellid ei weled gan fel y disgleiriai ei

¹ *Gwlad yr Haf*.—Mae yn ddiddadl mai Somersetshire presenol, yr hon a elwir Gwlad yr Haf gan y Cymry, a feddylir yma, ac nid 'Gwlad yr Haf a elwir Deffrobani,' y sonir am dani yn Tri 4, yr hon oedd yn ardal Cierwsteyn.

wrych). A'r ateb a roddes Grugyn oedd, 'Myn y Gwr a'n gwnaeth ni ar y ddelw hon, ni wnawn ac ni ddywedwn ni ddim er Arthur. Onid digon o ddrwg a wnaeth Duw ini, yn ein trawsfurfio i'r agwedd hon, heb i chwithau ddyfod i ymladd â ni?' 'Mi a ddywedaf i chwi,' ebe Gwrhŷr, 'ymladd y mae Arthur am y crib, a'r ellyu, a'r gwellaif, y sydd rhwng dwy glust y Twrch Trwyth.' Ebe Grugyn, 'Hyd nes ceir ei fywyd ef yn nghyntaf, ni cheir y tlysau hyny. A bore yforu y cychwynwn ni oddiyma, ac yr awn i wlad Arthur, a chymaint o ddrwg ag a allwn ni a'i gwnawn yno.'

A chychwyna wnaethantar y môr tua Chymru. Acaeth Arthur a'i luoedd a'i feirch, a'i gŵn, i'r llong Prydwen, gan ddisgwyl eu goddiweddyd. A glaniodd y y Twrch yn Mhorth Cleis,¹ yn Nyfed; ac Arthur a ddaeth i Fynyw y nos hono. Dranoeth, dywedwyd wrtho eu bod wedi myned heibio; ac efe a'u goddiwedddodd hwynt tra y lladdynt wartheg Cynnwas Cwrr y Fagyl, ac yr oeddynt cisoes wedi lladd yr hyn oedd yn Aber Gleddyf o ddyn ac anifail cyn i Arthur ddyfod.

Pan ddynesodd Arthur, cychwynodd y Twrch Trwyth oddiyno hyd i Bresselau; ac Arthur a lluoedd y byd a ddaethant hyd yno; ac Arthur a yrodd

¹ *Porth Cleis.*—Y mae gan yr Arglwyddes Gwest sylwadau hynod o ddyddorol ar leoliaeth digwyddiadau y rhan hon o'r Fabinogi. Dywed mai porthladd bychan ond digon adnabyddus ydyw Porth Cleis yn sir Benfro, yn ngenau yr afon Alun. Er nas gall yn awr ond llongau bychain wneud defnydd ohono; yn yr hen amser mynychid ef gan y Gwyddel Ffichti, ac yn ol y Liber Landavensis, parodd un o'r cyfryw, o'r enw Boia, lawer o ofid i Dewi Sant a Theilo Sant. Yn ol traddodiad, yr oedd Dewi yn enedigol o Borth Cleis, a bedyddiwyd ef hefo dwfr sanctaidd yn yr ardal hono. Mynyw, neu Dy Ddewi, ydyw'r lle nesaf a grybwyllir ar ymdaith y Twrch Trwyth; ac oddiyno aeth i Aberdaugleddyf (*Milford Haven*). Wedi gadael y lle hwn ni a'i cawn yn lladd gwartheg Cynwas Cwrr y Fagyl; a thybiwn i hyn ddigwydd mewn lle a elwir eto Kynaston [*Tre Gynwas*], heb fod yn mhell o Arberth. Nodir ei lwybr oddiyno mae yn debyg gan Blaengwaith Noe ab Arthur, ger Llanbedr Felfre, a Buarth Arthur, a'r Gromlech Gwal y Filast neu Fwrdd Arthur, yn mhlwyf Llanboidy, hyd nes y daeth i fynyddoedd Preselau, y brynau uwchaf yn sir Benfro. Yn mhen dwyreiniol y mynyddau hyn, y tardd yr afon Nyfer, neu Nefern, lle y dodwyd y milwyr Prydeinig mewn trefn; ac ar ben Preselau, y bryn uchaf o'honynt, y mae Cwm Cerwyn, lle y gwnaeth y Twrch Trwyth y fath ddinystyr ar filwyr Arthur. Ddwy filldir oddiyma, oesolir enw Arthur yn enw Carn Arthur—craig ysgythrog; a chedwir yn fyw ddigwyddiadau y rhamant hon yn enw y Foel Dyrch gyfagos, a Thre Dyrch, amaethdy gerllaw. Gan adael Mynyddoedd Preselau, a myned trwy Aberteifi, ymddengys y Twrch drachefn yu Nyffryn Llŵchwr (*Loughor*), ar derfynau siroedd Caerfyrddin a Morganwg. Yr un yw Dyffryn Amanw y chwedl a Dyffryn yr afon Amman, yr hon a ymarllwys i'r Llychwr ychydig filldroedd o'r môr. Yn Mynydd Amanw yr ydym yn adnabod y brynau uchel sydd yn ffurfio terfyn naturiol rhwng siroedd Brycheiniog a Chaerfyrddin, ac a elwir y Mynydd Du a Bannau sir Gaer. Ar y mynyddoedd hyn, y mae lle a elwir Gwely Arthur; ac yn agos i'r lle y tardda'r Afon Amman, ceir uchel-dir o'r enw Twyn y Moch, ac wrth ei odrau y mae Llwyn y Moch; ac y mae'n fwy na thebyg fod enw y ddau le yn dal rhyw gysylltiad â'r rhamant hon; a'r un modd yr Afon Twrch, yr hon sydd yn codi yn un o'r Bannau, ac yn ymuno â'r Tawy islaw Ystradgynlais. Digon rhyfedd hefyd ydyw fod afonig yn un ardal yn cael ei galw Echel, a bod Echel Fforddwytwil wedi ei ladd tua'r amser hwn yn nigwyddiadau yr helfa. . . . Yn Ystrad Yw, yr ydym yn cael ein hunain eto mewn llanerchau adnabyddus; ac am hyny, gallwn faentumio fod llwybr y Twrch Trwyth a'i ymlidwyr yn gorwedd ar draws Carn Cafall a Banau Brycheiniog i Aber Gwy. Gelwir un o foelydd y mynyddau hyn eto yn Gadair Arthur; ac y mae un o gymoedd Brycheiniog yn arddel enw un o'r perchyll, sef Cwm Banw.

ei wyr i'w ymlid; Ely, a Thrachmyr, a Drudwyn cenaw Greid ab Eri yn ei law ei hun; a Gwarthegydd ab Caw, mewn cwr arall, a dau gi Glythmyr Ledewig yn ei law yntau. Ac efe a ddododd y milwyr oll mewn trefn oddeutu y Nyfer. A daeth yno dri mab Cleddyf Difwlch, gwyr a gawsant glod mawr wrth ladd Ysgythrwyn Benbaedd. Yna y cychwynodd yntau o Glyn Nyfer ac a ddaeth i Gwm Cerwyn.

A'r Twrch Trwyth a safodd yno, ac a laddodd bedwar o bencampwyr Arthur, sef Gwarthegydd ab Caw, a Tharawc o Allt Clwyd, a Rheidwn ab Eli Affer, ac Iscofan Hael. Ac wedi lladd y gwyr hyny, efe a safodd eilwaith yn yr un lle; ac a laddodd Gwydreu ab Arthur, a Garselit Wyddel, a Llew ab Ysgawd, ac Iscawyn ab Panon; ac archollwyd y Twrch hefyd yno.

Bore dranoeth, bron cyn dydd, ymosododd rhai o'r gwyr arno; ac yna y lladdodd efe Huandaw, a Gogigwr, a Phenpingon, tri gwas Glewlwyd Gafael-fawr, hyd nes, fel y gwyr Duw, nad oedd ganddo was yu y byd ar ei elw ond Llaesgefyn, yr hwn ni wnaeth gymwynas i neb erioed. Ac heblaw hyny, efe a laddodd lawer o wyr y wlad, a Gwlydyn Saer, pen saer Arthur.

Yna Arthur a'i hymlidiodd i Pelumiawc; ac yno efe a laddodd Madawg ab Teithyon, a Gwyn ab Tringad ab Nefed, ac Eiryawn Penllorau. Oddiyno efe a ddaeth i Aberteifi. lle y gwrthasfodd drachefn, ac y lladdodd Cyflas ab Cynan, a Gwilhenhiu brenin Ffrainc. Yna efe a aeth i Glyn Ystu, lle y collwyd ef gan y gwyr a'r cŵn.

Ac Arthur a ddanfonodd am Gwyn ab Nudd i ddyfod ato, ac a ofynodd iddo os gwyddai efe ddim am y Twrch Trwyth. Yntau a atebodd nas gwyddai.

Ac i hela y moch yr aeth yr holl helwyr hyd yn Nyffryn Llychwr. A Grugyn Gwallt Euryn a Llwydawc Gofynyad a ruthrasant arnynt ac a laddasant yr holl helwyr, fel na ddiangodd dyn ohonynt yn fyw ond un gwr. Ac Arthur a'i luoedd a ddaethant i'r lle yr oedd Grugyn a Llwydawc; ac efe a ollyngodd arnynt yr holl gŵn. A chan faint y swm a'r cyfarth, daeth y Twrch i'w cynorthwyo; ac er pan ddaethent tros Fôr Iweddon, nid ymwelsai ef â hwynt cyn hyn. Yna dodwyd gwyr a chŵn i ymosod arno, ac yntau a gerddodd ymaith hyd i Fynydd Amanw, lle y lladdwyd un o'i foch ef. Yna aethpwyd i ymladd âg ef tywyd am fywyd, ac y lladdwyd Twrch Llawin, ac un arall o'i foch, Gwys oedd ei enw. Ar ol hyny, efe a aeth i Ddyffryn Amanw, lle y lladdwyd Banw a Benwic. Nid aeth o'i foch yn fyw gydag ef oddiyno ond Grugyn Gwallt Ereint a Llwydawc Gofynyad.

O'r lle hwnw yr aethant hyd yn llwch Ewin, a goddiweddodd Arthur ef, ac yntau a wrthasfodd. Ac yno efe a laddodd Echel Forddwytwll, ac Arwyli eil Gwydawc Gwyr, a llawer o'wyr a chŵn hefyd. Oddiyno aethant i Lwch Tawy

lle yr ysgarodd Grugyn Gwrych Ereint oddiwrthynt, ac y daeth i Din Tywi ; ac ar ol hyny i Geredigiawn, ac Eli a Thrachwyr gydag ef, a lluaws eraill hefyd. Yna daeth i Garth Gregyn, lle yr ymladdodd Llwydawc Gofynnyad yn eu mysg, ac y lladdodd Rhuddfyw Rhys ac amryw eraill. Wedi hyny, aeth Llwydawc i Ystrad Yw, lle y cyfarfu gwyr Llydaw âg ef, a'r lle hefyd y lladdodd efe Hirpeisiawg, brenin Llydaw, a Llygadrudd Emys, a Gwrbothu, ewythrod Arthur frodyr ei fam. Ac yno y lladdwyd yntau.

Yna'r Twrch Trwyth a aeth rhwng Tawy ac Ewas, ac Arthur a wysiodd holl wyr Cernyw a Dyfneint i Aberhafren, ac a ddywedodd wrth filwyr yr Ynys hon :—' Y Twrch Trwyth a laddodd lawer o'm gwyr ; eithr, myn dewrder y cedyrn, nid aiff i Gernyw. a minau yn fyw. Nid ymlidiaf ef mwyach ; eithr ymladdaf âg ef fywyd am fywyd, gwnewch chwi a fynoch.' Ac efe a yrodd gâd o farchogion, a chŵn yr Ynys ganddynt, i Ewas gyda'r amcan o'i droi tua'r Hafren, lle y gosodwyd milwyr mwyaf profedig yr Ynys hon i geisio ei wthio i'r afon hono.

A cherllaw Hafren, y goddiweddwyd ef gan Mabon ab Modron (ar Gwynn Mygdwn, march Gweddw), a Goreu ab Cystenun, a Menw ab Teirgwaedd, rhwng Llyn Lliwan¹ ac Aber Gwy. A syrthiodd Arthur arno, gyda phencampwyr Prydain. A dynesodd Osla Gyllellfawr, a Manawyddan ab Llyr, a Chacmwri gwas Arthur, a Gwyngelli, gan afael yn nghyntaf yn ei draed, a'i daflu i'r Hafren, nes ydoedd wedi ei lenwi gan ddychryn. Ar y naill ochr, yspardynodd Mabon ab Modron ei farch, a chipiodd yr ellyn oddiarno ; ar yr ochr arall, rhuthrodd Celedyr Wyllt ar farch i'r Hafren, a dygodd y gwellaif oddiarno. Ond cyn iddynt gael y crib, efe a gafodd ei draed ar y lan ; ac wedi iddo gael y tir, nis gallodd na dyn, na chi, na march ei oddiweddyd nes y daeth i Gernyw. Ac er cymaint traferth a gaed yn dwyn y tlysau oddiarno, mwy o lawer a gafwyd yn ceisio achub y ddau wr rhag boddi. Fel y tynid Cacmwri i fynu, tynai dau faen melin ef i lawr i'r dyfnder. Ac wrth i Osla Gyllellfawr redeg ar ol y Twrch, collodd ei gyllell o'r wain, a llanwodd y wain o ddwfr wedi hyny ; ac fel y tynid ef i fynu, y tynai hithau ef i lawr i'r dyfnder.

Oddiyno aeth Arthur a'i luoedd ar ol y Twrch i Gernyw, lle y goddiweddwyd ef. Chwareu oedd y drafferth a gafwyd ganddo cyn hyny wrth a gafwyd

¹ *Llyn Llywan*.—Yn y *Myv. Arch.* ceir a ganlyn am y Llyn hwn :—' Ac ygyt a henny hevyt ef y dywawt bot llyn arall eg Kymru ar glan Hafren. a dynion e wlat hono ae geilw ef llyn Llivan. Ar llyn hwnw pan vo e mor en llenwi, a kymer e dwfyr endaw ac ae llwng megys mynyd. hyt pan el tros eglaneu. Ac ena o danweinai bot nep en sevyll ae wyneb ar e llyn o chyvarfey dim o askellwyrch e dwfyr hwnw ae dillad anhawd vydey idaw emattal hyt na sugnei e llyn ef yndaw. Ac o bydei enteu ae gevyn attaw, yr nesses e bydei idaw nit arkyvedei dim ket bei en sevyll ar y glan.'

yn ceisio y crib. Ond o'r naill helynt i'r llall fe'i cafwyd o'r diwedd; ac ymlid-iwyd yntau o Gernyw, a gyrwyd ef i'r môr ar ei gyfer. Ac ni wybuwyd byth o hyny allan pa le yr aeth, ac Aned ac Aethlem gydag ef. Yna aeth Arthur i'r Gelli Wig, yn Nghernyw, i ymencinio ac i fwrw ei ludded oddiarno.

Ebe Arthur, 'A oes dim eto o'r hynodion heb eu cael?' Ac ebe un o'r gwyr, 'Oes, gwaed y Widdon Orddu, merch y Widdon Orwen, o Bennant Gofid, ar gyffiniau Uffern.' Ac Arthur a gychwynodd tua'r Gogledd, ac a ddaeth hyd y lle yr oedd ogof y wrach. A chyngorwyd ef gan Wyn ab Nudd a Gwythyr ab Greidawl i adael i Gacmwri, a Hygwyd ei frawd, i ymladd â'r wrach. Ac fel yr elent i mewn i'r ogof, rhuthrodd y wrach arnynt yn nghyntaf, gan afael yn Hygwyd gerfydd gwallt ei ben, a'i daro i'r llawr dani. Gafaelodd Cacmwri ynddi hithau gerfydd gwallt ei phen, ac a'i tynodd oddiar Hygwyd i'r llawr. Hithau a droes ar Cacmwri, ac a'u curodd ill dau, a'u diarfogi, a'u gyru allan yn gloffion a diallu.

A llidiodd Arthur wrth weled ei ddau was bron wedi eu lladd, a chychwyn-ai yntau fyned i'r ogof; ond Gwynn a Gwythyr a ddywedasant wrtho, 'Nid gweddus yw i ti ymryson â gwrach. Gad i Hiramreu a Hireiddil fyned i'r ogof.' Hwythau a aethant; ac os drwg fu traferth y ddau gyntaf, gwaeth a fu ar y ddau hyn. Duw a'i gwyr, nis gallai yr un ohonynt fyned o'r lle, ond fel y rhoddwyd y pedwar ar Lamrei, caseg Arthur. Yna rhuthrodd Arthur i ddrws yr ogof, a tharawodd y wrach â Charnwennan, ei gyllell, nes yr holltodd hi yn ddau haner. A Chaw o Ogledd Prydain a gymerodd waed y Widdon ac a'i cadwodd.

Yna y cychwynodd Cilhwch, a Goreu ab Custenyn gydag ef, a'r sawl oedd gan ddrwg ewyllys tuag at Yspaddaden Bencawr, a daethant i'w lys a'r hynodion ganddynt. A daeth Caw o Ogledd Prydain, ac a eilliodd ei farf, a'r cig, a'r croen, oddiwrth yr asgwrn yn llwyr o glust i glust. 'A eilliwyd ti, ddyn?' ebe Cilhwch. 'Do,' ebe yntau. 'Ai fy eiddo i dy ferch yn awr?' Dy eiddo ydyw; ac ni raid iti ddiolch am hyny i mi, eithr diolch i Arthur yr hwn a barodd hyny. O'm bodd i ni chawsit ti hi byth, gan fy mod i o'r herwydd yn colli fy mywyd.' Yna Goreu ab Custenyn a afaelodd ynddo gerfydd gwallt ei ben, a'i llusgodd ar ei ol, a dorodd ymaith ei ben, ac a'i gosododd ar bawl yn y gadlys. A chymerasant feddiant o'i eiddo, ei gastell, a'i drysorau.

Y dydd hwnw, y daeth Olwen yn wraig briod i Cilhwch; a hi a fu yn wraig iddo tra y bu fyw. Ac ymwasgarodd lluoedd Arthur bob un i'w fan. Ac felly y cafodd Cilhwch Olwen ferch Yspaddaden Pencawr.

BREUDDWYD RHONABWY.

MADAWC AB MEREDYDD¹ oedd biau Powys² yn ei therfynau, sef oedd hyny o Porfoed³ hyd Gwanan, yn mlaenau neu ucheldir Arwystli. Ac yn yr amser hwnw, brawd oedd iddo, sef Iorwerth ab Meredydd⁴, yr hwn nid oedd cystal ei

¹ *Madauc ab Meredydd.*—Ydoedd fab i Meredydd ab Bleddyn, tywysog Powys; ei fam ydoedd Hunydd, merch i Ednyfed, pen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd, ac arglwydd Dyffryn Clwyd ac Allington. Olianodd ei dad i ran o dywysogaeth Powys yn 1129, yr hon ran a adwaenir oddiar hyny yn Bowys Fadog, tra y gelwid y rhan arall yn Bowys Wenwynwyn, oddiwrth Gwenwynwyn, wyr i'w frawd Gruffydd. Dywed Powell 'ei fod yn gyfaill beunydd i frenin Lloegr, yn un a ofnai Dduw, ac a gynorthwyai y tlawd;' ond fel y nifer luosocaf o dywysogion Powys, cymerodd blaid y gelyn yn erbyn ei wlad. Ymunodd â'r brenin Harri II. yn ei ymgyrch gyntaf ac afluwyddianus yn erbyn Cymru, ac efe a lywyddai y lynges Seisnig a ymosododd ar Fon, pryd y gorchfygwyd ef gyda cholled fawr; ac ni bu well ei antur wrth ymladd â'i gydgladwyr ar faes Consyllt. Er hyny, coleddid syniadau caruaid a serchog tuag ato gan y beirdd, ac yn ddiau yr oedd llawer o rinweddau tywysogaidd yn perthyn iddo. Clodforid ei ragoriaethau gan Cynddelw a Gwalchmai, gwaith y rhai sydd yn argraffedig yn y *Myv. Arch.* Oherwydd ei gyfathrach Seisnig, preswyliai yn fynych yn Nghaerwynt (*Winchester*), lle y bu farw yn 1159, a chludwyd ei gorph i Meifod, s'r Dre-faldwyn, i'w gladdu yn eglwys St. Mair. Efe a briododd Susanna, merch i Gruffydd ab Cynan, tywysog Gwynedd, o ba un y bu iddo dri mab, sef Gruffydd Maelor, Owain, ac Elise; ac un ferch Marred, gwraig Iorwerth Drwyndwn, a mam Llywelyn Fawr. Bu iddo hefyd dri o feibion eraill, sef Owain Brogyntyn, Cynfrig Efell, ac Einion Efell. Madog a adeiladodd gestyll Croes-osalit, Caereinion ac Overton.—*Enwogion Cymru.*

² *Powys.*—Un o dair talaeth Cymru; y ddwy eraill oeddynt Gwynedd a Deheubarth. Dywed Gwalchmai, yn ei Farwnad i Fudawg ab Meredydd, ei bod yn cyrhaedd yn yr amser hwnw o Gaerlleon i Bumlumon; ond Powell, yn ei Hanes Cymru, a rydd iddi derfynau helaethach fyth. Dywed ef, 'Cyn amser y brenin Offa, yr oedd Powys ar du y dwyrain yn cyrhaedd i'r Ddyfrdwy a'r Hafren, yn nghyda llinell unionsyth o ben Bryniau Brocsen i'r Amwythig, a'r holl wlad rhwng yr Wy a'r Hafren ag oedd yn meddiant Brochwel Ysgythrog; ond ar ol gwneud Clawdd Offa, gan fod y gwastadedd tuag Amwythig yn cael ei breswyllo gan Saeson a Normaniaid, byd Powys ydoedd o Bont Pulford (gogledd-ddwyrainiol) i Langurig yn Ngheredigion (de-orllewinol); a'i lled o fan eithaf Cyfeiliog i Ellesmere. Pan ranodd Rhodri Mawr dywysogaeth Cymru rhwng ei dri mab, syrthiodd Powys i ran Anarawd, ac felly y parhaodd hyd farwolaeth Bleddyn ab Cynfyn. Ar ei ol ef, cwtogwyd hi trwy i'w feibion Meredydd a Chadwgan gael rhanau ohoni; ond yn mhen yspaid, daeth yr oll ohoni i feddiant Meredydd ab Bleddyn, i'r hwn yr oedd dau fab Madawc a Gruffydd, a rhanwyd hi rhwng y ddau hyny.' Y mae'r penill canlynol yn y *Cambrian Quarterly* ar 'Derfynau Arglwyddiaeth Powys':—

O Gefn yr Ais, dur-ais a drig,
O Gaer i Eisteddfa Gurig,
O Garn Gynnull ar Gonwy
Hyd y Rhyd Helig ar Wy.

³ *Porfoed.*—Barna Gwallter Mechain mai Merford, tre ddegwm yn mhlwyf Gresford, yn nwyreinbarth sir Ddinbych, ydyw Porfoed; ac mai un o'r Gweunydd lluosog sydd yn Arwystli, ydyw Gwanan.

⁴ *Iorwerth ab Meredydd.*—Mab i Meredydd ydoedd ef o'i ail wraig, Efa, merch i Bledrws ab Ednywain Bendew, pen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Ei dad a'i cynysgaeddodd

urddas ag ef; a thrallodus ac athrist iawn oedd hwnw wrth weled ei frawd mewn anrhydedd a chyfoeth, ac yntau heb ddim. Ac efe a geisiodd ei gyfeillion a'i frodyr maeth, er mwyn ymgynghori â hwynt pa beth a wnelai am hyny; a hwythau a gawsant yn eu cynglor i ddanfôn rhai o'u nifer a myned i ofyn am fywiolaeth iddo. A Madawc a gynygiodd iddo y swydd o Benteulu, a meirch ac arfau ac anrhydedd cystal a'r eiddo ei hun. Ond gwrthod hyny a wnaeth Iorwerth.

Yna Iorwerth a aeth ar grwydr i Loegr, gan ladd gwyr yn gelaneddau, a llosgi tai, a dal carcharorion. A Madawc a gwyr Powys, wedi ymgynghori, a benderfynasant osod cant o wyr yn mhob un o dri chwmwd Powys er ei geisio. A hwy a wnaethant hyny yn rhyctir Powys, yn Aber Ceiriog,¹ ac yn Allictwn Fer,² ac yn Rhyd Wilure³ ar y Fyrnwy, y tri chwmwd goreu yn Mhowys. Felly nid oedd Iorwerth a'i deulu nemawr gwell o fod yn Mhowys nac yn ei hiseldir-oedd. Ac ymranodd y gwyr hyny yn yr iseldir hyd yn Nillystwn Trefan.⁴

Rhonabwy oedd enw un o'r gwyr yn y cais hwnw. A Rhonabwy, a Cynwrig Frychgoch—gwr o Fawddwy,⁵ a Chadwgan Fras—gwr o Foelfre yn Nghynllaith,⁶ a ddaethant i dŷ Heilyn Goch ab Cadwgan ab Iddon. A phan ddaethant at y tŷ. gwelent hen neuadd bygddu, uchelsyth, a mwg lawer yn dyfod ohoni; ac wedi myned i mewn, gwelent lawr pyllog, anwastad, a bryniog, ac o'r braidd

ag arglwyddiaeth Mochnant; a gelwid ef Iorwerth Goch o Fochnant. Yn 1156, efe a gymerodd blaidd Harri II. yn erbyn ei gymydog Owain Gwynedd; ac yn y rhyfel canlynol, distrywiodd Castell Ial, a godasai Owain ddeng mlynedd cyn hyny. Y mae safle y castell hwn i'w gweld eto ar le o'r enw Tomen Rhodwydd, yn min y ffordd rhwag Rhuthyn a Llangollen. Darfu pleidiaeth Iorwerth i'r Saeson, beri i'w ddau nai, Owain Cyfeiliog ac Owain Fychan, uno eu byddinoedd yn ei erbyn, a bwriasant ef allan o'i drefnadaeth yn Mochnant; a chan ranu ei gyfoeth rhyngddynt, cymerodd y cyntaf feddiant o Uwch Rhaiadr, a'r olaf o Is Rhaiadr. Ar ol hyny, tybir fod Iorwerth wedi ymsefydlu ar y tu Seisnig i Glawdd Offa.

¹ *Aber Ceiriog*.—Lle yr ymarllwys yr afon Geiriog i'r Ddyfrdwy, ychydig islaw Castell y Waen.

² *Alliction*.—Barna G. Mechain mai dyma ydyw Allington.

³ *Rhyd Wilure*.—Yr un awdwr a dybia mai yr un ydyw hon a Rhyd y Forle (*Melverley*), rhyd ar y Fyrnwy heb fod nepell o'r man yr ymarllwys yr afon hono i'r Hafren.

⁴ *Dillystwn Trefan*.—Tebygol mai Halistan Trefan, a elwir yn awr Halston, gerllaw Whittington ('Tre wen yn mron y coed,' Llywarch Hen).

⁵ *Cynwrig Frychgoch*.—Yr oedd yn nghwm rhamantus Mawddwy yn ystod yr 16eg ganrif haid o ladron penffordd o'r enw 'Gwylliaid Cochion Mawddwy,' neu 'Wylliaid y Dugoed.' Cyrhaeddasant fesur eu hanwiredd trwy lofruddio y Barwn Owen, o Hengwrt, mewn lle a elwir Lliidiart y Barwn, pan ydoedd ar ei ffordd i Frawdlys y Trallwm. Bu hyn yn achos iddynt gael eu llwyr ddyfetha. Ai cochion holl Wybed Mawddwy yn yr hen amser, gan fod y Gwylliaid yn gochion a Chynwrig yn frychgoch?

⁶ *Moelfre yn Nghynllaith*.—Treddezwyn yn nghantref y Waen, sir Ddinbych, yn cymeryd ei henw oddiwrth yr afon Cynllaith; a mynydd uuig 1700 troedfedd o uchder yn Nghynllaith dyw Moelfre. Wrth droed y mynydd y mae Llyn Moelfre. Darfu i un o hiliogaeth Madawc ab Meredydd godi palas mewn lle o'r enw Moel Iwrch, ar du deheuol Moelfre, a bu y fan yn mediant ei deulu am lawer canrif.

y gallai dyn sefyll arno, gan mor llithrig ydoedd o buswail a thrwnc gwartheg. Lle y byddai bwl, tros ei fwnwgl yr elai dyn i gymysgedd o ddwfr a thrwnc y gwartheg. A llawer o gangau celyn oedd ar y llawr, a'r gwartheg wedi bwyta eu brig. A phan ddaethant i gyntedd y tŷ, gwelent lanerchau llychlyd a llymion. Ar y naill ochr, hen wrach oedd yn ymdwymo; a phan ddelai anwyd arni, hi a fwriai ffedogaid o us ar y tân, hyd nad oedd yn hawdd i undyn yn y byd oddef y mwg hwnw yn myned i mewn i'w ddwy ffroen. Ar yr ochr arall, gwelent groen dyniawed [llo blwydd] ar y llawr; ac oherwydd aflendid y llawr, yr oedd yn hyfrydwch gan unrhyw un ohonynt gael myned oddiarno i sefyll ar y croen hwnw.

Ac wedi iddynt eistedd, gofyn a wnaethant i'r wrach pa le yr oedd dynion y tŷ; ac ni ddywedai hithau, eithr rhyw fwngialu a wnai. Ac ar hyny, wele bobl y tŷ yn dyfod—gwr coch, gwarfoel, chwimwth, a baich o danwydd ar ei gefn; a gwraig fain, welw, fechan, a cheseiliaid o danwydd ganddi hithau. A lled roesawu y gwyr dyeithr a wnaethant, a chyneu tân o frigau iddynt; a myned i bobi a wnaeth y wraig, a dwyn y bwyd iddynt—bara haid, a chaws, a glasdwr llefith.

Ar hyny, daeth yn dymestl o wynt a gwlaw hyd nad oedd yn hawdd i neb fyned allan; a chan flinder eu taith, teimlo yn ddiffygiol a wnaethant, a cheisio myned i gysgu. A phan edrychasant ar y tyle,¹ nid oedd ond byrwellt llychlyd, chweinllyd, a bonau y gwrysg yn dyfod yn aml trwyddo, gan fod y gwartheg wedi bwyta yr holl wellt oedd wrth y pen a'r traed. Hilyn llwydgoch galedlom, dyllog, oedd ar y tyle; a llenllian fras, dyllog, rwygedig, ar yr hilyu; a gobenydd lledwag, a gorchudd gofudr iddo ar ben y llenllian. Ac wedi cryn ddyoddef oddiwrth y chwain ac anesmwythder eu gwely, trwmgwsg a syrthiodd ar ddau gydymaith Rhonabwy. Ond Rhonabwy, gan nas gallai na chysgu na gorphwys, a dybiodd mai llai poen fyddai iddo fyned ar groen y ddyniawed ar lawr i gysgu. Ac yno y cysgodd.

A chyn gynted ag y daeth cwsg i'w lygaid, efe a freuddwydiodd ei fod ef a'i gydymdeithion yn cerdded ar draws Maes Argyngroeg;² ac oddiyno tebygai eu bod yn myned tua Rhyd-y-Groes, ar Hafren³. Ac fel yr oedd yn cerdded felly,

¹ Tyle.—Glwth (*couch*).

² *Maes Argyngroeg*.—Rhan o ddyfryn Hafren a elwir yn awr Cyngrog. Y mae dwy dre' ddegwm o'r enw hwnw, un yn mblwyf y Trallwm a'r llall yn Guilsfield.

³ *Rhyd y Groes*.—Y mae'r Rhyd hwn yn aros eto, ond er cyn cof neb byw wedi ei droi yn fferi. Saif ychydig islaw Aber-rhiw, neu Berriew. Tua dwy filldir o Rhyd y Groes, y mae fferm o'r enw hwnw, ac ar dir hono lawer o weddillion yr amser gynt, megys Tomenydd, &c. Crybwyllir yn y Brutiau am lawer brwydr a gymerodd le yn Rhyd y Groes rhwng Cymry a Saeson; a dywed Drayton am y fan:

'Here could I else recount the slaughter'd Saxon's gore,
Our swords at Crossford spilt on Severn's wand'ring shore.'

Yn Rhyd y Groes, ger Trefaldwyn, y cyfarfu Llewelyn ab Gruffydd & dirprwyaid Iorwerth I.

clywai dwrf, a chymaint twrf a hwnw nis clywsai erioed; ac wedi edrych drach ei gefn, gwelai wr ieuanc pengrych melyn, a'i farf newydd ei heillio, ar farch melyn ond fod ei ddwy goes o ben ei ddwy lin yn las. A chob o bali melyn oedd am y marchog, wedi ei gyfrododdu âg edafedd glas; a chleddyf eurddwrn oedd ar ei glun, a gwain o gordwal newydd iddo, wedi ei rhwymo â charai ewig, A chlasp o aur arni. A thros hyny, yr oedd llen o bali melyn wedi ei chyfrododdu â sidan glas. A godreunon y llen las, a'r hyn oedd las o wisg y marchog a'i farch oedd cyn lased a dail y ffynidwydd; a'r hyn oedd felyn ohonynt ydoedd cyn felyned a blodeu y banadl. Ac mor ofnadwy oedd ymddangosiad y marchog, fel y daeth ofn arnynt, ac y cychwynasant ffoi ymaith. Yntau a'u hymlioddi. A phan yrai y march ei anadl oddiwrtho, y pellhaent hwythau; a phan dynai ei anadl ato, tynai hwythau hyd ei ymyl. Ac wedi i'r marchog eu goddiweddyd, hwy a ddeisyfasant ei nawdd. 'Chwi a'u cewch yn llawen,' eb efe, 'ac na fydded ofn arnoch.' 'Ha! unben,' ebe Rhonabwy, 'gan iti roddi nawdd imi a ddywedi di pwy ydwyt?' 'Ni chelaf fy hanes rhagot,' eb efe, 'Iddawc ab Mynyo; eithr nid ar yr enw yna y gelwir fi fynychaf eithr wrth fy llysenw.' 'A ddywedi di imi beth yw dy llysenw?' 'Dywedaf: Iddawc Cordd Prydain¹ y'm gelwir.' 'Ha! unben,' ebe Rhonabwy, 'paham y gelwir di felly?' 'Mi a ddywedaf paham. Yr oeddwn yn un o'r cenhadau yn Nghad Camlan² rhwng Arthur a

¹ *Iddawc Corn Prydain.*—Barna awdwr yr *Eminent Welshmen* mai yr un ydoedd yr Iddawc hwn ag Eiddilwc Corr. Sonir am dano yn fynyeh yn y *Triodd*. Gelwir ei gyfarfyddiad ef a Medrawd yn Nanhwynain, 'lle y gwnaethant frad Arthur, ac o hyny cadernyd i'r Saeson yn Ynys Prydain,' yn un o'r tair bradgyfarfod; ac mewn Tri arall dywedir mai Iddawc a 'ddatrin-iwys rin Arthur,' sef trwy hud a lledrith. Brad Gwrgi Garwlwyd a Hud Eiddilic Corr fu yr achos o Gad Gamlan, lle y lladdwyd Arthur. Y mae Dafydd ab Gwilym wedi cynghaneddu y Tri sydd yn gosod Eiddilic Corr yn mhlith gwyr hud a lledrith:—

Tri milwr gynt, trem olud,
A wyddyn' cyn no hyn hud;
Cad brohad ceidw brif enw,
Cyntaf, addfwynaf, oedd Fenw;

A'r ail fydd, dydd da ddeall,
Eiddilic Corr, Wyddel call;
Trydydd oedd ger muroedd Mon,
Maeth, rhwy' arfaeth, rhi Arfon.

² *Cad Gamlan.*—Ymladdwyd y frwydr fileinig hon rhwng Arthur a'i nai Medrawd, mab i Anna, chwaer Arthur, o Llew ab Cynfarch, ar lan afon Camlan, neu Camel fel y gelwir hi yn bresenol, ar derfynau Cernyw a Gwlad yr Haf. Yn ol rhai haneswyr, digwyddodd y gad drych-inebus yn 537; yn ol eraill, yn 542. Y mae cryn amrywiaeth barn hefyd am yr achos ohoni. Yn Tri xl, gelwir hi yn un o'r tair Ofergad, 'a honno a wnaethpwyd o gyfrwysedd Gwenhwylfar, a Gwenhwylfach; ac un o dair Gwrdd Balfawd Ynys Prydain ydoedd yr un a darewis Gwenhwylfach ar Wenhwylfar, ac o achaws hono y bu waith Camlan wedi hyny.' Ond dywed y prif haneswyr mai brad Medrawd, a'i gydystrywiau âg estoniaid yn erbyn ei ewythr dewr a barodd yr alanas ofnadwy. Yn ol Tri 6, Cyf. ii. :—'Triwyr gwarth a fu yn Ynys Prydain:— * * Tryydd, gwaethaf fu Fedrawd, pan edewis Arthur lywodraeth Ynys Prydain ganthaw, pan aeth yntau drwy for yn erbyn Lles, Amberawdr Rhufain, a anfonasai genadau at Arthur hyd yng Nghaer Llion, i erchi teyrnged iddaw o'r ynys hon, ac i wŷr Rhufain, ar y mesur y talpwyd i Gadwallawn fab Beli hyd yn oes Cystenyn Fendigaid, taid Arthur. Sef yr ateb a roddes Arthur i genadau yr amberawdr, nad oedd well y dylai wŷr Rhufain deyrnged i wŷr Ynys Prydain, nag y dylai wŷr Ynys Prydain iddynt hwythau. Cans Brân fab Dyfnwal, a Chystenyn fab Elen, a fasynt amherodron yn Rhufain, a dau wr o'r ynys hon oeddynt. Ac yna y llyuddodd Arthur orddetholwyr ei gyfoeth drwy for yn erbyn yr amberawdr; ac y cyfarfuant y tu hwnt i Fynydd Mynnu; ac aneirif o naddynt o bob parth a las y dydd hwnw. Ac yn y diwedd y cyfarfu

Medrawd ei nai; a gwr ieuanc drygionus oeddwn i y pryd hwnw, ac mor chwanog i frwydr fel y perais derfysg rhyngddynt. Pan y gyrai yr Ymherawdwr Arthur fi i ymresymu â Medrawd, a mynegi ei fod ef yn dadmaeth ac yn ewythr iddo, a deisyf arno ddyfod i heddwch, rhag lladd meibion breninoedd a phendefigion Ynys Prydain, a phan ddywedai Arthur wrthyf y genadwri decaf ar a allai, minau a draethwn y genadwri hono wrth Fedrawd yn y modd hacraf a fedrwn inau. Am hyny y gelwid fi yn Iddawc Cordd Prydain. Ac oherwydd hyn yr ymladdwyd Cad Gamlan; a thair noson cyn gorphen Cad Gamlan, mi a ymadewais â hwynt, ac a ddaethum i'r Llech Las¹ yn Ngogledd Prydain i ddwyn fy mhenyd. Ac yno y bu'm yn penydio am saith mlynedd, a thrugaredd a gefais.'

Ac wele hwy a glywent dwrf oedd fwy o lawer na'r twrf o'r blaen; a phan edrychasant yn nghyfeiriad y twrf, gwelent lanc ieuanc melyngoch, heb na barf na chernflew, a gosgedd bendefigaidd arno. Marchogaeth yr ydoedd ar farch mawr; ac o ben dwy ysgwydd y march ac o'i ddwylin i waered melyn ydoedd. A gwisg o bali coch oedd am y llanc, wedi ei gwnio heto sidan melyn, a godreumon y llen (*scarf*) oedd ar hyny oedd yn felyn. A'r hyn oedd felyn o'i wisg ef a'i farch, cyn felyned ydoedd a blodeu y danadl; a'r hyn oedd goch ohonynt ydoedd cyn goched a'r gwaed cochaf yn y byd.

Ac wele farchog yn eu goddiweddyd, ac yn gofyn i Iddawc a gai efe ran o'r gwyr bychain oedd gydag ef. 'Y rhan a weddai i mi ei rhoddi, mi a'i rhoddaf; ti a gai fod yn gydymaith iddynt fel y buom inau.' Ac wedi hyny, y marchog a aeth ymaith. 'Iddawc,' ebe Rhonabwy, 'pwy oedd y marchog yna?' 'Rhuawn Pebyr ab Deorthach Wledig.'

Yna cerddasant ar draws maes mawr Argyngroeg hyd i Rhyd y Groes ar Hafren. Am am filldir oddiwrth y Rhyd; o bob tu i'r ffordd, y gwelent luesttai a phebyll, ac y clywent dwrw llu mawr. Ac wedi dyfod at lan y Rhyd, gwelent Arthur yn eistedd mewn ynys wastad islaw y Rhyd; a Bedwini Esgob yn eistedd ar y naill ochr iddo, a Gwarthegyd ab Caw ar y llall. A llanc mawr, gwineu, yn sefyll o'i flaen, a'i gleddyf mewn gwain yn ei law, a gwisg a chapan o bali pur-ddu am dano. Cyn wynded oedd ei wynebpryd a'r ifori; cyn ddued ei ddwy ael

Arthur a'r Amherawdwr, ac Arthur a'i lladdawdd: ac yno y llas gorengwyr Arthur. A phan gibleu Fedrawd wahanu nifer Arthur, y dymchwelodd yntau yn erbyn Arthur, ac y dyunawdd Seison, Ffichtiaid, ac Ysgotiaid ag ef, i gadw yr ynys hon; ac yna y bu waith Camlan y rhwng Arthur a Medrawd, ac y lladdawdd Arthur Fedrawd, ac y brathwyd Arthur yn angauol, ac o hyny y bu farw; ac mewn plas yn Ynys Afallach y claddwyd. 'Gelwir Afallach, neu Afallon, yn awr *Glastonbury*, yr hwn a saif yn sir *Somerset*. Daeth Harri II. o hyd i'w weddillion, meddir, ac yn gerffedig ar yr hyn a'u cynwysai, 'Hic jacet Arthurus, rex quondam rexque futurus.' Ymwelwyd â hwynt, a chawsant eu dadgladdu drachefn gan Iorwerth L. a'i frenhines. Bernir mai unig amcan yr ymweliadau hyn oedd argyhoeddi y Cymry fod y brenin yn farw ddigon, gan fod traddodiad yn eu plith y deuai Arthur yn ol i ryddhau ei genedl oddiwrth iau yr estron.

¹ *Llech Las*.—Tybia rhai mai dyma hen enw Glasgow.

a'r muchud (*jet*); a'r hyn a welid o'i arddwrn rhwng ei fenyg a'i lewis, gwynach oedd na'r lili, a ffyrfach na ffêr milwr.

Yna Iddawc, a hwythau gydag ef, a ddaeth gerbron Arthur, ac a gyfarchodd well iddo. 'Duw a roddo dda iti,' ebe Arthur, 'Iddawc, pa le y cetaist ti y dynion bychain hyn?' 'Mi a'u cetais, arglwydd, ar y ffordd i fynu yna.' A'r Ymherawdwr a las wenodd. 'Arglwydd,' ebe Iddawc, 'paham y chwerrddi di?' 'Iddawc,' ebe Arthur, 'nid chwerrthin yr ydwyf, ond gresynu fod dynion mor fychain a'r rhai hyn yn gwarchod yr Ynys hon ar ol i ddynion cystal fod yn ei gwarchod gynt. Yna Iddawc a ddywedodd, 'Rhonabwy, a weli di y fodrwy a'r maen ynnddi sydd ar law yr ymherawdwr?' 'Gwelaf,' eb efe. 'Un o rinweddau y maen ydyw dwyn i dy gôf yr hyn a welaist yma heno; a phe nas gwelsit y maen acw, ni buasit yn cofio dim am y tro hwn.'

Wedi hyny, gwelent fyddin yn dyfod tua'r Rhyd. 'Iddawc,' ebe Rhonabwy, 'pwy biau y fyddin acw?' 'Cymdeithion Rhuawn Pebyr mab Deorthach Wledig ydynt; a'r gwyr acw a gant ddigon o fêdd a bragaŵd yn anrhydeddus, ac a gant garu merched Ynys Prydain yn ddiwarafun. Ac y maent yn teilyngu hyny, canys byddant ar y blaen ac yn yr ol yn mhob perygl.' Ac ni welai ef ond un lliw ar bob march a gwr yn y fyddin—cyn goched oeddynt a'r gwaed; ac os gwahanai un o'r marchogion hyn oddiwrth y fyddin. tebyg a fyddai i golofn o dân yn cychwyn i'r awyr. A'r fyddin hono a babelodd uwchlaw y Rhyd.

Ac ar hyny, gwelent fyddin arall ya dyfod tua'r Rhyd; ac o fronau y meirch i fynu, cyn wyned oeddynt a'r lili, ac oddiyno i waered cyn ddued a'r muchud. A gwelent un marchog yn rhagflaenu y lleill, ac yn yspardynu ei farch i'r Rhyd mor egr nes lluchio dyfr am ben Arthur a'r Esgob, a'r rhai oedd yn y cynghor gyda hwynt nes eu gwneud cyn wlyped a phe buasent wedi eu tynu o'r afon. Ac fel yr oedd efe yn troi pen ei farch, y gwas oedd yn sefyll gerbron Arthur a darawodd y march ar ei drwyn â'i gleddyf gweiniog; a phe tarawsai efe ef felly â'i gleddyf noeth, ni buasai yn rhyfedd pe torasid yr asgwrn yn gystal a'r cig. A'r marchog a dynodd ei gleddyf hyd yr haner o'r wain, ac a ofynodd iddo, 'Paham y tarewaist fy march i? Ai er anmharch ynte er cynghor?' 'Digon rhaid iti wrth gynghor. Beth ddrwg a barodd iti yru mor chwyn, a lluchio dwfr am ben Arthur a'r Esgob cysegredig, ac am ben eu cynghorwyr, nes ydynt cyn wlyped a phe wedi eu tynu o'r afon?' 'Minau a'i cymeraf fel cynghor.' Ac efe a drodd ben ei farch drachefn tua'i fyddin.

'Iddawc,' ebe Rhonabwy, 'pwy ydyw y marchog acw?' 'Y gwr ieuanc mwyaf ffraeth a doeth yn y deyrnas hon—Addaon ab Taliesin.'¹ 'Pwy oedd y

¹ *Addaon neu Afaon*, mab Taliesin Benbeirdd, oedd ryfelwr enwog yn ei ddydd. 'Tri Tharw Unben Ynys Prydain: Elmyr eil Cibddar, Cynhafal fab Argad, ac Afaon ab Taliesin; a

gwr a darawodd ei farch?' 'Gwr ieuanc trawsfoneddig—Elphin ab Gwyddo e'i gelwir.'

Yna llefarodd gwr balch a hardd, ac ymadrodd mawreddog ac eon ganddo, gan ddywedyd fod yn rhyfedd fod llu cymaint a hwn yn ymgynull mewn lle mor gyfyng; a bod yn rhyfeddach eu gweled yno yr awrhon, a hwythau wedi addaw bod erbyn haner dydd yn Mrwydr Baddon,¹ yn ymladd âg Osla Gyllellfawr.² 'A pha un a ddeui di ai peidio, mi a âf.' 'Da y dywedi,' ebe Arthur, 'ninan a awn oll yn nghyd.' 'Iddawc,' ebe Rhonabwy, 'pwy oedd y gwr oedd yn siarad mor aruthr hefo Arthur?' 'Gwr a all siarad mor eon ag y myno âg ef—Caradawg Freichfras³ ab Llyr Merini, ei ben cynghorwr a'i gefnder.'

Yna Iddawc a gymerth Rhonabwy wrth ei ysgil, a'r llu mawr hwnw a gychwynodd, pob byddin yn ei threfn, tua Cefn Digoll.⁴ Ac wedi eu dyfod hyd i

beirdd oeddynt y tri hynn, ac nid oedd a ofnynt yn nghad a brwydr; eithr rhuthraw ynddynt a wnaent, ac nid ofnynt gyflafan.—*Tri* 73. Llofruddiwyd Afaon, trwy frad, gan Llawgad Trwm Bargon. Mewn Tri arall gelwir ef yn un o'r 'Tri Aerfeddogion; sef eu gelwyd felly, am ddarfod dial eu cam oc eu beddeu.' Yn *Englynion y Clywed*, priodolir iddo y ddihareb, 'Ni chël grudd gystudd calon.'

¹ *Brwydr Baddon*.—Dywed Nennius mai hon oedd y ddeuddegfed frwydr, ac un o'r rhai olaf, a ymladdodd Arthur a'r Prydeiniaid yn erbyn y Saeson o tan Cerdig; a chymaint oedd buddngoliaeth y Prydeiniaid, fel y parlyswyd y Saeson am ysbaid. Y mae amrywiaeth barn yn mblith haneswyr am safle Badon. Tybia Camden ac Usher mai y *Bath* bresenol ydoedd; Carte, mai y lle a eilw ef *Baner Down*, yn sir Berk, ydoedd; tra yr hosa yr ail Gildas mai mewn lle o'r enw Mons Badonicus, gerllaw Aber Hafren, y safai.

² *Osla Gyllellfawr*.—Nid oes ond ychydig o hanes yr hen rychor hwn ar gof a chadw ond a welir yn Mabinogi *Cilhwch ac Olwen*, lle y dywedir iddo golli ei fywyd yn yr Hafren wrth ymladd â'r Twrch Trwyth. Tybia'r Arglwyddes Guest, oddiwrth ei enw, mai Sais o waedoliaeth ydoedd.

³ *Caradawg Freichfras* oedd fab i Llyr Merini, tywysog Cernyw, a'i fam oedd Gwen, wyres i Frychan Brycheiniog. Efe oedd prif henadur palas Arthur yn y Gelliwig, yn Nghernyw. Cysylltir âg ef bob amser ddewrder milwrol dial. Crybwyllir am ei enw yn yr unig 'englyn' sydd ar gael o waith Arthur:—

Sef ynt fy Nhri Chadfarchawg
Mael hir a Llyr Llyuddawg
A Cholofn Cymru—Caradawg.

Telir gwarogaeth uchel gan Aneuryn i'w ddewrder ddihafal yn Mrwydr Cattræth; ac yno y syrthiodd gyda dewrion ei wlad. Ei wraig oedd Tegau Eurfron, rhian nodedig am ei thegwch a'i rhinweddau. Yn un o'r *Triodd* gelwir hi yn un o 'Dair Gwenrian Llys Arthur;' ac mewn un arall yn un o 'Diweirferch Ynys Prydain.' Yn y rhamantau Normanaidd, tan yr enw Caradog *Brise Bras*, sonir am dano fel un o brif arwyr y Ford Gron.

⁴ *Cefn Digoll*.—Saif y lle hwn, a gelwir ef hefyd *Hir Fynydd*, yn mhen dwyreiniol sir Drefaldwyn. Digwyddodd aml i frwydr greulawn arno yn yr hen amser, gan yr ystyrid y llecyn yn gadarnfa o gryn nerth. Sonir yn un o'r *Triodd* am ymladdfa a gymerodd le yma rhwng Cadwallawn ac Edwyn, brenin Northumbria, yn gynar yn y seithfed ganrif, pan y lliwiwyd yr Hafren â gwaed o'i tharddiad i'w haber. Yn marwnad Cadwallawn ab Cadfan, cyfeirir at y frwydr hon:—

Ilucet Cadwallawn glodrydd,
Yn ngwarthaf Digoll Fynydd,
Seithnis a seith-gad beunydd.

Tybia Gwallter Mechain mai yn Cefn Digoll y gwnaed y gwrthsafiad olaf gan y Cymru yn erbyn Iorwerth I., pan y gorchfygwyd Madawg ab Llewelyn ab Gruffydd, ac y cymerwyd ef yn garcharor gan Arglwyddi y Cyffiniau. Dywedir hefyd fod Harri VII. wedi gwrsyllu ar y mynydd hwn ar ei ymdaith trwy Gymru i Faes Bosworth.

ganol y Rhyd ar yr Hafren, Iddawc a drodd ben ei farch drach ei gefn, a Rhonabwy a edrychodd ar Ddyffryn Hafren, a gwelai ddwy fyddin hardd yn dyfod tuag at y rhyd. Un fyddin oedd yn wen ddisglaer, a llen o sidan gwyn a godreumon purddu iddi am bob un ohonynt. A phenau gliniau a phenau dwygoes y meirch oedd yn burddu, a gwynion oeddynt oll, namyn hyny. A'u banerau, clauerwynion oeddynt; a blaen pob baner yn burddu.

'Iddawc,' ebe Rhonabwy, 'pa fyddin ydyw yr un burwen acw?' 'Gwyr Llychlyn (*Norway*) ydyw y rhai acw, a March ab Meirchion¹, cefnder i Arthur, yn dywysog arnynt. Ac yn mhellach draw, gwelai fyddin a gwisg burddu am bob un ohonynt, a godreumon pob llen yn glaerwyn, ac o ben dwy goes a dwy lin y meirch yn glaer wyn. A'u banerau, purddu oeddynt, a blaen pob un yn glaer wyn..

'Iddawc,' ebe Rhonabwy, 'pa fyddin ydyw yr un burddu acw?' 'Gwyr Denmarc, ac Edeyrn ab Nudd yn dywysog arnynt.'

A phan oddiweddasant y llu, wele disgynasai Arthur a'i luoedd oedyrn islaw Caerbaddon; a gwelai ei fod ef ac Iddawc yn cerdded yr un ffordd ag Arthur. Ac wedi i'r lluoedd ddisgyn, efe a glywai dwrf a chynhwrf mawr yn eu plith; a'r gwyr oeddynt ar ymyl y llu a symudid i'r canol, a'r rhai fyddent yn y canol a symudid i'r ymyl. Ac ar hyny efe a welai farchog yn dyfod, a gwisg o ddur am dano ac un am ei farch. Cyn wyned oedd y modrwyau a'r lili wenaf, a chyn goched yr hoclion a'r gwaed cochaf. Ac efe a farchogodd yn mhllith y llu.

'Iddawc,' ebe Rhonabwy, 'a fydd i'r llu acw ffoi?' 'Ni ffoes yr Ymherawdwr Arthur erioed. A phe clywsit ti yn dweyd yr ymadrodd, gwae tyddai iti. Ond y marchog a weli di acw, Cai ydyw. Y marchog tecaf yn Llys Arthur yw Cai; a'r gwyr ar ymyl y llu sydd yn brysio i'r canol er mwyn gweled Cai yn marchogaeth, a'r gwyr yn y canol sydd yn ffoi i'r ymyl rhag ofn cael eu hanafu gan ei farch. A dyna yw ystyr y cynhwrf yn y llu.'

Ar hyny, hwy a glywent alw ar Gadwr iarll Cernyw; ac wele yntau yn dyfod, a chleddyf Arthur yn ei law, a llun dwy sarph o aur ar y cleddyf. A phan dynid y cleddyf o'i wain, yr oedd fel dwy fflam o dân i'w gweled yn dyfod o eneauu y seirph; ac am hyny, yr oedd yn anhawdd i neb edrych ar y cleddyf gan mor ddychrynlyd ydoedd. Yna llonyddodd y llu, peidiodd y cynhwrf, a dychwelodd yr Iarll i'r babell.

¹ *March ab Meirchion*. — Marchog urddawl yn Nghernyw. Ei wraig oedd yr anfyddlawn Essyllt; a'i nai oedd Trystan drythyll; a rhwng y ddau hyn bu cyfathrach anweddaidd, a barodd fawr ofid i'r gwr a'r ewythr. Nodir ef yn Tri 68, gyda Geraint ab Erbin a Gwenwynwyn ab Naf, tan y penawd, 'Tri Llynghesawg Ynys Prydain'; 'a chweugain llong gan bob un o'r Llyngesogion, a chweugain llongwyr ym mhob llong.'

‘Iddawc,’ ebe Rhonabwy, ‘pwy oedd y gwr a ddug y cleddyf i Arthur?’
 ‘Cadwr iarll Cernyw; yr hwn wrth ei swydd sydd yn gwisgo ei arfau am y brenin
 yn nydd cad ac ymladd.’

Ar hyny, hwy a glywent alw ar Eirynwych Anrheibyn, gwas Arthur gwr
 garwgoch, anhawddgar, â barf goch o flew sythion ganddo. Wele yntau yn
 dyfod ar farch coch mawr, wedi rhanu ei fwng o bob tu i’w fwnwgl, a swmer
 (*sumpter pack*) mawr a hardd ganddo. Ac efe a ddisgynodd gerbron Arthur, ac
 a dynodd gadair aur o’r swmer, a llen o bali caerog. Yna taenodd y llen, wrth
 bob congl i’r hon yr oedd afal o ruddaur, gerbron Arthur. A chymaint oedd y
 gadair fel y gallai tri milwr yn arfog eistedd ynddi. Gwenn oedd enwy llen; ac
 un o’i chyneddffau ydoedd nas gellid gweled unrhyw ddyd a fyddai arni. tra y
 gallai ef weled pawb. Ac nid arosai un lliw arni byth ond ei lliw ei hun.

Ac Arthur a eisteddodd ar y llen, ac Owain ab Urien yn sefyll ger ei fron.
 ‘Owain,’ ebe Arthur, ‘a chwareui di wyddbwyll (*chess*)?’ ‘Chwareuaf, argl-
 wydd,’ ebe Owain. A’r gwas coch a ddygodd y gwyddbwyll i Arthur ac Owain;
 gwerin (*chessmen*) o aur, a chlawr (*board*) o arian. A dechreu chwareu a
 wnaethant.

A phan oeddynt felly, yn difyrat eu chwareu uwchben y gwyddbwyll,
 gwelent babell wen, a’i phen uwchaf yn goch, a llun sarph burddu ar ben y
 babell. a llygaid rhuddgoch gwenwynig yn mhen y sarph, a’i thatod yn fflam
 goch. Ac wele fachgen ieuanc pengrych, melyn, llygadlas, a’i farf yn dechreu
 tyfu. yn dyfod; a chob ac isgob o bali melyn am dano, a dwy hosan o frethyn
 gwyrddfelyn teneuon am ei draed, ac ar yr hosanau ddwy esgid o ledr brith, a
 byclau o aur ar fynyglau ei draed yn eu cau. A chludo yr ydoedd gleddyf eur-
 ddwrn, trwm, tri-miniog, mewn gwain o ledr du, a swch o ruddaur coeth ar flaen
 y wain. Ac efe a ddaeth i’r lle yr oedd yr Ymherawdwr ac Owain yn chwareu
 gwyddbwyll, ac a gyfarchodd well i Owain. Ac Owain a ryfeddodd fod y llanc
 yn cyfarch gwell iddo ef yn lle i’r Ymherawdwr Arthur. A gwybu Arthur
 feddwl Owain, ac a ddywedodd wrtho, ‘Na fydded rhyfedd genyt i’r llanc
 gyfarch gwell i ti yr awrhon; efe a’m cyfarchodd inau gynau; ac atat ti y mae
 ei neges ef.’ Ac yna ebe’r llanc wrth Owain, ‘Arglwydd, ai trwy dy ganiatad ti
 y mae gweision bychain a llanciau yr Ymherawdwr yn aflonyddu, yn dychrynu.
 ac yn blino dy frain? Ac os nad trwy dy ganiatad, pâr i’r Ymherawdwr eu
 gwahardd.’ ‘Arglwydd,’ ebe Owain, ‘ti a glywi beth a ddywed y llanc; os da
 genyt, gwahardd iddynt.’ ‘Chwareu dy chwareu,’ eb efe. A’r llanc a ddych-
 welodd i’r babell.

Tertynu y chwareu hwnw a wnaethant, a dechreu un arall; a phan oedd-
 ynt ar baner y chwareu, dyma was ieuanc coch, pengrych, gwineu, llygadog,

maintiolus, wedi eillio ei farf, yn dyfod o babell burfelen, ar ben yr hon yr oedd delw llew coch pur. Ac am dano yr oedd cob o bali melyn yn cyrhaedd hyd at feinedd ei fwnwgl. gwedi ei gwnio âg edafedd o sidan coch. A dwy hosan am ei draed o fwcram (*buckram*) gwyn teneu, ac ar yr hosanau yr oedd dwy esgid o gordwal du, a chlaspiâu aur iddynt. Yn ei law yr oedd cleddyf mawr, trwm, tri-miniog, a gwain o groen hydd coch iddo. a swch o aur ar flaen y wain. Ac efe a ddaeth tua'r lle yr oedd Arthur ac Owain yn chwareu gwyddbwyll, ac a gyfarchodd well iddo. A drwg oedd gan Owain ei fod yn cyfarch gwell iddo ef, ond nid oedd Arthur yn malio mwy nag o'r blaen. Yna ebe'r llanc wrth Owain, 'Ai o'th anfodd di y mae gweision yr Ymherawdwr yn gwanu dy Frain, ac yn lladd ac yn blino eraill? Os o'th anfodd, atolyga iddo eu gwahardd.' 'Arglwydd.' ebe Owain, 'gwahardd dy wyr, os da genyt.' 'Chwareu dy chwareu,' ebe'r Ymherawdwr. Yna y dychwelodd y gwas i'w babell.

Y chwareu hwnw a derfynwyd, a dechreuwyd un arall. Ac fel yr oeddynt yn dechreu y symudiad cyntaf ar y chwareu, gwelent heb fod nepell oddiwrth ynt babell frechfelen, y fwyaf a welwyd, a delw eryr o aur ar y babell, a maen gwerthfawr yn mhig yr eryr. A gwelent lanc yn dyfod o'r babell, a gwallt tew, melyn, ar ei ben. Teg a lluniaidd o gorph ydoedd. Llen o bali glas oedd am dano, a gwaell o aur cyn ffyfed a bys mwyaf milwr yn y llen ar yr ysgwydd ddeheu iddo. Am ei draed yr oedd dwy hosan o Totnes teneu, a dwy esgid o gordwal brith, a chlaspiâu aur arnynt. A llanc o bryd boneddigaidd ydoedd; gwyneb gwyn gruddgoch oedd ganddo, a llygaid mawr hebogaidd. Yn ei law yr oedd gwaewffon gref, frithfelen, a'i phen newydd ei hogi; ac ar y waewffon yr oedd baner yn amlwg.

A'r llanc a ddaeth, yn angerddol o lidiog, ac ar duth gyflym, tua'r lle yr oedd Arthur ac Owain yn chwareu uwchben y gwyddbwyll. A hwy a wybuont wrth ei olwg ei fod yn lliidiog. Ac efe a gyfarchodd well i Owain cyn cyrhaedd atynt, ac a ddywedodd fod ei Frain gan mwyaf wedi eu lladd; a bod y rhai nas lladdwyd ohonynt, wedi eu gwanu a'u briwio cyn gymaint fel nas gallai yr un ohonynt ymgodi un gwryd oddiwrth y ddaear. 'Arglwydd,' ebe Owain, 'gwahardd dy wyr.' 'Chwareu, os myni,' ebe yntau. Yna ebe Owain wrth y llanc, 'Dos yn ol, a'r lle y gweli y frwydr galetaf, cyfod y faner i fynu, ac a fynd Duw, bydded.'

A'r llanc a gerddodd rhagddo hyd y lle yr oedd galetaf y frwydr ar y Brain, ac a ddyrchafodd y faner; ac fel y gwnai ef hyny, cyfodasant hwythau i'r awyr yn angerddol o lidiog, ac yn falch o gael gwynt tan eu hadenydd a bwrw eu lludded oddiarnynt. Ac wedi adenill eu nerth, a chael buddugoliaeth, yn ddigllawn a gorawyddus y disgynasant yn nghyd i lawr am ben y gwyr a baras-

ent wae, a gofid, a cholled iddynt cyn hyny. Penau rhai a ddygent, llygaid eraill, a chlustiau eraill, a breichiau eraill, gan eu cyfodi i'r awyr. A chynhwrf mawr oedd yn yr awyr, gan rugldrwt esgyll a chlegar y Brain; a chynhwrf mawr arall gan riddfanau y gwyr yn cael eu brathu, a'u hanafu, a rhai yn cael eu lladd.

A rhyfedd a fu gan Arthur a chan Owain uwchben y gwyddbwyll pan glywsant y cynhwrf. A phan edrychasant, gwelent farchog ar farch gwelwlas yn dyfod atynt. Lliw rhyfedd oedd ar y march gwelwlas. Coch pur oedd yr ysgwydd ddeheu iddo; ac o ben ei goesau hyd ganol ewinedd ei garn ydoedd felyn pur. Y marchog a'i farch oeddynt wedi eu llawn arfogi âg arfau trymion, estronol. Hulyn y march o'r agorfa blaen iddo i fynu oedd o syndal coch pur, ac o'r agorfa i waered yn syndal (*sendal*) melyn pur. Cleddyf eurddwrn, mawr, uu min, oedd ar glun y llanc, mewn gwain newydd o las pur, a swch ar y wain o lattwn yr Ysphaen (*Spanish laton*). Gwregys y cleddyf oedd o gordwal glasddu, ac ochrau goreuraidd iddo a gwaell o ifori arno, a chlasp purddu ar y waell. Helm o aur oedd am ben y marchog, a meini mawr gwyrthiol a gwerthfawr ynddi; ac ar ben yr helm delw llewpart fflamgoch, a dau faen rhuddgochion yn ei safn, fel mai dychrynlyd oedd i filwr, er cadarned fyddai ei galon, edrych yn ngwyneb y llewpart, chwaithach yn ngwyneb y marchog. Bidog las hirdrom oedd yn ei law, yr hon oedd o'r dwrn i fynu yn rhuddgoch gan waed y Brain a'u pluf.

A'r marchog a ddaeth tua'r lle yr oedd Arthur ac Owain uwchben y gwyddbwyll; a hwy a wybuant ei fod yn lluddedig, yn lliogi, a blin, yn dyfod atynt. A'r llanc a gyfarchodd well i Arthur, ac a ddywedodd fod Brain Owain yn lladd ei weision bychain a'i lanciau. Ac Arthur a edrychodd ar Owain ac a ddywedodd, 'Gwahardd dy Frain.' 'Arglwydd,' ebe Owain, 'Chwareu dy chwareu.' A chwareu a wnaethant. A'r marchog a ddychwelodd drachefn tua'r frwydr, ac ni waharddwyd y Brain mwy na chynt.

Ac wedi iddynt chwareu dalm o amser, clywent gynhwrf mawr, a griddfanau dynion a chlegar Brain yn dwyn y dynion yn eu nerth i'r awyr, ac yn eu llurgynio rhyngddynt, ac yn eu gollwng yn ddarnau i'r llawr. Ac oddiwrt h y cynhwrf, gwelent farchog yn dyfod ar farch gwynwelw; a choes flaen aswy y march yn ddu pur hyd ganol y carn. Y marchog a'r march oeddynt yn llawn arfog o arfau mawrion, trymion a gleision. Gwisg oedd am dano o bali caerog melyn, a godreun y wisg yr las. Hulyn y march oedd yn ddu pur, a'i odreun yn felyn pur. Ar glun y llanc yr oedd cleddyf hirdrom, triminiog, a gwain o ledr coch garw iddo. Gwregis newydd o groen carw coch oedd ganddo, a throstre (*slides*) mynych o aur arno, a gwaell o asgwrn morfil a bwel du pur. Helm

euraidd oedd am ben y marchog, a meini saphir rhinweddol ynddi. Ar ben yr helm, yr oedd delw llew melyngoch, a'i dafod fflamgoch droedfedd allan o'i safn; a llygaid rhuddgochion, gwenwynig, oedd yn ei ben. Ac yn llaw y marchog yr oedd gwaewffon onen fawr, pen yr hon oedd newydd ei wlychu mewn gwaed, a gorchuddiedig âg arian ydoedd.

A'r llanc a gyfarchodd well i'r Ymherawdwr: 'Arglwydd,' eb efe, 'ai diystyr genyt fod dy lanciau, a'th weision bychain, a meibion pendefigion Ynys Prydain wedi eu lladd, hyd na bydd yn hawdd gwarchod yr Ynys hon byth o heddyw allan.' 'Owain,' ebe Arthur, 'gwahardd dy Frain.' 'Arglwydd,' ebe Owain, 'chwareu y chwareu hwn.'

Darfod a wnaeth y chwareu hwnw, a dechreuwyd un arall; a phan oedd-ynt ar ddiwedd y chwareu hwnw, wele! hwy a glywent gynhwrf mawr, a gridd-fanau gwyr arfog, a chlegar brain a thrwst eu hesgyll yn yr awyr, fel yr oeddynt yn gollwng yr arfau yn gyfain, a'r gwyr a'r meirch yn ddarnau, i'r llawr. Yna gwelent yn dyfod farchog ar farch penuchel, o liw du. A phen y goes aswy i'r march yn goch pur, a'i goes flaen ddeheu hyd ganol y carn yn glaer wyn. A'r marchog a'i farch oeddynt yn arfog o arfau brychfelynyon, wedi eu bwrho â lattwn Ysbaen. A'r wisg am dano ef ac am dan ei farch oedd yn ddau haner, gwyn a du pur, a godreun y wisg o borphor euraidd. Ac ar uchaf y wisg, yr oedd cleddyf eurddwrn gloew, triminiog. Gwregis y cleddyf oedd o eurllyn melyn, a gwaell purddu arno o amrant morfarch, a bwel o aur melyn ar y waell. Helm loyw oedd am ben y marchog, a lattwn melyn a meini crisial gloyw ynddi; ac ar ben yr helm llun aderyn y griff (*griffin*), a maen rhinweddol yn ei big. Yn llaw y marchog yr oedd gwaeywffon onen, flaengron, wedi ei lliwio â lliw yr awyr las, a'i britho âg arian coeth, a'i phen newydd ei wlychu mewn gwaed.

A'r marchog a ddaeth yn lliidiog i'r lle yr oedd Arthur, ac a ddywedodd fod y Brain wedi lladd ei deulu a meibion pendefigion yr Ynys hon; a chan erchi iddo beri i Owain wahardd ei Frain. Ac Arthur a archodd i Owain eu gwahardd. Yna Arthur a wasgodd y werin aur oedd ar y clawr nes oeddynt oll yn llwch. Ac Arthur a barodd i Wres ab Rheged ostwng ei faner, ac yntau a'i gostyngodd, a thangnefeddwyd pob peth.

Yna gofynodd Rhonabwy i Iddawc pwy oedd y triwyr cyntaf a ddaethant at Owain, gan ddywedyd fod ei frain yn cael eu lladd. Ebe Iddawc, 'Gwyr yr oedd yn ddrwg ganddynt fod Owain yn cael colled; cyd-unbenaethiaid âg ef, a chydymdeithion—Selyf ab Cynan Garwyn o Bowys, a Gwgawn Gledyfrudd,¹ a

¹ *Gwgawn Gledyfrudd*.—Awgryma ei enw mai milwr gwaedlyd oedd y Gwgan hwn. Nid oes ond ychydig o'i hanes ar gael. Crybwyllir am ei farch *Bucheston yn Nhrïoedd y Merch*; a nodir ei fod yn un o'r tri 'ysgymydd aerau,' neu rwystrwyr brwydrau. Yn ol Tri lxvi., yr oedd efe yn un o 'borthorion gwei th Perllan Fangor,' neu yn un o gadwylwyr y frwydr hono.

Gwres ab Rheged, y gwr a gludai y faner yn nydd brwydr ac ymladd.' 'Pwy,' ebe Rhonabwy, 'oeddynt y triwyr diweddaf, a ddaethant at Arthur i ddywedyd wrtho fod y Brain yn lladd ei wyr?' 'Y gwyr goreu a dewraf,' eb Iddawc, 'a gofidus ganddynt fod Arthur yn cael ei golledu o ddim—Blathaon ab Mawrtheth, a Rhufawn Pebyr ab Deorthach Wledig, a Hyfeidd Unllenn.'

Ac ar hyny, wele bedwar marchog ar hugain yn dyfod oddiwrth Osla (Gyll-ellfawr i ddeisyf cadysbaid (*truce*) gan Arthur am fis a phythefnos. Ac Arthur a gyfododd gan fyned i gymeryd cynghor. Ac efe a ddaeth tua'r lle yr oedd gwr mawr, pengrych, gwineu, ac yuo dygwyd ei gynghorwyr ato. Bedwini Esagob, a Gwarthegydd ab Caw, a March ab Meirchion, a Charadog Freichfras, a Gwalchmai ab Gwyar, ac Edeyrn ab Nudd, a Rhufawn Pebyr ab Deorthach Wledig, a Rhiogan fab Brenin Iwerddon, a Gwenwynwyn ab Naf, a Hywel ab Emyr Llydaw, a Gwilym ab Rhwyf Ffrainc, a Daned ab Oth, a Goreu ab Custenyn, a Mabon ab Modron, a Pheredur Paladr Hir, a Heneiddwn Llenn, a Thwrch ab Peryf, a Nerth ab Cadarn, a Gobrwy ab Echel Forddwydtwll, a Gweir ab Gwestyl,¹ a Gadwy ab Geraint, a Thrystan ab Tallwch,² a Morien Manawg, a Granwen ab Llyr, a Llacheu ab Arthur,³ a Llawfrodedd Farfawg, a Chadwr iarll Cernyw, a Morfran eil Tegid, a Rhyawd ab Morgant, a Dyfyr ab Alun Dyfed, a Gwrhryr Gwalstawd Ieithoedd, ac Addaon ab Taliesin, a Llary ab Casnar Wledig, a Fflewdrwr Fflam, a Greidiawl Galldofydd, a Gilbert ab Cadgyffro, a Menw ab Teirgwaedd, a

¹ *Gweir ab Gwestyl*.—Crybwyllir amrai o'r enw Gweir yn Cillwch ac Olwen; ond tuedda rhai i feddwl mai yr un ydyw yr Ab Gwestyl yma a'r Gwefyl ab Gwestad y sonir am dano yn y Fabinogi hono—yr hwn 'y dydd y byddai drist, a ollyngai y naill wefi i lawr at ei fogail, tra y byddai'r llall fel penguwch am ei ben.' Ac y mae beirdd yr Oesau Canol yn cyfeirio ato fel esiampl o brudd-der. Llywarch Brydydd y Moch, yr hwn oedd yn ei flodeu yn y 13eg ganrif, yn ei farwnad i Hywel ab Gruffydd, wrth son am alar y cyfeillion ar ei ol a ddywed:—

Ner trymder tromgad diwestyl
Neu gwneir vegys GWEIR VAB GWESTYL.

Ac Einion Wan, yn ei farwnad i Fadawg am Gruffydd Maelor, a gyffelyba ei hun i 'Gwr a wneir fal Gweir fab Gwestyl.'

² *Trystan ab Tallwch*.—Nid oes dim llai na saith o'r *Trioedd* yn cyfeirio at yr hen arwr hwn. Yn Tri 32, gelwir ef yn un o 'Dri Gal Ofydd Ynys Prydain—a braint iddynt nis gellid a elai yn ei herbyn lle bynag y mynynt yn Ynys Prydain, hyd nad elynt yn ammrawd.' Dywodir ef hefyd fel un o'r 'Tri thaleithawc cad,' ac un o'r tri chyndynnawc. Yn Tri 101, rhestrir ef gyda Pryderi ab Pwyll a Coll ab Collfrewi fel y tri gwrddfeichiad [gwarchodwyr moch]; ac yn Tri 102, fel un o'r tri serchogion. Cyfeirir mewn lle arall ato fel un o dri 'gogyfurdion Llys Arthur,' tra nad anghofir nodi hefyd ei garwriaeth anghyfreithlawn ag Easyllt, gwraig ei ewythr March ab Meirchion. Chwery ran bwysig yn y rhamantau Ffrengig a Seisnig tan yr enw Sir Tristrem.

³ *Llacheu ab Arthur*.—Cysylltir ei enw ef yn y Tri 70, gyda Gwalchmai ab Gwyar a Rhiwallon Wallt Banhadlen, fel 'Tri Deifnogion [athronwyr] Ynys Prydain;' 'ac nid oedd nas gwpynt ei ddefnydd a'i ddeifnogaeth, ai o ryw ai o rann, ai o ansawdd ai o gyfansawdd, ai o ddychymmod ai o ddychymmyg, ai o anian ai o aniad y byddei.' Dywedir iddo gael ei ladd yn mrwydr Llongborth.

Gwrthmwl Wledig,¹ a Cawrdaf ab Caradawg Freichfras, a Gildas ab Caw, a a Chadyriaith ab Saidi, a llawer a wyr Llychlyn a Deumarc, a llawer o wyr Groeg gyda hwynt, a digon o lu a ddaeth i'r cynghor hwnw.

'Iddawc,' ebe Rhonabwy, 'pwy oedd y gwr gwineu y daeth Arthur ato?' 'Rhun ab Maelgwyn Gwynedd, gwr y mae yn fraint i bawb a ddelo i'r un cynghor ag ef.' 'Paham y dygwyd gwas mor ieuanc a Chadyriaith ab Saidi i gynghor gyda gwyr mor urddasol a'r rhai acw?' 'Am nad oes yn Mhrydain wr doethach mewn cynghor nag ef.'

Ar hyny, wele feirdd yn dyfod, ac yn datganu cerdd i Arthur, ac nid oedd un dyn a ddeallai y gerdd hono ond Cadyriaith, ond eu bod yn gwybod mai moliant i Arthur ydoedd.

Ac ar hyny, wele bedwar asyn ar hugain, yn dwyn pynau o aur ac arian, yn dyfod, a gwr lluddedig a blin hefo pob un ohonynt, yn dwyn teyrnged i Arthur o Ynysoedd Groeg. Ac anogodd Cadyriaith ab Saidi roddi cadysbaid i Osla Gyllellfawr hyd yn mhen pythefnos i mis, a rhoddi yr asynod a ddaeth a'r deyrnged a'r hyn oedd arnynt, i'r beirdd yn lle gwobr ymaros; a chynghorodd hefyd eu bod yn cael tâl am eu canu. Ac felly y gwnaeth.

'Rhonabwy,' ebe Iddawc, 'onid cam â gwas ieuanc, a all roddi cynghor mor odidog a hwn fyddai gwarafun iddo fyned i gynghor ei arglwydd?'

Yna Cai a gyfododd ac a ddywedodd. 'Pwy bynag a fyn ganlyu Arthur, bydded heno yn Nghernyw gydag ef; a'r hwn ni fyn, bydded yn erbyn Arthur, hyd yn nod yn ystod y cadysbaid.' A chan faint y cynhwrf a achosodd hyn, Rhonabwy a ddeffrodd; ac wedi deffro, yr ydoedd ar groen y ddyniawed felen, ac wedi cysgu teirnos a thridiau.

A'r ystori hon a elwir BREUDDWYD RHONABWY. A dyma yr achos na wyr neb y Breuddwyd, na bardd na gwr cyfarwydd, heb lyfr; gan fod cynifer o liwiau ar y meirch, a'r fath amrywiaeth godidog o liwiau ar yr arfau a'r gwisgoedd, ac ar y llenau, a'r meini rhinweddol.

¹ *Gwrthmwl Wledig*.—Tywysog yn Ngogledd Prydain. Efe oedd y pen-hynaif (*chief-elder*) yn Penrhyn Rhionydd, fel yr oedd Caradawg Freichfras yn Nghelliwig yn Nghernyw, a Maelgwn Gwynedd yn Nghaerleon ar Wysg. Gellir casglu iddo farw trwy law Maelwr o'r Rhiw neu Allt Faelwr, yn Ngheredigion; a dialodd tri mab Gwrthmwl angau eu tad trwy ladd ei lofrudd. Cofnodir yn Tri 94, fod Tarw Gwrthmwl Wledig yn un o dri 'Tharw Ellyll Ynys Prydain.' Ac yn ol *Beddeu y Milwyr*, yn Nghelli Friafael y mae bedd Gwrthmwl.

BRANWEN FERCH LLYR.

[BRANWEN ydyw un o'r rhianod mwyaf swynol sydd gan chwedloniaeth Gymreig ar ei belw. Y mae ei gwaedoliaeth uchel, ei phrydferthwch personol, a'i haml a'i dygn ofidiau, yn cyfuno i'w gwneud yn gymeriad neillduol o serchog a dyddorol. Cyfeiria beirdd yr hen oesau yn fynych ati, ac nid yw yn debygol y buasai'r serchfardd Dafydd ab Gwilym yn ei hannghofio. Cydmara Morfudd yn un lle iddi :—

Llariaidd yw llun bun befyr,
A'i lliw fel Bronwen ferch Llyr

Geilw y Trioedd y ddyrnod a roddes Matholwch Wyddel iddi yn un o 'Dair Engir Balfawd Ynys Prydain.' Yn y rhamantau Ffrengig, gelwir hi Brangwaine, a Matholwch yn Morholt; ond y mae cymeriad y naill a'r llall yn dra gwabanol i'r hyn ydynt yma. Yn un o'r hen Trioedd, dywedir, 'Tair Barddes breninol Ynys Prydain: Eigau ferch Peredur hen, Branwen ferch Llyr Llediaith, a Mawen ferch Beli Mawr ab Manogan; a chyn amser Cred y buant.' Yn y flwyddyn 1813, gwnaed darganfyddiad mewn cysylltiad â Bedd Branwen, sydd yn profi fod rhai, beth hynag, o ddigwyddiadau y rhamantau hyn wedi eu sylfaenu ar ffaith. Yn 1821, ymddangosodd gohebiaeth yn y *Cambro Briton* t.d. 71, gan Syr R. C. Hoare, ar awdurdod Richard Fenton, Ysw., o Abergwaun, lle y dywedir fod amaethwr ar lan yr afon Alaw, yn Mon, mewn angen ceryg i adgyweirio rhai o'i dai allan, a chan ei fod wedi sylwi ar rhyw geryg yn sefyll allan o'r ddaear mewn lle cyn a elwid Ynys Bronwen, tueddwyd ef i'w defnyddio. Wedi symud y tywyrch, daeth at bentwr neu garnedd; ac o tan y rhai hyny, cafodd gist wedi ei gorchuddio & llechi geirwon. Ar ol symud y caud, canfu ystên o glai haner-crasedig oddeutu troedfedd o uchder, a'i gwyneb yn isaf, yr hon oedd yn llawn o ludw ac esgyrn wedi haner malurio. Daeth y darganfyddiad yn fuan i glustiau offeiriad y plwyf, ac offeiriad arall o'r ardal, y rhai oeddynt yn gydnabyddus â hen hanes y Cymry, a phenderfynasant nad ydoedd yn ddim angen na'r 'Bedd petrunal a wnaed i Bronwen ferch Llyr ar lan Alaw,' a'r esgyrn ond gweddillion y rhian brydferth y 'diffeithiwyd dwy ynys o'i hachos.' Ymwelodd Mr. Fenton â'r lle, a gwelodd y bedd, yr ystên a'i chynwys; ac felly y mae y darganfyddiad wedi ei wirio gan lygad-dyst hybarch a threiddgar. Danfonwyd yr ystên a'i chynwys i'r Amgueddfa Brydeinig, a bu yr enwog Profeswr Owen yn archwilio ac yn dadansoddi y malurion. 'Perthynai y rhai hyn,' meddai, 'i fenyw wedi, neu bron a, thyfu i synu, ac y maent o gorph a losgwyd. Nid yw y tân wedi effeithio ar un rhan o'r penglog.' Ond er gwaethaf y gyd-dystiolaeth gref hono, myn y beirniaid gwyddonol annheuen neu wadu yr honiad mai esgyrn Bronwen deg oedd y gweddillion. Gwir fod Profeswr Ramsay yn derbyn yr hanes fel ffaith; ond honai yr Anrhyd. William Owen Stanley fod y bedd yn llawer hŷn na dyddian Bronwen; barnai Mr. Franks o'r *British Museum*, fod yr ystên yn llawer diweddarach; tra y gwadai General Lane Fox fod un cysylltiad rhwng Branwen â'r Bedd ar lan yr Alaw. Y mae'r pwnc yn rhy eang i'w ddadleu yma, ond ymdengys y negyddol yn wan, a'r cadarnhaol yn gryf.]

BRAN FENDIGAID ab Llyr¹ oedd frenin coronog yr Ynys hon, ac ardderchogid ef â choron Llundain. Ar un prydawngwaith, yr oedd efe mewn llys iddo yn

¹ *Bran ab Llyr*.—Yn ol chwedloniaeth a thraddodiadau Cymreig, efe a ddygodd Efengyl Crist gyntaf i Ynys Prydain; ac am hyny y gelwir ef Bran Fendigaid. Cymerwyd Bran yn garcharor i Rufain gan y Ceisariaid fel gwystl rhyfel tros ei fab Caradog (yr enwog *Caractacus*),

Harddlech¹, yn Ardudwy; ac yn eistedd ar Graig Harddlech, uwchben y weilgi. A Manawyddau ab Llyr, ei frawd, oedd gydag ef, a dau frawd unfam âg ef—Nissyen ac Efnissyen—a phendefigion eraill gweddaidd i fod o gylch brenin. Ei ddau frodyr unfam âg ef, meibion oeddynt i Eurosswydd,² o'i fam yntau—Penarddun ferch Beli ab Manogan.³ Y naill o'r gweision hyny, gwas da ydoedd, ef a barai dangnefedd rhwng ei deulu pan y byddent lidiocaf, sef oedd hwnw Nissyen. Y llall a barai ymladd rhwng ei ddau frawd pan fyddai fwyaf eu cariad.

Ac fel yr oeddynt yn eistedd felly, hwy a welent dair llong ar ddeg yn dyfod o Ddeheu Iwerddon, ac yn cyrchu tuag atynt, gan ddyfod yn gyflym—y gwynt o'u hol ac yn eu neshau yn ebrwydd. 'Mi a welaf longau acw,' ebe'r brenin, 'ac yn dyfod yn gyflym tua'r tir; erchwch i wyr y llys wisgo am danynt, a myned i edrych beth yw eu bwriad.' A'r gwyr a wisgasant eu harfwisgoedd, ac a aethant i waered tuag atynt; ac wedi gweled y llongau o agos, diau oedd ganddynt na welsent longau wedi eu dodrefnu yn well na hwynt. Hwyliau heirdd a gweddus o bali oedd arnynt. Ac ar hyny, wele un o'r llongau yn rhagflaenu y lleill; a gwelent ddyrchafu tarian yn uwch na bwrdd y llong, a swch y darian tuag i fynu, yn arwydd tangnefedd. A neshoedd y gwyr atynt fel y gallent eu clywed yn ymddyddau. A bwrw badau allan a wnaethant, a dyfod i dir, a chyfarch gwell i'r brenin. A'r brenin a'u clywai o'r lle yr ydoedd ar graig

lle y bu am yspaid saith mlynedd. Yno daeth yn gydnabyddus â rhai o'r Cristionogion boreuol—Paul, medd rhai—a choffeidiodd y ffydd yn Nghrist. Pan ollyngwyd ef yn rhydd, dygodd y 'Newydd Da,' i'w gydwladyr paganaidd, fel y gelwir y derwyddon. Dynagnewyllyn y traddodiadau; a chadarnheir hwynt, mewn un ystyr, gan y sicrwydd fod y Cymry wedi derbyn Cristionogaeth yn dra bore, fel y prawf eu hen ddiarhebion, megys 'Da yw'r maen gyda'r Efenfyl,' &c. O'r ochr arall, gwrthddywedir hyn gan haneswyr fel Tacitus a Dion Cassius; ac y mae yn ayndod na buasai ffaith mor bwysig yn mywyd Brau wedi ei hawgrymu neu ei lledgrybwyll yn y Fabinogi ardderchog hon. Cyfeirir yn fynych yn ngwaith yr hen feirdd at rai o ddigwyddiadau Mabinogi *Branwen*. Yn 'Kerdt am Veib Llyr ab Brychwel Powys,' yr hon a briodolir i Taliesin, dywedir:—

'Bum i gan Vran yn Iwerddon
Gweleis pan laddwyd morddwyd tyllon.'

Ac yn Tri 35, rhestrir cuddiad y pen fel un o 'Dair Cudd a Datgudd Ynys Prydain,' 'Cyntaf, penn Bendigaid-fran ab Llyr, a guddiodd Owain ab Maccen Wledig yn y Gwynfryn yn Llundain; a thra bai yn hyny o ansawdd ni ddelai Ormes i'r Ynys hon. * * Ac Arthur a ddatguddiaudd Benn Bendigeid-fran fab Llyr, can mai bach oedd ganddaw gadw yr Ynys namyn oi gadernyd ei hun.' Gweler ychwaneg o hanes Bran yn *Enwogion Cymru*.

¹ *Harlech*.—Saif yr hen ddinas fechan gaerog hon ar fin y môr, yn nghyffiniau Dyffryn Ardudwy, yn ngbwr gogledd-dwyreiniol sir Feirionydd. I'r hanesydd Cymreig nid oes odid lecyn mwy dyddorol. Yn yr amser gynt, gelwid y gaer yn Twr Bronwen; ac hefyd Caer Gollwyn, ar ol Collwyn ab Tanguo, pen un o Bumtheg Llwyth Gwynedd. Heb fod nepell o Harlech y safai Cantre'r Gwaelod, yr hwn a orlifwyd gan y môr yn amser Gwyddno Garanhir.

² *Eurosswydd*.—Nid oes amheuaeth gan yr Arglwyddes Guest nad yr un ydyw Eurosswydd a'r cadfridog Rhufeinig Ostorius, yr hwn a ddug yn ngharchar Llyr Llediaith a'i deulu, yn cynwys Bran a Charadawg. Ac y mae un o'r *Triodd* yn tueddu i gadarnhau y dybiaeth:—'Tri goruchel garcharawr Ynys Prydain, Llyr Llediaeth yng Carchar Eurosswydd wledig.'

³ *Beli ab Manogan*, neu fel yr adwaenir ef oreu, Beli Mawr. Bu yn teyrnasu ar Brydain am ddeugain mlynedd; dilynwyd ef gan ei feibion Lludd a Chaswallawn (*Cassivelaunus*).

uchel uwch eu pen. 'Duw a roddo dda i chwi,' eb efe, 'a chroesaw i chwi. Pwy biau y nifer llongau hyn, a phwy sydd ben arnynt?' 'Arglwydd,' ebynt hwy, 'yma y mae Matholwch, brenin Iwerddon, ac efe a biau y llongau.' 'Beth,' ebe y brenin, 'a fyn efe—ai dyfod i dir?' 'Na fyn, arglwydd,' ebynt hwy, 'neges sydd ganddo atat ti; ac ni ddaw i dir, oni chaiff ei neges.' 'Pa ryw neges sydd ganddo?' ebe'r brenin. 'Dymunai ymgyfathrachu â thi,' ebynt hwy, 'i ofyn am Branwen ferch Llyr y daeth efe; ac os da genyt ti, ef a fynai rwy mo Ynys y Cedyrn ac Iwerddon yn nghyd fel y byddont gadarnach.' 'Ie,' ebe yntau, 'deued i dir, a ninau a gymerwn gynghor am hyny.' A'r ateb hwn a ddygwyd i Fatholwch. 'Mi a af yn llawen,' eb efe. Ac efe a ddaeth i'r tir, a llawen fuwyd wrtho, a llawenydd mawr a fu yn y llys y noson hono rhwng ei wyr ef a gwyr y llys. Dranoeth cymerwyd cynghor yn y lle; a phenderfynwyd yn y cynghor rhoddi Branwen i Fatholwch. A Branwen oedd un o dair prif rian yr Ynys hon—tecaf morwyn yn y byd ydoedd.

A phenderfynwyd ar i'r briodas gymeryd lle yn Aberffraw, ac i'r holl luoedd gychwyn tuag yno—Matholwch a'i luoedd yn eu llongau, a Bran Fendigaid a'i luoedd yntau ar dir, hyd oni ddeuent i Aberffraw.¹ Ac yn Aberffraw, dechreuwyd y wledd, ac eisteddasant. Ac fel hyn yr eisteddent: Brenin Ynys y Cedyrn², a Manawyddan ab Llyr ar y naill ochr iddo, a Matholwch ar yr ochr arall, a Branwen gydag ef. Nid mewn tŷ yr oeddynt, eithr mewn pebyll; ni thrigasai Bran Fendigaid erioed mewn tŷ. A'r gyfeddach a ddechreuodd, a gloddesta ac ymddyddan y buont, hyd nes bod yn well ganddynt gymeryd cwsg na gloddest; ac yna i gysgu yr aethant. A'r nos hono y cysgodd Matholwch a Branwen yn nghyd.

Tranoeth, cyfodi a wnaethant; a phawb o wyr y llys a'r swyddogion a ddechreusant drefnu i ranu y meirch a'r gweision, a'u rhanu a wnaethant yn mhob cyfeiriad hyd y môr.

Ac un diwrnod, wele Efnissyen, y gwr anhangnefeddus y soniwyd am dano uchod, yn dyfod i'r fan yr oedd meirch Matholwch, ac yn gofyn pwy oedd piau y meirch. 'Meirch Matholwch, brenin Iwerddon, yr hwn a gysgodd gyda

¹ *Aberffraw* yn Mon. Yn Aberffraw, Mathrafal, a Dinefwr, y preswyliai tywysogion Gwynedd, Powys, a Deheubarth, gynt. Bu Aberffraw yn drigfan tywysogion Gwynedd o amser Rhodri Mawr yn 843 hyd ddyddiau y Llewelyn olaf yn 1282.

² *Ynys y Cedyrn*.—Un o'r lluaws enwau a ddodid ar Ynys Prydain. Rhoddir yn Tri 1 rai eraill o'r enwau: 'Tri enw a ddoded ar Ynys Prydain: Cyn ei chyfaneddu y doded arni Clas Merddin; ac wedi ei chyfaneddu y doded arni y Fel Ynys; a gwedi gyrru gwledigaeth y gan Prydain ab Aedd Mawr y doded arni Ynys Prydain. Ac nid oes dylfed i neb arni namyn i Genedl y Cymry, can ys hwy a'i goresgynasant gyntaf, a chyn no hynny nid oedd neb o ddynion yn by ynddi, eithr llawn Eirth, a Bleiddiau, ac Efeinc ac Ychain Bannog ydoedd.'

Branwen dy chwaer, ei feirch ef yw y rhai hyn.' 'Ai felly y gwnaethant hwy a morwyn cystal a hono, a chwaer i mi?—ei rhoddi heb fy nghaniatad i. Ni allent hwy roddi mwy o ddirmyg arnaf na hyny,' eb efe. Yna efe a ruthrodd o tan y meirch, ac a dorodd eu gweflau wrth y danedd, a'r clustiau wrth y penau, a'r rhawn wrth y cefn, ac os cai graff ar eu hamrantau eu tori a wnai wrth yr asgwrn, ac a anffurfiodd y meirch felly nes yr oeddynt yn gwbl ddiwerth.

A'r chwedl hon a ddaeth at Fatholwch; dywedwyd wrtho fod ei feirch wedi eu hanffurfio a'u niweidio hyd nad oeddynt mwyach o unrhyw werth. 'Ie, arglwydd,' ebe un, 'dy waradwyddo a wnaethant a dyna eu bwriad.' 'Diau os fy ngwaradwyddo a fynent, paham y rhoddasant imi forwyn mor urddasol ac mor anwyl gan ei chenedl, ag yw Branwen?' 'Arglwydd,' ebe un arall, 'ti a weli fel y mae, ac nid oes iti a wnelych ond cyrchu i'th longau.' Ac ar hyny, cyrchu i'w longau a wnaeth efe.

A'r chwedl a ddaeth at Fran Bendigaid fod Matholwch yn gadael y llys heb gymeryd ei genad; a chenadau a ddanfonwyd i ofyn paham y gwnai hyny. Y cenadau hyny oeddynt, Iddic ab Anarawd a Hyfeydd Hir. A'r gwyr hyn wedi ei oddiweddyd, a ofynasant iddo beth oedd ei fwriad ac am ba achos yr oedd yn myned ymaith. 'Diau,' ebe yntau, 'pe gwybuaswn, ni ddaethwn yma. Cwbl waradwydd a gefais, ac ni chafodd neb waeth ymdaith nag a gefais. Ond y mae un peth yn fwy na'r oll.' 'Beth yw hyny?' ebynt hwy. 'Eu bod wedi rhoddi imi Franwen ferch Llyr, un o dair prif rian yr Ynys hon, a chwaer i frenin Ynys y Cedyrn, a gadael imi gysgu gyda hi, ac wedi hyny fy ngwaradwyddo; a rhyfedd yw genyf na buasid yn fy ngwaradwyddo cyn rhoddi imi forwyn cystal a hono.' 'Diau, arglwydd,' ebynt hwy, 'nid o fodd neb yn y llys nac yn y cynghor y gwnaed y gwaradwydd hwn arnat; a chan i ti gael dy waradwyddo, mwy y dirmygwyd Bran Fendigaid na thithau.' 'Ie,' ebe yntau, 'mi a debygaf hyny, ond nid yw hyny yn lleihau fy ngwaradwydd i.' A'r gwyr hyny a ddychwelasant gyda'r ateb hwn i'r lle yr oedd Bran Fendigaid, gan fynegi iddo yr ateb a roddasai Matholwch. 'Ie,' ebe yntau, 'ni wiw iddo fyned ymaith yn anhangnefeddus, ac nis gadawn iddo ychwaith.'

'Ie, arglwydd,' ebynt hwythau, 'anfon eto genadau ar ei ol.' 'Anfonaf,' eb efe, 'cyfodwch, Fanawyddan ab Llyr, ac Hyfeydd Hir, ac Unic Glew Ysgwydd, ac ewch ar ei ol, a mynegwch iddo y ceiff efe farch iach am bob un a niweidiwyd; ac yn iawn am y dirmyg y ceiff efe ffon arian cyn ffyrfed a chyhyd ag ef ei hun, a chlawr o aur cyn lleted a'i wyneb¹. A mynegwch iddo pa fath wr a wnaeth yr ysgelderder, ac mai o'm hanfodd i y bu hyn; mai brawd o'r un fam a

¹ *Iawn am sarhad.*—Y mae yr iawn a gynygir i Fatholwch yn gyson â gofynion Cyfreithiau Hywel Dda.

mi a'i gwnaeth, ac nad hawdd genyf ei ladd na'i ddyfetha. A deued i ymweled â mi, ac mi a wnaf dangnefedd âg ef fel y myno ei hun.'

A'r cenadau a aethant ar ol Matholwch, ac a fynegasant iddo y genadwri hon yn garedig, ac yntau a'u gwrandawodd. 'Ha! wyr,' eb efe, 'ni a gymerwn gynghor.' Ac efe a aeth i'r cynghor, ac yno meddylasant os gwrthod y cynygiad hwn a wnaent, y byddent yn debyg o gael cywilydd a fyddai mwy, na chael iawn a fyddai gymaint; a phenderfynwyd ei dderbyn, ac i'r llys y daethant yn dangnefeddus.

Yna trefnwyd y pebyll a'r lluesttai ar ddull neuadd, ac i eistedd yr aethant; ac fel yr eisteddasent ar ddechreu y wledd yr eisteddent yn awr. A dechreu ymddyddan a wnaeth Matholwch a Bran Fendigaid; ac wele, sylwai Bran nad oedd Matholwch yn ymddyddan mor llawen ag o'r blaen, a thybiai mai bychander yr iawn a gafodd a barai hyny. 'Ha! wr,' eb efe, 'nid wyt ti cystal ymddyddanwr heno ag oeddit o'r blaen; ac os bychan genyt dy iawn, ti a gai ei chwanegu yn ol dy ewyllys dy hun, ac yforu telir iti am dy feirch.' 'Arglwydd,' eb efe, 'Duw a dalo iti.' 'Mi a chwanegaf dy iawn hefyd,' ebe Bendigaid Fran, 'mi a roddaf bair iti, a chyneddf y pair yw: Os lladder gwr iti heddyw, a'i fwrw i'r pair¹, bydd erbyn yforu cystal ag y bu erioed, oddieithr na bydd ei barabl ganddo.' A diolch a wnaeth yntau am hyny, a dirfawr lawenydd a gymerth o'r achos hwnw.

A thranoeth, talwyd i Fatholwch tra y parhaodd y meirch dof. Yna aed i gwmwd arall a thalwyd ebolion iddo. hyd oni chafodd ei dâl yn gyflawn, a galwyd y cwmwd hwnw o hyny allan, Talebolion².

A'r ail nos, eistedd yn nghyd a wnaethant. 'Arglwydd,' ebe Matholwch, 'pa le y cefaisst y pair a roddaist i mi?' 'Mi a'i cefais,' eb efe, 'gan wr a fu yn dy wlad di, ac ni fynwn ei roddi ond i un oddiyno.' 'Pwy oedd hwnw?' eb efe. 'Llassar Llaesgyfnewid,' eb efe, 'a hwnw a ddaeth yma o Iwerddon, a Chymideu Cymeinfol ei wraig gydag ef, y rhai a ddiangasant o'r ty haiarn yn Iwerddon pan ei gwnaed yn boeth wynias o'u hamgylch. Ac y mae yu rhyfedd

¹ *Burw i'r Pair.*—Yr oedd y gallu oedd gan y teulu hwn trwy offerynoliaeth y Pair yn dra thebyg i'r gallu a feddai y Tuath de Dannan, llwyth o ddewiniaid a ddaethant gynt i'r Iwerddon. Tra yn ymdaith yn Asia, torodd rhyfel allan rhyngddynt a'r Syriaid, a thrwy eu swyngyfaredd yr oeddynt yn enill y dydd, gan eu bod yn gallu gyru ellyllon i adfywhau y rhai o'u nifer a syrthient yn y frwydr; a gwelai y Syriaid er eu dychryn eu gelynyon lladdedig ddœ, yn ymla'ld a hwynt heddyw mor bybyr ag erioed. Darfu iddynt, yn eu penbleth, ymgynghori â'u hoffeiraid, y rhai ddywedasant wrthynt am yru pawl o'r pren cas gan cythraul (*mountain ash*) trwy gyrph y rhai a laddent; ac os ellyllon oedd oedd yn eu hadfywhau, y troid y cyrph yn bryfaid yn ddioed. Gwnaed yn ol y cynghor hwn, a bu raid i'r Tuath de Dannan ymadael â'r wlad.—*Arglwyddes Guest.*

² *Talebolion.*—Cwmwd yn Mon; a myn llafar gwlad hyd y dydd heddyw mai dyma ydyw tarddiad yr enw.

genyf os na wyddost ti am yr hanes hwnw.' 'Gwn, arglwydd,' eb efe, 'a chymaint ag a wn mi a'i mynegaf iti. Un diwrnod, yr oeddwn yn hela yn Iwerddon ar ben craig oedd uwchben llyn a elwid Llyn y Pair. Ac mi a welwn wr melyn-goch mawr yn dyfod o'r llyn, a phair ar ei gefn; a gwr anferth, truenus, ac erchyll ei wedd, ydoedd. A gwraig oedd ar ei ol; ac os oedd ef yn fawr, mwy ddwywaith oedd ei wraig nag yntau. A dyfod ataf a wnaethant, a chyfarach gwell imi. 'Ie,' ebe fi, 'pa ryw gerdded sydd arnoch?' 'Dyma y rhyw gerdded sydd arnom, arglwydd,' eb efe, 'y wraig hon yn mhen pythefnos a mis a esgora, a'r mab a auer yn mhen pythefnos a mis a fydd yn filwr llawn arfog.' Minau a gymerais arnaf eu noddi, a buont gyda mi am flwyddyn; ac am flwyddyn mi a'u cefais yn ddiwarafun. Eithr o hyny allan, gwarafunwyd hwynt imi. A chyn pen y pedwerydd mis, yr oeddynt yn gwneuthur eu hunain yn gas gan y bobl, trwy eu sarhadau, a thrwy hustyngu a gofidio pendefigion a phendefigesau y wlad. O hyny allan, bu cynhwrf yn mhlith fy neiliaid, ac archwyd imi ymad-ael â hwynt, gan roddi fy newis imi ai fy nghytoeth ai hwynt. Minau a ymgynghorais â'm gwlad yn eu cylch. Nid elynt hwy o'u bodd, ac o'u hanfodd trwy ymladd nis gellid eu gyru. Yn y cyfyng gynghor, penderfynwyd gwneuthur ystafell o haiarn oll. Ac wedi bod yr ystafell yn barod, cyrchu pob gof yn Iwerddon yno, a phob perchen gefail a morthwyl. Yna peri gosod glo cyfuwch a chrib yr ystafell, a pheri fod i'r wraig a'i gwr a'i phlant gael eu diwallu â digon o fwyd a diod. A phan wybuwyd eu bod wedi meddwi, dechreuwyd rhoddi y glo ar dân o gylch yr ystafell, a chwythu y meginau nes oedd y ty yn eiriaswyn am eu pen. Yna y bu cynghor ganddynt ar ganol llawr yr ystafell. Ac arosodd y gwr nes oedd y pleit (*plates*) yn wyn gan wres, pan y rhuthrodd ar y pleit ac a'u tarawodd allan a'i ysgwydd, a'r wraig a'i canlynodd. Ac ni ddiangodd neb ond efe a'i wraig. Ac yna, debygaf i, arglwydd,' ebe Matholwch wrth Fran Bendig-aid, 'y daeth efe trosodd atat ti.' 'Diau,' ebe yntau, 'efe a ddaeth yma, ac a roddes y pair imi.' 'Pa fodd, arglwydd, y derbyniaist ti hwynt?' 'Mi a'u dosberthais yn mhob rhan o'm tiriogaeth; ac y maent yn lluosogi ac yn ymddyrchafu yn mhob man, ac yn cadarnhau pob lle y byddont â'r gwyr ac arfau goreu a welodd neb.'

Dilyn ymddyddan, a cherdd, a chyfeddach a wnaethant y nos hono tra fu dda ganddynt; a phan welsant fod yn well iddynt fyned i gysgu nag eistedd yn hwy, i gysgu yr aethant. Ac felly y treuliwyd y wledd mewn digrifwch; ac wedi gorphen y wledd, cychwynodd Matholwch, a Branwen gydag ef, tua'r Iwerddon. Ac o Abermenai y cychwynasant mewn tair llong ar ddeg, a daethant i'r Iwerddon. Yn Iwerddon, cawsant groesaw dirfawr. Ni ddeuai na phendefig na phendefiges i ymweled â Branwen a'r ni roddai iddi naill ai cae (*clasp*), ai mod-

rwy, ai teyrndlws, i'w gadw, ag y byddai yn golled arbenig ei weled yn myned ymaith. A chlodfawr ydoedd yn eu plith y flwyddyn hono, gan fwynhau anrhydedd a chyfeillgarwch. A damweiniodd iddi feichiogi yn y cyfamser; ac wedi treulio yr amser dyledus, mab a aned iddi, a dodwyd arno yr enw Gwern ab Matholwch. a rhoddwyd ef yn yr un lle a goreugwyr yr Iwerddon.

Ac yn yr ail flwyddyn, wele derfysg am y gwaradwydd a gawsai Matholwch yn Nghymru, a'r taliad a wnaed iddo am ei feirch, a'i frodyr maeth a'r rhai oedd agosaf ato yn edliw hyny iddo yn ddigelu. A chynyddodd y terfysg hyd nad oedd lonydd iddo oni chaent ddial ei sarhad. A'r dial a wnaethant oedd gyru Branwen o'r un ystafell ag ef, a'i gosod i bobî yn y llys; a pheri i'r cigydd, ar ol iddo darnio y cig bob dydd, ddyfod a rhoddi bonclust iddi. A dyna ei phenyd.

'Ie, arglwydd,' ebe ei wyr wrth Matholwch, 'par yn awr wahardd y llongau, a'r ysgraffau, a'r cwrwglau, fel nad elo neb i Gymru; ac a ddel yma o Gymru, carchara hwynt, fel nad elont yno drachefn, a dweyd yr hanes hwn.' A gwnaed hyny, ac felly y bu am dair blynedd.

Yn y cyfamser, Branwen a fagodd aderyn drytwen (*starling*) yn nghysgod y noe bobî gyda hi, ac a'i dysgodd i siarad, ac a'i dysgodd hefyd pa fath wr oedd ei brawd. A hi a wnaeth lythyr yn dweyd am ei phoenau a'i hanmharch, ac a'i rhwymodd am fôn asgell yr aderyn, ac a'i hanfonodd i Gymru. A'r aderyn a ddaeth i'r Ynys hon, ac a gafodd Bran Fendigaid yn Nghaer Saint yn Arfon, mewn cynghor, ac efe a ddisgynodd ar ei ysgwydd, ac a ysgydwodd ei bluf nes y canfuwyd y llythyr. ac adnabuwyd fod yr aderyn wedi ei fagu yn ddôf.

Yna cymerodd Bran y llythyr, ac a edrychodd arno; ac wedi ei ddarllen, ymofidiodd yn fawr oherwydd y boen oedd ar Branwen, ac a ddanfonodd genhadon o'r lle hwnw i wysio yr holl Ynys yn nghyd, ac a barodd ddyfod lluoedd pedair gwlad a saith ugain hyd ato. Ac efe ei hun a gwynodd wrthynt am y trallodion yr oedd eu chwaer ynddynt. Yna cymerwyd cynghor; ac yn y cynghor, penderfynwyd ymosod ar Iwerddon, a gadael saith o wyr yn dywysogion yma, a Charadawg ab Bran¹ yn ben arnynt hwy a'u saith marchog. Yn Edeyrn-

¹ *Caradawg ab Bran*.—Tywysog y llyth dewr o Brydeiniaid a gyfaneddent *Essyllwg* (*Siluria*), rhanbarth dde-orllewinol y Deheubarth. Enillodd ei ddewrder dibafal yn amddiffyn ei wlad yn erbyn rhaib anniwall y Rhufeiniaid glodydd uwchawduron Groeg a Rhufain. Gan y blaenaf gelwid ef yn *Caratacos*; a chan yr olaf *Caractacus*. Cadwodd y gelynyon o hyd braich am hir amser; ond gan fod y Rhufeiniaid yn llawer lluosocach, eu harfau yn rhagorach, a'u bod wedi eu hamddiffyn hefo arfwisgoedd, gorchfygwyd y blaid wanaf o'r diwedd. Yna ciliodd Caradawg i diriogaeth Aregwedd Foeddawg (*Cartismandua* yr uwchawduron), brenhines y Brigantwys; a lithau yn fradwrs a'i traddododd mewn cadwynau i Wyr Rhufain. Cymerodd hyn le yn O.C. 51, a'r nawfed flwyddyn er dechreuad y rhyfel yn Mhrydain. Dygwyd ef yn garcharor i Rufain; a dywed Tacitus fod ei glod gymaint am ei wrthwynebiad diwrthgil i'w llengoedd, fel yr oedd torfeydd aruthrol wedi ymgynull i'w weled; 'nid llai,' medd yr hanesydd haw, 'na phan ddy-

ion¹ y gadawyd y gwyr hyny; ac o achos hyny, y dodwyd saith marchog ar y dref. Sef y saith wyr oeddynt: Caradawg ab Bran, a Hyfeydd Hir, ac Unic Glew Ysgwydd, ac Iddic ab Anarawc Walltgrwn, a Ffodor ab Erfyll, ac Wlch Minascwrn, a Llassar ab Llaesar Llaesgygwyd, a Phendaren Dyfed yn was gyda hwynt. A'r saith hyny oeddynt y saith cynweisiaid a gymerent ofal yr Ynys, a Charadawg ab Bran yn benaf ohonynt.

Bran Fendigaid, a'r lluoedd a ddywedasom, a hwyliasant tua'r Iwerddon; ac ni buont yn hir ar y môr nes dyfod i ddwfr bâs gerllaw dwy afon, Lli ac Archan y gelwid hwynt. A'r llongau wedi cyrhaedd at eu gilydd a orchuddient wyneb y môr. Yna Bran a gymerodd hyuy o luniaeth oedd ganddo, ac a gyrchodd i dir yr Iwerddon.

A meichiaid Matholwch oeddynt ar lan y weilgi a ddaethant ato. 'Arglwydd,' ebynt hwy, 'henffych well i ti.' 'Duw a roddo dda i chwithau,' eb efe, 'pa newydd sydd genych?' 'Arglwydd,' ebynt hwy, 'y mae genym newydd rhyfedd. Coed a welsom ar y môr mewn lle na welsom erioed o'r blaen yr un pren.' 'Dyna beth rhyfedd,' eb efe, 'beth a welsoch heblaw hyny?' 'Gwelsom arglwydd,' ebynt hwy, 'fynydd mawr gerllaw y coed, a hwnw yn cerdded; ac esgeir (*ridge*) aruchel oedd ar y mynydd, a llyn o bob ochr i'r esgeir. A'r coed, a'r mynydd, a phobpeth ohonynt oedd yn symud.' 'Ie,' ebe yntau, 'nid oes neb yma a w'yr ystyr hyn onis gwyr Branwen.'

A gofyn iddi a wnaeth y cenhadau a aeth at Branwen, 'Arglwyddes, beth debygi di ydyw hyn?' 'Gwyr Ynys y Cedyrn ydynt, yn dyfod trosodd wedi clywed am fy anmharch a'm poen i.' 'Beth yw y coed a welir ar y weilgi?' ebynt hwy. 'Gwernenau (*yards*) a hwylybreni llongau,' ebe hi. 'Och!' ebynt hwy, 'beth yw y mynydd a welem wrth ystlys y llongau?' 'Bran Fendigaid, fy mrawd i,' ebe hi, 'oedd hwnw yn dyfod i ddwfr bâs—nid oes llong a'i cynaliai ef ynddi mewn dwfr bâs.' 'Beth oedd yr esgeir uchel, a llyn o bobtu iddi?' Ebe hithau, 'Edrych ar yr Ynys hon y mae, a llidiog yw. Ei ddau lygad ef o bobtu i'w drwyn yw y ddau llyn o bob ochr i'r esgeir.'

gwyd Syphax yno gan Scipio, a Perses gan L. Paulus, neu neb o'r brenhinoedd eraill a ddygwyd yno yn garcharorion. Ni bu dinas Rhufain ond prin erioed lawnach o bobl na'r pryd hwnw; nid yu unig y werin, ond y pendeffigion, y marchogion, a'r arglwyddi, a gyrchent yn finteioedd i gael golwg ar y gwr a ymladdasai cyhyd a holl gadernid Rhufain.' Pan ddaeth efe o flaen gorsedd Claudius, parodd ei ymddangosiad mawrfrydig a'i araith hyawdl i'r ymherawdwr roddi ei ryddid iddo ef, ei wraig hefyd a'i frodyr. Yn ol y Cofion Cymreig, cymerwyd Bran, ei dad, gydag ef i Rufain, lle y bu ef yn wystl am saith mlynedd; a phan ryddhawyd ef o'i gaethiwed hirfaith, dygodd y Grefydd Gristionogol gydag ef i Brydain. Y mae lluaus o gyfeiriadau at Caradawg ab Bran yn y *Triodd*; ond gan eu bod oll yn cyd-dystiolaethu a'r crynhodeb uchod, anfuddiol fyddai eu nodi.

¹ *Edeyrnion*.—Rhan o Ddyffryn Dyfrdwy, yn cyrhaedd o Gorwen i Bum' Plwy Penllyn.

Yna cynullwyd holl wyr ymladd Iwerddon a'r holl forlenydd yn nghyd yn gyflym, a chymerwyd cynghor. 'Arglwydd,' ebe'r pendefigion wrth Fatholwch, 'nid oes i ni well cynghor na chilio tros y Llinon [afon yn Iwerddon], a gadael y Llinon rhyngom ac ef, a thori y bont sydd ar yr afon, canys y mae maen-sugu (*loadstone*) yn ngwaelod yr afon nad all na llong na llestr mo'i chroesi.' Yna cillasant tros yr afon, a thorasant y bont.

A Bran Fendigaid a ddaeth i dir, a'i lynges yn ei ddilyn gyda glan yr afon. 'Arglwydd,' ebe'i bendefigion, 'ti a wyddost gyneddf yr afon—nad all neb fyned trosti, ac nad oes bont arni. Beth yw dy gynllun di am bont?' 'Nid oes genyf gynllun,' ebe yntau, 'ond a fo ben bydded bont. Myfi a fyddaf yn bont.' Ac yma gyntaf y dywedwyd yr ymadrodd, yr hwn sydd eto yn ddiareb. Yna wedi gorwedd ohono ar draws yr afon, dodwyd clwydi arno, a'i luoedd a aethant trosto.

Ac fel yr oedd efe yn cyfodi, wele genhadau Matholwch yn dyfod ato, ac yn cyfarch gwell iddo, ac yn ei anerch yn enw Matholwch ei gyfathrachwr, ac yn mynegi na haeddai ef oddiar ei law ond da; 'canys y mae Matholwch yn rhoddi brenhiniaeth Iwerddon i Wern ab Matholwch, dy nai dithau fab dy chwaer. A hyn a rydd efe at dy ddewisiad, am y cam a'r gwarthrudd a wnaed i Branwen, yn y lle y myni di, ai yma ai yn Ynys y Cedyrn, yr erys Matholwch.' 'Ie,' ebe Bran, 'oni allaf i fy hun gael y frenhiniaeth, ysgatfydd mi a gymeraf gynghor am eich cenhadwri chwi. O hyn hyd oni ddygoch amgen cenadwri, ni chewch well ateb genyf i.' 'Ie,' ebynt hwythau, 'yr ateb goreu a gawn ni a'i dygwn atat; aros dithau am ein cenadwri.' 'Arosaf,' ebe yntau, 'deuwch yn ebrwydd.'

A'r cenadau a gyrchasant rhagddynt, ac at Fatholwch y daethant. 'Arglwydd,' ebynt hwy, 'paratua genad well at Bran Fendigaid, ni wrandawai ef ar y genad a ddygasom ni ato.' 'Ha! wyr,' ebe Matholwch, 'beth yw eich cynghor chwi?' 'Arglwydd,' ebynt hwy, 'nid oes iti gynghor ond un. Ni bu efe mewn tŷ erioed. Gwna dithau dŷ i'w gynwys ef a gwyr Ynys y Cedyrn yn y naill barth, a thithau a'th lu yn y parth arall ohono, a dyro dy frenhiniaeth yn ei law, a gwna warogaeth iddo. Ac oherwydd iti wneuthur y tŷ, gan na chafodd erioed dŷ a'i cynwysai, efe a ymheddycha â thi.' Felly y cenadau a ddaethant a'r genadwri hon at Bran Fendigaid.

Yntau a gymerth gynghor; a phenderfynwyd derbyn hyny, a thrwy gynghor Branwen y bu hyn oll, a rhag i'r wlad gael ei dinystrio y gwnaeth lithau hyny. A'r cytundeb hwn a gywirwyd, a'r tŷ a adeiladwyd yn fawr ac yn gryf. Ond y Gwyddelod a luniasant ystryw; sef yr ystryw a luniasant ydoedd doddi gwanas (*bracket*) o bob tu i bob colofn o'r can' colofn oedd yn y tŷ, a doddi bol croen ar bob gwanas, a gwr arfog yn mhob un ohonynt. Yna Efnis-

syen a ddaeth i mewn ar y blaen i lu Ynys y Cedyrn, ac a daflodd olygon gorwyllt, annhrugarog, ar hyd y tŷ, ac a ganfu y boliau croen ar hyd y pyst. 'Beth sydd yn y boly hwn?' eb efe wrth un o'r Gwyddelod. 'Blawd, enaid,' eb efe. Yntau a deimlodd hyd oni chafodd afael ar ben y dyn, ac yna gwasgodd y pen nes y teimlai ei fyseidd yn cyfarfod yn yr ymenydd trwy yr esgyrn. Yna gadawodd hwnw a dododd ei law ar un arall gan ofyn, 'Beth sydd yma?' 'Blawd,' meddai'r Gwyddel. A'r un chwareu a wnaeth efe â phawb ohonynt, hyd na adawodd yr un gwr byw o'r holl ddau-cauwr, oddieithr un. Ac efe a ddaeth at hwnw gan ofyn, 'Beth sydd yma?' 'Blawd, enaid,' ebe'r Gwyddel. Yna efe a'i teimlodd yntau nes cael ei ben, ac fel y gwasgasai benau y rhai eraill y gwasgodd efe ben hwnw. Ac ef a glywai arfau am ben hwnw, ond nis gadawodd yntau nes ei ladd. Yna canodd yr englyn hwn:—

Y sydd yn y boly hwn amryw flawd
Ceimet cynnifeit disgymfeit
Yn trin rhac cytwy'r cat barawt.

Y mae yn y boly hwn flawd amrywiol—
Crwydryn bradwrus, dicheilddrwg,
Yn barod i'r gad hefo'i frodyr.

Ar hyny, daeth y lluoedd i'r ty; gwyr Ynys Iwerddon a ddaethant i'r ty ar y naill ochr, a gwyr Ynys y Cedyrn ar y llall. A chyn gynted ag yr eisteddasant, y bu cytundeb rhyngddynt; a rhoddwyd y frenhiniaeth i'r mab. Ac wedi cwblhau yr heddwch, galwodd Bran Fendigaid ar y mab ato, a Bran a ddygodd y mab at Fanawyddan; a phawb a'r ei gwelai oedd yn ei garu. A chan Manawyddan, dygwyd y mab at Nissyen fab Eurossydd; a'r mab a aeth ato yn dirion. 'Paham,' ebe Efnissyen, 'na ddaw fy nai, fab fy chwaer, ataf i? Pe na byddai'n frenin Iwerddon, da fyddai genyf ymdirioni â'r mab.' 'Aed atat yn llawen,' ebe Bran Fendigaid. A'r mab a ddaeth ato yn llawen. 'I Dduw y dygaf fy nghyffes,' ebe yntau yn ei feddwl, 'nis gwyr y tylwyth y gyflafan a wnaif i yr awrhon.'

Yna efe a gyfododd i fynu, ac a gymerodd y mab gerfydd ei draed, ac heb oedi, a chyn y gallai undyn gael gafael arno, bwriodd y mab yn wysg ei ben i'r gyneu dân, A phan welodd Branwen ei mab yn boeth yn y tân, hi a geisiodd neidio i'r tân o'r lle yr eisteddai rhwng ei dau frawd. Eithr Bran Fendigaid a gydiodd ynnddi ag un llaw, ac yn ei darian a'r llall. Yna rhuthrai pawb ar hyd y ty, a dyna y twrf mwyaf a fu mewn un ty erioed; pawb oeddynt yn cymeryd eu harfau. Yna y dywed Morddwydtyllyon, 'Meirch-gacwn buwch Morddwydtyllyon (*The gadfly of Morddwydtyllyon's cow*).' A thra yr oedd pawb yn ceisio eu harfau, Bran Fendigaid a gynhaliat Branwen rhwng ei darian a'i ysgwydd.

Ac yna y dechreuodd y Gwyddelod gyneu tân tan y pair adeni, a bwrw y cyrph meirw i'r pair nes yr oedd yn llawn; a'r cyrph hyny a gyfodent dranoeth yn rhyfelwyr cystal a chynt, ond nas gallent lefaru. A phan welodd Efnissyen

nad oedd gwyr Ynys y Cedyrn yn adfywio yn un lle, dywedodd yn ei galon, 'O! ie, Dduw, gwae fi fy mod yn achos yr alanas hon ar wyr Ynys y Cedyrn; a mefl imi, oni cheisiaf ymwarêd rhag hyn.' Ac efe a daflodd ei hun i blith y Gwyddelod; a daeth dau Wyddel troednoeth heibio, a bwriasant ef i'r pair gan dybied mai Gwyddel ydoedd. Ac efe a ymestynodd yu y pair, nes ei dori yn bedwar darn; ac yna torodd yntau ei galon.

Trwy hyn yr enillodd gwyr Ynys y Cedyrn yr hyn a enillasant; ond ni buont hwythau yn fuddugol, gan na ddiangodd ond saith ohonynt, a brathwyd Bran Fendigaid yu ei droed â gwaewffon wenwynig. Y seithwyr a ddiangasant oeddynt Pryderi, Manawyddan, Gliferi eil Taran, Taliesin, ac Ynawc Gruddyen ab Muryel, a Heilyn ab Gwyn Her.

Ac yna y parodd Bran Fendigaid iddynt dori ei ben ef ymaith. 'A chymerwch chwi y pen,' eb efe, 'a dygwch ef i'r Gwynfryn¹ yn Llundain, a chleddwch ef yno a'i wyneb ar Ffrainc. A chwi a fyddwch ar y ffordd yn hir. Yn Harddlech y byddwch am saith mlynedd ar giniaw, ac Adar Rhianon yn canu i chwi. A bydd cystal genych gymdeithas y pen, ag y bu oreu genych pan fu arnaf i erioed. Ac yn Ngwales, yn Mhenfro, y byddwch am bedwar ugain mlynedd. Ac onid agorwch y drws sydd yn gwynebu ar Aber Hentelin a thua Chernyw, gellwch fod yno a'r pen yn ddilwgr genych. Ac os agorwch y drws hwnw, nis gellwch fod yno; cyrchwch i Lundain i gladdu y pen, a hyny yn ddioedi.'

Ac yna torwyd ei ben ef, a chychwynasant y seithwyr hyn gydag ef, a Branwen yn wythfed. Ac yn Aber Alaw, yn Talebolion, y daethant i dir. Yno eistedd a wnaethant a gorphwys. Hithau a edrychodd ar Iwerddon ac ar Ynys y Cedyrn, yr hyn a welai ohonynt. 'O! ie, Fab Duw,' ebe hi, 'gwae fi fy ngeni! Dwy ynys a ddiffeithiwyd o'm hachos i.' A hi a roes ochenaïd fawr, ac a dorodd ei chalon ar hyny. A hwy a wnaethant fedd petrual iddi, ac a'i claddasant hi ar lan yr Alaw.

Yna y seithwyr hyny a gerddasant tua Harddlech, a'r pen ganddynt. Ac fel yr oeddynt yn cerdded, dyma lu o wyr a gwragedd yn cyfarfod â hwynt. 'A oes genych rhyw newydd?' ebe Manawyddan. 'Nac oes,' ebynt hwy, 'ond fod Caswallon ab Beli² wedi goresgyn Ynys y Cedyrn, a'i fod yn frenin coronog

¹ *Gwynfryn*.—Y Tŵr Gwyn (*White Tower of London*).

² *Caswallon*.—*Cassivellaunus* y Rhufeiniaïd. Dewiswyd ef yn gadlywydd ar y lluoedd Prydeinig i wrthsefyll rhuthr Gwyr Rbufain, tan Iwl, neu *Julius*, Cesar; ac yn ol tystiolaeth y cadfaenor enwog hwnw, yr oedd y dewisiad yn un doeth; canys bu ei fedr milwrol yn ddraen flin i'r lluoedd ymosodol am hir amser. Dywedir yn un o'r *Triodd* mai efe fu achlysur i'r Cesariaïd ymosod ar Ynys Prydain gyntaf, ac mai serch, fel arferol, oedd gwreiddyn yr holl helynt:—'Tri Serchogion Ynys Prydain. Cyntaf, Caswallon ab Beli am Fflur merch Mygnach Gorr, a myned yu ei chyrech hyd yn nhir Gasgwyn, yn erbyn Gwyr Rhufein, a'i dwyn ymaith, a lladd

yn Llundain.' 'Beth a ddarfu i Garadawg ab Bran, a'r seithwyr a adawyd gydag ef yn yr Ynys hon?' 'Daeth Caswallon am eu pen, a lladdodd y chwe' gwr, a thorodd Caradog yntau ei galon wrth weled cleddyf yn lladd ei wyr ac nas gwyddai pwy a'u lladdai. Canys yr oedd Caswallon yn gwisgo hud am dano, ac ni welai neb ef yn lladd y gwyr, y cleddyf yn unig a welid. Ac ni fynai Caswallon ei ladd ef gan ei fod yn nai iddo fab ei gefnder. Ac efe oedd y trydydd a doree ei galon gan ofid. Pendarran Dyfed, yr hwn oedd yn was ieuanc gyda'r seithwyr, a ddiangodd i'r coed,' ebynt hwy.

Ac wedi cyrhaedd Harddlech, hwy a ddechreuasant eistedd, a diwallwyd hwynt â bwyd a diod. Hwythau a fwytasant ac a yfasant. A daeth tri aderyn gan ddechreu canu iddynt rhyw gerdd; ac o bob cerdd a glywsynt erioed, anfwyn oedd pob un wrth hono. Ac er fod yr adar i'w gweled yn mhell oddiwrthynt uwch ben y môr allan, eto yr oeddynt mor eglur a phe yn eu hymyl. Ac yn y wledd hono y buont am saith mlynedd.

Ac yn mhen y saith mlynedd, hwy a gychwynasant tua Gwales, yn Mhenfro. Ac yr oedd iddynt yno le teg, brenhinaidd, uwchben y weilgi. A neuadd fawr oedd yno iddynt, ac i'r neuadd yr aethant, a dau ddrws iddi oedd yn agored, a'r trydydd drws yn nghauad yr hwn oedd yn gwynebu tua Chernyw. 'Gwel acw,' ebe Manawyddan, 'y drws na ddylem ni ei agor.' A'r nos hono y buont yno yn ddiwall. Ac am yr holl fwyd a welsant yn eu gwydd, ac y clywsant am dano, nid oeddynt yn cofio dim, nac am alar o fath yn y byd. Ac yno y treuliasant bedwar ugain mlynedd heb wybod iddynt erioed dreulio ysbaid mwy dyddan a hyfryd. Mor ddifyr oedd cwmni y naill gan y llall a phan y daethent yno gyntaf; ac nid annifyrach ganddynt fod y pen yno na phe buasai Bran Fendigaid yno yn fyw gyda hwynt. A gelwid y pedair ugain mlynedd hyny, 'Yn ysbaid gwledda yr Urddawl Ben.' 'Ysbaid Branwen a Matholwch,' oedd yr amser yr aethpwyd i'r Iwerddon.

Ac un diwrnod, ebe Heilyn ab Gwyn, 'Mefi ar fy marf, onid agoraf y drws er gwybod ai gwir a ddywedir am hyny.' Ac agor y drws a wnaeth, ac edrych tua Chernyw ac Aber Henfelin. A phan edrychasant, yr oeddynt oll mor ymwybodol o'r colledion a gawsant, ac o'r holl geraint a chymdeithion a gollasant, ac o'r holl ddrwg a'u goddiweddasai, a phe cymerasai'r cyfan le yn y fan hono; ac yn benaf, am dynged eu harglwydd. Ac o'r awr hono nis gallasant

chwe' mil o'r Caisariaid; ac yn nial hyny o alanas y daethant wyr Rhufein i Ynys Prydain.' Am yr ymdaith hon, gelwir ef mewn Tri arall yn un o 'Dri Eurgrudd Ynys Prydain: Caswallon ab Beli, pan aeth yng Ngwasgwyn i gyrchu Fflur merch Mygnach Gorr a ddyged o lathlud yno i Gaisar ymherodr y gan a elwid Mwrchan Leidr, brenin y wlad hono, a châr Iwl Caisar.' Prif-ddinas Caswallon oedd Verulanium, lle y saif St. Albans yn awr. Bu farw yn Nghaerefrog, ac yno y mae ei fedd.

hwy orphwys heb gychwyn â'r pen tua Llundain, a pha hyd bynag y buant ar y ffordd, hwy a gyrhaeddasant yno, ac a gladdasant y pen yn y Gwynfryn. Ac wedi ei gladdu, hwnw oedd y trydydd 'Madcudd' (*goodly concealment*) a'r 'Trydydd Anfad Ddatgudd' pau ddatguddiwyd, gan na ddeuai ormes byth tros fôr i'r ynys hon tra y byddai cudd y pen hwnw.

A dyma yr hanes am y gwyr hyny a gychwynasant o Iwerddon.

Yn Iwerddon, ni adawyd dyn byw namyn pump o wragedd beichiog mewn ogof yn y diffeithwch; ac i'r pum' gwraig hyny yn yr un cyfnod y ganed pump o feibion. A'r pum' mab a fagasant nes y daethant yn weision mawr, ac hyd oni feddylasant am wragedd. A chymerodd pob un ohonynt fam ei gydymaith yn wraig, a gwladychu y wlad, a'i chyfaneddu, a'i rhanu rhyngddynt a wnaeth y pump. Ac o achos y rhanriad hwnw y dywedir eto, 'Pum' rhan Iwerddon.'¹ A chwilio y wlad a wnaethant y ffordd y buasai rhyfeloedd, a chael aur ac arian nes yr oeddynt yn gyfoethog.

A dyna fel y terfyna y gainc hon o'r Fabinogi yn nghylch Palfawd (*blow*) Branwen, yr hon a fu y drydedd Anfad Balfawd yn yr Ynys hon; ac yn nghylch bloddest Bran pan aeth lluoedd deg gwlad a saith ugain i'r Iwerddon er dial Palfawd Branwen; ac yn nghylch y ciniaw a fu yn Harddlech am saith mlynedd; ac yn nghylch caniad Adar Rhiannon, ac ymdaith y pen am bedwar ugain mlynedd.

¹ *Pum' Rhan Iwerddon.*—Dywedir fod y Chwaer Ynys gynt yn cael ei rhanu i bum' brenhiniaeth; sef, Munster, Leinster, Connaught, Ulster, a Meath.



MANAWYDDAN AB LLYR.

WEDI i'r seithwyr y soniwyd eisoes am danynt gladdu pen Bran Fendigaid yn y Gwynfryn yn Llundain, a'i wyneb ar Ffrainc, Manawyddan¹ a edrychodd ar dref Llundain, ac ar ei gydymdeithion, ac a roes ochenaid fawr gan alar dirfawr a hiraeth. 'O! ie, Dduw Hollgyfoethog,' eb efe, 'gwae fi! nid oes neb heb le iddo heno ond myfi.' 'Arglwydd,' ebe Pryderi,² 'na fydd mor athrist a hyn. Dy gefnder ydyw brenin Ynys y Cedyrn; ac ni wna efe gam â thi, gan na buost ti hawliwr tir a daear erioed: trydydd Lleddf Unben wyt.' 'Ie,' ebe yntau, 'er mai cefnder imi yw y gwr hwnw, y mae yn chwith genyf weled neb yn lle Bran Fendigaid, fy mrawd; ac ni allwn fod yn llawen yn yr un ty ag ef.' 'A gymeri di gynghor gan arall?' ebe Pryderi. 'Yr wyf mewn angen cynghor,' eb efe, 'beth yw y cynghor hwnw?' 'Saith cantref sydd wedi eu gadael imi,' ebe Pryderi, 'a Rhiannon, fy mam, sydd yno; mi a'i rhoddaf i ti, a'r saith cantref gyda hi; a phe na byddai genyt ond y saith cantref hyny, nid oes well saith cantref na hwy. Cicfa, merch Gwynn Gloyw, yw fy ngwraig inau,' eb efe, 'a chan imi roddi fy etifeddiaeth iddynt, bydded i ti a Rhiannon ei mwynhau; a phe

¹ *Manawyddan*.—Mab i Llyr Llediaeth, a brawd i Bran a Branwen. Nid ymddengys fod uchelfrydedd yn cythryblu fawr ar ei feddwl; a phan gyfartu y teulu a'r anffawd a'i gwnaeth yn gaethion, ymostyngodd Manawyddan i'w dynged, ac arweiniodd fywyd iselfryd, gan wrthod y mawredd a'r breiniau a berthynent yn gyfiawn iddo. Oherwydd y flaith olaf, y gelwir ef yn y *Trioedd* yn un o 'Dri Lleddf Unbenn Ynys Prydain: Manawyddan ab Llyr Llediaeth, gwedi dwyn yngharchar teulu Bran ab Llyr, ei frawd; a Llywarch Hen ab Elidir Lydanwyn; a Gwg-awn Gwron ab Eleufer Gosgorddfawr; a meib i feirdd oeddynt y tri; ac ni cheisiynt gyfoeth a theyrnedd gwedi eu myned wrth gerdd, cyd nas gellid eu lluddias iddynt: sef achaws hyny eu gelwid yn Dri Lleddf Unbenn Ynys Prydain.' Mewn *Tri* arall, rhestrir ef gyda Caswallawn ab Beli a Llew Llaw Gyffes, tan y penawd. 'Tri Eurgrydd Ynys Prydain,' am yr un rheswm a ddodir yn mhellach yn mlaen yn y Fabinogi hon.

² *Pryderi*.—Sonir am yr hen arwr hwn mewn pedair o'r *Mabinogion*; sef, yn Cilhwch ac Olwen, Math ab Mathonwy, a Phwyll Pendefig Dyfed; a mab i Pwyll ydoedd. Rhestrir ef yn y *Trioedd*, gyda Coll ab Collfrewi a Thyrstan ab Tallwch, tan y penawd, 'Tri Gwrddfeichiadaid Ynys Prydain;' 'Pryderi fab Pwyll Pendarran Dyfed a gettwis foch ei dad tra yttoedd yn Annwn, ac yng Nghlyn Cwch yn Emlyn y cetwis efe wynt.' Sonir am dano hefyd yn Cerdd am Feib Llyr, o waith Taliesin. Yn Math ab Mathonwy, (gwel t.d. 8, *Cymraeg Diweddar* o'r gwaith hwn), dywedir mai Gwydion ab Don a'i lladdes mewn brwydr lawlaw yn Rhyd Melenryd, ar yr afon Gyntal, ac mai yn Maentwrog y claddwyd ef. Ond dywed Englynion y Beddeu mai yn Abergenoli y mae ei fedd. Yn ol 'Pwyll Pendefig Dyfed,' yr enw a gafodd gyntaf gan Hyfeydd Hen, oedd Gwri Gwallt Euryn. Gweler yn niwedd y Fabinogi hono paham y newidiwyd ef i Pryderi. Cyfeirir ato yn fynych gan feirdd y canol-oesau. Gelwir Dyfed gan Lewis Glyn Cothi yn 'Gwlad Pryderi;' a chan Ddafydd ab Gwilym yn 'Pryderi dir,' a 'Gwlad yr Hud.'

mynit gyfoeth, y mae iti groesaw ohonynt.' 'Na fynaf, unben,' eb efe, 'Duw a dalo iti dy garedigrwydd.' 'Mi a wnaef y caredigrwydd goreu a allaf i yn y byd, os myni.' 'Mynaf, enaid,' eb efe, 'Duw a dalo iti.' 'Yna mi a ddeuaf gyda thi i edrych am Riannon, ac i weled yr etifeddiaeth.' 'Iawn y gwnei,' ebe yntau. 'Ac yr wyf yn meddwl na wrandewaist ti erioed ar wraig well ei hymddyddan na hi; a phan oedd hi yn ieuanc, ni bu wraig dlysach na hi. Ac nid yw hi yn anhawddgar eto.'

A hwy a gerddasant rhagdynt; a pha hyd bynag y buont ar y ffordd, daethant o'r diwedd i Ddyfed. Ac erbyn eu dyfod i Arberth, gwledd ddarpar-edig oedd wedi ei harlwyio iddynt gan Riannon a Chicfa. Ac yna dechreu cydeistedd ac ymddyddan a wnaeth Manawyddan a Rhiannon; ac o'r ymddyddan hwnw, ei fryd a'i feddwl ef a gynhesodd tuag ati, a thybiai yn ei galon na welsai erioed wraig decach a thlysach na hi. 'Pryderi,' eb efe, 'mi a dderbyniaf dy gynyg di.' 'Pa gynyg oedd hwnw?' ebe Rhiannon. 'Arglwyddes,' ebe Pryderi, 'mi a'th gynygiais yn wraig i Fanawyddan ab Llyr.' 'Mi a fyddaf hyny yn llawen,' ebe Riannon. 'Y mae yn llawen genyf inau,' ebe Manawyddan, 'a Duw a dalo i'r gwr sydd wedi rhoddi imi gydymaith mor iagorol.'

A chyn darfod y wledd, cydgysgu a wnaethant. Ac ebe Pryderi, 'Arhoswch chwi yma, a minau a âf i Loegr i dalu gwrogaeth i Gaswallawn ab Beli.' 'Arglwydd,' ebe Rhiannon, 'yn Nghent y mae Caswallawn; ti a elli aros i dreulio y wledd hon, a disgwyl nes y delo yn nes yma.' 'Ninau a aroswn,' eb efe. A'r wledd hono a dreuliasant. A dechreu a wnaethant fyned oddiamgylch Dyfed, a hela, ac ymddifyru. Ac wrth rodio y wlad, ni welsant erioed hyfrytach gwlad i fyw ynnddi, na'i gwell i hela, nac amlach ei mel a'i physgod na hi. A chynyddodd cyfeillgarwch y pedwar hyny, fel na fynent fod heb eu gilydd na dydd na nos.

Ac yn nghanol hyny, Pryderi a aeth hyd Rydychain at Gaswallawn i dalu gwrogaeth iddo. A dirfawr oedd y croesaw a gafodd, a diolchwyd iddo am ddyfod i dalu ei wrogaeth.

Ac wedi iddo ddychwelyd, cymeryd eu gwledda a'u hesmwythder a wnaeth Manawyddan a Phryderi; ac yn Arberth y dechreusant wledda, canys yno yr oedd y prit lys, ac oddiyno y tarddai pob anrhydedd. Ac wedi gorphen y pryd cyntaf o fwyd y nos hono, a thra yr oedd y gwasanaethwyr yn bwyta, cyfododd y pedwar ac aethant allan i Orsedd Arberth, a'u gwarchodlu gyda hwynt. Ac fel yr oeddynt yn eistedd felly, dyma dwrf; a chan faint y twif, dyma gawod o niwl yn dyfod drostynt fel nas gallai yr un ohonynt weled y lleill. Ac ar ol y niwl, dyma hi yn goleuo eilwaith. A phan edrychasant ar y manau lle yr oedd preiddiau, a chyfoeth, a thai cyfanedd cyn hyny, ni welent

unrhyw ddim—na thy, nac anifail, na mwg, na tân, na dyn, na chyfanedd, ond tai y llys yn wag, ddiffaith, anghyfaneddol, heb ddyn na mil ynddynt, a'u holl gymdeithion wedi myned ar goll, heb iddynt hwy eill pedwar wybod ddim am danynt.

‘O! ie, yr Arglwydd Dduw,’ ebe Manawyddan, ‘pa le y mae gwyr y llys, a'm gwyr inau oddieithr hyn? Awn i edrych.’ Dyfod i'r neuadd a wnaethant, ac nid oedd yno neb. Myned i'r castell, ac i'r lle cysgu, ac ni welent neb; ac yn y feddgell a'r gegin nid oedd ond diffeithwch. Felly y pedwar, gwledda a wnaethant, a hela, ac ymddifyru. Yna hwy a ddechreusant rodio y wlad a'u cyfoeth, gan ymweled â'r tai a'r trigleoedd. ac ni welent ddim ond bwystflod gwylltion. Ac wedi gorphen ar eu gwleddoedd a'u lluniaeth, dechreusant ymborthi ar helwriaeth, a physgod, a mêl gwyllt. Ac felly y treuliasant y flwyddyn gyntaf a'r ail yn ddifyr ddigon. Ond o'r diwedd, dechreusant flino ar eu byd.

‘Diau,’ ebe Manawyddan, ‘ni byddwn ni fyw yn hwy fel hyn. Awn i Loegr, a cheisiwn rhyw grefft y caffom ein bywiolaeth oddiwrthi.’ Ac i Loegr yr aethant. gan belled a Henffordd. A hwy a gymerasant at y gwaith o wneuthur cyfrwyau. A Manawyddan a ddechreuodd lunio corotau (*housings*) a'u lliwio âg emliw glas (*blue enamel*). fel y gwelsai Llassar Llaesgygwyd yn gwneuthur. Ac efe a wnaeth yr emliw glas fel y gwnai gwr arall. Ac am hyny y gelwir emliw glas eto yn Galch Llassar, am ei wneuthur gan Llassar Llaesgygwyd.

A thra ceid y gwaith hwnw gan Fanawyddan, ni phrynid corof (*housing*) na chyfrwy gan yr un cyfrwywr dros holl wyneb Henffordd. Ac yn fuan gwybu yr holl gyfrwywyr eu bod yn colli eu prynwyr, ac na phrynid dim ganddynt hwy ond ar ol methu ei gael gan Fanawyddan. Yna cynull yn nghyd a wnaethant, a phenderfynu ei ladd ef a'i gymdeithion.

A hwy a gawsant rybudd o'r bwriad hwn, a chymerasant gyngor pa un a adawent y dref ai peidio. ‘Rhyngof i a Duw,’ ebe Pryderi, ‘ni chynghoraf i ini adael y dref, eithr lladd y taeogion hyn.’ ‘Nage,’ ebe Manawyddan, ‘pe ymladdem ni â hwynt, anghlod a ddeuai arnom, a'n carcharu a gaem. Gwell ini fyned i dref arall i enill ein bywiolaeth.’ A myned i ddinas arall a wnaethant hwy eill pedwar.

‘Pa gelfyddyd a gymerwn ni yma?’ ebe Pryderi. ‘Gwnawn darianau,’ ebe Manawyddan. ‘A wyddom ni rywbeth am hyny?’ ebe Pryderi. ‘Ni a'i profwn,’ ebe yntau. A dechreusant wneuthur tarianau, a'u gwneud ar gynllun y tarianau da a welsynt gynt, a doddi arnynt yr hyn a ddodasent ar y cyfrwyau. A llwyddasant gyda'r gwaith hwnw, fel nad oedd gofyn am darian yn yr holl dref ond y rhai a geid ganddynt hwy. Felly cyflym oedd eu llwyddiant, a dirif y nifer o darianau a wnaent. Ac felly y buont, hyd oni chydunodd eu cyd-drefwyr

yn eu herbyn, ac y penderfynasant eu lladd. Hwythau a gawsant rybudd ac a glywsant fod y gwyr â'u bryd ar eu dieneidiaw. 'Pryderi,' ebe Manawyddan, 'y mae y gwyr hyn yn bwriadu ein dyfetha, na chymerwn ninau gan y taeogion; ymosodwn arnynt a lladdwn hwynt.' 'Nage,' ebe yntau, 'Caswallon a glywai hyny, a'i elynion a fyddem. Myned i dref arall a wnawn.' A hwy a ddaethant i dref arall.

'Pa gelfyddyd a ddewiswn ni yma?' ebe Manawyddan. 'Yr un a fyndi o'r rhai a wyddom,' ebe Pryderi. 'Nage,' ebe yntau, 'gwnawn esgidiau; gan nad oes digon o wroldeb mewn cryddion i ymladd â ni, na'n rhwystro.' 'Nis gwr i ddim am y gwaith hwnw,' ebe Pryderi. 'Mi a wn, 'ebe Manawyddan, 'ac mi a ddysgaf iti wnio. Nid ymyrwn ni â pharatoi lledr, ond ei brynu yn barod, a gwneud y gwaith ohono.'

Yna efe a ddechreuodd trwy brynu y cordwal harddaf a gai yn y dref, a hwnw yn unig a brynai oddieithr y lledr gwadnau. Ac efe a ffurfiodd gydnabyddiaeth â'r eurych (*goldsmith*) goreu yn y dref, ac a barodd iddo ef wneud claspiâu, ac euro y claspiâu, ac a sylwodd yn fanwl arno, nes y dysgodd y gwaith ei hun. Ac am hyny y gelwid ef y Trydydd Eurgrydd. A thra y ceid hwy ganddo ef, ni phrynid nac esgid na hosan gan yr un crydd yn yr holl dref. Ond pan welodd y cryddion fod eu henillion yn pallu (canys fel y lliwiau Manawyddan, y gwniai Pryderi), hwy a ddaethant yn nghyd, ac a gymerasant gynghor. Ac yn y cynghor, penderfynwyd eu lladd.

'Pryderi,' ebe Manawyddan, 'y mae y gwyr hyn yn bwriadu ein lladd.' 'Paham y cymerwn ninau hyny gan y lladron taeog?' ebe Pryderi, 'lladdwn ninau hwynt oll.' 'Nage,' ebe Manawyddan, 'nid ymladdwn â hwynt, ac nid aroswn yn hwy yn Lloegr. Cyrchwn tua Dyfed, ac awn i'w hedrych.'

A pha hyd bynag y buont ar y ffordd, hwy a ddaethant i Ddyfed, ac a gyrchasant Arberth. Yno cyneu tân a wnaethant, ac ymborthi ar yr helfa, a threulio mis felly. A chynullasant eu cŵn atynt gan aros yno flwyddyn.

Ac un bore, cyfododd Pryderi a Manawyddan; ac wedi trefnu eu cŵn, aethant oddiwrth y llys i hela. A rhai o'r cŵn a redasant o'u blaen, ac a aethant i lwyn bychan oedd gerllaw; a chyda eu bod yn y llwyn, ciliasant yn ol yn gyflym â'u gwrychyn i fynu, a daethant yn ol at y gwyr. 'Neshawn,' ebe Pryderi, 'at y llwyn, 'er gwybod beth sydd yna.' Ac wedi iddynt neshau, wele faedd coed claerwyn yn codi o'r llwyn. Yna'r cŵn, yn cael eu hanog gan y gwyr, a ruthasant iddo, ac yntau a adawodd y llwyn ac a giliodd encyd oddiwrth y gwyr. A phan na fyddai yn agos at y gwyr, efe a safai yn erbyn y cŵn; a phan agoshai y gwyr, yntau a gilgai drachefn, ac a wrthsafai y cŵn eilwaith. Ac ar ol y baedd y cerddasant, hyd oni welsant gaer fawr aruchel, new-

ydd ei hadeiladu, mewn lle nas gwelsant waith maen erioed cyn hyny. A'r baedd a redodd yn fuan i'r gaer a'r cŵn ar ei ol. Ac wedi myned y baedd a'r cwn i'r gaer, rhyfeddu a wnaethant wrth weled y gaer mewn lle na welsant adeilad erioed cyn hyny. Ac o ben yr Orsedd buont yn edrych ac yn gwrando am yspaid am y cŵn; ond cyhyd ag y buont yno, ni chlywsant yr un ohonynt, na dim oddiwrthynt.

'Arglwydd,' ebe Pryderi, 'mi a af i'r gaer i edrych beth a ddaeth o'r cwn.' 'Diau,' ebe yntau, 'nid doeth y gwnei yn myned i gaer nas gwelaist erioed o'r blaen. Ac os gwnei fy nghynghor i, nid ai di iddi. Yr hwn a ddododd fod hud ar y wlad a barodd fod y gaer hon yma.' 'Diau,' ebe Pryderi, 'nis gallaf ollwng fy nghŵn fel hyn.' Ac er gwaethaf cynghor Manawyddan, i'r gaer yr aeth efe.

Pan aeth oddifewn i'r gaer, nis gwelai na dyn, na mil, na'r baedd, na'r cŵn, na thy, nac anedd. Ond yn nghanol llawr y gaer efe a welai ffynon, a gwaith o faen marmor o'i hamgylch. Ac ar lan y ffynon, gwelai gawg aur ar lech o faen marmor, a chadwynau yn estyn i'r awyr, ac ni welai ben iddynt. A mawr oedd ei foddhad wrth weled mor hardd oedd yr aur, a'r gwaith cywrain oedd ar y cawg. Ac efe a ddaeth at y cawg, ac a afaelodd ynddo, a'r cawg a lynodd yn ei law, a'i draed a lynodd yn y llech yr oedd y cawg arni; a chymerwyd ei leferydd oddiarno fel nas gallai ddywedyd yr un gair. Ac felly y safodd.

A Manawyddan a ddisgwyliodd am dano hyd yn agos i ddiwedd y dydd, ac yn hwyr yn y prydawn, pan oedd yn sicr yn ei feddwl na chlywai ddim oddiwrth Pryderi na'r cŵn, efe a aeth yn ol i'r llys. Ac wedi iddo fyned i mewn, Rhiannon a edrychodd arno, 'Pa le,' ebe hi, 'y mae dy gydymaith di a'th gwn?' 'Dyma,' ebe yntau, 'yr hyn a ddigwyddodd.' Ac efe a ddywedodd iddi fel y bu. 'Diau,' ebe hi, 'cydymaith drwg a fuost ti, a chydymaith da a gollaist.' A chyda'r gair hwnw, hi a aeth allan, ac i'r ardal lle y dywedasai ef fod y gaer. Wedi cyrhaedd yno, hi a welai y porth yn agored, ac yn ddiogel i mewn yr aeth. A hi a ganfu Pryderi yn gafael yn y cawg, ac a aeth ato. 'Och! arglwydd,' ebe hi, 'beth a wnei di yma?' A hithau a afaelodd yn y cawg; a phan afaelodd, ei dwylaw hithau hefyd a lynodd yn y cawg, a'i deudroed wrth y llech, ac nis gallai ddywedyd yr un gair. Ac ar hyny, pan ddaeth y nos dyma daran yn dyfod arnynt, a chawod o niwl; a chyda hyny, diflanodd y gaer, ac ymaith yr aethant hwythau.

Pan welodd Cicfa, merch Gwyn Gloew, nad oedd yn y llys ond y hi a Manawyddan, hi a ymofidodd gymaint fel na ofalai pa un ai byw ai marw a wnai. A Manawyddan a sylwodd ar ei gofid. 'Diau,' eb efe, 'yr wyt yn camgymeryd; os rhag fy ofn i yr wyt yn ymofidio, mi a alwaf Dduw yn dyst na welaist ti erioed

gydymaith cywirach nag a fyddaf i tra y myno Ef iti fod felly. Rhyngof i a Duw, hyd yn nod pe' buaswn yn ieuanc, mi a gadwaswn fy nghywirdeb hefo Pryderi, ac mi a'i cadwaf hefo tithau. Ac na fydded un ofn arnat,' eb efe, 'cany's, myn y Nefoedd, ti a gei bob caredigrwydd a ofyni ag sydd yn fy ngallu i ei rod-di, tra y gwelo Duw yn dda ein gadael yn y trallod a'r gofal hwn.' 'Duw a dalo iti,' ebe hi, 'hyny oeddwn i'n ddisgwyl oddiar dy law,' Ac oherwydd hyny, y forwyn a deimlai yn llawen ac yn eofn.

'Ie, enaid,' ebe Manawyddan, 'nid yw yn gyfleus ini drigo yma yn hwy; ein cwn a gollasom, ac nis gallwn gael ymborth. Awn i Loegr; hawddach fydd ini gael ymborth yno.' 'Yn llawen, arglwydd,' ebe hi, 'ni a wnawn hyny.' A hwy a gerddasant yn nghyd i Loegr.

'Arglwydd,' ebe hi, 'pa grefft a gymeri di? Cymer un lanwaith.' 'Na chymeraf,' eb efe, 'mi a gymeraf gryddiaeth fel y gwnaethum gynt.' 'Arglwydd,' ebe hi, 'nid yw hono yn ddigon glân a gweddus i wr mor gymhen ac urddasol a thi.' 'At hono yr af i,' eb efe.

A dechreu ar ei gelfyddyd a wnaeth, a threfnu ei waith o'r cordwal tecaf a gai yn y dref; ac fel y gw'nai yn y dref arall, efe a roddes glaspiau euraidd ar yr esgidiau. A bonglerwaith ofer oedd gwaith holl gryddion y dref wrth ei gydmaru â'r eiddo ef. A thra gellid cael esgid neu hosan ganddo ef, ni phrynid gan neb arall. Ac efe a dreuliodd flwyddyn felly, nes bod y cryddion yn cenfigenu wrtho, ac yn ymgynghori yn ei erbyn. Ac efe a rybuddiwyd o hyny, a dywedwyd wrtho fod y cryddion wedi penderfynu ei ladd.

'Arglwydd,' ebe Cicfa, 'paham y goddefir hyn gan y taoegion?' 'Nage,' ebe yntau, 'ni a ddychwelwn i Ddyfed.' Ac i Ddyfed yr aethant.

A pha beth a wnaeth Manawyddan pan yn cychwyn tua Dyfed ond cymeryd gydag ef faich o wenith. Ac efe a aeth i Arberth, ac yno y cyfaneddodd. Ac ni bu dim mwy boddhaol ganddo na gweled Arberth, a'r diriogaeth lle y buasai yn hela gyda Phryderi a Rhiannon. Ac efe a ymgynefinodd â'r lle, gan bysgota a hela ceirw ar eu gwâl. Yna efe a ddechreuodd arloesi, a hau un rofft [cae], ac ail, a thrydedd. Ac wele tyfodd arnynt y gwenith goreu yn y byd, a'i dair rofft yn dwyn cnwd toreithiog na welodd dyn erioed decach gwenith nag ef.

Treulio amserau y flwyddyn a wnaeth, ac wele y cynhauaf yn dyfod. Ac efe a aeth i edrych un o'r roffteu, ac wele hono yn addfed. 'Mi a fynaf fedi hon yforu,' eb efe. A'r nos hono, efe a aeth yn ol i Arberth; a'r bore glas dranoeth dychwelodd at y rofft; ond pan ddaeth, nid oedd yno ond y gwelltyn llwm. Yr oedd pob twysen wedi ei thori oddiwrth y gwelltyn, a'i dwyn ymaith, a dim ond y gwellt yn aros. Ac efe a ryfeddodd yn fawr.

Ac efe a aeth i edrych rofft arall, ac wele hono hefyd yn addfed. 'Diau,' eb efe, 'mi a fynaf fedi hon yforu.' A thranoeth, efe a ddaeth ar feddwl medi hono. A phan ddaeth, ni chafodd yno ond y gwelltyn llwm yn unig. 'O! ie, Arglwydd Dduw,' eb efe, 'pwy sydd yn gorphen fy nifa i? Ac mi a'i gwn. Yr hwn a ddechreuodd fy nifa, sydd yn ei orphen, ac yn difa y wlad hefyd gyda mi.'

Ac efe a aeth i edrych y drydedd rofft; a phan ddaeth, ni welsai neb wenith tecach, a hwnw yn addfed. 'Mefi imi,' eb efe, 'oni wyliaf i hwn heno; a'r neb a ddygodd yr yd arall a ddaw i ddwyn hwn; ac mi a gaf wybod beth ydyw.' Ac efe a gymerodd ei arfau, ac a ddechreuodd wyllo y rofft. Ac efe a fynegodd hyn oll i Gicfa. 'Ie,' ebe hi, 'pa beth a wnai di?' 'Mi a wyliaf y rofft heno,' eb efe.

Ac i wyllo y rofft yr aeth. Ac ar haner nos, wele y twrw mwyaf yn y byd. Ac efe a edrychodd, a gwelai dort anifeiriol o lygod, heb rif na mesur arnynt. Ac ni wyddai yn y byd beth ydoedd nes gweled y llygod yn gwibio yn y rofft, a phob un yn dringo ar hyd y gwelltyn, yn estyn at y dwysen, ac yn ei thori, ac yn rhedeg ymaith gyda hi, gan adael y gwelltyn ar ol. Ac ni wyddai ef fod yr un gwelltyn yno nad oedd llygoden ar ei gyfer. A hwy a gymerent eu hynt ymaith, a'r tywys ganddynt.

Yna rhwng digter a llid, efe a ruthrodd i blith y llygod, ond nis gallai ddal yr un ohonynt mwy na phe buasant yn wybed neu adar yr awyr. Eithr un a welai yn fwy musgrell na'r lleill, ac yr oedd hono yn rhedeg mor gyflym fel mai anhawdd y gallai dyn ar draed ei goddiwedyd. Ac efe a redodd ar ol hono, ac a'i daliodd, ac a'i dododd yn ei faneg, ac a rwymodd enau y faneg â llinyn, gan ei chadw a'i dwyn i'r llys. Ac yno, efe a ddaeth i'r ystafell lle yr oedd Cicfa, ac a oleuodd dân, ac a grogodd y faneg gerfydd llinyn wrth hoel. 'Beth sydd genyt yna, arglwydd?' ebe Cicfa. 'Lleidr,' ebe yntau, 'a gefais yn lladrata oddiarnaf.' 'Pa fath leidr ydyw, arglwydd, fel y gelli di ei ddodi mewn maneg?' ebe hi. 'Dyma yr hanes oll,' eb efe, ac efe a ddywedodd wrthi pa fodd yr anrheithiwyd ac y difawyd ei roffteu, ac fel y daethant i'r rofft olaf ger gwydd ei lygaid. 'Ac un ohonynt oedd yn fwy musgrell na'r lleill, mi a ddeliais hono, ac y mae yn awr yn y faneg, ac mi a'u crogaf yforu. A dygaf i Dduw fy nghyffes, mi a grogaswn bob un ohonynt pe gallaswn eu dal.' 'Arglwydd,' ebe hi 'nid yw hyny yn rhyfedd; ond nid gweddus gweled gwr boneddig mor urddasol a thi yn crogi rhyw bryfyn fel yna; a phe gwnelit yn iawn, nid ymyrit â'r pryf, ond ei ollwng ymaith.' 'Mefi imi,' eb efe, 'pe gallaswn eu dal hwynt oll, mi a'u crogaswn; ac a ddeliais, mi a'i crogaf.' 'Ie, arglwydd,' ebe hi, 'nid oes achos imi amddiffyn y pryf yna, ond er mwyn dy urddas di; gwna dithau yn ôl

dy ewyllys, arglwydd.' 'Pe gwyddwn inau am un rheswm yn y byd tros iti ei amddiffyn, mi a gymerwn dy gynghor,' ebe Manawyddan, 'a chan nas gwna, arglwyddes, yr wyf am ei ddyfetha.' 'Gwna dithau yn ol dy ewyllys,' ebe hi.

Yna efe a aeth i Orsedd Arberth, gan ddwyn y llygoden gydag ef, ac a safodd ar y ddwy fforch yn y lle uwchaf ar yr Orsedd. Ac fel yr oedd felly, gwelai ysgolhaig yn dyfod ato, a hen ddillad treuliedig, tlawd, am dano. Ac yr oedd saith mlynedd er pan welsai na dyn nac anifail yn y parth hwnw, oddieithr y pedwar person a drigasent yn nghyd hyd oni chollwyd dau ohonynt.

'Arglwydd,' ebe'r ysgolhaig, 'dydd da iti.' 'Duw a roddo dda, a chroesaw i tithau,' eb efe, 'ac o ba le y deui di, ysgolhaig?' 'Dyfod yr ydwyf o ganu yn Lloegr,' eb efe, 'a phaham y gofyni, arglwydd?' 'Am na welais,' ebe yntau, 'undyn ond tydi yr awrhon yn y parth hwn er's saith mlynedd, namyn pedwar o bersonau deoledig.' 'Ie, arglwydd,' eb efe, 'myned trwy y wlad hon yr ydwyf i yr awrhon tua'm gwlad fy hun. A pha beth yr ydwyf ti yn ei wneuthur, arglwydd?' 'Crogi lleidr a gefais yn lladrata oddiarnaf,' eb efe. 'Pa fath leidr, arglwydd?' eb efe, 'mi a welaf bryf yn dy law di tebyg i lygoden, ac nid gweddus i wr mor urddasol a thi ymhel â phryf fel yna. Gollwng ef yn rhydd.' 'Na ollyngaf. rhyngof i a Duw,' eb efe, 'yn lladrata y cefais ef; a chosb lleidr a roddaf arno, sef ei grogi.' 'Arglwydd,' ebe yntau, 'yn hytrach na gweled gwr o'th urddas di wrth waith felly, punt a gefais wrth gardota, mi a'i rhoddaf iti—gollwng y pryf ymaith.' 'Na ollyngaf. rhyngof i a Duw, ac nis gwerthaf ychwaith.' 'Gwna a fynot, arglwydd,' eb efe, 'nid yw hyny yn ddim i mi, ond rhag gweled gwr o'th urddas di yn ymhel â phryf fel yna.' Ac aeth yr ysgolhaig ymaith.

Ac fel yr oedd efe yn doddi y trawst yn y ddwy fforch, wele offeiriad yn dyfod ar farch trwsiadus. 'Arglwydd, dydd da iti,' eb efe. 'Duw a roddo dda i tithau,' ebe Manawyddan, 'a'th fendith i minau.' 'Bendith Duw a fyddo iti; a pha beth, arglwydd, yr ydwyf yn ei wneuthur?' 'Crogi lleidr, a gefais yn lladrata oddiarnaf,' eb efe. 'Pa fath leidr ydyw, arglwydd?' ebe yntau. 'Pryf yw o anian llygoden; a lladrata yr ydoedd oddiarnaf, a chosb lleidr a roddaf inau arno ef.' 'Arglwydd,' ebe yntau, 'yn hytrach na dy weled yn ymhela â phryf fel yna, mi a brynaf ei ollyngdod ef genyt.' 'Dygaf i Dduw y fy nghyffes, nas gwerthaf ac nas gollyngaf ef yn rhydd.' 'Gwir, arglwydd, nad yw efe yn werth dim; ond rhag dy weled di yn halogi dy hun âg ef, mi a roddaf iti dair punt, os gollyngi ef ymaith.' 'Na fynaf, rhyngot i a Duw, un pris am dano; efe a gaiff ei haeddiant, sef ei grogi.' 'Dilyn dithau dy fympwy, arglwydd,' ebe'r cffeiriad, ac ymaith ag ef.

Yna efe a fagloddi y llinyn am wddf y llygoden; ac fel yr oedd efe yn ei

dyrchafu, wele esgob a'i osgorddlu, a'i feirch pyniog, a'i ganlynwyr, yn neshau. A'r esgob ei huu a ddaeth at Manawyddan, yntau a ymataliodd hefo'i waith. 'Arglwydd esgob,' eb efe, 'dyro dy fendith.' 'Duw a roddo ei fendith iti,' eb efe, 'pa beth yr ydwyt yn ei wneuthur?' 'Crogi lleidr a gefais yn lladrata oddi-arnaf,' ebe yntau. 'Onid llygoden a welaf yn dy law di?' eb efe. 'Ie, a lleidr a fu hi arnaf fi,' ebe yntau. 'Wel,' eb efe, 'gan imi ddyfod pan yr wyt ar ladd y pryf yna, mi a'i prynaf genyt, ac a roddaf saith punt iti am dani, rhag edrych ar wr mor urddasol a thi yn difetha creadur mor ddiwerth a hwn. Gollwng hi, a thi a gai yr arian.' 'Na ollyngaf, rhyngof i a Duw,' ebe yntau. 'Gan nas gollyngi hi am hyny, mi a roddaf iti bedair punt ar hugain o arian parod; gollwng dithau hi.' Dygaf i Dduw fy nghyffes, nas gollyngaf hi am gymaint arall a hyny.' 'Gan nas gollyngi hi er hyny,' eb efe. 'mi a roddaf iti yr holl feirch a weli yn y maes hwn, a'r saith gwr sydd yma, a'r saith march y maent arnynt.' 'Na fynaf, rhyngof i a Duw,' ebe yntau. 'Gan na dderbyni di hyny, gofyn y pris a fynot, a thi a'i cai.' 'Gwnaf,' ebe yntau, 'mi a fynaf Rhiannon a Phryderi,' 'Ti a gai hyny.' 'Na fynaf, rhyngof i a Duw.' 'Beth a fyni di ynte?' 'Mi a fynaf symud yr hud a'r lledrith sydd ar saith cantref Dyfed.' 'Ti a gai hyny; gollwng dithau y llygoden.' 'Na ollyngaf, rhyngof i a Duw,' eb efe. 'Mi a fynaf wybod pwy ydyw y llygoden.' 'Fy ngwraig i ydyw.' 'Er iddi fod yn wraig i ti, nis gollyngaf hi. Paham y daeth hi ataf i?' 'I'th anrheithio di,' ebe yntau, 'myfi yw Llwyd ab Cilcoed, a myfi a ddododd yr hud ar saith cantref Dyfed. Ac i ddial tros Gwawl ab Clud, oherwydd fy nghyfeillgarwch ag ef. y dodais i yr hud. Ac ar Pryderi y dielais y chwareu Broch yn y Gôd¹ a wnaeth Pwyll Pen Annwn ar Wawl ab Clud, a hyny yn annoeth, yn llys Hyfeydd Hen. Ac wedi gwybod dy fod dithau yn cyfaneddu yn y wlad, fy nheulu a ddaethant ataf, ac a ddeisyfasant arnaf eu trawsffurfio yn llygod, fel y gallent ddifa dy fyd di. A'm teulu i fy hunan a ddaethant y nos gyntaf. A'r ail nos y daethant hefyd, ac a ddifasant yr ail rofft. A'r drydedd nos, y daeth fy ngwraig, a boneddigesau y llys ataf gan ddeisyf arnaf eu trawsffurfio hwythau. Ac mi a'u trawsffurfiais; a beichiog oedd hi. Ac onibai ei bod yn feichiog, ni buasit ti wedi gallu ei dal; ond gan mai felly y bu, ac iti ei dal hi, mi a roddaf Pryderi a Rhiannon i ti, ac a ddygaf yr hud oddiar Dyfed. Bellach, mi a fynegais pwy ydyw; gollwng dithau hi.' 'Na ollyngaf, rhyngof i a Duw,' eb efe. 'Pa beth a fyni ynte?' ebe yntau. 'Dyma beth a fynaf: na byddo byth eto hud ar saith cantref Dyfed. ac na cheisier ei ddodi ychwaith.' 'Ti a gai hyny. Gollwng hi.' 'Na ollyngaf,' myn fy nghred,' ebe yntau. 'Beth a fyni di yn mhellach?' eb efe. 'Dyma beth a

¹ *Broch yn God.*—Gweler crybwylliad am yr hen chwareu hwn yn Pwyll Pendefig Dyfed hefyd am yr achos o ddodi yr hud hwn ar y wlad.

fynaf,' ebe yntau, 'na byddo byth ddial ar Pryderi a Rhiannon, nac arnaf inau, am hyn.' 'Hyny oll a geffi,' eb efe, 'a diau mai doeth y dywedaist, canys ar dy ben di y deuai yr holl ddialedd am hyn.' 'Ie,' ebe yntau, 'rhag hyny y nodais inau ef.' 'Rhyddha fy ngwraig imi bellach.' 'Na ryddhaf, rhyngof i a Duw, hyd oni welwyf Pryderi a Rhiannon yn rhydd gyda mi.' 'Wel,' eb efe, 'dyma hwynt yn dyfod.'

Ar hyny, wele Pryderi a Rhiannon. Ac efe a gododd i'w derbyn a'u croesawu; ac eisteddasant yn nghyd.' 'Ha! wrda,' ebe'r esgob, 'dyro imi fy ngwraig bellach; oni chefaist yr hyn oll a nodais?' 'Mi a'i gollyngaf hi yn llawen,' eb efe. Ac yna y gollyngodd ef hi.

Yntau a'i tarawodd hi â'i hudlath, nes y trodd yn wraig ieuanc decaf a welodd neb.

'Edrych o'th amgylch ar y wlad' eb efe, 'a thi a weli yr holl balasau a'r tai fel y buont oreu erioed.' Yntau a gododd ac a edrychodd; a phan gododd, efe a welai yr holl wlad mewn diwyg ragorol, ac yn gyflawn o ddeadelloedd a chyfaneddau. 'Pa gaethiwed a roddwyd ar Pryderi a Rhiannon?' eb efe. 'Yr oedd yrd (*knockers*) porth fy llys i am wddf Pryderi; ac yr oedd coleri yr asynod wedi y dychwelynt o gludo gwair, am ei gwddf lithau Rhiannon. A dyna fu eu carchar.'

Ac o achos y carchariad hwnw y gelwir y chwedl hon yu Fabinogi Mynweir a Mynordd.¹

Ac felly y terfyna y rhan hon o'r Fabinogi.

¹ *Mynweir a Mynordd*.—Mynweir y gelwir *horse collar* mewn rhai parthau o Gymru hyd y dydd hwn. Tardda y gair *Mynordd* o *mynu*—hawl, a *gordd* i guro.



PWYLL PENDEFIG DYFED.

[CYHOEDDWDYD y rhamant hon ar y cyntaf yn y *Cambrian Register*, yn nechreu y ganrif bresenol, a chyfieithiad i'r Saesneg o waith Dr. WM. OWEN PUGHE; ac ymddangosodd math o darnodiad ohoni hefyd yn y *Relicks of Welsh Bards*, o waith Bardd y Brenin]

PWYLL PENDEFIG DYFED¹ oedd arglwydd ar saith cantref Dyfed.² Ac un tro digwyddai fod yn Arberth, ei brif lys; a daeth i'w fryd a'i feddwl i fyned i hela. A'r parth o'i diriogaeth y mynai fyned i hela ynddo ydoedd Glyn Cuch.³ A'r nos hono, efe a gychwynodd o Arberth, ac a ddaeth cyn belled a Llwyn Diarwydd, ac yno y bu y nos hono. Ac yn ieuentyd y dydd dranoeth, efe a gododd ac a ddaeth i Glyn Cuch. Yna, gollyngodd ei gŵn o dan y coed, a chanu ei gorn, a dechreu cynhyrfu yr helfa. Ac wrth ddilyn y cŵn, efe a gollodd ei gydymdeithion; a thra yr oedd yn ymwrandaŵ ar gyfarthiadau ei gŵn ei hun, efe a glywai gyfarthiadau haid o gŵn eraill. Ac nid oeddynt yr un swm, a dyfod yr oeddynt i gyfarfod ei gŵn ef.

Ac efe a welai lanerch o faes gwastad yn y coed; ac fel yr oedd ei gŵn ef yn dyfod i fin y llanerch, gwelai garw o flaen yr haid arall. A thua chanol y

Pwyll.—Yn achau Gwynfardd, tywysog Dyfed, dywedir mai mab oedd Pwyll i Argoel Law Hir; ond tybia Davies, yn ei *Mythology of the Druids*, mai ŵyr i Argoel ydoedd, ac mai enw ei dad oedd Meirig. Sonir am dano yn *Preiddeu Annwn*, gan Taliesin; a rhydd y prif fardd ganmoliaeth mor anghymedrol iddo, a dyagrifiad mor ormodol o'i orchestion, nes gogwyddo'r darllynydd i dybied nad yw'r gân ond gwawdiaith lem. Yn ol y *Liber Landavensis*, mab oedd Argoel i Tryfan, a chydoeswr & Theilaw Sant, yn ei flodeu yn y 6ed ganrif. Dywedir fod 'Bet Aircol in dyved.'

¹ *Dyfed.*—Y rhan ddeheu-orllewinol o Gymru. Cynwysai gynt yr oll o sir Benfro yn nghyda rhanau helaeth o siroedd Caerfyrddin ac Aberteifi. Dywedir yn *Heraldic Visitations* Lewis Dwnn: 'Terfynau brenhiniaeth Dyfed oeddynt gynt rŵng Teify afon a Thowi afon, o Lynn Teifi a Blaen Towy hyd ymlaen tir Dewi a chanol y frenhiniaeth bonn oedd yn y Porth Towyll yn Ghaerfyrddin, ag i mae heddyw gof am y terfynau mewn hen llyfr parsment esgob Dewi.' Adwaenid y rhanbarth hon gan y Cymry gynt yn Soisyllwech; hwyrach oherwydd fod y Seison wedi gwladychu yn fore ynddi, canys gelwir hi er's llawer canrif gan y Seison, yn '*Little England beyond Wales*;' neu fel y barna Arglwyddes Guest, cafodd ei henw oddiwrth Sitsyllt, tad Llewelyn ab Sitsyllt, tywysog Gwynedd. Yn yr hanesion Rhufeinig, gelwir preswylwyr Dyfed yn Dimetæ.

² *Glyn Cuch.*—Cuch, neu fel y sillebir y gair fynychaf *Cwch*, ydyw enw yr afonig sydd yn terfynu siroedd Penfro a Chaerfyrddin, ac yn ymarllwys i'r Delfi rhwng Cenarth a Llechryd. Yn Mlaen Glyn Cuch yr oedd trigfa Cadifor Fawr, un o fân frenhinoedd Dyfed, yr hwn a fu farw yn 1088, ac a elwid yn arglwydd Blaen Cuch a Cilsant. Y mae amryw o brif deuluoedd Penfro yn olrhain eu hachau ohono.

llanerch, dyma yr haid oedd ar ol y carw yn ei oddiweddyd, ac yn ei gael i lawr. Ac efe a sylodd ar liw yr haid ddyeithr, heb ymbwyllo i edrych ar y carw; ac o'r holl gŵn a welsai yn y byd, ni welodd erioed gŵn o'r un lliw a'r rhai hyn. Canys yr oedd eu blew yn wyn clauer a llathraidd, a'u clustiau yn gochion; ac fel y disgleiria i gwynder eu blew y llathrai cochni eu clustiau. Ac efe a ddaeth at y cŵn, gan yru yr haid a laddasai y carw ymaith, a dodi ei haid ei hunan ar y carw.

Ac fel yr oedd efe yn gwneud hyny, gwelai farchog yn dyfod ar ol yr haid arall, ar farch gwelwlas mawr, a choru canu am ei wddf, a dillad o frethyn llwyd am dano yn wisg hela. A'r marchog a ddaeth ato, ac a ddywedodd fel hyn wrtho, 'Ha! unben, mi a wn pwy wyt ti, ac ni chyfarchaf well iti.' 'Ie,' ebe Pwyll, 'ysgatfydd dy fod yn wr o gymaint urddas, fel nas dylit.' 'Diau,' ebe yntau, 'nid fy urddas sydd yn fy atal rhag gwneud hyny.' 'Ha! unben,' eb efe, 'beth arall?' 'Rhyngof i a Duw,' ebe yntau, 'dy anwybodaeth di a'th anfoesgarwch.' 'Pa anfoesgarwch, unben, a welaist ti arnaf i?' 'Ni welais fwy o anfoesgarwch mewn dyn,' eb efe, 'na gyru'r haid a laddasent y carw ymaith, a dodi arno dy gŵn dy hun. Hyny yn wir oedd yn anfoesgar; ac ernad ymddialaf â thi, rhyngof i a Duw, mi a roddaf fwy o anghlod i ti na gwerth can' carw.' 'Ha! unben,' eb efe, 'os gwnaethum gam â thi, mi a brynaf dy ewylls da.' 'Pa fodd,' ebe yntau, 'y pryni di?' 'Yn ol dy urddas di; ond nis gwn i pwy ydwyf.' 'Brenin coronog wyf i yn y wlad yr hanwyf ohoni.' 'Arglwydd,' ebe yntau, 'dydd da iti; ac o ba wlad yr wyt ti yn hanu ohoni?' 'O Annwfn,' eb efe, 'Arawn,' brenin Annwfn, wyf i.' 'Arglwydd,' ebe yntau, 'pa fodd y gallaf enill dy gyfeillgarwch di?' 'Dyma fel y gelli,' eb efe, 'y gwr y mae ei diriogaeth gyferbyn â'm tiriogaeth i sydd yn rhyfela yn fy erbyn yn wastad; sef yw hwnw, Hafgan, brenin o Annwfn, a thrwy fy ngwaredu oddiwrth ormes hwnw, yr hyn a elli yn hawdd, y cai fy nghyfeillgarwch.' 'Minau a wnaif hyny yn llawen,' ebe yntau. 'Mynega dithau pa fodd y gallaf hyny.' 'Mynegaf,' eb efe, 'dyma fel y gelli. Mi a wnaif gyfamod o gyfeillgarwch cadarn â thi; fel

¹ *Annwfn neu Annwn.*—Ystyr y gair, yn ol Thomas Richards ydyw, 'pwl diwaelod, gagedor, y dyfnder, uffern, cyflwr a lle y marw.' 'Anadl carth, lle cyfarth cŵn, Ennaint gwrachiod annwn.'—*D. ab Gwilym* i'r Niwl. Yn ol coelion yr Hen Gymry, Annwn oedd gwlad hud a lledrith, a phoblogid hi gan eu dychymyg fywiog a rhamantus gan bob math o elfodau rhyfedd, megys, Gwrachod y Rhabin, Cŵn Annwn, Tylwythion Teg, &c. Cyfieithir y gair weithiau i'r Seisnig yn *unknown*.

² *Arawn.*—Sopir am dano yn Math ab Mathonwy, a chrybwyllwyd eisoes am dano yn Nghilhwch ac Olwen, yn ymladd ag Amaethon ab Don, yn Nghad Godden. Tybia rhai mai efe ydyw Aron ab Dewinfn, y cyfeirir ato yn Englynion y Beddau:—

Bet Aron mab Dewinfn in hir guennele
Ni ddodai law ar ladron
Ni roddi guir y alon.

hyn, mi a'th roddaf yn fy lle i yn Annwfyn, ac a roddaf y wraig decaf a welaist ti erioed yn gywely â thi, a'm pryd i a'm gosgedd a fydd arnat, hyd na fedr na gwas ystafell, na swyddog, nac undyn arall a'm canlynodd i erioed, wybod nad myfi a fyddi di. A hyn a fydd am flwyddyn o'r dydd yforu; ac yna ni a gyfarfyddwn yn y lle hwn.' 'Ie,' ebe Pwyll, 'ond wedi imi fod yno am flwyddyn, pa fodd y cyfartyddaf i â'r gwr a ddywedi di?' 'Blwyddyn i heno,' eb efe, 'y mae amod rhyngof i ac yntau i gyfarfod ar y Rhyd; a bydd di yno ar fy llun i, a thi a roddi un ddyrnod iddo na bydd efe byw ohoni. Ac os deisyf ef arnat roddi iddo ail ddyrnod, na ddyro, er maint yr ymbilio â thi; canys pan roddwn i yr ail ddyrnod iddo, efe a ymladdai â mi dranoeth cystal a chynt.' 'Ie,' ebe Pwyll, 'pa beth a wnaf i â'm teyrnas?' 'Mi a wnaf,' ebe Arawn, 'na bo neb yn dy diriogaeth, na gwr na gwraig, a wŷr nad tydi a fyddaf i. Myfi a af i'th le di.' Ebe Pwyll, 'Mi a af rhagof yn llawen.' 'Dirwystyr a fydd dy hynt ac ni ddaw ddim i'th lesteirio nes y deui i'm tiriogaeth, ac mi a ddeuaf i'th gyfarwyddo.'

Ac efe a'i hebryngodd ef nes y daeth i olwg y llys a'r tai. 'Dyna,' eb efe, 'y llys a'r deyrnas yn dy feddiant. Dos dithau i'r llys, nid oes ynddo neb a'th adnebydd. Ac fel y gweli di yr arferiadau ynddo, ti a ddealli foesau y llys.'

Yntau a aeth i'r llys, ac yno ef a welai dai cysgu, a neuaddau, ac ystafelloedd, ac adeiliadau addurnol tecaf a welodd undyn. Ac efe a aeth i'r neuadd i ddadwisgo, a daeth llanciau a gweision ieuainc i'w ddadwisgo; a phawb, fel y delent, yn cyfarch gwell iddo. Dau farchog a ddaeth i dynu ei wisg hela oddiam dano, a doddi am dano yn eu lle eurwisg o bali. Yna y neuadd a ddarparwyd. ac wele y teulu a'r swyddogion yn dyfod i mewn—yn llu harddaf a mwyaf trwsiadus a welwyd erioed, a'r frenhines gyda hwynt, yn wraig decaf a welsai neb, ac eurwisg o bali disglaer am dani. Ac ar hyny, ymolchi a wnaethant, ac eistedd wrth y byrddau. Ac fel hyn yr eisteddent: Y frenhines ar un ochr iddo, ac iarll, debygai ef, ar yr ochr arall.

Ac efe a ddechreuodd ymddyddan â'r frenhines; ac o bawb y bu yn ymddyddan â hi erioed, y weddusaf, a boneddigeiddiaf, a llawenaf oedd hi. A threulio yr amser a wnaethant mewn bwyta, ac yfed, a chanu, a rhialtwch; ac o holl lysoedd y ddaear a welsai ef, dyma y llys llawnaf o fwyd a diod, a llestri aur, a theyrndlysau.

Amser a ddaeth iddynt i fyned i gysgu, ac i gysgu yr aeth ef a'r frenhines. A chynted ag y daethant i'r gwely, efe a drodd ei wyneb at yr erchwyn a'i gefn ati hithau, ac o hyny hyd dranoeth ni ddywedodd ef wrthi un gair. Ond wedi codi dranoeth, ymddyddanent yn dirion ac addiwyn. Beth bynag o serchowgrwydd a fyddai rhyngddynt y dydd, ni bu un nos hyd yn mhen y flwyddyn am-

gen nag a fu y nos gyntaf. Treulio y flwyddyn a wnaeth efe yn hela, a datganu, a gwledda, ac ymloniant, ac ymddyddan â'i gydymdeithion, hyd noson yr ornest. A phan ddaeth y nos hono, yr oedd pob dyn hyd i eithaf y deyrnas yn cofio am dani; ac efe a aeth i'r man cyfarfod, a phendefigion y deyrnas gydag ef. A chyda eu bod wrth y Rhyd, marchog a gododd ac a ddywedodd fel hyn. 'Ha! wyrda,' eb efe, 'ymwrandewch yn dda. Rhwng y ddau frenin y mae'r ornest hon, a rhyngddynt hwy eill dau yn unig. Hawlio y mae pob un ohonynt dir a daear y llall; a safed pob un ohonoch yn llonydd, gan adael rhyngddynt hwy eill dau.'

Ac ar hyny, y ddau frenin a gyfarfuant eu gilydd yn nghanol y Rhyd, A'r ymosodiad cyntaf, y gwr oedd yn lle Arawn a darawodd Hafgan yn nghanol bogel ei darian nes yr holltodd yn ddau haner, ac y torodd yr arfau, ac nes oedd Hafgan hyd ei fraich a'i waewffon tros bedrain ei farch i'r llawr. a'r dyrnod yn un angeuol. 'Ha! unben,' ebe Hafgan, 'pa hawl oedd genyt i achosi fy angau i? Nid oeddwn i yn dy niweidio di, ac nis gwn am un achos iti fy lladd. Ond, er Duw, gan iti ddechreu fy lladd, gorphen.' 'Ha! unben,' ebe yntau, 'feallai y bydd yn edifar genyf am a wnaethum iti. Cais rywun arall i'th ladd, ni laddaf i di.' 'Fy ngwyr da a chywir,' ebe Hafgan, 'dygwch fi oddiyma. Daeth fy amser terfynedig. Nis gallaf i eich cynal bellach.'

'Fy ngwyr da inau,' ebe'r gwr oedd yn lle Arawn, 'ymgynglwrch, a gwybyddwch pwy a ddylai fod yn wyr i mi.' 'Arglwydd,' ebe'r pendefigion, 'pawb a ddylent fod yn wyr iti gan nad oes bellach ar holl Annwfyn frenin ond tydi.' 'Ie,' ebe yntau. 'pwy bynag a ddel yn ostyngedig, iawn ydyw ei dderbyn, a'r hwn ni ddel yn ufudd, gorfoder ef trwy rym cleddyf.' Yna efe a dderbyniodd warogaeth y gwyr, a dechreuodd oresgyn y wlad; ac erbyn haner dydd dranoeth yr oedd y ddwy deyrnas yn ei feddiant. Yna efe a gerddodd tua'r man cyfarfod, ac a ddaeth i Glyn Cuch.

A phan ddaeth yno, yr oedd Arawn brenin Annwfyn yn ei gyfarfod, a llawen a fuont wrth weled eu gilydd. 'Ie,' ebe Arawn, 'Duw a dalo iti dy garedigrwydd tuag ataf; mi a'i clywais.' 'Ie,' ebe yntau. 'pan ddychwelot dy hun yn ol i'th wlad. ti a weli yr hyn a wnaethum erot ti.' 'Yr hyn a wnaethost,' eb efe, 'erof i, Duw a dalo iti.'

Yna Arawn a roes i Bwyll Pendefig Dyfed ei ffurf a'i ddrych ei hun, a chymerth Arawn ei ffurf a'i ddrych yntau. Ac Arawn a gerddodd rhagddo tua'i lys i Annwfyn. a llawen oedd ganddo weled ei bobl a'i deulu, gan nas gwelsai hwy er's talm. Hwytiau, er hyny, ni wyddent ei golli ef, ac nid oeddynt yn synu at ei ddyfodiad mwy nag arferol. A'r dydd hwnw a dreuliwyd mewn dig-

rifwch a llawenydd trwy eistedd ac ymddyddan hefo'i wraig a'i bendefigion. A phan ddaeth cwsg yn felusach ganddynt na chyfeddach, i gysgu yr aethant.

YNTAU Pwyll Pendefig Dyfed a ddaeth i'w deyrnas a'i wlad ei hun, ac a ddechreuodd ymofyn â phendefigion y wlad beth a fuasai ei lywodraeth arnynt hwy y flwyddyn hono wrth yr hyn a fuasai cyn hyny. 'Arglwydd,' ebynt hwy, 'ni bu erioed fwy dy ddoethineb, ni buost erioed mor garedig a chyn hawdded genyt dreulio dy dda, ac ni bu well dy drefniadau erioed na'r flwyddyn hon.' 'Rhyngof i a Duw' ebe yntau. 'chwi a ddylech ddiolch i'r gwr a fu gyda chwi; a dyma yr hanes fel y bu.' A Phwyll a ddywedodd y cyfan wrthynt. 'Ie arglwydd,' ebynt hwy, 'dylet ddiolch i Dduw fod genyt y fath gyfaill a'r lywodraeth a fwynhawyd genym y flwyddyn hon na chymer oddiarnon.' 'Na chymeraf, ihyngof i a Duw.' ebe Pwyll.

Ac o hyny allan, cadarnhawyd y cyfeillgarwch oedd rhyngddynt, ac anfonai y naill i'r llall feirch a milgwn, a hebogau a phob cyfryw dlws y tybiai y naill a fyddai'n foddhaol gan y llall. Ac oherwydd iddo drigo y flwyddyn hono yn Annwfn, a gwladychu yno mor lwyddianus, a dwyn y ddwy deyrnas yn un trwy ei ddewrder a'i allu milwrol, pallodd ei enw Pwyll Pendefig Dyfed, a gelwid ef Pwyll Pen Annwfn o hyny allan.

Ac un tro, yr oedd Pwyll yn Arberth, ei brif lys, a gwledd ddarparedig oedd yno, a nifer mawr o wyr gydag ef. Ac wedi y bwyta cyntaf, Pwyll a gyfododd i gerdded, ac a ddaeth i ben Gorsedd oedd uwchlaw y llys, a elwid Gorsedd Arberth. 'Arglwydd,' ebe un o'r llys, 'hynodrwydd yr Orsedd hon ydyw, pa bendefig bynag a eistedda arni, nad â oddiyna heb un o ddau beth, naill ai derbyn dymodiau ac archollion neu ynte weled rhyfeddod.' 'Nid oes arnaf i ofn cael dymodiau neu archollion yn mhlith cynifer a hyn o wyr; ond am y rhyfeddod, byddai yn dda genyf ei gweled. Mi a af i'r Orsedd¹ i eistedd.'

Eistedd a wnaeth ar yr Orsedd. Ac fel yr oedd efe yn eistedd felly, hwy a welent rian ar farch gwyn pur, mawr ac uchel, a gwisg euraidd ddisglaer am dani, yn dyfod ar hyd y brif-ffordd oedd yn arwain o'r Orsedd. Ac yn nhyb y sawl a'i gwelai, yr oedd y march yn cerdded yn araf a gwaetad, ac yn dyfod i fynu at yr Orsedd. 'Ha! wyr,' ebe Pwyll, 'oes un ohonoch chwi yn adnabod y farchoges acw?' 'Nac oes, arglwydd,' ebynt hwy. 'Aed un.' ebe yntau, 'i'w chyfarfod i wybod pwy ydyw.' Un a gyfododd i fyned; a phan ddaeth i'w

¹ *Gorsedd Arberth.*—Yr oedd yn arferiad gan y Celtiaid gynt i gynnal eu cynghorau, a'u llysoedd barn, ar ben bryn neu fynydd. Ar ben bryncyn o'r enw Tynwald, yn Ynys Manaw, y cynaliai *Deemsters*, neu henuriaid, yr Ynys hono eu llysoedd barn.

chyfarfod i'r ffordd, wele hi a drodd ac a aeth heibio, ac efe a'i dilynodd hi gynted ag y medrai, gan ei fod ar diaed. A pho mwyaf fyddai ei frys ef, pellaf fyddai hithau oddiwrtho. A phan welodd na thyciai iddo ei dilyn, efe a ddychwelodd at Pwyll, gan ddywedyd wrtho, 'Arglwydd, ni thycia i wr ar draed yn y byd geisio ei goddiweddyd hi.' 'Ie,' ebe Pwyll, 'dos i'r llys, a chymer y march cyflymaf a weli, a dos rhagot ar ei hol.'

Ac efe a gymerth y march. ac a aeth rhagddo. Cyrhaeddodd y maestir gwastad, a dechreuodd yspardynu ei farch; ond po mwyaf y gyrai ef y march, pellaf fyddai hithau oddiwrtho ef, er nad ymddangosai hi yn myned ddim cyflymach nag ar y dechreu. Ac wedi pallu o draed ei farch, efe a ddychwelodd i'r lle yr oedd Pwyll. 'Arglwydd,' eb efe, 'ni thycia i neb ymlid y foneddiges acw. Ni feddwn ni yn y deyrnas farch chwimach na hwn, er hyny nid oeddwn ddim haws o fyned ar ei hol hi.' 'Ie,' ebe Pwyll, 'y mae yma rhyw ledrith. Awn tua'r llys.' I'r llys y daethant, a threuliasant y dydd hwnw.

A thranoeth, cyfodi a wnaethant, a threulio'r dydd hwnw nes yr oedd yn amser iddynt fyned i fwyta. Ac wedi y bwyta cyntaf, 'Ie,' ebe Pwyll, 'ni a awn yr un nifer a doe i ben yr Orsedd. A thydi,' eb efe wrth un o'i weision, 'dwg gyda thi y march cyflymaf yn y maes.' A'r gwas a wnaeth hyny. Yna hwy a aethant tua'r Orsedd, a'r march ganddynt. Ac fel yr oeddynt yn eistedd, hwy a welent y wraig ar yr uu march, a'r un wisg am dani, yn dyfod yr un ffordd, ag o'r blaen. 'Dyma,' ebe Pwyll, 'y farchoges a welsom ddoe. Bydd barod, was,' eb efe, 'i fyned a gwybod pwy ydyw hi.' 'Arglwydd,' eb efe, 'ni a wna hyny yn llawen.' Ar hyny, y farchoges a ddaeth gyferbyn â hwynt. A'r llanc a esgynodd ar y march, ond cyn iddo osod ei hun yn y cyfrwy, yr oedd hi wedi myned heibio, a chryn bellder rhyngddynt, er nad oedd ei cherdded yn gyflymach na'r diwrnod o'r blaen. Yntau a gymerth ei farch yn hamddenol gan dybied y gallai'r march, er myned yn araf. ei goddiweddyd hi; ond hyny ni thyciai iddo. Yna gollyngodd yr awenau; ond ni ddeuai ef yn nes ati na phan yn cerdded. A pho mwyaf y gyrai ef ei farch, pellach fyddai hithau oddiwrtho. Er hyny, nid oedd hi o ran golwg yn myned yn gyflymach nag o'r blaen. Pan welodd na thyciai iddo ei hymlid yu mhellach, efe a ddychwelodd i'r lle yr oedd Pwyll. 'Arglwydd,' eb efe, 'nid oes gan y march allu amgen nag a welaist ti.' 'Mi a welais,' ebe yntau, 'na thycia i neb ei hymlid hi. Rhyngof i a Duw, y mae ganddi neges at rywun yn y gwastadedd hwn, ond ei bod hi yn rhy anmhwylog i'w mynegi. Ni a awn tua'r llys.' Ac i'r llys y daethant, a threuliasant y nos hono mewn llonder a chyfeddach, fel y b'ai oreu ganddynt.

Dranoeth, ymddifyru a wnaethant hyd nes oedd yn amser myned i fwyta. Ac wedi darfod â'r bwyd, Pwyll a ddywed, 'Pa le y mae'r nifer a aethant gyda

mi ddoe ac echdoe i ben yr Orsedd?' 'Yma, arglwydd,' ebynt hwythau. 'Awn,' eb efe, 'i'r Orsedd i eistedd. A thithau,' eb efe wrth y gwas oedd yn gofalu am ei farch, 'cyfrwya fy march yn dda, a brysia gydag ef i'r ffordd, a dwg fy yspardynau gyda thi.' A'r gwas a wnaeth hyny. Daethant i'r Orsedd, ac ni buont ond enyd yno, nes gweled y farchoges yn dyfod yr un ffordd, ac o'r un ansawdd, ac yn yr un gerdded, ag o'r blaen. 'Ha! was,' ebe Pwyll 'mi a welaf y farchoges yn dyfod; moes i mi fy march.' Ac nid cynt yr esgynodd efe ar ei farch, nag yr aeth hithau heibio. Yntau a drodd ar ei hol, gan adael i'w farch pranciog a chwareus gerdded, a thybied y gallai ar yr ail gam neu y trydydd ei goddiweddyd. Ond ni ddeuai ef felly yn nes ati nag o'r blaen. Yna efe a gymhellodd ei farch i'w gyflymdra penaf oedd iddo; a gweled a wnaeth na thyciai iddo ei hymlid. Yna y dywed ef wrthi, 'Ha! forwyn, er mwyn y gwr a geri fwyaf, aros fi.' 'Arosaf, yn llawen,' ebe hi, 'a buasai'n well i'th farch pe gofynasit ti hyny er's meityn.' A'r forwyn a'i harosodd, ac a symudodd oddiar ei gwyneb y rhan o'i phenwisg oedd arno, ac a sefydlodd ei golwg ar Pwyll, gan ymddyddan âg ef. 'Arglwyddes,' eb efe, 'o ba le y deui di, a pha beth ydyw amcan dy ymdaith?' 'Cerdded ar fy neges yr ydwyf,' ebe hi, 'a da genyf dy weled di.' 'Croesaw iti genyf i,' eb efe. Yna efe a feddylodd nad prydfferth pob morwyn a gwraig a welsai erioed o'i chydmaru â'i phrydfferthwch hi. 'Arglwyddes,' eb efe, 'a ddywedi di i mi ddim o'th neges?' 'Dywedaf, rhyngof i a Duw,' ebe hi, 'fy neges benaf oedd ceisio dy weled di.' 'Dyna,' ebe Pwyll, 'y neges oreu genyf i dy ddyfod iddi. Ac a ddywedi di i mi pwy ydwyf?' 'Dywedaf, arglwydd,' ebe hi. 'Rhiannon,' merch Hefeydd Hen,² wyf i; a cheisio y maent fy rhoddi i wr o'm hanfodd. Ac ni fynwn inau yr un gwr, a hyny o gariad atat ti; ac nis mynaf eto, os na bydd i ti fy ngwrthod. Ac i gael dy ateb am hyny y daethum i.' 'Rhyngof i a Duw' ebe yntau Pwyll, 'pe cawn fy newis o holl forwynion a gwragedd y byd, tydi a ddewiswn.' 'Ie,' ebe hithau, 'os hyny a fyni, gwna amod â mi cyn fy rhoddi i wr arall.' 'Goreu genyf po cyntaf,' ebe Pwyll, 'ac yu y lle y myni, penoda i mi dy gyfarfod.' 'Gwnaf, arglwydd,' ebe hi,

¹ *Rhiannon*.—Ar ol marw Pwyll, rhoddwyd Rhiannon gan ei mab Pryderi yn wraig i Manawyddan; gweler ei hanes yn y Fabinogi sydd ar ei enw. Sonia'r hen feirdd lawer am Adar Rhiannon. Dywed traddodiad y byddai milwyr yn sefyll mewn gwynfydedd am bedwar ngain mlynedd i wrando ar eu caniaidau. 'Adar Rhiannon a genynt oni ddelai engyl nef idd eu clywed; ac o'u caneuon hwynt y cafwyd cân a cherdd arwest a thant gyntaf: sef yw cerdd arwest hono a genir ar dafawd gan erddygan a chan dant.'—*Llawysgrif Ieuan Brydydd Hir*. 'Tri pheth nid mynych y ceir en clywed: cân adar Rhianon, cân doethineb o ben Sais, a gwahodd-iad i wledd gan gybydd.'—*Trioedd y Cybydd*.

² *Hefeydd Hen*.—Bernir mai yr un ydyw ef a Hyfaidd Hir, y sonir am dano y Trioedd fel un o dri 'Eildeyrn Ynys Prydain. Sef y rhodded teyrnedd iddynt am eu campau au cyneddfen, clodforion a rhadforion.' Ond mewn rhai Achau, dywedir mai mab ydoedd i Garadawg Freichfras.

'blwyddyn i heno, yn llys Hefeydd; mi a baraf fod gwledd ddarparedig erbyn dy ddyfod.' 'Yn llawen,' ebe yntau, 'mi a fyddaf yno.' 'Arglwydd,' ebe hi, 'trig yn iach, a chofia gywiro dy adduned; ac ymaith yr af i.' Ac ymwahanu a wnaethant, ac efe a ddaeth yn ol at ei deulu a'i nifer. Pa ymholiadau bynag a wnaent hwy yn nghylch y forwyn, efe a droai yr ymddyddan. Ac wedi treulio'r flwyddyn, a dyfod yr amser penodedig, efe a archodd i gant o farchogion baratoi a dyfod gydag ef i lys Hefeydd Hen. Ac efe a ddaeth i'r llys hwnw, a llawen a fuwyd wrtho, a rhialtwch a llawenydd ac arlwy mawr oedd yno i'w dderbyn; a dodwyd yr holl lys tan ei ofal.

Ac addunwyd y neuadd, ac at y byrddau y daethant. Sef fel hyn yr eisteddent, Hefeydd Hen ar y naill law i Pwyll, a Rhiannon ar y llaw arall, ac wedi hyny pawb yn ol ei urddas. Bwyta, gwledda, ac ymddyddan a wnaethant, ac ar ddechreu y gyfeddach wedi'r bwyd, hwy a welent yn dyfod i mewn lanc gwineu, mawr, brenhinol ei olwg, a gwisg o bali am dano. A phan ddaeth i gyntedd y neuadd, efe a gyfarchodd well i Pwyll a'i gyfeillion. 'Croesaw Duw i ti, enaid,' ebe Pwyll, 'a dos i eistedd.' 'Nac af,' eb efe, 'eirchiad wyf fi, a'm neges a wnaf.' 'Gwna yn llawen,' ebe Pwyll. 'Arglwydd,' eb efe, 'atat ti y mae ty neges i, ac i'w gofyn genyt y deuais.' 'Pa beth bynag a ofyni di i mi, hyd y medraf ti a'i cai.' 'Och!' ebe Rhiannon, 'paham yr atebaist ti fel yna?' 'Oni roes efe yr ateb, arglwyddes,' ebe'r llanc, 'yn ngwydd y pendefigion?' 'Enaid,' ebe Pwyll, 'beth yw dy ddymuniad?' 'Y forwyn a garaf i fwyaf sydd i fod yn wraig iti heno; ac i'w gofyn hi, yn nghyda'r wledd a'r arlwy sydd yma, y daethum i.' A thewi a wnaeth Pwyll oherwydd yr ateb a roddasai. 'Taw hyd y myni,' ebe Rhiannon, 'ni bu gwr erioed mwy musgrell hefo'i synwyr nag y buost ti.' 'Arglwyddes,' eb efe, 'ni wyddwn i pwy oedd efe.' 'Dyna y gwr y mynesid fy rhoddi i iddo o'm hanfodd.' ebe hi, 'Gwawl ab Clud, dyn galluog a chytoethog. A chan ddarfod iti ddywedyd y gair a ddywedaist, dyro fi iddo, rhag dwyn annglod arnat.' 'Arglwyddes,' eb efe, 'nid wyf i yn deall dy ateb; nis gallaf i dy rodidi iddo byth.' 'Dyro fi iddo ef,' ebe hi, 'ac mi a wnaf na chaiff ef fi byth.' 'Pa fodd y bydd hyny?' ebe Pwyll. 'Mi a roddaf yn dy law gôd fechan,' ebe hi, 'a chadw hono'n ofalus. Ac efe a ofyn i ti am y wledd, a'r arlwy a'r danteithion; ond nid oes iti feddiant ar y pethau hyny. Myfi a roddaf y wledd i'r lluoedd a'r teulu,' ebe hi, 'a dyma fydd dy ateb yn nghylch hyny. Ac am danaf fy hunan, mi a wnaf amod âg ef i ddyfod yn wraig iddo flwyddyn i heno. Ac yn mhen y flwyddyn, bydd dithau a'r gôd hon genyt, a'th gant o farchogion, yn y berllan uchod. A phan fo ef ar ganol y digrifwch a'r gyfeddach, tyred dithau dy hun i mewn, a dillad gwael am danat, a'r gôd yn dy law,' ebe hi. 'Ac na ofyn am ddim ond llonaid y gôd o fwyd, a minau a baraf,'

ebe hi, 'pe rhoddid hyny o fwyd a diod sydd yn y saith cantref hyn ynnddi, na byddai yn llawnach nag o'r blaen. Ac wedi y bwrier llawer ynnddi, efe a ofyn iti a fydd dy gôd byth yn llawn. Dywed dithau. 'Na tydd, hyd oni chyfyd boneddwr tra chyfoethog a sangu â'i ddeutroed yn y gôd, a dywedyd, 'Digon a roddwyd yma.' A minau a baraf iddo fyned a sangu ar y bwyd yn y gôd. A phan el efe felly, tro dithau y gôd nes yr el efe tros ei ben ynnddi, yna dyro gwllwm ar garei y gôd. A bydded corn canu da am dy wddf; a phan fyddo ef yn rhwymedig yn y gôd, dyro lef yn dy gorn, a bydded hyny yn arwydd rhyngot â'th farchogion. Pan glywont lef dy gorn, bydded iddynt ddisgyn am ben y llys.' 'Arglwydd,' ebe Gwawl, 'y mae'n weddus imi gael ateb i'm gofyniad.' 'Gymaint ag a ofynaist, ac sydd yn fy meddiant i,' ebe Pwyll, 'ti a'i ceffi.' 'Enaid,' ebe hithau Rhiannon, 'am y wledd a'r danteithion sydd yma. myfi a'u rhoddais i wyr Dyfed; a'r teulu a'r milwyr sydd yma, y rhai hyny nid adawaf i eu rhoddi i neb. A blwyddyn i heno y bydd gwledd ddarparedig yn y llys hwn i tithau, enaid, pan y deuaf yn wraig iti.'

Felly Gwawl a gerddodd rhagddo i'w diriogaeth, a Phwyll yntau a ddaeth i Ddyfed. A threuliodd pob un ohonynt y flwyddyn hono hyd amser y wledd yn llys Hefeydd Hen. Yna Gwawl ab Clud a ddaeth tua'r wledd a ddarparaisid iddo, ac efe a ddaeth i'r llys, a llawen a fuwyd wrtho. Pwyll Pen Annwfn yntau a ddaeth i'r berllan, a'i gan' marchog a'r god ganddo, fel y gorchymynasai Rhiannon iddo; a gwisg arw a charpiog oedd am dano, a hen esgidiau trymion am ei draed. A phan wybu eu bod ar ddechreu y gyfeddash wedi bwyta, efe a ddaeth rhagddo i'r neuadd; ac wedi dyfod i gyntedd y neuadd, cyfarchodd well i Wawl ab Clud, ac i'r cwmni yn wyr a gwragedd. 'Duw a fyddo'n dda wrthyt,' ebe Gwawl, 'a chrosaw iti.' 'Arglwydd,' ebe yntau, 'Duw a dalo iti. Y mae genyf neges atat.' 'Croesaw i'th neges; ac os gofyni imi unpeth a allaf ei roddi, ti a'i ceffi yn llawen.' 'Gelli,' ebe yntau, 'nid wyf yn gofyn ond rhag eisiau, Gofyn yr ydwyf lonaid y god fechan a weli di o fwyd.' 'Gofyniad rhesymol ydyw hwnw, a thi a'i ceffi yn llawen. Dygwch fwyd iddo ef.' Rhifedi mawr o weinidogion a gyfodasant i fynu gan ddechreu llenwi y god; ond er cymaint a fwridd ynnddi, nid oedd yn llawnach nag o'r blaen. 'Enaid,' ebe Gwawl, 'a fydd dy god di byth yn llawn?' 'Na fydd, rhyngof i a Duw,' ebe yntau, 'er maint a ddoder ynnddi byth hyd oni cyfyd boneddwr cyfoethog o dir a daear a sangu â'i ddeutroed y bwyd yn y god, a dywedyd, "Digon a ddodwyd yma." Ac ebe Rhiannon wrth Gwawl ab Clud, 'Cyfod i fynu ar fyrder.' 'Cyfodaf yn llawen,' eb efe. Ac efe a gododd i fynu, ac a ddododd ei ddeutroed yn y god; a Phwyll a gododd ymylon y god, nes oedd Gwawl dros ei ben ynnddi. Yna efe gauodd y god, ac a glymodd y careiau, ac a ddododd floedd ar ei gorn. Ar hyny,

dyma ei deulu yn dyfod am ben y llys, ac yn cymeryd y nifer a ddaethent gyda Gwawl a'u doddi yn ngharchar. A Phwyll a fwriodd oddiam dano y carpiâu, a'r esgidiau, a'r wisg dyllog; ac fel y delai pob un o wyr Pwyll i mewn, tarawai ddyrnod i'r god, gan ofyn, 'Beth sydd yma?' 'Broch,' ebynt hwythau. Ac fel hyn yr ymddifyrent, pob un yn rhoddi ddyrnod i'r god naill â'i droed neu â throsol; ac felly chwareu â'r god a wnaethant. Pob un, fel y delai i mewn, yn gofyn, 'Pa chwareu ydyw hwn?' 'Chwareu Broch yn y god,' meddynt hwythau. A dyma'r waith gyntaf y chwareuwyd Broch yn y God.

'Arglwydd,' ebe'r gwr yn y god, 'pe gwrandewit fi, nid wyf yn haeddu cael fy lladd mewn cod.' 'Arglwydd,' ebe Hefeydd Hen, 'gwir a ddywed. Iawn yw i ti wrando arno; nid yw yn haeddu hyn.' 'Ie,' ebe Pwyll, 'mi a wnaf yn ol dy gynghor di âg ef.' Yna ebe Rhiannon, 'Dyma fy nghyngbor i. Yr ydwyf mewn sefyllfa y gelli foddloni ymgeiswyr a cherddorion; gad iddo ef roddi i bawb drosot ti.' ebe hi; 'a chymer ei lw ganddo na bydd iddo byth geisio dial am hyn. A digon yw hyny o gosp arno.' 'Ef a gaiff hyny yn llawen,' ebe'r gwr o'r god. 'Minau a'i cymeraf yn llawen,' ebe Pwyll, 'gan mai dyna gynghor Hefeydd a Rhiannon.' 'Dyna yw ein cynghor ni,' ebynt hwy. 'Mi a'i cymeraf,' ebe Pwyll. 'cais feichiau drosot.' 'Ni a fyddwn trosto,' ebe Hefeydd, 'nes y byddo ei wyr yn rhydd i fyned trosto.' Ar hyny, gollyngwyd ef o'r god, a rhyddhawyd ei oreugwyr. Gofyn yn awr i Gwawl am ei feichiafon,' ebe Hefeydd, 'ni a wyddom y neb y dylid eu cymeryd ganddo.' Rhifo y meichiafon a wnaeth Hefeydd. 'Llunia di yr amod dy hun' ebe Gwawl. 'Boddlon wyf i iddo fel ei lluniwyd gan Riannon,' ebe Pwyll. Felly ar yr amod hwnw yr ymrwymodd y meichiafon. 'Ie, arglwydd' ebe Gwawl, 'briwedig wyf i, a doluriau mawr a gefais; a rhaid imi wrth enaint, a thrwy dy genad di mi a af ymaith. Ac mi a adawaf foneddwy'r yma yn fy lle i ateb trosog yn mhob peth a fynot ti.' 'Yn llawen,' ebe Pwyll, 'gwna dithau hyny.' A Gwawl a aeth tua'i diriogaeth ei hun.

A'r neuadd a gyweiriwyd i Pwyll a'i wyr, ac i wyr y llys heblaw hyny. A hwy a eisteddasant wrth y byrddau; ac fel yr eisteddasent flwyddyn i'r nos hono yr eisteddent yn awr. Bwyta a gwledda a wnaethant; a phan y daeth yn amser myned i gysgu, Pwyll a Rhiannon a aethant i'w hystafell.

A thranoeth yn ieuencyd y dydd, 'Arglwydd,' ebe Rhiannon, 'cyfod i fynu a dechreua wobrwyo y cerddorion, ac na omedd neb heddyw o'r hyn a ofyno.' 'Hyny a wnaf yn llawen,' ebe Pwyll, 'heddyw a phob dydd tra parhao y wledd hon.' Yna Pwyll a gyfododd i fynu, ac a barodd roddi gosteg yn galw ar yr holl eirchiaid a'r cerddorion i ddangos a mynegi eu deisyfiadau, pob un yn ol ei fodd a'i fympwy, ac y caent hyny. A hyny a wnaethpwyd, a'r wledd

a dreuliwyd, ac ni omeddwyd i neb tra parhaodd. A phan ddarfu y wledd, ebe Pwyll wrth Hefeydd, 'Arglwydd, trwy dy genad, mi a gychwynaf yforu tua Dyfed.' 'Ie,' ebe Hefeydd, 'Duw yn rhwydd i ti; a phenoda yr amser y delo Rhiannon ar dy ol.' 'Rhyngof i a Duw,' ebe Pwyll. 'ni a awn oddiyma yn nghyd.' 'Ai felly y myni di, arglwydd?' ebe Hefeydd. 'Ie, rhyngof i a Duw,' ebe Pwyll.

Dranoeth, cychwynasant tua Dyfed ac i lys Arberth y daethant, agwledd ddarparedig oedd yno iddynt. A bu rhialtwch trwy yr holl diriogaeth, ac ymwelwyd â hwynt gan y prif-foneddigion a'r prif-foneddigesau; ac ni adawodd Rhiannon yr un ohonynt heb roddi rhodd enwog, naill ai o freichled (*bracelet*), neu fodrwy, neu faen.

Ac yn y drydedd flwyddyn. dechreuodd y penaethiaid ofidio wrth weled gwr a garent gymaint a'u harglwydd a'u brawdmaeth yn ddiethfedd. A daethant ato; a'r lle y daethant ato oedd Preseleu, yn Nyfed. 'Arglwydd,' ebynt hwy, 'ni a wyddom nad wyt ti mor ieuanc a rhai o wyr y wlad hon, ac ofni yr ydym na bydd i ti etifedd o'r wraig sydd genyt. Gan hyny, cymer wraig arall fel y bo iti etifedd. Nid byth y parhei di,' ebynt hwy. 'ac er iti ddymuno bod fel yr wyt, nis gallwn ni ganiatau hyny.' 'Ie,' ebe Pwyll, 'ni buom ni eto yn hir yn nghyd, a llawer damwain a all ddigwydd. Oedwch am flwyddyn; a blwyddyn i'r pryd hwn, ni a ddeuwn yn nghyd eto. ac mi a fyddaf wrth eich cynghor.' Ac oedi a wnaethant. A chyn pen y llawn flwyddyn, ganed mab iddo, ac yn Arberth ei ganed. A'r noson y ganed ef, dygwyd gwagedd i wyllo y mab a'i fam; a beth a wnaeth y gwagedd a mam y mab—Rhiannon, ond cysgu. A rhif y gwagedd a ddygwyd i'r ystafell oedd chwech. A gwyllo a wnaethant am dalm o'r nos; eithr cyn haner nos. cysgasai pob un ohonynt, gan ddeffro tua'r plygain. A phan ddeffroasant ac edrych ar y lle y dodasent y mab, nid oedd dim ohono yno. 'Och!' ebe un o'r gwagedd, 'y mae'r mab ar goll.' 'Ie,' ebe un arall, 'a bach fydd ein cosb os ein llosgi a gawn neu ein dienyddio, oherwydd y plentyn.' 'A oes,' ebe un arall, 'ddim cynghor yn y byd i'n dwyn o'r helbul?' 'Oes,' ebe un arall, 'mi a wn gynghor da.' 'Beth yw hyny?' ebynt hwy. 'Y mae cellast (*staghound-bitch*) yma,' ebe hi. 'a chenawon ganddi; lladdwn rai o'r cenawon ac irwn ei gwyneb hithau Rhiannon a'i dwylaw a'r gwaed, a bwriwn yr esgyrn o'i blaen, a thaerwn mai hi ei hun a ddyfethodd y plentyn. Ni gall hi ei hunan ein gwrthddywedyd ni ein chwech.'

A phenderfynasant dderbyn y cynghor hwnw. Ac yn y bore, Rhiannon a ddeffroes, ac a ddywedodd, 'Ha! wragedd, pa le y mae fy mhlentyn?' 'Arglwyddes,' ebynt hwy, 'na ofyn ini am dy blentyn; nid oes genym ni ond cleisiau ac ôl dyrnodau wrth ymdrechu â thi; ac y mae yn ddianmheu genym na welsom

yr un wraig erioed mor gynddeiriog; ac ni thyciodd ini ymryson â thi. Oni ddyfethaist ti dy hun dy fab? ac na ofyn ef genym ni.' 'O, drueni!' ebe Rhiannon, 'er mwyn yr Arglwydd Dduw a wyr bobpeth, na ddywedwch gelwydd arnaf i. Duw, a wyr bobpeth, a wyr nad gwir a ddywedwch. Os o ofn y dywedwch hyn, myn fy nghyffes mi a'ch ymddiffynaf.' 'Diau.' ebynt hwy, 'ni ddygem ni ddrwg arnom ein hunain er undyn yn y byd.' 'O, drueni!' ebe hithau. 'ni chewch chwi ddim drwg am ddweyd y gwir.' Ond er a ddywedai yn deg ac yn egr, ni chai ond yr un ateb gan y gwagedd.

A Phwyll Pen Annwfn ar hyny a gyfododd, a'i deulu a'i luoedd; a chelu yr hanes rhagddo nis gallwyd—y pendefigon a phawb trwy y wlad a'i clywsant. A'r pendefigon a ddaethant yn nghyd at Pwyll, gan erchi iddo ysgar oddiwrth ei wraig oblegyd y gyflafan anweddus a gyflawnodd hi. Eithr Pwyll a'u hatebodd nad oedd hawl ganddynt i erchi iddo ysgar â'i wraig, ond pe buasai hi yn ddi-blant. 'Yn awr,' eb efe, 'mi a wn fod iddi blant, ac nid ysgaraf â hi; ond os gwnaeth hi gam, gwneled benyd am hyny.'

A Rhiannon a alwodd ati athrawon a doethion; a chan fod yn well ganddi ddwyn ei phenyd nag ymdaeru a'r gwagedd, ei phenyd a gymerodd. A'r penyd a ddodwyd arni ydoedd, fod iddi aros yn y llys hwnw yn Arberth am saith mlynedd, ac ar yr esgyntaen oddiallan i'r porth. A bod iddi ddywedyd yr hanes hwnw i bawb a ddelai yno, os tybiai nad oeddynt wedi clywed y chwedl o'r blaen; a'i bod i ofyn i bob estron a gwest a ddelai yno, am ganiatad i'w dwyn ar ei chefn i'r llys. Ond damwain fyddai i neb adael iddi eu dwyn. Ac felly y treuliodd dalm o'r flwyddyn.

Ac yn yr amser hwnw, yr oedd gwr o'r enw Teirnyon Twryf Fliant, a'r gwr goreu yn y byd oedd. A chaseg oedd iddo, ac nid oedd yn y deyrnas farch na chaseg harddach na hi. A phob nos Galan, yr oedd hi yn llydnu, ac ni wyddai neb beth a ddeuai o'r ebol. Ac un noson, ebe Teirnyon wrth ei wraig, 'Hal wraig,' eb efe, 'yr ydym yn hurt iawn fod ein caseg yn llydnu bob blwyddyn, a ninnau yn cael yr un o'i hebolion.' 'Beth a ellir wrth hyny?' ebe hi. 'Nos Galanmai yw hi heno,' eb efe, 'a dial Duw arnaf, os na fynaf wybod beth felldith sydd yn dwyn yr ebolion.' Ac efe a barodd ddodi y gaseg i mewn yn y ty, ac a gymerodd ei arfau, gan ddechreu gwylio y nos hono. Ac yn nechreu y nos, y gaseg a lydnodd ebol mawr a hardd, yn sefyll yn y lle. A Theirnyon a gyfododd i edrych ar braffder yr ebol; a phan yn gwneud hyny, efe a glywai dwrf mawr, ac ar ol y twrf dyma grafanc yn dyfod trwy ffenestr ar y ty, ac yn gafael yn yr ebol gerfydd ei fwng. Yna Teirnyon a dynodd ei gleddyf, ac a darawodd y fraich ymaith yn ymyl y penelin, ac felly yr oedd darn o'r fraich a'r ebol yn y ty gydag ef. Ac ar hyny, efe a glywai dwrf ac wylofain ar yr un pryd.

Yna efe a agorodd y drws, ac a ruthrodd yn nghyfeiriad y twrf; eithr nis gallai weled dim gan mor dywyll oedd y nos. Er hyny, efe a redodd ar ei ol ac a'i hymliodd hyd nes y daeth i'w gof ei fod wedi gadael y drws yn agored, ac y dychwelodd. Ac wrth y drws gwelai faban mewn dillad bychain, a llen o bali yn ei gylch. Ac efe a gymerth y plentyn ato, ac wele plentyn cryf ydoedd yn ol yr oedran oedd arno.

Yna efe a gauodd y drws, ac a ddaeth i'r ystafell yr oedd ei wraig ynddi. 'Arglwyddes,' eb efe, 'ai cysgu yr wyt ti?' 'Nage, arglwydd,' ebe hi. 'mi a gysgais, ond wrth i ti ddyfod i mewn, mi a ddeffroais.' 'Y mae yma fab iti,' eb efe, 'os myni gan na bu un i ti erioed.' 'Arglwydd,' ebe hi, 'beth ydyw hyn?' 'Dyma yr hanes' ebe Teirnyon; gan ddweyd wrthi fel y bu. 'Ie, arglwydd,' ebe hi, 'pa fath wisg sydd am y mab?' 'Llen o bali,' ebe yntau. 'Plentyn rhyw bobl uchelradd ydyw,' ebe hithau. 'Arglwydd,' ebe hi, 'os boddlon di, ni a fynwn dipyn o ddigrifwch a dyddanwch. Mi a alwaf ar fy merched yma, ac a ddywedaf imi fod yn feichiog.' 'Mi a gytunaf â hyny yn llawen,' ebe efe; ac felly y gwnaethpwyd. A bedyddiwyd y mab yn y man a'r lle, a'r enw a roddwyd arno oedd 'Gwri Wallt Euryn.' Yr hyn oedd ar ei ben o wallt, cyn felyned oedd ag aur. A'r plentyn a feithrinwyd yn y llys hyd nes oedd yn flwydd oed; a chyn ei fod yn flwydd oed, yr oedd yn cerdded yn gryf, ac yn fwy na phlentyn teirblwydd mawr ei dwf a'i faint. A magwyd ef yr ail flwyddyn, ac yr oedd gymaint a phlentyn chwe' blwydd. A chyn pen y bedwaredd flwyddyn, byddai yn rhoddi gwobrau i'r gweision am gael dwyn y meirch i'r dwfr. 'Arglwydd,' ebe ei wraig wrth Teirnyon, 'pa le y mae'r ebol a arbed-aist ti y noson y cefaist ti y mab?' 'Mi a'i rhoddais i'r gweision,' eb efe, 'ac a erchais iddynt ofalu am dano.' 'Onid da fyddai iti, arglwydd,' ebe hi, 'ei hyweddu, a'i roddi i'r mab, gan mai y nos y cefaist y mab y ganed yr ebol a arbed-aist?' 'Nid af i yn erbyn hyny,' ebe Teirnyon, 'mi a adawaf iti ei roddi iddo.' 'Arglwydd,' ebe hi, 'Duw a dalo iti; minau a'i rhoddaf iddo.' Yna rhoddwyd y march i'r bachgen. A hi a ddaeth at y gwastrodwyr (*horsebreakers*) ac at weision y meirch, gan orchymyn iddynt ofalu am y march, a'i wneud yn hywedd erbyn yr elai y mab i'w farchogaeth.

A phan oedd y pethau hyn yn cymeryd lle, hwy a glywsant yr hanes am Riannon a'i chosbedigaeth. Yna Teirnyon Twryf Fliant, oherwydd y gofid a deimlai wrth wrando ar y chwedl, a ymfynodd yn fanylach i'r hanes, ac a glybu luaws o'r rhai a ddelent i'w lys yn mynych gwyno am drueni ei damwain a'i phoenedigaeth. A Theirnyon a ystyriodd hyn yn ddwys, ac a edrychodd ar y mab yn graff; ac wrth edrych arno, meddyliodd na welsai erioed fab a thad mor debyg i'w gilydd a'r mab hwn i Pwyll Pen Annwfyn. Canys yr oedd Pwyll yn

adnabyddus iddo, gan iddo fod cyn hynny yn un o'i ddilynwyr. Yna efe a ymofidiodd yn fawr oherwydd y cam a wnai yn cadw y llanc gydag ef, ac yntau yn fab i wr arall. A'r cyfleustra cyntaf a gafodd i ymddyddan â'i wraig, efe a ddywedodd wrthi nad oedd yn iawn iddynt atal y mab, a gadael boneddiges cystal a Rhiannon mewn cymaint poen o'r herwydd, a'r llanc yn fab i Pwyll Pen Annwfn. A gwraig Teirnyon a gydsyniodd âg ef i anfon y mab i Pwyll. 'A thri pheth arglwydd,' ebe hi, 'a gawn ni trwy hyny. Diolch a rhoddion am ryddhau Rhiannon o'i chosbedigaeth; a diolch gan Pwyll am feithrin ei fab a'i adferyd iddo; a'r trydydd peth, os bydd y mab yn wr boneddig, mab maeth i ni a fydd, a'r goreu a allo fyth a wna ini.' A phenderfynasant wneud felly.

Ac ni buont yn hwy nag hyd dranoeth nes bod Teirnyon wedi ymgyweirio, a dau farchog arall, a'r mab yn bedwerydd gyda hwynt ar y march a roddasai Teirnyon iddo. Ac ymdaith a wnaethant tuag Arberth, ac ni buont yn hir nes cyrhaedd yno. Pan ddaethant at y llys, gwelent Rhiannon yn eistedd yn ymyl yr esgynfaen. Ac wedi dyfod gyferbyn â hi, 'Ha! unben,' ebe hi, 'nac ewch yn mhellach, mi a gludaf bob un ohonoch i'r llys; a dyna ydyw fy mhenyd am ladd fy mlilentyd fy hun a'i ddyfetha.' 'Ha! foneddiges,' ebe Teirnyon, 'ni thebygaf i y bydd i un ohonom ni gymeryd ei gludo genyt.' 'Ni chymeraf i, beth bynag,' ebe'r mab. 'Diau,' ebe Teirnyon, 'ni chymerwn ninau.' Ac i'r llys yr aethant, ac â dirfawr lawenydd y cawsant eu derbyn. Ac yr oeddynt yn dechreu treulio gwledd yn y llys, oherwydd fod Pwyll newydd ddychwelyd o amgylchu Dyfed. Ac i'r neuadd y daethant, ac ymolchi; a chroesawus a fu Pwyll wrth Teirnyon. Ac i eistedd yr aethant, ac fel hyn yr eisteddent:—Teirnyon rhwng Pwyll a Rhiannon, a dau gydymaith Teirnyon ar yr ochr arall i Pwyll a'r llanc rhyngddynt. Ac wedi darfod bwyta, dechreu ar y gyfeddach ac ymddyddan a wnaethant; ac ymddyddan Teirnyon oedd am y gaseg ac am y llanc, ac fel yr oeddynt hwy, Teirnyon a'i wraig, wedi ei arddelwi a'i fagu. 'Ac wele, dyma dy fab, arglwyddes,' ebe Teirnyon, 'a phwy bynag a ddywedodd auwiredd arnat, a wnaeth gam â thi. Minau, pan glywais am dy drallod, trist fu genyf, a gofidio a wnaethum. Ac nid wyf yn tybied fod neb o'r cwmni hwn na wêl fod y llanc yn fab i Pwyll,' ebe Teirnyon. 'Nid oes neb,' ebe pawb, 'nad yw yn sier o hyny.' 'Rhyngof i a Duw,' ebe Rhiannon, 'os gwir hyny, dyna ddiwedd ar fy mhryder.' 'Arglwyddes,' ebe Pendaren Dyfed, 'da yr enwaist ti dy fab yn Pryderi, a goreu y gwedda iddo, Pryderi fab Pwyll Pen Annwfn.' 'Edrychwch,' ebe Rhiannon, 'nad goreu y gweddai iddo ei enw ei hun.' 'Beth yw ei enw?' ebe Pendaren Dyfed. 'Gwri Gwallt Euryn y galwasom ni ef.' 'Pryderi,' ebe Pendaren, 'fydd ei enw ef.' 'Iawnaf,' ebe Pwyll, 'i'r bachgen gymeryd ei enw oddiwrth y gair a ddywedodd ei fam pan glybu y llawen-chwedl ei fod wedi ei eni. Ac felly y trefnwyd.

'Teirnyon,' ebe Pwyll, 'Duw a dalo iti am feithrin y bachgen hyd yr awrhon; a chan ei fod yn foneddwr, iawn iddo dalu iti.' 'Arglwydd,' ebe Teirnyon, 'y wraig a'i magodd ef; ac nid oes neb yn y byd fwy ei galar na hi ar ei ol. A iawn a fyddai iddo gofio yr hyn a wnaeth y wraig a minau drosto.' 'Rhyngof i Duw,' ebe Pwyll, 'mi a'th amddiffynaf di a'th gyfoeth tra y gallaf amddiffyn yr eiddo fy hun. A phan y daw yntau yn fy lle, iawnach a fydd iddo ef dy amddiffyn na minau. Ac os boddlon genyt hyny, a chan fy mhendefigion, gan mai tydi a'i magodd ef hyd yr awrhon, ni a'i rhoddwn o hyn allan i'w ddwyn i fynu i Bendaren Dyfed. A byddwch chwi yn gymdeithion a thadau maeth iddo.' 'Cyng-hor iawn,' ebe pawb, 'ydyw hwn yna.' Felly rhoddwyd y mab at Pendaren Dyfed, ac aeth pendefigion y wlad gydag et. A Teirnyon Twryf Fliant a gychwynasant tua'u gwlad mewn cariad a llawenydd; ond nid aeth heb gynyg iddo y tlysau tecaf, a'r meirch goreu, a'r cŵn hoffaf; ond ni fynai ef ddim.

Felly trigodd pob un ohonynt yn ei diriogaeth. A dygwyd Pryderi fab Pwyll Pen Annwfn yn fynu yn anrhydeddus, fel yr oedd yn weddus, nes dyfod yn wr ieuanc harddaf a thecaf, a mwyaf medrus yn mhob camp dda, ag oedd yn y deyrnas. Ac felly y treuliasant flwyddyn a blynyddoedd, nes y daeth terfyn ar hoedl Pwyll Pen Annwfn, ac y bu farw.

A Phryderi a lywodraethodd ar saith Cantref Dyfed yn llwyddianus, yn anwyl gan ei ddeiliaid, a chan bawb o'i amgylch. Ac ar ol hyny, chwanegodd atynt dri Chantref Ystrad Tywi a phedwar Cantref Ceredigiawn, a gelwid y rhai hyny saith Cantref Seisyllwch. Wedi y cynydd hwnw. Pryderi fab Pwyll Pen Annwfn a roddes ei fryd ar gael gwraig, ac yn wraig dewisodd Cicfa, merch Gwynn Gloyw ab Gloyw Wallt Llydan ab Casner Wledig, un o bendefigion yr Ynys hon.

Ac felly y terfyna y gainc hon o'r Mabinogion.



CHWEDL LLUDD A LLEFELYS.

I BELI MAWR ab Manogan yr oedd tri mab, sef Lludd,¹ a Chaswallawn, a Nynnyaw ; ac yn ol traddodiad, pedwerydd mab oedd iddo, o'r enw Llefelys.² Ac wedi marwolaeth Beli, syrthiodd teyrnas Ynys Prydain i law Lludd, ei fab hynat ; a Lludd a'i llywiodd hi yn llwyddianus, gan adnewyddu muriau Llundain, a'i hamgylchynu â thyrau dirifedi ; ac wedi hyny a orchymynodd i'w dinasyddion adeiladu tai ynnddi fel na byddai dai yn yr holl deyrnasoedd mor urddasol a hwy. Ac heblaw hyny, milwr dewr ydoedd ; a hael ac ehelaeth y rhoddai fwyd a diod i bawb a'i gofynent. Ac er fod ganddo lawer o gaerau a dinasoedd, hon a garai yn fwy nag un o'r lleill ; ac ynnddi hi y preswyliai ef y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Am hyny y gelwid hi Caer Ludd, ac o'r diwedd Caer Llundain neu Lwndrys. Ac wedi dyfod estron-genedl iddi, y gelwid hi Llundain.

A Lludd a garai Lefelys yn well nag un o'i frodyr, canys gwr call a doeth ydoedd. A phan glybu efe am farwolaeth brenin Ffrainc, heb adael yn etifedd ond un ferch, a gadael ei gyfoeth yn llaw hono, efe a ddaeth at Lludd, ei frawd, i ofyn am ei gynghor a'i gymhorth. Ac nid er ei les ei hun yn benaf, ond er ceisio chwanegu anrhydedd ac urddas, a theilyngdod eu cenedl, trwy fyned i Ffrainc i erchi y forwyn hono yn wraig iddo. Ac yn y lle ei frawd a gydsyniodd âg ef, ac a foddhawyd gan y cynygiad.

¹ *Lludd*—Mab i Beli Mawr, a brawd Caswallon. Dilynodd ei dad i orsedd Prydain, gan wneud ei brif drigfa yn Llundain, yr hon a amgylchodd â chaerau, ac adeiladodd ynnddi balasau teg, a threfnodd diroedd eang o'i hamgylch er dybenion amaethyddol. Yr oedd erbyn hyn yn rhagori ar holl ddinasoedd y wlad, ac efe a'i galwodd yn Gaerludd, ac mewn amserau diwedd-arach gelwid hi yn Gaer Llundain. Cythryblid ei heddwch yn barhaus gan ymosodiadau llwyth rhyfelgar o feibion eillion, a elwid y Coraniaid ; ac yn y *Brutiau Cymreig* a'r *Trioedd* ceir adroddiad cyflawn o'r modd y gorchfyges efe hwynt. Claddwyd ef yn ymyl Porth Lludd, yr hwn o elwir yn awr *Ludgate*, yn Llundain. Y mae dau ddarn barddonol yn argraffedig yn y *Mys. Arch.* a briodolir i Daliesin Ben Beirdd,—un yn moli Lludd, a'r llall yn ei ddadenhuddo. Dywedir yn *Tri* 53, ddarfod iddo guddio dreigiau yn ninas Pharaon, yn Nghreigiau Eryri, a chylyd ag y byddent hwy yn guddiedig, 'ni chafas gormes y goreu ar genedl y Cymry ;' eithr Gwrtheyrn 'a'u datguddiodd er dial anfodd y Cymry parth ag ef, ac a wahoddes y Saeson.' Sonir mewn dau o'r *Trioedd*, mai mab i Ludd, o'i enw Afarwy, a wahoddes, y Rhufeiniaid gyntaf i'r Ynys hon, 'ac a roddes dir a daiar iddynt yn Ynys Daned ; ac o'r herwydd rhoddwyd ef a'i epil hyd y byddei byd dan warth ac ammrant, ac nis gellir arnynt amgen na braint meibion eillion.'

² *Llefelys*.—Nid oes nemawr grybwylliad am dano mewn hanes. Gwelsom lythyr gan Ab Ithel, yn mha un y barnai yr hynafiaethydd hwnw fod y cyfenw Ffrengig *Louis* yn deilliaw o Llefelys.

Ac yn ddiodei, parotowyd llongau, gan eu llanw o farchogion arfog; a chychwynwyd tua Ffrainc. A chynted ag y daethant i dir, danfonasant genhadau at bendeigion Ffrainc yn hysbysu amcan y neges y daethent i'w cheisio. A thrwy gydgynghor pendeigion a thywysogion, rhoddwyd y forwyn i Lefelys a choron y deyrnas gyda hi. Ac wedi hyny, efe a lywiodd ei deyrnas yn gall a doeth a dedwydd tra parhaodd ei oes.

Wedi lithro talm o amser heibio, disgynodd tri phla ar Ynys Prydain na welsai neb yn yr ynys oedd hyn eu cyffelyb. Y cyntaf ohonynt oedd rhyw genedl a ddaeth yma o'r enw Corraniaid¹; a chymaint oedd ei gwybodaeth, fel nad oedd ymadrodd dros wyneb yr Ynys, pa mor isel bynag y dywedid ef, os cyffyrddai y gwynt âg ef, ar nis gwybyddent. A thrwy hyn, nis gellid eu niweidio.

Yr ail bla oedd ysgrech a glywid bob nos Calanmai uwchben pob aelwyd yn Ynys Prydain. A'r waedd hono a dreiddiai trwy galonau y dynion, ac a'u dychrynai gymaint fel y collai y gwyr eu lliw a'u nerth, a'r gwragedd eu beichiogiad, a'r meibion a'r merched a gollent eu synhwyrau, a'r holl anifeiliaid, a'r coed, a'r dyfroedd, a wneid yn ddiffwrth.

Y drydedd ormes ydoedd:—Pa faint bynag o fwyd ac arlwy a baratoid yn llysoedd y brenin, hyd yn nod pe buasai yno arlwy blwyddyn o fwyd a diod, ni cheid byth ddim ohono ond yr hyn a dreulid y noson gyntaf. Yr oedd achos y pla cyntaf yn hysbys; ond am y ddau bla arall, nid oedd neb a wyddai eu hystyr. Ac oherwydd hyny, yr oedd gwell gobaith cael gwared o'r cyntaf nag o'r ail a'r trydydd.

A Lludd frenin a deimlai yn bryderus a thrallodus iawn, gan na wyddai pa fodd i gael gwared o'r plaau hyny. Ac efe a alwodd ato holl bennaethiaid ei deyrnas, gan ofyn eu cynghor pa beth i'w wneud yn erbyn y plaau. Ac yn ol cynghor ei bennaethiaid, Lludd ab Beli a aeth at Llefelys ei frawd, brenin Ffrainc, i ofyn cynghor ganddo ef canys gwr synwryol a doeth ydoedd.

¹ *Corraniaid*.—Sonir am y gormeslwyth hwn mewn amryw o'r *Trioedd*. Gelwir hwynt yn un o'r 'Tair Ciwdawd Ormes, a ddaethant i Ynys Prydain ac nid aethant fyth ohoni;' a dywedir mai o wlad y Pwyl y daethant. Rhestrir hwynt gyda'r Rhufeiniaid a'r Saeson tan y penawd 'Tair Gormes Gadarn.' Yn *Tri* 14, cofnodir yr achos iddynt gael cyfle i ddyfod i'r Ynys hon:— 'Tair Cyforddwy a aethant o Ynys Prydain: Cyntaf, yr un a aeth y gan Ur ab Erin Lwyddawg o Lychlyn, ac efe a ddaeth i'r Ynys hon yn amser Gadhial ab Erin i erchi cymmorth yr ynys hon dan adduned na cheissai o bob Prifgaer namyn y rhif a ddelai ganthaw iddi; ac ni ddelai ganthaw amgen nag un i'r gaer gyntaf, namyn ei hun ai was Mathratta fawr, ac o honno cael dau, ac o'r ailgaer pedwar, ac o'r drydygaer myned yn wyth, ac o'r nesaf unarbuntheg, a herwydd hyny o gysedryd o bob caer arall, hyd onid oedd o'r Gaer ddiweddaf nis gellid eu rhif yn yr holl ynys. A ohydag ef y daeth teirmil a thrugaint, ac un mil, ac nis gellid iddaw fwy no hyny yn yr holl ynys o wyr cyfalleu, gan nad oedd namyn plant a hynawgwyr ar ei ol. A llwyrta lluydd a fu erioed oedd Ur ab Erin Lwyddawg, ac ar ddiystyrdod y bu gan Geneall y Cymry roddi hyny iddaw dan adduned anesgorawl, canys o hyny y cufas y CORRANIAID le i ddwyn cyrch Gormes i'r Ynys hon.'

A gwnaed y llynges yn barod, a hyny yn ddirgel ac yn ddystaw, rhag i'r genedl hono wybod amcan y neges, na neb arall oddieithr y brenin a'i gynghorwyr. A phan oeddynt yn barod, aethant i'r llongau, Lludd a'r nifer a ddewisasai i fyned gydag ef. A dechreusant rwygo y môr a myned yn nghyfeiriad Ffrainc.

A phan ddaeth y newydd am eu dyfodiad at Lefelys, gan nas gwyddai ef beth oedd amcan llynges ei frawd, efe a ddaeth o'r tu arall i'w gyfarfod, a llynges ganddo ddirfawr ei maint. A phan welodd Lludd hyny, efe a adawodd yr holl longau allan ar y weilgi oddieithr un. Ac yn yr un hono, efe a ddaeth i'w gyfarfod ef. A phan gyfarfuant, dodasant eu dwylaw am yddfau eu gilydd, a chroesawodd y naill y llall â chariad brawdol.

Wedi i Lludd fynegi i'w frawd ystyr ei neges, Llefelys a ddywedodd y gwyddai ei hun hanes dyfodiad y plaau. Yna hwy a gymerasant gynghor pa fodd i ymddiddan am y neges yn wahanol i hyny, fel na chyffyrddai'r gwynt â'u hymadroddion, a rhag gwybod o'r Corraniaid yr hyn a ddyweddynt. A pharodd Llefelys wneud corn hir o bres, a thrwy y corn hwnw yr ymddyddanent. Ond pa ymadrodd bynag a ddywedai pob un o honynt yn y corn, ni chlywai y llall yn y pen arall ond geiriau croesion ac atgas. A phan welodd Llefelys fod y cythraul yn eu rhwystro ac yn terfysgu yn y corn, efe a barodd ddodi gwin yn y corn a'i olchi; a thrwy rinwedd y gwin y gyrwyd y cythraul o'r corn. A phan ydoedd eu hymadrodd yn ddirwyst, Llefelys a ddywedodd wrth ei frawd y rhoddai iddo rhyw bryfaid, a'i fod i gadw rhai ohonynt yn fyw i hilio, rhag damweinio o rhwy ormes gyffelyb rywbyrd wedi hyny; a chymeryd y lleill o'r pryfaid a'u briwio mewn dwfr. Ac efe a sicrhau fod hyny yn dda i ddistrywio cenedl y Corraniaid. Nid amgen, pan yr elai adref i'w deyrnas, gwahodd yr holl bobl yn nghyd, ei genedl ei hun a chenedl y Corraniaid, er ymgynghori, tan yr esgus o wneud heddwch rhyngddynt. A phan fyddai pawb ohonynt yn nghyd, cymeryd y dwfr rhinweddol hwnw a'i fwrw ar bawb yn gyffredinol. Ac efe a sicrhau y gwenwynai y dwfr hwnw genedl y Corraniaid, ac na laddai ac na niweidiai ei genedl ef ei hun.

'Yr ail bla,' eb efe, 'sydd yn dy diriogaeth di, draig ydyw. A draig arall i estron-genedl sydd yn ymladd â hi, ac yn ceisio ei gorchfygu. A'r pryd hyny, y rhydd eich draig chwi ysgrech arswydawn. Ac fel hyn y gelli di gael gwybod hyny:—Wedi dychwelyd adref, pâr fesur hyd a lled yr Ynys, ac yn y lle y cai di fod yr union ganolbwynt, pâr dori twll yn y lle hwnw. Yna pâr ddodi llonaid cerwyn o'r mêdd goreu y gellir ei wneuthur yn y twll, a doddi llen o bali ar wyneb y gerwyn. A bydd di yno yn dy berson dy hun yn gwylio, a thi a weli y dreigiau yn ymladd yn rhith anifeiliaid aruthr. Ac o'r diwedd, hwy a gymerant rith

dreigiau yn yr awyr. Ac yn ddiweddfaf oll, wedi iddynt ymladd yn greulawn a ffyrnig nes llwyr fino. hwy a syrthiant yn rhith dau borchell ar y llen, ac a suddant gyda'r llen hyd i waelod y gerwyn. A hwy a yfant yr holl fêdd, ac a gysgant wedi hyny. Yna, yn y fan, plyga dithau y llen am danynt; ac yn y lle cadarnaf yn dy deyrnas. cladd hwynt a chudd mewn daear. A chyhyd ag y byddont hwy yn y lle cadarn hwnw, ni ddaw pla i Ynys Prydain o le arall.'

'Achos y trydydd pla,' eb efe, 'ydyw gwr cadarn lledrithiog, yr hwn sydd yn dwyn dy fwyd, a'th ddioid, a'r arlwy. A hwnw, trwy ei hud a'i ledrith, a bâr i bawb gysgu. Gan hyny, y mae yn rhaid i tithau dy hunan yn bersonol wylio dy wledau a'th arlwyon. A rhag ofn i'w gysgu ef orfod arnat tithau, bydded llonaid cerwyn o ddwfr oer yn dy ymyl, a phan ddaw cwsg yn drwm arnat, ymdaf i'r gerwyn.'

Yna y dychwelodd Lludd drachefu i'w wlad. Ac yn ddiymaros, gwysiodd ato bawb yn llwyr o'i genedl ei hun, ac o'r Corraniaid. Ac fel y dygodd Llefelys ef, briwiodd y pryfed yn y dwfr. a thafodd hwnw dros bawb yn ddiwahan-iaeth; ac yn ddioedi dyfethwyd holl giwdod y Corraniaid, heb wneud dim niwed i'jun o'r Brutaniaid.

Ac yn mhen yspaid ar ol hyny, Lludd a barodd fesur yr Ynys ar ei hyd a'i lled. Ac yn Rhydychain y cafwyd y canolbwynt, ac yn y lle hwnw parodd wneud twll yn y ddaear, ac yn y twll hwn osod cerwyn yn llawn o'r mêdd goreu allesid ei wneuthur, a llen o bali ar ei wyneb. Ac efe ei hun y nos hono oedd yn gwylio. Ac fel yr oedd efe felly, efe a welai y dreigiau yn ymladd. Ac wedi blino a diffygio, hwy a ddisgynasant ar y llen, ac a'i tynasant hi i'w caulyn i waelod y gerwyn. Ac wedi iddynt yfed y mêdd, cysgu a wnaethant. Ac yn eu cwsg, Lludd a blygodd y llen yn eu cylch, ac a'u cuddiodd mewn cistfaen yn y lle dyogelaf a gafodd yn Eryri; a galwyd y lle hwnw o hyny allan Dinas Emrys,¹

¹ *Dinas Emrys*—Y mae Chwedl y Dreigiau yn eithaf adnabyddus i bob darlennydd Cymreig. Dywed y *Trioedd* yn mhellach am danynt:—'Tair Cudd a Datgudd Ynys Prydain: Trydydd oedd y dreigiau a guddiwyd gan Ludd ab Beli yn Ninas Pharaon yn Nghreigiau Eryri; a'r tri chudd hyny a ddoded yn nawdd Duw a'i riniau, ac anpoed Gwaeth o'r awr a'r on a'i datguddiai. Gwrtheyrn Gwrthenau a ddatguddiawdd y Dreigiau er dial anfodd y Cymry parth ag ef, ac a wahoddes y Saeson dan rith gwyr porth i ymladd a'r Gwydyl Ffichti; a gwedi hyny y datguddiawdd efe esgyrn Gwrtheyfyr Fendigaid, o serch ar Ronwen ferch Hengist Sais.' Wedi i'r Saeson gael y llaw uwchaf ar Gwrtheyrn, enciliodd am ei fywyd i Eryri, i le a elwir eto Nant Gwrtheyrn, lle y dechreuodd adeiladu caer er ei ddyogelwch. Ond cymaint o waith maeu ag a wneid yn y dydd a suddai o'r golwg yn y nos. Parhaodd hyn am hir amser, a phob ymdrech adedadu'r gaer yn gwbl adwyddianus. Ymgyngorodd yntau a'i ddoethion a'i ddewiniaid pa beth fyddai goreu i'w wneud. Nid allent hwythau roddi unrhyw gynghor iddo; ond er mwyn celu eu hanwybodaeth, dywedent rywbeth. Anogent ef i gael mab di-dad, a thywallt gwaed hwnw a'i gymysgu â'r cymrwd. Hir a maith a fu ymchwil cenhadau yr hen deyrn ofergoelus am y cywreint-beth o fab heb dad. Ond o'r diwedd, tybient en bod wedi dyfod o hyd iddo yn mherson Annfab y Llian, ger tref Caerfyrddin. Dygasant ei fam ac yntau gerbron y brenin i Eryri; a phan oedd ei waed ar gael ei dywallt, efe a ddeisyfodd ar y brenin ddwyn y dewiniaid ger ei fron ef. Yna anerchodd hwynt yn eofn.—'Am nas gwyddoch pa beth sydd o dan sylfaen y castell yn rhwystro

a chyn hyny Dinas Ffaraon. Ac felly y peidiodd yr ysgrech gynhyrfus oedd yn ei deyrnas.

Wedi hyny, Lludd Frenin a barodd arlwyo gwledd ddirfawr ei maint. A phan oedd hono yn barod. gosodwyd cerwyn yn llawn o ddwfr oer gerllaw iddo, ac efe ei hun yn bersonol a'i gwyliodd. Ac fel yr oedd ef felly, yn wisgedig âg arfau, tua'r trydedd wylfa o'r nos, wele efe a glywai lawer o ddyddanau godidog a chanu amryfal. A syrthni oedd yn ei gymhell i gysgu; ac am hyny, rhag iddo gael ei rwystro yn ei amcan, ac i gwsg ei orthrechu, myned yr ydoedd yn fynych i'r dwfr. Ac o'r diwedd, wele wr dirfawr ei faint, ac wedi ei wisgo âg arfau trymion, cedyrn, yn dyfod i mewn, a chawell ganddo. Ac yn ol ei arfer, yn doddi yr holl seigiau a'r arlwy o fwyd a diod yn y cawell, ac yn cychwyn âg et ymaith. Ac nid oedd dim rhyfeddach gan Ludd na bod y cawell hwnw yn cynwys cyn gymaint.

Ar hyny, Lludd Frenin a gychwynodd ar ei ol, ac a ddywedodd fel hyn wrtho, 'Aros, aros,' eb efe. 'er cymaint o sarhadau a cholledion a wnaethost imi cyn hyn, nis gwnei bellach, oni byddi di yn drech ac yn ddewrach ymladdwr na mi.'

Yntau yn y fan a roes y cawell i lawr, ac a'i harosodd ef ato. Ac ymladdfa ddychrynlyd a fu rhyngddynt, nes oedd tân llachar yn ehedeg o'r arfau. Ac o'r diwedd, tyngedfen a welodd yn dda roddi'r fuddugoliaeth i Ludd, ac efe a fwriodd yr ormes i'r llawr. Ac wedi iddo orfod arno trwy rym a nerth, efe a atolygodd ei faddeuant. 'Pa fodd,' ebe'r brenin, 'y gallwn i faddeu iti wedi cynifer o sarhadau a cholledion ag a wnaethost imi?' 'Yr holl golledion,' ebe yntau, 'a wnaethum i iti, mi a'u had-dalaf yn gyfangwbl. Ac ni wnaif gyffelyb drosedd yn dy erbyn o hyn allan; a gwr ffyddlawn a fyddaf iti bellach.' A'r brenin a gymerodd hyny ganddo. Ac felly y gwaredodd Lludd y tair gormes oddiar Ynys Prydain. Ac o hyny hyd ddiwedd ei oes, mewn heddwch llwyddianus y llywiodd Lludd ab Beli Ynys Prydain. A'r chwedl hon a elwir Ystori Lludd a Llefelys. Ac felly y terfyna.

i'r gwaith sefyll anogasoch y brenin i fy rhoddi i farwolaeth: a chymysgu fy ngwaed gwirion a'r defnyddiau. Dywedwch, os medrwch, pa beth sydd tan y sylfaen; canys rhaid fod yna ryw beth anghyffredin.' Ond ni fedrai'r dewinaid roddi un ateb. Yna ebe'r llanc, 'Arglwydd frenin, pâr gloddio dan y sylfaen, a thi a gai llyn mawr, a dyna pabam na saif y gaer.' Ac wedi cloddio cafwyd y llyn. Ac ebe'r llanc drachefn, 'Chwi dwyllwyr anfad, pa beth sydd dan y llyn?' Ond nid atebasant air. Yna efe a barodd i'r brenin ddyhysbyddu'r llyn, ac y ceid dan geufæn yn ei waelod, ac o fewn iddynt ddwy ddraig yn cysgu. Dyhysbyddwyd y llyn, a chafwyd y cyfan fel y dywedwyd. Euillodd hyn oll iddo fafr y brenin; ac yn lle Annfab y lliau, galwyd ef o hyn allan yn Merddin Emrys y Dewin. Yr oedd Gwrtheyrn yn llygad-dyst o'r frwydr arawydus a gymerodd le rhwng y ddwy ddraig ar eu dyfodiad i fynu o waelod y llyn. Un ohonynt oedd yn goch, a gwen oedd y llall. Poerent dân, ac ysgydwent eu cynffonau anferth yn arswydus. Dyna fraslun o'r traddodiad a geir am y Dreigiau. Y Ddraig Goch ydyw arwyddluman cenedlaethol y Cymry er's llawer o ganrifoedd. Gweler hanes manylach am hyn yn *Cymru F'u* t. d. 108.

BREUDDWYD MACSEN WLEDIG.

MACSEN WLEDIG¹ oedd ymherawdwr yn Rhufain; ac efe oedd yr ymherawdwr harddaf, a doethaf, a goreu, a fu yno o'i flaen. Ac un diwrnod, cynal cynghor brenhinol yr ydoedd, ac efe a ddywedodd wrth ei anwyliaid, 'Yfory mi a fynaf fyned i hela.' Tranoeth y bore, efe a gychwynodd gyda'i orsgorddlu, ac a ddaeth i ddyffryn yr afon oedd yn rhedeg i Rufain. A hela yn y dyffryn y bu hyd haner dydd. A chydag ef nid oedd lai na deuddeg ar hugain o frenhinoedd coronog, yn wyr iddo. Ac nid er mwyn digrifwch yr hela yr elai yr ymherawdwr yn benaf, ond er mwyn gwneuthur ei hun yn gydradd â'r brenhinoedd hyny.

A'r haul oedd yn uchel yn yr awyr uwch eu pen, a'r gwres yn fawr, a chwsig a ddaeth at yr ymherawdwr. A beth a ddarfu ei weision ond doddi eu tarianau ar flaen eu gwaewffyn i'w gysgodi rhag gwres yr haul; a dodasant darian aurwyneb tan ei ben. Ac felly Macsen a gysgodd.

Yna efe a welodd freuddwyd, a dyma'r breuddwyd a welodd. Gwelai ei fod yn cerdded dyffryn yr afon hyd ei tharddiad; ac i'r mynydd uwchaf yn y byd y daeth. Efe a debygai fod y mynydd cyn uchod a'r awyr; ac wedi myned tros y mynydd, efe a welai ei hun yn cerdded y gwledydd tecaf a gwastataf a welsai dyn erioed, o'r tu arall i'r mynydd. A gwelai brif afonydd mawrion yn rhedeg o'r mynydd i'r môr, a thuag at eneau yr afonydd y cerddai yntau. Ac wedi hir gerdded felly, efe a ddaeth i aber [genau] y brif afon fwyaf a welsai neb. A phrif ddinas a welai yn aber yr afon; a chaer fawr yn y ddinas, a thyrau uchel ac aml-liwiog yn y gaer. A llynges a welai yn aber yr afon, a'r llynges fwyaf oedd hono a welsai neb erioed. A gwelai long neillduol yn mysg

¹ *Macsen Wledig*.—Efe yw *Clemens Maximus* hanesiaeth Rufeinig. Y mae dirfawr amrywiaeth barn yn nghylch ei gymeriad a digwyddiadau ei fywyd. Yn ol y *Brutiau* Cymreig, mab ydoedd i Lewelyn, brawd Trahaearn; ond dywed Gibbon, yn y *Rise and Fall*, mai Ysphaenydd, o darddiad isel, oedd. Y mae'r holl awdurdodau yn cytsynio iddo fod yn gadlywydd llengau Rhufain yn yr Ynys hon; a'i fod wedi priodi Elen Luyddawg, merch Eudaf ab Bran. Yn ol rhai awduron, torodd allan mewn gwrthryfel yn erbyn y gallu Rhufeinig, a chroesodd y môr i Gal yn Ffrainc, gan ddwyn llu enfawr o Brydeiniaid gydag ef, a llwyr enill Ffrainc ac Ysphaen oddiar ymherawdwr Rhufain; oddiyno, iddo ymdaith yn fuddugoliaethus i Rufain, a chyrrhaedd y wisg bor-phor ymherodrol trwy waed a chelanedd; ac am hyny, yr adwaenir ef fel Maximus Greulawn. Eraill a ddywedant mai ei ethol a gafodd yn Ymberawdwr Rhufain, gan y fyddin ymherodrol. Dechreuodd ei deyrnasiad yn 383, a therfynodd yn 388. Lladdwyd ef yn Aquileia, ar ol cael ei orchfygu gan Theodosius a Valentinian yr ieuangaf. Cyhoeddwyd y Fabinogi hon gyntaf yn *Great Llundain*.

y llynges, a mwy o lawer oedd hono a thecach na'r llongau eraill oll. A'r hyn oedd o'r llong uwchlaw y môr, un ystyllen oedd wedi ei goreuro a'r llall wedi ei harianu. Pont o asgwrn morfil a welai yn cyrhaedd o'r llong hyd y tir, a thybiai ei fod yn myned ar hyd y bont hono i'r llong. A dyrchafwyd hwyl ar y llong, ac ar fynwes y môr a'r weilgi y cludwyd hi ymaith. A gwelai eu bod yn neshau at yr ynys decaf yn yr holl fyd. Ac efe a gerddodd ar draws yr ynys o fôr bwygilydd, hyd ymyl eithaf yr ynys. Cymoedd a welai, a chlogwyni a chreigiau uchel a geirwon, a rhaiadrau na welsai erioed eu cyffelyb. Ac oddiyno efe a welai ynys yn y môr gyferbyn â'r tir garw-wyllt hwnw. A rhyngddo a'r ynys hono gwelai wlad a'i gwastatir gymaint a'r môr, a'i mynydd cyhyd a'i choed. Ac o'r mynydd hwnw, afon a welai yn rhedeg ar draws y wlad, ac yn cyrchu i'r môr. Ac yn aber yr afon, gwelai y castell tecaf a welodd dyn erioed. A phorth y castell oedd yn agored, ac efe a aeth i mewn i'r castell. Ac yn y gaer efe a welai neuadd deg, a thybiai fod tô y neuadd yn aur oll, a'i muriau bwygilydd yn feini disglær a gwerthfawr, a'i dorau yn aur oll. Meinciau o aur oedd yn y neuadd, a byrddau o arian. Ac ar y faine gyferbyn âg. ef, gwelai ddau was ieuanc, gwallt wineu, yn chwareu gwyddbwyll. Clawr (*board*) arian a welai i'r gwyddbwyll, a gwerin (*men*) o aur. Gwisg y llanciau oedd o bali purddu; a rhagtalau (*chapelets*) o aur yn cynal eu gwallt, a meini mawrwerth disglær ynddynt; gemau a rhuddemau (*rubies*) bob yn ail â'r meini ymherodrol. Esgidiau o gordwal newydd oedd am eu traed, a phinau o aur rhudd yn eu cau.

Ac wrth fôn colofn yn y neuadd, gwelai wr â gwallt llwydwyn yn eistedd mewn cadair o asgwrn eliphant, a delw dau eryr arni o ruddaur. Braichrwyfau (*bracelets*) aur oedd am ei freichiau, a modrwyon aml ar ei ddwyllaw, a thorch o aur am ei wddf, a rhactal o aur yn cynal ei wallt. A golwg nerthol oedd arno. Clawr gwyddbwyll o aur oedd o'i flaen, a llathen euraidd yn ei law a lli o ddur. A llunio a thori gwerin gwyddbwyll yr ydoedd.

A morwyn a welai yn eistedd ger bron y gwr mewn cadair o ruddaur. Ac er mor anhawdd ydyw edrych ar yr haul pan fyddo ddisgleiriaf, nid hawddach oedd edrych arni hithau gan ei harddwch digyffelyb. Gwisg o sidan gwyn oedd am dani, a chlaspiâu o ruddaur ar ei bron, a surcot o bali euraidd am dani, a rhactal o aur am ei phen, a gemau a rhuddemau bob yn ail yn y rhactal hefo perlau a meini ymherodrol. Gwregys o aur rhudd oedd am ei chanol. A hi oedd y forwyn harddaf a welodd dyn erioed.

A chodi a wnaeth y forwyn o'r gadair i'w gyfarfod, a doddi a wnaeth yntau ei ddwyllaw am wddf y forwyn, a hwy a eisteddasant ill dau yn y gadair aur; ac nid oedd gyfyngach y gadair iddynt ill dau nag i'r forwyn ei hun. A phan ydoedd ef a'i ddwyllaw am wddf y forwyn, a'i rudd wrth ei grudd hithau, wele,

gan drwst y cŵn wrth eu cynllyfanau (*leashings*), a thrwst y tarianau yn curo yn erbyn eu gilydd, a phelydrau yr haul yn syrthio arno rhyngddynt, yn nghyda gweryriad a phranciadau y meirch, deffrodd yr ymherawdwr. Ac wedi deffro, nid oedd hoedl, nac einioes, na bywyd iddo am y forwyn a welsai trwy ei hun, gan nad oedd asgwrn ynddo na gewyn heb fod yn llawn o gariad ati. Ac ebe'r teulu wrtho, 'Arglwydd, onid yw dros ben amser iti gymeryd dy fwyd?' Yna esgynodd yr ymherawdwr ar ei geffyl, yn dristaf gwr a welodd dyn erioed, ac a ymdeithiodd tua Rhufain.

Ac felly y bu ar hyd yr wythnos hono. Pan elai y teulu i yfed gwin a mêdd o'r llestri aur, nid elai ef gyda neb ohonynt hwy. Pan elent hwy i'r cyngherddau a chwareuon, nid elai ef gyda hwynt, ac ni wnelai ef ddim o hyd ond cysgu. A phob tro y cysgai, gwelai y wraig a garai fwyaf trwy ei gysg; a'r amser na chysgai, ni welai ddim ohoni, gan nas gwyddai yn y byd pa le yr oedd hi yn byw.

Ac un diwrnod, ebe gwas yr ystafell wrtho (ac er ei fod yn was ystafell, brenin Romani ydoedd), 'Arglwydd, y mae dy holl wyr yn dy gablu.' 'Paham y cablant hwy fi?' ebe'r ymherawdwr. 'Am na chânt genyt na neges nac ateb fel yr haeddai gwyr gan eu harglwydd. Dyna y, paham y maent yn dy gablu.' 'Ha! was,' ebe'r ymherawdwr, 'dwg dithau ddoethion Rhufain yma, ac mi a ddywedaf wrthynt, paham yr wyf yn athrist.'

Yna cyrchwyd doethion Rhufain at yr ymherawdwr, ac eb efe, 'Ddoethion Rhufain, mi a gefais freuddwyd; ac yn y breuddwyd, gwelwn forwyn, ac nid oes hoedl, na bywyd, nac einioes imi am y forwyn hono.' 'Arglwydd,' ebynt hwythau, 'gan i ti weled yn dda i ofyn ein cynghor, ni a'th gynghorwn. Dyma ein cynghor:—Danfon genhadau am dair blynedd i dair rhan y byd i geisio yr hon y breuddwydiaist am dani. A chan na bydd iti wybod y dydd neu y nos y daw newydd da atat, bydd i'r gobaith am hyny gynal dy feddwl i fynu.'

Felly teithiodd y cenhadau hyny am flwyddyn, gan grwydro y byd, a cheisio rhyw hanes am y breuddwyd. Ond pan ddaethant yn ol yn mhen y flwyddyn, ni wyddent ddim mwy am dani na'r dydd y cychwynasant. A'r ymherawdwr a dristhaodd, gan dybied na chlywai byth mwyach am y wraig a garai fwyaf.

A dywedodd brenin Romani wrth yr ymherawdwr, 'Arglwydd,' eb efe, 'dos i hela y ffordd y gwelit dy fod yn myned yn dy freuddwyd, pa un bynag ai tua'r dwyrain ai tua'r gorllewin.' A'r ymherawdwr a gychwynodd i hela, ac a ddaeth hyd at lan yr afon. 'Dyma lle yr oeddwn,' eb efe, 'pan welais y breuddwyd; ac yn nghyfeiriad blaen yr afon, tua'r gorllewin, y cerddwn.'

Yna cenhadau yr ymherawdwr, tri gwr ar ddeg, a gerddasat rhagddynt.

Ac o'u blaen, gwelent fynydd mawr a dÿbient oedd yn cyrhaedd yr awyr. A dyma fel yr oedd y cenadau yn cêrdded: un llawes oedd ar gapan pob un ar ei dalcen, yn arwydd mai cenadau oeddynt, fel na wneid niwed iddynt pa wlad ryfelgar bynag yr elent drwyddi. Ac wedi dyfod dros y mynydd hwnw, gwelent wledydd mawrion a gwastad, a phrif afonydd yn rhedeg trwyddynt, 'Dyma,' ebynt hwy, 'y wlad a welodd ein harglwydd ni.'

A hwy a gerddasant heibio i eneuau afonydd hyd nes y daethant at brif afon a welent yn llifo i'r môr, ac at y ddinas fawr, a thyrau uchel ac aml-liwiog ar ei chastell. Ac yn aber yr afon, gwelent y llynges fwyaf yn y byd, ac un llong oedd y fwy na'r lleill. 'Dyma eto,' ebynt hwy, 'y breuddwyd a welodd ein harglwydd ni.' Ac yn y llong fawr hono y daethant ar y môr i Ynys Prydain. A'r Ynys a gerddasant nes dyfod i Eryri. 'Dyma eto,' ebynt hwy, 'y wlad greigiog a welodd ein harglwydd ni.' Yna hwy a ddaethant rhagddynt, nes y gwelent Fon gyferbyn â hwynt, ac y gwelent Arfon hefyd. 'Dyma,' ebynt hwy, 'y tir a welodd ein harglwydd trwy ei hun.' A gwelent Aber Saint, a'r gaer yn aber yr afon. A phorthi y gaer a welent yn agored, ac i mewn i'r gaer yr aethant. A neuadd a welent yn y gaer. 'Dyma,' ebynt hwy, 'y neuadd a welodd ein harglwydd trwy ei hun.'

A hwy a aethant i'r neuadd, a gwelent ddau lanc yn chwareu gwyddbwyll ar y fainc aur. A gwelsant y gwr llwydwyn yn eistedd yn môn y golofn yn ei gadair ifori, gan dori a llunio gwerin i'r gwyddbwyll. A gwelsant y forwyn yn eistedd mewn cadair o ruddaur.

A phenliniodd y cenadau, ac ebynt hwy, 'Ymherodres Rhufain, henffych well!' 'Hawyr da!' ebe'r forwyn, 'anian pendefigion a welaf arnoch, ac arwyddion cenadau, paham yr ydych yn fy ngwawdio?' 'Nid dy wawdio yr ydym, arglwyddes; eithr ymherawdwr Rhufain a'th welodd di trwy ei hun mewn breuddwyd, ac nid oes iddo einioes na hoedl am danat. Dy ddewis a gai genym ni, arglwyddes, pa un ai dyfod gyda ni i'th wneuthur yn ymherodres yn Rhufain, ynte i'r ymherawdwr ddyfod yma, a'th gymeryd yn wraig iddo.' 'Hawyr da!' ebe'r forwyn, 'nid wyf yn anmheu yr hyn a ddywedwch chwi, nac yn ei gredu ychwaith yn ormod. Eithr os yw yr ymherawdwr yn fy ngharu, deued yma i'm nol.'

A thrwy ddydd a thrwy nos y prysurodd y cenadau yu ol drachefn. Ac fel y diffygai eu meirch, prynent eraill o newydd. A phan ddaethant i Rufain cyfarch gwell i'r ymherawdwr a wnaethant, a gofyn am eu coelfain¹, yr hyn a gaent fel y gofynent. 'Ni a fyddwn yn arweinwyr iti, arglwydd,' ebynt hwy,

¹ *Coelfain*.—Newydd da; rhodd anrhydeddus a gwobr am rhyw gampwaith neillduol.

'ar fôr ac ar dir, hyd y lle y mae y wraig a geri fwyaf, ac ni a wyddom ei henw, a'i thras a'i bonedd.'

Ac yn ddiymaros cychwynodd yr ymherawdwr a'i luoedd, a'r gwyr hyny yn arweinwyr iddynt. Ac i Ynys Prydain y daethant, tros fôr a thros eigion. Ac efe a oresgynodd yr ynys, gan ei dwyn oddiar Beli ab Manogan a'i feibion, a'u gyru hwy i'r môr, ac a ddaeth rhagddo hyd i Arfon. Ac adnabu yr ymherawdwr y wlad pan ei gwelodd. A phan welodd y gaer yn Aber Saint, 'Welwch chwi acw,' eb efe, 'dacw y gaer y gwelais i y wraig a garaf fwyaf ynddi.' Ac efe a aeth rhagddo i'r gaer, ac i'r neuadd; ac yno gwelodd Cynan ab Eudaf¹ ac Adeon ab Eudaf yn chwareu gwyddbwyll, ac y gwelodd hefyd Eudaf ab Caradawg yn eistedd mewn cadair ifori, ac yn tori gwerin i'r gwyddbwyll. A'r forwyn a welsai trwy ei hun a welai yn eistedd mewn cadair o aur. 'Ymherodres Rhufain,' eb efe, 'heuffych well.' A'r ymherawdwr a roes ei ddwyllaw am ei gwddf; a'r nos hono, cydgyngu a wnaethant.

Bore dranoeth y forwyn a ofynodd am ei hagweddi² ganddo, am iddo ei chael yn forwyn. Yntau a barodd iddi nodi ei hagweddi. Hithau a ofynodd gael Ynys Prydain i'w thad, o Fôr Udd hyd i Fôr Iwerddon, a'r tair rhagynys i'w dal tan ymherodres Rhufain; a gwneud tair prif gaer iddi hithau yn y lleoedd a ddewisai yn Ynys Prydain. A hi a ddewisodd wneuthur yr uwchaf ohonynt yn Arfon. A dygwyd pridd o Rufain yno, fel y byddai'n iachusach i'r ymherawdwr gyngu, ac eistedd, a cherdded arno. Wedi hyny, gwnaed dwy gaer arall iddi, sef Caerlleon a Chaerfyrddin.

¹ *Cynan ab Eudaf*.—Adwaenir ef oreu wrth yr enw Cynan Meiriadog. Ei dad, Eudaf, oedd iarll Ergyng ac Ewas, yn Neheubarth Cymru; ac arglwydd Meiriadog, yn Nyffryn Clwyd. Yr oedd yn frawd i Elen Luyddaw; a chynullodd lu mawr i fyned i Lydaw, er cynorthwyo Macsen, ei frawd yn nghyfraith. Crybwyllr yn y Trioedd fod y fath nifer wedi gadael Prydain yn y rhyfelgyrch hwn, nes peri prinder gwyr o ryfel yn y wlad, yr hyn a fu'n achlysur i Gwrtheyrn a'r Saeson osod eu pebyll i lawr yma gyntaf. Rhydd y Trioedd y maulylion canlynol am gadgerchiad Cynan ac Elen:—Trydydd Cyforddwy a ddyweiniwyd o'r ynys honn y gan Elen Luyddaw a Chynan ei brawd, arglwydd Meiriadawc, hyd yn Llydaw, lle y cawsant Diroedd a Chyfoeth a Theyrnodd y gan yr amherawdr Macsen Wledig, am ei ganllofi yn erbyn Gwyr Rhufain. A'r gwyr hynny a hannerddynt o Dir Meiriadawc, ac o Dir Seisyllwg, ac o Dir Gŵyr a Gorwenydd; ac ni ddaeth yn eu hol yr un o honynt, eithr aros yn Llydaw, ac yn Ystre Gyfaelwg a wnaethant hwy gan wladychu yno. Ac achos honn o Gyforddwy y bu wanhâd a diffyg gwŷr arfawc ar genedl y Cymry onid aethant y Gwyddyl Ffichti yn ormes arnynt; ac o hyny y gorfu ar Wrtheyrn Gwrthenau gyrehu Saeson i ladd yr ormes honno, a'r Saeson yn gwelod Gwendid y Cymry, a droesant yn Fradormes drwy Gystlyniad y Gwyddyl Ffichti a'r Gwyr difrawd a hwynt, a dwyn eu tiroedd oddiar y Cymry, a dwyn hefyd oddiarnynt eu baint a'u coron. A thair Traha gadarn Cenedl y Cymry y gelwir y tair Cylorddwy yma; a hefyd y Tri Arianllu, achos dwyn o honynt o'r ynys honn yr aur a'r arian hyd y gellid eu cael o dwyll a dichell a difrawd, yn gystal ag o iawn a bodd; a'r Tair Annoeth Luyddaw a'u gelwir, am wanhân drwyddynt yr ynys honn gymmaint ag y rhoed lle drwy hynny i'r Tair Gormes Gadarn, sef y Corranaiad, a'r Caisariaid, a'r Saeson. Ceir yn *Mrut Gruffydd ab Arthur* hanes am Cynan sydd yn gwahaniaethu mewn llawer o bethau oddiwrth y Trioedd.

² *Agueddi*.—Yr un peth a Gwaddol neu Gynysgaeth Priodas.

Ac un diwrnod, pan oedd yr ymherawdwr yn hela yn Nghaerfyrddin, efe a ddaeth hyd i ben y Frefi Fawr, a phabellu yno a wnaeth; a Chadair Macsen y gelwir y lle y pabellodd hyd y dydd heddyw. Ac oherwydd fodd ganddo fyrdd o wyr yn adeiladu y gaer, efe a'i galwodd Caerfyrddin. Yna meddylodd Elen am wneud prif-fyrdd o bob caer i'w gilydd ar draws Ynys Prydain. A gwnaethpwyd y fyrdd. Ac o achos hyn y gelwir hwynt yn Ffyrdd Elen Luyddawg¹, am ei bod hi yn hanu o Ynys Prydain, ac na fuasai gwyr Ynys Prydain yn gwneuthur y fyrdd mawrion hyny i neb ond iddi hi.

Saith mlynedd y bu yr ymherawdwr yn yr Ynys hon. Ac yr oedd yn ddefod gan wyr Rhufain yn yr amser hwnw pa ymherawdwr bynag a drigai allan o'i wlad am saith mlynedd, a gollai ei hawl i'r swydd, ac na chai ddyfod i Rufain drachefn.

Yna hwy a wnaethant ymherawdwr newydd, a hwnw a ysgrifennodd lythyr bygwth at Macsen. Nid oedd yn y llythyr ddim ond, 'O deui di, ac o deui di byth i Rufain' Ac hyd i Gaerlleon y daeth y llythyr hwnw, a'r hanes i Macsen. Ac oddiyno y danfonodd yntau lythyr at y gwr a ddywedai ei fod yn ymherawdwr yn Rhufain. Nid oedd yn y llythyr hwnw ychwaith ddim ond, 'Os af inau i Rufain, ac os af.'

Yna ymdeithiodd Macsen a'i luoedd tu a Rufain, gan oresgyn Ffrainc a (*Burgundy*) a'r holl wledydd ar eu ffordd, ac a babbellodd wrth gaer Rhufain. Blwyddyn y bu yr ymherawdwr, ac nid oedd yn nes i'w chymeryd na'r dydd cyntaf. Ac ar ei ol ef y daeth brodyr i Eben Lwydawg o Ynys Prydain, a llu bychan ganddynt, ac yr oedd pob un o'r llu bychan hwnw yn well ymladdwyr na dim dau o wyr Rhufain. A dywedwyd wrth yr ymherawdwr fod llu wedi disgyn yn ymyl ei lu yntau, a'u bod yn pabellu; ac ni welodd dyn erioed lu tecach, na gwrolach, yn ol ei faint na hwnw, na banerau harddach nag oedd iddo.

Ac aeth Elen i weled y llu, ac adnabu banerau ei brodyr. Yna daeth Cynan ab Eudaf ac Adeon ab Eudaf i ymweled â'r ymherawdwr. A'r ymherawdwr a'u derbyniodd yn groesawgar, ac a'u coffeiodd.

¹ *Elen Luyddawg.* — Soniwyd eisoes am dani yn y nodiadau ar Macsen a Chynan; ac ar awdurdod y Fabinogi hon a'r Trioedd, dywedwyd ei bod yn chwae'r Cynan, ac yn wraig i Facsen. Ond yn ol y Brut, merch ydoedd i Coel Coedhebog, yr hwn a sefydlodd Gaer Goel (*Colchester* yn awr). Yn ol yr un awdurdod, rhoddwyd hi mewn priodas i'r Rhufeiniwr Constans. Mab o'r briodas hon oedd yr enwog Cwstenyn, yr hwn a alwyd o'i deyrnas yn Mhrydain i'r orsedd ymherodrol yn Rhufain, yn lle Macsen y Creulawn. Gelwir y fyrdd a adwaenir wrth yr enw *Roman Roads* yn Ffyrdd Elen; er y myn aml i anghredadyn mai Ffyrdd y Lheng y gelwid hwynt ar y cyntaf. Yr un modd hefyd am Sarn Elen a Dolydd Elen. Na chamgymerer yr Elen hon am Elen y Groegiaid, a chwareuodd ran bwysig yn Rhyfel Caerdroia (*Trojan War*), ac am lendid a thegwch gwedd digymhar yr hon y dywedai Dafydd ab Gwilym:—

Yr hon a beris yr ha',
A thrin rhwng Groeg a Thro'a.

Yna hwy a sylwasant ar wyr Rhufain yn ymosod ar y gaer. Ac ebe Cynan wrth ei frawd, 'Nyni a geisiwn ymosod ar y gaer yn well na hyn.' Ac yn y nos, hwy a fesurasant uchder y gaer. ac a ddanfonasant eu seiri i'r coed, a gwnaed ysgol i bob pedwar gwr ohonynt. A phan oedd yr ysgolion yn barod ganddynt, bob dydd am haner dydd cymerai y ddau ymherawdwr eu bwyd, a pheidiai pawb o bob tu ag ymladd hyd oni ddarfyddent fwyta. Ac yn y bore y cymerai gwyr Ynys Prydain eu bwyd, ac yfed a wnaethant nes teimlo yn llongryf. A phan oedd y ddau ymherawdwr wrth y bwyd, daeth y Brytaniaid at y gaer a dodasant eu hysgolion arni, ac yr oeddynt yn ddiymaros oddimewn i'r gaer.

Ni chafodd yr ymherawdwr newydd hamdden i wisgo ei farfau am dano, na ddaethant am ei ben, ac a'i lladdasant a llawer gydag ef. A theirnos a thridiau y buont yn gorchfygu y gwyr oedd yn y gaer, ac yn goresgyn y castell; a nifer arall ohonynt yn cadw y gaer rhag i neb o lu Macsen ddyfod iddi nes y byddent hwy wedi dwyn pawb yn ddarostyngol iddynt.

Yna dywedodd Macsen wrth Elen Luyddawg, 'Y mae yn syndod mawr genyf i arglwyddes, nad i mi y goresgynodd dy frodyr di y gaer hon.' 'Arglwydd ymherawdwr,' ebe hi, 'y bechgyn doethaf yn y byd yw fy mrodyr i. Dos dithau acw, a gofyn y gaer ganddynt; ac os ydynt wedi ei meddianu, hwy a'i rhoddant i ti yn llawen.' Ac yna y daeth yr ymherawdwr ac Elen at y llanciau i ofyn am y gaer. Dywedasant hwythau wrth yr ymherawdwr nad oedd gan neb hawl i'r gaer, nac i'w rhoddi iddo yntau, ond gwyr Ynys Prydain. Yna agorwyd pyrth caer Rhufain, eisteddodd yr ymherawdwr yn ei deyrugadair, a thalodd pawb o wyr Rhufain warogaeth iddo.

A dywedodd yr ymherawdwr wrth Cynan ac Adeon, 'Ha! wyr da, mi a gefais yn ol y cwbl o'm hymherodraeth. Mi a roddaf y llu hwn i chwithau i oresgyn y parth a fynoch o'r byd.

Hwythau a gerddasant rhagddynt gan oresgyn gwledydd, a chestyll, a dinasoedd. A lladdasant y gwyr oll, a gadawsant y gwragedd yn fyw. Ac felly y buont nes oedd y llanciau a aethant gyda hwynt yn hen wyr llwydion gan mor hir y parhaodd y rhyfelgyrch hwn.

Ac ebe Cynan wrth Adeon ei frawd, 'Pa un a fyni di, ai trigo yn y wlad hon ai myned i'th wlad enedigol.' Yntau a ddewisodd ddychwelyd i'w wlad ei hun, ac aeth llawer gydag ef. Ond arosodd Cynan, a'r rhan arall o'r llu, yn y wlad hono, gan ei phreswyllo.

A chymerasant gynghor, a thorasant ymaith dafodau y gwragedd rhag iddynt lygru eu hiaith. Ac oherwydd mudandod y gwragedd a'u diffyg llafar.

y gelwid gwyr Llydaw¹ yn Brytaen. Ac o'r pryd hwn y daeth eu hiaith, ac y daw eto, o Ynys Prydain.

A'r chwedl a elwir Breuddwyd Macsen Wledig, ymherawdwr Rhufain. Ac yma y terfyna.

¹ *Llydaw*.—Talaith yn ngogledd-ddwyrain Ffrainc, a adwaenir oreu mewn hanesiaeth tan yr enw *Armorica*. Celtiaid ydyw'r trigolion, a gelwir hwynt yn gefndryd i'r Cymry. Y mae cryn amrywiaeth barn yn mhilith hynafiaethwyr pa un ai ymfudo a ddarfu y Llydawiaid i Brydain, ar eu taith o grŵd y ddynoliaeth yn y Dwyrain; ynte y Prydeiniaid a ymfudasant i Lydaw, fel y dywed y Trioedd a ddyfynwyd eisoes, a'r traddodiad sydd ar ddiwedd y rhamant hon.

D I E E D D.

DANGOSEG I'R NODIADAU.

A				
Aberffraw	154
Aber Ceiriog	139
Addanc y Llyn	41
Addaon ab Taliesin	143
Agweddi	199
Alan, Coed	7
Allietwn	139
Amaethon	121
Amwobr	119
Anlawdd	105
Annwfn	176
Arawn	5,	176
Arduwy	14
Argyngroeg, Maes	140
Arianrod	10
Arthur...	24
Arthur, Llŷs	22

B				
Baddon, Brwydr	144
Bedwini	115
Bedwyr ab Bedrawd	87
Beli ab Manogan	143
Blodeuwedd	14
Brain Owain	73
Brauwen ferch Llŷr	152
Bran Fendigaid	152
Broch yn Nghod	173

C				
Cad Gamlan	141
Cadŷrnerth	76
Caerdyf	84
Cai Hir	24
Can mu	107
Canu mewn angladdan	62
Caradawg ab Bran	158
Caradawg ab Llŷr	84
Caswallon ab Beli	162
Cefn Digoll	144
Ceridwen	H.G.	179
Cilgwri	128
Coelfain	198
Coll (Nant)	7
Corddlan	106
Corn Yfed	57
Corraniad	191
Creiddylad	116
Cwm Cawlwyd	128
Cynal Cyfoeth...	64
Cynan ab Clydno	53
Cynan ab Eudaf	199
Cynfelyn Cendawd Pwyll	115
Cynwrig Frychgoch	139

D				
Dadweir Dallpen	110
Dathal, Caer	4
Dena, Fforest...	75
Diganhwy	89
Dilystwn Trefan	139
Dinas Emrys	190
'Diwyn fy ngwallt'	109
Doged	106
Dol Pebin	4
Drem ab Dremhidydd	113
Drudwas	111
Drych eil Cibddar	116
Dyfed	175
Dyfnwal Moelmud	113
Dylan eil Ton	11
Dyn	90

E				
Edeyrn ab Nudd	81
Edeyrnion	159
Eirchiald	86
Elain	9
Elen Luyddawg	200
Enid	86
Essyllt Fingul	116
Essyllt Finwen	116
Eurossydd	143

FF				
Fflewdrwr Fflam	110

G				
Gadwy	110
Garselit Wyddel	114
Gelliwig	113
Geneu'r Gwystyl	22
Geraint ab Erbin	74
Gildas ab Caw	82
Gleif	107
Glewlyd Gafael-fawr	53
Glyn Cuch	175
Goewin	4
Golchi Pen	63
Goreu ab Custenyn	76
Gorsedd Arberth	179
Greidiawl Galldofyd...	109
Gronw Pebyr...	15
Gwalchmai ab Gwyar	21
Gwallawg ab Llecnawg	84
Gwas	56
Gweir ab Gwestyl	150
Gwenhwyfar...	24
Gwgawn Gledlyfrudd	149

Gwlad yr Haf...	133
Gwledig	105
Gwrei Gwalstawt Ieithoedd	87
Gwrthmwl Wledig	151
Gwydion ab Don	4
Gwyddbwyll	39
Gwyddbwyll Gwenddolen	51
Gwyddno Garanhir	179
Gwyn ab Nudd	110
Gwynfryn, yn Llundain	162
Gwythyr	109

H

Harlech	143
Hefeydd Hen...	181
Heinyn Fardd	H.G.	179
Höb	5
Huail ab Caw...	111
Hudlath	9
Hywel ab Emyr Llydaw	46

I

Iawn am sarhad	155
Iddawc Corn Prydain	141
Indeg	115
Iowrth ab Meredydd	138
Irfwrn, Teml o	55
Isperyr Ewingath	110

L

Luned...	63
----------	-----	-----	-----	----

LL

Llachen ab Arthur	150
Llawrodded Farfawg	112
Llech Las	142
Llefelys	190
Llenlleawg Wyddel...	113
Llew Llaw Gyffes	12
Lliwio Tariauau	97
Lludd...	190
Llydaw	202
Llymhysten	79
Llyn Llywan	136
Llysenwau	75

M

Mabon ab Modron	124
Maccen Wledig	195
Maeigwyn Gwynedd...	H.G.	179
Maen Cudd	61
Manawyddan ab Llyr	165
March ab Meirchion...	145
Madawg ab Maredudd	138
Math ab Mathonwy	2
Melenryd	7
Melenydd	6
Meuw ab Teirgwaedd	111

'Meretic awyr uwch.'	117
Mochdrefi	6
Modrwy curffas	23
Moelfre yn Nghynllaith	139
Morfran ab Tegid	112
Morfudd	115
Morwynion, Llyn y	18
Mynweir a Mynorodd...	174

N

Nynniaw a Pheibiaw	121
--------------------	-----	-----	-----	-----

O

Olwen...	109
Osla Gyllellfawr	144
Owain ab Urien	54

P

Pair	156
Penardd, Maenor	7
Pengwaedd yn Ngernyw	108
Peredur	20
Porfoed	138
Porth Cleis	134
Powys	138
Pryderi	165
Pum' rhan Iwerddon	164
Fwyll Pendefig Dyfed	175

R

Rhagor	90
Rhagynys, Tair	113
Rhangyw (<i>Anjou</i>)	66
Rhiannon	181
Rhuawn Pebyr	110
Rhudwylure	140
Rhuddlan Teifi	5
Rhydygroes	140

T

Talebolion	166
Taliesin	H.G.	178
Talu'r Pwyth	8
Teirnon	113
Tlysau Ynys Prydain, 13	122
Tori Gwallt	106
Trydedd Ban	81
Trystan ab Tallwch	150
Trwrch Trwyth	124
Trwrnament	21
Tyle	140
Tyriawc, Maen	8

Y

Yehen Gwlwlyd	121
Ymdynghedu...	73
Ynys y Cedyrn	154
Ysbyttywr	73

Dangoseg i'r Cymraeg Diweddar.

MATH AB MATHONWY	-	-	-	2
PEREDUR AB EFROG	-	-	-	20
IARLLES Y FFYNON	-	-	-	54
GERAINT AB ERBIN	-	-	-	74
CILHWCH AC OLWEN	-	-	-	105
BREUDDWYD RHONABWY	-	-	-	139
BRANWEN FERCH LLYR	-	-	-	142
MANAWYDDAN AB LLYR	-	-	-	165
PWYLL PENDEFIG DYFED	-	-	-	175
LLUDD A LLEFELYS	-	-	-	190
BREUDDWYD MACSEN WLEDIG	-	-	-	195



